Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

# Hanes y ddrama ym Mon 1930-1975

Williams, O. Arthur

*Award date:*
2006

*Awarding institution:*
Bangor University

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 23. Feb. 2025

# HANES Y DDRAMA

# YM MÔN

# 1930 – 1975

(GYDA PHWYSLAIS AR Y DDRAMA
GYMRAEG)

O. Arthur Williams
Traethawd PhD
Prifysgol Cymru Bangor
2006

P.C.B LLYFRGELL
B LIBRARY

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Datganiadau | | |
| Crynodeb | | |
| Cydnabyddiaethau | | |
| Pennod 1 | Y CEFNDIR | 1 |
| Pennod 2 | TRI CHWMNI<br>(i) Rhoscefnhir<br>(ii) Llannerch-y-medd<br>(iii) Llangefni | 21 |
| Pennod 3 | CYNGOR GWLAD MÔN<br>a'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol | 115 |
| Pennod 4 | CYMDEITHAS DDRAMA LLANGEFNI | 181 |
| Pennod 5 | THEATR FACH LLANGEFNI | 222 |
| Atodiadau | | 264 |
| Llyfryddiaeth | | 334 |

# CRYNODEB


Ymgais yw'r traethawd hwn i gofnodi ac i gloriannu hynt a helynt y ddrama ym Môn yng nghanol yr ugeinfed ganrif gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddatblygiad y ddrama Gymraeg. Cydnabyddir mai dewisiadau hollol bersonol yw'r ffiniau 1930 a 1975 ond, yng nghorff y gwaith, ceisir eu cyfiawnhau a'u cadarnhau fel dwy garreg filltir arwyddocaol yn hanes y ddrama yn y sir.

Ysbrydolwyd yr awydd i ymgymryd â'r dasg yn bennaf gan gyfrol Elsbeth Evans, *Y Ddrama yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 1947. Yn y gyfrol fer honno, ceir amlinelliad o ddatblygiad ysbeidiol y ddrama Gymraeg o'i dechreuad yn yr Oesoedd Canol, hyd ganol yr ugeinfed ganrif, ac er hwyluso'r amlinelliad hwnnw rhannwyd yr hanes yn dri chyfnod clir – gorffennol, presennol a dyfodol. Yn seiliedig ar y rhaniadau hyn, ceisir mynd ati i bwyso a mesur yr hyn a ddigwyddodd ym myd y ddrama ym Môn gan gydnabod mai datblygiad naturiol ydoedd, ac mai enghraifft yn unig oedd Môn o'r hyn a ddigwyddodd yn gyffredinol ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod.

Wrth edrych yn ôl ar ddeugain mlynedd cyntaf yr ugeinfed ganrif, dyma beth a ddywedodd Elsbeth Evans:

> [F]e welir cynnydd amlwg iawn ym myd actio, llwyfannu, cyfansoddi, beirniadu a meddwl am ddrama. A'u cymryd at ei gilydd, y blynyddoedd o 1911 a 1927 yw'r rhai gorau o ran eu dramâu a'u beirniadaethau ...

Cadarnhawyd geiriau Elsbeth Evans gan Dafydd Glyn Jones. Wrth osod ffiniau i 'oes aur y ddrama Gymraeg', mentrodd Jones yn 1973 'ddynodi dengmlwydd ar hugain o'r cyfnod, 1910-1940' fel yr oes aur honno. Teimlir yn eithaf ffyddiog, felly, bod cynnig 1930 fel un o ffiniau'r gyfrol bresennol yn gynnig eithaf agos i'w le.

Wrth gloi ei phennod ar sefyllfa'r ddrama yng Nghymru yn 1947, dywedodd Evans fod 'gan y Ddrama Gymraeg lawer o ffordd i deithio', ac ar sail y geiriau hyn manteisiwyd ar y cyfle i ddilyn y daith honno ym Môn o 1947 ymlaen.

Roedd hi'n anodd, os nad yn amhosibl, i Elsbeth Evans fedru rhag-weld y dyfodol ac, o'r herwydd, byr a chyfyngedig oedd ei phennod olaf. Fodd bynnag, ceir arweiniad pellach gan Dafydd Glyn Jones. Yn ei farn ef, fe berthyn 'yr hen ddrama' Gymraeg i'r cyfnod rhwng 1886 a 1958 pryd y 'daeth diwedd ar yr hen ddrama pan giliodd ei chynulleidfa'. Mae Jones yn hollol sicr ei farn gan iddo ef ei hun 'weld y peth yn digwydd. Hydref 1958 ydoedd'. Ond ym Môn, credir bod digon o dystiolaeth ar gael sy'n awgrymu fod apêl yr 'hen ddramâu' wedi ymestyn drwy'r chwedegau hyd at ddechrau'r saithdegau. Ar sail hyn, penderfynwyd dewis 1975 fel ail ffin y gyfrol hon.

Cydnabyddir, wrth gwrs, nad yw'n bosibl cadw'n gaeth at 1930 a 1975 ac ni ellir, chwaith, ynysu datblygiad y ddrama ym Môn o'r hyn oedd yn digwydd yng ngweddill Cymru, yn Lloegr, yn Iwerddon ac yn Ewrop. Roeddynt i gyd yn rhan o'r un datblygiad. O'r herwydd, ceisir olrhain hanes y ddrama Gymraeg o ddegawdau olaf y ddeunawfed ganrif, a'i ddilyn ymlaen drwy gyfnod hir o orthrwm crefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac wedyn drwy'r cyfnodau o newidiadau cymdeithasol a ddilynodd y ddau ryfel byd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Drwy wneud hynny, ceisir croniclo 'ewyllys da a hunan-aberth

dynion a merched sydd eisoes yn gwneud gwaith amser-llawn mewn cyfeiriadau arall'. Dyma'r math o bobl fu'n

> [t]ramwyo'r ffyrdd ar bob tymor a phob tywydd, weithiau ddwywaith a thair yr wythnos wrth ganlyn y ddrama, wedi diwrnod o waith mewn siop, fferm a swyddfa, heb ddimai o elw personol. Dilyn eu hawydd a chael llawer o hwyl ... Ond, [hefyd, caed y] teimlad eu bod yn arloesi ac yn gosod sylfeini ac yn buddsoddi eu doniau mewn rhywbeth a fyddai'n cyfoethogi bywyd Cymru yn y man.

Os na chroniclir yr hanes yn fuan, fe gollir talp mawr o hanes y ddrama Gymraeg, yn arbennig felly ym Môn. Ymgais sydd yma, felly, i ddiogelu rhan bwysig o'r diwylliant Cymraeg. Yng nghorff y gyfrol, ceisir cyfleu gwerthfawrogiad o waith a chyfraniad cwmnïau drama Môn ynghyd â'r cynhyrchwyr, yr actorion, pobl cefn llwyfan, cefnogwyr, trefnwyr, Cyngor Gwlad Môn, Cymdeithas Ddrama Llangefni ynghyd â ffrwyth dylanwadol y gymdeithas honno, Y Theatr Fach. Rhoddir, hefyd, le amlwg i gyfraniad yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn y sir, ynghyd ag Eisteddfod Môn.

Fel y dywedodd Elsbeth Evans yn 1947, '[y] mae gan y Ddrama Gymraeg lawer o ffordd i deithio'. Y cwestiwn sydd raid ei ofyn heddiw ydy faint o'r ffordd honno, tybed, sydd ar ôl i'w theithio?

## CYDNABYDDIAETHAU

Diolch i Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, am fy nerbyn i ymgymeryd â'r gwaith presennol. Mae fy nyled yn fawr i Dr William R. Lewis am ei gyfarwyddyd trylwyr a'i awgrymiadau deallus gydol yr amser.

Diolch i bawb, yn sefydliadau ac yn unigolion, am eu parodrwydd i fy helpu; hebddynt, ni fyddai'n bosibl i mi fod wedi cwblhau'r dasg.

Diolch i Mrs Beti Llewellyn, Llanfairpwll, am ei hynawsedd a'i phroffesiynoldeb ynglŷn â'r teipio a'r cysodi.

Ac yn olaf, diolch i fy ngwraig, Nesta, am ei chefnogaeth a'i hamynedd dros nifer o flynyddoedd.

# PENNOD 1

# Y CEFNDIR

Mae a wnelo datblygiad y gwaith presennol â'r ffaith nad oes, hyd y gwyddys, unrhyw waith cyffelyb wedi ymddangos hyd yma ar y testun. O'r herwydd, teimlid bod bwlch i'w lenwi, ac y dylid gwneud hynny ar frys. Oni wneir hynny, mae'n ddigon posibl y bydd hanes talp mawr o ddiwylliant Môn yn cael ei golli, a chydag ef gyfraniad anfesuradwy nifer o ddramodwyr, cyfarwyddwyr ac actorion y cyfnod. Mae hyn ynddo'i hun yn rheswm digonol dros ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn.

Pan eir ati i olrhain datblygiad mudiad diwylliannol neu gymdeithasol, boed hynny'n genedlaethol, yn rhanbarthol, yn sirol, neu'n lleol, dibynnir llawer ar ddyddiadau neu ddigwyddiadau penodol er sicrhau cywirdeb a rhediad yr hanes hwnnw. Rhan amlaf, gan mor gryf yw'r dystiolaeth, gellir dyfynnu dyddiad neu ddigwyddiad heb ofni unrhyw ddadl i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, sefydlwyd yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni yn 1954, a chynhaliwyd yr olaf yn 1975.

Dro arall, fodd bynnag, ni ellir bod mor sicr o'r ffeithiau gan nad oes tystiolaeth bendant ar gael i gadarnhau dyddiad neu sefyllfa arbennig. Er gwaethaf llawer o waith ymchwil, golyga hyn gryn ddyfalu a damcaniaethu ar ran yr ymchwilydd ac, o'r herwydd, fe'i gorfodir i wneud penderfyniadau goddrychol eu natur o dro i dro. Er enghraifft, yn ei erthygl, 'Hen Ddramâu, Hen Lwyfannau', dyma beth ddywed Dafydd Glyn Jones ynglŷn â diwedd 'yr hen ddrama' Gymraeg:

> I dorri'r ddadl, yr wyf am roi dyddiad ar ddiwedd 'yr hen ddrama', a gwnaf hynny â chryn hyder gan imi weld y peth yn digwydd. Hydref 1958 ydoedd.[1]

O gydnabod arbenigedd Dafydd Glyn Jones yn y maes, mae'n anodd anghydweld ag ef. Yn sicr, ni ellir dadlau â'i haeriad fod dyfodiad y teledu wedi lladd apêl 'yr hen ddrama' fel ffynhonnell adloniant cymunedol. Ond eto, teimlir fod peth dyfalu wedi digwydd ynglŷn â'r union ddyddiad, Hydref 1958.

Os eir ati i groniclo datblygiad rhyw fudiad arbennig ar lefel genedlaethol, caiff yr ymchwilydd gryn drafferth, weithiau, i ddod o hyd i ddyddiad neu ddyddiadau penodol er sicrhau cywirdeb y gwaith ymchwil. Yn ogystal, eto oherwydd ehangder yr astudiaeth, mae'n rhaid iddo fod yn hollol ymwybodol o fodolaeth agweddau cymdeithasol eraill a allasai fod wedi dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad y mudiad arbennig sydd ganddo dan sylw. Ac mae'n eithaf posibl fod y dylanwadu hwnnw wedi digwydd dros gyfnod o flynyddoedd yn hytrach nag ar un dyddiad penodol. Dyma'r math o drafferthion a geir wrth geisio olrhain hanes y ddrama Gymraeg.

Ar lefel sirol, gellir dod o hyd i ddyddiadau penodol ynglŷn â sefydlu'r hen gwmnïau yn eithaf didrafferth, a bron yr un mor ddidrafferth, ynglŷn â'u tranc. A phe gofynnid i Dafydd Glyn Jones ddyddio oes aur y ddrama Gymraeg, mae'n eithaf sicr y byddai'n nodi'r cyfnod rhwng 1910 a 1940.[2] Ond, pe gofynnid i rywun olrhain hanes y ddrama Gymraeg o'i dechreuad, mae'n debyg mai ymateb llawer mwy petrusgar a geid. Fodd bynnag, yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, aeth T.J. Williams[3] ac O. Llew Owain[4] ati i gwblhau yr union dasg honno, ac yng ngoleuni'r nawddogaeth a'r gefnogaeth a roed i'r ddwy gyfrol gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, ynghyd â phenderfyniad y Cyngor i sefydlu'r gystadleuaeth actio drama gyntaf ym Mangor yn 1915, cydnabyddir eu hymdrechion ynglŷn â hyn.

Os derbynnir barn Dafydd Glyn Jones mai 'oes aur y ddrama Gymraeg' oedd y cyfnod 1910 hyd 1940, mae'n ddiddorol sylwi ar berthnasedd y ddwy gyfrol i'r cyfnod euraid hwnnw. Cyhoeddwyd cyfrol T.J. Williams, *Hanes y Ddrama Gymreig*, yn 1915, brin bum mlynedd er dechreuad yr oes aur y soniwyd amdani eisoes. Nid rhyfedd, felly, mai cyfrol fer, bur gyfyngedig, ydoedd. Er i Williams fynd ati i olrhain datblygiad y ddrama yng Nghymru, cyfyngwyd ar ei chyfnod hanesyddol ac, o'r herwydd, rhoddwyd llawer mwy o sylw, efallai gormod, i'r gystadleuaeth actio a gynhaliwyd ar lefel genedlaethol am y tro cyntaf yn 1915.

Ar gyfer cystadleuaeth Gwobr Goffa Pedr Hir yn Eisteddfod Genedlaethol 1943, eto ym Mangor, gofynnwyd am draethawd ar 'Hanes y Ddrama Gymraeg ar ôl y flwyddyn 1850'. Gyda Mary Lewis a Chynan yn beirniadu,[5] dyfarnwyd y wobr i O. Llew Owain, Caernarfon. Erbyn hynny, roedd oes aur y ddrama Gymraeg, fwy neu lai, wedi dirwyn i ben, ond gadawodd ar ei hôl drysorfa o hanes a chynyrchiadau. Yn 1948, cyhoeddwyd y traethawd fel cyfrol swmpus a gwerthfawr, ac mae'n debyg mai cyfrol O. Llew Owain oedd yr olaf o'i bath. O'r herwydd, fe saif yn garreg filltir nodedig yn hanes diwylliant ein cenedl. Serch hynny, gellir dadlau fod i'r gyfrol ei gwendidau. Mae tueddiad ynddi i gyflwyno'r wybodaeth yn gatalogaidd ac ar chwâl braidd. Efallai, hefyd, y gellid dweud ei bod, mewn mannau, yn ailadroddus.

Er bod wyth mlynedd ar hugain o weithgarwch byrlymus a chwyldroadol wedi digwydd ym myd y ddrama yng Nghymru rhwng 1915 a 1943, cyfeirir yn y ddwy gyfrol at y ffaith i grefydd a dirwest ddylanwadu'n anffafriol iawn ar dwf y ddrama yn ystod y rhan fwyaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'n hatgoffir o hyn mewn erthygl o eiddo Dolbadarn, 'Dyfodol y Ddrama yng Nghymru', a ymddangosodd ym mis Ebrill 1923:

> Araf, araf, fu tŵf y ddrama yng Nghymru ... [M]ae'n rhaid fod rhywbeth i gyfrif am y distawrwydd maith ym myd y ddrama yn ein gwlad, ac mae'n debig mai y rheswm oedd atgasedd y Piwritaniaid at bopeth dychmygol, ofer a gwag (yn eu tyb hwy).[6]

Petai'r daliadau crefyddol, cul, hyn wedi cael penrhyddid i ymestyn i'r ugeinfed ganrif, ni fyddai 'oes aur y ddrama Gymraeg' wedi digwydd ar y pryd nac yn y modd y gwnaeth. Yn wir, efallai na fyddai wedi digwydd o gwbl. Ond, yn ffodus, nid felly y bu, ac erbyn dau ddegawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd peth llacio ar ddylanwad yr enwadau crefyddol ar y gymdeithas wledig, yn arbennig felly o safbwynt y Methodistiaid. Fel y dywed O. Llew Owain:

> Gwlad allan o'i chynefin a fuasai Cymru heb ei drama – fel cenedl yn yr anialwch heb dyfiant cyfartal oherwydd absenoldeb un o'i helfennau cryfaf. Gwelir grym pob cenedl yn natblygiad eithaf y doniau sydd gynhenid iddi, a chenedl heb ei nerth llawn a fuasai ein cenedl ninnau pedfai ei drama wedi ei lladrata oddiarni – cenedl wedi ei hamddifadu o'i heiddo cenedlaethol.[7]

Crynhoir y sefyllfa mewn erthygl a ysgrifennwyd gan J.O. Francis yn 1914:

> It must be left to the historians of Welsh literature to explain adequately why the Welsh people, naturally so capable of drama, have produced but very little in that form. The Puritan epoch in Welsh life is, no doubt, largely responsible for this ... for Puritanism has always, in the main, exalted the ideal of Freedom at the expense of the ideal of Beauty ...[8]

Mor ddiweddar â 1994, cafwyd cadarnhad o ddatganiad J.O. Francis gan William R. Lewis:

> The rise of Nonconformity in the eighteenth and nineteenth centuries in Wales, and the conscious attempt to promote a culture based upon religious precepts resulted in a decline in secular dramatic activity.[9]

Wrth gyfeirio at orffennol y ddrama Gymraeg, fe haera O. Llew Owain[10] mai niwlog braidd yw dyddiau ei phlentynodd. Fodd bynnag, er sicrhau man cychwyn i'r gwaith presennol, teimlir mai doeth fyddai dewis ugain mlynedd olaf y ddeunawfed ganrif i'r pwrpas hwnnw. Dyma gyfnod dechrau'r gwrthdaro rhwng crefydd a drama. Dyma, hefyd, gyfnod cynhyrchiol iawn yn hanes Twm o'r Nant.[11] Ond, er gwaethaf ymdrechion Twm i gyfiawnhau ac i gadarnhau gwerthoedd moesol ei anterliwtiau, mygwyd popeth gan dwf ymneilltuaeth. Yn enw crefydd, anwybyddwyd rhagoriaethau'r anterliwt yn ei hymdrech i gadw 'ei hofn ar y gorthrymwr, y rheibiwr, y cybydd, y rhagrithiwr crefyddol a'r person anfoesol'.[12]

Yng ngoleuni grym y pregethu diwygiadol a glywid, ac er gwaethaf y rhagoriaethau moesol a berthynai i'r anterliwtiau,[13] llesteiriwyd datblygiad y ddrama ac, o'r herwydd, amddifadwyd y Cymry o'r cyfle i roi mynegiant i'w hofnau a'u dyheadau drwy gyfrwng y ddrama.

Yn dilyn ymweliadau Howel Harris [1714-1773] â sir Feirionnydd yn 1740-41,[14] sir Gaernarfon yn 1741,[15] ac â sir Fôn yn 1747,[16] cynhyrfwyd y wlad gan y Diwygiad Methodistaidd a ddigwyddodd yng nghanol y ddeunawfed ganrif, ac er bod cynnwrf sylweddol wedi ei amlygu ei hun ymysg yr enwadau ymneilltuol eraill, mae'n rhaid i'r Methodistiaid Calfinaidd ysgwyddo y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am erlyn y ddrama.

Mewn darlith a draddodwyd yn ystod y Pasg 1969, haera R. Tudur Jones mai Calfiniaeth oedd y gyfundrefn meddwl fwyaf dynamig a

dylanwadol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,[17] ac yn ei dyb ef, wrth gyfeirio at y cefndir Cristionogol, '[d]yhead Cristionogion o'r dechrau oedd gweld bywyd yn ei gyfanrwydd wedi'i ddarostwng i Grist'.[18] Ym marn Tudur Jones, '[g]olygai'r gobaith hwn ymddiriedaeth yn sofraniaeth Duw tros ei greadigaeth a'i greaduriaid'.[19] Yng ngolwg John Calfin, Crist oedd Gwaredwr dyn a'i ddiwylliant.

Yng ngoleuni dadansoddiad Jones o gefndir crefyddol y cyfnod, gellir dadlau bod ei ddisgrifiad o'r Gristionogaeth Galfinaidd fel 'grym diwylliannol' yn adlewyrchu'n union y gwrthdaro a ddigwyddodd rhwng crefydd a 'drama' yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl Tudur Jones, '[n]i flina Calfiniaeth bwysleisio mawredd a gogoniant Duw', oherwydd

> '[f]el Creawdwr, Efe a greodd bopeth ac ni all y greadigaeth nac unrhyw astudiaeth ohoni gyrraedd ei gwir amcan heb gydnabod hyn. Dyma ystyr y siarad am "sofraniaeth" Duw ac am "arfaethau" Duw. Cynnyrch ei ewyllys yw'r greadigaeth... Gan hynny, nid yw'r greadigaeth na dim byd meidrol na gweledig yn ddwyfol ac nid ydynt ar unrhyw gyfrif i ormesu tros fywyd a meddwl dyn. Caeir y drws yn glep ar bob eilunaddoliad trwy'r athrawiaeth hon am fawredd a gogoniant unigryw Duw.'[20]

O ystyried natur yr athrawiaeth Galfinaidd hon, gellir deall sut y caewyd y drws yn glep ar gyflwyniadau dramatig y cyfnod: yr anterliwtiau. Cadarnhawyd hyn mewn darlith a draddodwyd gan Dafydd Glyn Jones yn 1973:

> [R]oedd y ddrama Gymraeg, am y rhan helaethaf o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn farw gorn. ... Y Diwygiad Methodistaidd sy'n cael y bai, fel rheol, am ei lladd hi. ... Y mae yna dwll eglur yn hanes y ddrama Gymraeg ar ôl Twm o'r Nant.[21]

Mewn erthygl a ysgrifennwyd ganddo yn 1968, cydnebydd Cynan, hefyd, dranc yr anterliwt, ond yn yr un erthygl fe haera 'na ellir ... [l]lwyr fygu drama yn enw crefydd ... [ac] na lwyddodd Methodistiaeth i'w llwyr fygu yng Nghymru chwaith'.[22] Sylfaenwyd ei ddatganiad ar y ffaith mai, yn ei farn ef, 'y cyfnod pan nad oedd gan Cymru ddrama lwyfan oedd cyfnod pregethu mwyaf grymus-ddramatig, yn wir mwyaf theatraidd a welwyd erioed'.[23] Cyfeirio yr oedd at hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, i danlinellu ei bwynt, cyfeiria at arddull bregethu John Elias

(1774-1841), John Jones, Tal-y-Sarn (1796-1857), a Christmas Evans (1766-1838). Cafwyd cadarnhad o farn Cynan ynglŷn ag arddull bregethu Christmas Evans ym mywgraffiad John T. Jones, Rhiwabon, ohono:

> Yr oedd ynddo athrylith i ganfod personau, a phethau, a phriodoleddau, a'u cyflwyno i'w wrandawyr ar ddull darlun a phanorama a drama. Efe oedd pen alegorydd pulpud ei ddydd. Dramâu yw ei bregethau enwocaf, 'comedies' a 'tragedies' ... a Christmas ei hun oedd y 'playwright' a'r actor ...[24]

Ni ellir amau mawredd crefyddol ac effeithiolrwydd yr hen bregethwyr, ond tybed fod peth camddehongli wedi digwydd ynglŷn â'u doniau fel actorion. Yn ddi-os, roeddynt yn areithwyr penigamp, yn meddu ar garisma arbennig, ac yn bersonoliaethau dramatig yn y pulpud. Ond, a oeddynt yn actorion yng ngwir ystyr y gair? Os rhoir ystyriaeth i'r doniau hynny a berthyn i actorion llwyfan da, go brin y medrai'r hen gewri crefyddol gystadlu â hwy. Wedi'r cwbl, mae'n rhaid cofio mai cyfyng iawn oedd y pulpud fel llwyfan, ac nad oedd gofyn am unrhyw gyd-chwarae.

Er y byddai'r gymhariaeth yn gwneud testun trafod diddorol, go brin y gellid, erbyn heddiw, ddod i unrhyw gasgliad pendant ynglŷn â'r mater. Fodd bynnag, gellir bod yn eithaf sicr i bregethu o'r fath ddenu sylw'r werin ac, o'r herwydd, gellir dadlau nad oedd angen drama 'lwyfan' i'w diddanu yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond erbyn canol y ganrif gwelwyd peth newid. Dechreuwyd cyfansoddi 'ymddiddanion' dramatig gyda'r bwriad o hyrwyddo moesoldeb a dysgeidiaeth Feiblaidd ymysg oedolion a phlant. Ym marn Dafydd Glyn Jones, roedd hyn yn gam arwyddocaol o safbwynt datblygiad y ddrama Gymraeg gynnar:

> [D]echreuodd rhywbeth tebyg i ddrama ymffurfio unwaith yn rhagor ... O dipyn i beth daeth pobl y capel, rai ohonynt beth bynnag, i deimlo y gellid cyfiawnhau dramaeiddio ambell olygfa o'r ysgrythur, er adeiladaeth y saint; ac y gallai fod buddioldeb hefyd mewn dadleuon neu ymddiddanion byrion ar bynciau rhinwedd a moes. Manteisiodd achos Dirwest, yn arbennig, ar y math diwethaf hwn o chwaraeyddiaeth.[25]

Erbyn tua diwedd y saithdegau, gellir dadlau bod y tir wedi ei fraenaru ar gyfer dadeni llenyddol Cymraeg. Roedd yr hinsawdd grefyddol yn graddol newid. Rhoddid llawer llai o sylw i ddiwinyddiaeth, a chododd cenhedlaeth newydd gyda'i diddordebau mewn pethau tra gwahanol i'r hyn

a aethai o'r blaen. Cafodd nifer cynyddol o nofelau, neu'n hytrach, ffug-chwedlau, eu cyhoeddi. Yn 1855 ac 1860 cyhoeddwyd nofelau gan Llew Llwyfo,[26] ond cafodd cyhoeddi ffug-chwedl gyntaf y Parchedig Roger Edwards (1811-1886), *Y Tri Brawd*, mewn rhifynnau olynol o'r *Drysorfa* yn 1866 ddylanwad mawr ar hanes llenyddiaeth Cymru, a maes o law, ar hanes y ddrama Gymraeg hefyd. Rhwng 1847 ac 1886, gweithiodd Roger Edwards fel golygydd *Y Drysorfa*, a thrwy ei anogaeth ef, yn anad neb arall, y perswadiwyd Daniel Owen (1836-1895)[27] i ysgrifennu'r *Dreflan*, nofel a gyhoeddwyd yn 1881.

Roedd cyhoeddi pedair nofel Daniel Owen fel cyfrolau unigol rhwng 1881 ac 1894[28] yn gam mawr ymlaen yn hanes y ddrama yng Nghymru, ond hyd nes yr ymddangosodd addasiad Griffith Roberts (1846-1915) o *Rhys Lewis* yn 1886, nid oedd fersiynau llwyfan eraill ar gael a gellid dadlau fod prinder ar y pryd o destunau dramatig i gwmnïau amatur Cymru. Yng ngoleuni hyn, bu cyfraniad yr eisteddfod, fel sefydliad diwylliannol, yn amhrisiadwy i dwf y ddrama.

Mae'n debyg mai gweledigaeth pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Eryri yn Llanberis yn 1879 a fu'n gyfrifol, nid yn unig am bontio'r agendor diwylliannol rhwng y Gogledd a'r De, ond hefyd am hyrwyddo'r ddrama. Yn yr eisteddfod honno, penderfynodd y pwyllgor gynnig gwobr o ddeg punt am ddrama Gymraeg 'yn null Shakespeare', a gwobrwywyd drama hanesyddol Beriah Gwynfe Evans, *Owain Glyndwr*.[29] Brodor o'r De oedd Beriah, ac yn 1879, roedd yn byw yn sir Gaerfyrddin. Yn dilyn y fuddugoliaeth, ffurfiwyd cwmni drama gan bwyllgor yr eisteddfod, a pherfformiwyd *Owain Glyndwr* yn Llanberis yn 1880. Hyd y gwyddys, dyma'r ddrama Gymraeg sylweddol gyntaf i'w llwyfannu, a Chwmni Drama Llanberis fu'n gyfrifol am wneud hynny. Mae'n debyg mai ar sail y perfformiad cyntaf yma y mentrodd Ap Glaslyn ddweud, yn 1914, mai yn 1880 'y daeth y Ddrama Gymreig i sylw', gan ychwanegu mai '[f]el hyn, yn Llanberis, y dechreuodd y Gymdeithas Ddramayddol gyntaf yn y gogledd, os nad hefyd y de'.[30]

Beth bynnag a ddywedwyd dros y blynyddoedd am swm a sylwedd dramâu Beriah, gellir dadlau mai ganddynt hwy y gosodwyd y llwyfan ar gyfer adfywiad theatraidd yng Nghymru. Ond, os oedd y ddrama Gymraeg i ffynnu, byddai'n rhaid cael *repertoire* llawer mwy eang na'r hyn a gynigid gan ddramâu Beriah Evans. Yn nechrau wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd angen dramâu newydd, a hynny ar frys. Yng ngoleuni hyn, roedd yr addasiadau a gafwyd o nofel Daniel Owen, *Rhys Lewis*, yn gerrig milltir allweddol yn hanes y ddrama Gymraeg fodern. Fe haera D. Tecwyn Lloyd 'mai trwy lwyfannau'r nofelau hyn y daeth drama ac actio hefyd yn rhan anhepgor o fywyd diwylliannol Cymru Gymraeg, ac yn rhywbeth i'w arddel yn ddigwestiwn'.[31]

Os mai yn Llanberis y sefydlwyd y gymdeithas ddramayddol gyntaf yn y gogledd, gellir dadlau mai Cwmni Dramayddol Trefriw, a sefydlwyd yn 1886, oedd cwmni teithiol cyntaf Cymru ar lefel genedlaethol. Yn nechrau 1887, dechreuodd y cwmni deithio'r wlad a rhannau o Loegr gyda'i fersiwn ef ei hun o *Rhys Lewis* ac, yng ngoleuni llwyddiant y cwmni, gellir dweud bod y ddrama Gymraeg ar gerdded. Mae'n arwyddocaol, o safbwynt datblygiad y gwaith hwn, fod Cwmni Trefriw wedi ymweld â phrif drefi Môn yn ystod mis Chwefror 1887.[32]

Yn ystod dau ddegawd olaf y ganrif, sefydlwyd cwmnïau drama ar hyd a lled Cymru, o'r Gogledd i'r De,[33] ond mynnai yr hen wrthwynebiad crefyddol godi ei ben o dro i dro; gwrthwynebiad a barhaodd hyd at dridegau'r ugeinfed ganrif.

Ym mis Ebrill 1887, er enghraifft, cynhaliwyd Cymdeithasfa'r Methodistiaid yng Nghorwen, a derbyniwyd cenadwri o Gyfarfod Misol Sir Fflint eu 'bod ... yn anghymeradwyo yn hollol waith cwmni [Trefriw] sydd yn myned oddiamgylch y wlad yn actio *Rhys Lewis*'.[34] Pan wnaed y brotest hon, roedd y cwmni ar daith ym Morgannwg, ac o ganlyniad i'r gwrthwynebiad, effeithiwyd yn sylweddol ar faint y cynulleidfaoedd.

Mewn erthygl o'i eiddo, a ymddangosodd yn y cylchgrawn *Wales* yn 1914, cyfeiria Beriah Evans at lythyrau a anfonwyd ato yn 1885 yn

ymwneud â'r gwrthwynebiadau crefyddol a fodolai yng Nghymru y pryd hynny:

> These letters recalled to my memory the historic ... controversy which just then raged around the question of the Welsh drama. Large numbers of young people in various districts in South Wales, members of Nonconformist chapels, had been subjected to severe church discipline, some scores indeed having been excommunicated ... for taking part in, [and] others ... for attending at, performances of my "Llewelyn ein Llyw Olaf" ... But ... the one [controversy] which raged hottest of all ... was that fight of thirty years ago for the right of Christian young Welsh men and women to enjoy and take part in the production of a pure Welsh play. That right was secured and established.[35]

Erbyn troad y ganrif, roedd 'nwyd ac ysbryd y ddrama yng Nghymru', yn ôl O. Llew Owain, yn gryfach na phenderfyniad y Sasiwn. Yn ei farn ef, '[g]eiriau ar bapur oedd un, ond ysbryd mewn cenedl oedd y llall'.[36] Ategir hyn gan Hywel Teifi Edwards pan ddywed, wrth gyfeirio at genhadaeth Evan Roberts yn 1904-5:

> Profodd Diwygiad 1904-5 yn ddi-rym yn wyneb ei llif, a buan y daeth y capeli i ddibynnu ar ei phoblogrwydd [y ddrama] i glirio dyledion, a phob math o elusennau i elwa arni.[37]

Awgrymodd D. Tecwyn Lloyd[38] fod nofelau Daniel Owen, ynghyd â'u haddasiadau fel dramâu,[39] wedi bod yn gyfrifol am droi hanes Methodistiaeth 'yn fyth ac yn saga, ac erbyn 1920, dyweder, fel myth a saga yr oedd mwy a mwy o aelodau'r Hen Gorff yn edrych ar orffennol eu proffes'. Yn ei dyb ef, un o rinweddau gweithiau Daniel Owen oedd y ffaith eu bod yn sôn am bethau oedd yn wir, ac 'nid oedd agendor amhontiadwy rhwng y llwyfan a'r gynulleidfa'.

Gan ddilyn yr un trywydd, fe haera Dafydd Glyn Jones fod newid mawr wedi digwydd ym myd y ddrama yng Nghymru 'rywle rhwng y nofel *Rhys Lewis* a'r ddrama'.[40] Cyfeirio y mae, felly, at y cyfnod rhwng 1885 a 1909, cyfnod pryd, yn ei farn ef, y daeth 'safiad y gweledydd ifanc dros iawnder a gwirionedd yn fater canolog' y ddrama Gymraeg. Daeth her a gwrthdaro yn rhan anhepgor o blot y dramâu hyn, ac yng ngoleuni safiad yr arloeswr ifanc yn erbyn culni hen draddodiadau a chonfensiwn, cawn ein hatgoffa o rai o'r elfennau hynny yn nramâu'r dramodydd Norwyaidd, Henrick Ibsen (1828-1906). Fe welir protest yr unigolyn yn erbyn

confensiwn yn treiddio drwy lawer o'i waith; ac mae'n debyg mai ei ddrama *Brand* (1866) a roddodd i Ibsen y gydnabyddiaeth genedlaethol y dyheai amdani. Dyma'r ddrama a dynnodd sylw George Bernard Shaw. Gellir dadlau mai gwrthodiad yr offeiriad, Brand, i gyfaddawdu – er i hynny greu poendod meddwl a cholledion teuluol enfawr iddo – yn ogystal â'i ymrwymiad i'w alwedigaeth a ysbrydolodd Shaw i ddisgrifio Ibsen fel dramodydd cymdeithasol. Dechreuodd Shaw ei ddarlith i Gymdeithas y Ffabiaid yn 1890[41] gyda'r geiriau canlynol; geiriau sy'n cwmpasu safiad di-ildio'r unigolyn yn erbyn confensiwn ac sydd, yn ôl Inga-Stina Ewbank,[42] yn gwneud Brand 'y rebel mwyaf ohonynt i gyd' (cyf.):

> Ibsens's message to you is – If you are a member of a society, defy it; if you have a duty, violate it; if you have a sacred tie, break it; if you have a religion, stand on it instead of crouching under it; if you have bound yourself by a promise or an oath, cast them to the winds; if the lust of self-sacrifice seize you, wrestle with it as with the devil; and if, in spite of all, you cannot resist the temptation to be virtuous, go drown yourself before you have time to waste the lives of all about you with the infection of that fell disease.

Cyn Ibsen, fe heara Richard Gilman[43] mai gwlad dlawd iawn oedd Norwy o safbwynt ei drama, ei theatr a'i llenydiaeth yn gyffredinol, ac mai Henrik Ibsen ynghyd â Bjornsterne Bjornsen a roddodd wir ddechrau i'r mudiad drama yn y wlad honno. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gellir dadlau fod meddylfryd dramayddol Ibsen wedi treiddio drwy weddill Ewrop a'i fod, erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, wedi rhoi momentwm i fudiad y ddrama Gymraeg; mudiad, fe gofir, a ailsefydlwyd gan ddramâu Beriah Evans a nofelau Daniel Owen. Yn dilyn blynyddoedd o orthrwm, o gonfensiwn ac o gulni crefyddol, roedd Cymru, fel Norwy, yn barod am ryw fath o chwyldro cymdeithasol a dramayddol. Wrth gyfeirio at effaith Ibsen ar y ddrama yn Lloegr yn ystod blynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, dadleua Brian Johnston[44] yr edrychid ar berfformio dramâu'r Llychlynwr fel gweithred chwyldroadol a fyddai'n herio daliadau a chonfensiynau moesol y cyfnod. Dyma'r math o her a chwyldro cymdeithasol a welwyd yng Nghymru yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, gellid dadlau fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi chwarae rhan amlwg yn y chwyldro hwnnw

hwnnw ac yn natblygiad y ddrama Gymraeg yn gyffredinol. Yn hyn o beth, mae'n debyg fod Eisteddfod Caernarfon yn 1921 yn sefyll allan fel carreg filltir bur nodedig.

Yn yr eisteddfod honno, wedi bwlch o chwe mlynedd, cynhaliwyd cystadleuaeth actio drama. O ganlyniad, gwelwyd pedwar ar ddeg o gwmnïau'n cystadlu ac, or herwydd, bu raid i'r beirniaid – Beriah Evans, W.J. Gruffydd a Llew Tegid – grwydro'r wlad yn pwyso a mesur perfformiadau'r cwmnïau yn eu gwahanol ganolfannau; trefniant blynyddol oedd i barhau am gyfnod helaeth o amser. Dyfarnwyd cwmni Pontardulais, dan gyfarwyddyd Dan Matthews, yn fuddugol.

Ond roedd gan yr eisteddfod yng Nghaernarfon gysylltiad arwyddocaol arall â'r rhan yma o'r gwaith. Yn ei feirniadaeth ar y gystadleuaeth gyfansoddi, rhoddodd W.J. Gruffydd gyngor pendant i ddramodwyr y dyfodol fynd ati i astudio gwaith y 'meistri' neu, os 'oeddynt yn rhy falch [i wneud hynny], i beidio â cheisio ysgrifennu o gwbl'.[45] Yn yr un feirniadaeth, cynhwyswyd ymysg y 'meistri' hynny weithiau Ibsen yn Saesneg yn ogystal â gweithiau Bernard Shaw. Ond ni chafodd dramodwyr Cymru eu hamddifadu'n hollol chwaith, gan i W.J. Gruffydd gymeradwyo R.G. Berry, D.T. Davies a T. Gwynn Jones fel dramodwyr Cymraeg y dylid eu hefelychu.[46] Yn y cyswllt hwn, diddorol yw nodi mai beirniaid yr adran drama yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1922 oedd R.G. Berry a D.T. Davies. O hynny ymlaen, estynnwyd gwahoddiad cyson i'r ddau ond nid, o angenrheidrwydd, gyda'i gilydd.

Yn 1924 cyhoeddodd Gwasg y Brython gyfieithiad y Parchedig J.E. Davies o ddrama John Drinkwater, *Abraham Lincoln*, ac yn gysylltiedig â'r cyfieithiad hwnnw ymddangosodd erthygl ar *Y Ddrama i Gymru* yn atodiad newyddiadur yr Annibynwyr, *Y Tyst*, 5 Mawrth 1925.[47] O'i ddarllen, fe sylweddolir fod cynnwys yr erthygl yn hollol berthnasol i'r hyn sydd dan sylw.

Yn yr erthygl, trafod mae'r awdur, G.R.,[48] rinweddau y 'Repertory Theatr' gan ei disgrifio fel 'cyfundrefn sydd wedi gwaredu'r gelf ddramodol yn Lloegr ac Iwerddon, ac wedi rhoi tôn newydd iddi yn greadigol'. Fe â

ymlaen i glodfori'r gyfundrefn fel un oedd yn 'cynhyrchu dramodau uchelryw eu safon, eu saernïaeth, a'u neges'. Yn ôl G.R.,

> [N]od pellach y gyfundefn yw ysbrydoli diddordeb cyhoeddus yng nghenhadaeth uchaf drama, a dysgu'r gwrandwyr yn y grefft o weled a gwrando i bwrpas.

Yn y geiriau hyn, cawn ein hatgoffa o'r hyn oedd i ddigwydd dan gyfarwyddyd F.G. Fisher a'i dîm yn Llangefni maes o law, ac o'r pwyslais a roddwyd ar rai o weithiau Brecht yn y Theatr Fach o 1955 ymlaen.

Ym marn G.R., ac oherwydd diffyg dramâu teilwng yn Gymraeg, gwelwyd dirywiad sylweddol yn hanes y ddrama yng Nghymru rhwng 1915 a 1925. Dyma'r cyfnod pryd y rhoddwyd pwyslais ar wneud elw ariannol a hynny drwy lwyfannu 'popeth fo ar lun deialog, [a'i alw] ysywaeth, yn "ddrama".' Yn hyn o beth gellir cyplysu barn W.J. Gruffydd yn 1921 â'r hyn ddywedodd G.R. yn 1925. Ac, ar yr un pryd, mae'n eithaf sicr fod ymdrechion yr Eisteddfod Genedlaethol i hybu'r ddrama Gymraeg yn gymeradwy iawn yng ngolwg y ddau. Fodd bynnag, gellir synhwyro peth anniddigrwydd ym meddwl G.R. ynglŷn â'r hyn oedd yn digwydd. Yn ei farn ef,

> Nid yw [c]ystadleuaeth [d]drama bob blwyddyn er mewn elw ariannol yn ddigonol, ac nid yw "unrhyw ddrama" o ddewisiad y cwmni, nac o ddewisiad y pwyllgor ychwaith, yn deg.

Dylai'r eisteddfod, meddai, gynnig gwobr ariannol haeddiannol i ddenu'r dramodwyr gorau, a chynnig gwobr lai i ddenu'r macwyaid. Awgrymodd, hefyd, y dylid gosod y ddrama fuddugol fel yr un i'w llwyfannu gan yr amrywiol gwmnïau yn y gystadleuaeth actio. Gellir dadlau fod cryn sialens yn ei awgrymiadau ond gellir, hefyd, werthfawrogi bodolaeth anawsterau ymarferol a gweinyddol ynglŷn â'r syniad.

Fe erys un agwedd arall ar weledigaeth G.R. ynglŷn â dyfodol y ddrama yng Nghymru o ganol y dauddegau ymlaen, ac o le yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol hwnnw. Yng ngoleuni'r hyn a feddyliai Bernard Shaw o Ibsen ac, yn ddiweddarach, o'r hyn feddyliai W.J. Gruffydd o weithiau Shaw, Ibsen ac eraill, efallai fod yr hyn ysgrifennodd G.R. ym mis

Mehefin 1925 yn dra cogleisiol a dadleuol. Gan mor berthnasol yw'r geiriau i ddatblygiad y gwaith presennol, dyfynnir her G.R. yn ei chrynswth:

> [C]ampwaith [yng Nghymru] yw ffurfio cynllun i ddal y goreuon gerbron y wlad yn esiampl i ddramodwyr llai er sicrhau gwell ymdrech a theilyngach llafur. Dyma gyfle'r Eisteddfod, yn hytrach na'u gadael i Urdd Addolwyr Ibsen, Moliere, Galsworthy, Bernard Shaw, Oscar Wilde a *freak-dramastists* eraill y cyfanfyd y tu allan i Gymru. Mae i ninnau ein *freak-dramatists*, ond efelychwyr ydynt – ac wrth addoli delwau, yn ymdebygu iddynt ac yn colli eu hawl i fod yn oraclau dramodol i werin Cymru.

Daw hyn â ni'n ôl yn hwylus at yr hyn ddywed Dafydd Glyn Jones am sawl drama Gymraeg gyhoeddwyd rhwng 1910 a 1930.[49] Ynddynt, gwelwyd yr hyn a ddisgrifid gan Jones fel 'brwydr gŵr ifanc galluog, deallus, gonest ... un ai dros gyfiawnder cymdeithasol neu ynteu dros y gwirionedd mewn cymdeithas gul, phariseaidd sy'n ofni'r gwirionedd'. Yn y dramâu hyn, gwelid bod y thema ganolog, sef brwydr yr arwr ifanc yn erbyn Phariseaeth, wedi ei sefydlu ei hunan. Yn hyn o beth gellir dadlau fod rhai o'n dramodwyr cynnar wedi ceisio efelychu Ibsen ond heb lwyddo bob tro i gyfleu yr un cymhlethdod personoliaethol yng nghymeriadau eu cynyrchiadau.

O gofio'r gwrthwynebiad crefyddol a dirwestol a fodolai yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, mae'r darlun a geir pan gynhaliwyd cystadleuaeth ddrama yn yr Albert Hall, Abertawe, ym mis Hydref 1919, yn llawer mwy gobeithiol. Bwriedid cynnal wythnos o ddramâu, ac o'r un ar bymtheg o gwmnïau a roddodd eu henwau ymlaen, dewisiwyd naw ohonynt i berfformio yn y gystadleuaeth. Yn eu mysg, gwelid enw'r cwmni buddugol, sef Cwmni Dan Mathews, Pontarddulais, yn llwyfannu *Ephraim Harris* gan D.T. Davies. Yn ei sylwadau ar natur y cwmnïau, dyma beth ddywed Dafydd Arthur Jones:

> Diddorol yw sylwi cymaint o weithgarwch a ddeilliai o'r capeli; ac mae'n amlwg fod a wnelo'r cyfnod wedi'r heldrin 1914-18 â hyn, a thestun dadansoddiad yw'r chwalfa ar ragfarnau'r gorffennol.[50]

Roedd y rhod wedi llwyr droi, ac erbyn dauddegau'r ugeinfed ganrif gellir dweud yn hyderus fod gwrthwynebiadau'r capeli, fwy neu lai, wedi cilio a'u bod, erbyn hyn, yn cofleidio'r ddrama yn hytrach na'i herlid. Yn

ystod yr un cyfnod, gwelid cynnydd mawr yn y nifer o ddramâu a gyhoeddwyd, ac yn rhagymadrodd cyfrol Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen*, dyfynnir ystadegau gan Rhys Puw sy'n awgrymu bodolaeth pum cant o gwmnïau yng Nghymru yn Nhachwedd 1930, 'a bod rhwng 400 a 500 o ddramâu iddynt eu hactio – lle nad oedd o gwmpas 1915 ond rhyw bymtheg ar gael'.[51]

O ganlyniad i'r deffro mawr a welwyd ym myd y ddrama yn ystod dauddegau a thridegau'r ugeinfed ganrif, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o gwmnïau a sefydlwyd yn ogystal ag yn y nifer o ddramâu ar eu cyfer. Ond, yn hollol gysylltiedig â'r deffro yma, gwelid cynnydd yn yr awydd i sefydlu theatrau a chymdeithasau drama yng Nghymru. Roedd hyn yn gam mawr ymlaen o safbwynt mudiad y ddrama Gymraeg, ac yn arbennig felly o ran diogelu'r safonau.

Er gwaethaf holl fanteision sefydlu'r cwmnïau drama, cyfyngedig, yn y pen draw, oedd eu terfynau. I ddechrau, cyfyngedig iawn oeddynt o ran 'aelodaeth'. O'r herwydd, cyfyngid pob cwmni i'r nifer o actorion oedd eu hangen ar y pryd, i gyfarwyddwr, i gofweinydd, i dechnegydd neu ddau, i ofalwyr y gwisgoedd a'r set a, phan bo'r angen, i golurwr. Dibynnid, hefyd, ar addasrwydd y neuaddau a'r festrïoedd lleol ar gyfer y llwyfannu. Fodd bynnag, roedd gan bob cwmni un fantais; roedd yn hollol annibynnol o safbwynt gwneud penderfyniadau a gweinyddiad. Ond, wrth gwrs, o ganlyniad i'r annibyniaeth yma, dibynnai llwyddiant y cwmnïau ar ymroddiad nifer fach o bobl.

Sefydlwyd y theatr fach bwrpasol gyntaf yng Nghymru yn Aberdâr yn 1931, ynghyd â Chymdeithas Ddrama Trecynon.[52] Yn 1938, ar gost o un fil ar ddeg o bunnoedd, agorwyd theatr enwog y Coliseum yn y dref gyda lle i eistedd wyth gant o bobl. Er na ellid ei disgrifio mewn difri wedyn fel theatr 'fach', bu ei llwyddiant yn symbyliad i eraill[53] i ddilyn yr un trywydd, a thrwyddynt, hyrwyddwyd dyfodol y ddrama Gymraeg. Er bod cynnal aelodaeth gref a gweithgar yn hanfodol er sicrhau ffynhonnell werthfawr o adnoddau, dynol a thechnegol, roedd hi'n anochel y collasid peth o'r annibyniaeth honno a berthynai i'r cwmnïau bach traddodiadol.

Gellir dadlau bod sefydlu theatrau o'r fath wedi gwneud llawer i ddiogelu'r safonau, i annog ac i hybu cyfansoddwyr newydd ond, yn fwyaf arbennig, i ymestyn oes y ddrama lwyfan Gymraeg.

Yn 1928, cydnebydd Dyfnallt y berthynas glòs a fodolai bellach rhwng drama a chrefydd:

> [Y]nglŷn â'r eglwysi fel canolfan cymdeithas yng Nghymru y cychwynnodd y Mudiad Drama diweddar... Gwir bod gennym bellach gwmnïau ar wahan i'r eglwysi, ond y mae'r Mudiad, fel mudiad, yn rhan o fywyd aml-geinciog yr eglwys ... Cychwynodd y Mudiad Drama diwethaf ynglŷn â'r capel, fel mudiad arall – y Cyfarfod Llenyddol. Y capel o hyd yw canolfan a chychwynfan y Ddrama ymhob parth o'r Gymru Gymreig.[54]

O safbwynt datblygiad y gwaith presennol, fe ddefnyddir, fel man cychwyn, y ffaith i Undeb Llenyddol Nazareth a Phenygarnedd gynnal ei chyfarfod cyntaf ym Mhentraeth, ddydd Iau Dyrchafael, 1872, gyda'r Parchedig William Pritchard yn ysgrifennydd.[55]

---

1 Hazel Walford Davies, *Llwyfannau Lleol* (Llandysul 2000).

2 *ibid.*, 19.

3 T.J. Williams, *Hanes y Ddrama Gymreig* (Bangor 1915).

4 O. Llew Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1943* (Lerpwl 1948).
Yma ac acw yn ei gyfrol, fe welir bod O. Llew Owain yn anghytuno â rhai o osodiadau a ffeithiau T.J. Williams.

5 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1943*, 202-206.

6 *Cymru* Cyfrol LXIV, Ebrill 1923, 139-40.
Does dim sicrwydd bellach pwy oedd Dolbadarn. Fodd bynnag, mewn Atodiad i'r gyfrol uchod, cafwyd nodiadau byr ar Ddosbarthiadau Prifysgol y Gweithiwr. Yn eu mysg fe nodir Dosbarth Cymraeg Llanrug dan arweiniad R. Williams Parry gyda'r dyfyniad canlynol:

> Cawsom lawer o ddarlithiau ar 'Y Ddrama yng Nghymru', pan yn dechrau tyfu, gan yr athrylithgar J.J. o Cefnfaes, yr hwn a fagwyd yn ein mysg.

Yn Atodiad Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970, ceir crynhoad o fywyd a chysylltiadau J.J. Williams (1884-1950) ag ardal Llanrug a Bethesda cyn iddo symud i Benbedw. Awgrymir yma, ond heb unrhyw sicrwydd, mai J.J. Williams oedd Dolbadarn.

7 Owain, *op.cit.*, 1-2.

8 *Wales*, Vol. V, November 1913–February 1914, 6-8.

9 William R. Lewis, *John Gwilym Jones* (Caerdydd 1994), 99.

10 Owain, *op.cit.*, 21.

11 Thomas Edwards, 1739-1810.

12 Williams, *op.cit.*, 3.

13 *Y Llwyfan,* Rhif 3, Cyf. 1, Ebrill/Mai 1928, 29-31.
Yn ei erthygl, fe haera Dyfnallt (John Dyfnallt Owen, 1873-1956) fod natur mater Anterliwtiau Twm o'r Nant yn adlewyrchu Diwygiad Moesol, ac y '[p]regethai Twm lawn cymaint a phregethwyr y Diwygiad yn erbyn pechodau'. Ond, gan 'i holl fryd y genedl fynd ar gymanfa, cwrdd gweddi, seiat, dadl ddiwinyddol a chystadlu enwadol', colli'r dydd wnaeth mudiad Twm.

14 Gweler erthygl Gomer M. Roberts yn *Atlas Meirionnydd* (Y Bala 1975), 99.

15 Gweler erthygl R. Tudur Jones yn *Atlas Sir Gaernarfon* (Caernarfon 1977), 117.

16 Gweler erthygl R. Tudur Jones yn *Atlas Môn* (Llangefni 1972), 83.

17 Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen* (Llandysul 1970), 318.

18 *ibid.,* 318.

19 *ibid.*, 318.

20 *ibid.,* 324.

21 'Saunders Lewis a thraddodiad y ddrama Gymraeg', *Llwyfan* 9, Gaeaf 1973, 1-12.

22 Erthygl gan Cynan: 'Atgyfodi Twm o'r Nant', *Llwyfan 1*, Haf 1968, 31-33.

Am dair blynedd o 1932 ymlaen, dan nawdd Coleg y Brifysgol, Bangor, cynhaliodd Cynan ddosbarthiadau tiwtorial yn Llanfairpwll, Niwbwrch, Llannerch-y-medd ac Amlwch. Eglurodd i'w ddosbarthiadau mai yn Llanrhuddlad yn 1802 yr aethpwyd ati yn aflwyddiannus, ac am y tro olaf hyd y gwyddys, i lwyfannu *Tri Chryfion Byd*. Penderfynodd efrydwyr dosbarth Llanfairpwll wneud yr un peth, ac yng ngwanwyn 1936 fe'i llwyfannwyd yn Llanfairpwll, Niwbwrch, Llannerch-y-medd, ac yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor. Cymerwyd rhan y Cybydd gan W.H. Roberts o ddosbarth Niwbwrch.
Yn 1940, gwnaethpwyd yr un peth gan ddosbarth tiwtorial Mynytho.

23 *ibid.,* 31-33.

24 *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain 1953), 205-6.

25 *Llwyfan 9*, Gaeaf 1973, 1-12.
Awgryma Jones mai gwaith David Evans, Hirwaun, *Jack y Bachgen Drwg* (1888), oedd 'un o uchafbwyntiau'r teip' yma o ddrama. Roedd iddi blot, a thrwyddo ceisid darlunio dylanwad cwmni drwg.

26 Lewis William Lewis, 1831-1902.
Gweler Eryl Wyn Rowlands, *Y Llew oedd ar y Llwyfan* (Caernarfon 2001).

27 John Owen, *Cofiant Daniel Owen* (Wrecsam 1899).

28 Cyn eu cyhoeddi fel cyfrolau unigol, cyflawn, ymddangosodd y nofelau canlynol fesul penodau neu rannau, naill ai yn *Y Drysorfa* neu yn *Y Cymro* (Lerpwl):

| | |
|---|---|
| *Y Dreflan, ei Phobl a'i Phethau* | |
| *Y Drysorfa* 1879 | Cyh. 1881 |
| *Hunangofiant Rhys Lewis* | |
| *Y Drysorfa* 1882-4 | Cyh. 1885 |
| *Profedigaethau Enoc Huws* | |
| *Y Cymro* 1890-1 | Cyh. 1891 |
| *Gwen Tomos, Merch y Wernddu* | |
| *Y Cymro* 1893-4 | Cyh. 1894 |

Sylfaenwyd y tair nofel gyntaf ar y gymdeithas Gymraeg a drôi o gwmpas y capel. Yn *Gwen Tomos*, disgrifir y gymdeithas wledig. Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd 1945).

29 Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd 1997), 239.

30 Williams, *op.cit.*, 8.

31 'Gwir gychwyn y busnes drama 'ma', *Llwyfan 8*, Gwanwyn/Haf 1973, 5-8.

32 Owain, *op.cit.*, 82-3. Yn *Y Genedl Gymraeg*, 23 Chwefror 1887, hysbyswyd y byddai'r ddrama *Rhys Lewis* yn cael ei llwyfannu yng Nghaergybi, nos Fawrth, 22 Chwefror; Llangefni, 24 Chwefror; Llannerch-y-medd, 25 Chwefror; Amlwch, 26 Chwefror; ac ym Miwmares, 28 Chwefror.

33 Yng nghyfrolau T.J. Williams, O. Llew Owain ac, yn fwy diweddar, yng nghyfrol ddarluniadol Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen* [Llandysul 1998], cofnodir dyddiadau bodolaeth nifer o gwmnïau drama lleol yn y gogledd ac yn y de. Yn hyn o beth, bu dau ddegawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, yn hynod gynhyrchiol.

34 Williams, *op.cit.*, 13.

35 *Wales*, Vol. VI, March/August 1914, 97-101.

36 Owain, *op.cit.*, 83.

37 Walford Davies, *op.cit.*, 51.

38 *Llwyfan 8*, *op.cit.*, 5-8.

39 *ibid.*

| | |
|---|---|
| *Enoc Huws*: Addasiad 1913 | Fe'i hactiwyd 183 o weithiau rhwng 1913 a 1937 |
| *Y Dreflan*: Addasiad 1915 | Fe'i hactiwyd 141 o weithiau rhwng 1915 a 1937 |
| *Gwen Tomos*: Addasiad 1920 | Fe'i hactiwyd 63 o weithiau rhwng 1920 a 1937 |

Rhwng 1909 a 1937, llwyfannwyd *Rhys Lewis* 442 o weithiau.

Cyhoeddwyd addasiad J.M. Edwards o *Rhys Lewis* yn 1909, ac mae'n debyg mai'r addasiad hwnnw a lwyfannwyd gan Gwmni Drama Aberffraw yn ystod 1910-11. Gyda W.J. Griffith, Henllys Fawr, yn cyfarwyddo yn ogystal â phortreadu Tomos Bartley, caed adroddiad yn y wasg am berfformiad y cwmni yn y Gaerwen, nos Sadwrn, 26 Tachwedd 1910. Gellir dadlau fod yr adroddiad yn cyfleu, i'r dim, arwyddocâd a phwysigrwydd cymdeithasol a diwylliannol noson y ddrama yn hanes pentrefi Môn y pryd hynny. Dyma'r math o noson a ddisgrifid gan W.J. Griffith yn ei bennod anfarwol, 'Antur y Ddrama' [*Storïau'r Henllys Fawr* (Aberystwyth 1954), 77-106].
*Y Clorianydd,* 1 Rhagfyr 1910, 4:

'*Rhys Lewis* - Bu Cwmni Dramayddol Aberffraw yn ysgoldy'r M.C. nos Sadwrn yn perfformio'r ddrama hon, a gwnaethant hynny, gellid tybio, yn well nag erioed, er i Tomos Bartli fod peth amser cyn cael ei lais i gywair priodol. Efe a Wil Bryan oedd yr arwyr ... Yr oedd yr ystafell yn anghysurus o lawn, a'r llwyfan yn rhy isel, fel na chafodd ond hanner blaenaf y cynhulliad fwynhau'r ddrama. Bu i foneddigesau meddylgar y seddi blaen dynnu eu hetiau; ond er i'r adar a'r plu gilio, mawr yr estyn gwddf a fu i gael trem ar yr actwyr dawnus. Er i'r cloc ddangos 10.20 cyn dod y terfyn, ni phallodd yr hwyl.'

40 Jones, *op.cit.*, *Llwyfan 9*, 1-12.

41 J.L. Wisenthal (ed.), *Shaw and Ibsen* (Toronto 1979), 81.

42 Harold Bloom (ed.), *Modern Critical Views: Henrik Ibsen* (Philadelphia 1999), 145-168.

43 *ibid.*, 93.

44 Brian Johnston, *Text and Supertext in Ibsen's Drama* (Pennsylvania 1989), 2.

45 Owain, *op.cit.*, 205.

46 *ibid.*, 205.

47 *Atodiad Llên Y Tyst,* Cyf. 11, Rhif 3, 5 Mawrth 1925 (Merthyr Tydfil 1925), 38-9.

48 Er gwaethaf llawer o waith ymchwil, methwyd â chael unrhyw wybodaeth ynglŷn â phwy oedd G.R.

49 Jones, *op.cit.*, *Llwyfan 9*, 1-12.
Ymysg y dramâu a ddefnyddir fel enghreifftiau, fe nodir y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Beddau'r Proffwydi* | - | W.J. Gruffydd | (1913) |
| *Trem yn Ôl* | - | Gwynfor | (1913 a 1920) |
| *Ar y Groesffordd* | - | R.G. Berry | (1914) |
| *Ephraim Harris* | - | D.T. Davies | (1914) |
| *Y Ddraenen Wen* | - | R.G. Berry | (1922) |
| Trosiadau o ddramâu | - | J.O. Francis | |
| *Maes y Meillion* | - | D.T. Davies | (1933) |

50 Walford Davies, *op.cit.*, 74-5.

51 Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen* (Llandysul 1998), vi.
O safbwynt y nifer o ddramâu hir oedd wedi eu cyhoeddi cyn, neu yn ystod, 1915, gellid dadlau fod peth amheuaeth ynglŷn â chywirdeb

barn Rhys Puw pan ddywed mai dim ond rhyw bymtheg drama oedd ar gael 'o gwmpas' y flwyddyn honno. Ond gan ei fod wedi nodi bodolaeth pymtheg ohonynt, cynigir y teitlau canlynol fel rhestr o ddramâu mwyaf 'poblogaidd' eu cyfnod. Cofier, fodd bynnag, mai dewisiad personol yr awdur ydyw, ac y gellid amrywio'r cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| 1910 | *Y Ferch o Gefn Ydfa* | J. Bonfyl Davies |
| | *Rhys Lewis* (D. Owen) | Addasiad J.M. Edwards |
| | *Glyndwr: Tywysog Cymru* | Beriah Gwynfe Evans |
| 1911 | *Cyfoeth Ynte Cymeriad* | Grace Thomas |
| 1912 | *Asgre Lân* | R.G. Berry |
| | *Trech Gwlad Nag Arglwydd* | Grace Thomas |
| 1913 | *Beddau'r Proffwydi* | W.J. Gruffydd |
| | *Jac Martin* | J. Tywi Jones |
| | *Enoc Huws* (D. Owen) | Addasiad Thomas a Milwyn Howells |
| 1914 | *Ar y Groesffordd* | R.G. Berry |
| | *Ephraim Harris* | D.T. Davies |
| | *Dyrchafiad Arall i Gymro* | W.J. Gruffydd |
| | *Yr Unig Fab* | H.O. Hughes |
| 1915 | *Y Dreflan* (D. Owen) | Addasiad J.M. Edwards |
| | *Owain Glyndwr* | Peter Williams ('Pedr Hir') |

52 Walford Davies, *op.cit.*, 47.

53 Er eu bod yn amrywio o ran adnoddau, gweinyddiad a chyfraniad, sefydlwyd theatrau cyffelyb yng Ngarthewin (1938), Abertawe (1940 a 1950), Llangefni (1955), Cricieth (1963), ac yn Felin-fach, Aberaeron (1965). Gweler *Llwyfannau Lleol* am fwy o wybodaeth am Abertawe, Cricieth, Felin-fach a Llangefni.

54 *Y Llwyfan*, Rhif 3, Cyf. 1, Ebrill/Mai 1928, 29-31.

55 Mae copi o'r testunau gwreiddiol ym meddiant yr awdur.

# PENNOD 2
# TRI CHWMNI

Yn ei erthygl 'Dwy Bennod o Hanes y Ddrama'[1], fe haera Dafydd Glyn Jones fod peth ansicrwydd ynglŷn â pha bryd, yn union, y dechreuwyd cyfansoddi anterliwtiau yn Gymraeg, ond fe â ymlaen i gynnig 1660 fel man cychwyn tebygol. Fodd bynnag, erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y cwbl wedi dod i ben a diflannodd y ddrama Gymraeg hyd saithdegau'r ganrif honno pryd y gwelwyd adfywiad dramayddol ac, yn ôl Jones, 'o'r ymhel hwnnw y daeth y mudiad drama amatur Cymraeg a welodd lewyrch a ffyniant rhwng yr 1880au a'r 1950au, gan roi inni bennod bendant, gymharol fer, arall'. Ac â'r bennod honno, fwy neu lai, y perthyn y tri chwmni sydd dan sylw – cwmnïau drama Rhoscefnhir, Llannerch-y-medd a Llangefni. Ond, yng ngoleuni'r datblygiadau dramayddol egnïol a welwyd ym Môn tu hwnt i bumdegau'r ugeinfed ganrif, ac er cyfiawnhau prif bwrpas y gwaith presennol, ni ellid llai nag ymestyn y cyfnod hyd 1975.

Trwy gyfrwng y tri chwmni, gobeithir taflu peth goleuni ar gyfnod pleserus dramâu festri'r capel a'r neuadd bentref yn ogystal â pheintio darlun a fydd, gobeithio, yn adlewyrchu ymdrechion cynhyrchwyr ac actorion y cyfnod i arloesi, i osod sylfeini, ac i '[f]uddsoddi eu doniau mewn rhywbeth a fyddai'n cyfoethogi bywyd Cymru yn y man'.[2]

Ond, mae'n rhaid cofio mai enghreifftiau yn unig yw'r tri chwmni o'r lliaws o gwmnïau drama a fodolai ym Môn yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn eu mysg, bodolai cwmnïau drama yn Aberffraw, Amlwch, Bodffordd, Bodedern, Biwmares, Brynsiencyn, Caergybi, Carmel, Cemais, Dwyran, Gaerwen, Llaingoch, Llandegfan, Llandrygarn, Llandyfrydog, Llanfairpwll, Llangoed, Llanfechell, Llangristiolus, Llanrhuddlad, Marian-glas, Penmon, Porthaethwy, Rhosneigr a Thynygongl. Bu cyfraniad yr holl gwmnïau hyn yn werthfawr ac yn adlewyrchiad clir o ddiwylliant Môn y cyfnod.

Wrth ddewis y tri chwmni, rhoddwyd cryn sylw i natur eu hardaloedd. Ardal wledig amaethyddol oedd Rhoscefnhir;

nodweddiadol o ardaloedd gwledig eraill ym Môn. Fel tref fechan a fu unwaith yn brif dref Môn yn niwedd y ddeunawfed ganrif a rhan o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni ellid anwybyddu Llannerch-y-medd a'i thraddodiadau. Dewisiwyd Llangefni am ei bod yn brif dref masnach Môn ers chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Drwy fentro cynnig yr enghreifftiau hyn, gobeithir cyflwyno trawsdoriad teg o gefndir y ddrama yn y sir yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Yn ogystal, ni ellid llai na rhoi peth cydnabyddiaeth i lwyddiant ac i gyfraniadau y tri chwmni ar lefel genedlaethol. Tybir bod y llwyddiant hwnnw yn seiliedig ar weledigaeth y cyfarwyddwyr ac ar ymdrechion yr actorion dros gyfnod sylweddol o amser. Mae'n sicr bod y tri chwmni wedi profi llwyddiant a siom, ond, serch hynny, bu iddynt ddyfalbarhau i ddiddori'r gymdeithas leol yn ogystal â'r gymdeithas ehangach y tu hwnt i'r Fenai.

Yn gysylltiedig â'r tri chwmni yma ceir enghreifftiau nodedig o gyfarwyddwyr crefftus, deallus a brwdfrydig. Yn ôl eu dewisiadau o ddramâu gwelir bod rhai ohonynt yn llai uchelgeisiol na'r gweddill, ac mai daliadau crefyddol a moesol y cyfnod oedd yn bennaf gyfrifol am gyfyngu ar eu gorwelion. Wrth ddilyn eu hynt a'u helynt, gobeithir olrhain datblygiadau byd y ddrama yn ogystal â gwerthfawrogi'r ymdrechion i wella'r gelfyddyd o lwyfannu drama.

Er bod mân wahaniaethau yn bodoli rhwng y tair ardal, rhaid cadw mewn golwg mai ynys fechan, wledig a chlòs oedd Môn ac, o'r herwydd, roedd yr un cefndir cymdeithasol, fwy neu lai, yn gyffredin i'r tri chwmni.

Mae'n wir i gwmni drama Rhoscefnhir gael ei sefydlu yn nechrau'r ganrif, ond fe welir mai yn ystod y dauddegau a dechrau'r tridegau y sefydlwyd y rhan fwyaf o gwmnïau Môn gan gynnwys rhai Llannerch-y-medd a Llangefni. Dyma gyfnod y deffroad dramayddol, ac yng nghynnwys dau adroddiad a ymddangosodd yn y wasg yn Hydref 1930, ceir tystiolaeth o'r brwdfrydedd newydd hwnnw:

YSGOL DDRAMA UNDEB NEUADDAU MON

(At y Golygydd)

Syr, - A gaf fi gongl o'ch papur i dynnu sylw caredigion mudiad y ddrama yn y sir at yr Ysgol Ddrama a gynhelir yn Llangefni, Hydref 22, 23, a 24?
Mae Pwyllgor Drama Undeb Neuaddau Môn wedi pendronni llawer i geisio gwybod beth a allent ei wneuthur i hybu'r mudiad yn y sir, ac er cymaint y gost ariannol pasiwyd i drefnu Ysgol Ddrama yn Llangefni am dri diwrnod, a sicrhawyd tri darlithydd profiadol, sef Cynan, Gwynfor, a Miss Mary Kelly (o'r Village Drama Society).

....Ceir darlithoedd ar amryw faterion....Dyma gyfle i actwyr a chyfarwyddwyr cwmnïau i ddod a'u hanawsterau i sylw rhai a all eu cynorthwyo. Trefnir hefyd i astudio rhyw ddrama bob dydd, a pharatoi i'w llwyfannu, a bydd yr aelodau yn cymryd rhan yn y chwarae....

Yr eiddoch yn ffyddlon,
R. D. Parry [3]

Ddiwedd y mis, cafwyd adroddiad ar yr uchod:

Y DDRAMA A'I NODWEDDION

Barn y Meistriaid – Cynan, Gwynfor a Miss Kelly
....Y gwŷr hysbys a enwyd a ddaeth yno i gynorthwyo cwmnïau gwledig Môn sut i gael y ddrama yn gyfrwng adloniant ac addysg effeithiol y pentrefwyr....
....Cynan a ddechreuodd y gyfres. Dywedai mai greddf dyn ac anifail ydyw actio. Chwarae ydyw dull natur i ddysgu creadur o ddyn ac anifail. Ond y mae ymarfer â'r ddrama yn ei pherffeithio. At reddf i actio, da ydyw cael rheolau i'n tywys i ymwrthod â'r hyn sydd wrthun a di-chwaeth – cael techneg y ddrama. Y mae gan awdur y ddrama ryw neges i'w chyfleu, rhyw ddarlun i'w bortreadu, dragedi neu gomedi. Felly, wedi ymgasglu ynghyd y cwmni gwledig, dewis eu drama, ethol gŵr hyddysg a chymwys yn gyfarwyddwr iddynt, yna sylwi ar dechneg y ddrama.
....Anhepgor llwyddiant drama ydyw cyfarwyddwr cymwys. Un gŵr wedi ei ddewis, oherwydd ei ddarllen amryw byd ddramâu, ei allu llenyddol, ei chwaeth gain cynhenid, a'i wybod eang am dechneg y ddrama hen a diweddar yn y gwledydd cylchynnol i Gymru.
Ufudd-dod parod pob aelod iddo. Heb hyn, ofer y cyfan.
....Tu ôl i'r llen ym mhen draw y neuadd, y saif y cyfarwyddwr....Llyw y llong a dehonglwr meddwl yr awdur ydyw ef. Ni raid iddo fod yn actiwr da ei hun, nac adroddwr ychwaith. Ond rhaid iddo feddu y dechneg i chwynnu ymaith wallau y cwmni....

Ychwanegodd Gwynfor sylwadau doeth i'r ddrama fod yn anenwadol, a chynnwys crefftwyr y pentref, er mwyn datblygu eu dawn trwy gyflenwi celfi y llwyfan i'r actwyr yn ddi-draul.

Cafwyd goleuni mawr gan Miss Kelly ar bwysigrwydd ystum actio, a gwerth moesol a chysur cymdeithas a greir lle byddo drama bentref. Er mwyn enghraifft o'r sylwadau chwaraewyd dwy ddrama yr Athro W. J. Gruffydd, *Dyrchafiad Arall i Gymro* a *Beddau'r Proffwydi.*[4]

Wrth drafod hynt a helynt y cwmnïau gellid dadlau bod llawer o gynnwys yr adroddiad blaenorol yn berthnasol iawn i'r tri.

# CWMNI DRAMA RHOSCEFNHIR

Fel Cwmni Drama Rhoscefnhir y daeth y cwmni yma i amlygrwydd cenedlaethol, a hynny drwy ennill y wobr gyntaf am actio drama un act yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mangor yn Awst 1943. Yn dilyn y fuddugoliaeth ym Mangor, chwaraeodd Cwmni'r Rhos ran flaenllaw yn niwylliant yr ardal leol, Môn a rhan helaeth o ogledd orllewin Cymru.

Er mai gyda phentref bach Rhoscefnhir y cysylltir cyfnod euraid y cwmni drama yn ystod y pedwardegau a dechrau'r pumdegau, yr oedd pentrefi ac ardaloedd eraill ym Môn yn ymhél â'r ddrama. Yn ystod yr un cyfnod awgrymir bod yr had dramayddol, neu o leiaf yr had cystadleuol, wedi egino ym Mhentraeth ddydd Iau Dyrchafael, 1872, ar ffurf cyfarfod cyntaf Undeb Llenyddol Nasareth a Phenygarnedd,[5] cyfarfod a ddeilliodd o ddatblygiad yr achos Methodistaidd yn yr ardal.

Tybir i'r achos ddechrau ym Mhenygarnedd[6] tua 1782 ac adeiladwyd capel yno yn 1783. Yn dilyn Diwygiad 1822 codwyd capel newydd yn 1824, a'r capel presennol yn 1876. Yn 1829, adeiladwyd Capel Nasareth ym Mhentraeth.

Y dydd arbennig hwnnw yn 1872, y Parchedig William Pritchard oedd gweinidog Nasareth a'r Parchedig Richard Owen oedd yn gweinidogaethu yn ddi-dâl ym Mhenygarnedd, 'swydd' a ddaliodd hyd ei farw yn 1891. Y Parchedig William Pritchard oedd sylfaenydd yr Undeb Llenyddol yn yr ardal, a chyfeirir ato gan yr hanesydd lleol Hugh Owen:[7]

> Mawrth 28, 1921, bu farw'r Parch. William Pritchard, a chladdwyd ef ym mynwent plwyf Llanbedrgoch. Gŵr caredig a chymwynasgar oedd y Parch. W. Pritchard, o gymeriad pur a chadarn, ac yn ofalus iawn o'r claf a'r profedigaethus.Yr oedd yn ŵr o dalent eithriadol, a rhoddodd gryn sylw i lawer o bethau o'r tu allan i gylch y weinidogaeth. Yr oedd yn hynafiaethydd, yn hanesydd, ac yn llenor gwych.Rhestrir ef yn uchel fel nofelydd, ac ysgrifennodd gofiannau gwerthfawr i Richard Owen y Diwygiwr, John Elias, ac Ebeneser Davies. Er hynny, am Achos yr Arglwydd yr oedd ei ofal pennaf.[8]

Am flynyddoedd lawer, William Pritchard fu Ysgrifennydd yr Undeb ac yn ôl pob tebyg ef fu'n gyfrifol am lunio'r testunau o flwyddyn i flwyddyn. Daeth y cyfarfod blynyddol yma yn rhan anhepgorol o fywyd crefyddol a diwylliannol yr ardal, ac er ei fod yn gyfarfod cystadleuol ni chyfeirid ato fel eisteddfod. Er na fu erioed

gapel yn Rhoscefnhir, adeiladwyd Ysgoldy yno ar gyfer yr Ysgol Sul yn ystod 1894-5[9] am gost o ryw bum cant o bunnoedd, a daeth Ysgol y Rhos yn ganolfan ddiwylliannol a chymdeithasol. Wedi troad y ganrif daeth yr Ysgoldy yn gartref i'r cwmni drama lleol.

Mae'n debyg na fu'r Parchedig William Pritchard yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad y ddrama, ond does dim amheuaeth bod ei ymroddiad i'r diwylliant Cymraeg wedi bod yn sylfaen i'r datblygiadau yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y mudiad dirwestol yn cyflym ennill tir ledled Cymru, a doedd Môn ddim yn eithriad. Ym Mhorthaethwy, er enghraifft, tra oedd yn fyfyriwr ifanc yn Ysgol Golegol John Evans rhwng 1871 ac 1875, ceir cofnod bod John Williams, Brynsiencyn, wedi dechrau siarad dros Ddirwest.[10] I'r perwyl hwn roedd y Parchedig William Pritchard yn allweddol, ac yn ystod degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu'n ysgrifennu dramâu ar gyfer grwpiau o bobl ifanc yr ardal; dramâu oeddynt ar ffurf trafodaethau statig yn hytrach nag ar ffurf drama. Gyda'r cefndir yma, chwaraeodd cyfuniad o'r mudiad dirwestol, Diwygiad 1904-5, a 'streic fawr' y Penrhyn ar droad y ganrif ran allweddol yn hanes Cwmni Drama Rhoscefnhir. Deffrowyd ac ysbrydolwyd un ferch ifanc go arbennig gan yr holl gynnwrf. Ei henw oedd Grace Thomas. [Gweler Atodiad A(1)].

Ganwyd Grace yn 1870 ac erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y teulu wedi symud i fyw i Tŷ Fry, Rhoscefnhir. Cafodd ei haddysg elfennol yn lleol a derbyniodd addysg bellach yn Great Yarmouth a Chaerdydd. Er iddi gael cychwyn pur freintiedig, does dim amheuaeth ei bod yn meddu ar allu cynhenid a thalent lenyddol unigryw. Pan oedd yn ddeg ar hugain oed dychwelodd Grace adref i helpu gyda'r gwaith tŷ, ond, yn fwyaf arbennig i ysgrifennu ac i lenydda. Er iddi barhau i flasu manteision cartref breintiedig, ymwrthododd a llaesu dwylo. Yn hytrach, gwnaeth yn fawr o'i thalent ac aeth ati i rannu'r dalent hon ag eraill er lles ei chyfoedion a'i bro.

Yn 1904 aethpwyd ati i alw gweinidog i Benygarnedd.[11] Ar y pryd roedd Owen Thomas, Brynaerau, ar fin cwblhau ei dymor fel efrydydd yng Ngholeg y Bala, a derbyniodd yr alwad '....yng ngwres y diwygiad....'.[12] Gwasanaethodd ym Mhenygarnedd hyd nes y cafodd

alwad i Lannerch-y-medd yn Ebrill 1909. Gyda chefnogaeth y Parchedig Owen Thomas,[13] aeth Grace ati i sefydlu'r Gymdeithas Lenyddol ym Mhenygarnedd yn 1906 a'r cwmni drama yn fuan wedyn. Yn ngeiriau Dafydd Islwyn:

> ...Mae'n siwr mai pwrpas sefydlu'r Cwmni oedd addysgu'r gymdeithas leol mor bwysig oedd dirwest a chael cymeriad gonest, cry' allai wrthsefyll temtasiynau'r byd. Dangos, hefyd, bod tröedigaeth yn bosibl; dychwelyd o'r byd i'r betws fel petai. Roedd Cwmni Grace Thomas yn gwmni teithiol...[14]

Yn nechrau Ionawr 1976, ysgrifennodd Mrs. Martha Parry[15] lythyr at J.O. Roberts, llythyr oedd yn cynnwys 'Atgofion am y Ddrama ym Môn 66 mlynedd yn ôl'. Roedd Mrs. Parry eisoes yn dair a phedwar ugain oed ac yn y llythyr ceir ymddiheurad ganddi '...am yr ysgrif a'r sillafu, gan na chefais ond addysg Ysgol Pentraeth...ond yn dal i gymeryd diddordeb mawr yn y ddrama...' Mae'n croniclo hynt a helynt y gymdeithas y perthynai Grace Thomas iddi yn ardal Rhoscefnhir, ac mae'r atgofion yn sicr o fod yn adlewyrchiad teg o ddiwylliant a bywyd cefn gwlad Môn yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Er bod peth dethol wedi digwydd, ni fu cywiro ar gynnwys y llythyr gwreiddiol:

41 Penycefn,
Amlwch.
2/1/76

<u>Atgofion am y Ddrama ym Mon 66 mlynedd yn ôl</u>

Tua'r flwyddyn 1909-10 cyfansoddwyd Drama Ddirwestol gan y diweddar Barch. William Pritchard, Gweinidog Capel M.C. Nasareth, Pentraeth, a'r diweddar fardd a llenor Will Evan o Fôn. 'Y Ddraig Goch' oedd y teitl a rhyw 10 oedd yn y cwmni a'r rhai hynu yn gwybod fawr am y gelfyddyd o actio ar wahan i rhyw ychydig o rhyw fan betha yn y Band of Hope. Wn i ddim oes yna gopi o honi ar gael. Dim ond dau o'r cwmni sydd yn aros, Mr. David Roberts, Tŷ Croes, Pentraeth, ac sydd ar hyn o bryd yn aros gyda'i ferch yn fferm Cefn Hir, a fina, (ac rwyn siwr ei fod ef yn cofio llawer mwy na fi).

Cawsom un profiad fyth gofiadwy. Yr oeddem wedi cael galwad i fynd i actio'r ddrama i Lanfaethlu Boxing Day 1909 rwyn credu, ar amser hynu roedd cyfleusterau teithio yn brin, a'r cwmni yn gweld y ffordd yn bell hefo ceffylau a ceir, ond clywsom fod yna Bus i'w gael yn Beaumaris. Mae'n debig fod hwn yn un o'r rhai cynta ddaeth allan, drws tu ôl a set bren o'i gwmpas, ond gwnaed trefniadau i gychwyn o sgwar Pentraeth am 1.30 p.m. gan feddwl cyrhaedd Llanfaethlu yn gynnar. Cin i ni gyrhaedd Talwrn aeth rhywbeth o'i le, ond llwyddwyd i ail gychwyn, ac aethom tu draw i Cefn Cymwyd a dyma stop wedyn, a stop-go fuo hi nes cyrhaedd y Valli lle roedd Garage a hitha wedi twyllu a pawb yn ddigon pryderus erbyn hyn. Cafwyd petrol a gwneud rhyw wellianta ac yr oedd yn saith o'r gloch arnom yn cyrhaedd a llond y lle yn disgwyl. Ond trwy lawer o help i roi y curtans i fynu cawsom ddechrau cin wyth, a'r adeg hono byddai genym barti i ganu tra fyddent yn newid

y dodrefn etc., ac un o'r parti oedd Mr. Ivor Thomas,[16] Pandy, Pentraeth a ddaeth yn enwog fel un o'r tenoriaid goreu, a bu ar brif lwyfanau enwog iawn, wedi ei hyfforddi yn Milan, Yr Eidal.

Clywsom i un meddwyn ei achub y noson hono, ac roedd hynu yn werth yr helbul i gyd a cawsom groeso mawr a wedi cyrhaedd yn ôl yn ddi dramgwydd cerdded yn ôl i Rhoscefnhir tua oriau man y bore a'r teulu yn methu dallt lle oeddem wedi bod mor hir.

Yn ystod gwylia'r ha 1910 cawsom wahoddiad i Ysgol yr Hen Blas Llangristiolus ac aethom trwyddi yn weddol dda. Mr. E. O. Jones oedd yn Golygydd y Clorianydd y pryd hynu a beirniadodd dipin arnom. Nid wyf yn cofio fawr beth a ddywedodd ond fod y fam (fi oedd hono) yn gwisgo spectol ac yn ei tynu i ddarllen. (Tasa fo yn gwybod, ni allwn weld dim hefo nhw heb son am ddarllen).

O gwmpas yr un amser bu i Miss Grace Thomas, Tŷ Fry, Pentraeth, gyfansoddi drama "Cyfoeth ynte Cymeriad", a rhyw 23 yn cymeryd rhan, ac fe wnaeth ffrind iddi waith cywrain, yr oedd y lleni o ddefnydd glas tywyll a wedi paentio grat a tan fflamau naturiol, a darlunia ar y mur, a drws yn wyn os cofiaf yn iawn. Mewn waggonett a 2 geffyl y byddem yn mynd o fan i fan gan ddechrau yn Pentraeth, wedyn Llangoed, Talwrn a Neuadd y Dre Llangefni. Prydlondeb bob amser wrth ymarfer a teithio, ac roedd hynu yn rhinwedd. Rwyn cofio i ni gael ein galw gan aelodau Capel M.C. Gilead, Penmynydd, i actio'r ddrama yn Llangefni a'r elw i'r achos, ac i lenwi yr amser pan fyddai newid y golugfeudd roedd y cyfeillion yn Gilead wedi sicrhau gwasanaeth gipsi o'r enw Harri Boswell oedd yn gryn gampwr ar ganu'r ffidil. Yr oedd wedi ei wisgo yn od o hardd, ac fe wefreiddiodd y gynnulleidfa a'i ganu medrus. Tybed ydi Miss Evans a Mrs. Bowen sydd yn byw ger Capel Gilead yn cofio yr amgylchiad?

Ar ôl hyn fe wnaeth Miss Grace Thomas ddrama arall, *Trech gwlad nac Arglwydd*. Yr un golugfeudd bron ond llai o actorion heb law ychydig o'r lle i wneud cor i ganu emyn mewn cwrdd gweddi gan y chwarelwyr. Nid wyf yn meddwl i ni fod fawr i gyd oddigwrth Pentraeth yn actio hon.

Wedi hyn fe ymunais â chwmni drama Llansadwrn. *Ednyfed Fychan o Tregarnedd* oeddem yn ei dysgu o waith yr ysgolfeistr Mr. Hugh Owen a'r bardd Gwilym Owen a rhyw 12 i 15 yn y cwmni...Arferem deithio gyda ceir a ceffyla a bum gyda hwy yn Llansadwrn, Llanfairpwll, Brynsiencyn a'r Guild Hall yn Caernarvon...

....Daeth y Rhyfel Byd 1af a bu chwalu ar lawer a diflanodd y Ddrama dros dro, ond yn fuan wedyn dechreuwud eilwaith gyda'r gwaith....

....Rhaid cyfadda fod petha wedi altro yn fawr erbyn hyn....

Erbyn 1976, pan ysgrifennodd Martha Parry ei hatgofion, roedd pethau wedi newid cryn dipyn ym myd y ddrama.

Ychydig iawn o sylw a roddwyd hyd yma i waith Grace Thomas a theg yw dweud bod ei chyfraniad i fyd y ddrama ym Môn yn ystod y cyfnod hwn yn unigryw. Cyfansoddai ddramâu a 'dramodau', nid i ddifyrru'r gymdeithas ond, yn hytrach, i bregethu dirwest, ac yng ngeiriau Martha Parry mae'n amlwg bod y ffaith i '...un meddwyn gael ei achub y noson hono...' yn Llanfaethlu '...yn werth yr helbul i gyd'.

Yn ei Rhagymadrodd i'w llyfryn *Dramodau a Dadleuon*, dyma beth ddywed Grace Thomas am ei gynnwys a'i bwrpas:

> Ymgymerais a pharatoi y llyfryn bychan hwn ar gais amryw gyfeillion yn Llundain a gwahanol barthau o Gymru, pa rai oeddynt yn teimlo angen am lyfrau o'r fath i'w cynorthwyo gyda gwaith y Band of Hope a Chymdeithasau Dirwestol.
>
> I'r cyfryw gyfeillion yr wyf yn dymuno cyflwyno y llyfr syml hwn, gan obeithio y gall fod o ryw wasanaeth iddynt, a chyda'r dymuniadau goreu am lwyddiant eu hymdrechion o blaid sobrwydd.[17]
>
> Ydwyf, yn ddiffuant,
> G. T.
>
> Tŷ Fry,
> Pentraeth.
> Medi, 1914.

Dyma restr o'r cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rhyddhad y Meddwyn | (drama i 8) |
| 2 | Dylanwad Rhieni | (drama i 9) |
| 3 | Hau a Medi | (dadl i ddau) |
| 4 | O Dywyllwch i Oleuni | (dadl i dair) |
| 5 | Darluniau | (dadl i ddwy) |
| 6 | Moesgarwch | (ymgom rhwng tri) |

O ddarllen y rhagymadrodd fe sylweddolir bod ei chysylltiadau personol yn ddaearyddol eang, ac er mor hoff yr oedd hi o'i chymdeithas leol, ni chyfyngwyd ei gweledigaeth i'w milltir sgwâr. Mae'n debyg bod ei haddysg freintiedig yn rhannol gyfrifol am hyn. Yn sicr, nid merch oddefol, ddiniwed oedd Grace. Gellir dychmygu bod ganddi ddaliadau pendant a chryf ynglŷn â thrais a gormes yn y Gymru wledig, a thrwy ei dramâu nid ofnai gyfleu ei phryderon. Mae'r crynodeb o'i drama *Trech Gwlad nag Arglwydd* yn enghraifft dda o hyn:

> Y mae yn y ddrama hon bump o olygfeydd, a cheir ynddynt y dwys a'r cyffrous. Y mae y 'plot' yn un grymus a gafaelgar, a dangosir fod gwerin benderfynol, gydag egwyddorion cywir, yn drech na gormes ac arglwyddiaeth.[18]

Mae'n ymdrin â'r un thema yn *Cyfoeth ynte Cymeriad*:

> Y mae yn y ddrama hon gynllun cywrain iawn, a gweithir ef allan yn dra effeithiol. Cedwir y diddordeb i fyny o'r dechrau i'r diwedd, a phrofir y wers fod 'Cymeriad uwchlaw Cyfoeth' mewn modd trawiadol. Wedi ei pherfformio droion gyda llwyddiant anarferol.[19]

Gyda thoriad y Rhyfel Byd Cyntaf yn Awst 1914, chwalwyd cymdeithas a galwyd nifer fawr o'r bechgyn ifanc i amddiffyn Prydain Fawr. Fis yn ddiweddarach cyhoeddwyd *Dramodau a Dadleuon* Grace Thomas ac, efallai, erbyn hynny, mai'r gwrthwyneb i *O Dywyllwch i Oleuni* fyddai'r teitl mwyaf addas ar gyfer ei phedwaredd dadl. Diddorol, hefyd, fyddai gwybod beth oedd union ymateb Grace i weithgaredd y Parchedig John Williams, Brynsiencyn, yn ystod y blynyddoedd hynny pan aeth ati i recriwtio ar gyfer y Rhyfel Mawr.

Yng nghofiant y Parchedig R.R. Hughes, ceir darlun clir o ymateb gwŷr ieuanc Môn i ymgyrch y *Cyrnol* John Williams, Caplan Mygedol y Fyddin Gymreig newydd a grewyd ar gyfer y Rhyfel Mawr. O gofio'r newid cymdeithasol oedd i ddigwydd yn ystod y dauddegau, yn arbennig felly ymysg yr ifanc, gellir dadlau bod safiad John Williams dros ryfel wedi adweithio yn ei erbyn fel eilun crefyddol y cyfnod yng Nghymru. Mae'n edrych yn debyg bod hyn yn arbennig o wir ym Môn:

> Pan dorrodd y Rhyfel allan yn Awst 1914, teimlai John Williams fod arno gyfrifoldeb trwm i'w wlad... Yr hyn a wnaeth ... oedd ymdaflu â holl egni ei natur frwd o blaid y Rhyfel...
>
> Anerchodd ... lu o gyfarfodydd ymrestru mewn gwahanol rannau o'r wlad, ym Môn yn arbennig ...
>
> Yn ddiweddarach [Tachwedd 1915], daeth Syr Henry Jones i Fôn, a bu'r ddau ar daith trwy ran o'r Ynys. Cyn hynny, gwnaethai John Williams rai camgymeriadau mawr ac aethai'n anodd cael y bobl i gyfarfod ymrestru. Araf iawn oedd bechgyn parthau gwledig Môn i ymrestru, ni wna'r bechgyn sy'n arfer gyrru'r wedd ddim yn fyrbwyll ... [Cadwai y] bechgyn yr oedd eu heisiau ar y wlad draw o'r cyfarfodydd ... a gorchfygai [John Williams] yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Ac wrth geisio perswadio eraill, dywedodd bethau y buasai'n well peidio a'u dywedyd ...
>
> Creodd cysylltiad John Williams â'r Fyddin ddiddordeb a siarad mawr mewn cylchoedd crefyddol, yn arbennig ym mysg y Methodistiaid. Tyrrai pobl i wrando arno'n pregethu yn ei wisg filwrol. Siomid llawer oni byddai ynddi a diolchent wrth ei weld yn gwisgo'r un dillad ag a wisgai'r rhai annwyl iddynt. Ond nid felly pawb.[20]

Ar derfyn cyfnod o bedair blynedd o ymladd chwerw ac o golledion teuluol enfawr, gwelwyd newidiadau mawr o fewn y gymdeithas.

Yn ystod yr un cyfnod, ond dan amgylchiadau pur wahanol, gwelwyd newidiadau mawr yn Nhŷ Fry hefyd. Yn ei *Adroddiad Blynyddol* i aelodau Penygarnedd, 4 Ionawr 1919, dyma beth ddywed y Parchedig John Smith, gweinidog yr eglwys o 1909 hyd 1924:

> Flwyddyn yn ôl yr oedd gennym y gorchwyl pruddaidd o wneuthur coffâd am y ddiweddar Mrs. Thomas, Tŷ Fry, o fendigedig goffadwriaeth. Hwyrach i'w phriod deimlo ar y pryd mai "gormod iddi oedd ei adael, bron ar derfyn eitha'r daith". Gwyddom fodd bynnag iddo oddef ei brofedigaeth, ac na roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw. Gŵr siriol a charedig ydoedd Joseph Thomas, a pharhaodd felly i'r diwedd. Yr oedd yn adnabyddus iawn i'r pregethwyr oherwydd ei letygarwch. Bu ei dŷ megis cartref i Weinidogion y Gair am flynyddoedd lawer....Gwasanaethodd fel Blaenor am yn agos i ddeugain mlynedd.
>
> Y mae Miss Grace Thomas, Tŷ Fry, wedi rhoddi £10 tuag at gael llyfrau i wobrwyo'r plant. Y mae y swm hwn yn y "National War Bonds", a'r llog i'w ddefnyddio tuag at wobrwyo'r plant a'r bobl ieuaingc o Ysgolion Penygarnedd a Rhoscefnhir yn ôl eu safle yn yr Arholiad Sirol....

Mae'r deyrnged yma yn dweud llawer am yr aelwyd lle treuliodd Grace ei hieuenctid, ond mae'r buddsoddiad o ddeg punt yn y "National War Bonds" yn awgrymu nad oedd yn gyson ei daliadau o gofio'i chefndir.

Gellid dyfalu nad oedd fawr o ddiddordeb gan Grace mewn ffermio, a chyda'i chwaer Eliza Jane, symudodd o Dŷ Fry i Fae Colwyn yng nghanol 1920. Ond mae tystiolaeth ar gael iddi gadw cysylltiad, am ychydig amser beth bynnag, â'i hardal ac yn arbennig â'r Gymdeithas Lenyddol ym Mhenygarnedd:

> Rhoscefnhir. Cystadlu – Bu yma gyfarfod cystadleuol. Gwasanaethwyd yn feirniad ar y farddoniaeth a'r adrodd gan Llew Llwydiarth; y traethodau, Miss Grace Thomas, Sunny Leigh, Colwyn Bay....[21]

Wedi cyfnod ym Mae Colwyn, gwyddys i'r ddwy chwaer symud i fyw at berthynas iddynt yn Y Rhyl lle bu farw Eliza Jane yn 1949 a Grace yn 1950. Yn 1920 daeth i ben gyfnod sefydlu Cwmni Drama Rhoscefnhir, ond cyn y gellid mynd ymlaen â hanes y cwmni rhaid yn gyntaf gyflwyno braslun o'r datblygiadau cyffredinol a ddigwyddodd ym myd y ddrama yn genedlaethol, ac ym Môn yn arbennig, yn ystod y dauddegau cynnar.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1915 y cynhaliwyd y gystadleuaeth gyntaf am actio drama.[22] Er mai cystadleuaeth ohiriedig o 1914 ydoedd, erys yn garreg filltir bwysig yn natblygiad y ddrama yng Nghymru. Gyda T.J. Williams a'r Dr. J. Lloyd Williams yn beirniadu, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Gwmni'r Ddraig Goch, Caernarfon am ei berfformiad o *Beddau'r Proffwydi* (W.J. Gruffydd), a'r ail wobr i Gwmni Gwaelod y Garth, Caerdydd am ei berfformiad o *Asgre Lân*

(R.G. Berry). Ond byr fu'r arbrawf. Ni chynhaliwyd cystadleuaeth actio drama hyd Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1921 pryd y dyfarnwyd y wobr gyntaf i Gwmni Dan Matthews, Pontarddulais am ei berfformiad o *Effraim Harris* (D.T. Davies), a'r ail wobr i Gwmni Godre'r Berwyn gydag *Ar y Groesffordd* (R.G. Berry). Dyma'r cyfnod a ddisgrifir gan O. Llew Owain fel 'cyfnod y deffroad'.[23]

Gweddnewidiwyd cymdeithas gan y Rhyfel Mawr. Cyfeiriodd y chwalfa olygon y bobl tuag at well dyfodol, tuag at ddyfodol o obaith, o ryddid ac o hapusrwydd. Awgrymir yma bod holl erchylltra rhyfel wedi siglo daliadau crefyddol llawer ohonynt ac wedi herio eu ffydd. Gwelwyd y ddrama fel cyfrwng i helpu'r bobl i anghofio'r rhyfel drwy ddod â pheth llawenydd i'w bywydau ac i'w cymdeithasau lleol. Ond, wrth reswm, roedd hefyd angen cnewyllyn sylweddol o gyfarwyddwyr brwdfrydig i wynebu'r sialens. Rhaid cofio bod y sefyllfa yma yn bodoli ledled yr ynys ac nad sefyllfa unigryw i ardal Rhoscefnhir mohoni. Roedd y gymdeithas yn Llannerch-y-medd, yn Llangefni ac ym mhob Rhos a Llan arall yn barod ar gyfer y 'deffroad'.

Ond bodolai gwrthwynebiadau chwyrn i'r awydd hwn am ddeffroad ym myd y ddrama. Er enghraifft, ymddangosodd yr erthygl ganlynol yn y wasg:

Y DDRAMA
(At y Golygydd)

Syr, - Y mae gogwydd yr oes hon yn troi at y ddrama, gan adael heibio y pethau pwysig, sef ffydd yr Efengyl. Mae hon yn mynd yn llythyren farw yn hanes yr eglwysi, ac y mae llif-ddorau pob math o chwaraeon gwag a disylwedd yn cael eu hagoryd o led y pen, i dderbyn i fewn i fywyd y genedl y ddrama a chyffelyb bethau. Pa le mae holl feibion y proffwydi? A ydynt hwy oll yn cysgu? Canys nid oes llef na neb yn ateb o'u gwersyll hwy yn erbyn y pla marwol hwn sydd yn peryglu bywyd yr eglwysi....rhyfeddem....na fuasai ambell i bregethwr barddol yn cael....ysbryd i lefaru yn erbyn yr eilunod sydd yn denu y bobl i ymwadu ac i

YMADAEL A FFYDD YR EFENGYL

Onid yw yr eglwysi yn wag heddiw? Onid yw y cyrddau pregethu yn colli eu dylanwad?....Os bydd eisieu llonaid y capel o gynulleidfa rhaid yw cyhoeddi y ddrama ddigrifol i gael ei hactio, ac yna ni cheir siomedigaeth yn rhifedi y gynulleidfa. Mae gogwydd yr oes ar ôl y ddrama a'r ddawns a'r bêl droed, ac y mae bodolaeth yr eglwys heddyw wedi myned i ymddibynu ar eu cysylltiad â'r pethau hyn, ac y mae yr eglwysi wedi ymostwng yn barod i ymofyn eu cynorthwy at dalu eu dyledion.

Onid yw hyn yn sarhad ar eglwys Dduw? Oni fuasai yn sarhad ar yr haul i ofyn i'r gannwyll roddi iddo gymorth i gadw ei belydr a'i wres? Felly y mae yr eglwys heddyw yn

> TROI AT Y DDRAMA
>
> gan erfyn ei chymorth er cadw i fyny ei gogoniant rhag hollol ddiflannu. A ellir hyderu y bydd dylanwad y ddrama yn effeithiol i gadw i fyny amcan yr Efengyl yn y byd? Beth yw nod Efengyl? Onid ennill dynion i gredu yng Nghrist? Beth yw nod y ddrama? Onid gwneud arian yw ei holl nod? Onid yw yn cyd-redeg yn ei hamcan â'r theatre a'r cinemas a'r dawnsfeydd a'r bêl droed? Pa fudd sydd i neb ynddynt ond budd ariannol yn unig? Ac y mae y to ieuanc sydd yn codi yn gwario eu holl amser a'u holl feddwl ar y pethau hyn, ac nid oes ganddynt flas o gwbl at bethau'r Efengyl....Fel y gwelir eisoes, mae arwyddion amlwg yn dwyn tystiolaeth i'r ffaith fod ymadawiad oddi wrth y ffydd yn cymryd lle trwy ein gwlad...mae y capeli bron yn wag ar y Sabothau, tra yr oedd neuaddau y ddrama a'r cinema ar nos Sadwrn yn orlawn, a thebygol pe buasai y ddrama yn cael
>
> EI PHERFFORMIO BORE SUL
>
> y buasai y capel yn llawn.
>
> Credwn mai hyn sydd eisieu yn y dyddiau presennol, sef dynion o gyffelyb ddawn i'r seraff o Dalysarn (sef John Jones), i bregethu dylanwad y ddrama a'r ddawns a'r bêl droed allan o feddwl a chalon y bobl. Dyma yr unig feddyginiaeth effeithiol i lwyr ddymchwelyd gwamalrwydd yr oes....gan gyfeirio traed y bobl i gerdded yn llwybrau purdeb a sancteiddrwydd.
>
> SAMUEL[24]

Ni wyddys beth fu adwaith Grace Thomas i'r sylwadau hyn o gofio amcanion ei dramâu a'i 'dramodau'.

Er gwaethaf y protestio, sefydlwyd ym Môn yn ystod y dauddegau gwmnïau drama ar gyfer pobl ifanc y capeli a'r eglwysi. Efallai i'r deffroad yma ddeillio o weledigaeth Ifan Ab Owen Edwards am ddyfodol ieuenctid Cymru. Wedi'r cwbl, prif bwrpas sefydlu Urdd Gobaith Cymru yn 1922 oedd ceisio sianelu egni'r ifanc i gydnabod eu gwlad, eu cyd-ddyn a'u Crist, a hynny mewn ysbryd o wir lawenydd.

Wedi i Grace Thomas symud i Fae Colwyn yn 1920, prin fu'r gweithgarwch dramayddol yn Rhoscefnhir yn ystod hanner cyntaf y degawd. Er bod y Gymdeithas Lenyddol a'r ŵyl gystadlu flynyddol yn parhau mewn bri, nid oes cyfeiriad at y cwmni drama. Efallai bod hyn yn dystiolaeth o ffrwgwd a fodolai'n lleol rhwng y garfan hŷn, draddodiadol ei meddylfryd, a'r garfan ifanc â ddymunai ymwneud â'r ddrama. Gellid dadlau mai effeithiau'r Rhyfel Mawr oedd yn rhwystro'r gymdeithas rhag ailafael yn y tresi.

Ond erbyn tua 1926 newidiodd pethau ac ysbrydolwyd yr ardal gan frwdfrydedd a gweledigaeth Walter Rowlands [Gweler Atodiad A(2)]. Yn fuan wedi iddo gael ei ethol yn flaenor ym Mhenygarnedd yn Rhagfyr 1926, ac yntau'n ddeugain ac un mlwydd oed, ymgymerodd â'r

dasg o ailsefydlu'r cwmni drama. Ers blynyddoedd, bu Walter yn amlwg yn holl weithgareddau llenyddol yr ardal ond am y tro cyntaf cyfeiriodd ei olygon tuag at lwyfan y ddrama yn hytrach na'r llwyfan adrodd yr oedd mor gyfarwydd ag ef. Mae'n amlwg ei fod yn fyw i'r deffroad dramayddol ac roedd am i ardal Rhoscefnhir fod yn rhan o'r deffroad hwnnw. Mentrodd i actio a chyfarwyddo tair drama fer yn hytrach nag un ddrama hir. Dyma fu patrwm cynyrchiadau Cwmni Drama Rhoscefnhir hyd y pumdegau.

Roedd i'r fath fenter ei manteision cymdeithasol. Er bod peth dyblu actorion o un ddrama i'r llall yn anochel o dro i dro, yr oedd perfformio tair drama fer yn rhoi gwell cyfle i gynnwys mwy o actorion. Yn adloniadol gellid dadlau bod tair drama a thri phlot yn cynnig amrywiaeth a byddai hynny, o bosibl, yn plesio'r cynulleidfaoedd. Ond i'r cyfarwyddwr roedd gorfod darparu tair drama yn gryn fenter. Mewn cyfnod pryd y gwelwyd cynnydd yn y nifer o ddramâu oedd ar gael yng Nghymru, yn enwedig dramâu un act, byddai cyflwyno tair drama yn golygu darllen a dethol yn ofalus, nid yn unig gyda'r gynulleidfa mewn golwg, ond yn fwyaf arbennig gyda'r castio. Golygai hyn yr angen i drefnu'r ymarferion yn ofalus ynghyd â darparu a threfnu tair set. Ar ben hyn, byddai'n rhaid trefnu i gael rhywun i ddiddanu'r gynulleidfa yn ystod o leiaf ddwy egwyl.

Adroddwr oedd Walter Rowlands yn y bôn, ac yn ôl pob tebyg ei ddull o gyfarwyddo fyddai dal y sgript yn ei law, dilyn pob gair, ac ymateb i bob atalnod. Mae'n sicr i'w ddull fod yn ddi-fflach ar adegau ond enillodd barch a chefnogaeth ei actorion, a daeth llewyrch unwaith eto ar Gwmni Drama Rhoscefnhir. Rhoddodd y cwmni ei berfformiad cyntaf yn Chwefror 1927:

> Yn Ysgoldy Cefnhir nos Sadwrn, caed tair drama fer, *Gwedi'r Gwyll*, *Modryb Martha* a'r *Melinydd* gan gwmni o Gymdeithas Lenyddol Penygarnedd....Caed actio rhagorol gan yr oll o'r cwmni, dim un gwael. Yr oedd yno rai yn well na'i gilydd wrth gwrs....

| | | |
|---|---|---|
| *Gwedi'r Gwyll* | - | Hugh Williams, Tanygarnedd |
| (E.J. Evans) | | Hugh Glyn Owen, Tyddyn Bwn |
| | | Walter Rowlands, Cefnhir |
| | | Ifor Roberts, Fferam |
| | | Owen Parry, Tanycoed |
| | | Enid M. Owen, Penrhos |
| | | Bessie Owen, Penrhos |
| *Modryb Martha* - | | Ann E. Williams, Y Siop |
| (D.R. Jones) | | Hugh Glyn Owen |
| | | Tom Hughes, Bwlch |

| | | |
|---|---|---|
| | | Thomas Owen, 'Refail |
| | | Olwen Hughes, Y Gweithdy |
| | | Bessie Owen |
| | | Enid M. Owen |
| *Y Melinydd* | - | Lizzie Williams, Y Siop |
| (H.O. Hughes) | | John Glyn Owen, Penrhos |

> Tair drama ddoniol ydynt....Deallir fod y cwmni hwn....yn barod i wasanaethu'n rhad pe deuai galwad o unrhyw ardal yn y cyffiniau. Yn ystod y noson bu T. J. Hughes, Y Gweithdy, yn canu ddwywaith.[25]

Am dair blynedd wedi hyn, er bod cryn lewyrch ar y gweithgareddau llenyddol yn gyffredinol, ni cheir rhagor o sôn am y cwmni drama lleol hyd Chwefror 1930. Yn y cyfamser fodd bynnag, cynhaliwyd y traddodiad dramayddol yn Rhoscefnhir gan ymweliadau cwmnïau drama Llandegfan gyda *Y Corn* (John Ellis Williams), Llangristiolus gyda *John a Jâms* (Brinley Jones), Tre'r Beirdd gydag *Endaf y Gwladgarwr* (R.D. Owen) a Chapel Mawr gyda *Modryb Martha* (D.R. Jones).

Nos Sadwrn, 22 Chwefror 1930, '....chwaraewyd tair drama fer gan gyfeillion ieuainc a berthyn i Gymdeithas Lenyddol Penygarnedd....Ni ddeil yr adeilad ond tua chwe i saith ugain i eistedd yn gysurus, a chyda llaw awgrymwn y byddai'n llawer gwell y tro nesaf i drefnu dwy noswaith i chwarae gwaith fel hwn....'.[26] Tair comedi gan R. Lloyd Jones oeddynt, sef *Arian Modryb*, *Y Walet* a'r *Census*. Dyma pryd yr ymddangosodd Emyr Jones, Wigoedd, fel actor am y tro cyntaf ac yntau bron yn bymtheg oed. Ei dad, John Jones ('Dyfnan') oedd y sylwebydd ac yn yr un erthygl aeth ymlaen i ddweud mai

> [p]eth arall deimlem yn feius ar brydiau ydoedd siarad a chefn y chwareuydd at y dorf. Cawsom hynny fwy nag unwaith, ac yn bechod mawr....Y maent yn werth eu gweld, a bydded iddynt ymgymryd â drama fawr – rhai o'r dramodau a wobrwywyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol neu rhyw ddrama arall a thipyn o son amdani. Mae yma dalent a medr i chwarae nad oes amgenach ym Môn, ac ystyried cwmni o un gynulleidfa fel Cymdeithas Lenyddol Penygarnedd – J.J.

Gellir dehongli geiriau John Jones fel apêl am weld rhywbeth amgenach; am weld dramâu o safon yn ymddangos ar lwyfannau'r sir. Yn sicr, roedd ganddo weledigaeth glir am ddyfodol y ddrama Gymraeg. Ond, ar yr un pryd mae ei eiriau'n awgrymu ei fod yn y bôn ym ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd gan y cwmni lleol hwn eisoes:

> RHOSCEFNHIR. CYFUNO DAU ROS. – Cafodd Rhosneigr fri nas haeddai yn y 'Clorianydd' diwethaf, canys rhoddwyd hanes gŵyl gystadlu Nadolig Rhoscefnhir dan enw'r fangre dywodlyd ger Creigiau Crugyll – mewn geiriau eraill, lladratawyd y clod a berthyn i ni. Rhaid i'r papur edrych ati a pheidio ieuo'r ddau Ros eto, yn enwedig pan fo hynny'n golygu gwneud i ffwrdd â'r enw Rhoscefnhir![27]

Ysbeidiol oedd ymddangosiadau Cwmni Rhoscefnhir o dan gyfarwyddyd Walter Rowlands. Er bod nifer o gwmnïau Môn wedi ymddangos o dro i dro yn Ysgoldy'r Rhos, bob rhyw dair neu bedair blynedd y gwelwyd y cwmni lleol yno. Am y tro olaf o dan gyfarwyddyd Walter, cyflwynwyd tair drama fer yn ystod 1934, sef *Y Doctor* (R. Lloyd Jones), *Unigrwydd* (cyf. R Ellis Jones o waith Harold Brighouse), *Canwyllbrennau'r Esgob* (cyf. John Pierce o ddrama Norman McKinnell). Gyda'r dewis hwn glynwyd wrth y traddodiad o roi cyfle i nifer sylweddol o'r actorion lleol. Ond mae'n amlwg na chafodd apêl Dyfnan yn 1930 lawer o effaith ar Walter Rowlands. Mae'n bosibl mai diffyg hyder a'i rhwystrodd rhag mentro ' ... â drama fawr'. Yn sicr roedd ganddo'r actorion. Er bod Walter Rowlands yn ddyn amryddawn, efallai nad oedd yn ddigon uchelgeisiol ei orwelion ym myd y ddrama. Roedd hefyd yn ddyn prysur, ac efallai mai'r prysurdeb yma a'i hoffter o bwyllgora oedd yn rhannol gyfrifol am iddo roi'r gorau i gyfarwyddo o hynny mlaen.

Gydag 'ymddeoliad' Walter fel cyfarwyddwr daeth terfyn ar gyfnod arall yn hanes Cwmni Drama Rhoscefnhir, ac fel Grace Thomas o'i flaen chwaraeodd Walter ran arbennig iawn yn yr hanes hwnnw. Fel y crybwyllwyd eisoes, bu castio Walter ar gyfer dramâu 1930 yn ddylanwadol o safbwynt dyfodol y cwmni. Yn ystod y flwyddyn honno fe gofir i Emyr Jones ymddangos fel actor am y tro cyntaf, a byddai hyn yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed erbyn y pedwardegau [Gweler Atodiad A(3)].

Ar wahân i rywfaint o ohebiaeth yn nodi ymweliadau cwmnïau'r sir â'r ardal o dro i dro, prin yw'r dystiolaeth o fodolaeth y cwmni drama lleol yn ystod ail hanner y tridegau. Ond serch hynny, nid cyfnod o ddifaterwch dramayddol hollol fu hwn. O 1934 hyd 1939 treuliodd Emyr Jones, mab y Wigoedd, ei wyliau yn gwylio perfformiadau o safon, a thrwyddynt daeth yn ymwybodol o fodolaeth lefelau o actio ac o

lwyfannu llawer uwch na'r hyn a welid ym Môn hyd hynny. Er bod ganddo ddiddordeb mawr mewn adrodd, ymwelai â'r Eisteddfod Genedlaethol yn gyson, nid i wrando ar yr adroddwyr ond, yn hytrach, i weld y dramâu a berfformid gyda'r nos yn ystod wythnos yr eisteddfod. Yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun, roedd ganddo ddiddordeb arbennig ym mherfformiadau'r Cwmni Cenedlaethol a'r dramâu comisiwn. Cafodd ei ysbrydoli gan gynyrchiadau Dan Matthews,[28] Pontarddulais, a Haydn Davies, Maerdy, a chafodd ei wefreiddio gan feirniadaethau'r olaf. Gwelodd, er enghraifft, bod modd llwyfannu drama'n llwyddiannus o flaen llenni yn hytrach na set. Sylweddololodd fanteision hynny i gwmnïau Môn. Cafodd gyfle i weld llwyfannau eang a defnydd cywrain o oleuadau, dwy agwedd na allai cyfarwyddwyr dramâu Môn y cyfnod ddim ond breuddwydio amdanynt. Wrth edrych yn ôl, gellid dadlau mai Emyr Jones, o bosibl, oedd y cyfarwyddwr 'lleol' cyntaf o Fôn i weld ac i werthfawrogi rhagoriaethau llwyfannu da. Yr oedd yn wir ymwybodol o'r hyn y gellid ei gyfleu yn weledol ar lwyfan, a'i awydd oedd sicrhau fod cwmnïau Môn yn deall hyn hefyd. Ychydig dros flwyddyn wedi iddo weld cynhyrchiad Haydn Davies o'r ddrama glasurol *Macbeth* yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1938, daeth ei gyfle.

Yn 1939, penodwyd John Owen Jones yn Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn. Un o'i amcanion cyntaf oedd sefydlu gŵyl ddrama flynyddol yn y Sir, a chyda hyn mewn golwg, aeth ati i sefydlu pwyllgor drama i helpu cwmnïau Môn. Dan ei arweiniad, crewyd pwyllgor o bump gan gynnwys Emyr Jones. Anelwyd at gynnal yr ŵyl gyntaf yn Neuadd y Dref, Llangefni, ym Mawrth 1942, ac ar delerau rhan-amser apwyntiwyd Emyr yn un o dri a oedd i ymweld â'r amrywiol gwmnïau gyda'r bwriad o'u hannog i gystadlu, nid am arian, ond yn hytrach am dlysau a thystysgrifau. Bu 1941 a 1942 yn gyfnod prysur iawn iddo gan ei fod yn ffermio yn ystod y dydd a threulio y rhan fwyaf o'r nosweithiau yn crwydro pentrefi Môn.

Ar gyfer yr ail ŵyl ym Mawrth 1943, manteisiodd ar y cyfle i ailsefydlu Cwmni Drama Rhoscefnhir a thrwy wneud hynny rannu ei arbenigedd a'i wybodaeth ddramayddol â'r gymdeithas leol. Am y tro cyntaf penderfynwyd canolbwyntio ar un ddrama fer yn unig a chystadlu yn 'Adran Agored' yr ŵyl. Gyda Cynan yn beirniadu, cyflwynwyd *Y*

*Cab*, trosiad Jeremiah Jones o gomedi John Taylor, gyda phedwar o gymeriadau. Ymgeisiodd saith cwmni a chafwyd cystadleuaeth ganmoladwy. O dan gyfarwyddyd y Parchedig John Evans, Cwmni Gad Bodffordd a aeth â hi gyda'i berfformiad o *Pawen y Mwnci*, cyfieithiad John Ellis Williams o gomedi W.W. Jacobs. Er bod canlyniad y gystadleuaeth wedi eu siomi, fe gofia Emyr Jones iddynt dderbyn beirniadaeth deg ac adeiladol, a phenderfynodd fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn Awst 1943. Yn sgil y siomedigaeth ac, yn wir, oherwydd y siomedigaeth hon, daeth ffraethineb cefn gwlad i'r wyneb. Yr oedd Johnnie Williams, Y Siop, Rhoscefnhir, wedi mynd i'r Ŵyl Ddrama i gefnogi'r cwmni, ac ar derfyn y feirniadaeth gofynnwyd iddo beth a feddyliai o'r canlyniad. Daeth ei ateb fel ergyd o wn: 'Welish i ddim byd ym mhawan y blydi mwnci!' [29]

Astudiodd y cyfarwyddwr feirniadaeth Cynan yn fanwl a defnyddiodd ei brofiad i weithredu ar sylwadau ac awgrymiadau'r beirniad yn arbennig felly gan mai Cynan fyddai eto'n beirniadu ym Mangor. Yn ôl pob tebyg roedd Emyr yn berffeithydd, yn gyfarwyddwr medrus a manwl, a hawdd yw tybio i'r actorion wynebu oriau o ymarfer caled gyda'r bwriad o anelu at y perffeithrwydd hwnnw ar gyfer y gystadleuaeth 'fawr'. Yn ystod pob ymarfer, disgwyliai i bawb dynnu ei bwysau. Fel cyfarwyddwr ni ddewisiai ddramâu clogyrnaidd eu deialog, ac i osgoi hyn ni fyddai'n glynu'n dynn at unrhyw sgript ac nid ofnai wneud newidiadau i'r iaith nac i'r symudiadau.

Ymgeisiodd pedwar ar ddeg o gwmnïau a chynhaliwyd y rhagbrofion ar lwyfannau lleol ar hyd a lled Cymru yn ystod y misoedd blaenorol. Yn ei sylwadau cyffredinol, eglurodd Cynan mai:

> ....[a]mcan y nodiadau hyn ynteu fydd ceisio codi safon y gystadleuaeth yn gyffredinol at y dyfodol – a thrwy hynny safon llwyfannu'r ddrama Gymraeg yn ardaloedd y gwahanol gwmnïau. Y mae hynny'n nod llawer pwysicach yn fy ngolwg....na'r cyfrifoldeb o benderfynu pa dri chwmni a haeddodd ei galw i'r prawf terfynol ym Mangor....
>
> Nid mater o gael theatr broffesedig ar gyfer rhagbrawf pob cwmni yw hyn ond mater o barchu yr Eisteddfod Genedlaethol, a safon Celfyddyd y Ddrama ei hun o ran hynny, hyd at osod uchelgais gan bob cwmni Cymraeg i fynnu gwneuthur defnydd artistig o'r adnoddau llwyfannu sydd yn eu hardal....[30]

Aeth ymlaen i egluro ei fod wedi cloriannu'r perfformiadau o dan bump pennawd: 'Dewis', 'Llwyfaniad', 'Cynhyrchu', 'Actio' ac

'Awyrgylch'. Ar sail hyn, dewisiwyd tri chwmni i ymddangos ar lwyfan y County Theatre, Bangor, ym mis Awst; Chwaraewyr Colwyn yn cyflwyno *Ymwared* (J.D. Jones); Cwmni Porthaethwy yn cyflwyno *Y Dieithryn* (D.T. Davies); a Chwmni Rhoscefnhir yn cyflwyno *Y Cab* (cyf. Jeremiah Jones).

O gofio pa mor gyfyng oedd ysgoldy Rhoscefnhir, ymwelodd Emyr Jones â'r County Theatre ymlaen llaw i fesur hyd a lled y llwyfan ac i daro golwg dros y goleuadau. Yr adeg hynny, y BBC oedd yn gofalu am yr adeilad. Ar gyfer pob ymarfer o hynny mlaen, symudwyd meinciau'r ysgoldy o'r neilltu er sicrhau mesuriadau cywir ar gyfer y prawf terfynol. Ond doedd dim dewis gyda'r goleuadau; rhaid oedd bodloni ar oleuni'r lampau olew.

Cynhaliwyd y prawf terfynol nos Wener, 6 Awst 1943, a pherfformiwyd y dramâu yn y drefn a nodwyd eisoes. Yn ei feirniadaeth[31] rhoddodd Cynan amlinelliad o gynnwys y tair drama. Am ddewisiad Cwmni Colwyn eglurodd mai hi oedd '....y ddrama fwyaf anodd ei llwyfannu o'r un yn y gystadleuaeth – nid y ddrama orau fel cyfansoddiad allan o'r 14, ond y ddrama a alwai am fwyaf o uchelgais llwyfan i'w chyfarwyddo'n effeithiol – yn enwedig tan amodau cystadleuaeth....'

Cyfansoddwyd dewis Cwmni Porthaethwy, *Y Dieithryn*, ryw ugain mlynedd ynghynt ac fe'i lleolwyd, yn ôl Cynan, '....ym mynyddoedd moel Morgannwg....DRAMA AWYRGYLCH YDYW. Meddyliodd yr awdur am lawer dyfais i awgrymu'r awyrgylch rhyfedd fel y gallo'r gynulleidfa gredu yn y datblygiad rhyfedd sydd i'r plot....'

Dyma beth a ddywed Cynan am *Y Cab*:

> '....Comedi yn ymylu ar fod yn Ffârs. Mewn Comedi bur cyfyd y digrifwch yn bennaf o'r gymeriadaeth; mewn Ffârs bur, o'r sefyllfa; a dichon y byddai'r sefyllfa ddigrif honno yn un gwbl anhygoel mewn bywyd gwirioneddol.
>
> Mewn Ffârs gan hynny gellir gorwneud weithiau fel na ellir mewn Comedi. Gan fod y ddwy elfen i'w cael yn y Gomedi-ffârs hon, ni ellir condemnio'n llym yr ymgais i fwynhau'r digrifwch trwy beth ffwlbri a fyddai allan o le mewn Comedi bur...
>
> Defnydd ysgafn, rhagor na'r ddwy ddrama arall – ond defnydd a syrth yn fflat oni cheir cymeriadaeth benigamp gan bob actor, cynhyrchu cyflym deheuig, actio byw a phefriog, heb wastraffu symudiad, ac yn trefnu bod effaith y diweddglo fel effaith ffrwydrad. Dyma'r gamp a ofyn y ddrama hon, ac nid yw'r gamp yn un hawdd ei sylweddoli o gwbl gan gwmni amateur oherwydd er ysgafned y

defnydd fe hawlia gyd-chwarae medrus cwmni wedi dyfod yn dîm gwirioneddol heb un actor gwan na phetrus ynddo.

Cyn y perfformiad terfynol, gofynnodd Emyr i'r technegydd goleuadau roi'r holl oleuadau ymlaen ar gyfer perfformiad Rhoscefnhir. Mae'n amlwg bod penderfyniad y cyfarwyddwr yn un doeth gan i Cynan grybwyll hyn yn ei feirniadaeth:

> Llwyddwyd gyda'r un cefndir a chyda rhai o'r un celfi, i newid yr awyrgylch yn llwyr at y ddrama olaf. Wrth gwrs, yr oedd y ddrama ei hun yn un a ganiatai y goleuo disgleiriach hwn, ond yr oedd yn haws hefyd dal diddordeb y gynulleidfa gan y cwmni hwn na chyda lleisiau a ffigurau o ryw hanner gwyll, a ninnau heb fod yn gweled adlewyrchu'r ddrama yn nrych yr wynebau megis a fu i'r fath raddau yn llwyfaniad y ddwy gyntaf.
>
> Dangosai'r perfformiad yma ddisgyblaeth cynhyrchydd medrus a deallus, un wedi ei drwytho yn egwyddorion llwyfannu. Deuai hynny i'r amlwg yng ngosodiad y celfi, yn y defnydd a wnaed o holl arwynebedd actio y llwyfan, yn y tempo godidog a nodweddai'r chwarae drwyddo draw, ....Yn wir, amheuthun iawn cael cyflymed tempo slic gan gwmni amateur wrth gyflwyno Comedi – ffârs....
>
> JONATHAN (Edward Hughes) : Gallai roi golwg wirion arno'i hun yn ei brofedigaeth – yn llipa ddigalon, gwr ag ofn ei wraig yn amlwg arno....
>
> Gwasgodd bob owns o gomedi allan o ymadroddion....
>
> LIZZIE ANN (Bessie Owen) : Yn naturiol dros ben ac yn rhagorol yn y cymeriad....
>
> ....Rhagorol y cadwai hi'r dialog gloyw i lifo'n braf drwy'r busnes o osod y bwrdd, toddi menyn ac ymwisgo neu ddiosg côt a het....Fel pob aelod o'r cwmni hwn, yr oedd yn hollol sicr ohoni ei hun.
>
> DANIEL (Emyr Jones) : Comediwr tan gamp. Mae ganddo res o driciau medrus yn ei gawell saethau, ac fe wyr yn sicr sut i daro nod chwerthin y gynulleidfa gyda phob un ohonynt....
>
> ....Ac am ei oslef a'r ymadrodd digrif, saif ar ei ben ei hun yn yr holl gystadleuaeth....
>
> Medrus hefyd ei ddefnydd o'i ddwylo fel comedïwr....
>
> ....Efallai fod tuedd yn yr actor gwych hwn i yrru'r ddrama trosodd weithiau yn ormodol i dir ffârs, ond wedyn comedi – ffârs ydyw ac nid comedi bur....
>
> SILAS (Ifor Roberts) : Yntau, hynny a welsom ohono, yn edrych part yr ewythr cyfoethog, coes-bren, wedi ei gythruddo drwyddo....
>
> ....Yn wir, gan y cwmni hwn y cafwyd cyd-chwarae gorau'r gystadleuaeth. Tim profiadol yn taflu'r bêl yn gyflym, gyflym, o'r naill i'r llall heb adael iddi syrthio gymaint ag unwaith.
>
> Rhwng y cynhyrchu slic, y gymeriadaeth, yr actio a'r tempo gwych cafwyd perfformiad hwyliog a chofiadwy o'r dechrau i'r diwedd.
>
> ....yr wyf yn ddibetrus yn eu dyfarnu yn orau mewn cystadleuaeth dda, ac yn cyhoeddi'r ddau gwmni arall yn gydradd ail....

Gyda'r feirniadaeth hon, rhoddwyd Rhoscefnhir ar y map fel y cwmni drama cyntaf o Fôn i ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Os edrychir yn hollol wrthrychol ar lwyddiant y cwmni, ac os ystyrir mai cwmni gwledig iawn ydoedd, roedd hyn yn gryn gamp. Gellir dadlau

mai llwyddiant Rhoscefnhir a ysgogodd gwmnïau Llannerch-y-medd a Llangefni i'w efelychu yn ystod y degawd nesaf.

Hyd y gwyddys ni wnaeth Grace Thomas ymateb i'r llwyddiant hwn. Serch hynny, manteisiodd ei brawd ieuengaf, Robert Ernest (Ernie), ar y cyfle i ddathlu'r fuddugoliaeth ym Mangor gyda'r penillion hyn:

Mae llawer o ddramodau
Ar hyd a lled y Sir;
A llawer o gwmnïau
Ond un o Roscefnhir.

Mae'r cwmni bychan yma
Yn enwog drwy y Sir;
Ardaloedd am y cynta'
Yn galw Rhoscefnhir.

Cadd 'Steddfod Genedlaethol
Y fraint o'u clywed hwy;
Perfformiad gwir ragorol,
Canmoliaeth fwy na mwy.

Ac am y parti yma
Bydd llawer mwy o son;
Am iddynt ddod a'r 'cynta'
O Fangor i Sir Fôn.[32]

Unwaith eto cafwyd arwyddion bod y balchder lleol yn codi ei ben, a cheisiodd Percy Hughes rybuddio'r cwmni rhag llaesu dwylo wedi'r fuddugoliaeth ym Mangor:

> ....'Rwan, hogia, peidiwch a cholli gafael ar eich gilydd; daliwch ati.
> Dyrchafwch eto enw'r ardal fel yn fuan ceir caniatad i ddweud Pentraeth, "near Rhoscefnhir", ac nid fel arall. Rhyw was i Bentraeth fu Rhoscefnhir am flynyddoedd. Bellach gwelir newid! Llongyfarchiadau calon gan un y mae'r Rhos yn annwyl iddo.[33]

Ond doedd y fuddugoliaeth ddim yn fêl i gyd. Mewn cymdeithas glòs, ni ddisgwylid gweld neb yn protestio nac yn codi nyth cacwn. Ond dyma'r union beth ddigwyddodd yn nghanol Awst 1943. Yn ei golofn 'Byd yr Amaethwr', [34] ymddengys dwy erthygl gan R.C. Pierce, y gyntaf yn ymwneud â 'Chronfa'r Groes Goch' a'r llall yn dwyn y teitl 'Chwarae Drama Ynteu Codi Bwyd'. Yn yr ail erthygl, ei brif gŵyn oedd iddo ddeall yr wythnos flaenorol bod dyn ieuanc wedi ei gymell i fynd:

> ....oddi ar fferm ym Môn ... i Gaerdydd am fis o baratoadau ar gyfer chwarae drama....Cefais fod y dyn ieuanc dan sylw, oedd wedi cael rhyddhad o wasanaethu yn y fyddin am ei fod yn weithiwr amaeth ar

> hyd ei oes, i ymadael am ei gwrs dramatig yr wythnos hon....Yr oeddwn mewn llawn gydymdeimlad â'i feistr, hen ŵr dros 85 mlwydd oed....

Ai protest yn seiliedig ar argyhoeddiad gwirioneddol ddidwyll oedd hon ynteu rhyw anesmwythyd yn deillio o genfigen amaethyddol neu gymdeithasol? Ysywaeth, does dim tystiolaeth ar gael i brofi'r naill ffordd na'r llall, ond doedd dim amheuaeth beth feddyliai 'Dyfnan' o'r mater. Yr wythnos ddilynol, ymddangosodd ei ymateb yn y wasg:

> Chwarae Drama Ynteu Codi Bwyd
> (At y Golygydd)
>
> Syr, - Os gwelwch yn dda roddi imi ofod i air neu ddau i alw sylw at lythyr Mr R. C. Pierce o dan y pennawd uchod yn eich rhifyn diweddaf o'r Clorianydd. Ymesyd ar y ddrama a'r dramawyr yn gyffredinol a hynny ar gyfrif rhyw un dyn ifanc a roes heibio ei waith ar y fferm i ymuno â chwmni drama arbennig am gyfnod o amser. Fy hunan yr wyf mewn cydymdeimlad fel yntau â'r hen ŵr y cyfeirir ato; ond y mae i mi gweryl a Mr. Pierce parthed ei sylw ar y ddrama a dramawyr yn gyffredinol ar gyfrif act un dyn ifanc. Fe wn innau am ddyn ifanc arall – yn weithiwr amaeth – a fethodd weld ei ffordd yn glir i ymuno â'r cwmni dan sylw ar ganol cynhaeaf ŷd. Mae Mr. Pierce yn gywir pan ddywed na fyddai yma ddrama o gwbl pe cawsai Hitler ei ffordd yn rhydd i ddyfod i'r wlad yma. Ond mor gywir a hynny gallai ysgrifennu hefyd na byddai yma na 'steddfod na phwyllgora, ac na fyddai yma undeb amaethwyr ychwaith. Nac ymosoder ar y ddrama eto, canys y mae yn Rhoscefnhir gwmni drama ar oll ohonynt yn weithwyr amaeth, ac wedi rhoddi eu gwasanaeth yn ystod y gaeaf diweddaf mewn canolfannau yn y sir tuag at y Groes Goch a chysur y milwyr, a hynny heb golli hanner awr o'u hamser gwaith; ac mae ganddynt hwythau eu teimladau.[35]

Hawdd iawn yw sôn am ddyddiau difyr y gorffennol, ond wrth ymddiddan ag Emyr Jones caiff rhywun ei dywys i gyfnod sy'n prysur fynd yn angof. Yn ei gwmni cawn ein hatgoffa o gymdeithas oedd yn bur wahanol i'r hon sy'n bodoli heddiw. Ni ellir dweud bod bywyd y cyfnod yn fywyd hawdd, ond yn sicr yr oedd yn llawer mwy hamddenol, a rhoddai gyfle i ardal wledig gymdeithasu a'i diwyllio ei hunan yn ystod yr wythnos waith drwy lenydda a thrwy ymhél â'r ddrama. Wrth grybwyll yr Ail Ryfel Byd, soniodd am y prinder petrol ac am y rheolau llym ynglŷn â defnyddio goleuadau. Dyma rai o'r anawsterau ymarferol y bu'n rhaid i gwmni Rhoscefnhir eu goresgyn yng nghanol y pedwardegau, ac yn arbennig felly ar ôl eu buddugoliaeth ym Mangor.

Roedd ymweliad cwmni drama dieithr ag unrhyw bentref y dyddiau hynny yn achlysur go arbennig a disgwylid tŷ llawn bob tro. Wedi'r cwbl, roedd y ddrama yn gyfrwng i ddenu pobl o'u cartrefi ac i

gymdeithasu. Bu galw mawr amdanynt ledled y sir a golygai hynny waith trefnu gofalus o safbwynt teithio, yn enwedig i bentrefi bach ym mherfeddion gogleddol a gorllewinol yr ynys. Yn unol â'r drefn, byddai'r trefnwyr lleol yn gofalu am y prif gelfi ac am y set gan geisio bodloni gofynion y cyfarwyddwr ynglŷn â lleoliad y drysau, y ffenestri a'r lle tân. Fel arfer, y cwmni fyddai yn gofalu am y mân gelfi, y dillad a'r offer coluro. Gan fod y llwyfannau mor gyfyng, gellir dychmygu'r troeon trwstan a wynebid gan yr actorion yn y 'wings' heb unrhyw fath o allanfa iddynt ei defnyddio ar alwad natur!

Fe gofia Emyr Jones am un achlysur nodweddiadol o'r cyfnod. Rywdro tua diwedd yr Ail Ryfel Byd, cawsant wahoddiad i actio yn Llanfair-yng-Nghornwy. Teithient mewn dau dacsi ac yn unol â'r rheolau rhoddwyd mwgwd ar oleuadau'r ddau gar gan adael dim ond hollt gul ymhob lamp. Llwyddasant i gyrraedd mewn da bryd a chafwyd perfformiad llwyddiannus. Ar ddiwedd y perfformiad mwynhawyd gwledd gan y trigolion lleol a pharatowyd i gychwyn am adref. Toc wedi cychwyn fe sylweddolwyd eu bod ar goll, ond gwelsant olau gwan yn y pellter. Yn araf aethant tuag at y golau hyd nes i hwnnw ddiffodd yn sydyn. Aeth un o'r cwmni ymlaen ar droed hyd nes cyrraedd tyddyn bach. Yno cyfarfu â'r ffermwr a'i wraig yn y beudy lle roeddent yn disgwyl i'r fuwch ddod â llo. Yn eu braw roeddynt wedi meddwl bod y 'Germans' wedi cyrraedd Rhydwyn! Cyfarwyddwyd y cwmni drama tuag adref.

Mae'n debyg mai diddanu cynulleidfaoedd oedd prif nod y cwmni yn hytrach na chystadlu. Yn dilyn y fuddugoliaeth ym Mangor, crwydro pentrefi Môn ac Arfon fu'r hanes hyd 1949. O gymharu'r adroddiadau yn y wasg am gwmni Rhoscefnhir â'r adroddiadau am Lannerch-y-medd a Llangefni prin iawn ydynt ac, o'r herwydd, ychydig iawn o dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar gael. Rhaid dibynnu'n helaeth iawn ar dystiolaeth lafar yr ychydig unigolion sydd ar ôl. Ond yn hyn o beth gellir cadarnhau teitlau'r dramâu a berfformiwyd yn ystod y pedwardegau ac ar ddechrau'r pumdegau, ond nid oes sicrwydd o gwbl ynglŷn â dyddiadau'r perfformiadau nac, ychwaith, ynglŷn â pha ddramâu a chwaraewyd gyda'i gilydd. Yn ystod bodolaeth y cwmni, dwy ddrama hir yn unig a chwaraewyd, sef *Llanbrynmair* (Rhys Evans) yn nechrau'r

tridegau a drama olaf y cwmni, *Cŵyr Crydd* (cyf. John Ellis Williams o ddrama E. Eynon Evans), yn nechrau'r pumdegau.

Pennod arall fydd yn ymwneud â Gŵyl Ddrama Môn, ond mae ei dylanwad ar Gwmni Drama Rhoscefnhir yn hollol berthnasol i'r bennod hon. Er ei sefydlu fel gŵyl ddwyieithog ym Mawrth 1942, penderfynwyd gwobrwyo'r cwmnïau buddugol nid ag arian ond â thlysau arian i'w dal am flwyddyn, ac â thystysgrifau. Yn ystod y blynyddoedd cynnar gwelwyd brwdfrydedd amlwg a chynnydd yn y nifer o gwmnïau oedd yn cystadlu, ond buan y sylweddolwyd mai yn yr adran Saesneg y gwelwyd y cynnydd mwyaf. Yn wir, gwelwyd lleihad yn nifer y cwmnïau Cymraeg a fentrai gystadlu. Erbyn gŵyl 1949 bu cryn newid ar y rheolau. Ar gyfer yr ŵyl honno penderfynwyd nad cystadlu â'i gilydd fyddai'r cwmnïau, ond chwarae i gyrraedd safon arbennig. Cytunwyd ar dri dosbarth:

Dosbarth A - yn haeddu clod mawr iawn
Dosbarth B - yn haeddu clod mawr
Dosbarth C - yn ganmoladwy[36]

Gyda D. Haydn Davies yn beirniadu, rhoddwyd pedwar cwmni Saesneg o Gaergybi ar eu pennau eu hunain yn Nosbarth A, chwe chwmni yn Nosbarth B, a thri yn Nosbarth C. O gael eu gosod yn yr ail ddosbarth, ni ellir ond dyfalu beth oedd teimladau cwmnïau drama Rhoscefnhir, Llannerch-y-medd a Llangefni. Ar gyfer yr ŵyl hon, perfformiwyd *Arian am Ddim* (cyf. Robert Griffith o ddrama Morton Howard) gan Rhoscefnhir.

Yng Ngŵyl Ddrama Môn 1950, gwahoddwyd Rhoscefnhir i lenwi bwlch ar fyr rybudd gyda pherfformiad o'r gomedi *Adar o'r Unlliw* (cyf. Magdalen Morgan o ddrama J.O. Francis). Er nad oedd y cwmni yn cystadlu, hwn fu ymddangosiad olaf Rhoscefnhir ar lwyfan cystadleuol. Am weddill ei fodolaeth, diddanu yn unig fu ei hanes.

Am yr ail waith yn unig, cyflwynwyd drama hir gan y cwmni yn ystod tymor 1951 – 2. Dewisiwyd y gomedi bedair act, *Cŵyr Crydd'* (cyf. John Ellis Williams o ddrama E. Eynon Evans). Unwaith eto bu'r cwmni'n crwydro, a gwyddys iddo ymweld â Llangoed, Llynfaes, Pentraeth, Trefor (Arfon) a Llansannan. Ond, am y tro cyntaf, ni chynhaliwyd perfformiad yn yr Ysgoldy. Efallai bod hyn yn

adlewyrchaid o'r newid cymdeithasol oedd yn digwydd yn ystod y pumdegau. Cafwyd adroddiadau ffafriol ar berfformiadau'r cwmni yn Nhrefor a Llangoed, a chafwyd noson lwyddiannus ym Mhentraeth. Gan mai hwn oedd un o berfformiadau olaf y cwmni yn ogystal â'r ffaith mai aelodau o'r cast olaf hwn fu cnewyllyn y cwmni ers dechrau'r pedwardegau, fe haedda adroddiad y wasg gael ei ddyfynnu'n llawn yma:

PENTRAETH
Cwmni Drama Rhoscefnhir

Yn y Neuadd Goffa Ionawr 3 y chwaraeodd y cwmni uchod y ddrama 'Cŵyr Crydd', cyfieithiad Mr. John Ellis Williams o 'Cobbler's Wax' (Mr Eynon Evans) i dŷ orlawn er budd yr eglwys yn Nasareth. Mr Hefin Jones, Benllech, oedd y llywydd ond ar gyfrif anhwyldeb Mrs. Jones (yn awr yn gwella) methodd a chyrraedd yno. Y Parchedig Huw Roberts, gweinidog, a weithredodd fel llywydd.

Nid oes angen clodfori Cwmni Rhoscefnhir bellach i ddarllenwyr 'Y Clorianydd', gŵyr y sir yn dda amdano. A chofir hefyd mai Mr Emyr Jones, Wigoedd, yw ei gynhyrchydd ers llawer o flynyddoedd bellach. Y mae amryw o'r cwmni yn hen gynefin ac actio ac fel yr heneiddiant credir eu bod yn gwella bob cynnig; a dyna ddisgwylir oddi wrth actorion a phrofiad ganddynt o lwyfannu. Yr oedd eu symudiadau'n gelfydd, ôl disgyblaeth fanwl ar y symud o gylch y llwyfan; mynegiant o bob brawddeg yn naturiol.

Caed tri ieuainc yn y cwmni'r tro hwn. Y tro cyntaf iddynt ymddangos ar y llwyfan a hapus iawn oedd eu gwaith, ac fe haedda yr olygfa, siop y crydd, ganmoliaeth, canys fel y gellid disgwyl yr oedd yn hawdd adnabod mai siop y crydd oedd yr olygfa. Yr oedd iddi gownter a mainc i weithio arni a hen esgidiau a hysbysiadau o bob math, a dau grydd wrth eu gwaith yno; ac yn y siop y chwareuir y ddrama. Crewyd yr awyrgylch briodol ar y dechrau a daliwyd y safon yn uchel hyd nes daeth y llen olaf i lawr.

Diolchwyd i'r cwmni gan y Parch. Huw Roberts a chyplyswyd enw Mr G. Hughes, Modurdy Pentraeth, am ei waith hefo'r goleuadau. Bu hynny o gynorthwy anhepgor i'r cwmni wneuthur ei waith; hefyd i Mri. Johnson a'i Fab, Porthaethwy, am fenthyg pob offer crydd a welwyd ar y llwyfan.[37]

Cymerwyd rhan gan Edward Hughes, Owen Parry, Frank Roberts, Sam Jones, David Roberts, R.E. Hughes, Emyr Jones, Bessie Owen, E. Williams, Elizabeth Williams, Eluned Parry a Nans Owen. Gofalwyd am y llwyfan gan Morris Williams.

Ar ddiwedd tymor 1952 fe daeth y llen i lawr ar un o gwmnïau drama amlycaf cefn gwlad Môn; cwmni a fu'n adlewyrchiad o'r diwylliant hwnnw sydd bellach wedi llwyr ddiflannu. Roedd ei gyfraniad yn nodweddiadol o'r lliaws o gwmnïau bach a fodolai ar y pryd. Mae'n wir nad oedd eu dewis o ddramâu yn uchelgeisiol; comedïau syml oeddynt ar y cyfan a oedd yn cynnig sefyllfaoedd a digwyddiadau doniol y gallai'r gynulleidfa eu deall a chydymdeimlo â hwy. Er bod cryn gellwair a direidi yng ngeiriau William Owen yn ei

gyfrol o atgofion am ei blentyndod yng Ngharreglefn, *Y Llanc Nad Yw Mwy*,[38] gellid cymhwyso ei ddisgrifiad o gwmni drama'r ardal â sawl cwmni bychan arall ym Môn ac yng Nghymru ym mhedwardegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif.

Fel ag yr oedd gan gwmni Carreglefn ei Robat Jos Heulfre, roedd gan Rhoscefnhir ei Edward Hughes Yr Orsedd. Roedd ffraethineb y cymeriadau hyn yn rhan allweddol o fodolaeth y cwmnïau drama ac o'u cymunedau. Hyd heddiw cydnabyddir efail Ned y Go' fel canolfan ddiwylliannol Rhoscefnhir. Ond, ysywaeth, atgofion ydynt oll, gan gynnwys y cwmni drama lleol. Efallai mai cyfuniad o ddatblygiadau lleol a sirol oedd yn gyfrifol am y dirywiad dramayddol a welwyd yn Rhoscefnhir yn ystod y pumdegau.

Nos Wener, 17 Chwefror 1950, agorwyd neuadd bentref newydd ym Mhentraeth. Roedd yn llawer ehangach na'r un a'i rhagflaenai gyda llenni newydd, llwyfan delfrydol, gwell golau, toiled, ystafelloedd newid a chegin yng nghefn y llwyfan. Ar gais Capel Nasareth, Pentraeth, i'r neuadd newydd yma y daeth Cwmni Rhoscefnhir i berfformio *Cŵyr Crydd*, 3 Ionawr 1952. Yn yr adroddiad yn y wasg fe nodir bod tri aelod ifanc ymysg y cast. Tybed nad yw'r ffaith hon yn awgrymu bod rhai o'r 'hen' aelodau wedi pellhau? A fu anghydfod ymysg trigolion Rhoscefnhir ynglŷn â'r ffaith bod y cwmni wedi anwybyddu'r ysgoldy ac wedi mynd i Bentraeth gyda'r bwriad o wneud elw i Nasareth yn hytrach nag i Benygarnedd? Efallai bod yr hen falchder lleol wedi codi ei ben unwaith eto.

Gellir dadlau bod gorwelion a dyheadau'r gymdeithas yn dechrau newid. Gydag ymddangosiad cyntaf materoliaeth, dechreuwyd dymchwel muriau'r filltir sgwâr. Yn raddol daeth y 'bocs' yn rhan anhepgor o fywyd y bobl, a chydag o gwelwyd newid chwaeth ym mysg y trigolion. Yn ogystal, gyda'r cynnydd yn y nifer o geir a gaed ar yr ynys, daeth teithio yn dasg ddigon rhwydd a phleserus, a gellid teithio ymhellach ac ynghynt. O'r herwydd, ni chyfyngid y boblogaeth i'w chynefin.

Yn ystod y pumdegau gwelwyd cynnydd sylweddol yn y mewnlifiad o estroniaid di-Gymraeg i'r ynys, yn arbennig felly o Loegr. Ni fwriedir i hyn fod yn ddatganiad personol na hiliol, ond fe'i cyflwynir

fel ffaith , ac yng Nghyfrifiad 1961 ceir tystiolaeth o effaith y mewnlifiad yma ar sefyllfa ieithyddol Môn.[39] Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym mhentrefi ac ardaloedd y glannau, testun y gobeithir ehangu arno yn y rhan o'r gwaith sydd yn ymwneud â datblygiad Gŵyl Ddrama'r Sir a natur ieithyddol ei chwmnïau.

Ym mis Mai 1955, agorwyd y Theatr Fach yn Llangefni, a cheir trafodaeth bellach ar hyn maes o law, ond yng nghyswllt tranc Cwmni Rhoscefnhir, ynghyd â nifer o gwmnïau cyffelyb ym Môn, efallai bod gan y Theatr Fach rywbeth amgenach i'w gynnig i'r cyhoedd ym myd y ddrama. Yn sicr, roedd ganddi well cyfleusterau yn ogystal â rhaglen amrywiol, ddwyieithog, ac roedd ganddi weledigaeth lawer mwy uchelgeisiol. Sefydlwyd y Theatr gyda'r bwriad o ddenu pobl at y ddrama yn hytrach nag i'r gwrthwyneb, a chyda hwylustod teithio daeth popeth yn bosibl.

Rhaid, hefyd, gydnabod sefyllfa Emyr Jones ei hun. Roedd wedi ymwneud â'r ddrama yn lleol, yn sirol, ac yn genedlaethol am gyfnod o bron i chwarter canrif. Yn sicr roedd wedi chwarae ei ran, ac wedi gwneud hynny'n ganmoladwy iawn. Roedd wedi profi llwyddiant a siomedigaeth, ond am ba hyd y disgwylid iddo fedru cynnal ei safonau uchel? Cofier ei fod, hefyd, yn berffeithydd, ac mae i hynny ei anfanteision. Fel llawer o'i flaen a llawer ar ei ôl – a chyda pharch ac edmygedd yr awgrymir hyn yma – efallai iddo flino ac iddo roi'r gorau i gyfarwyddo gydag urddas a chryn fodlonrwydd.

# CWMNI DRAMA LLANNERCH-Y-MEDD

Llannerch-y-medd.[40] Athen Mon?

"Ia, ngwas i, Llannerch-y-medd oedd Athen Môn"

Mewn cyfweliad ag un o hynafgwyr y dreflan yn Ionawr 2002, gwnaed y gosodiad uchod â phendantrwydd llwyr, ac o gofio gorffennol y lle annoeth fuasai anghytuno â'r hyn a ddywedwyd. Gyda'i beirdd, ei llenorion, ei thelynorion, ei gweinidogion a'i chefndir diwylliannol a diwydiannol mae'n debyg fod Llannerch-y-medd, yn anad unrhyw le arall ym Môn, yn haeddu clod o'r fath. Ond mae'r ffaith fod y gosodiad yn cyfeirio at y gorffennol yn lled awgrymu bod newidiadau mawr wedi digwydd er oes aur y Llan, a gwir yw hynny ym myd y ddrama yno bellach.

O ganlyniad i'r deffroad dramayddol a ddigwyddodd yng Nghymru yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif ddiwethaf, gwelwyd ei effaith ar fywyd trigolion Llannerch-y-medd, yn arbennig felly o dan ddylanwad pobl fel y Parchedig a Mrs Evan Roberts, William Pritchard, a'r Parchedig a Mrs W.E. Jones [Gweler Atodiad A(4),(5),(6)]. Gosododd yr unigolion hyn, dros gyfnod o bedair blynedd ar ddeg, sylfaen gadarn i'r ddrama yn lleol, ac mae ar y mudiad drama ym Môn ddyled fawr iddynt. Ond yn dilyn ymadawiad y Parchedig a Mrs W.E. Jones â'r Llan yn niwedd 1944, ymgymerodd unigolyn go arbennig â'r dasg o lywio dyfodol y cwmni drama o hynny ymlaen.

Cwmni drama John Stamp oedd o i bobl Môn, ond cwmni drama John Huws [Gweler Atodiad A(7)] Llannerch-y-medd oedd o i weddill Cymru a rhannau o Loegr. Heb unrhyw betruster, awgrymir yma mai cwmni'r Llan oedd un o gwmnïau amatur amlycaf y genedl o ganol y pedwardegau hyd ddechrau'r chwedegau, a daeth enw'r cyfarwyddwr yn adnabyddus trwy Gymru.

Yn ystod y tridegau, y capeli lleol oedd canolfannau dramayddol y Llan: Jerusalem (MC), Y Tabernacl (B) a Chapel Ifan (A). Mae'n debyg y cytunai T. Rowland Hughes â'r gosodiad mai'r hen '...flychau sgwâr, afrosgo, trwm...' yma fu cynhaliaeth cynnar y ddrama yn y dreflan ac mai ohonynt hwy '...y daeth ennaint ein doe a'n hechdoe

ni…' nid yn unig yn ysbrydol, ond yn ddramayddol yn ogystal. Yn y capeli hyn, ac yn arbennig yng Nghapel Ifan, y magwyd dramodwyr ac actorion Llannerch-y-medd am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Yn hyn o beth, yr Annibynwyr oedd ar y blaen.

Erbyn canol y pedwardegau ymddengys bod yn y Llan dri adeilad pur wahanol eu natur a'u pwrpas, ond dylanwadol iawn ar ddatblygiad y ddrama. Er mai yn yr eglwys a'r capeli y derbyniwyd y gynhaliaeth ysbrydol, y Stamp, y Druid a'r New Hall fu'n gyfrifol am gynnal ysbryd dramayddol y dreflan hyd ddechrau'r chwedegau. Dim ond dieithryn fuasai'n cyfeirio atynt fel 35 High Street, 22 High Street a'r Neuadd Newydd.

Er mwyn cyfleu'r naws arbennig a berthynai i'r Stamp, i'r Druid ac i'r New Hall, cedwir at yr enwau traddodiadol, a chan eu bod wedi chwarae rhan mor hanfodol yn natblygiad y cwmni drama dros gyfnod mor hir efallai y dylid, ar ddechrau'r bennod, ymhelaethu rhyw ychydig ar nodweddion y tri lle. Dyma beth ddywed T.A. Hughes am y Stamp:

> Saif y "Stamp" neu'r "Stamping Office", a rhoi iddo'r enw gwreiddiol, yn y Stryd Fawr. Dyma ble elai'r masnachwyr i sicrhau gwyriad eu bod yn rhoi'r pwysau a'r mesuriadau perffaith i'w cwsmeriaid. Naddwyd twll o dan y pwysau gyda phelen o blwm o'i fewn.Byddai'r swyddog yn stampio'r dyddiad ar y plwm i gadarnhau fod y pwysau'n gywir. Roedd hyn yn ofyniad blynyddol ac felly roedd y "Stamp" yn le eithaf prysur.[41]

Ond daeth tro ar fyd. Pan ddaeth y lle yn gartref i William ac Elizabeth Hughes a'u dau blentyn, parhaodd y prysurdeb, ond mewn ffordd wahanol. Pobydd oedd William a lleolid y becws yng nghefn y tŷ. Yn naturiol, daeth yn lle am sgwrs a hynny, yn aml, i gyfeiliant telyn a chân. Yn y Stamp y magwyd John a Mari; datblygodd y naill fel canwr penillion a'r llall fel telynores. Ar y dechrau buont yn gystadleuwyr llwyddiannus fel unigolion, ond buan yr enillasant glod a bri mewn partneriaeth. Ar ddechrau'r pedwardegau daeth John yn adroddwr adnabyddus ond buan y trodd ei gefn ar adrodd a chyfeirio ei olygon yn gyfan gwbl tuag at gyfarwyddo'r cwmni drama lleol. O hynny ymlaen, o flaen y Stamp y byddai aelodau'r cwmni yn ymgasglu erbyn hanner awr wedi pedwar er mwyn cychwyn i'w cyhoeddiad yn brydlon am bump gyda thacsi Robert Rees Lewis.[42]

Yng ngolwg John Huws, roedd prydlondeb ac ymroddiad yn rhinweddau anhepgorol mewn actor neu actores. Fel cyfarwyddwr ac actor, gosododd safonau uchel i'w gyd-actorion, a disgwyliai gael ymateb yr un mor bositif ganddynt hwythau.Fel Emyr Jones yn Rhoscefnhir, roedd John Huws yn berffeithydd ac roedd i hynny, weithiau, ei anfanteision. Er bod ganddo reolaeth dros ei berfformiadau personol fel actor, byddai ar bigau'r drain ynglŷn â pherfformiadau pawb arall. Er mai mewn comedïau a ffarsïau yr arbenigai, mae lle i gredu mai gŵr eithaf dwys oedd o yn y bôn, a gallasai geryddu yn ogystal â chanmol. A phetai John Huws wedi mentro i fyd trasedïau gellid dadlau y byddai wedi bod yr un mor llwyddiannus yn y maes hwnnw yn ogystal.

Yn ystod Mawrth ac Ebrill 1981, ysgrifennodd Donald Glyn Pritchard dair erthygl[43] yn *Herald Môn* yn olrhain hanes y cwmni drama. Yn ei erthygl gyntaf ymddengys y disgrifiad canlynol o John Huws gan Nell Owen, Tan-y-Bryn, Carmel, aelod o'i gwmni drama:

> Cefais y fraint o fod yn perthyn i'w gwmni am tua naw mlynedd, ac amser hynod o ddifyr oedd o hefyd, er ein bod allan dair a phedair gwaith yr wythnos ar adegau prysur. Mae'n anodd disgrifio sut un oedd John. Roedd yn berson hoffus, ffeind a boneddigaidd iawn, ac er ei fod yn cymryd rhan gyhoeddus ni fyddai'n cyflwyno'r cwmni, nac yn talu'r diolchiadau am y bwyd. Robert Rees Lewis fyddai yn gwneud hynny 'ar ran y cynhyrchydd', a Robert Rees fyddai yn gorfod ymddiheuro am fod yn hwyr yn cyrraedd pe digwyddai hynny...
>
> Ond yn yr ymarferion, doedd ond un meistr. Byddai yn dweud yn blaen sut yr oedd yr olygfa i gael ei chwarae, a beth yn union yr oedd pawb i'w wneud...
>
> Mynnai y cynhyrchydd brydlondeb wrth deithio i bob perfformiad... Doedd o ddim yn hoffi gweld neb yn cadw hwyl a reiat wrth y bwrdd bwyd, a dywedai hynny wrthym ar y ffordd adref; yr oedd eisiau parchu'r bwrdd bwyd.
>
> Byddai'n rhoi'r ymarferiad olaf i'r actorion yn y car ar y ffordd i berfformiadau. Yn yr un car ar y ffordd adref byddai yn traethu ei farn am y perfformiad.
>
> Fel cynhyrchydd, roedd John yn feistr ar gomedi a ffârs ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng y ddau. Gofalai hefyd nad oedd comedi byth yn troi yn ffârs.
>
> Dywedodd Mari Lewis – ac roedd gan John barch mawr iddi fel beirniad – "Dau gomedïwr sydd ym myd y ddrama – John Huws yn y Gogledd a George David yn y De".

Bu Owen Parry, gynt o Langwyllog, yn aelod o'r cwmni drama o 1949 hyd 1955, a dyma fel y disgrifia John Huws yn nhrydedd erthygl Donald Glyn Pritchard:

> Yn sicr...roedd John Huws yn feistr ar y ffârs a'r gomedi yng Nghymru. Nid yw wedi cael lle teilwng yn hanes y ddrama Gymraeg. Roedd o ddifrif yn ei waith, a'i gyngor bob amser oedd, 'Gwnewch fel tasa chi yn cael £300 am ei wneud o'.
>
> Yn ystod perfformiad, byddai tu cefn i'r llwyfan yn smocio un sigaret ar ôl y llall, a'i grys yn socian o chwys. Roedd yn teimlo'r cyfrifoldeb yn drwm ar ei ysgwyddau. Os byddai'r gynulleidfa yn ymateb yn dda byddai wrth ei fodd. "Chwaraewch i'r galeri hogiau", fyddai ei ymadrodd.
>
> Doedd o ddim ofn mentro gydag actorion di-brofiad fel myfi, ac eraill...

Cyfeirir ymhellach at y Stamp, ond yn awr rhaid croesi bron yn union ar draws y stryd i gyfeiriad y Druid.

Yn ystod dauddegau a thridegau'r ugeinfed ganrif, perchenogion yr adeilad oedd Mr a Mrs J.E. Thomas. Yn yr ystafell ffrynt ar y llawr isaf, gofalai Mrs Thomas am siop bapurau newydd, offer ysgrifennu a theganau. Roedd yn lle prysur rhyfeddol. I fyny'r grisiau ar y llawr cyntaf, cadwai ei gŵr siop barbwr. Roedd hi'n ystafell eang gyda stof yn ei chynhesu a mainc yn rhedeg yr holl ffordd rownd gyda'r waliau. Ond nid siop gyffredin mohoni; yn hytrach, roedd hi'n ganolfan gymdeithasol a diwylliannol. Ar nosweithiau Sadwrn yn arbennig, pan fyddai'r siop ar agor yn hwyr, yr oedd yn gyrchfan i nifer fawr o ddynion; rhai yno'n swyddogol i gael twtio dipyn ar gyfer y Sul ac eraill yno am sgwrs, smôc a thrafodaethau Beiblaidd.

Ar ben y grisiau caed 'landing' sylweddol ac yno ar foreau Mawrth, lleolid cadair y deintydd. Yn rheolaidd ar y bore hwn trafeiliai Dr. Jones i Lannerch-y-medd ar y trên ddeg o Fangor gan ddychwelyd ar y trên un.

O dan ei enw barddol, 'Myfyr Alaw', gweithredai Mr Thomas fel gohebydd lleol i'r *Clorianydd.* Wrth bori drwy'r ôl-gopïau am wybodaeth, buan y sylweddola'r darllenwr pa mor amrywiol a thrwyadl oedd ei ohebiaeth am y Llan. Dros y blynyddoedd, cafodd y cwmni drama le amlwg yn adroddiadau 'Myfyr Alaw', ac er ei fod ar brydiau yn bur oddrychol, roedd yn hynod fanwl ei sylwadau, ac yn hanesyddol mae gan y Llan ddyled fawr iddo.

Yn nechrau Mawrth 1941, bu farw 'Myfyr Alaw' yn bump a thrigain mlwydd oed. Yr un pryd bu farw Owen Thomas y milfeddyg lleol. O dan y pennawd 'Dydd y Ddau Angladd', gwerthfawrogwyd

cyfraniadau y ddau gyda'r geiriau '...Fe fydd y Llan gryn dipyn tlotach ar ôl y ddau yma'.[44]

Yn anuniongyrchol gwnaeth J.E. Thomas gymwynas fawr â'r cwmni drama dros gyfnod sylweddol o amser. Gyda'i farwolaeth, daeth diwedd ar gyfnod prysur iawn yn hanes y Druid, ac yn fuan wedi colli ei gŵr, symudodd Mrs. Thomas o'r cartref.

Ar ei hymadawiad, symudodd teulu newydd i'r Druid ond, oherwydd natur gwaith y gŵr, byr iawn fu eu arhosiad yno. Ym 1942, symudodd Richard H. Hughes (1901–1979), ei wraig Harriet (1896–1970) a'u merch Olwen[45] i'r tŷ. Gweithiai 'Richie' Hughes yn y stesion ac, ar y dechrau, talu rhent wnaethai'r teulu am y Druid. Pan ddaeth 'Richie' a Harriet yn berchnogion, chwaraeodd y lle ran arbennig iawn yn hanes cwmni drama'r Llan. I fyny grisiau'r Druid, yn hen siop 'Myfyr Alaw', y cynhelid ymarferion y cwmni o hynny ymlaen o dan gyfarwyddyd John Huws. Wrth sgwrsio â'r trigolion hynny sy'n cofio, ceir yr argraff fod ganddynt atgofion melys o'r ystafell a chryn hiraeth am y cyfnod.

Wedi crybwyll nodweddion y Stamp a'r Druid, deuir at y trydydd adeilad a fu'n ddylanwadol ar hynt a helynt y cwmni drama. Perthynai'r New Hall i Gapel Jerusalem ond fe'i defnyddid fel neuadd bentref anenwadol. Roedd yn ganolfan brysur ac o gofio cyfleusterau cyfyngedig mwyafrif o neuaddau pentrefol Môn y cyfnod, roedd y New Hall yn eang, yn hwylus ac yn ganolog ar gyfer yr amrywiol gyfarfodydd a gweithgareddau. Golygai dyfodiad trydan i'r Llan yn Awst 1937 a, maes o law, i strydoedd y dreflan ar 1 Rhagfyr 1937, fod gan y New Hall gyfleusterau gwell ar gyfer perfformio dramâu. Gellid gwasgu oddeutu tri chant o bobl iddi, a gwnaed hynny'n aml. Os mai Llannerch-y-medd oedd Athen Môn, yn sicr y New Hall oedd Mecca ddramayddol y Llan.

Er y cyfeirid ati yn gyson fel y New Hall, mewn gwirionedd doedd dim yn newydd yn ei chylch. Erbyn degawdau canol yr ugeinfed ganrif, roedd yn barod yn hen adeilad ac mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod peth anniddigrwydd yn bodoli ynglŷn â'r sefyllfa. Yn nechrau Ebrill 1930, ymddangosodd yr ohebiaeth ganlynol yn y wasg:

> Cymdeithas y Ddrama. – Y mae symudiad ar dro yn y Llan i sefydlu cwmni drama teilwng...Cynhaliwyd pwyllgor nos Iau i ddewis drama a chymeriadau. Clywsom mai'r ddrama boblogaidd *Pobl yr Ymylon* sydd yn debyg o gael ei dewis. Ni ddylai fod prinder cymeriadau...yn enwedig gan fod y cwmni i fod yn anenwadol. Aeth yr huddugl enwadol i lawer potes da cyn hyn...Bwriedir cael ar gyfer y gaeaf nesaf ddosbarthiadau i astudio celfyddyd y ddrama, a chael gwŷr cyfarwydd i ddarlithio. I'r amcan hwnnw fe benderfynwyd ymuno â Chymdeithas y Neuaddau Pentref...[46]

Er na thrafodwyd yr angen am neuadd newydd yn Ebrill 1930, roedd y ffaith bod y gymdeithas ddrama leol am ymuno â Chymdeithas y Neuaddau Pentref yn argoeli'n dda ar gyfer trefniadau'r Cyngor Gwlad a grantiau Carnegie o 1939 ymlaen. Er na wyddys pam, diddorol yw nodi bod y cwmni drama anenwadol cyntaf hwn, a enwid yn Gwmni Athen Môn, wedi penderfynu peidio â llwyfannu *Pobl yr Ymylon* ac, yn hytrach, wedi mynd ymlaen i gyflwyno tair drama fer ar gyfer eu perfformio yng nghanol Ebrill 1930, sef *Arian Modryb, Y Walet* a'r *Census*, yr oll o waith R. Lloyd Jones. Fe gofir i Gymdeithas Lenyddol Penygarnedd lwyfannu'r un dramâu ryw ddau fis ynghynt.

Yn dilyn y drafodaeth gyntaf yn Ebrill 1930, aeth un mlynedd ar bymtheg heibio cyn i ddim gael ei wneud ynglŷn â sefyllfa'r neuadd. Ond, yn nechrau Rhagfyr 1946, rhyw dair wythnos cyn i'r cwmni drama berfformio *Mrs. Biddles* (J. Eddie Parry) yn y New Hall nos Nadolig, dadleuwyd o blaid cael neuadd newydd.[47] Y gŵyn oedd bod y New Hall yn rhy fychan a'i bod eisoes yn bedwar ugain mlwydd oed. Ar ran y Cyngor Gwlad, bu Mr J.O. Jones yn y Llan yn egluro bod grant ar gael o Gronfa Carnegie tuag at adeiladu neuaddau pentref newydd. Ond eto, ni wnaethpwyd dim ynglŷn â'r mater. Ceir braslun o'r cefndir gan T.A. Hughes:

> Roedd y New Hall yn adeilad delfrydol i lwyfannu unrhyw fath o adloniant. Yn wreiddiol, gallai eistedd yn agos i bum cant ond fel roedd rheolau diogelwch yn cynyddu, gostyngwyd y rhif i oddeutu tri chant. Cynlluniwyd y Neuadd ar ffurf theatr gyda'r seddau'n gogwyddo i lawr at y llwyfan. Ar bwys y llwyfan ceid ystafell aros fechan ar gyfer newid gydag ychydig o ddarpariaethau i baratoi lluniaeth. Gallai pedwar ar hugain eistedd mewn seddi ar draws yr adeilad.
>
> ...bu artistiaid o'r radd flaenaf yn troedio llwyfan y New Hall – o'r tenor Richie Thomas i'r digrifwr Gari Williams.
>
> A "John Stamp" a'i gwmni wrth gwrs.
>
> Gwnaed sawl ymdrech gan y Cyngor Cymdeithas i brynu'r Neuadd er mwyn ei addasu yn Theatr. Ysywaeth, methiant fu'r ymdrech a does yno affliw o ddim ar ôl.
>
> Dim ond atgofion cenhedlaeth sy'n cilio.[48]

Cyn trafod hynt a helynt cwmni drama Llannerch-y-medd mewn dyfnder, mae'n ofynnol cael man cychwyn.

Dechreuwyd ymhél â'r ddrama yng Nghapel Ifan (A) ar ddiwedd y dauddegau ac erbyn Ebrill 1930, roedd galw am sefydlu Cymdeithas Ddrama yn y Llan. Bwriedid i'r Gymdeithas fod yn anenwadol ac aethpwyd ati rhag blaen i ddewis drama. Penderfynwyd llwyfannu *Pobl yr Ymylon* (Idwal Jones), a galwyd y cwmni yn Gwmni Athen Môn. Ond mae'n rhaid bod yna gryn drafod wedi bod ynglŷn â'r dewis ac, fel a nodwyd eisoes, cyflwynwyd yn hytrach dair drama fer i'w perfformio yn y New Hall yng nghanol Ebrill 1930. O edrych yn ôl, mae'n debyg ei fod yn benderfyniad doeth. Wedi'r cwbl, criw o bobl ifanc hollol ddibrofiad oeddynt a doedd dim cyfarwyddwr profiadol ar gael i ymgymryd â sialens drama fel *Pobl yr Ymylon.* Yn ogystal, gan fod y fath frwdfrydedd yn bodoli, a nifer fawr o bobl ifanc y awyddus i actio, byddai castio ar gyfer *Pobl yr Ymylon* yn broblemus iawn ac yn sicr o greu peth anniddigrwydd a siom ac, o bosibl, yn llesteirio brwdfrydedd pobl. Trwy ddewis tair drama fer gobeithid osgoi y fath sefyllfa a theimlid y byddai natur hwyliog y dramâu yn apelio llawer mwy atynt. Dyma restr o actorion cyntaf cwmni drama Llannerch-y-medd:

> Mr John Hughes, Miss Williams, Mr Griffith Davies, Nancy Hughes, Mr W.E. Owen, Mr Ben Jones, Miss Catherine Jones, Mr John Williams, Mr Willie Owen, Tommy J. Jones, Miss Katie Roberts, Mr Huw Owen, Miss Jennie Lloyd Jones, Mr T.Ll. Jones, Miss Jennie Williams, Miss Lizzie Williams, Mr John Williams.

Brynhawn Gwener, 31 Hydref 1930, sefydlwyd y Parchedig Evan Roberts yn weinidog ar Gapel Ifan a Hebron. Yr oedd yr achlysur yn dyngedfennol yn hanes y cwmni drama. Gyda'r gweinidog newydd a'i wraig wrth y llyw, rhoddwyd cyfeiriad pendant i'r cwmni o hynny ymlaen. Roedd y ddau yn gadarn dros ddirwest a heddwch, ond yn bwysicach fyth roedd ganddynt ddiddordeb mawr mewn materion cymdeithasol. Yn hyn o beth mae'n debyg fod ffyniant y cwmni drama yn fater cymdeithasol pwysig iawn yng ngolwg y ddau. Trwy gyfrwng y ddrama gwelwyd cyfle i argyhoeddi'r trigolion am rinweddau dirwest er lles y gymdeithas. Argyhoeddi drwy ddifyrru fu nod y cwmni dan gyfarwyddyd y Parchedig a Mrs. Evan Roberts, ac nid cystadlu.

Erbyn Ebrill 1932, roedd y cwmni wedi ei sefydlu, a nos Fawrth y Pasg llwyfannwyd y ddrama ddirwestol *Teulu'r Drws Nesa'* (Emily Matthews) yn y New Hall. Dewisiwyd y ddrama yn unol â dymuniad y cyfarwyddwyr a chafwyd derbyniad da. Rhwng y golygfeydd cafwyd cyflwyniadau o ganu ac adrodd gan Miss Mamie Williams, Mrs Eluned Thomas, Miss Mair Edwards a'r adnabyddus Gwilym Ceinion. Yn yr ohebiaeth cafwyd ymateb ffafriol iawn:

> Da deall eu bod am barhau i ddiwyllio yn y gelf, a phosibl mai llwyfannu drama o waith awdur lleol fyddant nesaf.[49]

Nos Lun, 26 Rhagfyr 1932, llwyfannwyd *Y Pymtheg Mil* (R. Lloyd Jones, Llandudno). Roedd i'r ddrama bedair act a dwsin o gymeriadau, ac fe nodir mai John Huws gymerodd ran y cyfreithiwr, Owen Thomas. Gyda'r perfformiad hwn, sefydlwyd traddodiad oedd i barhau hyd ddechrau'r chwedegau. Daeth nos Nadolig yn 'noson y ddrama' yn y Llan ac eithrio'r blynyddoedd hynny, fel yn 1932, pan ddisgynnai'r Nadolig ar y Sul.

Yn ystod tymor y gaeaf 1932–3, cynhaliai Cynan ddosbarthiadau drama o gwmpas y sir gan gynnwys un yn Llannerch-y-medd, ac mae'n ymddangos bod cefnogaeth dda iddynt. Yn *Y Clorianydd*, 25 Ionawr 1933, fe nodir bod yr athro, fel rhan o'i gyfres o ddarlithoedd ar hanes y ddrama Roegaidd, wedi canolbwyntio ar y gomedi glasurol a gellid dadlau mai dyma pryd y cafodd John Huws flas ar y math o ddrama y daeth yn arbenigwr arni maes o law.

Cofir i Gwmni Athen Môn gael ei sefydlu yn nechrau 1930 ar sail anenwadol, ond erbyn 1932 chwalwyd y ddelfryd; am gyfnod beth bynnag. Ni fwriedir dibrisio cyfraniad y Parchedig Evan Roberts, ond mae lle i gredu fod ei ddaliadau enwadol yn gul a dweud y lleiaf. Gyda'i ddyfodiad fel gweinidog, ac fel cyfarwyddwr y cwmni drama, canolbwyntiodd ar gwmni ifanc Capel Ifan gan anwybyddu'r enwadau eraill. Roedd hyn yn destun siarad, ac fe'n hatgoffir o'r hyn a ddyfynnwyd eisoes:

> ...Aeth yr huddugl enwadol i lawer potes cyn hyn...[50]

Yn sicr, fe aeth i'r potes yn 1932. Un o actorion cwmni anenwadol Athen Môn oedd Ben Jones, aelod gyda'r Hen Gorff yn Jerusalem, ac mae'n bur debyg i'r cythraul drama gael gafael ynddo.

Nos Fawrth y Pasg 1933, dan gyfarwyddyd Ben Jones, perfformiwyd *Y Pwyllgorddyn* (J. Ellis Williams) yn y New Hall gan gwmni drama Jerusalem. Nos Nadolig, 1933, dilynwyd hyn gan berfformiad o'r ddrama ddirwestol *Maes y Meillion* (D.J. Davies) gan gwmni drama Capel Ifan dan gyfarwyddyd Mrs. Evan Roberts. Drachefn, llwyfannwyd *A Oes Heddwch?* (Gwilym Rhug) gan gwmni Jerusalem yn nechrau Mawrth 1934, gyda Ben Jones unwaith eto yn cyfarwyddo. Tybed ai ymbil am oddefgarwch enwadol a welir yn nheitl comedi Gwilym Rhug? Gyda'u dewisiadau o ddramâu fe geid cryn wahaniaeth o safbwynt bwriadau'r cyfarwyddwyr. Roedd y naill yn ceisio hyrwyddo achos dirwest a'r llall yn ceisio gwneud rhywbeth llai uchelgeisiol, difyrru cynulleidfa.

Byrhoedlog fu ymdrechion cwmni Jerusalem, ac am ryw dair neu bedair blynedd Capel Ifan fu canolfan ddramayddol y Llan. Dan gyfarwyddyd y gweinidog a'i wraig, paratowyd dramâu hir ar gyfer eu perfformio ar nosweithiau'r Nadolig, ac ar 25 Rhagfyr 1934, llwyfannwyd y gomedi *Dewis Anorfod,* cyfieithiad Magdalen Morgan o waith Harold Brighouse. Efallai yr awgryma hyn bod peth newid wedi digwydd yn agwedd y cyfarwyddwyr tuag at natur a phwrpas drama mewn treflan fel Llannerch-y-medd.

Nos Nadolig 1935, cyflwynwyd *Y Briodas Arian* (cyf. Jeremiah Jones o ddrama Eden Phillpotts) gyda'r New Hall yn llawn. Ond, gwaetha'r modd, bu tro ar fyd oherwydd nos Sadwrn, 10 Gorffennaf 1937, brawychwyd y Llan pan fu farw y Parchedig Evan Roberts yn ei gartref, Bryn Hwfa. Er iddo gael ei daro yn wael yn niwedd 1936, caed adroddiad yn *Yr Herald*[51] ei fod yn 'gwella'n foddhaol', ac erbyn mis Mawrth 1937, roedd wedi ailddechrau ar ei waith. Gyda'i farwolaeth, daeth i ben gyfnod llewyrchus yn hanes y cwmni drama ac, er gwaethaf ei ragfarn enwadol, sicrhaodd Evan Roberts a'i wraig eu bod wedi gosod sylfaen gadarn i fudiad y ddrama yn Llannerch-y-medd.

Yn dilyn y golled, ni welwyd y cwmni drama lleol ar lwyfan y New Hall hyd fis Mawrth 1941, ond aethpwyd ymlaen i ddiogelu'r traddodiad dramayddol ar nosweithiau'r Nadolig. Yn Nhachwedd 1937, gwelwyd cwmni Tal-y-Sarn ar lwyfan y New Hall, ac yn llenwi'r bwlch ar nos Nadolig perfformiwyd *Yr Oruchwyliaeth Newydd* gan gwmni

drama Gwalia, Bangor. Roedd cwmni Tal-y-Sarn yn boblogaidd iawn yn y Llan ac yn Rhagfyr 1938, gwahoddwyd y cwmni i gyflwyno *Niwloedd* (W.J. Davies). Daeth yr un cwmni eto i'r Llan ym Mawrth 1939, i lwyfannu *Yr Unben* gan yr un awdur, ac yng ngoleuni bygythiad Hitler yn Yr Almaen, yr oedd yn deitl addas o gofio'r amgylchiadau rhyngwladol. Er gwaethaf bygythiad Hitler, diogelwyd naws y Nadolig pan ddaeth cwmni drama Penmon i'r New Hall yn Rhagfyr 1939, i berfformio drama hanesyddol D. Derwenydd Morgan, *Dic Penderyn.*

Rhwng 1930 a 1940, felly, bu llwyfan y New Hall yn lle prysur iawn, a chyflwynir y rhestr ganlynol fel trawsdoriad o'r cwmnïau a wahoddwyd i berfformio yno:

| | | |
|---|---|---|
| Cwmni y Ddraig Goch Caernarfon | *Y Joan Danvers* | cyf. D.R. Davies o ddrama Frank Stayton |
| Cwmni Tal-y-Sarn | *Y Postman* | W.J. Davies |
| | *Y Creithiau* | W.J. Davies |
| | *Niwloedd* | W.J. Davies |
| | *Yr Unben* | W.J. Davies |
| Cwmni Gaerwen | *Y Ferch o Gefnydfa* | Rhys Davies |
| Cwmni Pontardulais | *Nos Ŵyl Fihangel* | Dan Matthews |
| | *Tan yr Hydref* | cyf. Dan Matthews o ddrama T.C. Murray |
| Cwmni Mathafarn | *Dŵr y Môr* | A.T. Rees |
| Cwmni Niwbwrch | *Unigrwydd* | cyf. R.Ellis Jones o ddrama Harold Brighouse |
| Cwmni Gwyngyll | *Tri Chryfion Byd* | Twm o'r Nant |
| Cwmni Bodffordd | *Y Ddraenen Wen* | R.G. Berry |
| Cwmni Disgwylfa (MC) | *Gwraig y Ffermwr* | cyf. D. Mathews Williams Caergybi o ddrama Eden Phillpotts |
| Cwmni Gwalia, Bangor | *Yr Oruchwyliaeth Newydd* | Ieuan Griffiths |
| Cwmni Penmon | *Dic Penderyn* | D.Derwenydd Morgan |
| Cwmni Caergybi | *Helynt a Heulwen* | W.D.P. Jones |

Yn ystod y deng mlynedd hyn bu John Huws yn amlwg iawn ei gyfraniad gyda'r trefnu a chyda gwerthu tocynnau ar gyfer y perfformiadau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, digon hawdd fuasai i'r mudiad drama fod wedi diflannu yn gyfan gwbl. Ond daeth achubiaeth. Un o brif actorion cwmni Tal-y-Sarn oedd William Pritchard. Roedd yn brofiadol, yn actor penigamp, ond yn bwysicach fyth roedd wedi priodi â Kitty Jones, 73 Lledwigan Terrace, Llannerch-y-medd. Yn y wasg caed yr adroddiad canlynol:

> Cwmni Drama. Mae cwmni drama newydd anenwadol wedi ei sefydlu yn Llan. Bwriedir dysgu *Tywydd Mawr* (Gwynfor). Mae y cwmni newydd dan ofal Mr. W. Pritchard...Un o brif actwyr Cwmni Talysarn, a hefyd dyma'r cwmni cyntaf i fanteisio ar y nodded ddaw o dan y Cyngor Gwlad.[52]

Yn ôl yn 1919, sefydlwyd Undeb Neuaddau Pentref Môn gyda'r bwriad o ad-drefnu ac ysgogi bywyd diwylliannol cefn gwlad yr ynys ar ddiwedd y Rhyfel Mawr. Ugain mlynedd yn ddiweddarach cymerwyd drosodd waith yr Undeb gan Gyngor Gwlad Môn gyda'r bwriad o ddatblygu a chefnogi bywyd cymdeithasol, adloniadol, ac addysgol y pentrefi. Trafodir y datblygiadau hyn maes o law.

I bob pwrpas, yr oedd yr amcanion yn debyg iawn i amcanion yr hen Undeb. Yn 1939, apwyntiwyd J.O. Jones yn Ysgrifennydd y Cyngor Gwlad, ac aethpwyd ati yn ystod 1940-1 i sefydlu is-bwyllgor drama gyda'r bwriad o hybu a datblygu achos y ddrama ym Môn. Penodwyd pump o gyfarwyddwyr i helpu'r cwmnïau lleol i ddewis, i gastio ac i lwyfannu dramâu. Gellid dadlau bod yr 'huddugl enwadol' unwaith eto wedi ei ddileu, ac mae'n eithaf posibl mai dyma pam y cytunodd William Pritchard i gyfarwyddo cwmni drama Llannerch-y-medd.

Oherwydd prinder amser roedd hi'n amlwg na fyddai'r cynhyrchiad yn barod ar gyfer Nadolig 1940, ond ceir cofnod o lwyddiant y cwmni gyda'i berfformiad cyntaf o *Tywydd Mawr* yng Nghaergeiliog yn Chwefror 1941.[53] Yng nghanol Mawrth, yn y New Hall, fe'i llwyfannwyd eto gyda'r elw er budd Cronfa Cysuron y Milwyr. Ond byr iawn fu teyrnasiad William Pritchard fel cyfarwyddwr; prin dymor. Rywdro yng nghanol 1941 fe dybir bod

rhyw fath o ffrwgwd mewnol wedi digwydd, a rhoddodd William Pritchard y gorau iddi. Am y tro cyntaf, ymgymerodd John Huws â'r gwaith a llwyddwyd i lwyfannu'r ddrama nos Nadolig 1941, gydag elw o £20 2s 6c yn mynd tuag at waith y Groes Goch.

Yn nechrau 1941, aethpwyd ati i alw gweinidogion i Jerusalem ac i Gapel Ifan. Roedd angen olynydd i'r Parchedig Thomas Hughes yn y naill ac i'r diweddar Barchedig Evan Roberts yn y llall. Sefydlwyd y Parchedig E. Aethwy Jones yn weinidog ar y Methodistiaid yn 1941, a'r Parchedig W.E. Jones ('Ap Gerallt') gyda'r Annibynwyr yn nechrau Rhagfyr, 1942. Yn dilyn sefydlu'r Parchedig W.E. Jones, cafwyd cyfnod byr ond llewyrchus iawn yn hanes y cwmni drama. Er bod y gweinidog eu hun yn awdur, yn llenor ac yn gefnogol i'r mudiad drama yn y Llan, cydnabyddir mai ei wraig, M. Janet Jones ('Sioned Penllyn'), oedd gwir ysbrydoliaeth y cwmni o ddiwedd 1942 hyd ymadawiad y teulu i Wrecsam yn niwedd 1944. Dan gyfarwyddyd Mrs Jones magwyd, yn y cwmni, yr elfen gystadleuol.

Er bod ei gŵr eisoes wedi dechrau ar ei weinidogaeth, ni chyrhaeddodd Mrs. Jones a'r ddau fachgen hyd ddechrau Tachwedd 1942, ac, o'r herwydd, go brin y gallasai fod wedi ymgymryd â chyfarwyddo'r cwmni drama ar gyfer y Nadolig er, yn sicr, ei bod wedi ymddiddori yn y darpariaethau. Roedd y dasg o gyfarwyddo, am yr ail flwyddyn yn olynol, wedi disgyn ar ysgwyddau John Huws. Yn ystod cyfnod ei brentisiaeth fel cyfarwyddwr, fe welir fod ei natur grwydrol yn barod wedi dod i'r wyneb. Gyda drama John Ellis Williams, *Chwalu'r Nyth*, ceir adroddiad yn *Y Clorianydd*[54] yn nodi bod y cwmni wedi ymddangos ym Methesda, 4 Rhagfyr, a'i fod yn bwriadu ymweld ag Amlwch, 18 Rhagfyr, Bodedern, 26 Rhagfyr, Llanfairynghornwy, 31 Rhagfyr, a Chemais, 1 Ionawr 1943. Nos Nadolig 1942, fe berfformiwyd y ddrama yn y New Hall. Roedd Gwilym Ceinion yn aelod o'r cwmni yma, a chyda'i farwolaeth ddisymwth yng nghanol Mawrth 1943, llesteiriwyd brwdfrydedd y cwmni drama a 'chwalwyd y nyth' am weddill y tymor. Nid yn unig yr oedd Gwilym Ceinion yn adnabyddus fel adroddwr effeithiol a dramatig, roedd hefyd yn gymeriad. Er ei holl orchestion fel adroddwr, nid oedd yn or-hoff o

ddysgu ei linellau ar gyfer drama. Hyd y gellir gweld, hwn oedd yr unig achlysur gwirioneddol drist yn hanes hir cwmni'r Llan.

Er na ellir bod yn hollol sicr o'r flwyddyn nac o'r perfformiad, digwyddodd rhywbeth digon diddorol yn hanes y cwmni drama yn gynnar yn y pedwardegau. Gwyddys bod y cwmni yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth a chofir bod beirniad yn bresennol. Ar gyfer un olygfa arbennig roedd angen sŵn band yn gorymdeithio yn y stryd y tu allan, ond doedd dim record ar gael. Penderfynwyd anfon llythyr at gwmni *His Master's Voice* a derbyniwyd record yn rhad ac am ddim. Bu'r cyflwyniad yn llwyddiannus ond yn ei feirniadaeth cydymdeimlodd y beirniad â'r cwmni am ymyrraeth band yn ystod y perfformiad. Ai diffyg darpariaeth oedd hyn ar ran y beirniad ynteu safon uchel recordiad *HMV*?

Am gyfnod o ddwy flynedd trosglwyddwyd yr awenau cyfarwyddol i ddwylo Janet Jones, a threuliodd John Huws gyfnod pellach yn actio ac yn dysgu'r grefft o gyfarwyddo. Yn ystod y cyfnod hwn fe gadarnhawyd natur anenwadol y cwmni, a sefydlwyd ei natur deithiol.

Ar gyfer tymor 1943-4, dewisiwyd comedi dair act John Ellis Williams, *Y Corn*, a gwyddys iddynt ei pherfformio ugain o weithiau yn ystod y tymor gan gynnwys y Nadolig yn y Llan. Yn y wasg adroddwyd bod y New Hall yn llawn a'r actio yn gampus, ac am y cyfarwyddwr dywedwyd:

> ...y gŵyr hi am holl gyfrinion y ddrama. Y mae'n awdur dramâu byrion gwych ac hefyd yn actores brofiadol...[55]

Yr actorion oedd John Huws, Albert Owen, Keshia Owen, Mair Edwards a Tommy Roberts. Y cofweinydd oedd Nellie Roberts, darpar wraig Albert Owen. Ers dyddiau Cwmni Athen Môn yn 1930, cyfyngid y cast i drigolion y Llan, nodwedd arbennig o'r cwmni hyd ddiwedd y pedwardegau pan aethpwyd tu hwnt i ffiniau'r dreflan. Mae gan Albert a Nellie Owen atgofion byw iawn am y cyfnod hwn:

> ...comedïau hir oeddynt pan fyddem yn teithio, ond dramâu byrion i gystadleuaeth. Byddai y math o ddrama pan yn cystadlu yn cael ei phenderfynu ar y cymeriadau fyddai yn barod i fynd i gystadleuaeth...

> Byddem yn tueddu i fod yr un cwmni am beth amser ar wahân i pan fyddai rhywun yn gadael neu fod y ddrama yn galw am leihau neu ychwanegu y cymeriadau. Byddem fel arfer yn gwmni o ryw wyth cymeriad er cadw costau y trafaelio i lawr.
>
> Rwy'n cofio mai i Garreglefn y byddem yn mynd i berfformio gyntaf gyda phob drama newydd (rhyw fath o 'Dress Rehearsal') ac yn bendant yn rhoi perfformiad nos Nadolig yn y Neuadd Newydd yn y Llan. Byddai hynny yn golygu rhoi prynhawn diwrnod Dolig i wneud y llwyfan a'r goleuadau yn barod gogyfer y nos, a chan fod y neuadd yn brysur y blynyddoedd hynny yn cynnal gwahanol bethau gyda'r nos, nid oedd yn bosibl cael gosod y llwyfan rhyw lawer o amser ymlaen llaw...
> Byddai y neuadd yn orlawn nos Nadolig (dim T.V.)...yn eistedd ar waelod y ffenestri ac yn sefyll ar hyd y llwybrau.
>
> Credaf i mi fod ymhob neuadd oedd yn bosibl actio ynddi ym Môn, a byddem yn teithio dros y bont yn aml. Buom yn rhoi perfformiad am ddwy noson o'r un ddrama yng Nghaernarfon, a chofiaf fod yn Bethesda a'r diweddar Goronwy Roberts AS. yn llywyddu. Nid oedd yn AS. y pryd hynny, ond cofiaf yr argraff wnaeth arnaf fel siaradwr. Os cofiaf yn gywir, yn Niwbwrch fyddan ni Boxing Night yn rheolaidd.
>
> Bu adeg pan oedd gwyliau drama ym Môn yn gyffredin a byddem yn wastad yn cystadlu, a llawer iawn o gwmnïau yn dod i'r Llan i gystadlu yn ystod yr wythnos. Daeth newid ymhen amser a dewis y goreuon o'r gwahanol wyliau drama yn y sir a hwythau yn cystadlu yn y prawf terfynol am wythnos yn Neuadd y Dref, Llangefni.
>
> Nid oes amheuaeth na fu bod yng nghwmni drama y Llan yn fantais fawr i mi, a bod fy nyled yn fawr o gael profiad llwyfannu ac actio...[56]

Fel y cydnebydd Albert Owen, mae ei ddyled yn fawr i gwmni drama Llannerch-y-medd. Daeth ef ei hun yn actor proffesiynol a gwelwyd ef ar y teledu yn gyson yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Hefyd, bu yn actio ac yn cyfarwyddo nifer o ddramâu yn y Theatr Fach, Llangefni.

Ym Mawrth 1942, sefydlwyd Gŵyl Ddrama Môn dan nawdd y Cyngor Gwlad, ac fel y crybwyllwyd eisoes, trefnwyd i Emyr Jones, Rhoscefnhir, fynd o gwmpas y cwmnïau lleol i'w rhoi ar ben y ffordd ar gyfer cystadlu yn yr ŵyl sirol. Ond ni welwyd cwmni'r Llan ynddi hyd fis Mawrth 1944. Ar nosweithiau Iau, 10 Chwefror a Sadwrn, 12 Chwefror 1944, cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Llannerch-y-medd a pherfformiwyd *Meistr y Tŷ*, cyfieithiad John Ellis Williams o ddrama Stanley Houghton, gan y cwmni lleol. Gyda Cynan yn beirniadu, enillwyd y darian a thystysgrif gan y cwmni. Yn gynnar ym Mawrth rhoddwyd perfformiad o ddrama Mrs M. Janet Jones, *Gwewyr y Grog*, yn y New Hall cyn i'r ddwy ddrama fynd ymlaen i ŵyl y sir yn Llangefni yn ystod wythnos Mawrth 20–25. Mae'n ddiddorol nodi mai

Emyr Jones, Rhoscefnhir, oedd yn llywyddu nos Lun a John Huws nos Fawrth. Gwelwyd deg cwmni yn cystadlu yn yr Adran Agored, a daeth cwmnïau'r Llan yn gydradd drydydd. Enillwyd y Ddraig Arian gan Gwmni Tynygongl yn perfformio *Canwyllbrennau'r Esgob,* a Chymdeithas Ddrama Llangefni yn ail gyda drama F.G. Fisher, *Y Blaidd Ddyn.* Mrs M. Janet Jones oedd cyfarwyddwr cwmnïau'r Llan.

Gydag ymadawiad Mrs Jones a'r teulu i Wrecsam yn Awst 1944, daeth i ben gyfnod byr ond hynod o lewyrchus yn hanes y cwmni drama a chofir hyd heddiw am gyfraniad Mrs Jones i achos y ddrama yn Llannerch-y-medd. Yn sicr, fe gafodd ddylanwad arbennig ar un gŵr. Daeth i ben gyfnod ei brentisiaeth, ac am y deunaw mlynedd nesaf John Huws Stamp fu cyfarwyddwr ac ysbrydoliaeth y cwmni. Dyma ddechrau oes aur y cwmni.

Gyda'r cyfarwyddwr yn actio yn ogystal â chadw'r llyfr cyhoeddiadau, dechreuwyd o ddifrif ar y teithio. Dewiswyd comedi Emrys R. Jones, *Gwerth y Byd,* ar gyfer tymor 1944-5 a gwyddys i'r cwmni ymweld â Marian Glas, Gwalchmai, Caergybi, Caernarfon, Niwbwrch, Llanddeusant, Llanfairpwll, Llangristiolus ac, wrth gwrs, Llannerch-y-medd nos Nadolig. Yn ogystal, penderfynwyd dysgu *Y Wermod,* drama newydd a gyfansoddwyd gan gyn-gyfarwyddwr y cwmni ar gyfer Gŵyl Ddrama y Rhyl yn niwedd Ebrill lle yr enillwyd yr ail wobr. Fel rhagbrawf ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhosllanerchrugog, fe'i perfformiwyd, yn aflwyddiannus, yn y New Hall yn ystod mis Mai gyda Mrs. Mary Lewis a John Gwilym Jones y dramodydd yn beirniadu. Ni fu'r cwmni yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Môn yn 1945.

Ar gyfer tymor 1945-6 dilynwyd yr un patrwm, sef dewis drama hir, *Merch y Llwyndy* (G. Prys Jones) ar gyfer y teithio a drama fer ar gyfer cystadlu. Ond y tymor hwn aethpwyd un cam ymhellach gyda'r cystadlu. Dewisiwyd *Unigrwydd* ar gyfer pumed Gŵyl Ddrama Môn yn niwedd Mawrth, yn ogystal ag ailafael yn *Meistr y Tŷ* ar gyfer Gŵyl Ddrama y Rhyl ac wedyn ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberpennar. Allan o'r deuddeg cwmni a fu'n cystadlu yn y Rhyl, enillodd y Llan yr ail wobr, ond yng ngŵyl Môn, gyda Miss Elsbeth Evans a John Ellis Williams yn beirniadu, enillwyd y Tlws Arian yn yr

Adran Agored i ddramâu un act. Yn y Genedlaethol, gyda Cynan yn beirniadu, daeth y cwmni yn bumed allan o'r un cwmni ar bymtheg oedd yn cystadlu.

Bu 1946-7 yn gyfnod pur arbennig yn hanes y cwmni oherwydd i'r cyfarwyddwr benderfynu cystadlu gyda drama hir yn ogystal â chyda drama un act. Y ddrama deithiol a ddewisiwyd oedd *Mrs Biddles* (J. Eddie Parry) a'r ddrama un act oedd *Mr Smart* (Cynan). Mae'n amlwg i'r daith fod yn un llwyddiannus gan i'r cwmni benderfynu cystadlu gyda'r ddwy ddrama yng Ngŵyl Ddrama Môn yn niwedd Mawrth 1947, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn yn nechrau Awst. Llywyddwyd noson gyntaf Gŵyl y Sir gan Edward Williams, cyfarwyddwr cwmni drama Llangefni, a thrwy hynny anrhydeddwyd y trydydd o gyfarwyddwyr 'Y Tri Chwmni'. Gyda Mrs. Mary Lewis yn beirniadu'r gystadleuaeth un act a Mrs. Phillip Williams y dramâu hir, enillwyd y ddwy wobr gyntaf gan gwmnïau'r Llan a chodwyd gobeithion y cast ar gyfer Bae Colwyn.

Yn y brif gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ymddangosodd deg o gwmnïau yn y rhagbrawf a dyma, yn gyffredinol, beth ddywedodd D. Haydn Davies amdanynyt:

> ...O'r deg cwmni, cyrhaeddodd pedwar ohonynt safon deilwng, a gwnaeth un cwmni arall ei waith yn ddymunol ddigon, ond y mae'n rhaid dweud am y gweddill iddynt syrthio ymhell islaw yr hyn a ddisgwylid ganddynt.
>
> Gall yr Eisteddfod deimlo'n falch o waith y pedwar cwmni gorau, a buwyd yn pwyso a mesur yn hir cyn dewis Llangefni a Glandwr (Abertawe) i ymddangos yn y prawf terfynol, gan i Beniel (Caerfyrddin) a Thremarl (Cyffordd Llandudno) ddyfod yn bur agos atynt.[57]

Yn dilyn llwyddiant *Mrs Biddles* yng Ngŵyl Ddrama Môn, mae lle i gredu mai'r Llan oedd yr 'un cwmni arall' a wnaeth 'ei waith yn ddymunol ddigon...'

Yng nghystadleuaeth y ddrama fer, gyda J. Kitchener Davies yn beirniadu, cafwyd dipyn gwell canlyniad a dyfynnir rhan o'r feirniadaeth:

> 1 Er imi fod yn weddol bendant imi ddewis y tri chwmni teilyngaf i'r prawf terfynol, eto nid rhwydd oedd amau teilyngdod o leiaf ddau gwmni nas gwelir ym Mae Colwyn...

2 Er mai canolig (heb fod yn rhy ddrwg nac yn arbennig o dda) yw'r safon at ei gilydd, y mae cryn lawer o raen ar gyflwyno dramâu byrion, - ond ni welais un cwmni cwbl wastad, nac un perfformiad cwbl lan ar y daith.

3 Im tyb i erys tri pheth mewn drama a'i dylanwad ar dorf, sef geiriau stori'r dramodydd, cyrff a lleisiau'r actorion, a chonsarn y llwyfan. Yn y drefn hon. Nid bob amser y gwêl cynhyrchwyr ac actorion Cymru y berthynas.

4 Tynnais sylw, ar y daith at y pwyntiau hyn, a bydd y cwmnïau yn cofio'r pethau a berthyn bennaf iddynt hwy. Bum yn myfyrio arnynt, ac ar eu gwerth a'u perygl i bob un cwmni...

Wrth hynny bu raid imi –

A dynnu tri chwmni...i'r prawf terfynol, sef:-

| | |
|---|---|
| Dwyfor (Manceinion) | *Y Smotyn Du* |
| Llannerch-y-medd | *Mr Smart* |
| Trefnant | *Dim Ond Ei Fod E* |

Bu pawb yn neilltuol o fonheddig a charedig imi ar y daith. Mynnwn ddiolch iddynt, a'u llongyfarch fel ei gilydd am eu hymdrech gyson a da tros y ddrama yng Nghymru.[58]

Enillwyd yr ail wobr gan gwmni Llannerch-y-medd.

Mae'n debyg mai uchelgais y cwmni o hyn ymlaen oedd cyrraedd y pinacl ac ennill y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ei ymdrech i gyrraedd y nod, cyfyngwyd ymdrechion y cwmni i brif wyliau'r Gogledd er osgoi y gost a'r drafferth o drafaelio i'r De bob yn ail flwyddyn. Yn dilyn tair buddugoliaeth yng ngwyliau drama Môn, ni welwyd y cwmni ar lwyfan yr ŵyl sirol hyd 1955.

Y ddrama deithiol a ddewisiwyd ar gyfer tymor 1948–9 oedd *Abel Simon* a phenderfynwyd mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau gyda ffârs J. Eddie Parry. Y beirniad ar gyfer y rhagbrawf oedd W. Emlyn James ac ymwelodd â naw o gwmnïau led-led Cymru. O'r naw cwmni, dewisiwyd pedwar ar gyfer yr eilbrawf pryd y gwelwyd Cynan yn cydfeirniadu ag o. Roedd '...cynllun yr Eilbraw ar y pedwar cwmni gorau o'r Rhagbrofion yn ddyfais go newydd...', ond '...[n]id yw'n gwbl newydd yn hanes cystadleuaeth y ddrama yr Eisteddfod Genedlaethol, ond y mae'r dull o'i weinyddu yn gwbl newydd'.[59]

Yn ei feirniadaeth, dyma beth ddywed W. Emlyn James:

> Ar sail beirniadaethau cylchdaith y rhagbraw, detholwyd, heb amheuaeth, Gwmniau Dyffryn Madog, Llannerch-y-medd, Llanfair Caereinion a Llangollen i'r eilbraw a bu Cynan a minnau yn eu profi.
>
> Yr oedd safonau'r eilbraw yn fwy dymunol ac olion sicr fod y pedwar cwmni ar eu gorau yn ceisio gwella ar eu profiadau yn y rhagbraw...
>
> ...wedi pwyso rhagoriaethau a gwendidau'r pedwar cwmni'n fanwl, dyfarnwyd yn unfarn o safbwynt safon gyfartal fod dau gwmni wedi cyrraedd safon ddigon dymunol i'w dethol i lwyfan Eisteddfod Dolgellau, sef:
>
> Cwmni Llannerch-y-medd: *Abel Simon*
> Cwmni Llanfair Caereinion: *Awel Gref* (Emlyn Williams)[60]

Ynglŷn â'r dasg o ddiogelu safonau actio drama yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ymhelaethodd Cynan mewn dull positif:

> Y mae'n dda gennym dystio na chododd y broblem honno yn yr Eilbraw eleni. Cawsom bethau diddorol a chanmoladwy gan bob cwmni. Cawsom hefyd rai diffygion digon amlwg.
>
> Un peth pwysig iawn – yn arbennig at gystadleuaeth – yw castio'n ddoeth a gofalus. Ni all actio gwych rhai o'r chwaraewyr mewn cwmni gario'r cwmni hwnnw i'r Eisteddfod er gwaethaf actio gwan cymeriadau eraill, neu er gwaethaf castio anffodus. Rhaid cymryd i ystyriaeth actio'r tim fel cyfanwaith.[61]

Am yr eildro, enillwyd yr ail wobr.

Ar gyfer tymor 1949–50, penderfynwyd llwyfannu comedi bedair act Albert T. Rees, *Y Ffynhonna.* Yn y wasg disgrifiwyd y ddrama mewn dull a fyddai'n sicr o ddenu'r trigolion i'r New Hall nos Nadolig:

> Ceir ynddi ddigon o hiwmor iach a gwersi buddiol fydd yn werth i ddal gafael arnynt a cheisio gwneud defnydd ohonynt mewn bywyd.[62]

Roedd y neuadd yn orlawn a gwnaethpwyd elw sylweddol tuag at Ysgol Sul Capel Ifan.

Yn dilyn y perfformiad cyntaf yma, dechreuodd y teithio am y tymor a diddanwyd cynulleidfaoedd ledled y gogledd a thu hwnt i Glawdd Offa. Mewn erthygl fer yn *Golwg* yn 1997, cafwyd disgrifiad cryno o gwmni drama Llannerch-y-medd gan yr actor adnabyddus o'r Benllech, J.O. Roberts:

> Yr hyn oedd yn nodweddiadol o'r cwmni yma oedd eu bod nhw'n mynd cyn belled â Llundain, Lerpwl a Birmingham i ddiddanu'r cymdeithasau Cymraeg...Ac i John Hughes y sgrifennodd Huw Lloyd Edwards ei ddrama gynta' un. Roedd Huw yn arfer dweud y byddai o'n cael mwy o royalties gan Gwmni John Hughes fesul decpunt nag a gafodd o erioed gan Gyngor y Celfyddydau... Roeddan nhw'n gwneud rhywle rhwng 60 a 100 o berfformiadau y flwyddyn...[63]

Yn ystod y tymor estynnwyd gwahoddiad i'r cwmni berfformio *Y Ffynhonna* yn Grays Inn Road, Llundain, nos Sadwrn, 4 Mawrth 1950.[64] Derbyniwyd y gwahoddiad, llanwyd bws gyda theuluoedd a chefnogwyr, a chychwynnwyd am y brifddinas yn gynnar fore Gwener. Llanwyd y neuadd i'r ymylon, ond nid rhyfedd hyn o gofio fod i'r ddrama Gymraeg le amlwg iawn ym mywydau Cymry Llundain bryd hynny.[65] Cysylltid y cwmnïau drama â'r capeli Cymraeg, ac yng nghystadleuaeth actio drama fer yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau y flwyddyn flaenorol ymddangosodd cwmnïau Castle Street, Hammersmith, Walthamstow, Falmouth Road ac Ealing Green. Allan o ddeunaw cwmni, llwyddodd cwmni drama Moreia, Walthamstow, i gyrraedd y prawf terfynol. Gellir tybio bod ymweliad cwmni Llannerch-y-medd yn gyfle i Gymry Llundain gael gweld comedi draddodiadol Gymraeg yn cael ei pherfformio'n raenus. Rhoddwyd perfformiad llwyddiannus a chafodd y merched ddigon o amser i siopa y dydd Sadwrn. Llywydd y noson oedd y Fonesig Megan Lloyd George ac ar ddiwedd y perfformiad diolchodd John Huws i Gymry Llundain am eu croeso, ac eglurodd mai cyd-ddigwyddiad hollol oedd y ffaith y byddai'r cwmni yn perfformio yng Nghricieth y nos Fercher ganlynol, 8 Mawrth. Dychwelwyd adref ddydd Sul.

Yn anochel, gyda threiglad y blynyddoedd, ni ellid osgoi peth newidiadau ymhlith y cast. Yn ystod y tridegau a'r pedwardegau cynnar, pan gyfyngwyd y perfformiadau i bentrefi a neuaddau cyfagos, gellid dibynnu ar drigolion y Llan i ymgymryd â'r actio. Ond dan gyfarwyddyd John Huws, gwelwyd cynnydd aruthrol yn natur deithiol y cwmni o flwyddyn i flwyddyn, ac oherwydd ei fod ef ei hun yn berffeithydd, mae'n bur debyg fod ei ddisgwyliadau gan eraill yr un mor uchelgeisiol. Aeth hyn yn drech ar rai o'r cast a sylweddolodd y cyfarwyddwr bod angen iddo chwilio am actorion y tu hwnt i ffiniau'r dreflan. Caed cadarnhad o'i fwriad mewn hysbyseb a ymddangosodd yn *Y Clorianydd*, ynglŷn â pherfformiad nos Nadolig 1950:

> Rhoddodd gychwyn i lawer o dalentau ieuanc ym myd y ddrama, a chredwn ei fod yn barod i roddi hyfforddiant i rywun a gymer ddiddordeb yn y cyfeiriad hwnnw...[66]

Yn nechrau'r pumdegau, cododd problem arall: prinder dramâu addas i'w perfformio. Gan fod cwmni Llannerch-y-medd yn arbenigo mewn comedïau a ffarsiau, cymhlethwyd y broblem ymhellach. Digon tebyg mai tua'r amser hwn y dechreuodd John Huws ar ei arferiad o gymryd ei wyliau ym mis Hydref yn flynyddol er mwyn crwydro'r wlad yn chwilio am ddrama newydd ar gyfer y tymor dilynol. Ymwelodd, er enghraifft, ag Edna Bonnell, Huw Lloyd Edwards, Islwyn Ffowc Elis a John O. John. Am gyfraniad yr olaf i gwmni'r Llan, dyma beth ddywed Huw Ethall:

> Ni chefais gyfle i ddarllen na gweld y pedair comedi a ysgrifennodd [John O. John] ar gyfer ac ar gais Cwmni Drama John Huws, Llannerch-y-medd, ac felly ni allaf ond cyfeirio atynt yma. Ond dengys hyn ffrwythlonder nodedig ac amrywiol.
>
> Dramâu a ysgrifennwyd ar gyfer Cwmni John Huws, Llannerch-y-medd:

| | |
|---|---|
| *Byrbwylledd* | Tair Act |
| *Breuddwyd* | Tair Act |
| *Blewyn Trwch* | Tair Act |
| *Talu'r Pris* | Un Act[67] |

Ar gyfer 1950–51 cafodd John Huws gryn drafferth yn dod o hyd i ddrama addas. Ymhen hir a hwyr cafodd afael ar ffârs Rhys Evans, *Bili*. Dim ond un cwmni, a'r cwmni hwnnw o dde Cymru, oedd wedi ei hactio o'r blaen. Gan mai dim ond pum cymeriad oedd ynddi, ni chafwyd trafferth yn castio Owen Parry, Mrs. Anne Hughes, Miss Cassie Roberts, Miss Mari Hughes a'r cyfarwyddwr ei hunan. Yn ôl yr arfer, Richie Hughes oedd goruchwyliwr y llwyfan. I'r ychydig sy'n cofio'r ddrama, erys doniolwch John Huws yn gwisgo trowsus pen-glin yn fyw iawn yn y cof. Bu *Bili* yn llwyddiant mawr, ond yn nechrau Awst 1951, roedd rhywbeth llawer pwysicach i ddigwydd yn hanes y cwmni.

Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, penderfynwyd perfformio'r ddrama un act, *Ewch Ati*, gan Eic Davies. Fe'i llwyfannwyd yn y rhagbrawf yn ystod y gwanwyn. Ymddangosodd tri chwmni ar ddeg yn y rhagbrofion gan gynnwys cwmnïau Falmouth Road, Hammersmith, Walthamstow ac Ealing Green. Yn ei feirniadaeth nododd y beirniad, D. Haydn Davies, rinweddau a diffygion y perfformiadau. Dyma ddetholiad o'i sylwadau:

Rhinweddau

a Gellir dywedyd i ddechrau fod gwell graen ar y llwyfannu eleni. Nid oedd nemor gwmni yn fodlon ar gyflwyniad moel, diaddurn... Rhoddwyd mwy o sylw i'r hyn sy'n apelio at y llygad, ac yr oedd y cwmnïau'n ymglywed â swyn lliw, gwisg a golau.

b Cafwyd actio rhagorol gan unigolion hwnt ac yma, ac amheuthun oedd gweld cynifer yn meddu ar gyfoeth llais ynghŷd â chynildeb arddull, a phwysicach na dim, personoliaeth.

Diffygion

a Erys y diffyg sylfaenol o hyd, hynny yw anallu'r actor i fynegi ei deimladau gydag ystum ac osgo a fydd yn ymddangos yn naturiol ar lwyfan. A chofier mai *ymddangos* yn naturiol yw'r gamp, ac nid *bod* felly... byddai'n wasanaeth gwerthfawr yn hyn o beth petai pob ysgol ddrama yn rhoddi mwy a mwy o le i waith Meim.

b Tempo'r chwarae. Fe lwyddodd y cwmnïau a fu'n cyflwyno comediau i gael rhediad esmwyth, rhugl i'r deialog; ond bu arafwch llethol bron a lladd gwaith amryw o'r cwmnïau mewn trasiedi... Amrywiaeth yw hanfod cynhyrchu da, ac fe ddylai'r amseriad newid yn ôl galw'r sefyllfa ar y pryd, boed drasiedi neu gomedi...

c Trin y deialog. Y mae'n rhaid cael *ymateb* gyda phob deialog yn ogystal ag actio'r llefarydd, a'r cynhyrchydd sydd i ofalu bod yr actorion yn *"chwarae i'w gilydd"*... Arwydd o wendid amlwg y cynhyrchu eleni oedd diffyg llawer o actorion i wrando'n effeithiol ac ymateb yn ôl galw'r cymeriad a'r sefyllfa.

d Cyn gorffen dylid pwysleisio mor bwysig ydyw i'r cynhyrchydd efrydu crefft y dramaydd...[68]

Dewisiwyd tri chwmni i ymddangos yn y prawf terfynol: Hammersmith gyda chyfieithiad William Pritchard, *Y Chweched Awr,* Cymrodorion y Rhyl gyda drama Eic Davies, *Y Cam Gwag*, a Llannerch-y-medd. Oddi ar buddugoliaeth Cwmni Rhoscefnhir ym Mangor yn 1943, ni fu cwmni o Fôn yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn Llanrwst yn 1951, dyfarnwyd y wobr gyntaf i gwmni Llannerch-y-medd a chyflwynwyd y darian i John Huws gan Mrs Irene Edwards. O'r diwedd, gallai'r cwmni ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn enillydd cenedlaethol a thrwy hynny ddwyn bri ar Athen Môn. I un aelod ifanc o'r cast, roedd y fuddugoliaeth yn arbennig o felys. Ddydd Gwener yr Eisteddfod, enillodd Owen Parry y wobr gyntaf ar yr 'Adroddiad i Feibion' rhwng 20 a 25 oed.

Yn dilyn y fuddugoliaeth yn Llanrwst, aethpwyd ymlaen â'r drefn arferol o lwyfannu drama hir bob tymor gan roi'r perfformiad

swyddogol cyntaf yn y New Hall nos Nadolig. Fe gofia Albert Owen am y traddodiad o gynnal *dress rehearsal* yng Ngharreglefn ychydig nosweithiau ynghynt er mwyn rhoi cychwyn i'r tymor a hynny ar lwyfan pur gyfyng. Dyma'r math o lwyfan a gynigiai sialens llwyfannu go iawn i unrhyw gwmni drama. Cyfyngid ar y symudiadau, ac o ganlyniad byddai'n rhaid bod yn hynod ofalus a medrus wrth gyfarwyddo er osgoi masgio, a sicrhau cydbwysedd, amseru a grwpio effeithiol.

Yn hanes cwmni'r Llan, fel yn hanes y rhan fwyaf o gwmnïau amatur y cyfnod, clywir am lu o storïau doniol, nid yn unig am ddigwyddiadau a welid ar y llwyfan ei hun, ond am yr hyn a ddigwyddai yn y *wings*. Addas fyddai dwyn i gof un digwyddiad doniol yn hanes y cwmni ond, er sicrhau cyfrinachedd, ni fanylir ar enw'r unigolyn na theitl y ddrama. Digon yw crybwyll mai merch oedd prif gymeriad y ddrama 'anweledig' honno ac mai yng Ngharreglefn y digwyddodd y peth.

Cyrhaeddodd y cwmni mewn da bryd a cherdded drwy'r neuadd, i fyny'r grisiau a thrwy'r llenni i'r llwyfan. Ar y naill ochr i'r llwyfan caed *wings* cyfyngedig ac nid oedd modd symud oddi yno. Dechreuwyd ar y perfformiad ond cafodd un actores alwad natur bur argyfyngus. Roedd yn sefyllfa ddyrys tu hwnt. Yn ffodus roedd dysgl olchi ar gael fel rhan o'r *props*. Doedd dim i'w wneud ond gofyn i'r dynion droi eu cefnau tra defnyddid y ddysgl i ymateb i'r alwad. Fe gofir fel y bu'n rhaid mynd â'r ddysgl ar y llwyfan bron ar unwaith i olchi traed y cyfarwyddwr, a'r noson honno cafodd John Huws ddŵr cynnes i gyflawni'r gorchwyl.

Yn ystod y pumdegau cynnar llwyfannwyd y dramâu canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1951-2 | *Y Chwildro* | (Edna Bonnell) |
| 1952-3 | *Points* | (J. Eddie Parry) |
| 1953-4 | *Na Fernwch* | (Edna Bonnell) |
| 1954-5 | *Yr Orphiws* | (Huw Ll. Edwards) |

Dechreuwyd ar y crwydro gyda pherfformiad cyntaf *Yr Orphiws* nos Sadwrn, 25 Rhagfyr 1954. Dyma'r cast:

| | |
|---|---|
| Huw y Clocsiwr | Elwyn Williams, Brynteg |
| Yncl Enoc | John Huws, Stamp |
| Dic Betsi | R.H. Hughes, Druid |
| Dr. James | Eric Williams, Mynydd Mwyn |

| | |
|---|---|
| Willie John | Elwyn Owen, Brynteg |
| Catrin | Mari Huws, Stamp |
| Blodwen | Jean Alwena Jones, 6 Cuhelyn Terrace |
| Lowri | Ann Hughes, Llangefni |

Roedd 1954-5 am fod yn dymor llawn a phrysur a cheir tystiolaeth o hyn yn nyddiadur y diweddar Richie Hughes, Druid; dyddiadur sydd yn awr ym meddiant ei ferch, Olwen:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1954 | Rhagfyr | 25 | Llannerch-y-medd (Sadwrn) |
| | | 27 | Bodffordd |
| | | 29 | Rhiwlas |
| | | 31 | Penmachno |
| 1955 | Ionawr | 1 | Dinbych (Sadwrn) |
| | | 8 | Llangefni |
| | | 13 | Bodorgan |
| | | 19 | Rhoscolyn |
| | | 21 | Llysfaen |
| | | 22 | Lerpwl |
| | | 24 | Llangaffo |
| | | 26 | Llanddeusant |
| | | 28 | Llansannan |
| | Chwefror | 3 | Brynteg (Iau) |
| | | 5 | Abersoch (Gŵyl Ddrama) |
| | | 7 | Pentraeth |
| | | 9 | Rhosneigr |
| | | 10 | Aberdaron (cancelled) |
| | | 11 | Llangernyw |
| | | 16 | Pwllheli (postponed) |
| | | 18 | Gwalchmai |
| | | 22 | Rhoshirwaun |
| | | 23 | Bangor |
| | | 24 | Llangoed (cancelled) |
| | | 25 | Dwyran |
| | Mawrth | 4 | Amlwch (Gwener) |
| | | 5 | Harlech |
| | | 11 | Llangoed |
| | | 16 | Porthaethwy |
| | | 17 | Marianglas |
| | | 18 | Llandegfan |
| | | 25 | Llannerch-y-medd |
| | | 26 | Ruthun |
| | | 29 | Caergybi |
| | | 30 | Gŵyl Ddrama Môn |
| | | 31 | Gŵyl Ddrama Môn |
| | Ebrill | 1 | Gŵyl Ddrama Môn |
| | | 2 | Gŵyl Ddrama Môn |
| | | 8 | Brynsiencyn |
| | | 11 | Croesoswallt |
| | | 14 | Groeslon |

| | | |
|---|---|---|
| | 15 | Llanddaniel |
| | 27 | Bethesda |
| | 28 | Llanbedrgoch |
| Mai | 17 | Mynytho (Mawrth) |
| | 26 | Abergele |
| | 27 | Caernarfon |

Gan amlaf byddai'r gwahoddiad ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd perfformiad y flwyddyn flaenorol.

Dilynwyd y fuddugoliaeth yng Ngŵyl Ddrama Abersoch yn nechrau Chwefror gan fuddugoliaeth arall yng Ngŵyl Ddrama Môn yn niwedd Mawrth a dechrau Ebrill. Yn ôl pob tebyg, dyma dymor cystadleuol olaf y cwmni, ac addas yw dyfynnu penillion Aberfab i'w longyfarch ar ei waith ar hyd y blynyddoedd:

Os ydych heb weled na derbyn y wledd
Trwy wrando ar Gwmni John Huws Llannerchymedd,
Nis gallwn mewn geiriau ei ddatgan yn awr
Y mwyniant ardderchog – fe'i cawsom ddwy awr.

Mae'r cwmni bob un yn actio yn dda
Fe brofwyd yn eglur – ac ennill a wna,
Pwy sy fel 'Rhen Enoc, naturiol iawn yw,
A'i nai, yr hen glocsiwr, ei enw yw Huw?

I'r Clocsiwr a'i briod mae Blodwen yn ferch,
A gyda hon gwelir Dr James sydd mewn serch,
Boddhad mawr i'r Clocsiwr a Catrin, 'rwy'n siwr,
Yw meddwl y bydd Blodwen yn cael meddyg yn ŵr.

Mae yma ddau arall, hen ferch a hen lanc,
Dic Betsi yw'r llencyn a Lowri sy'n swanc,
Eu hanes hwy hefyd cyn diwedd eu hoes
Fu uno mewn cariad, a'r ddau byth yn groes.[69]

Gan ddilyn yr un patrwm yn ystod ail hanner y pumdegau a dechrau'r chwedegau, llwyfannwyd y dramâu canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1955-6 | *Llwyn Brain* | (Huw Lloyd Edwards) |
| 1956-7 | *Y Gŵr Drwg* | (Huw Lloyd Edwards) |
| 1957-8 | *Gŵr Mrs Jones* | (Islwyn Ffowc Elis) |
| 1958-9 | *Laura Rhydderch* | (Idwal Jones) |
| 1959-60 | *Y Golofn Danllyd* | (Islwyn Ffowc Elis) |
| | [Gweler Atodiad C] | |
| 1960-1 | *Byrbwylledd* | (John O. John) |
| 1961-2 | *Breuddwyd* | (John O. John) |
| 1962-3 | *Abel Simon* | (J. Eddie Parry) |

Gydag ail gyflwyniad ffârs J. Eddie Parry, *Abel Simon*, daeth i ben hanes cwmni drama Llannerch-y-medd, a disgynnodd y llen ar un o gwmnïau drama amatur mwyaf adnabyddus Cymru yr ugeinfed ganrif. Rhoddasai'r cwmni bleser i filoedd o bobl ledled y wlad a thu hwnt am dros ddeng mlynedd ar hugain. Bu'r daith yn hir ac ar ei therfyn cofnodir cast y ddau gynhyrchiad o *Abel Simon*:

| | 1948-9 | 1962-3 |
|---|---|---|
| Abel Simon (hen lanc cefnog) | John Huws | John Huws |
| Nans (morwyn) | Cassie Roberts | Eluned Williams |
| Wat (gwas) | Alun Williams | John Jones |
| Mrs. Jones (gwraig weddw) | Nel Owen | Jane Roberts |
| Miss Adams (hen ferch) | Mari Huws | Mari Huws |
| Dr. Tom (meddyg y pentre) | R. Rees Lewis | R.H. Hughes |

Ar ddiwedd y perfformiad olaf un, hawdd dychmygu beth oedd teimladau John a Mari Huws Stamp a Richie Hughes Druid. Haeddent y gymeradwyaeth.

Er mai gyda chwmni drama Llannerch-y-medd y cysylltir enw John Huws, ni fyddai'r hanes yn gyflawn heb roi peth sylw i'w gysylltiadau â'r mudiad drama yn Llanddeusant. Yn wir, bu ei gysylltiadau dramayddol â'r ddau le yn cydredeg am nifer o flynyddoedd. Yn y wasg, ceir yr adroddiad canlynol ynghyd â llun o 'Gwmni Drama Llanddeusant Dan Hyfforddiant':

> Y tro hwn fydd yr 17fed yn ddi-fwlch i Gwmni Drama Llanddeusant lwyfannu drama dan yr un cynhyrchydd, sef John Huws, Llannerchymedd.
>
> Gŵyr Gogledd Cymru am Mr. Huws fel meistr y ffârs a'r gomedi, ond ar hyd y tymhorau amrywiol iawn fu cynnyrch y dosbarth.
>
> Cychwynwyd ar y daith yn 1951 gyda *Gwyliwch y Paent* (Emlyn Williams), ac yna wedi'r ardal gael blas cafwyd amryw ar ôl hynny, yn eu plith *Y Joan Danvers* (trosiad D.R. Davies o ddrama Frank Stayton); *Tywydd Mawr* (Gwynfor); *Cwpan Llawenydd* (Philpots); *Yr Abwyd* (Idwal Owen); *Y Carnifal* (Tom Richards) hyd at y cynhyrchiad diweddaf, sef *Johnny Myfanwy*, cyfieithiad y Parchedig Jacob Davies o ddrama Elmer Harris, *Johnny Belinda*.
>
> Polisi'r dosbarth, os yn bosibl, yw dysgu drama newydd bob gaeaf...
>
> Dosbarth yw hwn dan Bwyllgor Addysg Môn, yr unig un yn y Sir hyd y gwyddys, sydd yn manteisio ar y cyfle gwych yma...bydd y dosbarth yn cyfarfod yn y neuadd bentref ar nos Fawrth am wyth o'r gloch.[70]

At y rhestr uchod gellir ychwanegu *Dedwydd Briodas* yn 1970, cyfieithiad Mary Lewis o gomedi J.B. Priestley, *When We Were Married*, a *Pwy*? yn 1971.

Yn y wasg, cyfeirid yn gyson at berfformiadau *Cwmni* Drama Llanddeusant, ond yn y rhaglenni a'r tocynnau swyddogol fe'i

hysbysebid fel *Dosbarth* Drama Llanddeusant. Efallai mai dyma ffordd John Huws o wahaniaethu rhwng ei wasanaeth gwirfoddol i *gwmni* Llannerch–y–medd a'i hyfforddiant cyflogedig i *ddosbarth* Llanddeusant.

Er i gwmni drama Llannerch-y-medd ddod i ben yn niwedd tymor 1962–3, nid anghofiodd John Huws ei wreiddiau dramayddol nac, ychwaith, draddodiadau'r dreflan. Ar gyfer Nadolig 1963, ymddangosodd yr hysbyseb ganlynol yn y wasg:

> Drama'r Nadolig. - Daw Cwmni Llanddeusant i'r Neuadd Newydd nos Nadolig i berfformio'r *Carnifal.* Dosbarth a gynhelir o dan nawdd Pwyllgor Addysg Môn ydyw hwn, ac sydd o dan ddisgyblaeth Mr. John Huws, Stamp. Deil Mr. Huws y traddodiad o gael cwmni drama yn y Neuadd Newydd bob nos Nadolig ers blynyddoedd lawer...Aiff yr elw eleni tuag at Gronfa Atgyweirio Capel Ifan (A).[71]

Roedd Capel Ifan yn agos iawn at ei galon. Felly, hefyd, Lannerch-y-medd.

Heb unrhyw amheuaeth, bu cyfraniad John Huws i'r ddrama amatur Gymraeg yn helaeth ac yn ddylanwadol, yn arbennig felly ym myd y gomedi a'r ffârs. Ond, fel pob un ohonom, roedd ganddo ei rinweddau a'i wendidau. Yng nghyswllt y sylwadau canlynol pwysleisir nad oes yma unrhyw ymgais i'w ddilorni fel unigolyn nac i danseilio ei gyfraniad fel cyfarwyddwr llwyfan. Yn hytrach, ceisir cyflwyno darlun teg ohono; darlun sy'n seiliedig ar ymchwil, ar holi unigolion, ac ar beth damcaniaethu.

Fel cyfarwyddwr, ei ddymuniad bob amser oedd castio ei ddramâu o fewn ffiniau'r Llan. Yn ystod y pedwardegau a'r pumdegau cynnar, llwyddodd i wneud hynny, ond gyda threiglad amser gorfodwyd ef i recriwtio o'r tu allan. Gwahoddwyd, er enghraifft, actorion o Langwyllog, Bodffordd, Brynteg, Llangefni a Llanddeusant i ymuno â'r cwmni. Erbyn dechrau'r chwedegau ni ellid, mewn gwirionedd, ei alw yn gwmni drama Llannerch-y-medd: ffaith, mae'n debyg, a fu'n siom fawr i John Huws.

Daeth aelodau cwmni drama Llannerch-y-medd i amlygrwydd cenedlaethol fel llwyfanwyr comedïau a ffarsiau. Nid rhyfedd hyn o gofio bod personoliaeth John Huws ei hun yn gogwyddo'n naturiol i'r cyfeiriad yma. Ond bu llwyddiant y cwmni hefyd yn faen tramgwydd

iddo. Oherwydd y prinder cynyddol o gomedïau a ffarsiau cyhoeddedig gwreiddiol yn Gymraeg, bu'n rhaid i'r cyfarwyddwr ddibynnu llawer ar drosiadau yn ogystal ag ymweld yn flynyddol ag awduron i ofyn am ddefnydd addas i'w lwyfannu ac, o ganlyniad, cafodd nifer o ddramâu weld golau dydd am y tro cyntaf drwy gyfrwng cwmni'r Llan.

Fel arfer, dewisiwyd drama ar gyfer saith neu wyth o gymeriadau. Byddai hyn yn hwyluso'r castio yn ogystal â chwtogi ar y costau teithio. Am gyfnod bu Robert Rees Lewis yn aelod o'r cwmni yn ogystal â bod yn berchennog y tacsi a âi â'r cwmni o amgylch y wlad. O dan y pennawd 'Robert Rees – Llawer Mwy Na Dyn Tacsi', ceir disgrifiad ganddo ef ei hun o'i gyfraniad i gwmni'r Llan:

> Dim ond dreifio'r cwmni o gwmpas yr oeddwn i ar y dechrau, mewn hen Austin 16, chwech cylinder ac rwy'n cofio ei rif o hyd, GN 2387... Un cyflym oedd o hefyd, yn enwedig i fyny'r elltydd.
>
> Byddai tri neu bedwar o fagiau yn llawn dillad ar y rac y tu ôl i'r trwmbal, a grisiau bach wedi ei rhaffu'n dynn ar ben rheini, a llwyth o wyth ohonom y tu mewn i'r car. Am un tymor, bum yn gorfod rhedeg dau gar, oherwydd fod cymaint o bethau i'w cario.
>
> Hudson Terraplane, chwech cylinder, oedd y llall, a John fyddai yn ei ddreifio...[72]

Awgrymir, hefyd, bod dewis John Huws o ddramâu yn sicrhau y câi ef ei hun ei gastio fel y prif gymeriad a thrwy hynny dderbyn y clod a oedd yn sicr o ddilyn y cynhyrchiad. Ond wedi dweud hyn, mae'n debyg mai John Huws oedd y mwyaf dawnus i ymgymryd â'r dasg honno. Yn ogystal, gofalai fod rhan amlwg i'w chwaer, Mari, ymhob drama.

Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw dystiolaeth iddo dderbyn y fraint na'r anrhydedd o feirniadu. Efallai bod y ffaith iddo gyfyngu ei arbenigedd a'i ddiddordeb i gomedïau a ffarsiau wedi bod yn rhwystr iddo ddringo'r ysgol ddramayddol. Er ei holl lwyddiant fel actor a chyfarwyddwr gellir dadlau na wyddai am hanes y ddrama fodern Ewropeaidd mewn dyfnder. Er ei fod yn ei afiaith ar lwyfan fel actor, mae'n eithaf posibl mai ei swildod cynhenid a'i rhwystrodd rhag dringo'n uwch ym myd y theatr ar lefel genedlaethol. Fe gofir fel y byddai bob amser yn gofyn i aelod arall o'r cwmni drama dalu'r diolchiadau am y croeso a'r lluniaeth ar derfyn perfformiad, ac anaml iawn y gwelid ef yn cymryd rhan gyhoeddus yng Nghapel Ifan, addoldy yr oedd ganddo feddwl y byd ohono.

Wrth holi ei gyfoedion, cafwyd sawl disgrifiad ohono fel unigolyn ac fel cyfarwyddwr. Er mai goddrychol, mae'n debyg, yw'r sylwadau, trwyddynt gobeithir cyflwyno portread pur gyflawn o'r gŵr hwn. Er diogelu cyfrinachedd, ni ddatgelir y ffynonellau:

> ...Gŵr distaw, a llawen ei natur, oedd John – caredig a pharod ei gymwynas.
> Dyn di-hiwmor, cysetlyd, hoffus iawn. Cadw'r cwbl iddo'i hun, hyd yn oed y sgriptiau ar ddiwedd y ddrama.
> Cyfarwyddwr arbennig o dda a hiwmor llond ei ddramâu. Byth yn fodlon i'r diwedd rhag llaesu dwylo mae'n debyg. Efallai ei fod yn rhoi gormod o symudiadau, ac yn eu chwarae yn rhy sydyn hefyd.
> Roedd dawn arbennig iawn ganddo.
> Chwilio am ddrama i'w siwtio fo yn bersonol.
> Hoffi i'r cwmni gael clod ond yn hoffi clod iddo'i hun fel actor.
> Rhoi popeth i'r ddrama. Meddwl am y gynulleidfa bob amser. Ni wnaed arian mawr o'r holl ymdrechion – digon i bawb gael prynu ychydig o ddillad ar ddiwedd bob tymor.
> Dyn hwyliog – mynychu'r capel ond nid yn cymryd rhan yn gyhoeddus.
> Caredig iawn ac yn naturiol yn un â diddordeb mawr yn y ddrama.
> Doedd o ddim ofn mentro gydag actorion di-brofiad.

Bu farw John Huws yn Nhachwedd 1972, ond yn ffodus cafodd fyw i oroesi ei gwmni drama yn y Llan. Yn dilyn ei farwolaeth, llosgwyd trysorfa unigryw o ddramâu, rhaglenni ac o docynnau gan ei chwaer Mari, ac aeth talp mawr o hanes y ddrama Gymraeg yn wenfflam. Collwyd cyfle i anrhydeddu cyfarwyddwr drama amatur go arbennig, a throdd y gomedi yn drasiedi. Cyfaddefir i'r golled fod yn rhwystredigaeth i gyflawnder y rhan yma o'r gwaith, ond trwy ymbalfalu yn y lludw ceisiwyd gwneud peth cyfiawnder â'r gwrthrych a'i gwmni drama.

# CWMNI DRAMA LLANGEFNI

Gellid cyfiawnhau defnyddio'r ansoddair *araf* i ddisgrifio bywyd llawer o bentrefi Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Er bod bywyd y gweithiwr cyffredin a'i deulu yn gorfforol galed ac yn brin o bethau'r byd, araf a hamddenol oedd ei fywyd cymdeithasol. Trôi popeth o gwmpas y teulu, y gwaith, y capel, yr eglwys, ac o gwmpas y gymdeithas ddiwylliedig y perthynai'r bobl iddi. Roedd pawb yn adnabod pawb, a phawb yn gwybod am fusnes pawb. Lle felly oedd pentref dychmygol Llanaraf ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ym Môn. Yno y trigai Williams y Siop, Robat Robaits y Saer, Mrs Wilias Tŷ Popty, Jôs y Plisman, Ifan y Tyrchwr ac eraill. Mewn gwirionedd, Aberffraw – Berffro ar lafar gwlad – oedd Llanaraf, ac yno ar fferm yr Henllys Fawr y trigai W.J. Griffith (1875-1931) a'i chwaer. Yn Aberffraw y pryd hynny, cyfarfu W.J. Griffith yn rheolaidd â'r cymeriadau go iawn; y cymeriadau hynny a'i hysbrydolodd i gyfansoddi ei gasgliad o storïau, *Storïau'r Henllys Fawr*. Yno, yn nhir Aberffraw, yr heuodd W. J. Griffith yr had a eginodd fel Cwmni Drama Llangefni yn nechrau'r tridegau.

Ond cyn mynd ymlaen at brif destun y bennod, teg fydd ymhelaethu rhyw ychydig ar gyfraniad gŵr yr Henllys Fawr, nid yn unig i'r diwylliant lleol yn Aberffraw ac ym Môn, ond i ddiwylliant Cymru benbaladr. Yn ei Ragair i'r casgliad o storïau, dyma beth ddywed T. Rowland Hughes (1903-49) am y llenor arbennig hwn o Aberffraw:

> ...deallais mai hen lanc o ffermwr oedd yr awdur, yn byw mewn ffarm o'r enw Henllys Fawr yn Aberffraw, Môn. Nid oedd llawer y gellid ei ddywedyd amdano, ond ei fod, er yn fregus ei iechyd, yn amaethwr medrus ac yn ŵr a dreuliai lawer o'i hamdden yn paratoi difyrrwch ar gyfer cymdeithasau llenyddol yr ardal... [ac] yn oriau hamdden y gaeaf troi ati i godi cwmni drama. "Rhys Lewis" oedd y ddrama a mynd arni y cyfnod hwnnw, a chai W.J. Griffith hwyl fawr yn actio Tomos Bartley. Cyn hir aeth ati ei hun i ysgrifennu dramâu, a chwaraewyd dwy ohonynt – "Cyflogi Gwas" a "Croesawu'r Gweinidog" – mewn llawer pentref...Ni chyhoeddodd yr un o'i ddramâu, ac er bod ei ddireidi melys yn eu lliwio ar adegau, nid ydynt, o bell ffordd, mor ddifyr a'i storïau.
>
> Yn 1924, cynigiodd *Y Genedl* wobr am stori Nadolig, a gyrrodd W.J. Griffith "Eos y Pentan" i'r gystadleuaeth. Hi oedd y stori orau o ddigon, a gwelodd Mr. Morgan Humphreys[73] ar unwaith fod rhyw wreiddioldeb a medr anghyffredin yn y gŵr o Aberffraw. Anogodd ef i ysgrifennu ychwaneg o storïau...

> ...yn ei storïau yr oedd W.J. Griffith ar ei orau...Cyhoeddwyd yr olaf yn rhifyn Nadolig *Y Genedl*, 1930...
> Dyma W.J. Griffith – gŵr tawel, syml, a golwg dyn difrif iawn arno, ond fe wyddai pawb a'i hadwaenai y cuddiai'r difrifwch hwnnw ddonioldeb dihysbydd. Arferid darllen ei storïau yng nghymdeithas lenyddol Capel Aberffraw, a thorrai chwerthin y gynulleidfa ar eu traws bob gafael, nes cymryd y stori amser hir iawn i'w dweud...
> ...Storïau...sydd yn agos iawn at fywyd, at y bywyd hwnnw a adwaenai'r awdur mor dda. Pentref bach fel Aberffraw a ddewisodd yn gefndir...[74]

Bu farw W. J. Griffith yn hanner cant a chwech mlwydd oed 7 Hydref 1931. Roedd ganddo un chwaer, Hannah, a dydd Mercher, 26 Ebrill 1933, priododd[75] hithau â'r Parchedig R. Prys Owen, gweinidog Capel Moreia (MC),[76] Llangefni. Bu'r garwriaeth yn ddolen gyswllt arwyddocaol rhwng Aberffraw a chwmni drama Llangefni.

I'r gymdeithas hon yn Aberffraw y ganwyd Owen Williams, 22 Medi 1896 [Gweler Atodiad A(8)]. Fe'i ganwyd i deulu cyffredin, tlawd a oedd yn nodweddiadol o'r cyfnod yn yr ardal. Cafodd fagwraeth grefyddol a diwylliedig, a blasodd ragoriaethau'r gymdeithas a'r capel ond, yn fwyaf arbennig, daeth dan ddylanwad gŵr yr Henllys Fawr. Datblygodd fel adroddwr llwyddiannus ac adnabyddus, a bu'n ddigon ffodus i gael treulio rhyw ddwy flynedd o addysg uwchradd yn Ysgol Sir Caergybi cyn i brinder arian ei orfodi i adael a mynd allan i weini ar ffermydd yn yr ardal. Priododd â Margaret ac aethant i fyw i bentref bach Llanfaelog, rhyw bedair milltir o Aberffraw. Yn 1929 cafodd swydd fel cynrychiolydd i Gwmni Yswiriant Prudential, a symudodd y ddau gyda'u merch Eirlys, i Langefni.

I'r un gymdeithas y ganwyd Edward (Ned) Williams, 24 Chwefror 1906 [Gweler Atodiad A(9)]. Roedd yn nai i Owen Williams. Cafodd fagwraeth debyg i'w ewythr ond, oherwydd tlodi difrifol, symudodd i fyw yn ifanc iawn at ei daid a'i nain. Derbyniodd ei addysg sylfaenol yn ysgol y pentref, ac yno y treuliodd ei flynyddoedd cynnar hyd nes iddo ymadael a mynd, fel ei ewythr o'i flaen, i weini ffermydd. Yn ei ysgrif, 'Tenant y Llofft Allan', ceir cadarnhad o'r math o gymdeithas a fodolai yn Aberffraw ar ddechrau'r ganrif; yr un gymdeithas a'r un cymeriadau a anfarwolwyd gan W.J. Griffith yn ei storïau. Yn yr un ysgrif ceir portread byw o ddyheadau a phrofiadau a

oedd i lywio bywyd a chyfraniad bachgen ifanc i ddiwylliant ardal arbennig:

> ...Aiff hyn â ni yn ôl dros ddeng mlynedd a thrigain, pan oeddwn yn fachgen... yn disgwyl fy nhaid i ddod gartref wedi swpera ohono y ceffylau a'r gwartheg, - a dyna ddechrau cael blas ar fywyd fferm. Cyfnod y gannwyll, y lamp baraffin, lantern stabal, ac yn wir lamp oel oedd gan bobl ar ei beiciau. Pentref bach tawel ar gwr y lli, tlawd o bethau'r byd ond cyfoethog iawn ei ddoniau, tri phâr o ddeuawdwyr, tri adroddwr penigamp, sawl unawdydd a chyfeilydd, heb son am Theatr Llofft y Capel a'r prif ddramodydd ar actiwr W. J. Griffith, Yr Henllys Fawr...
>
> Beth am y trigolion? Roedd pedwar saer coed, tad a thri mab, dau of, dau grydd, dau deiliwr, dau weinidog ac un rheithor, ysgolfeistr a thri athro, dyn insiwrans, a phlismon wrth gwrs.
>
> Ar wahân i ddau saer maen, gweision ffermydd oedd y gweddill..
>
> Cofiaf y dydd Gwener olaf, a minnau wedi troi fy nhair ar ddeg a hanner, y gloch yn canu am bum munud i naw... minnau wedi cyflogi ac i gychwyn fy nhymor fel gwas bach y bore Llun dilynol, i mi ddweud dan fy nannedd, "Chani di ddim arna i eto'r c-------, mi fydda i yn ddyn am hanner awr wedi tri pnawn 'ma, ac yn rhydd o'r jêl". ...Fy nhaid yn gweiddi ar ryw lipryn llwyd tennau, "Mae hi yn bump o'r gloch, ngwas i, ac mi fyddan wrth y bwrdd brecwast, wsti, am chwech yn Bodfeurig..." A'r nos Lun honno oedd y noson gyntaf i mi gysgu allan, a noson i'w chofio oedd honno...[77]

Yn *Storïau'r Henllys Fawr*, mae i bob stori ei doniolwch a'i sefyllfa gymdeithasol ei hunan, a phob un yn ei ffordd yn adlewyrchu bywyd pentrefol ym Môn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ond, o safbwynt hanes y ddrama yn y sir, fe hawlia 'Antur y Ddrama'[78] le go arbennig. Ynddi ceir enghreifftiau o'r math o ddisgwyliadau dramayddol a fodolai yng nghefn gwlad. Diddanu'r bobl oedd prif amcan y ddrama leol. Gan amlaf fe'i perfformid ar lwyfan cyfyng, gwichlyd a bregus ei wneuthuriad, a hynny dan gysgodion aflonydd lampau olew festri'r capel, a'r gynulleidfa, yn union fel cynulleidfa'r Llofft yn 'Antur y Ddrama', '...wedi eu pacio yn dynn fel dau flychiad o benwaig...' I'r pentrefwyr, roedd noson y ddrama yn noson fawr. Er gwaethaf y prinder dramâu Cymraeg a fodolai ar y pryd, fe geir yn 'Antur y Ddrama' adlewyrchiad o'r hyn oedd yn apelio at y werin bobl. Mae i'r ddrama Gymraeg le mawr i ddiolch i Williams y Siop a'i debyg am fynd ati i ysbrydoli unigolion fel W.J. Griffith i gyfansoddi dramâu waeth pa mor gyntefig eu cynnwys.

Gyda'r profiadau dramayddol hyn yn gefn iddo, symudodd Owen Williams a'i deulu i fyw i Angorfa, Ffordd Glanhwfa, Llangefni yn 1929. Yn fuan dilynwyd ef gan Edward a chafodd yntau ymgartrefu

gyda'i ewythr a'i deulu. Lleolwyd Angorfa o fewn tafliad carreg i Gapel Moreia. Efallai i'r ffaith mai chwaer W.J. Griffith oedd darpar wraig y gweinidog ddylanwadu ar benderfyniad y tri i ymaelodi yno bron ar unwaith. Ymddangosodd eu henwau yn yr Adroddiad Blynyddol am 1930 fel aelodau am ran o'r flwyddyn yn unig. Yn fuan wedyn penderfynwyd sefydlu cwmni drama ar gyfer pobl ifanc yr eglwys, a phenodwyd Owen Williams yn gyfarwyddwr. Aethpwyd ati rhag blaen i ddewis drama.

Yn ystod mis Hydref 1930, trefnwyd ysgol ddrama yn y dref dan nawdd Pwyllgor Undeb Neuaddau y Sir '...i alluogi cwmnïau yn y Sir i ddysgu sut i ddewis ac actio drama' ac y byddai 'Cynan a Gwynfor yma am y ddau ddiwrnod cyntaf...'.[79]

Gellid dychmygu fod yr arweiniad a gafwyd gan y ddau feistr ynglŷn â dewis drama wedi creu cryn benbleth i Owen Williams. Bu'n rhaid iddo benderfynu rhwng naill ai dilyn cyfarwyddyd dau o ddramodwyr amlycaf y genedl neu lynu wrth y traddodiad gwerinol yr oedd mor gynefin ag o yn Aberffraw. Y tro yma, mae'n amlwg fod ei gefndir wedi dylanwadu ar ei ddewis o ddrama.

Ar gyfer y perfformiad yn Neuadd y Dref 11 Rhagfyr 1930, aethpwyd ati i ddysgu *Jac Martin*, drama bedair act o waith y Parchedig Tywi Jones. Fe'i hadnabyddid, hefyd, fel *Pobl Llandderwydd.* Yn unol â chais Williams y Siop yn *Antur y Ddrama*, roedd i'r ddrama gast o dri ar ddeg o ddynion a saith merch gan gynnwys plismyn, pysgotwr, ambell locsyn, a chi. Yn dilyn y perfformiad gwelwyd yr adroddiad canlynol yn y wasg:

> ...Y mae i'r ddrama hon gymaint a deunaw o olygfeydd – gormod o lawer iawn; a dyma a deimlid yn y perfformiad nos Iau – fod y llen yn mynd i lawr ac i fyny yn aml, a thrwy hynny amser yn cael ei golli wrth newid cymaint.
>
> Am yr actio, nid oedd yr un sâl ymhlith yr ugain. Ymhob drama caiff ambell gymeriad gyfle i ddangos ei ddawn, ac yma Jac oedd hwnnw. Gwnaeth ei waith yn wych o'r cychwyn i'r diwedd, heb fyned i actio neb arall na cheisio cuddio y ddawn o fod yn naturiol yn ei waith...nid oedd yr un annheilwng o'r cwmni.
>
> Dywedodd rhywun wrthym yr wythnos cynt: "Ond tydi pobl ifanc Moreia yn mentro wrth fynd i'r Neuadd Drefol i actio?"
>
> Na, yr oedd y perfformiad nos Iau yn deilwng o unrhyw lwyfan o gofio ieuenged y dalent.
>
> ...Dan gyfarwyddyd Mr. Owen Williams, Angorfa, yr oedd y cwmni: ef, fel y gwyddis, yn adroddwr enwog, a chlod iddo am ei lafur.[80]

Mae'n amlwg i'r dewis a'r perfformiad fod yn llwyddiannus, a chafodd Owen Williams a'i gwmni ddechrau da. Er eu bod yn perfformio ar lwyfan eang Neuadd y Dref, Llangefni, yn hytrach nag ar lwyfan cyfyngedig y festri yn Aberffraw, fe gofir am un digwyddiad yn ystod y perfformiad a fyddai wedi gweddu i'r dim i'r hyn a ddymunai Williams y Siop ei weld a'i glywed. Roedd Nest Myfanwy Roberts, merch Caerwyn, yn chwarae rhan Mari Martin a Roland Williams yn chwarae rhan Matthew Martin. Fe gofir am Roland fel un o gymeriadau mwyaf direidus y dref. Mewn un olygfa, gorweddai Mari ar y llwyfan mewn *hysterics* gan gicio a sgrechian. Plygodd Matthew drosti a dweud dan ei wynt, "Coda i fyny y datan ddiawl, rwyt ti wedi strancio digon rŵan!" Yn anffodus, fe'i clywyd gan bawb a methwyd â mynd ymlaen am sbel o ganlyniad i chwerthin afreolus y gynulleidfa. Yn unol â dymuniad Williams, fe dynnwyd y tŷ i lawr.

Yn dilyn y perfformiad daeth cryn ofyn am wasanaeth y cwmni ifanc, a gwyddys iddynt ymweld â Marian-glas, Rhosneigr, Amlwch, Llanbedrgoch, Bodedern a Llandegfan. Dechreuwyd ar y crwydro.

Ar gyfer tymor y gaeaf 1931-2, dewisiwyd *Helynt a Heulwen*, drama o waith W.D.P. Jones. Fe'i perfformiwyd yn Neuadd y Dref nos Iau, 3 Rhagfyr 1931. Am yr eildro cafwyd adroddiadau pur ffafriol gan ohebwyr y ddau bapur lleol:

> ...Yr oedd y stori'n cael ei datblygu'n gampus, y golygfeydd yn effeithiol, a'r actwyr i gyd yn gwneud eu rhan yn dda...Nid rhyfedd fod cymaint galw am wasanaeth y cwmni hwn... [81]

> Cafodd pobl ifanc Moreia hwyl anarferol y llynedd wrth actio *Jac Martin*...nid oes yn hon a actiwyd nos Iau yr amrywiaeth a geid yn honno...
> Cafwyd actio go dda gan yr oll...Yr oedd y Postman[82] yn cael hwyl dda gyda'i ran. Hwyrach ei fod yn cael gormod o hwyl ar adegau...ond actiwr a medr ganddo yw hwn ac yn llwyr deilyngu rhan bwysig mewn unrhyw ddrama...A chymryd y cwmni drwodd a thro, gwell fuasai gennym ddiwyg dipyn yn fwy hen ffasiwn a'r *make-up* yn llawer gwell...Mawr lwydd i'r cwmni i ddiddori tyrfaoedd, fel y gwnaethant gyda *Jac Martin* dan gyfarwyddyd yr adroddwr enwog a hysbys, Mr Owen Williams.[83]

Yn ôl pob tebyg, ni fu llewyrch ar y ddrama hon, ond gwyddys i'r cwmni ei pherfformio yn Ysgoldy Bethania (MC), Llangaffo, nos Lun, 21 Rhagfyr 1931.

Buan y gwnaeth Owen Williams enw iddo'i hun fel cyfarwyddwr, ac ystyrid Edward, ei nai, yn actor addawol iawn hefyd. Ond nid hap a damwain mo hyn, yn arbennig felly yn hanes Edward Williams. Dyma beth ddywed Rodney Hughes amdano:

> ...Yn fuan ar ôl cyrraedd y dref, cafodd Mr. Williams flas ar ddrama, eisteddfodau a chymdeithasau a dechreuodd geisio'i wella ei hun. Cymysgodd gyda bechgyn a fu mewn colegau i geisio hyrwyddo'i addysg...[84]

Mae'n debyg mai gwella ei hun yn ddiwylliannol fu prif nod bywyd Edward. Ond nid anghofiodd ei wreiddiau.

Fe nodwyd eisoes fod Owen Williams yn adroddwr adnabyddus a llwyddiannus, ac fel Emyr Jones yn Rhoscefnhir, meddai ar lais grymus ac osgo dramatig. Fel adroddwr, roedd yn hen gynefin â chystadlu, ac wedi treulio ei ddau dymor drama cyntaf gyda chwmni Moreia yn gwneud dim ond diddanu cynulleidfaoedd, buan y cododd yr ysfa i gystadlu ei phen unwaith yn rhagor. O gofio mai ifanc a dibrofiad oedd aelodau'r cwmni, gellir tybio fod cryn drafod a dadlau wedi digwydd ynglŷn â mentro i gystadleuaeth actio drama am y tro cyntaf. Fodd bynnag, penderfynwyd mynd ati i wneud hyn.

Yn ystod y tridegau a'r pedwardegau, John Ellis Williams[85] oedd un o gyfansoddwyr dramâu mwyaf cynhyrchiol Cymru, ac ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Môn Caergybi, 1932, dewisiwyd un o'i ddramâu cyntaf, *Y Pwyllgorddyn.* Roedd hon yn sialens newydd ac yn ddrama fwy diweddar. Efallai i Owen Williams sylweddoli fod natur y gymdeithas yn newid a bod angen cyflwyno math newydd o ddrama i ddenu cynulleidfa. Daeth dyddiau'r cast mawr, y locsyn a'r ergyd i ben a chyda hwynt diflannodd y math o ddrama a hoffai Williams y Siop i niwl y gorffennol. Gyda Gwynfor a Mr. T. Eames, Caergybi, yn beirniadu, perfformiwyd *Y Pwyllgorddyn* ym mhictiwrs yr Arcadia, Llangefni, yn niwedd Mawrth 1932. Am eu hymdrech, enillwyd dwy wobr, sef Tlws y Ddraig[86] a'r gwahoddiad canlynol:

> 'Dowch acw, wir', meddai Mrs. G. Jones, Avondale Restaurant, wrth Gwmni Drama Moreia,...'a mi wnai swper dan gamp ichi gyd'. Ac felly y bu – darpariaethau gwych, gwledd freiniol i'r cyfeillion ieuainc...Noson lawen iawn.[87]

Ar gyfer tymor 1932-3 penderfynwyd cyflwyno drama arall o waith John Ellis Williams, sef *Pen y Daith*.[88] Mae'n debyg fod arddull yr awdur yn apelio at y cwmni ac, wrth gwrs, roedd yn rhaid i Owen Williams ddewis drama a fyddai yn addas ar gyfer y doniau a oedd ar gael iddo. Fel y gwelir maes o law, dylanwadodd penderfyniad Owen Williams i lwyfannu *Pen y Daith* yn 1932 ar benderfyniad ei nai, Edward, i lwyfannu'r un ddrama yn 1946. A chyda'r ddrama hon y cyrhaeddodd cwmni drama Llangefni uchafbwynt ei enwogrwydd yn ystod 1946-7.

Fel Grace Thomas yn Rhoscefnhir a'r Parchedig Evan Roberts yn Llannerch-y-medd, safai y Parchedig R. Prys Owen yn gryf dros achos dirwest. Yn ei anerchiad blynyddol at aelodau Moreia yn 1930 mae'n cyflwyno ei safbwynt yn hollol ddi-flewyn-ar-dafod:

> I droi yn awr yn nes gartref, oddi wrth faterion cyfundebol at rai lleol. Credaf fod galwad arnom ni yn Llangefni yn awr i ystyried yn ddifrifol ein safle ynglŷn â Dirwest. Dywedwyd yn ddiweddar oddi ar y Fainc Ynadol fod ymarfer â'r diodydd meddwol ar gynnydd ym Môn, ac y mae lle cryf i feddwl fod yr un peth yn wir am y dref yr ydym ni yn byw ynddi. Ofnaf fod rhif y dirwestwyr ym Moriah yn llawer llai nag yn y blynyddoedd a fu. Nid ymhlith pobl ieuanc yn unig y mae hyn yn ffaith, ond ofnaf fod amryw sydd yn ganol oed yn ildio i hudoliaeth beryglus y diodydd meddwol. Gelyn yw hwn ac y mae yn rhaid i gymdeithas wylio yn wastad rhagddo, ac nid ymhel neb â'r diodydd meddwol nad yw mewn perygl oddi wrthynt.[89]

Mae'n amlwg bod cwmni ifanc Moreia wedi cael bendith y gweinidog i lwyfannu *Pen y Daith*. Fodd bynnag, llwyfannwyd y ddrama am y tro cyntaf yn Rhagfyr 1932, nid yn Llangefni, ond, yn hytrach, yn y New Hall, Llannerch-y-medd. Erbyn hyn gellir gwerthfawrogi hyder Owen Williams a'i gwmni yn mentro rhoi'r perfformiad cyntaf ar lwyfan un o ganolfannau drama amatur enwocaf Môn, os nad Cymru. Yn dilyn y perfformiad, cydnabuwyd yr ymdrech yn y wasg:

> ...Gellir yn ddibetrus roddi yr ansoddair 'enwog' rhagllaw i'r cwmni hwn, a gellid dweud amdanynt...Daethant, gwelsant, a gorchfygasant. Credwn iddynt wneud cyfiawnder cyflawn â'r dramodydd...drwy roddi portread byw a naturiol o'r cymeriadau. Hawdd gweled fod rhai ohonynt yn neilltuol felly wedi colli eu hunaniaeth er dangos y cymeriad yn effeithiol a realistic.[90]

Wythnos yn ddiweddarach ymddangosodd adroddiad gan Myfyr Alaw:

> ...Un wnaeth ei waith yn rhagorol oedd Bob Huws:[91] o'r man cyntaf y daeth i'r llwyfan yr oedd yn naturiol chwareus, a hiwmor iach farddonol yn drawiadau byw ganddo; yn medru unioni camwri yn rhwydd a di-ymdrech...Wel, teimlo yr wyf na ellir drwy fanylu ond dweud mai 'tîm' da, wedi dod ynghyd i chwarae drama ydyw...I fwynhau a sylweddoli gwerth y cwmni, gwahodder hwy i bob ardal ym Môn y tymor gaeaf yma...Yn Llanerchymedd y bu iddynt lwyfannu y ddrama hon gyntaf, a boddhawyd cynulliad o bobl fedr werthfawrogi drama dda...[92]

Yn dilyn y perfformiad cyntaf hwn yn Llannerch-y-medd, cafwyd gwahoddiadau i gyflwyno'r ddrama o bob rhan o'r ynys. Yn *Y Clorianydd*, gwelir yr adroddiad canlynol ar berfformiad y cwmni yng Nghemais:

> ...Yr oedd disgwyl mawr amdanynt, a phrawf o hynny oedd y dyrfa fawr, ac ni chafodd neb ei siomi. Dyna oedd i'w glywed gan bawb wrth fynd allan – 'Chlywais i ddim byd gwell erioed'. Yr oeddwn wedi clywed dau berfformiad arall o'r ddrama hon, ond y noswaith yma cefais rywbeth yn y ddrama gan y cwmni hwn na chefais cynt...[93]

Yn dilyn y fuddugoliaeth yn Eisteddfod Môn Caergybi, 1932, ysbrydolwyd y cwmni i gystadlu unwaith eto yn 1933. Yn wir, aethpwyd un cam ymhellach: penderfynwyd cystadlu yn Eisteddfod Môn ym Mhorthaethwy, yn ogystal ag yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Yn y prawf terfynol ym Mhorthaethwy, colli o 92 o farciau i 90 fu hanes y cwmni. Gyda Gwynfor yn beirniadu, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Gwmni Ardudwy, Blaenau Ffestiniog. Mae'n debyg fod hwn yn ganlyniad eithaf boddhaol o gofio bod y cwmni buddugol hefyd yn perfformio *Pen y Daith* gyda'r awdur ei hun yn cyfarwyddo ac yn actio. Ar lefel genedlaethol, ni chyrhaeddwyd y prawf terfynol, a diddorol yw nodi fod pump o'r deg cwmni a fu'n cystadlu ar gyfer Wrecsam wedi dewis *Pen y Daith*.

Ar gyfer tymor 1933-4, dewiswyd comedi pedair act gan R.D. Morris, *Ffordd Sera Parri*, ond prin yw'r dystiolaeth am y perfformiadau. Ni chafodd y cwmni fawr o ganmoliaeth am ei berfformiad yn Llangefni nos Wener, 2 Mawrth 1934. Beth bynnag fo'r rheswm am i Owen Williams ddewis y ddrama hon, daeth ei gyfnod fel cyfarwyddwr y cwmni drama i ben yn Ebrill 1934. Gyda'i deulu, symudodd i Amlwch i ddilyn ei yrfa gyda Chwmni'r Prudential, a daeth

i ben gyfnod llewyrchus yn hanes cynnar cwmni drama Llangefni. Yn y wasg, gwerthfawrogwyd ei gyfraniad i'r mudiad drama yn y dref:

> GWLEDD: Nos Fawrth, gwahoddodd Cwmni Drama Moreia eu cyfarwyddwr, Mr. Owen Williams, Angorfa, a Mrs. Williams a'r plant i gyfranogi o wledd a drefnwyd ym mwyty'r Avondale. Wedi'r wledd anrhegwyd Mr. Williams ag oriawr aur hardd gan y cwmni...byddai symudiad Mr. Williams a'r teulu i Amlwch yn golled fawr i'r dref...a chyfarchwyd ef a'r penillion hyn gan Rolant:
>
> Nid yw'r anrheg fechan yma
> Ond cysgod egwan iawn
> O ddymuniad gorau'r hogiau,
> Ac o ddiolch calon lawn.
>
> Mae gan lafur well gwobrwyon,
> A gwell can i weithiwr mawr;
> Ond mae calon plant Moreia'n
> Fwy na'r anrheg hon yn awr.
>
> Mae bendithion plant Moreia'n
> Cau amdanoch fel y glaw,
> Os yw anrheg fach yn werthfawr,
> Y mae mwy mewn ysgwyd llaw.
>
> Ac os dowch i dref Llangefni
> Rhywbryd eto ar eich tro,
> Llydan a fydd breichiau'r hogiau
> A bydd croeso lond y fro.
>
> Mynnwch godi Môn i'r entrych,
> Mynnwch heulwen ar eich grudd;
> Gwnewch eich rhan yn nramau'r aelwyd,
> A chewch dyfu'n fawr rhyw ddydd.[94]

Yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif sefydlwyd ym Môn, ymysg amrywiol weithgareddau diwylliannol eraill, nifer fawr o gwmnïau drama lleol. Prif amcan y cwmnïau hyn oedd diddanu'r trigolion. Capeli ac eglwysi oedd canolbwynt y gweithgareddau hyn ond yn aml roeddynt, fel adeiladau, yn anaddas o safbwynt perfformio dramâu i'r cyhoedd. Er bod yn y pentrefi arweinwyr a chyfarwyddwyr galluog a diwylliedig, oherwydd anaddasrwydd yr adeiladau, ni ellid gwneud cyfiawnder â'r dramâu. Ceir amlinelliad o natur y sefyllfa gan J.O. Jones[95] yn 1957:

> Yn ystod chwarter cyntaf y ganrif hon cychwynnwyd ym Môn ddau fudiad cymdeithasol sy'n prysur adael eu dylanwad ar y bywyd gwledig, y naill yw Sefydliad y Merched a'r llall yw mudiad y Cyngor Gwlad. Gwelodd cychwynwyr y ddau fudiad hyn angen yr ardaloedd gwledig...Cyfyngodd y cyntaf ei weithgarwch i ferched a cheisiodd yr ail ddelio â chymdeithas fel uned...
>
> ...Galwyd ail gyfarfod yn ystod y mis Mai canlynol (1919) a chytunwyd gydag unfrydedd i sefydlu mudiad a oedd i 'hyrwyddo a

> sefydlu Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymdeithasol a cheisio cyfarwyddyd arbenigwyr ynglŷn â hwy'. Enw'r mudiad oedd 'Undeb Neuaddau Môn'.
>
> ...Ym 1920 sicrhawyd grant o £1,500 o gronfa'r "United Services" tuag at adeiladu neuaddau ym Môn...Gwelai'r arweinwyr cyntaf gyfle i ddefnyddio ystafelloedd y neuaddau ar gyfer dosbarthiadau min nos...lluniwyd rhaglen waith a oedd yn cynnwys darparu...gwyliau cerddorol, gweithgarwch ym myd y ddrama...
>
> ...Gydag amser, gwelwyd ehangu'r gweithgareddau ac erbyn 1928 teimlai'r Pwyllgor Gwaith y dylid newid enw'r mudiad a'i alw yn 'Mudiad Neuaddau Môn a Chyngor Gwlad Môn'...ym Medi 1939, mabwysiadwyd cyfansoddiad a'i amcanion yn llawer ehangach eto...[96]

Yn ystod y tridegau cynnar, roedd gan gwmni drama Moreia gryn fantais ar y mwyafrif o gwmnïau Môn. Ar y naill law roedd Ysgoldy Moreia yn bur eang ar gyfer llwyfannu dramâu, ac ar y llaw arall cawsai y cwmni gyfle cyson i berfformio ar lwyfan Neuadd y Dref er gwaethaf ei diffygion o safbwynt goleuadau llwyfan. O'r herwydd, mae'n debyg i'r cwmni hefyd orfod wynebu trafferthion yma ac acw ar ei daith wrth orfod addasu'r symudiadau a'r set ar gyfer llwyfannau cyfyngedig y sir.

Yn ogystal, roedd gan y cwmni fanteision o safbwynt meistroli'r gelfyddyd o lwyfannu dramâu. Gan mai Llangefni oedd canolfan weinyddol, busnes a marchnad y sir, yno y cynhelid, yn y cyfnod hwn, yr ysgolion drama a pherfformiadau gan brif gwmnïau amatur Cymru. Manteisiodd yr aelodau ar hyn a chawsant eu trwytho ym myd y ddrama. Er enghraifft, ar gyfer nos Fercher, 1 Chwefror 1933, hysbysebwyd bod trefniadau wedi eu gwneud dan nawdd Undeb Drama'r Gogledd

> ...i'r actores Gymreig enwog, Miss Eirian Morgan, o Ysgol Ddrama Llundain, ddarlithio ar 'Gelfyddyd Actio' yn Neuadd Ganol Ysgol y Sir, Llangefni...mynediad i mewn yn rhad...Dyma gyfle gwych i liaws aelodau Cwmnïau Drama Môn dderbyn hyfforddiant buddiol gan un a gyfrifir yn feistres y gelf...[97]

Yn dilyn ymadawiad Owen Williams i Amlwch, crewyd bwlch yn hanes y cwmni drama. Mae'n debyg fod cryn drafod wedi bod ynglŷn â'r dyfodol, ond gan fod yr haf ar y gorwel, ni wnaed dim hyd fis Hydref. Mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa '...awgrymwyd y priodoldeb o ffurfio cwmni drama yn y dref...[a chredid] fod yn Llangefni a'r cylch gystal deunydd cwmni ag unrhyw fan yng Nghymru...'[98] Penderfynwyd sefydlu cwmni a fyddai'n cynrychioli'r gwahanol enwadau a sefydliadau yn y dref gyda'r bwriad o '...sefydlu perthynas iach rhwng dinasyddiaeth a chrefydd...'[99]

Galwyd ef yn Gwmni Sefydliad Coffa Llangefni a rhoesant berfformiad o *Dirgel Ffyrdd* (Ieuan Griffiths) nos Wener, 1 Mawrth 1935. Ymysg y cast yr oedd dau aelod o gwmni drama Moreia: Arthur Owen a Kitty Hughes, dau a briodwyd 30 Gorffennaf 1937. Cyfarwyddwyr artistig y cwmni oedd W. St. John Williams (deintydd), David Taylor (prifathro) a'r Cynghorydd J. Fred Jones. Mae'n amlwg i'r perfformiad fod yn llwyddiant:

> ...Ar ôl cynhyrchiad mor rhagorol hyderir yr â y cwmni ymlaen o nerth i nerth. Bydd yn bleser gan y cwmni roddi eu gwasanaeth am delerau rhesymol iawn...[100]

Ond byr fu bodolaeth y cwmni. Er bod trafodaeth wedi bod yn ystod Medi 1935, ynglŷn â'r bwriad o gyflwyno *Hywel Harris* (Cynan) yn ystod tymor y gaeaf, ni fu datblygiadau pellach ac ni cheir rhagor o sôn am y cwmni. O'r herwydd, ni fu llawer o weithgaredd dramayddol yn y dref hyd 1939.

Fe saif y flwyddyn honno yn garreg filltir bur arbennig yn hanes y ddrama yn y sir. Yn ystod y flwyddyn, torrodd yr Ail Ryfel Byd ac apwyntiwyd J.O. Jones yn Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn. Bu effaith y rhyfel ar gymdeithas yn anfesuradwy, ond bu apwyntiad J.O. Jones yn dyngedfennol i ddyfodol y ddrama ym Môn. Yn sicr dyma ddechrau cyfnod mwyaf ffrwythlon cwmni drama Llangefni.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gorfodwyd nifer fawr o fechgyn Môn i ymladd dros eu gwlad naill ai yn y fyddin, yn y llynges neu yn yr awyrlu. O ganlyniad bu cryn chwalu ar gymdeithas ac, o'r herwydd, llesteiriwyd ysfa'r trigolion i ymhél â diwylliant. Yn Llangefni, pan dderbyniwyd y newyddion am farwolaeth un o fechgyn y dref, ysgytiwyd y gymdeithas. Pan suddwyd yr HMS Hood gan y Bismarck , 23 Mai 1941, disgynnodd cwmwl dros y dref. Collwyd un o gymeriadau Llangefni ac aelod o gwmni cyntaf Moreia, Roland Williams [Gweler Atodiad CH]. Gadawodd colledion o'r fath greithiau erchyll ar y gymdeithas.

Ond ym Môn, er gwaethaf colledion o'r fath, bu apwyntiad J.O. Jones yn ysbrydoliaeth i'r mudiad drama yn y Sir:

> Gweithredwn i ar y pryd fel Swyddog rhan-amser, a thrwy garedigrwydd Pwyllgor Gwaith Undeb Gweithwyr Môn cefais loches i'r Cyngor yn ei swyddfa, yn adeiladau Glandwr, Llangefni. Lawer tro, bu gweithio yno hyd oriau hwyr y nos, a chaed aml seiat ddiddorol a esgorodd ar gynlluniau llwyddiannus. Eithr ym 1945, trwy garedigrwydd Mr. R.G. Guest, llyfr- werthwr yn Llangefni, sicrhawyd un ystafell fechan uwchben ei siop, a phenodwyd Miss Myfanwy Owen, Ty'n Llwyn, Llangefni (Mrs. Emrys Jarman, Caerdydd erbyn hyn) yn glerc rhan-amser. Yn wir, nid oedd gennym gymaint â bwrdd yn eiddo inni, ond llwyddwyd i ddodrefnu'r ystafell gyda bwrdd pymtheg swllt a hanner dwsin o gadeiriau a brynwyd am goron yr un...[101]

Mae'n debyg y gellid dadlau fod apwyntiad J.O. Jones hefyd yn ddolen gyswllt rhwng dau o ddramodwyr y dref y pryd hynny. Gan fod Môn yn ardal amaethyddol, cafodd rhai o'r gweithwyr osgoi'r orfodaeth filwrol. Edrychwyd arnynt fel gweithwyr angenrheidiol. Gan fod Edward Williams yn gweithio fel gyrrwr lori a gludai nwyddau i ffermydd Môn ac Arfon, ystyriwyd ef yn weithiwr angenrheidiol yn y broses o gynhyrchu bwyd. Ond bu'n rhaid i Francis George Fisher, athro mathemateg yn yr Ysgol Sir, ymaelodi â'r llynges a threulio cryn amser yn amddiffyn Gwlad yr Iâ rhag ymysodiad milwrol o'r Almaen.

Gyda'i frwdfrydedd, ei weledigaeth a'i allu i gyfathrebu â phobl, aeth J.O. Jones ati i ailgynnau diddordeb dramayddol trigolion Môn. Ei brif amcan oedd sefydlu Gŵyl Ddrama flynyddol yn y sir. Gwireddwyd ei freuddwyd yn 1942 pan gynhaliwyd yr ŵyl gyntaf yn Neuadd y Dref, Llangefni, nosweithiau Gwener a Sadwrn, 20 a 21 Mawrth. Ond gan mai testun trafodaeth bellach fydd yr Ŵyl Ddrama, nid ymhelaethir arni yma, dim ond nodi na fyddai gwobrau ariannol i'w hennill a bod hawl gan y cwmnïau i berfformio dramâu un act, yn y Gymraeg neu yn y Saesneg, mewn un o dair adran: 'Agored', 'Merched', ac 'Ieuenctid'.

Am y tro cyntaf er 1935 ymddangosodd cwmni drama Llangefni ar lwyfan Neuadd y Dref. Yn yr adran 'Agored', enillwyd Tlws y Ddraig gan Gwmni Cymraeg Sefydliad y Merched gyda pherfformiad o drosiad R. Ellis Jones, *Yr Ymadawedig*. Cyfarwyddwyd y cwmni gan Miss Menna Williams, athrawes Saesneg yn Ysgol Sir y dref. Er bod y cwmni yn cynrychioli Sefydliad y Merched, gwelwyd tri o ddynion ymysg y cast: Ifan Gruffydd, a ddaeth yn adnabyddus maes o law fel *Y Gŵr o Baradwys*; Thomas Charles Simpson; ac Edward Williams. Mae'n debyg bod dau reswm am hyn: prinder dramâu addas i ferched

yn y Gymraeg, a'r ffaith ei bod yn gystadleuaeth "Agored". A chan mai hon oedd yr ŵyl gyntaf, penagored iawn oedd y rheolau.

Prin iawn fu cyfraniad cwmni drama Llangefni yn 1943, ond fe fu'n flwyddyn lwyddiannus i rai o gwmnïau Môn. Fe gofir i gwmnïau Rhoscefnhir a Phorthaethwy gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym mis Awst, gyda Rhoscefnhir yn cipio'r wobr gyntaf gyda pherfformiad caboledig o drosiad Jeremiah Jones, *Y Cab.* Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd amrywiol ddarlithoedd, ysgolion undydd, ysgolion min nos ar goluro, a pherfformiadau o safon uchel. Ym mis Medi, er enghraifft, caed perfformiad o ddrama Idwal Jones, *Pobl yr Ymylon*, gan y Cwmni Cenedlaethol yn Neuadd y Dref, Llangefni, a gwelwyd dau actor o Fôn ymysg y cast: Charles Williams o Fodffordd ac Emrys Thomas o'r Fali.

Yn dilyn llwyddiant yr ŵyl gyntaf yn 1942, penderfynwyd cynnwys cystadleuaeth gyfansoddi o 1943 ymlaen. Yng ngŵyl 1944, dyfarnodd y beirniad, y Parchedig John Pierce o Farian-glas, fod dwy ddrama i rannu'r wobr gyntaf a'u bod yn deilwng i'w perfformio yn ystod yr wythnos. Y ddwy ddrama fer oedd *Y Blaidd Ddyn* gan F.G. Fisher a *Gwewyr y Grog* gan Mrs. W.E. Jones o Lannerch-y-medd. Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'r perfformiadau yw fod adroddiad yn y wasg yn awgrymu fod agwedd pobl tuag at y ddrama yn newid:

> Bydd y ddwy yma yn dra gwahanol o ran sylwedd a pherfformiad. Y mae ynddynt elfennau dieithr a newydd i'r llwyfan...[102]

Efallai bod y wasg yn adlewyrchu'r hyn a deimlai'r beirniad. Meddai John Pierce:

> ...Mae yma ddrama – 'Y Blaidd Ddyn' – bur orffenedig ar y cyfan, er yn ddieithr iawn i'n byd drama Cymraeg ni. .. [M]ae yn y ddrama hon deyrnged i ddatblygiad gwrando cynulleidfaoedd drama Môn.[103]

Mrs. Margaret Fisher, gwraig yr awdur, oedd yn cyfarwyddo. Yn y cast yr oedd Eirwen Williams, Myfanwy Owen, Edwin Davies, Edward Williams, John R. Jones, Doris Davies-Jones a T. C. Simpson.

Yn dilyn llwyddiant *Y Blaidd Ddyn* ym mis Mawrth, penderfynwyd darparu'r cwmni ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llandybïe yn Awst. Dyma'r tro cyntaf i gwmni o Langefni gystadlu yn y Genedlaethol er i gwmni Moreia lwyfannu *Pen y Daith* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 1933. Ar gyfer Llandybïe

gofynnwyd am gymorth Emyr Jones o Roscefnhir, ac allan o'r pedwar cwmni ar ddeg a fu'n cystadlu, dyfarnwyd yr ail wobr i Langefni, y wobr gyntaf i Gwmni Peniel, Caerfyrddin, yn perfformio *Ffrois* (D.T. Davies), a'r drydedd wobr i Gwmni Gwili yn llwyfannu *Eiddo Pwy?*(Gwynfor). Calondid mawr i Fôn oedd y ffaith mai cwmni Llannerch-y-medd oedd yn y pedwerydd safle gyda'i berfformiad o drosiad John Ellis Williams, *Meistr y Tŷ*. Yn sicr, bu sylwadau Cynan yn ysbardun i'r holl gwmnïau:

> ...A bwrw trem dros y rhagbrofion yn gyffredinol, gellir dweud mai'r newid mwyaf trawiadol eleni yw'r gwelliant mawr o ran dillynder llwyfannu – mwy o barch i safon cystadleuaeth genedlaethol o ran décor a chelfi a gwisgo a goleuo...Eleni eto gwelais wneuthur rhyfeddodau mewn cyfaddasu llwyfan festri capel, a gwelais greu cefndir yr oesoedd canol allan o ddychymyg, cynildeb ac ychydig lenni syml...
>
> ...Os buwyd yn manylu ar ddiffygion yn ogystal a rhagoriaethau ar derfyn pob perfformiad, y rheswm am hynny oedd fy mod yn parchu digon ar waith cwmnïau Cymru i sylweddoli mai er mwyn beirniadaeth y cystadleuent yn hytrach nag er mwyn gwobr.
>
> Yn wir, gwobr bennaf pob cwmni yn y gystadleuaeth hon fydd gwybod ei fod wedi gwneuthur ei ran i gadw'r Ddrama Gymraeg yn fyw ac yn iach er gwaethaf cyfyngiadau'r rhyfel. Pan ddaw'r hanesydd i sgrifennu pennod y blynyddoedd hyn yn natblygiad Mudiad Drama Cymru ceir gweled maint ein dyled i gwmniau bach pentrefol fel y rhain, a gadwodd y gelfyddyd ar gerdded trwy eu hymlyniad wrth y ddrama un-act.[104]

Yn ystod 1944, bu cryn weithgarwch ym myd y ddrama ym Môn. Trefnwyd pedair Gŵyl Gylch a Gŵyl Sir gan y Cyngor Gwlad. Cynhaliwyd amrywiol ysgolion undydd dros y sir gan gynnwys Penmon, Llannerch-y-medd, Llangristiolus, a Chaergybi, a threfnwyd gwersi ar goluro yn Llannerch-y-medd, Llangefni, Amlwch a Chaergybi. Yn Llangefni, fodd bynnag, ceisiwyd ailafael yn y syniad o sefydlu Cymdeithas Ddrama. Er nad oedd hyn yn syniad newydd, cyfyngwyd ar ei ddatblygiad gan yr Ail Ryfel Byd. Erbyn 1944, teimlid mai sefydlu Cymdeithas Ddrama fyddai'r ffordd '...i godi safon yr actio a'r cynhyrchu yn ogystal â chwaeth y gwrandawyr'.[105]

Byddai Cymdeithas o'r fath yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ddrama Gymraeg a'r ddrama Saesneg. Yn sicr, dyma oedd delfryd F. G. Fisher. Yn ei absenoldeb, ceisiodd ei briod, Margaret, a'i ffrindiau gynnal a lledaenu'r ddelfryd hon ymysg trigolion y dref a'r cyffiniau. Un o'r trigolion hynny oedd Edward Williams. Er ei fod yn aelod o'r

cwmni drama o dan gyfarwyddyd Margaret Fisher, ni chafodd y syniad o sefydlu Cymdeithas Ddrama ei gefnogaeth ef.

Yn dilyn llwyddiant y cwmni yn Llandybïe, aethpwyd ati i baratoi ar gyfer tymor 1944-5. Penderfynwyd llwyfannu drama dair act o dan gyfarwyddyd Margaret Fisher gyda chymorth Mrs. Lowri Gwynfryn Evans. Dewisiwyd comedi a gyfansoddwyd gan John Ellis Williams, *Wedi'r Drin*, drama a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1943. Ymddangosodd yr hysbyseb ganlynol yn y wasg:

> ...Y mae Cwmni Drama'r dref yn paratoi i lwyfannu drama newydd John Ellis Williams *Wedi'r Drin*, a cheir hi ganddynt yn y Gaerwen nos Nadolig – ac mewn lleoedd llai pwysig wedyn! Miss Myfanwy Owen, Tŷ'n Llwyn, yw'r ysgrifennydd...[106]

Llwyfannwyd y ddrama yn Neuadd y Dref, Caergybi, 17 Ionawr 1945. Erbyn hyn, roedd y datblygiadau milwrol yn Ewrop yn awgrymu fod yr Ail ryfel Byd yn prysur ddirwyn i ben ac, fel ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, fe sylweddolwyd y byddai'r dasg o addasu ar gyfer bywyd normal 'wedi'r drin' yn sicr o greu problemau seicolegol a chymdeithasol dyrys. O gofio mai dyma gefndir y ddrama, nid rhyfedd i'r penillion canlynol ymddangos yn y wasg yn dilyn perfformiad y cwmni yng Nghaergybi:

> Tra bo llewod y teyrnasoedd
> Wrth eu bodd yn llarpio'n flin,
> Ceir Gweledydd ym mhob heldrin
> Wêl y bore 'Wedi'r Drin'.
>
> Pan fo gobaith yn diffygio,
> Ffydd yn mygu megis llin,
> Gyrrwch at Myfanwy Owen-
> Mynnwch glywed 'Wedi'r Drin'.
>
> Os am neuadd lawn a hwyliau,
> Pa fath bynnag fyddo'r hin,
> Ceisiwch gwmni gwych Llangefni
> I berfformio 'Wedi'r Drin'.
>
> Pam y cyrchir dŵr dros afon,
> Fel tae hwnnw'n well ei rin?
> Rhoddwn bris ar ddoniau cartref
> Felly y bydd hi 'Wedi'r Drin'.[107]

Yng nghanol Ionawr 1945, gwyddys i'r cwmni ymddangos ar lwyfan Neuadd y Dref, Llangefni, gyda'r '...[n]euadd dan ei sang, a thystiai pawb na chafwyd cystal actio ers cryn amser yn y dref. Gellir dywedyd i'r holl gymeriadau wneud eu rhan yn gampus...'[108]

Yn dilyn ei ymddangosiad fel Syr Huw Price yn *Wedi'r Drin*, mentrodd Edward Williams i fyd cyfarwyddo. Gan fod y bedwaredd Ŵyl Ddrama ar y trothwy, ychydig iawn o amser oedd ar ôl os oedd am gystadlu ynddi. Byddai'n rhaid dewis, castio, dysgu, ymarfer a pherffeithio o fewn prin dau fis. Daeth Charles Williams ac Edward Williams at ei gilydd a phenderfynu mynd ati i gydgyfarwyddo yn ogystal ag actio. Penderfynwyd llwyfannu drama un act gan D. Mathew Williams, *Lluest y Bwci.* Gwahoddwyd T.D. Roberts, Hywel Williams a Gwilym S. Roberts i gwblhau'r cast.

Chwech o gwmnïau a fentrodd gystadlu yn yr adran 'Agored' ym mis Mawrth a dyfarnwyd Tlws y Ddraig i Gwmni Llangefni, ond sylwer mai cwmni'r dref oedd o erbyn hyn ac nid cwmni'r Gymdeithas Ddrama. Yn dilyn y llwyddiant trafodwyd y posibilrwydd o fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhosllannerchrugog yn Awst. Penderfynwyd mentro. Gyda Mary Lewis a John Gwilym Jones yn beirniadu, a deuddeg cwmni wedi cystadlu, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Gwmni Treherbert am ei berfformiad o ddrama George Davies, *Gwaelod y Cwpan*, a rhannwyd yr ail a'r drydedd wobr rhwng Llangefni a Chwmni Trefnant yn perfformio *Jane Wogan*, trosiad Mary Hughes o ddrama Florence Howell. Gwerthfawrogwyd llwyddiant y cwmni yn y wasg:

> ...Gwnaeth y cwmni yn rhagorol ac nid oedd gan y beirniaid...namyn canmoliaeth i'r holl gymeriadau...[109]

Fel ag y bu 1939 yn dyngedfennol yn hanes y ddrama ym Môn, bu 1945 yr un mor arwyddocaol o safbwynt hynt a helynt y ddrama yn Llangefni, ym Môn ac yng Nghymru. Yn y bore bach 7 Medi 1945, daeth heddwch i Ewrop ac yn ystod y misoedd canlynol dychwelodd yr hogia' i'w hardaloedd i geisio addasu i fywyd cymdeithasol normal ac ailafael yn eu gyrfaoedd. Un ohonynt oedd Francis George Fisher. Dychwelodd at ei deulu yn y dref ac i'w swydd fel athro mathemateg yn yr Ysgol Sir. Yn naturiol ddigon, prin fu ei gyfraniad dramayddol yn ystod gweddill y flwyddyn, ond gyda'i ddychweliad sefydlwyd perthynas, nad oedd bob amser yn rhwydd, rhyngddo ac Edward Williams. Yn y cefndir, wrth gwrs, yr oedd J.O. Jones yn cadw golwg ar y gweithgareddau.

Ar gyfer y tymor nesaf, ysbrydolwyd Edward Williams i feddwl am gyfarwyddo drama hir am y tro cyntaf. Byddai'n rhaid iddo gyplysu'r dewis â'r doniau oedd ar gael ar y pryd. Dewisodd *Pen y Daith* (John Ellis Williams). Fe gofir i'w ewythr ddewis yr un ddrama ar gyfer 1932-3, ond gan i'r cynhyrchiad hwnnw fod yn aflwyddiannus ar lefel genedlaethol, efallai i Edward Williams ystyried mynd gam ymhellach gyda'r un ddrama yn 1946. Roedd rhyw dri neu bedwar o actorion profiadol ar gael iddo, ond erbyn hyn roedd to newydd o actorion wedi codi yn ystod y pedwardegau a manteisiodd y cyfarwyddwr ar ei gyfle. Un o'r actorion ifanc hynny oedd Myfanwy Jarman (née Owen) ac fe gofia yn dda am y cyfnod hwn:

> Ymarfer caled rhyw ddwywaith bob wythnos yn ystafell blaenoriaid Capel Moreia, ond symud i'r Festri pan oedd y ddrama yn 'dwad', gan farcio'r llawr â sialc i fesuriadau Neuadd y Dref. Cawsom grwydro Cymru benbaladr, mynd i Lundain, ac ennill sawl gwaith mewn Gwyliau Drama...[110]

Erbyn Ionawr 1946, roedd y cwmni eisoes ar ei daith gan berfformio yng Nghaergybi, Deiniolen a Llandrygarn. Dyma ddechrau blwyddyn nodedig yn hanes y cwmni. Fel arfer, cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Môn fyddai nod cwmnïau'r ynys, ond erbyn 1946 gwelwyd adfer nifer o wyliau drama eraill yn y gogledd. Un o'r rhai cyntaf oedd Gŵyl Ddrama Rhosgadfan yng nghanol Mawrth, a chaed yr adroddiad canlynol yn y wasg:

> ...[C]afodd Cwmni Drama Llangefni...y blaen ar naw o gwmnïau eraill. Perfformiasant *Pen y Daith*...a chawsant eu gosod mewn dosbarth ar eu pen eu hunain gan y beirniad Miss Elspeth Evans, M.A. Y mae'r un cwmni wedi cyrraedd y prawf terfynol yng Ngŵyl Ddrama Môn...Hefyd yng nghystadleuaeth y ddrama un-act y mae cwmni Mr. F.G. Fisher...yn perfformio drama Mr. Fisher, *Gwenwyn*.[111]

Yr wythnos ddilynol cynhaliwyd pumed Gŵyl Ddrama Môn ac enillwyd Tlws y Ddraig gan gwmni Llangefni. Yn ei feirniadaeth, dywedodd John Ellis Williams mai'r '...argraff gryfaf a adawodd yr ŵyl hon arnaf yw'r cynnydd mawr sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diweddar yn y gelfyddyd o gynhyrchu drama...yn enwedig ym Môn...'[112]

Erbyn heddiw, mae'n anodd amgyffred sut y gallasai'r actorion weithio yn llawn-amser yn ystod y dydd a chrwydro ledled y gogledd a'r canolbarth gyda'r nos. O gofio cyflwr y ffyrdd, yn enwedig yn ystod

misoedd y gaeaf, yn ogystal ag anwadalrwydd ceir y cyfnod, rhaid ei chydnabod fel ymdrech lew er sicrhau dyfodol y ddrama amatur Gymraeg.

Dan nawdd y Maer a'r Cyngor Tref, ac arweiniad brwdfrydig y trefnydd a'r ysgrifennydd, W. Glyn Owen, cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Pwllheli yn ystod wythnos 8-13 Ebrill 1946. Cynrychiolwyd siroedd Môn, Arfon a Meirionnydd gan chwe chwmni mewn cystadleuaeth dda. Dyfarnodd Cynan y wobr gyntaf i gwmni Llangefni:

> Nos Lun. Cwmni Llangefni yn cyflwyno *Pen y Daith* (John Ellis Williams) – drama weddol rwydd, ond un a ddysgwyd yn drwyadl nes bod argyhoeddiad a llithrigrwydd trwy'r holl berfformiad. Apêl y llwyfan i'r llygad yn bur dda, ond nid yn ddelfrydol. Felly hefyd y defnydd a wnaed o'r goleuadau. Y cynhyrchu yn glodforadwy – y grwpio, yr ail-grwpio yn ddramatig ddeheuig, a'r symudiadau yn codi oddiar gymhellion credadwy a naturiol.
>
> Tempo'n rhagorol oddieithr lle'r oedodd Mari ar un entri. Cwmni wedi ei gastio'n ddymunol, pob part yn ffitio'r chwarewr fel maneg o ran ymddangosiad corfforol ac o ran oedran a thymheredd. Dim un passenger – actorion talentog yn y partiau unionsyth fel y partiau carictor, dawn comedi yn helaeth yn Ishmael a Sara. Y cyd-actio yn arddangos disgyblaeth a chyd-ddealltwriaeth tîm. Fel un enghraifft o lawer, nodaf yr olygfa olaf un. Er gwyched oedd actio y fam orffwyll Mari yn yr olygfa hon – ac yr oedd yn wych – wrth agor y drws i'w phlentyn bach dychmygol Dafydd o'r oerfel a'i anfon ymlaen â'i dwylo a'i llygaid i ymdwymo wrth y tân, yr hyn a barodd i'r olygfa gyfan gydio ein calonnau oedd cyd-weithrediad gwych Sara a Bob gyda'r prif gymeriad. A hynny nid am eu bod ill dau yn ceisio'n hatgoffa eu bod hwythau yno hefyd ac yn actio trwy wneuthur llawer o bethau fussy a di-alw-am-danynt i ddangos eu cydymdeimlad â Mari, nes tynnu sylw'r gynulleidfa oddiwrth focus dramatig y prif gymeriad, ond yn hytrach trwy lonyddwch syml, intense, eu gwyliadwriaeth ar bob symudiad ganddi, fel na allai'r gynulleidfa lai na dilyn eu trem hwythau yr un mor intense ac i'r un focus – a dyfod trwy hynny yn ymwybodol o'r cwestiwn a ymwthiai yn raddol i'r golwg trwy hanner-gwen dosturiol, ddwys, y ddau ar yr un a garent mor fawr "Ddaw hi'n well ryw bryd"? Un enghraifft o lawer o gydweithrediad y cwmni hwn a golygfa olaf nad yw Pwllheli yn debyg o'i hanghofio yn fuan.
>
> Felly am y rhesymau y ceisiais eu gwneuthur yn amlwg uchod, ac yn fy meirniadaethau ar lafar dyfarnaf y gwobrwyon fel â ganlyn yn yr Ŵyl Ddrama ddiddorol a llwyddiannus hon, sy'n glod i'r Trefnydd, Mr. Glyn Owen, a'r noddwyr Maer a Chyngor Tref Pwllheli
>
> 1. Cwmni Llangefni
> 2. Cwmni Port Dinorwic
> 3. Cwmni Brynsiencyn[113]

Roedd y cyfnod hwn yn un prysur eithriadol yn hanes y cwmni a cheisiwyd sicrhau cydbwysedd rhwng cystadlu a diddanu.

Rhwng 29 Ebrill a 4 Mai, cynhaliwyd gŵyl ddrama ym Mhorthmadog gyda Dan Matthews yn beirniadu. Gan fod cwmni Llangefni yn bwriadu cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar, defnyddiwyd y perfformiad fel rhagbrawf gyda D. Haydn Davies yn beirniadu. Roedd nos Sadwrn, 4 Mai yn noson fythgofiadwy i'r cwmni. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i Langefni a llwyddodd y cwmni i fynd ymlaen i ymddangos yn y prawf terfynol yn Aberpennar yn Awst.

Byddai cwmnïau drama amatur fel Llangefni yn cyfyngu eu perfformiadau i dymor y gaeaf yn unig, rywdro rhwng diwedd Tachwedd a mis Ebrill. Ond yn ystod tymor 1946-7 bu'n rhaid i Langefni fynd yn groes i'r drefn. Oherwydd y llu galwadau yn ogystal â'r holl wyliau drama, ychydig iawn o seibiant a gafwyd yn ystod 1946. Ymwelodd y cwmni â Bangor ym mis Mai, Tanygrisiau a Llansannan ym mis Mehefin, a pherfformio gartref yn Llangefni ym mis Gorffennaf. Erbyn mis Hydref disgwylid iddynt fynd ati i ddarparu drama newydd ond, oherwydd llwyddiant *Pen y Daith*, parhau â'r ddrama hon fu'r hanes hyd y perfformiad olaf yn Aberystwyth nos Fawrth, 7 Ebrill 1947.

Roedd dau reswm dros ymddangosiad y cwmni yn Neuadd y Dref, Llangefni, nos Iau, 25 Gorffennaf 1946. Hwn fyddai'r perfformiad olaf cyn teithio i Aberpennar yn Awst i wynebu sialens cwmni Resolfen. Edrychid ar y perfformiad fel *dress rehearsal*. Disgwylid i'r neuadd fod yn llawn a thrwy hynny sicrhau elw sylweddol i'r cwmni er mwyn ysgwyddo'r gost o deithio i'r De. Aeth y cwmni i Aberpennar gyda '...dymuniad cywir pawb...Dywedodd Cynan a D. Haydn Davies fod y ddau gwmni yn wych, a bydd y gystadleuaeth o safon uchel...'[114] Cyn y prawf terfynol, derbyniodd Edward Williams gyfarchiad cynnes oddi wrth Gymdeithas Ddrama Resolfen.

Mewn cystadleuaeth dda, cipiwyd y wobr gyntaf gan Resolfen gyda Llangefni yn ail am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ond bu'r adroddiad yn y wasg yn galonogol:

> Gwobrwywyd Cwmni Resolfen...[Y]r oedd y gystadleuaeth o safon uchel iawn. Dywedodd D. Haydn Davies...fod y goleuadau gan gwmni Llangefni yn gyfryw na allai llwyfannau Llundain ragori arnynt.
>
> Hefyd, talodd deyrnged uchel i'r cwmni o Fôn am iddynt roddi sylw i fanylion, heb orlwytho'r llwyfan...Yr oedd Bob yn llwyfannwr rhagorol. Er na ddaeth y wobr i Fôn, bu gwaith Cwmni Drama Llangefni yn gredyd i'r sir...a'u gwobrwyon yn y gorffennol mewn gwyliau drama yn anrhydedd newydd i'r dref ym myd y ddrama...[115]

Fe gofia Myfanwy Jarman am y perfformiad yn y Coliseum yn Nhrecynon:

> Un atgo' sy' gen i ydy mynd i berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar – gwn mai mewn hen adeilad anferth oedd y gystadleuaeth. Dau beth aeth o chwith – roedden ni wedi bod yn ymarfer mewn lle gweddol fach ac wedi gweu ein geiriau a'n symudiadau o fan i fan ar y lleoliad bach yna. Sioc oedd actio ar lwyfan mor fawr a gorfod addasu ein symudiadau a'n deialog yn gyflym, heb sôn am wneud yn sicr ein bod yn glywadwy mewn lle mor fawr. Hefyd, yn ystod y ddrama roedd y gair 'iau' yn cael sylw yn aml gan Ishmael Ifans (T.C. Simpson). Wrth gwrs, 'afu' mae pobl y de yn ei ddweud ac ni chwerthodd neb drwy'r perfformiad – roedd deall 'iau' yn holl bwysig i'r jôcs mewnol...[116]

Bu canlyniad Aberpennar yn siomedigaeth fawr i'r cwmni, ond yn dilyn seibiant byr yn ystod hanner olaf Awst a dechrau Medi, roedd Neuadd y Dref, Machynlleth, yn disgwyl amdanynt nos Sadwrn, 21 Medi 1946. Yn sicr nid pen y daith fu Aberpennar.

Ond er gwaethaf holl lwyddiant y cwmni, cynhyrfwyd y dyfroedd gan nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Llangefni yn ystod Medi a Hydref 1946. Er bod y syniad o ffurfio Cymdeithas Ddrama yn y dref yn ymestyn yn ôl i ddiwedd y tridegau, ni chafodd weld olau dydd hyd nes i F.G. Fisher ddychwelyd o'r rhyfel. O ganlyniad, codwyd nyth cacwn go iawn a oedd i barhau hyd ddechrau'r pumdegau. Nos Wener, 11 Hydref 1946, yn Neuadd y Sir, cynhaliwyd cyfarfod agored i drigolion Llangefni a ymddiddorai yn y ddrama. Nid oedd Edward Williams yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

Peth go brin, mae'n debyg oedd cael dau o garedigion y ddrama, dau ŵr brwdfrydig ond hollol wahanol eu natur, yn byw yn yr un lle ar yr un pryd; un ohonynt yn awdur ac yn arloeswr, a'r llall yn actor a chyfarwyddwr. Ond roedd un peth yn gyffredin iddynt; roeddynt ill dau yn wŷr penderfynol a di-ildio. O gofio eu cefndir cymdeithasol ac addysgol, go brin fod lle i gyfaddawdu. Yn ddiamheuol, roedd lle i'r ddau ym myd y ddrama yn Llangefni, ym Môn ac yng Nghymru y pryd

hynny. Ond yr oedd dyheadau'r naill a'r llall yn bur wahanol. Sefydlu Cymdeithas Ddrama yn nhref Llangefni a âi â bryd F.G. Fisher, ond teithio'r wlad gyda'i gwmni a âi â bryd Edward Williams. Roedd peth gwrthdaro'n anochel.

Mae digwyddiadau doniol wedi chwarae rhan anhepgorol yn hanes pob cwmni drama amatur, ond yn ystod un perfformiad bu'n rhaid i gwmni Llangefni ymdopi â sefyllfa bur wahanol. Gwahoddwyd y cwmni i berfformio yn y Guild Hall, Caernarfon, nosweithiau Iau a Gwener, 31 Hydref a'r 1 Tachwedd 1946. Yn dilyn perfformiad llwyddiannus y nos Iau, edrychid ymlaen at berfformiad cyffelyb y nos Wener. Roedd y diweddar Richard T. Jones, Y Benllech, yn fachgen yn ei arddegau ar y pryd ac edrychai ymlaen at gael gweld a chlywed y cwmni:

> Yn y dyddiau llwm ar ôl y rhyfel, roedd yna gryn fynd ar y ddrama Gymraeg. Wedi'r cwbwl roedd hi'r unig ffurf ar adloniant byw Cymraeg a chwmni drama yn cael ei ffurfio yn y rhan fwyaf o drefydd, pentrefi a chapeli'r Gymru Gymraeg. Roeddwn ninnau hefyd bryd hynny wedi dechrau cymryd diddordeb yn y ddrama – doeddwn innau'n egin actor wedi cael rhan 'Dafydd yn Blentyn' yn y ddrama *Dau Dylwyth* a oedd wedi ei dewis fel drama'r flwyddyn gan Gwmni Drama Beulah, Caernarfon. Un o bleserau mwyaf y dyddiau hynny oedd cael mynd i'r Guild Hall i weld cwmniau dieithr yn dod yno i berfformio'u dramâu – Pwllheli yn perfformio *Machgen Gwyn i*, Penmaenmawr efo *Pobol yr Ymylon,* Llannerch-y-medd efo *Points,* Capel Moriah efo *Gwyliwch y Paent*, Caersalem efo *Ar y Groesffordd.*
>
> Un cwmni a oedd wedi magu cryn enw iddo'i hun oedd Cwmni Drama Llangefni, yn enwedig efo'r ddrama *Pen y Daith* gan John Ellis Williams. Yr adeg hynny roedd yna nifer o Wyliau Drama yn cael eu cynnal drwy'r Gogledd – drama hir wahanol yn cael ei llwyfannu bob nos o'r wythnos a'r buddugol yn cael ei wobrwyo ar y nos Sadwrn. Yn 1946 'roedd yr un cwmni yn dod yn fuddugol ym mhob gŵyl a Chwmni Llangefni oedd hwnnw. Felly pan gyhoeddwyd fod y cwmni, ar gais Bwrdd Masnach y dref, yn dod i berfformio yn y Guild Hall…'roeddwn i wedi penderfynu y byddwn innau'n cael y cyfle i weld y cwmni hwn yr oedd cymaint o son amdano.
>
> Ar y nos Wener, roeddwn i yn eistedd yn y galeri yn y Guild Hall yn edrych ymlaen yn eiddgar. Gwn i mi fwynhau'r perfformiad ond nid am y cyflwyniad cymaint ag am ddigwyddiad arall. Roedd y neuadd yn gyfforddus lawn a'r gynulleidfa yn barod i fwynhau'r noson. Daeth yr Act Gyntaf i ben ac yna daeth Mr. Hughes, Acre House, ymlaen i roi'r diolchiadau. Dechreuodd trwy ymddiheuro ond ei fod yn manteisio ar y cyfle yn yr egwyl rhwng yr Act Gyntaf a'r Ail gan y byddai'r Llywydd yn rhoi ei anerchiad yn yr egwyl nesaf. Prin yr oedd wedi dweud mwy na rhyw hanner dwsin o frawddegau nag y disgynnodd ar ei hyd ar y llawr. Daeth ebychiad o syndod o'r gynulleidfa a chythrodd tri dyn i'w godi a'i gario o'r golwg tu cefn i'r llenni. Daeth gŵr arall ymlaen i egluro fod Mr. Hughes wedi ei daro'n wael ond y byddai'r noson yn mynd ymlaen fel arfer.

> Daeth y ddrama i ben a phawb yn amlwg wedi mwynhau'r perfformiad. Yr hyn y ddisgwylid nesaf oedd i'r cwmni ymddangos ar y llwyfan i dderbyn cymeradwyaeth ac i bawb ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' cyn troi am adref. Ond nid felly y bu. Daeth gŵr ymlaen i gyhoeddi fod Mr. Hughes 'wedi ei alw adref'. Doedd y dywediad yn golygu fawr ddim i mi'n blentyn ac eto o glywed yr ochenaid o fraw a ddaeth o'r gynulleidfa, roeddwn i'n gallu sylweddoli fod rhywbeth go ddifrifol wedi digwydd. Eglurodd yr Arweinydd ymhellach fod y cwmni yn gwybod hyn ers dechrau'r ail act ond eu bod wedi cario ymlaen gystal ag y gallent rhag siomi'r gynulleidfa. Gofynnodd wedyn i'r gynulleidfa godi ar ei thraed a chanu, nid yr anthem genedlaethol, ond yr emyn angladdol 'O Fryniau Caersalem'- emyn hollol anghyfarwydd i blentyn.
>
> A dyna'r digwyddiad wnaeth y noson honno yn un mor fythgofiadwy i mi. Clywed dywediad newydd am y tro cyntaf, gwrando ar gynulleidfa yn morio canu emyn sydd a ias o arswyd yn perthyn iddi a sylweddoli fod 'pen y daith' yn fwy nag enw drama.[117]

Gellir cydymdeimlo â'r actorion wrth iddynt geisio dod â'r perfformiad i ben orau y medrent o gofio fod corff yn gorwedd mewn ystafell drws nesaf i'r ystafell newid. Yn y wasg, dilynwyd teyrnged i Mr. Isaac M. Hughes gyda'r adroddiad hwn:

> The audience that packed the Guild Hall, Caernarvon, on Thursday and Friday, were evidence of the enthusiasm with which this drama was looked forward to. We had all heard a great deal about the performers, the Llangefni Company. By now, their name is known throughout North and South Wales...We knew all about that. What we did not really know then was how excellent they are, and how natural is their acting. They held sway over us both evenings; they had us roaring with laughter, then in tears...The entire cast were, of course, magnificent, each one perfect in his or her own part. Great credit is also due to the producer, Mr. Edward Williams, the make-up artist (and artist indeed he is) Mr. G. J. Williams, and the electrician, who effected perfect lighting effect, Mr. Osborne Williams.[118]

Yn dilyn profiadau trist Caernarfon, teithiodd y cwmni i Lundain ar gyfer perfformiad yn Neuadd Cymry Llundain, Gray's Inn Road, nos Iau, 7 Tachwedd 1946. Roeddynt wedi hen arfer â chrwydro ledled Cymru, ond roedd teithio i Lundain, yn enwedig yng nghanol yr wythnos, yn brofiad bythgofiadwy i'r holl aelodau. Erbyn heddiw, mae'n anodd dirnad sut y gallai'r cyflogwyr ryddhau aelodau o'r cast o'u dyletswyddau gan mor aml y teithient yn ystod yr wythnos. Mae gan y ddrama Gymraeg le mawr i ddiolch iddynt. Mae lle i ddiolch, hefyd, i ohebwyr y cyfnod am sicrhau fod adroddiadau ar gael sydd o werth hanesyddol a chymdeithasol bwysig. Yn *Y Clorianydd*, ymddangosodd yr adroddiad canlynol am y daith i Lundain:

Wedi cadw llawer ymrwymiad yn y Gogledd a llwyddo i roi mwynhad i gannoedd lawer, cawsom fel cwmni ein hanrhydeddu gyda chyhoeddiad yn Llundain ac yr oeddym yn falch o'r anrhydedd, nid er ein mwyn ein hunain fel cwmni ond er mwyn y dref a Môn. Edrychem ar y fraint fel cyfle arbennig i godi enw'r hen sir a'r dreflan a gwnaethom ein gorau i gyfiawnhau'r cyfrifoldeb a osodwyd arnom.

Yr oeddym yn barod i gychwyn wrth y cloc mawr am bedwar o'r gloch brynhawn Mercher. Yr oedd y stryd fel arfer ar brynhawn Mercher yn brysur gan anifeiliaid o'r *smithfield*, a phobl yn cyrchu adre o'r *sale*, a phlant yr ysgol yn troi am eu haelwydydd. Yr oedd lwmp yng ngwddw un neu ddau o'r cwmni wrth feddwl am daith mor bell ar nos yn ein wynebu. Buan yr oeddym wedi croesi Menai a phawb yn hapus. Yna daeth y niwl trwchus, ond yr oedd gennym wir gomedian yn ein cadw yn llawen. Stratford-on-Avon ydoedd y nod y noson gyntaf. Caed egwyl yma a thraw am gwpaned o de i'n cynhesu. Yr oedd T.C. Simpson, Osborne Williams a Hywel Williams yn ysbrydoliaeth inni.

Cyrhaeddwyd hen dref William Shakespeare ddau o'r gloch y bore a threfniadau croeso cynnes yn barod inni. Cysgu yno hyd wyth y bore. Ni chawsom gychwyn o Stratford i'r funud gan yr oedd y tri a enwyd eisiau anfon gair adref i ddweud eu bod yn fyw. Buasai Ishmael Evans wedi teliffonio i Langefni, ond dywedodd Sara Puw nad oedd y teliffon yn nhref Shakespeare yn deall Cymraeg a bu'n rhaid iddo fodloni ar anfon postcard. Caed taith ddifyr oddi yno i Lundain a chodi dwylo ar bawb â welem ar y ffordd. Am un o'r gloch yr oeddym yn Llundain a chinio gwych yn ein disgwyl a ninnau megis llewod rheibus yn clirio'r platiau. Yna trefnu'r llwyfan ar gyfer yr hwyr a myned allan i siopa. Yr oedd pawb yn awyddus i gael presantau i gyfeillion. Cawsom de mewn caffi a gedwyd gan Iddew, ac yr oedd yn gwybod i'r dim sut i ofalu am gwmni llwglyd o Fôn.

Cyrraedd yn ôl at y Clwb Cymraeg a thorf fawr yn disgwyl am fyned i mewn. Cafodd y cwmni bach o Fôn groeso twym galon Cymry Llundain. Yr oeddynt yn hoffi dull Ishmael a Sara Puw o garu, ond yn gobeithio nad oes llawer o rai tebyg i Huw Owen yn yr hen sir.

Wedi'r perfformio yr oedd yr ystafell wisgo yn orlawn o rai yn holi am hwn a'r llall, ac yn eu mysg gyfeillion o Langefni. Hefyd yr oedd yr actor H. Griffith o Farian Glas yno un sydd yn dwyn anrhydedd i Fôn a Chymru ar lwyfan Llundain. Rhoddodd air da iawn i waith y cwmni.

Yr oedd aelodau'r pwyllgor yn Llundain wedi trefnu yn ardderchog i letya'r cwmni ar eu gwahanol aelwydydd, ac yr oedd eu croeso yn gwneud i bawb deimlo yn hollol gartrefol. Diolch calon iddynt.

Wedi brecwast trannoeth a diolch am y croeso, aed at y Gofeb yn Whitehall a gosodwyd torch o flodau arni i gofio am blant Llangefni a Môn a gwympodd yn y ddau ryfel. Yna at Blas Buckingham i weled newid y "guard", a wedyn rhagor o wario pres ar anrhegion. Prynodd rhai grancod a phenwaig ac roedd seddau ôl y bws yn llawn o bob math o fwydydd. Dywedodd Sara Puw am yr olygfa hon ei bod fel diolchgarwch am y cynhaeaf. Ar y ffordd yn ôl Hywel Williams oedd yn dosrannu'r danteithion, a mawr ein dyled iddo am weinyddu yn deg. Ar y daith sylwasom nad oes amaethwyr cystal â rhai Môn. Yr oedd golwg afler iawn ar rai o'r ffermydd. Ond gwelsom dai to gwellt twt a destlus ac un pentref felly â phob ty wedi ei wyngalchu yn lan yn cynnwys y llythyrdy. Tra byddwn byw nid anghofiwn y daith ddifyr hon a'r croeso cynnes a gawsom gan Gymry Llundain.

Un o'r Cwmni.[119]

Yn ffodus, fe gofia Myfanwy Jarman am un digwyddiad doniol yn ystod y daith:

> Ar y ffordd i Lundain i actio i'r Clwb Cymraeg – gyrrwr y bws wedi sicrhau Ned ei fod yn gwybod y ffordd i'r lle 'roedden yn aros yn Stratford-upon-Avon ar y nos Fercher – yn colli ei ffordd yn y tywyllwch dudew. Peth nesa' glywson ni oedd gwartheg yn brefu a Ned yn gweiddi a'i deud hi – roedden ni a'r bws ar fuarth ffarm yng nghanol y wlad![120]

Wedi dychwelyd o Lundain, perfformiodd y cwmni yn Chwilog nos Fercher, 13 Tachwedd Y Felinheli nos Wener, 15 Tachwedd, ac yng Ngŵyl Ddrama Y Bala y nos Sadwrn. Yn dilyn y dyfarniad yn Y Bala, digwyddodd rhywbeth pur anghyffredin yn hanes y cwmni. Yn wir, efallai ei fod yn ddigwyddiad unigryw yn hanes y ddrama amatur Gymraeg. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i Langefni ac, yn ôl gohebydd *Y Cymro,*

> ...yr oedd cymeradwyaeth y dorf yn braw pendant fod beirniadaeth Mr John Ellis Williams...yn boblogaidd.[121]

Fe ymhelaetha gohebydd *Y Clorianydd* ar y digwyddiad:

> Bu yr wythnos ddiweddaf yn un brysur i'r Cwmni Drama – tŷ llawn yn Chwilog...a'r un modd yn Y Felinheli...Nos Sadwrn yr oeddynt yn Y Bala yn cloi i fyny wythnos o gystadlu...Fel ym mhobman arall mewn gwyliau drama, daethant allan yn flaenaf am y wobr o 40p. Pan alwyd y cynhyrchydd i'r llwyfan, cafodd gymeradwyaeth fyddarol. Cyflwynwyd y 'cheque' iddo gan Mrs. Hywel Hughes. Yna, cyfarchwyd y dyrfa gan Mr. Edward Williams ar ran y cwmni. Dywedodd eu bod yn falch o gael dod i'r Bala ar gyfrif cyfraniad yr hen dref i bethau gorau Cymru...
>
> Diolchodd hefyd am y llythyrau a dderbyniodd oddi wrth ysgrifennydd Gŵyl Ddrama'r Bala, yn erfyn arnynt i fyned yno i gystadlu. "Ein nod ni", meddai Mr. Williams, "yw codi safon y ddrama yng Nghymru a chynorthwyo cwmnïau eraill llai i ddod ymlaen, ac felly yr ydym wedi penderfynu cyflwyno'r deugain punt yn ôl, a dymuno i'r cwmni agosaf atom eu cael, gan y cawn ni ein costau".
>
> Yn dilyn y sylwadau yr oedd y dyrfa fawr ar ei thraed, a gweiddi a churo dwylo na chlybuwyd ei gyffelyb gan y rhai oedd yno. Dywedodd yr arweinydd, dan deimlad, i Gwmni Llangefni roddi esiampl i'r byd beth yw brawdgarwch, a phe byddai mwy ohono yn y byd ni buasai cenfigen na son am ryfel.
>
> Y mae'r cwmni wedi derbyn ymrwymiad arall yn Y Bala ym mis Mawrth er mwyn y cannoedd a fethodd fyned i mewn nos Sadwrn.[122]

Rhoddwyd y deugain punt i gwmni Rhosgadfan a rhannwyd yr ail wobr rhwng cwmnïau Bro Padarn a Beulah, Caernarfon. Mae'n amlwg i'r beirniad gael ei blesio, a diddorol yw cymharu cynnwys erthygl gan John Ellis Williams a ymddangosodd mewn papur newydd

yn niwedd 1948 â'r hyn ddigwyddodd yng Ngŵyl y Bala. Fel rhan o gyfres o erthyglau yn dwyn y teitl *Aelwyd yr Herald,* dewisodd John Ellis Williams ysgrifennu erthygl ar *Cystadlu*:

> Nid wyf yn or-hoff o'r Gwyliau Cystadlu hyn, oherwydd y mae 'pot-hunting', chwedl y Sais, yn aml yn magu ysbryd o elyniaeth na wna fawr o les i ddatblygiad diwylliant. Y ddadl fawr dros gystadlu yw bod yn rhaid cynnig gwobr er mwyn denu dyn i wneud ei orau, fel crogi moron o flaen mul i'w gael i dynnu'r drol. Efallai bod y cynllun hwn yn llwyddo gyda mulod. Ni wn i; ni bum erioed yn gyrru mulod (pedwar-troed). Ond y mae'n amheus iawn gennyf â wnaed unrhyw les i lenyddiaeth, cerddoriaeth, arluniaeth, neu unrhyw gelfyddyd arall, trwy gynnig moron iddi. Ai'r ysfa am guro eraill a wnaeth Augustus John yn arlunydd mawr? Ai amcan Beethoven wrth gyfansoddi cerddoriaeth oedd achub y blaen ar Mozart? Ai cystadlu â Ben Johnson a wnaeth Shakespeare yn ddramaydd?
>
> Gall trin dynion fel mulod eu troi'n fulaidd, a'u harwain i feddwl mwy am y moron na'u gwaith. Mi wn fod cystadlu yn mynd i'r gwaed, yn codi hwyl a brwdfrydedd, ac yn aml iawn yn golygu llawer o waith caled ar ran y cystadleuwyr. Ond, fel alcohol a chyffuriau tebyg, nid yw'r effaith yn barhaol. Y mae llawer a ddysgodd sut i ennill heb ddysgu sut i golli. Hanfod celfyddyd yw hunan-fynegiant, nid hela gwobr.[123]

Daeth 1946 i ben gyda pherfformiad yn Y Pafiliwn, Rhosneigr, nos Fercher, 18 Rhagfyr, ac wedi bron i gant o berfformiadau daeth y daith i'w therfyn yn Neuadd y Brenin, Aberystwyth, nos Fawrth, 7 Ebrill 1947. Gan fod *Pen y Daith* wedi ymestyn dros ddau dymor, ni chafwyd cyfle i ddysgu drama newydd ar gyfer ei llwyfannu yng ngwyliau drama y gogledd yn ystod gwanwyn 1947. Yn hytrach, ac er gwaethaf siomiant Aberpennar, penderfynwyd cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn yn Awst. Dewisiwyd drama gyhoeddedig gyntaf John Gwilym Jones, *Y Brodyr*.[124] Gan ei bod yn ddrama bur wahanol[125] i'r cyffredin, roedd y penderfyniad yn gryn fenter. Nos Sadwrn, 10 Mai 1947, gyda D. Haydn Davies yn beirniadu, cynhaliwyd y rhagbrawf yn Neuadd y Dref, Llangefni. Roedd y tŷ yn llawn ac, ym marn y beirniad a'r gynulleidfa, cafwyd perfformiad o safon uchel:

> Hapus meddwl bod teimladau da yn ffynnu rhwng cwmniau drama Môn. Wedi perfformiad *Y Brodyr* gan gwmni'r dref cawsant y gair calonnog isod gan y Parch. Alwyn Owen, Llanfachraeth. Y mae ef yn awdur dramâu ei hunan ac yn gynhyrchydd cwmni 'Llyn Llywennan':
>
> "Cefais y fraint o fod yn Llangefni nos Sadwrn yn gwrando ar *Y Brodyr*, a manteisiaf i'ch llongyfarch yn fawr ar eich llwyddiant gyda'r ddrama yma. Yn sicr nid ychydig oedd eich pryder cyn codi'r llen, gan ei bod yn ddrama sydd yn anodd i'w rhoddi drosodd ar lwyfan oedd yn cynnig cyn lleied o help i chwi. Credaf eich bod wedi gwneud cyfraniad mawr nos Sadwrn i'r ddrama ym Môn.

> Diolch yn fawr i chwi am fentro a llwyddo mor dda. Dymunaf i chwi a'r cwmni lwyddiant mawr eto yn y Brif Ŵyl eleni".[126]

Yn ei sylwadau, dyma beth ddywed D. Haydn Davies:

> Daeth deg o gwmnïau i'r rhagbraw...O'r deg cwmni, cyrhaeddodd pedwar ohonynt safon deilwng...Gall yr Eisteddfod deimlo'n falch o waith y pedwar cwmni gorau, a buwyd yn pwyso a mesur yn hir cyn dewis Llangefni a Glandwr (Abertawe) i ymddangos yn y prawf terfynol, gan i Beniel (Caerfyrddin) a Thremarl (Cyffordd Llandudno) ddyfod yn bur agos atynt.
>
> ...Dyma'r ddwy elfen y bydd yn rhaid i ni wrthynt os yw'r safon i fod yn deilwng o orau'r Eisteddfod – dilysrwydd ar ran yr actorion, a chyfarwyddo deallus...
>
> Sut bynnag, y mae'r pedwar cwmni â enwyd fel goreuon y rhagbraw yn llawn deilwng i ymddangos yn y Prawf Terfynol; yr oedd eu hagwedd at y gwaith yn ddilys, eu techneg yn feistrolgar ynghyd â dehongliad deallus a chywir.
>
> Rhaid aros bellach tan wythnos yr Eisteddfod cyn penderfynu rhwng Llangefni...a Glandwr (*Dau Dylwyth,* Ieuan Griffiths).[127]

Unwaith eto codwyd gobeithion cwmni drama Llangefni. Derbyniodd Edward Williams lythyr personol oddi wrth y Foneddiges Megan Lloyd George yn llongyfarch y cwmni ac yn dymuno iddo bob llwyddiant ym Mae Colwyn. Ond byrhoedlog iawn fu'r llawenhau.

Nos Wener, 8 Awst, dyfarnwyd y wobr gyntaf i gwmni Glandwr a'r ail wobr, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, i Langefni. Yn y prawf terfynol, traddodwyd y feirniadaeth gan Hugh Griffith gyda D. Haydn Davies a Kitchener Davies yn cydfeirniadu ag o. Mewn llythyr at awdur y drafodaeth hon yn 1999, dyma beth ddywed William Evans, aelod o'r cwmni, am y feirniadaeth:

> Nid oeddem yn disgwyl unrhyw ffafr, wrth gwrs, ond teimlem ar yr un pryd y buasai cynhyrchiad cwmni o Fôn wrth fodd ei galon o. Nid felly y bu!
>
> Teimlai Hugh Griffith nad oedd y ddrama, fel ag yr oedd, yn addas ar gyfer ei llwyfannu. Hynny oherwydd fod ynddi ddarnau dianghenraid nad oeddynt yn ychwanegu dim at werth artistig y ddrama, ac y dylai'r cynhyrchydd fod wedi hepgor y darnau tramgwyddol hynny.
>
> I fod yn deg â'r cynhyrchydd, yr oedd yntau wedi teimlo hynny hefyd ac fe geisiodd farn neb llai na Chynan ei hun. Yr oedd Cynan yntau'n cydweld, ac awgrymodd y dylid cael caniatad yr awdur i adael rhannau o'r ddrama allan, ond gwrthodwyd y cais – 'doedd o ddim am i neb ddarnio'r cyfanwaith.
>
> P'run bynnag am hynny, aethpwyd i'r gystadleuaeth mewn llawn hyder ffydd ac fe berfformiwyd y ddrama i fodlonrwydd y cynhyrchydd (ac fe 'roedd hynny'n beth eitha prin !). Ond am ryw reswm, 'doedd y beirniad ddim wedi teimlo'r un wefr! Bu iddo gondemnio safon y ddrama yn ogystal â pherfformiadau sawl cymeriad yn nrama'r *Brodyr* – o ba rai, un o rhai pennaf oeddwn i [*Idris*].

> Fe allwch ddeall siomiant y cwmni ar ôl y fath feirniadaeth ac fe esgymunwyd *Y Brodyr* byth ar ôl hynny. Darniwyd y ddrama a safon yr actio yn ulw-grybibion.[128]

Roedd yr adroddiad canlynol a ymddangosodd yn y wasg yn llawer mwy hallt o ddull Hugh Griffith fel beirniad:

> DRAMAU BAE COLWYN
> BEIRNIADU BEIRNIAD
>
> ...Mater a dynnodd lawer o sylw ydoedd y ffordd y beirniadwyd y ddrama hir gan Mr Hugh Griffith, actiwr o Lundain, sydd yn frodor o Farian-glas. Perfformiodd cwmni Llangefni *Y Brodyr* (J. Gwilym Jones), ac nid oedd gan yr actiwr o'r Brifddinas air da i'r ddrama, na fawr o glod, ychwaith, i'r cwmni o sir ei febyd. Y mae yn deg dweud i gwmni Llangefni droedio yn araf cyn dewis drama ar gyfer Bae Colwyn. Ymgynghorwyd â gŵr sydd yn awdurdod ar y ddrama yng Nghymru, un a enillodd am gyfansoddi a chynhyrchu, a hefyd roddi blynyddoedd o wasanaeth i'r mudiad yng Nghymru – nid yn Llundain, cofier. Ar sail ei brofiad nid oedd undyn diogelach ei farn. Cyfarwyddodd y cyfeillion o Llangefni i fynd i'r afael â'r *Brodyr*. Gwnaethant hynny, a chael llwyddiant ar ddrama anodd. Yn y prawf yn Neuadd y Dref, Llangefni, dywedodd Mr. Haydn Davies, sydd yn safon, iddo gael gwledd yn y ddrama a'r perfformio. Naturiol felly oedd i feirniadaeth actiwr o Lundain dynnu sylw yn wyneb barn dau a ŵyr beth yw beth gyda'r ddrama yn Nghymru. Nid yw Llangefni am eiliad yn cwyno yn erbyn y dyfarniad. Un o'r rhai cyntaf i longyfarch Abertawe yn eu buddugoliaeth oedd cynhyrchydd Llangefni. Yr oedd ysgoloriaeth i'r cynhyrchydd gorau yn y gystadleuaeth, ac o gofio bod cynhyrchydd Abertawe yn dilyn y grefft o actor proffesedig, dylai awdurdodau'r Eisteddfod gyfyngu hyn i rai na chawsant brofiad proffesedig.
>
> Dyma fel yr ysgrifenna Mr Dewi Llwyd Jones, Trefnydd Drama Môn, a fu yn yr Eisteddfod Genedlaethol:
>
> PWNC TRAFODAETH
>
> Pwnc trafodaeth mawr yr wythnos oedd beirniadaethau Hugh Griffith.
>
> Cafwyd ei agwedd yn hollol glir yn ei sylwadau ar chwarae nos Fawrth. Dywedodd ei fod ef am roi ei syniadau am y ddrama yng Nghymru (drama nad oedd wedi dechrau cropian). Yr oedd am geisio dweud y gwir, fel y gwelai ef, a'i ddweud yn blaen. Yr oedd cyfle gwych i'r ddrama yng Nghymru heddiw, a galw mawr am ddramâu ond nid oeddynt yn dod, ac hebddynt ni ellid gosod sail i'r ddrama yng Nghymru. Yr oedd wedi darllen *Y Brodyr* yn ofalus, ac yr oedd i feirniadu'r chwarae.
>
> Pe bawn yn gwneud hynny golygai gymryd nodion, a buasai arnaf eisiau rhyw chwech o bersonau i gymryd nodion llaw-fer nes y byddai eu bysedd yn bytiau – dyna'r gwir.
>
> Nid oedd Hugh Griffith yn credu mewn beirniadaeth fel y ceir hi mewn Eisteddfod. Hoffai wybod paham na fyddai Cyngor yr Eisteddfod yn hytrach na gofyn iddo feirniadu, yn gofyn iddo fynd i Langefni am wythnos i ymarfer y cwmni. Nid oedd siarad yn mynd a'r ddrama i unman. 'Pe cawn y cwmni yma at ei gilydd gallwn ddangos miloedd o feiau iddynt'.
>
> Yna rhoddodd yr actor o Lundain linyn mesur ar ddrama John Gwilym Jones, *Y Brodyr*. Nid oedd ganddo eirda iddi. Er hynny, ni roddodd unrhyw awgrym o beth a ddylai fod...Nos Wener bu'n rhoi

> sylwadau ar gwmni Abertawe yn chwarae *Dau Dylwyth*...Rhoddodd ganmoliaeth uchel iawn i gwmni Abertawe...
>
> Derbyniwyd geiriau Hugh Griffith gyda chymeradwyaeth gan y gynulleidfa. Dywedodd lawer gwirionedd – gwirioneddau y bu rhai yn eu dweud yng Nghymru am flynyddoedd bellach – y diffyg disgyblaeth etc. Ni ddywedodd ddim newydd. Nid awgrymodd ddim newydd...
>
> Yna, onid oedd yn credu mewn beirniadu fel y beirniedir yn yr Eisteddfod paham y derbyniodd y swydd? Nid beth a ddywedodd oedd o'i le, ond y lle y'i dywedodd. O fewn y gyfundrefn sydd yn bod methiant oedd Hugh Griffith fel beirniad drama. Gall fod yn wych o fewn ei gyfundrefn ei hun – nid amheuir hynny, ond o fewn cyfundrefn yr Eisteddfod yr oedd yn fethiant. Gall hynny fod yn gymaint beirniadaeth ar y gyfundrefn ac ar Hugh Griffith.
>
> O ran urddas yr Eisteddfod ac o ran awgrymiadau ymarferol i'r cwmniau yr oedd yn dda fod Haydn Davies a Kitchener Davies yn feirniaid hefyd. Gwnaethant hwy eu rhan heb unrhyw stremp nag arddull chwyddedig, yn dawel ac effeithiol. Cadwasant y cwmnïau rhag diffygio'n llwyr, a chan iddynt fod yn hen gyfarwydd ag anawsterau cwmnïau amatur yng Nghymru, gwyddent beth i'w ddisgwyl, ac ar hynny buont yn beirniadu.
>
> Yn ôl yr uchod dylai pwyllgorau Eisteddfodau ofalu am feirniad drama sydd yn meddu ar flynyddoedd o brofiad yng Nghymru, sydd yn wlad anodd cynhyrchu ynddi yn wyneb anawsterau neuaddau etc. Gwahoddwyd Emlyn Williams rai blynyddoedd yn ôl i feirniadu yn y Genedlaethol, a gwrthododd yn gwrtais am nad oedd mewn cyffyrddiad â Chymru.[129]

Yn dilyn beirniadaeth lem a siomedigaeth arall, nid anodd yw amgyffred teimladau'r cyfarwyddwr a'i gwmni. Ac yn dilyn cynnwys ei feirniadaeth ar y rhagbrofion, mae lle i gydymdeimlo â D. Haydn Davies yn ogystal. Yn sicr, bwriodd beirniadaeth Hugh Griffith amheuaeth ar hygrededd Haydn Davies fel beirniad drama cenedlaethol. Hyd y gwyddys, does dim cofnod i'r cwmni berfformio'r ddrama wedyn, a hawdd fyddai cydymdeimlo â'r cwmni petai wedi penderfynu rhoi'r ffidil yn y to yn dilyn y siomiant. Ond nid felly y bu. Fel John Huws yn Llannerch-y-medd, mae'n debyg fod Edward Williams a'i gwmni yn dyheu am fuddugoliaeth yn y Genedlaethol, ac er holl lwyddiant y cwmni yn y gorffennol roedd y pinacl cystadleuol eto i'w gyrraedd.

Ar gyfer 1948-9 aethpwyd i'r pegwn arall drwy ddewis comedi Tom Richards, *Y Carnifal.* Am y tro cyntaf ni welwyd Edward Williams yn actio, a rhoddwyd cyfle i do o actorion ifanc i ymddangos ar lwyfan drama am y tro cyntaf. Dechreuwyd ar y teithio yn gynnar yn 1948 gydag ymweliadau â Phwllheli 11 Chwefror, Bala 17 Chwefror, Llangoed 26 Chwefror a Thrawsfynydd 28 Chwefror. Ynglŷn â'r perfformiad yn Nhrawsfynydd, ymddangosodd yr adroddiad canlynol:

> Ceisio paentio'r lili fuasai i ni ganmol cwmni drama Llangefni pan ymwelasant â Thrawsfynydd nos Sadwrn gan lwyfannu *Y Carnifal*. Digon dweud iddynt gael tŷ orlawn, derbyniad campus, a chanmoliaeth gwir haeddiannol...[130]

Buan y cododd yr ysfa gystadleuol ei phen. Nos Fawrth, 9 Mawrth, perfformiwyd *Y Carnifal* yn nhrydedd gŵyl ddrama Porthmadog. Gyda John Ellis Williams yn beirniadu, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Langefni, a gosodwyd Llangollen yn ail a Bodedern yn drydydd.

Yn Awst, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal ym Mhen-y-Bont-ar-Ogwr gyda Cynan yn beirniadu'r dramâu hir. Penderfynwyd cystadlu, a nos Wener, 16 Ebrill, cynhaliwyd y rhagbrawf yn Neuadd y Dref, Llangefni. Byddai'n rhaid aros am y dyfarniad hyd nes i'r beirniad gwblhau ei daith yn cloriannu wyth o gwmnïau.

Yn y cyfamser, aethpwyd ymlaen â'r diddanu. Fe gofir i gwmni Llangefni ymweld â Chymry Llundain yn Nhachwedd 1946, ac ymwelwyd unwaith eto â'r brifddinas nos Sadwrn, 24 Ebrill 1948. Ddechrau Mehefin, derbyniwyd y newyddion da fod cwmnïau Pont-Rhyd-y-Fen, Resolfen, a Llangefni i ymddangos yn y prawf terfynol ym mis Awst. Cyflwynir yma ddetholiad o sylwadau Cynan ar safon y gystadleuaeth yn gyffredinol:

> ...Gan fod pob cwmni eisoes wedi cael ar lafar feirniadaeth fanwl o'r llwyfan...dymunwn roddi ychydig nodiadau cyffredinol ar y gystadleuaeth yn y gobaith y cymerir rhai ohonynt i ystyriaeth gan gwmnïau â'u bryd ar gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol y blynyddoedd nesaf yma.
>
> 1 SAFON Y DRAMÂU. Fel defnydd at brif gystadleuaeth y Ddrama Gymraeg, tila oedd ambell ddrama â ddewiswyd, ac yn gyffredin os tila fyddai'r ddrama tila hefyd fyddai'r cyflwyniad ohoni. Hoffwn weled safon yr Eisteddfod Genedlaethol yn symbylu rhagor o gwmnïau i fod yn uchelgeisiol...
>
> 2 SAFON Y PERFFORMIADAU. Ni chefais erioed mewn cystadleuaeth genedlaethol brofiad o wahaniaeth mwy rhwng safon y cwmnïau gorau a safon y cwmni gwaelaf...
>
> 3 ACTIO A CHYNHYRCHU. Fel pob blwyddyn, yr oedd safon yr actio gan rai unigolion yn uwch na safon y cynhyrchu yn gyffredinol...Yn arbennig iawn 'Ann o Gefnydfa' yng Nghwmni Pontyates – un o bethau gorau'r gystadleuaeth i gyd.
>
> 4 LLWYFANNU. Amrywiai'r llwyfannu...yn fawr o ran maintioli ac o ran goleuadau a chynorthwyau. Popeth yn dda, fe gymerth y beirniad hynny i ystyriaeth. Ond nid oes dim – ar lwyfan bach na mawr – yn cyfiawnhau gorlwytho â chelfi na chamosod y rheiny fel y bônt yn rhwystr i'r actio...Yn aml yr effeithiau mwyaf syml yw'r effeithiau mwyaf argoeddiadol wrth lwyfannu: cynildeb, dychymyg, diffuantrwydd, - y tri hyn...

> Penderfyniad y Pwyllgor oedd bod tri chwmni i'w dethol gan y beirniad i'r prawf terfynol, o cheid safon, ac nid dau fel a nodwyd yn y testunau. Mae'n dda gennyf dystio bod tri chwmni wedi cyrraedd y safon honno...[131]

Golygai'r daith gostau ariannol sylweddol i'r cwmni ac i godi arian rhoddwyd perfformiad ar lwyfan Neuadd y Dref, nos Sadwrn, 17 Gorffennaf. Cafwyd tŷ llawn ynghyd â chanmoliaeth.

Yn y Genedlaethol, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Bont-Rhyd-y-Fen (*Pryd o Ddail,* J.D. Miller) a rhannwyd yr ail wobr rhwng Resolfen (*Tarfu'r Colomennod,* Ieuan Griffiths) a Llangefni.

Yn dilyn seibiant yn ystod Awst a Medi, aethpwyd ymlaen â galwadau'r gaeaf. Ymddangosodd y cwmni fel cwmni gwadd yng ngŵyl ddrama Corwen yn nechrau Hydref, ac am y tro olaf fel cwmni cystadleuol yng ngŵyl flynyddol Bala nos Fawrth, 9 Tachwedd. O'r chwe chwmni a fu'n cystadlu, dyfarnwyd y wobr gyntaf unwaith eto i gwmni Pont-Rhyd-y-Fen a'r ail wobr i Langefni. Yn ei golofn, *Aelwyd yr Herald*, eglurodd John Ellis Williams ei ddyfarniad:

BEIRNIADU PERFFORMIAD

> Atoch chwi gwmniau drama mewn Mudiadau Ieuenctid, yr ysgrifennaf yn fwyaf arbennig yr wythnos hon...Dichon y bydd o ryw gymaint o help ichwi wybod rhywbeth am safbwynt y beirniad o fesur a phwyso'r perfformiadau...
>
> ...Y mae'r gystadleuaeth wedi dechrau ymhell cyn eich perfformiad o'r ddrama, hyd yn oed cyn i chwi ddechrau ei dysgu. Y cam cyntaf a gymerasoch yn y gystadleuaeth oedd eich dewis o ddrama...
>
> ...Weithiau, gall cwmni da roddi perfformiad da o ddrama wael. Weithiau, ceir perfformiad da gan gwmni gwael am fod y ddrama ei hun yn dda. Ond i gael perfformiad da iawn, rhaid wrth ddrama dda, a chwmni da, a chynhyrchydd da.
>
> Pan geir dau gwmni da yn cystadlu yn erbyn eu gilydd, yn aml iawn y dewis o'r ddrama sy'n troi'r fantol. Cefais brofiad o hynny yng Ngŵyl Y Bala eleni...
>
> Ychydig iawn o frychau oedd ar yr actio a'r cynhyrchu yn y ddau berfformiad. Os rhywbeth, credaf fod y cynhyrchu yn well gan Llangefni, a'r actio yn fwy gwastad trwyddo. Yn wir, mi af mor bell a dweud y byddai'n anodd cael gwell perfformiad o'r ddrama hon nag a gefais yn Y Bala gan Gwmni Llangefni.
>
> Ond er gwaethaf hyn oll, y perfformiad o *Pryd o Ddail* gan Gwmni Pontrhydyfen a enillodd y wobr gyntaf. Nid yw hyn yn dweud bod Cwmni Pontrhydyfen yn well cwmni na Chwmni Llangefni. Ni ellir pwyso yr un cwmni ar sail un perfformiad...
>
> Ac ni ellir ychwaith feirniadu cwmni ar sail un ddrama. Comedi a chwaraeai Cwmni Llangefni..., ond gwelais hwynt cyn hyn yn actio trasiedi yr un mor llwyddiannus. Y mae'n ddigon posibl eu bod yn well cwmni na Chwmni Pontrhydyfen. Ni wn i.

> Cyn penderfynu hynny, mi ddylaswn weld Cwmni Pontrhydyfen yn actio drama fel *Y Carnifal*.
>
> Beirniadu'r perfformiadau yw gwaith y beirniad, nid beirniadu'r cwmnïau. Ac wrth feirniadu perfformiad, y mae'n rhaid cymryd y ddrama i ystyriaeth...
>
> Dau berfformiad da oeddynt, a'r dewis o ddrama a droes y fantol rhyngddynt...[132]

Ar y nodyn siomedig yma, daeth i ben hanes Llangefni fel cwmni drama cystadleuol, ond roedd dau fis prysur i'w cwblhau cyn y Nadolig:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 9 | Bala | Rhagfyr | 1 | Bethesda |
| | 11 | Caernarfon | | 3 | Llangaffo |
| | 17 | Rhiwlas | | 4 | Penmachno |
| | 24 | Cricieth | | 9 | Blaenau Ffestiniog |
| | 25 | Llanddeusant | | 11 | Llanbrynmair |

Yn dilyn seibiant byr dros y Nadolig, aethpwyd ymlaen â'r teithio hyd 5 Mawrth 1949, pryd yr ymddangosodd y cwmni am y tro olaf, a hynny ar lwyfan Neuadd Goffa Llanbedr a Thal-y-bont.

Ond nid dyma ddiwedd cysylltiadau tref Llangefni â'r ddrama Gymraeg. Yn hytrach, dyma ddechrau cyfnod newydd, cyffrous. Daeth i ben y traddodiad o fynd â'r ddrama at y bobl; o hynny ymlaen disgwylid i'r bobl fynd at y ddrama. Nid cwmni drama Llangefni fyddai canolbwynt y gweithgareddau yn y dyfodol. Byddai'r trefniadau yn nwylo pwyllgor etholedig Cymdeithas Ddrama Llangefni, a thrafodir hynny'n fanylach maes o law.

Yn ystod y pumdegau cynnar, ymgymerodd Edward Williams â hyfforddi cwmnïau'r Aelwyd yn y dref. Bu wrthi hefyd yn cyfarwyddo cwmni Llangristiolus yn ogystal â rhannu ei brofiad â chwmnïau bach y wlad fel un Penucheldref. Prin iawn fu ei gysylltiadau â'r Gymdeithas Ddrama, ond yn 1956 cafodd wahoddiad gan y Gymdeithas i gyfarwyddo y gomedi bedair act, *Dwy Frân Ddu*, cyfieithiad John Ellis Williams o ddrama E. Eynon Evans, yn y Theatr Fach. Er mawr syndod i bawb derbyniodd y gwahoddiad a chafwyd tŷ llawn bob nos yn ystod yr wythnos 13-16 Mawrth. Gwnaethpwyd cais am gael ymestyn y perfformiadau i'r wythnos ddilynol, ond fe'i gwrthodwyd. O ganlyniad, trodd Edward Williams ei gefn ar fyd y ddrama yn gyfan gwbl.

Er gwaethaf yr holl siomedigaethau, cafodd cwmni drama Llangefni gryn lwyddiant. Am gyfnod o ugain mlynedd, chwaraeodd

Edward Williams ran flaenllaw yn hanes y cwmni fel actor ac fel cyfarwyddwr. Mae'n debyg mai'r mesur cywiraf o'i gyfraniad yw barn ei gyfoedion dramayddol amdano. I gloi'r drafodaeth hon ar ei gwmni, dyfynnir geiriau pedwar o'r cyfoedion hynny:

> Yr oedd Edward Williams yn gynhyrchydd llwyddiannus iawn a hynny nid yn unig am ei allu i ddehongli drama, ond hefyd am ei ddawn i gael y gorau allan o'r actorion. Un da am ganmol ond yn medru bod yn llym pan bod eisiau. Roedd o yn ŵr hoffus a'r cast i gyd yn gwneuthur ei gorau iddo fo.
>
> Eluned Isherwood, Rhosneigr

> Dyn y wlad oedd Edward Williams ac wedi ei ddwyn i fyny yn nhraddodiad ei gyfnod – wedi mynd yn syth o'r ysgol fach i 'weini ffarmwrs'. Yn naturiol iawn, iaith a delweddau ffermio fyddai'n brigo i'r wyneb o dan bob amgylchiad. Er enghraifft, fe ddisgrifiai gymeriad oedd wedi camu gymaint gan anhwylder y cefn, a dweud ei fod o 'fel pric cynnull' – y teclyn hwnnw y byddai ffermwyr yn ei ddefnyddio i 'gynnull' yr ŷd yn sypiau hwylus ar gyfer eu gwneud yn ysgubau.
>
> Cofiaf fod mewn ymarfer drama pan ddigwyddodd pump neu chwech o gymeriadau'r ddrama, oedd yn digwydd bod ar y llwyfan 'run pryd, fod yn sefyll mewn un llinell syth wrth fynd ymlaen â'r actio. Fel y gwyddoch, mae lleoliad person ar lwyfan yn chwarae rhan bwysig ynddo'i hun. Rhaid i grŵp sy'n ymddangos ar yr un pryd yn y ddrama sefyll mewn mannau dewisedig i wneud y gwaith yn effeithiol. P'run bynnag am hynny, roedd y cyfan o'r actorion wedi sefyll yn llinell syth ar draws y llwyfan. Gwaeddodd y cynhyrchydd ar draws a dweud, "Sawl gwaith sydd isio deud wrtha chi am beidio sefyll mewn lein. Nefoedd annwl, 'da chi yr un fath yn union â phricia toi ar das ŷd".
>
> William Evans, Llangefni

> Treuliais oriau difyr, llawn gwaith a hwyl, fel aelod o Gwmni Drama Llangefni – Cwmni Ned Siop Gray, neu Edward Williams fel mae pobl Cymru yn ei nabod bellach...
>
> ...Roedd...yn dipyn o fos arnom ni – roedd yn rhaid iddo er mwyn cael siâp ar y gwaith yn sydyn. Byddai yn colli ei dymer a'i amynedd ar adegau, yn enwedig os byddent heb ddysgu eu geiriau. Chwarae teg, nid cynhyrchydd yn unig oedd o, ond actiwr a threfnydd amserau yr ymarferiadau a'r perfformiadau.
>
> Wrth feddwl yn ôl, roedd...yn un â ddylanwadodd er daioni ar fy mywyd a'i wneud yn un llawnach a hapusach. Drama oedd y 'petha' i ni fel Cwmni yr adeg honno. Roeddem yn griw hapus, yn llawn hwyl ond reit fentrus hefyd...
>
> Myfanwy Jarman, Caerdydd

> Bu cyfraniad Edward Williams yn ddiderfyn o'r dechrau. Roedd ei frwdfrydedd yn heintus. Soniai lawer am y ddrama a gwyddai am holl gwmnïau Cymru. Bu ei hyfforddiant i actorion unigol yn eu llefaru, eu hystum a'u symudiadau yn wyrthiol, a manteisiodd ei gwmni o'r hyfforddiant yma. Gallai ddehongli cymeriadau ei gwmni yn y fath ffordd y gellid credu ynddynt.
>
> J.O. Jones, Porthaethwy [133]

1 *Taliesin*, Cyfrol 114, Gwanwyn 2002, 126 – 132.

2 *ibid.*, 131.

3 *Y Clorianydd*, 8 Hydref 1930, 6.

4 *ibid.*, 29 Hydref 1930, 2.

5 Mae copi o destunau y cyfarfod cyntaf ym meddiant yr awdur. Mae'r gwreiddiol ym meddiant Emyr Jones, Caernarfon.

6 *Hanes yr Achos ym Mhenygarnedd 1782-1976*. Llyfryn a gyhoeddwyd ar achlysur dathlu canmlwyddiant adeiladu y capel presennol 1876-1976, (Llangefni 1976), 9-19.

7 Hugh Owen, MA, FSA. g. 8 Mai, 1880 yn Niwbwrch
m. 18 Mawrth, 1953 yn Llanfairpwll
Athro Hanes yn Ysgol Sir Llangefni, 1918-1944.

8 *Braslun o Hanes MC Môn 1880-1935* (Lerpwl 1937), 366.

9 *Hanes yr Achos ym Mhenygarnedd 1782-1976, op.cit.*, 23.

10 Y Parchedig R.R. Hughes, *Cofiant y Parchedig John Williams, D.D., Brynsiencyn* (Caernarfon 1929), 38 a 42.

11 *Hanes yr Achos ym Mhenygarnedd 1782-1976*, *op.cit.*, 23.

12 *ibid.*, 23-4.

13 Priododd Dilys, merch y Parchedig a Mrs Owen Thomas, ag Edward Owen Humphreys, Cyfarwyddwr Addysg Môn o 1935 hyd 1959. Heddiw, mae Mrs Humphreys yn byw yn Y Benllech.

14 Un o'r atebion a dderbyniodd yr awdur oddi wrth Dafydd Islwyn, Bargoed, Caerffilli. Mae yn un o dri o feibion y diweddar Mr a Mrs Edward Hughes, Yr Orsedd, Rhoscefnhir.

15 Roedd Martha Morris, Bryn Ddu, Rhoscefnhir, yn aelod o gwmni drama Grace Thomas yn 1910, *Cyfoeth ynte Cymeriad*. Mae Mrs Eirwen Morgan, merch Martha, yn byw yn yr hen gartref yn Amlwch. Derbyniodd yr awdur gopi o'r llythyr gwreiddiol drwy law Mrs Morgan. Yn ogystal, cafwyd caniatâd Mr J.O. Roberts, Benllech, i'w ddefnyddio ar gyfer y gwaith.

16 Eryl Wyn Rowlands, *O Lwyfan i Lwyfan* (Caernarfon 1999), 46-64.

17 Grace Thomas, *Dramodau a Dadleuon* (Wrecsam 1914). Rhan o'r gyfres *Llyfrau Adrodd a Dadleuon.* Mae'r gyfres yn cynnwys gwaith Carneddog, J.M. Edwards a'r Parchedigion T. Morgan a R. Peris Williams.

18 Grace Thomas, *Trech Gwlad nag Arglwydd* (Wrecsam 1912).

19 Grace Thomas, *Cyfoeth ynte Cymeriad* (Wrecsam 1910).

20 Hughes, *op.cit.,* 226-229.

21 *Y Clorianydd,* 12 Ionawr 1921, 6.

22 O. Llew Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru, 1850-1943* (Cyhoeddwyd gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol 1948), 282.

23 *ibid.,* 270.
Hefyd, gweler W.J. Griffith, *Storïau'r Henllys Fawr* (Aberystwyth 1954), 94.
O gofio i'r saith stori gael eu hysgrifennu rhwng Nadolig 1924 a Nadolig 1930, gellid cysylltu geiriau Huw Huws yn 'Antur y Ddrama' â'r ffaith bod y blynyddoedd hyn yn rhan o gyfnod y deffroad yn hanes y ddrama Gymraeg. Yn ei araith i gynulleidfa Llofft y Capel, dewisodd Huw Huws, Y Fferam, cadeirydd cyfarfod Nadolig pentref Llanaraf,

'... adolygu datblygiad chwyldroadol y ddrama yng Nghymru, o'r cyfnod cymharol ddiweddar pan ydoedd yn anathema yng ngolwg y saint, i'r cyfnod presennol pan yw'n llaw-forwyn barchus a phoblogaidd yr eglwys.'

24 *Y Clorianydd,* 13 Ebrill 1921, 4.

25 *ibid.,* 16 Chwefror 1927, 6.

26 *ibid.,* 26 Chwefror 1930, 4.

27 *ibid.,* 8 Ionawr 1930, 5.

28 Ceir cyfeiriadau at Dan Matthews yng nghyfrolau Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen* (Llandysul 1998) a Hazel Walford Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol* (Llandysul 2000).

29 Atgofion Dafydd Islwyn a anfonwyd at yr awdur, Hydref 2001.

30 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943*, 192-5.

31 Mae copi o'r feirniadaeth wreiddiol ym meddiant yr awdur.

32 Derbyniwyd copi ysgrifenedig o'r penillion drwy law Dafydd Islwyn Hughes.

33 *Y Clorianydd*, 25 Awst 1943, 4.

34 *ibid.*, 18 Awst 1943, 3.

35 *ibid.*, 25 Awst 1943, 2.

36 *ibid.*, 6 Ebrill 1949, 5.

37 *ibid.*, 16 Ionawr 1952, 7.

38 William Owen, *Y Llanc Nad Yw Mwy* (Llanrwst 1991), 111-119.

39 General Register Office Census 1961 Wales (inc. Monmouthshire) Report on Welsh Speaking Population (HMSO London 1962)

| | |
|---|---|
| Table A | viii |
| Table 3 | 33 |
| Table 4 | 33 |

40 Mynnai 'Llew Llwydiarth' mai tref ac nid pentref oedd Llannerch-y-medd. Yn ei hanterth ni ellid dadlau â gosodiad Y Llew, ond trwy gyfeirio at y lle fel treflan, ceisir cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y gorffennol a'r presennol.

'Llew Llwydiarth' - William Charles Owen (1881-1972)
Fe'i magwyd ar aelwyd Ponc-yr-Aur, Mynydd Llwydiarth, Pentraeth.
Priododd ag Ann, ac aethant i fyw i fferm Bryn Owain, Llechcynfarwy.
Etholwyd yn Flaenor yng Ngharmel yn 1914.
Bu Ann farw 11 Chwefror 1936, yn 71 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd yn Eglwys y Plwyf, Penmynydd.
Wedi i'w nith, Mrs Sophie Roberts, golli ei gŵr, aeth Llew Llwydiarth i fyw ati yn Arhosfa, Carmel.
Henadur ac aelod o Gyngor Sir Môn o 1946 hyd 1972.
Derwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Môn o 1946 hyd 1970.
Llywydd Henaduriaeth Môn, 1961,a phregethwr cynorthwyol.
Yn 1970, ac yntau o fewn chwe mis i'w ddegfed pen-blwydd a phedwar ugain, enillodd gadair Eisteddfod Môn, Cemais.
Fe'i cydnabyddir fel un o gymeriadau mwyaf lliwgar ei gyfnod ym Môn.
Bu farw yn 91 mlwydd oed, 24 Rhagfyr 1972. Fe'i claddwyd gyda'i wraig, Ann.
Ym mis Mawrth 1997, cyhoeddwyd cyfrol arno dan y teitl *Llew Llwydiarth*. Golygwyd y gyfrol gan William Owen, Borth-y-Gest, ac fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst.

41 T.A. Hughes, *"Tamaid i'w brofi" o "lwch mân Llan'achmedd"* (Llangefni 2002), 121.

42 *Herald Môn,* 31 Mawrth 1981, 11.

43 Erthyglau gan Donald Glyn Pritchard, Llannerch-y-medd. Cyn-brifathro Ysgol Gynradd Penysarn:
*Herald Môn,* 3 Mawrth 1981. 8.
*Herald Môn,* 31 Mawrth 1981, 11.

*Herald Môn,* 28 Ebrill 1981, 8.

44 *Y Clorianydd,* 12 Mawrth 1941, 4.

45 Olwen, gwraig y diweddar Glyn Owen, Einion Cottage, Llannerch-y-medd. Fe'i hadnabyddir hyd heddiw fel 'Olwen Druid'.

46 *Yr Herald Cymraeg*, 8 Ebrill 1930, 5.

47 *ibid.,* 3 Rhagfyr 1946, 5.

48 Hughes, T.A., *op.cit.*, 94-5

49 *Y Clorianydd,* 6 Ebrill 1932, 4.

50 *Yr Herald Cymraeg*, 8 Ebrill 1930, 5.

51 *ibid.*, 16 Chwefror 1937, 4.

52 *Y Clorianydd*, 11 Rhagfyr 1940, 3.

53 *ibid.,* 26 Chwefror 1941, 4.

54 *ibid.*, 9 Rhagfyr 1942, 6.

55 *ibid.,* 29 Rhagfyr 1943, 8.

56 Dyfyniad o lythyr Albert Owen at yr awdur Gaeaf 2001.

57 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn 1947*, 251.

58 *ibid.,* 237-8.

59 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau 1949,* Sylwadau Cynan, 246.

60 *ibid.,* Sylwadau W. Emlyn James, 245.

61 *ibid.,* Sylwadau Cynan, 248.

62 *Y Clorianydd*, 21 Rhagfyr 1949, 7.

63 *Golwg,* Cyfrol 9, Rhif 38, 13 Mawrth 1997.

64 Mae'r rhaglen swyddogol ym meddiant yr awdur.

65 Ceir tystiolaeth o hyn yng Nghyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol o flwyddyn i flwyddyn.

66 *Y Clorianydd*, 13 Rhagfyr 1950, 7.

67 Harri Parri a William Owen (cyd.ol.) *Sôn Dynion Amdanynt*

(Dinbych 1975), 46.

68 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 1951*, 246-8.

69 *Y Clorianydd,* 6 Ebrill 1955, 8.

70 *Herald Môn,* 29 Hydref 1968, 10.

71 *Y Clorianydd,* 18 Rhagfyr 1963, 7.

72 *Herald Môn,* 31 Mawrth 1981, 11.

73 Edward Morgan Humphreys (1882-1955). Golygydd *Y Genedl* o 1918 hyd ei ymddiswyddiad yn 1930.

74 W.J. Griffith, *Storïau'r Henllys Fawr* (Aberystwyth 1954).

75 Priodwyd y ddau, nid yn Aberffraw nac yn Llangefni, ond yn hytrach yng Nghapel y Presbyteriaid Seisnig ym Mhorthaethwy. Yno y gweinidogaethai y Parchedig Owen Thomas, gweinidog Penygarnedd hyd 1909 a Llannerch-y-medd wedyn hyd iddo dderbyn galwad i Borthaethwy yn 1920 lle bu'n gweinidogaethu hyd ei ymddeoliad yn 1939. Roedd Elizabeth, gwraig y Parchedig Owen Thomas, yn ffrind bore oes i Hannah Griffith pan drigai y ddau deulu yn Llansadwrn. Fferm Cefn Coch oedd cartref Thomas Lewis Griffith a'i deulu cyn iddynt symud i'r Henllys Fawr.

76 Capel Coffa John Elias o Fôn (1774-1841). Gosodwyd cerrig sylfaen y capel presennol, y trydydd, 8 Mai 1896.
Eryl Wyn Rowlands, *Mirain Foreia* (Llangefni 1997), 27-30.

77 Bedwyr Lewis Jones a Derec Llwyd Morgan (gol.), *Bro'r Eisteddfod 3: Ynys Môn* (Llandybïe 1983), 151-3.

78 W.J. Griffith, *op.cit.,* 77-106.

79 *Y Clorianydd*, 22 Hydref 1930, 8.

80 *ibid.,* 17 Rhagfyr 1930, 5.

81 *Yr Herald Gymraeg,* 8 Rhagfyr 1931, 7.

82 Chwaraewyd rhan y postman gan Edward Williams.

83 *Y Clorianydd*, 9 Rhagfyr 1931, 6.

84 Rodney Hughes: *Cymeriadau Gogledd Cymru* (Cyhoeddiad preifat gan ei wraig, Olwen, Llangefni 1995), 52-4.

85 John Ellis Williams, 1901-75.
Dramodydd, nofelydd ac awdur llyfrau i blant. Fel dramodydd, bu'n gynhyrchiol iawn rhwng diwedd y dauddegau a chanol y pumdegau. Yn ystod y cyfnod hwn, ysgrifennodd dros ddeg ar hugain o ddramâu gwreiddiol ynghyd â chyfieithiadau o waith awduron fel Harold Brighouse, Stanley Houghton, Charles Dickens, E. Eynon Evans ac Emlyn Williams.
Gweler *Dramâu Cymraeg Un Act* (Aberystwyth 1955) a *Dramâu Cymraeg Hir* (Aberystwyth 1957).

86 Tlws y Ddraig: Cyflwynwyd yn 1920-1 gan Undeb Neuaddau a Chymdeithasau Pentrefol Môn ar gyfer 'Cystadleuaeth Chwarae Drama'. Roedd i'w ddal am flwyddyn. Fe'i cyflwynwyd am y tro olaf yng Ngŵyl Ddrama Eisteddfod Môn, Caergybi, Ebrill 1997, yn yr Adran Agored am berfformiad o ddrama 'un act na chymer fwy na 40 munud'.
Erbyn hyn, fe'i cedwir yn ddiogel yn Oriel Ynys Môn, Llangefni.

87 *Y Clorianydd*, 6 Ebrill 1932, 4.

88 Gyda'r diweddar Richard T. Jones, Benllech, yn cyfarwyddo, rhoddwyd pum perfformiad o'r ddrama hon yn Theatr Fach, Llangefni, yng nghanol Tachwedd 2001. Gyda pheth diweddaru ar y sgript, cafwyd cynulleidfaoedd teilwng a gwerthfawrogol gydol yr wythnos. Cyflwynwyd y ddrama '... yn deyrnged i Edward Williams ac i ddathlu cyhoeddi cyfrol o atgofion amdano...'

*Herald Môn,* 3 Tachwedd 2001, 10.

89 Adroddiad Blynyddol Moreia, 1930. Anerchiad agoriadol y gweinidog.

90 *Y Clorianydd,* 14 Rhagfyr 1932, 8.

91 Chwaraewyd rhan Bob Huws gan Edward Williams.

92 *Y Clorianydd,* 21 Rhagfyr 1932, 7.

93 *Y Clorianydd,* 8 Mawrth 1933, 8.

94 *Yr Herald Gymraeg,* 24 Ebrill 1934, 5.

95 John Owen Jones. Brodor o Landdona. Priododd â Janet, merch o Nantglyn, Dinbych.
Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn o 1939 hyd 1967.
Ysgrifennydd Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru o 1967 hyd 1975.
Derbyniodd yr MBE yn 1952, ac MA (Er Anrhydedd) Prifysgol Cymru yn 1975.
Mae Mr. a Mrs. Jones yn byw ym Mhorthaethwy.
Hyd heddiw cyfeirir ato gyda pharch ac edmygedd fel 'J. O. Cyngor Gwlad'.

96 *Môn* : Rhifyn arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Môn, 1957, 34-7.

97 *Y Clorianydd,* 1 Chwefror 1933, 3.

98 *Yr Herald Cymraeg,* 30 Hydref 1934, 5.

99 *ibid.,* 5 Mawrth 1935, 5.

100 *Y Clorianydd,* 6 Mawrth 1935, 4.

101 *Môn, op.cit.,* Awst 1957, 34.

102 *Y Clorianydd,* 15 Mawrth 1944, 5.

103 *ibid.,* 29 Mawrth 1944, 2.

104 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandybie, 1944,* 198-9

105 *Y Clorianydd,* 5 Gorffennaf 1944, 6.

106 *ibid.,* 8 Tachwedd 1944, 4.

107 *Yr Herald Cymraeg,* 30 Ionawr 1945, 7.

108 *ibid.,* 23 Ionawr 1945, 5.

109 *ibid.,* 13 Awst 1945, 5.

110 Dyfyniad o lythyr personol at yr awdur oddi wrth Myfanwy Jarman yn 1999.

111 *Y Clorianydd,* 20 Mawrth 1946, 4.

112 *ibid.,* 27 Mawrth 1946, 7.

113 Rhan o feirniadaeth wreiddiol Cynan, ym meddiant yr awdur.

114 *Y Clorianydd,* 7 Awst 1946, 4.

115 *ibid.,* 14 Awst 1946, 4.

116 Dyfyniad o lythyr personol at yr awdur oddi wrth Myfanwy Jarman yn 1999.

117 Rhan o lythyr personol at yr awdur oddi wrth Richard T. Jones yn 1999.

118 *Caernarvon & Denbigh Herald,* Friday, 8 November 1946.

119 *Y Clorianydd*, 27 Tachwedd 1946, 4.

120 Dyfyniad o lythyr personol at yr awdur oddi wrth Myfanwy Jarman yn 1999.

121 *Y Cymro*, 22 Tachwedd 1946, 6.

122 *Y Clorianydd*, 20 Tachwedd 1946, 4.

123 *Yr Herald Cymraeg*, 7 Rhagfyr 1948, 6.

124 Manon Wyn Siôn (gol.), *Bro a Bywyd 14: John Gwilym Jones, 1904-1988* (Barddas 1993), 49-51.
Gydag Emlyn Williams yn beirniadu, dyfarnwyd *Y Brodyr* yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 1933.
Fe'i perfformwyd yn yr Arcadia, Llandudno, 18 Ebrill 1934, gan Gymdeithas Ddrama Gymraeg Llandudno a'r Cylch gyda'r awdur yn cyfarwyddo.
Yn ystod 1933-4, fe'i llwyfannwyd gan Gwmni Drama Cymraeg Coleg Prifysgol Cymru, Bangor

125 Elsbeth Evans, Cyfres Pobun Rhif 13 : *Y Ddrama yng Nghymru* (Lerpwl 1947), 50-1:

> Fel yn Lloegr, bu yng Nghymru hefyd nifer o ddramâu yn ymdrin â thema ysbrydol, trwy gyfrwng cefndir neu rai cymeriadau y tu allan i'r byd hwn.
> Gellir galw'r rhai hyn yn ddramâu moes mewn gwisg fodern...Dyma ddull ar ddrama a brofodd yn gydnaws â meddylfryd cynulleidfa a fagwyd ar gefndir crefyddol fel Cymru...Drama hir...na bu fawr o chwarae arni hyd yn hyn, yw *Y Brodyr,* J. Gwilym Jones.

126 *Y Clorianydd*, 21 Mai 1947, 4.

127 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn 1947*, 251.

128 Dyfyniad o lythyr personol at yr awdur oddi wrth William Evans, Llangefni, yn 1999.

129 *Y Clorianydd,* 20 Awst 1947, 5.

130 *Y Rhedegydd,* 4 Mawrth 1948, 7.

131 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Penybont-ar-Ogwr 1948*, 241-3.

132 *Yr Herald Cymraeg,* 21 Rhagfyr 1948, 6.

133 Dyfyniadau o lythyrau a anfonwyd at yr awdur yn ystod 1998-9.

# PENNOD 3
# CYNGOR GWLAD MÔN

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben ar 11 Tachwedd 1918. O ganlyniad, dychwelodd heddwch i Ewrop, a dychwelodd gweddillion lluoedd arfog Prydain i'w cymunedau. Ond bu'r gost yn anfesuradwy. Tanseiliwyd bywyd cymunedol gan bedair blynedd o ymladd, o anafu ac o ladd. Ar ddiwrnod cyntaf Brwydr y Somme, 1 Gorffennaf 1916, er enghraifft, bu farw ugain mil o filwyr Prydeinig,[1] ac erbyn 12 Gorffennaf lladdwyd neu anafwyd pedair mil o filwyr Cymreig.[2] Er nad yw colledion o'r fath yn bethau i ymhyfrydu ynddynt, mae tuedd ynom fel pobl i wneud hynny o dro i dro, a chyda threiglad amser fe droir y tristwch yn rhamant, a'r meirw'n arwyr. Gellir dadlau mai dyma'r union beth a ddigwyddodd i Ellis Humphrey Evans,[3] mab hynaf fferm yr Ysgwrn, Trawsfynydd, a gwympodd ym Mrwydr Cefn Pilkem, Fflandrys, 31 Gorffennaf 1917. Er mai un ydoedd ymysg y tri ar ddeg ar hugain[4] o fechgyn ieuanc ardal y Traws a gollwyd rhwng 1914 a 1918, sicrhawyd i 'Hedd Wyn' le go arbennig, os nad unigryw, yn hanes llenyddiaeth Cymru.

Ond bu tynged eraill yn bur wahanol. Yn ffodus i Gymru, ac yn arbennig i ddatblygiad ei drama a'i theatr arbedwyd bywyd Cynan[5] a chafodd, ymhen amser, ddilyn ei nico o Facedonia i Fôn. Wedi iddo ymgartrefu ym Mhorthaethwy, manteisiodd Môn ar ei arbenigedd ym myd y ddrama a gellir dadlau bod ei gefnogaeth i J.O. Jones, ac i waith Cyngor Gwlad Môn o safbwynt y ddrama o 1939 ymlaen, yn amhrisiadwy. Bu'n flaenllaw fel cyfarwyddwr, fel beirniad, ac fel darlithydd, ac elwodd yr Ŵyl Ddrama Sirol ynghyd â'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol ar ei gyngor a'i arweiniad.

Ar derfyn y rhyfel gellir dychmygu'r galar a'r anobaith a fodolai ledled yr ynys. Yn sicr, roedd angen rhyw weledigaeth newydd os oeddid am godi'r cymunedau yn ôl ar eu traed. Mor fuan â Chwefror 1919, datganwyd y weledigaeth honno mewn cylchlythyr a ddosbarthwyd i gynrychiolwyr cymdeithasau Môn gan gangen gogledd

Cymru o'r *Welsh National Association for Reconstruction.* Gan fod ei gynnwys yn sylfaen i ddatblygiad y testun, fe hawlia gael ei ddyfynnu yn ei gyfanrwydd:

(Letter inviting representatives to County Conference at Llangefni March 21st, 1919)

Branch Office,
University
College,

Bangor.

February,
1919.

Dear

During 1918, the Social Life Committee of the North Wales Branch of the Reconstruction Association has been inquiring into the present conditions of the social life and leisure in the villages and rural districts of N. Wales, with a view of seeing how these can be improved and life made more interesting and stimulating.

The whole country is awakening to the fact that immediate steps must be taken to meet the new point of view of the men returning from the war, and to offer a life worth living in our rural district to those who have risked all in order that their country may be free to develop in accordance with its own characteristics and traditions.

Everyone acquainted with rural life in N. Wales is struck by the general lack of common meeting ground in the parishes where all can gather freely for social intercourse, for games, for reading, for music or dramatic performances, without distinction of class, creed or politics. Such centres should belong to and be managed by the parishioners.

There are a fair number of Halls already in rural N. Wales, varying in character and management and the scope of their activities. But even those which were successful before the war are now somewhat in a state of suspended animation, and need a stimulus in starting a fresh lease of life with wider outlook and activities. At present each Hall is quite isolated and has to depend for support, financial and otherwise, on its own particular neighbourhood.

Now, if one lesson more than another has been emphasised by the war, it is the "Union is Strength" (Undeb sydd Nerth). Co-operation is coming to the fore in every department of life. Why should not our Village Halls and Social Centres also co-operate, e.g. on a County basis, as is so common in N. Wales, so as to obtain common benefits – such as, first-rate circulating libraries, travelling cinemas, etc., etc., - while preserving their own individuality and local management?

As you will have seen in the Press, the Y.M.C.A. in N. Wales is prepared to make great efforts to meet this need by starting triangle huts or clubs in towns and villages over 2,000 inhabitants, while the N. Wales Temperance Federation hopes that its County Associations may be able to make some provision for social life in some of the smaller villages. Both these organisations mean to devote their energies to providing Halls or Centres where there is nothing of the kind at present.

> Some places which contemplate the erection of Memorial, or other Halls, prefer that they should be on a non-sectional basis, that is, that they should not only be open to all, without distinction of class, creed or politics, but should be managed by a body fully representative of the inhabitants, rather than by one consisting of members of any particular association.
>
> Where this is the case, it would surely be helpful for some of those concerned in such projects to meet others already engaged in the management of existing Halls, to hear their experiences and to exchange ideas.
>
> Anglesey, a compact self-contained area, already possessing several Halls, would, it is believed, be the most suitable county to lead the way in the whole question of the development of social life in the villages.
>
> The Reconstruction Committee is therefore arranging a small informal conference at 2 p.m. at the Shire Hall, Llangefni, on Friday March 21, 1919, of representatives of (1) Committees or other bodies managing existing Halls, (2) those proposing to erect new ones on a non-sectional basis, and, (3) a few other persons specially interested in rural social life, to discuss the general question of an Anglesey County Organisation which would serve as a federation of Village and other Halls and also seek to promote the establishment of new Halls on the lines indicated.
>
> As Hon. Secretary of the N. Wales Branch of the Reconstruction Association I have been asked to communicate with you as to whether your body would be prepared to send one or two representatives to attend the conference and to help in working out a County scheme. If desirable, one of our Anglesey members of the Reconstruction Committee would try to meet one or two of your body to explain the idea more fully than is possible in a letter, and to answer questions as far as may be.
>
> We therefore beg for a reply to the Hon. Secretary at your earliest convenience, as it will be impossible to complete arrangements till it is known who are likely to attend. An agenda and further information will be sent later.
>
> Yours faithfully,
>
> M.F. RATHBONE. (Hon. Secretary)
>
> Hafod Lon, Menai Bridge.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn Llangefni, 21 Mawrth 1919,[6] ac fe'i mynychwyd gan ddeugain a thri o gynrychiolwyr. Syr John Morris-Jones oedd y Cadeirydd, ac yn ystod y gynhadledd gwnaeth ddatganiad cyffredinol ynglŷn â'r dyfodol:

> The Chairman made a general statement on the need of some co-operative action on the part of those connected with Village Halls etc., and the benefits which would result from such co-operation...
> ...The Chairman explained the proposed scheme for a County Federation and the general outline was approved by the Conference. It was agreed that a Provisional Committee be appointed to communicate

with existing Halls and the promoters of prospective Halls, to draft a Constitution of the Federation...
Provisional Committee, which should consist of 15 members. This was afterwards amended and 18 members were elected...

Col. Cotton Prof. Gibson Sir J. Morris
Jones
Miss Lamport Mr Ifor
Williams

Mr H. R.Davies,Treborth
Rev. J. J. Evans, Newborough
Mr H. O. Hughes, Llangaffo
Rev. P. G. Hughes, Benllech
Mr Walter O. Jones, Llangefni
Mr Jos. Jones, Bodedern
Mr H. E. Jones, Cemais
Dr Thomas Jones, Amlwch
Mr O. T. Jones, Llannerch-y-Medd
Mr R. Lloyd, Tynygongl
Miss Matthews, Amlwch
Mr D. Taylor, Llangefni
Rev. R. H. Williams, Gaerwen

Cyfarfu'r Pwyllgor Dros-dro 24 Ebrill 1919,[7] pryd y penderfynwyd sefydlu Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn, gyda'r bwriadau canlynol:

1 To serve as a federation of Village Halls, Institutes and Societies, as defined in the Constitution, in the County of Anglesey, with the object of furthering their activities.
2 To promote the establishment of Village Halls and Social Centres, the control and management of which are in the hands of a body representative of the inhabitants or elected by the members of a Village Society membership of which is open to the inhabitants generally.
3 To further generally the development of the social, recreative and educational aspects of life in the villages.

Ddydd Iau, y 1 Ebrill 1920, gyda Syr John Morris-Jones yn y Gadair, cyfarfu

...Cyngor newydd-gyfansoddedig yr Undeb am y tro cyntaf, ac etholodd ei Bwyllgor Gweithiol...[8]

Ar gyfer yr ad-drefnu, sefydlwyd pump o is-bwyllgorau: Llyfrgell y Sir; Llenyddol; Drama; Cerddoriaeth a Chwaraeon. Etholwyd Mr H.O. Hughes,[9] Cefn Mawr, Llangaffo, yn Gadeirydd yr is-bwyllgor drama, Mr Roland T. Jones, Glanafon, Porthaethwy, yn Ysgrifennydd, ynghyd â'r aelodau canlynol:

Miss Hughes, Llannerch-y-medd
Mr Llew Jones, Porthaethwy
Mr J.V. Lewis, Cemais
Mr Hugh Owen, Ysgol y Cyngor, Llansadwrn
Mr J. Owen, Ysgol y Cyngor, Llanfairpwll
Mr Llew Parry, Llandegfan
Mr W.J. Roberts, Llanddeusant

Mr W.T. Roberts, Cemais
Mr Llew Thomas, Amlwch
Miss Tutt, Ysgol Sir, Llangefni

O gofio mai diddori a phregethu dirwest a moesoldeb oedd prif nodweddion y ddrama Gymraeg yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, gellir yn awr edmygu menter yr is-bwyllgor drama yn sefydlu cystadleuaeth ddrama yn ystod gaeaf 1920-1 dan nawddogaeth yr Undeb. Ar lefel genedlaethol, cynhaliwyd y gystadleuaeth actio drama gyntaf yn Eisteddfod Bangor yn 1915, a honno yn gystadleuaeth a ohiriwyd er 1914. Yn dilyn llwyddiant Cwmni'r Ddraig Goch, Caernarfon, gyda'i berfformiad o *Beddau'r Proffwydi* (W.J. Gruffydd) ym Mangor, bu bwlch wedyn hyd Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1921, ac yng ngoleuni hyn rhaid cydnabod gweledigaeth yr is-bwyllgor drama yn trefnu cystadleuaeth ddrama ym Môn yr un flwyddyn.

Yng nghofnodion y pwyllgor gwaith a gynhaliwyd yn Llangefni, 13 Gorffennaf 1920, ceir yr adroddiad canlynol ar waith yr is-bwyllgor drama:

> ...it was resolved that the Executive Committee approve of these suggested Dramatic Competition, and offers a County Shield or piece of plate...to be competed for annually, but that they do not think it advisable to give money prizes. They are prepared to undertake the risk of the final performance at Llangefni. It was further resolved that the list of selected plays, and the choice of adjudicators be left to the Drama Committee...[10]

Cafwyd cefnogaeth lawn y Pwyllgor Gwaith ond fe synhwyrir fod peth amheuaeth ynglŷn â llwyddiant y fenter pan gyfeirir at '...the risk of the final performance...'. Rhaid cofio bod arian ac adnoddau'n brin ac er gwaethaf brwdfrydedd yr is-bwyllgor drama, gellir deall pryder y pwyllgor gwaith ynglŷn â chynnig gwobrau ariannol ynghyd â chostau'r cwmnïau. Yn Awst 1920, cyfarfu'r is-bwyllgor yn Nhŷ Coch, cartref Syr John Morris-Jones, a chytunwyd â dymuniad y pwyllgor gwaith i atal gwobrau ariannol. Yn hytrach na hynny penderfynwyd y dylid cynnig gwobrau ar ffurf 'grants in aid' i'r cwmnïau buddugol. Aethpwyd ymlaen i hysbysebu'r gystadleuaeth ac i annog cwmnïau i gystadlu.

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan gwmnïau Llangefni, Cemais, Porthaethwy, a Llannerch-y-medd, ond y funud olaf tynnodd Llannerch-

y-medd allan o'r gystadleuaeth. Yn Adroddiad yr Undeb am 1920-1, cyflwynwyd sylwadau ar y gystadleuaeth gyntaf hon:

> ...gobeithir y daw hon yn sefydliad blynyddol. Y mae'r Undeb wedi rhoi Draig arian[11] yn wobr i gystadlu amdani bob blwyddyn gan Gwmnioedd Drama y Sir. Y beirniaid[12] eleni oedd y Parchedig T. Shankland a Mr. S. J. Evans; yr oeddynt yn bresennol yn y rhagbrofion yng Nghemais, Llangefni a Phorthaethwy, ac yn y gystadleuaeth derfynol yn Llangefni. Wrth ddyfarnu Cwmni Drama Llangefni'n gyntaf, dywedwyd, "Bu'r gystadleuaeth yn symbyliad i berffeithio'r chwarae...Gallasai unrhyw un o'r tri yn hawdd fod yn oreu mewn cystadleuaeth o radd uchel. Mae ymhob un dalentau dramodol disglaer".[13]

Yn *Y Clorianydd*, 9 Mawrth 1921, ymddangosodd y feirniadaeth lawn ac ynddi cydnabyddir fod peth mantais gan gwmni Llangefni yn y prawf terfynol gan ei fod yn perfformio ar ei dir ei hun ar lwyfan Neuadd y Dref. Serch hynny, rhoddwyd y tri chwmni yn y 'dosbarth blaenaf'.

Hon, felly, oedd gŵyl ddrama gyntaf Môn. Er i adroddiadau'r cyfnod honni fod yr ŵyl yn llwyddiant, siomedig fu ymateb y cwmnïau lleol, ac er i H.O. Hughes a'i bwyllgor ddymuno ei gweld yn 'sefydliad blynyddol', dengys hanes mai cryn siomiant oedd yn eu disgwyl. Er na roddwyd rhesymau penodol dros ohirio'r gystadleuaeth yn 1921-2, ymddengys fod yr is-bwyllgor yn awyddus iawn i ailafael yn y syniad yn ystod 1922-3:

> Steps will be taken, early...to arrange some means of encouraging dramatic talent in the Island, probably through a competition next Winter.[14]

Awgrymir tri rheswm dros y diffyg diddordeb.

Ar ddechrau'r dauddegau, prin a chyfyngedig oedd adnoddau'r pentrefi o safbwynt neuaddau. Cyntefig oedd y llwyfannau ynddynt, ac roedd eu goleuo'n gofyn am gryn ddyfeisgarwch. Roeddynt hefyd yn ddigysur ac oer. Gan fod y prawf terfynol yn debygol o gael ei gynnal yn flynyddol yn Llangefni, hawdd yw cydymdeimlo â'r cwmnïau bach yn ymatal rhag cystadlu. Anodd ac annheg fyddai disgwyl i'r cwmnïau hyn roi o'u gorau ar lwyfan eang Neuadd y Dref er iddynt, efallai, lwyddo i roi perfformiadau caboledig yn y rhagbrofion ar eu llwyfannau eu hunain. Heb unrhyw fath o ymarfer ymlaen llaw ar lwyfan Neuadd y Dref, byddai symudiadau, amseru a grwpio llwyfan y cwmnïau yn sicr o gael eu heffeithio gan ehangder y lle.

Er i'r Undeb gael ei sefydlu i hyrwyddo gweithgarwch cymdeithasol, addysgol a diwylliannol y sir, gellir amgyffred fod effaith a cholledion y Rhyfel Mawr yn parhau i lesteirio brwdfrydedd ac ysbryd y cymunedau gwledig. Yn sicr, roedd angen dyfodiad cenhedlaeth arall i wir adfywhau unrhyw weithgaredd dramatig.

O safbwynt yr Undeb ei hun, mae lle i amau bod costau'r ŵyl gyntaf wedi bod yn fwy na'r hyn a ddisgwylid a hynny er i'r penderfyniad gael ei wneud i atal gwobrau ariannol. Am feirniadu talwyd chwe gini i Mr. S.J. Evans a phum gini i'r Parchedig T. Shankland. Ar ben hyn, rhoddwyd 'grants in aid' gwerth ugain punt i gwmni Llangefni, pymtheg punt i gwmni Tysilio, a deg punt i gwmni Padrig.

Ar ôl cwta ddwy flynedd ers ei sefydlu, eglurwyd yn Adroddiad yr Undeb am 1922-3 fel y bu'n rhaid i'r is-bwyllgor ystyried newid y drefn os ydoedd am sicrhau dyfodol yr ŵyl ddrama ' ...[a] denu cwmnïau o'r pentrefydd lleiaf i ymgeisio...y gaeaf hwn'.

I'r perwyl hwn, ac yn hytrach na dewis un ddrama hir a fyddai, o bosibl, yn gofyn am nifer fawr o actorion – sefyllfa a fyddai tu hwnt i adnoddau'r pentrefi lleiaf – dewisiwyd dwy ddrama fer o waith y cadeirydd, H.O. Hughes. Gobeithid, mae'n debyg, y byddai'r cysylltiad lleol yn hybu'r brwdfrydedd. Trwy ddewis *Coron y Bardd*[15] ac *Yr Unig Fab* (1914) rhoddwyd rhyddid i'r cyfarwyddwyr, pe dymunent, gastio yr un actorion ar gyfer y ddwy ddrama, a thrwy hynny gobeithid denu'r pentrefi llai i gystadlu. Roedd gweledigaeth yr is-bwyllgor yn eithaf dychmygus a chafwyd ymateb pur galonogol. Anfonodd pum cwmni eu henwau i mewn, ond tynnodd pedwar yn ôl gan adael Cwmni Padrig yn unig yn y gystadleuaeth. Am eu hymdrech, dyfarnodd y beirniad, Gwynfor, y wobr gyntaf o ddeg punt i Gwmni Padrig ynghyd â Thlws y Ddraig i'w gadw am flwyddyn.

Gellir cydymdeimlo â'r is-bwyllgor yn ei siomedigaeth a'i benbleth. Ar ddiwedd cyfnod o dair blynedd, roedd perygl i'r siom droi'n anobaith, ac i'r weledigaeth o sefydlu cystadleuaeth flynyddol gael ei chwalu'n yfflon. Yn wir, gellid dadlau mai dyna'n union a ddigwyddodd. Yn Adroddiad 1923-4, fe nodir bod ysgrifennydd yr is-bwyllgor, Mr. Roland Jones, wedi ymddiswyddo a bod Miss Madge

Owen wedi cymryd ei le. Ni chynhaliwyd cystadleuaeth y tymor hwnnw.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf ei fodolaeth, roedd yr Undeb wedi mynd ati i greu casgliad o ddramâu, ac i'r pwrpas hwn fe glustnodwyd swm o arian yn flynyddol. Byddai'r dramâu hyn ar gael i unrhyw gwmni i'w benthyca, a thrwy hynny gobeithid hwyluso'r dasg o ddewis drama yn ogystal â lleihau'r costau. Ond, yn ôl Adroddiad yr Undeb am 1924-5, ac am yr ail flwyddyn yn olynol, ni chynhaliwyd cystadleuaeth ddrama yn ystod y tymor er i'r Undeb ymuno â'r 'British Drama League' er mwyn i gwmnïau'r ynys '...gael pob mantais sydd gan y League i'w chynnig'. Yn yr un Adroddiad eglurwyd fel y bu i'r ysgrifennydd newydd '...ymweld â nifer o gwmnïau yn ystod y Gaeaf, a [chael] eu bod yn llawn gwaith'.

Awgrymir bod cryn frwdfrydedd yn bodoli ymysg y cwmnïau, ond eu bod yn gyndyn o ymweld â threfi a phentrefi eraill, boed hynny i gystadlu neu i ddifyrru. Yn Adroddiad 1925-6, mae'n amlwg bod yr ŵyl ddrama, fel gŵyl annibynnol, wedi bod yn fethiant a bod yr Undeb, yn ei ymdrech i hybu y gweithgaredd dramayddol lleol, wedi mynd ati, yn hytrach, i ganolbwyntio ar ochor adloniadol y ddrama yn y sir drwy ddosbarthu rhestr '...o'r Cwmnïau sy'n barod i roi perfformiadau tu allan i'w hardaloedd eu hunain'.

Roedd 1926 yn garreg filltir nodweddiadol yn hanes Tlws y Ddraig. Yn Adroddiad 1925-6 ceir y dystiolaeth gyntaf o gysylltiad y gystadleuaeth ddrama ag Eisteddfod Môn. Dros y Sulgwyn, 1926, cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Llanfairpwll a chynhwyswyd y gystadleuaeth ddrama yn y testunau. Yn ôl yr Adroddiad, penderfynwyd y byddai'r Ddraig Arian yn cael ei chyflwyno

> ... i'r Cwmni o Fôn a gaiff y marciau uchaf yn y gystadleuaeth ynglŷn ag Eisteddfod Llanfair.'

Gyda Gwynfor a Dewi Meirion yn beirniadu, a phedwar cwmni yn cystadlu, enillwyd Tlws y Ddraig gan Gwmni Tysilio am ei berfformiad o ddrama T.D. Davies, *Y Pwyllgor*.

Diddorol yw nodi i Dlws y Ddraig gael ei gyflwyno am y tro olaf yn Eisteddfod Môn Caergybi, 1997, am berfformiad o ddrama 'un act na chymer mwy na 40 munud'.[16] Wedi i'r ŵyl ddod yn ŵyl annibynnol

unwaith eto yn ystod y pedwardegau a'r pumdegau, dychwelodd am yr eildro yn rhan o weithgaredd Eisteddfod Môn ymhellach ymlaen.

Yn 1927 aethpwyd un cam ymhellach. Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal yng Nghaergybi y flwyddyn honno, penderfynwyd cynnig Tlws y Ddraig ynghyd â gwobr ariannol i'r cwmni o Fôn a enillai y marciau uchaf yng nghystadleuaeth ddrama yr eisteddfod. Ond gan mai dim ond cwmni Llannerch-y-medd oedd yn cystadlu, gohiriwyd y gystadleuaeth hyd Eisteddfod Môn Biwmares yn 1928. Gellir dychmygu siom a digalondid H.O. Hughes a'i bwyllgor. Fodd bynnag, roedd gwell i ddod ymhen blwyddyn.

Ar gyfer Eisteddfod Môn Biwmares, gofynnwyd i'r Parchedig John Pierce a Caerwyn feirniadu cystadleuaeth y ddrama. Ni ellir amau arbenigrwydd Caerwyn fel arweinydd eisteddfodau nac, ychwaith, ei ddawn fel bardd, ond anodd yw deall pam y dewiswyd ef i feirniadu cystadleuaeth yn ymwneud â'r ddrama. Hyd y gwyddys, dyma'r unig dro iddo wneud hynny. Yn y wasg,[17] caed adroddiadau am yr eisteddfod neilltuol hon, ac ynddynt crybwyllir bod deg cwmni wedi cystadlu. Dyfarnwyd Tlws y Ddraig a gwobr o ddeuddeg punt i gwmni Tysilio, gyda chwmnïau Deudraeth, Llangoed a Bodedern yn ail, trydydd a phedwerydd.

Er bod is-bwyllgor drama yr Undeb wedi cadw cysylltiad â'r gystadleuaeth ddrama, ceir yr argraff bod y cyfrifoldeb cystadleuol wedi disgyn fwyfwy ar Gyngor Eisteddfod Môn ac mai o dan fantell yr eisteddfod y cynhaliwyd y gystadleuaeth yn ystod y tridegau. Ceir tystiolaeth o hyn yng nghofnodion Pwyllgor Gwaith yr Undeb[18] am y flwyddyn 1931-2 pryd y cynigiwyd Tlws y Ddraig i bwyllgorau gwaith Eisteddfod Môn Caergybi (1932) a Phorthaethwy (1933) ar gyfer eu cystadlaethau drama ar yr amod fod y Tlws i'w ennill gan y cwmni drama gorau o Fôn a oedd yn gysylltiedig â'r Undeb.

Yng nghanol Rhagfyr 1932, bu farw Mr. H.O. Hughes a bu ei swydd fel Cadeirydd yn wag hyd nes i is-bwyllgorau llên a drama uno dan gadeiryddiaeth Mr. John Owen, Llanfairpwll, yn ystod 1934-5.

Yn yr adroddiadau blynyddol ceir tystiolaeth gynyddol mai polisi'r Undeb oedd hybu celfyddyd y ddrama yn hytrach na threfnu cystadlaethau. Yn ogystal â pharhau i brynu copïau o'r dramâu

diweddaraf, rhoddwyd pwyslais ar annog unigolion i fynychu Ysgolion Drama. Yn ystod mis Hydref 1928, er enghraifft, un yn unig a fanteisiodd ar ysgoloriaeth gwerth £1.5.0 i fynd i Goleg Harlech, a gwariwyd £0.16.7 ar lyfrau yn ymwneud â'r ddrama. Yn ystod blwyddyn ariannol 1929-30, fodd bynnag, manteisiodd chwech ar grantiau i fynychu'r Ysgol Ddrama yn Harlech am gost o £8.13.0, ac fe wariwyd £1.13.5 ar lyfrau.

Yn Adroddiad 1929-30, ceir sylwadau pur feirniadol ynglŷn â hynt a helynt y ddrama ym Môn:

> Y DDRAMA. Dywed Mr. R. D. Parry (Ysg.) fod mwy o ymdrech a diddordeb wedi ei gymryd yn y ddrama y tymor hwn. Mae gan bob pentref ei gwmni drama...Yn anffodus perfformiwyd llawer drama israddol gan amryw gwmnïau; mae'n hen bryd iddynt gael eu dileu, a dylid cymryd mwy o ofal i ddewis dramodau da o hyn allan. Mae safon actio ym Môn yn uwch na'r cyffredin, ac mae gwelliant yn nhrefniad y llwyfan, ond mae angen am feirniadaeth oleuedig ar y ddrama. Bu rhaid rhoi gorau i'r gystadleuaeth o ddiffyg cystadleuwyr...

Mae'r hyn a ddywed R.D. Parry am safon cyffredinol y dramâu yn sicr o fod yn agos iawn i'w le. Roedd am i'r cyfarwyddwyr lleol gymryd '...mwy o ofal i ddewis dramodau da...' o hynny ymlaen. Ond mae lle i amau a oedd '...safon actio ym Môn yn uwch na'r cyffredin...'. Anodd yw deall sut y medrai'r ysgrifennydd haeru hyn. Gan fod yr ymateb cystadleuol wedi bod yn dra siomedig yn ystod y dauddegau pryd y gwelwyd dim ond dau neu dri o gwmnïau Môn yn barod i gystadlu, diddorol fuasai cael gwybod ar sail beth yn union y gwnaed y gosodiad. Efallai i arbenigwyr fel Gwynfor a Cynan fynegi barn ar safon yr actio o bryd i'w gilydd. Buddiol fyddai gwybod beth oedd safon cwmnïau Môn o'u cymharu â safonau cwmnïau eraill yng Nghymru, ond gellir deall teyrngarwch ysgrifennydd yr is-bwyllgor drama yn canu clodydd gwaith sylweddol yr Undeb dros achos y ddrama ym Môn.

Yn ei ymdrech i annog ac i wella celfyddyd y ddrama ym Môn, manteisiodd yr Undeb ar bob cyfle, ac yn ei Adroddiad am 1934-5, ceir enghraifft o'r modd y bwriadai fynd ati i gyflawni hynny:

> Rhoddodd myfyrwyr Cwmnïau Drama Llanfairpwll, Niwbwrch a Phorthaethwy, o dan hyfforddiant Cynan, arddangosfa wych o ddawn dramatig Môn yn eu perfformiad o dair drama yng Ngholeg y Gogledd. Un o'r dramâu a berfformiwyd ydoedd Anterliwt Twm o'r Nant, "*Tri Chryfion Byd*"...

Er bod hyn eto yn cadarnhau barn R.D. Parry am safon yr actio ym Môn fe geir, ar yr un gwynt, y nodyn siomedig canlynol yn yr un adroddiad:

> Yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i gael Cystadleuaeth Ddrama i'r cwmnïau yn y Sir, ond yn anffodus ni welwyd y ffordd yn glir i drefnu hynny.

Mae'n amlwg i'r diffyg ymateb cystadleuol beri cryn benbleth i'r Undeb. Wedi pymtheng mlynedd o ymdrechu i sefydlu gŵyl ddrama sefydlog yn y sir, fe synhwyrir nodyn o ddigalondid yn Adroddiad 1935-6:

> ...Yn ystod y gaeaf, ymdrechodd y Pwyllgor i drefnu Gŵyl Ddrama. Cynigiwyd gwobreuon helaeth, ond drwg gennym ddweud mai ychydig o gefnogaeth a gafwyd gan Gymdeithasau'r Undeb. Anodd deall sut na chymerai'r cwmnïau drama fwy o ddiddordeb yn yr Ŵyl a drefnwyd i roi cyfle iddynt ddangos eu gallu, ac ar yr un pryd i weled actio'r cwmnïau eraill. Gohiriodd y Pwyllgor yr Ŵyl hyd y flwyddyn nesaf, pryd y gobeithir y bydd mwy o sêl.

Yn ystod 1936-7, er i bump ar hugain fynychu'r Ysgol Undydd Ddrama yng Ngwalchmai dan gyfarwyddyd Cynan, ni chynhaliwyd yr ŵyl ddrama.

Mewn Pwyllgor Gwaith, ddydd Iau, 20 Hydref 1938, darllenwyd llythyr ymddiswyddiad R.D. Parry fel ysgrifennydd yr is-bwyllgor llên a drama, ac o fewn naw mis disgynnodd y llen ar Undeb Neuaddau Pentrefol a Chyngor Poblogaeth Wledig Môn.

Cynhaliwyd yr ugeinfed o Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb[19] yn sinema yr Arcadia, Llangefni, 29 Mehefin 1939, pryd y trafodwyd cynnwys y llythyr canlynol a ddarparwyd, ar ran y Pwyllgor Gwaith, gan y Cadeirydd, Mrs Stanley Davies, Y.H.:

ANGLESEY UNION OF VILLAGE HALLS
AND RURAL COMMUNITY COUNCIL

June, 1939

Dear Sir or Madam,

The Anglesey Union of Village Halls was founded in the year 1919. After twenty years' work, the time has come, in the opinion of the Executive Committee, to review its activities, and to consider how far the Union is of real assistance to the Village Halls and Societies, and how much interest the constituent bodies take in the work of the Union.

It would be of the greatest help if each affiliated Hall and Society would send a full representation to the Annual Meeting, where the matter will be fully discussed, as it is very desirable to have their views.

These are some of the questions under consideration:

Do such bodies as the Workers' Educational Association and the Women's Institutes and the County Eisteddfod cover the same ground, and do the work which was formerly done by the Union?

Should the Union

(a) Continue in its present form (which is based on affiliated Societies)?

(b) Be wound up?

(c) Be reorganised on the lines of a Rural Community Council (which is based on representation of Public and Voluntary Bodies)?

If the Annual Meeting decides in favour of either (a) or (c), it would be possible to continue to secure grants and loans in aid of the erection of new Halls and the provision of Playing Fields, and for the extension of those already in existence.

Signed, on behalf of the Committee,

A. Morris-Jones *Hon. Secretaries*
D. Jones

Roedd yr Undeb eisiau gweld newidiadau'n digwydd. Yn ystod yr ugain mlynedd er sefydlu yr Undeb yn 1919, bu cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch a chyfraniad Dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr, Sefydliad y Merched ac Eisteddfod Môn i ddiwylliant y Sir ac, o'r herwydd, gellid dadlau bod amcanion yr Undeb wedi eu tanseilio gan y mudiadau hyn a hynny, yn aml, yn hollol anfwriadol. Ar ddiwedd cyfnod o ugain mlynedd roedd un o amcanion gwreiddiol yr Undeb, sef sefydlu neuaddau pentrefol a chanolfannau cymdeithasol, yn parhau i

fod yn un o'i phrif amcanion yn 1939, ond gyda rhyfel ar y gorwel go brin y gwelai'r Undeb ei ffordd yn glir i wireddu'r dyhead hwn.

Yn ystod y Cyfarfod Blynyddol penderfynwyd ad-drefnu'r Undeb yn unol â'r trydydd dewis yn y cylchlythyr, a chyda hynny sefydlwyd Cyngor Gwlad Môn. Ond ar 3 Medi 1939, gwnaethpwyd datganiad gan y Prif Weinidog, Neville Chamberlain, fod Prydain yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Yr Almaen. Roedd y sefyllfa yn adlewyrchiad o'r hyn a fodolai cyn, yn ystod, ac yn dilyn y Rhyfel Mawr; unwaith eto, byddai Môn yn sicr o gael ei rhwygo yn gymdeithasol, yn addysgol ac yn ddiwylliannol.

Galwyd ar wŷr ifanc y sir i ymladd dros eu gwlad, a byddai hyn yn rhoi cryn bwysau ar y gyfundrefn addysg ac ar gyfrifoldebau y Cyngor Gwlad newydd. Yn y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn niwedd Medi 1939, trafodwyd blaenoriaethau'r Cyngor Gwlad yng ngoleuni'r argyfwng rhyngwladol:

> 15 The Work of the R.C.C. during the winter months
> Owing to the outbreak of War, Mr Owen Parry, suggested that the work of the R.C.C. should be directed to the social problems arising out of the Evacuation Scheme. He was of the opinion that we should be prepared for the long term problem, ...[20]

Roedd awgrym Owen Parry yn hollol berthnasol. Golygai hyn fod angen mynd ymlaen yn ddiymdroi i ethol swyddogion ac aelodau, ynghyd â pharatoi cyfansoddiad newydd ac amcanion. Er bod cryn urddas a chyfrifoldeb yn gysylltiedig â swydd llywydd ac is-lywydd unrhyw gorff etholedig, mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar ei ysgrifennydd. Yn 1939 apwyntiwyd J.O. Jones i'r swydd hon ar delerau rhan-amser i ddechrau.[21] Pan sefydlwyd Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn yn nechrau 1919, awgrymwyd ar y pryd y dylid cyflogi, yn enwedig ar y dechrau, drefnydd neu ymgynghorwr a chanddo brofiad o fywyd pentrefol ac o sefydliadau cymdeithasol.[22] Er na chyflogwyd neb y pryd hynny, gwireddwyd yr awgrym gwreiddiol gyda phenodiad J.O. Jones. Fel Ysgrifennydd Cymdeithas Undeb Gweithwyr Môn ar y pryd, roedd 'J.O.' yn gyfarwydd â'r ynys, a chydnebydd mai David Taylor (1876-1963), eglwyswr pybyr a phrifathro ysgol gynradd ac ysgol ganol yn Llangefni o fis Awst 1897 hyd ei ymddeoliad fis Ebrill 1941, a'i perswadiodd i ymgymryd â'r swydd hon ar delerau rhan-amser.

Roedd David Taylor, mae'n rhaid, yn ymwybodol o ddoniau 'J.O.'. Yng ngwanwyn 1948, naw mlynedd wedi'r apwyntiad, cadarnheir hyn gan Cynan pan gyfeiria at 'J.O.' fel '...y gweledydd a'r trefnydd dihafal hwnnw...'[23]

Yn sicr, roedd 'J.O.'yn rhywbeth mwy nag Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn. Yn ystod sgyrsiau am y cyfnod gyda'r diweddar Edward Williams, cyn-gyfarwyddwr Cwmni Drama Llangefni, clywid ef yn aml yn cyfeirio at J. O. Jones fel gŵr oedd yn '...medru cael pobl eraill i wneud y gwaith'. Meddai 'J. O.' ar weledigaeth, ar frwdfrydedd ac ar y gallu i annog eraill i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Ar y 19 Hydref 1939, cyfarfu Pwyllgor Gwaith Cyngor Gwlad Môn i drafod ac i dderbyn y Cyfansoddiad newydd.[24] Etholwyd H.R. Davies, MA, YH, yn llywydd, John Jones, YH, yn is-lywydd, T.R. Whalley [Rheolwr Banc NP Llangefni] yn drysorydd, a J.O. Jones yn ysgrifennydd. Ond ynghlwm wrth swydd yr ysgrifennydd rhoddwyd yr hawl i'r Cyngor i

> ...apwyntio Ysgrifennydd sydd i roddi ei amser i gyd, neu ran o'i amser i waith y Cyngor a hynny am unrhyw gyfnod o amser sy'n angenrheidiol yng ngolwg y Cyngor. Gall y Cyngor hefyd dalu cydnabyddiaeth ariannol i'r Ysgrifennydd, yn ôl fel y barnent yn addas.[25]

Am ei wasanaeth yn ystod y flwyddyn 1940-1, rhoddwyd iddo gydnabyddiaeth o hanner cant o bunnau yn ogystal â'i gostau.[26]

Er gwaethaf yr amgylchiadau cymdeithasol a fodolai ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, sefydlwyd Cyngor Gwlad Môn gyda'r amcanion tymor-hir canlynol:

(a) I hyrwyddo buddiannau ardaloedd gwledig ym Môn drwy gynorthwyo'r awdurdodau a sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi addysg, sy'n ceisio gwell cyfleusterau i ddatblygiad corfforol iach, yn cefnogi'r crefftwyr gwlad, sy'n lliniaru caledi a achoswyd gan afiechyd neu ddiffyg gwaith, neu sy'n hyrwyddo unrhyw amcan arall sydd o natur cymwynasgar, yn ôl deddf gwlad.

(b) I geisio cydweithrediad cyffredinol er sylweddoli'r amcanion uchod ac er mwyn hynny i gynnull ynghyd gynrychiolwyr o bob awdurdod neu sefydliad sydd a'i fryd ar hyrwyddo'r amcanion uchod ym Môn.

(c) I ddatblygu a chefnogi bywyd cymdeithasol, adloniadol, ac addysgol y pentrefi.

Yn y bôn, ymgais oeddynt i wireddu dyheadau'r Undeb ugain mlynedd ynghynt. Yn sicr, roedd newidiadau cymdeithasol wedi digwydd yn y cyfamser ac roedd dyheadau a disgwyliadau'r boblogaeth ynglŷn â dyfodol ei phlant a'i phobl ifanc yn llawer mwy goleuedig.

Ym mis Mehefin 1949, ymddangosodd erthygl yn *The Times*[27] ac, o'i darllen, teimlir bod llawer o'i chynnwys yn berthnasol i'r testun sydd dan sylw. Ynddi fe'n hatgoffir o'r sefyllfa a wynebai'r *Welsh National Association of Reconstruction* ar ddiwedd y Rhyfel Mawr ac o natur cynnwys y cylchlythyr a ddosbarthwyd gan gangen gogledd Cymru o'r gymdeithas yn Chwefror 1919. Fe gofir mai codi ansawdd bywyd diwylliannol y cymunedau gwledig oedd prif amcan yr ad-drefnu, a chydag ymddangosiad Adroddiad Scott yn 1942 ar gyflwr cymdeithasol cymunedau o'r fath, caed cadarnhad o'r gwelliannau cymdeithasol oedd wedi digwydd rhwng y ddau ryfel byd ac o gyfraniadau arbennig Sefydliad y Merched, Y Lleng Brydeinig, a'r Cyngor Gwlad i'r cyfeiriad hwnnw:

> The Rural Community Council, now to be found in most counties, provides a centre for marshalling all organized endeavour for the improvement of village life and for promoting experiments ...
>
> The Women's Institutes and the British Legion ... are now probably the most influential of rural organizations ... the institutes have developed a wide range of activities that are essentially practical and yet add much to the richness of country life ...
>
> Between the wars these organizations developed rapidly, with an increasing social and cultural emphasis ...

Gellir dadlau bod y ddrama wedi chwarae rhan allweddol yn y datblygiadau diwylliannol hyn, a thrwy hynny wedi pwysleisio'r angen am well cyfleusterau ar gyfer cyflwyno dramâu, ac i'w gwylio. Gwerthfawrogwyd y broblem yn Adroddiad Scott ac eglurwyd yr hyn oedd wedi digwydd:

> Such a reawakening of village life created many problems, not least the need for premises. This wider and ampler social life needed places of assembly more suitable than the schoolroom. ... the answer was to build village halls...
>
> ... ultimately [1926] a national scheme of financial assistance was devised [based on the] essential idea ... that the village hall should exist to serve the whole village community and not any sectional interests. It was to be the focus in the village ...

Yn ystod deugain mlynedd cyntaf yr ugeinfed ganrif, llesteiriwyd gweithgareddau diwylliannol y Gymru wledig gan brinder canolfannau addas. Ar y gorau, cyfyngid y gweithgareddau i ystafelloedd bychain yr

ysgolion lleol neu i festrïoedd cyfyng y capeli a'r eglwysi. Ar gyfer cyflwyno dramâu, roedd llawer ohonynt yn hollol anaddas oherwydd maint eu llwyfannau. Roedd yna hefyd brinder ystafelloedd cefn llwyfan yn ogystal â diffyg llenni, set a goleuadau. Ceir tystiolaeth o hyn yn hanes y tri chwmni y soniwyd amdanynt eisoes. Tra manteisid ar ehangder llwyfan y New Hall yn Llannerch-y-medd a Neuadd y Dref yn Llangefni, cyfyngid yn sylweddol ar weithgareddau dramayddol Rhoscefnhir. Fe gofir, hefyd, am y problemau a wynebid gan y cwmnïau hyn yn ystod eu hymweliadau â phentrefi'r sir yn ystod y cyfnod. Roedd yr un broblem yn wynebu holl gwmnïau drama Môn y pryd hynny.

Yn dilyn ei sefydlu yn 1939, rhoddwyd pwyslais gan Gyngor Gwlad Môn ar wella cyfleusterau neuaddau'r sir. Yn Adroddiad y Cyngor Gwlad am 1940-1, adleisir peth o fyrdwn yr erthygl a ymddangosodd yn *The Times* yn 1949:

> Oherwydd y rhyfel nid yw'r Pwyllgorau Neuaddau Pentref yn cyfarfod cymaint, ond danfonwyd cylch lythyrau ynglyn ag Act Difrod Rhyfel 1941 i bob Pwyllgor Neuadd Bentref, a cheir cymorth pellach gan Gyngor Cenedlaethol Gwasanaeth Cymdeithasol yn y mater yma. Galwyd eu sylw hefyd at fanteision ymuno â'r Cyngor Gwlad – yn arbennig ynglyn a Cherddoriaeth, Drama a chyfarwyddyd. Dylid dangos na chyll y Pwyllgor Neuadd Bentref ddim o'i awdurdod wrth ymuno – hytrach ychwanegu at ei allu i gario'r gwaith ymlaen y mae wrth wneud hyn.[28]

Wrth ddarllen rhwng y llinellau, gellid dadlau fod peth amheuaeth ym meddwl aelodau pwyllgorau'r neuaddau lleol ynglŷn â swyddogaeth a bwriadau y Cyngor Gwlad. O'r herwydd, bu'n rhaid i'r Cyngor fynd ati i egluro i'r cynghorau plwyf natur y manteision cymdeithasol a diwylliannol a fyddai ar gael iddynt, ac nad bwriad y Cyngor Gwlad oedd tanseilio eu hawdurdod. Gyda pheth perswâd ar ran y Cyngor Gwlad, sefydlwyd tri is-bwyllgor yn ystod 1940-1, sef Pwyllgor Cyfarwyddol y Cynghorau Plwyf, Pwyllgor Cerddoriaeth, a Phwyllgor Drama.

Er i nifer o bwyllgorau eraill gael eu sefydlu maes o law, cyfyngir y sylwadau presennol i waith a chyfraniad y pwyllgor drama yn unig. Gyda hyn mewn golwg, cyflwynir tair agwedd ar gyfraniad y Cyngor Gwlad i ddatblygiad y ddrama yn y sir o 1941 ymlaen. Gellir dadlau mai un o brif amcanion y Cyngor Gwlad oedd mynd ati i wella cyflwr yr

hen neuaddau yn y sir, yn ogystal â chodi rhai newydd, gyda'r bwriad o'u defnyddio i lwyfannu dramâu. Drwy wneud hynny, gobeithid ysbrydoli'r cymunedau i gefnogi'r syniad oedd ar y gweill: sefydlu gŵyl ddrama sirol, newydd. Maes o law, byddai hynny hefyd yn arwain at sefydlu gŵyl ddrama genedlaethol yn y sir.

Os ydys am ddeall natur y datblygiadau oedd yn gysylltiedig â neuaddau pentrefi Môn o 1941 ymlaen, rhaid edrych yn ôl y tu hwnt, hyd yn oed, i sefydlu Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn yn 1919. Ar droad y ganrif, edrychid ar festri'r capel a neuadd yr eglwys fel canolfannau cymdeithasol y pentref. Ond, gydag ychydig eithriadau, cyfyng ac anaddas oeddynt ar gyfer llwyfannu dramâu.

Yn dilyn Deddf Addysg Ganolradd a Thechnegol 1889, rhoddwyd hawl i'r Cynghorau Sir sefydlu Ysgolion Canolradd drwy Gymru, a maes o law daethant i'w hadnabod fel Ysgolion Sir. Agorwyd y gyntaf yng Nghaernarfon yn 1894 ac, yn dilyn gwelliannau, daeth Ysgol David Hughes, Biwmares, yn Ysgol Sir ym Mai 1895. Agorwyd Ysgol Sir Llangefni yn 1900 a Chaergybi yn 1904. Yng nghynlluniau'r tair ysgol cynhwyswyd neuaddau, ond roeddynt yn gwbl anaddas ar gyfer llwyfannu dramâu. Yn Llangefni, er enghraifft, oherwydd anaddasrwydd neuadd yr ysgol, cynhelid yr eisteddfod flynyddol yn Neuadd y Dref. Yn ymarferol yn ystod y dydd fe'i defnyddid ar gyfer y gwasanaeth boreol, ymarferion y côr neu ar gyfer unrhyw gyfarfod ffurfiol arall. Tu allan i oriau'r ysgol, fe'i defnyddid ar gyfer pwyllgorau drama, darllen dramâu, ysgolion undydd ac ymarferion drama. Yn sicr, ni ellid ei defnyddio ar gyfer llwyfannu drama o flaen cynulleidfa. Fodd bynnag, roedd Llangefni a Chaergybi yn ffodus fod ganddynt neuaddau trefol mawr y gellid eu defnyddio i'r pwrpas hwnnw.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf yr ugeinfed ganrif, bu ambell bentref yn ffodus o dderbyn canolfan gymdeithasol newydd yn rhodd. Yn Nghemais, er enghraifft, agorwyd Neuadd Bentref David Hughes, ar 1 Awst 1899.[29] Fe'i lleolir yng nghanol y pentref; mae'n adeilad eang a thrawiadol a cheir ynddo neuadd eang yn ogystal â nifer o ystafelloedd llai. Er bod y neuadd yn addas o ran maint a chyfleustra i lwyfannu drama bentref, oherwydd yr agwedd negyddol a fodolai tuag at y ddrama y pryd hynny, nis defnyddid i'r pwrpas hwnnw.

Ym mis Mai 1899, priododd Edith Mary, merch ieuengaf Mr a Mrs David Hughes, Yr Wylfa, â'r Parchedig John Williams (1854-1921), Brynsiencyn, ac mae'n debyg yr edrychid ar gyflwyno'r neuadd newydd i'r ardal yn nechrau mis Awst fel rhan o'r dathliadau priodasol.

Ddydd Sadwrn y 9 Ebrill 1904, agorwyd neuadd newydd yn Llandegfan ac adroddwyd ar yr achlysur yn y wasg:

> Y mae plwyfolion Llandegfan yn falch iawn o'r neuadd newydd hardd, ynghyd â'r tir o'i hamgylch at wneud adlonfa, a anrhegwyd iddynt...gan roddwyr meddylgar a haelfrydig, Mrs Rathbone...bwriedir y neuadd i fod yn goffadwriaeth am ddiweddar briod Mrs Rathbone, Mr R.R. Rathbone, Lerpwl a Glan-y-Menai...rhoddwyd y tir o'i hamgylch gan ei mab hynaf, sef Mr Hugh Rathbone.
>
> Mesura yr ystafell 43 troedfedd o hyd wrth 22 troedfedd o led...[30]

Ynddi, hyd heddiw, cynhelir eisteddfod flynyddol Llandegfan.

Yn Niwbwrch, ar y llaw arall, agorwyd Sefydliad Prichard-Jones ddydd Gwener, y 30 Mehefin 1905. Roedd [Syr] John Prichard-Jones yn frodor o'r pentref, ac yn siopwr wrth ei grefft. Wedi ei brentisio yn siop Nelson yng Nghaernarfon, aeth i weithio i Lundain a dod, yn ddiweddarach, yn gyd-berchennog siop adnabyddus Dickens and Jones yn Stryd Regent yn y ddinas honno. Ond nid anghofiodd ei wreiddiau, ac fel gwerthfawrogiad o'i fagwraeth a 'blynyddoedd llwydd ei oes', cyflwynodd i bentrefwyr Niwbwrch a'r pentrefi cyfagos '...yr adeilad gwych a'r cartrefi clyd a glanwedd...yn nhreflan ei faboed'.[31] Ond er gwychder ac ehangder yr adeilad fel canolfan gymdeithasol, yr oedd yn anaddas o safbwynt llwyfannu dramâu.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif felly, bu peth cynnydd yn nifer neuaddau a chanolfannau cymdeithasol yr ynys, ond gellid dadlau mai ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i'w haddasrwydd ar gyfer datblygiad y ddrama ym Môn. Efallai y teimlid bod y festrïoedd a'r ysgolion lleol yn ddigon addas i'r pwrpas hwn. Rhaid cadw mewn cof, hefyd, mewn cyfnod o ddiwygiad a dirwest, yr edrychid ar y ddrama fel gweithgaredd amheus y dylid ei osgoi.

Ychydig a wnaed i wella cyfleusterau'r neuaddau ar hyd a lled y sir yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf; roedd anghenion a phryderon cymdeithasol pur wahanol yn hawlio sylw'r trigolion. Ond yn Chwefror 1919, fel y crybwyllwyd eisoes, dosbarthwyd cylchlythyr gan gangen

gogledd Cymru o'r *Welsh National Association for Reconstruction.* O ganlyniad, sefydlwyd Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn, ac fe gofir mai un o'i brif amcanion oedd sefydlu neuaddau a chanolfannau cymdeithasol yn y pentrefi.

Roedd bwriad yr Undeb yn arwyddocaol o gofio fod y cymunedau lleol hefyd â'u bryd ar wneud rhywbeth i goffáu y gwŷr ifanc a gollwyd. Ar furiau capeli ac eglwysi'r ynys gosodwyd cofadeiliau i goffáu'r aelodau a gollwyd, ac ar safleoedd amlwg yn nhrefi a phentrefi'r sir adeiladwyd cofebau trawiadol i'r un pwrpas. Perchid ac edmygid dyheadau y trigolion ond, ar yr un pryd, gellid dadlau nad oedd yr hyn a wnaethpwyd o unrhyw wir werth ymarferol o safbwynt dyfodol cymdeithasol a diwylliannol y cymunedau. Roedd angen rhywbeth amgenach. Yn ystod y dauddegau a dechrau'r tridegau aethpwyd ati i gasglu arian yn lleol gyda'r bwriad o adeiladu neuaddau a sefydliadau cymdeithasol a fyddai o ddefnydd ymarferol i bentrefwyr y dyfodol ac a fyddai ar yr un pryd yn coffáu y trigolion a gollasid. Dyma gyfnod sefydlu'r Neuaddau Coffa. Fodd bynnag, roedd addasrwydd y neuaddau hyn ar gyfer llwyfannu dramâu yn amrywio'n sylweddol o le i le.

O ran datblygiad y ddrama, roedd yr hyn a ddigwyddodd ym Modedern yn gam mawr ymlaen. Brynhawn Gwener, 19 Hydref 1923, dadorchuddiwyd cofadail i'r deunaw llanc o ardal Bodedern a gollwyd yn y Rhyfel Mawr, ac agorwyd y Neuadd Goffa gan y Capten Fox-Pitt, MC, ysgwier plasty Prysaddfed. Yn y wasg, cafwyd adroddiad am yr achlysur, a chofnodwyd bod Mrs. Lloyd George wedi ymweld â'r pentref yn Awst 1922, '...i agor nodachfa er chwyddo'r gronfa.'[32] Cyflwynwyd y berllan, lle codwyd y neuadd, gan deulu Prysaddfed. Yn yr un adroddiad fe'n hatgoffir o werth ymarferol y neuadd i'r gymdeithas leol:

> Ceir dau ddrws llydan i'r Neuadd, a dau arall yn y pen draw, a'r cwbl yn agor "at allan". Gellir dadgymalu'r llwyfan a'i droi'n "fyrddau te"- cynllun hwylus. Gyda phum ffenestr o bobtu daw goleuni'r dydd i mewn yn helaeth, a'r nos ceir llewyrch yr "accetylene gas". Gellir gosod ynddi eisteddleoedd i dros 400.

Yn Llanfairpwll, trafodwyd y syniad o adeiladu Neuadd Goffa yn 1918, ond bu'n rhaid aros hyd ddydd Mawrth, 23 Rhagfyr 1930, cyn i'r freuddwyd gael ei gwireddu gyda'r agoriad swyddogol[33] gan Ardalyddes

Môn yn absenoldeb ei mab, Iarll Uxbridge. Fe'i hadeiladwyd ar ffurf estyniad i'r hen Ysgol Fwrdd a safai y tu cefn i Gapel Rhos-y-Gad (MC). O gofio bod Syr John Morris-Jones (1864-1929) wedi marw y flwyddyn flaenorol, gellir ystyried y neuadd fel coffadwriaeth ddeublyg. Wrth sôn am y cydweithio hapus a fu ynglŷn â sefydlu'r neuadd dros nifer o flynyddoedd, cyfeirir ati fel '...lle mor hwylus a helaeth...'[34]

O safbwynt perfformio dramâu ynddi, roedd y disgrifiad hwn o'r neuadd yn hollol gamarweiniol ac ymhell o fod yn gywir. Cyfyng iawn, iawn yw'r brif ystafell ond fe'i defnyddir heddiw fel ystafell bwyllgor, ystafell ddarlithio ac yn achlysurol fel canolfan bleidleisio. Yn ogystal, fe'i defnyddir yn eithaf rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd mudiadau lleol, ond mae'n hollol anaddas ar gyfer llwyfannu dramâu. Fe gostiodd 1097p 16s [£1,097.80] i'w hadeiladu a thalwyd amdani drwy gynnal amrywiol weithgareddau lleol dros gyfnod hir o amser: rhoddion, benthyciad banc, a rhodd o 133p 6s 8d [£133.33] gan Gymdeithas y Neuaddau Pentref. Yn adroddiad y wasg[35] mae'n hollol berthnasol nodi mai Llanfairpwll oedd y pentref cyntaf ym Môn i dderbyn rhodd o'r fath.

Disgrifir y cyfnod rhwng 1930 a 1939 ym Mhrydain fel *The Threadbare Thirties*:

> At the start of the decade millions of Britons were cast into an inescapable morass of poverty. People struggled hard to keep their families fed, and harder still to preserve a shred of dignity while they did it...all the while, in the background, the trump of war was growing louder.[36]

Er mai cyfeirio yn bennaf at ardaloedd diwydiannol Prydain a wna'r disgrifiad, ni fedrai Cymru chwaith osgoi effeithiau'r diweithdra. Ym mis Awst 1932, cyhoeddwyd fod 42.8% o ddynion yswiredig Cymru yn ddi-waith; cyfanswm o 227,000 o weithwyr.[37] Yn ardaloedd diwydiannol Wrecsam a chymoedd y de roedd y ffigyrau yn llawer uwch, ac ni fedrai ardaloedd amaethyddol fel Môn lwyr osgoi'r effeithiau. Fodd bynnag, gyda sefydlu'r Bwrdd Marchnata Llaeth, 29 Gorffennaf 1933,[38] gobeithid y byddai gwell llewyrch ar y diwydiant amaethyddol. Serch hynny, roedd arian yn brin ac, o'r herwydd, ychydig o sylw a roddwyd i ddatblygiad neuaddau y sir.

Un o'r eithriadau oedd agor Neuadd Bentref Caergeiliog nos Sadwrn, 19 Gorffennaf 1930, am gost o £2,000. Unwaith eto ni fu angen mynd ar ofyn pwrs yr Undeb Neuaddau. Rhoddwyd y tir gan Mr T.G. Owen,[39] Penrhos Bradwen, a chyfranwyd £1,800 tuag at ei chodi '...gan y boneddwr nodedig am ei garedigrwydd at bob achos teilwng – Mr Griffith W. Hughes, Gwaelod Bach...'[40] Yn yr un adroddiad, eglurwyd fel y bu i Mr Hughes agor y 'neuadd hardd ac eang' ar ddiwrnod ei ben-blwydd yn ddwy a phedwar ugain, ac iddo ddatgan, yn ei anerchiad,

> ...mai ei uchelgais oedd gallu gwneud rhywbeth a fyddai o fudd i'r oes sy'n codi yn yr ardal, drwy ddwyn i'w gafael fanteision i ddatblygu eu talentau. Nid oedd yn ddrwg ganddo wario arian os drwy hynny yr hyrwyddid crefydd ac addysg a phopeth da drwy gyfrwng y neuadd newydd.
> ...Saif y neuadd yn ymyl capel y M.C., ac y mae'n ddigon helaeth i tua 400 o bobl. Gellir gosod llwyfan mawr yno. Y mae yno hefyd ystafelloedd bach hwylus yn y cefn.

Oherwydd ei lleoliad yn ymyl y capel fe'i hystyrid, yn gamarweiniol, fel neuadd y capel. Yn hytrach, fe'i hadeiladwyd fel neuadd bentref hollol anenwadol. Ac er iddi gael ei chodi ar ddechrau degawd economaidd a chymdeithasol anodd, roedd yr amgylchiad yn cydamseru i'r dim â'r deffro dramayddol yn y sir. Fe gofir i gwmnïau drama Capel Ifan, Llannerch-y-medd a chwmni Moreia, Llangefni, gael eu sefydlu tua'r un pryd. Gellir dadlau mai neuadd Caergeiliog oedd y neuadd bentref gyntaf i'w hadeiladu ym Môn gyda'r ddrama mewn golwg.

Yn Hydref 1939, ychydig dros fis ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd, cyfarfu Pwyllgor Gwaith Cyngor Gwlad Môn i drafod ac i dderbyn y Cyfansoddiad newydd. Yn hwnnw, fe gynhwysir prif amcanion y Cyngor o dan dri phennawd, ac er na chrybwyllir datblygiad y neuaddau pentref yn benodol, o fyfyrio dros y cyfansoddiad teimlir bod datblygiad o'r fath yn hollbwysig er sicrhau dyfodol cymdeithasol a diwylliannol yr ardaloedd gwledig. O gofio am betruster y pwyllgorau lleol i ymateb yn gadarnhaol i anogaeth a pherswâd y Cyngor Gwlad ynglŷn â chodi neuaddau, ceir braslun o gefndir yr anogaeth honno yn Adroddiad y Cyngor am 1941-2:

> Y mae neuadd yn sefydliad tra phwysig ym mywyd pentref, a phriodol yw i bentrefi sydd mewn angen un, neu atgyweirio rhai presennol, gadw mewn cyffyrddiad â'r Cyngor er sicrhau cyfarwyddid a phob gwybodaeth yn ei bryd...

Ond er gwaethaf holl frwdfrydedd y Cyngor ynglŷn â chodi neuaddau pentref ym Môn, yr oedd hi, unwaith eto, yn gyfnod o ryfel ac roedd y Cyngor yn llwyr ymwybodol o oblygiadau hyn:

> Lleihaodd y gwaith ynglŷn â'r neuaddau er dechrau'r rhyfel. Ond y mae nifer yn parhau i dalu eu cyfraniad blynyddol, a deallwn fod nifer o bwyllgorau yn awyddus i adeiladu neuaddau newydd ac eraill yn bwriadu helaethu y rhai sydd ganddynt.
>
> Gofid gennym orfod dweud mai amhosibl yw symud ymlaen ar hyn o bryd ond dylai'r pwyllgorau fod yn aeddfed gyda'r cynlluniau yn fuan wedi diwedd y rhyfel.[41]

Yn yr adroddiad uchod awgrymir bod nifer o'r pwyllgorau lleol wedi penderfynu mynd ymlaen i godi neuaddau, ac erbyn 1943-4 fe welir bod Aberffraw, Bryngwran a Llaingoch eisoes wedi dechrau hel arian, a bod Brynteg a Thynygongl wedi penderfynu gohirio'r casglu hyd ddiwedd y rhyfel. Yng nghymal olaf yr un adroddiad, ceir cadarnhad o ffydd y Cyngor Gwlad ym muddugoliaeth Prydain, bryd bynnag y digwyddai hynny.

Yn Adroddiad 1943-4 fe welir bod y Cyngor Gwlad yn hollol argyhoeddiedig ynglŷn â'r dylanwad y gallai neuaddau pentref ei gael ar fywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ynys:

> Pan eir i adeiladu Neuaddau y dyfodol rhaid cadw mewn cof mai canolfan gymdeithasol y pentref ddylai fod...Os ydym am weld bywyd pentrefol o gwbl yn y blynyddoedd nesaf rhaid gofalu ceisio ei wneud mor ddiddorol ac sy'n bosibl, a cham i hynny fyddai Neuadd bentref ar y patrwm priodol.

Mae'r geiriau hyn yn awgrymu, yn eithaf diamwys, fod y capeli a'r eglwysi yn dechrau colli gafael ar yr aelodau ifanc, a bod y culni crefyddol bellach yn llesteirio dyheadau cymdeithasol y to ifanc. Ond, ar yr un pryd, gellir dadlau bod y Cyngor, wrth awgrymu bod angen sicrhau '[p]atrwm priodol' i'r neuaddau newydd, yn awyddys iddynt gynnwys llwyfan ac adnoddau addas ar gyfer gweithgareddau dramayddol. Ceir cadarnhad o hyn bedair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach:

> Cynllunio Llwyfannau Neuaddau
>
> Penderfynwyd mewn cyd-weithrediad â'r Pwyllgor Drama i ddilyn ymlaen â'r arbrawf â wnaed yn Aberffraw gyda Dr Peter Spencer, trwy drefnu cyfres o gyrsiau ar gynllunio llwyfannau Neuaddau Pentref.[42]

O ganlyniad i'r sefyllfa economaidd drychinebus a fodolai ym Mhrydain, ynghyd â'r pryder ynglŷn â dyrchafiad Adolf Hitler yn Ganghellor Yr Almaen yn 1933, llesteirwyd cryn dipyn ar y datblygiadau diwylliannol ym Môn yn ystod y tridegau. Ond wrth edrych yn ôl, efallai i ddau apwyntiad a wnaed yn lleol yn ystod ail hanner y degawd chwarae rhan allweddol yn natblygiad y ddrama yn y sir. Gan fod y rhan arbennig yma o'r gwaith yn ymdrin â chodi neuaddau pentref a chanolfannau cymdeithasol, credir bod y ddau apwyntiad yn berthnasol i'r maes dan sylw.

Yn dilyn Deddf Addysg 1902, crewyd Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) yng Nghymru a Lloegr. Gyda Mr R.H. Williams yn Ysgrifennydd, cyfarfu Pwyllgor Addysg Môn am y tro cyntaf 1 Mehefin 1904. Er y byddai gan yr A.A.Ll. lawer mwy o reolaeth dros addysg y sir, cyfyngedig fyddai awdurdod a dylanwad yr Ysgrifennydd dros y datblygiadau.

Cyhoeddwyd Adroddiad Hadow yn 1926. Heb fanylu, digon yw dweud y byddai cynnwys yr Adroddiad yn bellgyrhaeddol, y byddai'n dylanwadu'n gryf ar sefydlogrwydd y gyfundrefn addysg, ac y byddai'n golygu llawer o waith darparu, cynllunio a gweinyddu yn lleol. Ar ddechrau'r ad-drefnu, ymddiswyddodd R.H. Williams yn 1928 ac fe'i dilynwyd fel Ysgrifennydd gan Mr William Griffith, tad yr actorion Hugh Griffith ac Elen Roger Jones. Bu farw Mr Griffith yn ei swydd yn Ionawr 1935. Gellir dadlau bod holl ofynion a goblygiadau Adroddiad Hadow wedi ei lethu. Yn ddi-os gofynnai yr holl newidiadau addysgol hyn am arweiniad cryf i'w gwireddu.

I wynebu'r sialens, penderfynodd y Pwyllgor Addysg yn Chwefror, 1935, hysbysebu, nid am Ysgrifennydd ond, yn hytrach, am Gyfarwyddwr Addysg. Roedd yn benderfyniad tyngedfennol os nad goleuedig. Allan o'r chwech ar hugain o ymgeiswyr, apwyntiwyd Edward Owen Humphreys (1900 - 1959) ym Mawrth 1935. O'r tri ymgeisydd a gyfwelwyd derbyniodd E.O. Humphreys bleidlais deugain o'r trigain aelod oedd yn bresennol.

Brodor o Gefnddwysarn ydoedd, ac fe'i penodwyd i'w swydd newydd yn dilyn cyfnod fel darlithydd yn y Coleg Normal ym Mangor.

Roedd Humphreys yn gymeriad cryf, penderfynol a di-ildio, a chyfrannodd yn helaeth i fywyd cyhoeddus, crefyddol a diwylliannol y sir. Roedd yn aelod o Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ef oedd llywydd pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol Môn yn 1957. Mae'n wir na fu ei yrfa fel Cyfarwyddwr Addysg y sir bob amser yn esmwyth ond, serch hynny, fe'i cydnabyddir fel dyn o weledigaeth ac arloeswr mentrus. Yn dilyn Deddf Addysg 1944, manteisiodd y Cyfarwyddwr ar beth amwysedd yng ngeiriad y Ddeddf a brysiodd ymlaen i sefydlu ym Môn, erbyn dechrau'r pumdegau, gyfundrefn o ysgolion cyfun.[43] O safbwynt y drafodaeth hon, ei weledigaeth ynglŷn ag addysg bellach sydd fwyaf perthnasol.

Daw'r datblygiadau addysgol hyn â ni yn ôl at yr ail apwyntiad, sef apwyntiad J.O. Jones fel Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn yn 1939. Er bod E.O. Humphreys a J.O. Jones yn meddu ar bersonoliaethau pur wahanol, sefydlwyd perthynas glòs ac adeiladol rhwng y Pwyllgor Addysg a'r Cyngor Gwlad, ac roedd yr ymgyrch i adeiladu neuaddau pentref i chwarae rhan amlwg ac allweddol yn y berthynas honno.

Yn ôl adroddiad y Cyngor Gwlad am 1946-7,

> [g]welwyd deffroad ym mhentrefi'r sir o blaid sefydlu canolfannau cymdeithasol a neuaddau...Gobeithiwn weld pob pentref yn y sir gyda chanolfan hwylus i'r pwrpas...[44]

Gellir bod yn eithaf sicr bod llwyfannu dramâu yn rhan o'r 'pwrpas' hwn yng ngolwg y Cyngor Gwlad.

Mewn rhai ardaloedd dechreuwyd ffurfio cronfeydd lleol ar gyfer codi canolfannau o'r fath. Caed tystiolaeth o hyn ym mhentref Aberffraw, er enghraifft. Pan agorwyd Neuadd Glannau Ffraw, ddydd Sadwrn, 8 Chwefror 1958,[45] gan Mr E. Duerr, Warren Point, cyfeiriodd yn ei araith at y ffaith iddo dreulio pedair blynedd ar ddeg yn gysylltiedig â'r ymgyrch i godi neuadd newydd yn y pentref. Oherwydd y gostyngiad yng ngwerth y bunt dros y cyfnod, aeth ymlaen i egluro yr anawsterau ariannol a wynebai trigolion Aberffraw.

Yng ngoleuni'r ad-drefnu cymdeithasol arfaethedig yn dilyn y rhyfel, rhoddwyd ar ddeall i'r pwyllgorau lleol gan y Cyngor Gwlad y byddai grantiau ar gael oddi wrth Gronfa Carnegie, Arian y Degwm a Phwyllgor Addysg y Sir tuag at godi canolfannau a neuaddau. Byddai'r

grantiau hyn yn amodol, mae'n debyg, a byddai gofyn i'r ardaloedd eu hunain gyfrannu at gost eu codi drwy sefydlu cronfeydd yn lleol. Ond mewn rhai ardaloedd, byddai sefydlu cronfa leol yn anodd. Yn yr ardaloedd hynny, byddai modd darparu neuaddau 'dros dro' i'w gosod ar rent i'r pwyllgorau lleol. Byddai cynllun o'r fath yn ysgafnhau'r baich ariannol ar yr ardaloedd a'r pentrefi llai poblog a llai breintiedig eu hadnoddau. Yn ogystal, golygai'r cynllun y byddai neuaddau o'r fath yn cael eu codi ar gost o tua £2,000 yr un ac y byddent yn barod i'w defnyddio mewn byr o dro. Manteisiwyd ar y cynllun gan Laingoch, Pentraeth, Rhoscolyn a'r Talwrn.[46]

Yn ystod 1948-9, codwyd gobeithion ardaloedd gwledig Môn pan ddatgelodd y Pwyllgor Addysg ei gynlluniau ar gyfer Addysg Bellach yn y sir:

> Efallai mai'r digwyddiad pwysicaf yn hanes ardaloedd gwledig Môn yw'r ffaith fod Pwyllgor Addysg y Sir wedi cyflwyno eu hawgrymiadau ar ddarpariadau Addysg Bellach i sylw'r Weinyddiaeth Addysg. Fe gynnwys argymhellion a weddnewidia fywyd ardaloedd gwledig. Ni ddylai fod nac ardal na chylch ym Môn heb ganolfan neu neuadd hwylus fel cyfleustra i feithrin a chadw'n fyw y bywyd pentrefol.
> Gellir dewis rhwng dau gynllun
> naill ai (1) darpariaeth gyfangwbl gan y Pwyllgor Addysg Lleol trwy adeiladu a chynnal
> neu (2) trwy gyfraniadau gwirfoddol a grantiau'r Weinyddiaeth Addysg ac unrhyw gronfa leol arall.
> Gweinyddir y ganolfan o dan y ddau gynllun gan Bwyllgor Lleol o gynrychiolwyr o fysg mudiadau a ffynna yn y fro.[47]

Ond byrhoedlog fu'r cyfnod o lawenhau. Erbyn diwedd y pedwardegau roedd sefyllfa gyllidol Prydain yn fregus a defnyddiau adeiladu yn brin. O'r herwydd, sylweddolwyd y byddai'n rhaid cwtogi ar nifer o brosiectau adeiladu a diddymu eraill yn gyfan gwbl. Daeth diwedd ar y cynllun o adeiladu neuaddau 'dros dro' ym Môn, ond nid cyn i Bentraeth, Talwrn a Llaingoch fanteisio ar eu cyfle. Er bod symud ymlaen yn ystod hanner cyntaf y pumdegau i adeiladu neuaddau newydd yng Nghaergeiliog, Llangaffo, Llanfachraeth, Aberffraw a Thynygongl, cyndyn iawn oedd y Weinyddiaeth Addysg i ryddhau grantiau i'r pwrpas hwn.

Efallai bod y datblygiadau diweddaraf yng nghyfundrefn addysg y sir yn rhannol gyfrifol am lesteirio'r ymgyrch i godi neuaddau pentref. Rhaid cofio bod E. O. Humphreys, er ei fod yn aelod o Bwyllgor Gwaith

y Cyngor Gwlad, â'i fryd ar sefydlu ysgolion cyfun ym Môn yn dilyn Deddf Addysg 1944. Yn Awst 1950, sefydlwyd ysgol gyfun yng Nghaergybi. Rhwng 1950 a 1953, sefydlwyd Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, ac ym Medi 1953 agorwyd drysau Ysgol Gyfun Llangefni. Ac er na chafodd y Cyfarwyddwr Addysg fyw i weld gwireddu ei freuddwyd o gael pedair ysgol gyfun yn y sir, agorwyd Ysgol Gyfun David Hughes ym Mhorthaethwy, Medi 1962. Agorwyd Ysgol Gyfun Bodedern yn 1977.

Ond, ni ddylid bod yn rhy lawdrwm ar y Pwyllgor Addysg, oherwydd fe ddeilliodd manteision diwylliannol a dramayddol o'r ysgolion newydd hyn. Yn nechrau'r ugeinfed ganrif fe gofir bod neuaddau wedi eu cynnwys yng nghynlluniau Ysgolion Sir Biwmares, Llangefni a Chaergybi, ond eu bod yn hollol anaddas ar gyfer llwyfannu dramâu. Ni wnaethpwyd camgymeriad cyffelyb gyda neuaddau'r ysgolion cyfun newydd.

Roeddynt yn neuaddau eang gyda lle ynddynt i eistedd cannoedd o blant yn ystod y dydd ac oedolion gyda'r nos. Yn y cynlluniau, cynhwyswyd llwyfannau helaeth ynghyd â sustemau goleuo a sain o safon uchel. Gwisgwyd pob llwyfan â llenni addas. Gellir dadlau bod y neuaddau newydd, mewn llawer ystyr, wedi cymryd lle'r neuaddau bach pentrefol a fodolai ym mhob dalgylch. Yn ddelfrydol, dylasai'r ysgolion cyfun gynnig gwell cyfleusterau i lwyfannu dramâu i fwy o ddisgyblion na'r hyn a gynigiai yr hen ysgolion sir a'r ysgolion eilradd modern. Gobeithid y deuent yn ganolfannau cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd o'u cwmpas.

Erbyn 1953, roedd Is-Bwyllgor Neuaddau wedi ei sefydlu ac un o'i flaenoriaethau oedd annog a chynghori'r pwyllgorau lleol ynglŷn â chodi neuaddau. Yn ystod 1952-3 gwnaethpwyd arolwg syml o neuaddau'r sir ac fe'i rhestrwyd yn unol â'r dosbarthiad canlynol:[48]

| Neuaddau Pentref | Neuaddau Cyhoeddus | Sefydliadau | Pwyllgor Addysg | Eraill |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 3 | 6 | 4 | 24 |

Ac eithrio'r pumed dosbarth, ni cheir fawr o drafferth deall natur y dosbarthiad hwn. Hyd y gwyddys, nid oes tystiolaeth ar gael i egluro cynnwys y pumed dosbarth, ond teg awgrymu mai at festrïoedd addoldai mwyaf yr ynys y cyfeirid.

Mae'n hawdd barnu penderfyniadau'r gorffennol, ond gellid dadlau ei bod hi'n rhy hwyr i sefydlu is-bwyllgor Neuaddau yn 1953 gyda'r bwriad o hyrwyddo gweithgaredd dramatig. Ond mae'n rhaid cofio, wrth gwrs, nad ar gyfer hybu'r ddrama yn unig y bwriadwyd codi neuaddau. Roedd mwy i ddiwylliant lleol na drama, ac yn 1946 mynegwyd cryn bryder ynglŷn â'r bygythiadau i'r diwylliant hwnnw:

> Nid oes ball ar ymdrechion i gadw'n fyw fywyd cymdeithasol y pentrefi gwledig...Cyfeirir yn aml at y dylanwadau estronol sy'n bygwth y bröydd gwledig a'r dylifiad sy'n dod o'r wlad i'r dref. Ofnir y gwelir llu o ieuenctid yn mudo i'r trefi, a thrwy hynny, cyll y pentrefi fêr eu bywyd. Gobeithir y bydd yr ymdrechion o blaid sicrhau neuaddau a chanolfannau cymdeithasol yn gyfrwng i wrth weithio peth o'r dylifiad yma.[49]

Erbyn canol y pumdegau, ymddangosodd bygythiadau llawer mwy dyrys i fywyd y cymunedau gwledig. Yn ôl Cyfrifiad 1961, roedd nifer cynyddol o Saeson wedi ymgartrefu ym Môn, yn arbennig felly ar hyd y glannau. Yr oedd hyn yn fygythiad i iaith a diwylliant y cymunedau hyn ac, o'r herwydd, byddai'n orfodol i'r cymunedau lleol addasu'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol iddo. Yn ddramayddol, roedd dyddiau'r cwmnïau teithiol yn prysur ddirwyn i ben a llai o alw am eu gwasanaeth ar lwyfannau'r sir. Roedd agor y Theatr Fach yn Llangefni yn 1955 yn adlewyrchu'r newid hwn. O hyn ymlaen, disgwylid i'r bobl fynd at y ddrama yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. O'r herwydd, gwelwyd llai o ddefnydd yn cael ei wneud o adnoddau dramayddol y neuaddau pentref. Ond, er gwaethaf y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol a dramayddol oedd ar droed, agorwyd Neuadd Glannau Ffraw yn 1958, a Neuadd Goffa Goronwy Owen yn Nhynygongl yn 1959. Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Eisteddfod Môn Bro Goronwy 1994 yn y naill, a Gŵyl Ddrama Eisteddfod Môn Aberffraw 2003 yn y llall. Yn 1959, agorwyd Neuadd Bentref Llanfachraeth. Roedd y tair yn neuaddau eang ac amlbwrpas. Ar ddechrau'r chwedegau, fe welir bod anogaeth a gweledigaeth y Pwyllgor Neuaddau yr un mor frwdfrydig ynglŷn ag amcanion gwreiddiol y Cyngor Gwlad yn ôl yn 1939:

> Ni bu adeg erioed â mwy o angen canoli bywyd cymdeithasol y fro a'r dref wledig, yn bennaf oherwydd atyniadau sy'n bygwth pob uned wir draddodiadol...eithr am y bywyd cymdeithasol dyry'r Neuadd Bentref gyfle i ganoli a dwyn ynghyd, mewn gweithgarwch diwylliannol, rai o bob plaid a sect.

> ...sicrhau fod y neuadd yn cyfarfod â gofynion ein cyfnod...trefnu rhaglen addas o weithgarwch at chwaeth y pentrefwyr.
> Dyma...oedd bwriad sylfaenwyr y Cyngor hwn.[50]

Erbyn canol y pumdegau a dechrau'r chwedegau, roedd ymweliadau yr hen gwmnïau teithiol yn prysur ddirwyn i ben ynghyd â llawer o'r brwdfrydedd dramayddol lleol, a gwelwyd bod anghenion a diddordebau cymdeithasol yr ardaloedd gwledig wedi newid gyda'r blynyddoedd. Nid oedd galw bellach am neuaddau i berfformio dramâu ynddynt. Ond ceid rhai eithriadau. Yn ystod 1965-6, er enghraifft, trowyd hen sinema Rhosneigr yn neuadd, ac aethpwyd ymlaen i gael neuadd newydd ym Mae Trearddur. Ond eithriadau oedd y rhain; caewyd a gwerthwyd neuaddau Rhoscolyn a Llanbedrgoch.

Yn dilyn arolwg yn 1966-7, rhestrwyd un ar ddeg ar hugain o neuaddau yn y sir. O blith y rhain, dim ond llond dwrn a fyddai'n croesawu dramâu i'w llwyfannau.

O dan gadeiryddiaeth Mr H.O. Hughes, fe gofir mai un o brif amcanion is-bwyllgor drama Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn oedd sefydlu gŵyl ddrama flynyddol yn y sir gan ddechrau yn ystod gaeaf 1920-1. Bwriedid cynnal y perfformiadau terfynol yn Neuadd y Dref, Llangefni. Penderfynwyd, hefyd, na fyddai gwobrau ariannol yn cael eu cynnig. Er ei bod yn fenter glodwiw, fe gofir mai anwastad iawn fu'r ymateb. Erbyn canol y dauddegau fe geisiwyd goresgyn y diffyg diddordeb drwy gyplysu'r ŵyl ag Eisteddfod Gadeiriol Môn. Serch hynny, llugoer fu'r ymateb i hynny hefyd, ac erbyn dechrau'r tridegau, er bod cwmnïau wedi eu sefydlu yma ac acw, roedd y difaterwch dramayddol wedi tanseilio gobeithion y Pwyllgor Drama ynglŷn â chynnal gŵyl flynyddol. Roedd cynnig 'gwobreuon helaeth', hyd yn oed, wedi methu â denu cwmnïau i gystadlu ynddi.

Yn dilyn ei sefydlu yn 1939, daeth codi neuaddau pentref yn un o brif amcanion Cyngor Gwlad Môn. Ym marn y Cyngor Gwlad, roedd darpariaethau llwyfan a chefn llwyfan yn hanfodol bwysig i werth ymarferol unrhyw neuadd bentref. Ond wedi dweud hynny, ni fyddai llwyfannau gorau'r sir o unrhyw werth dramayddol heb gwmnïau drama ar gael i'w defnyddio ac i fanteisio ar eu cyfleusterau. Felly, o 1941 ymlaen, ac yn unol â'r hyn â fwriedid gan H.O. Hughes a'i bwyllgor

ugain mlynedd ynghynt, daeth ailsefydlu yr ŵyl ddrama yn un o flaenoriaethau is-bwyllgor drama Cyngor Gwlad Môn.

Gyda'r Parchedig John Pierce yn y Gadair, cynhaliwyd yr is-bwyllgor cyntaf yn Llangefni, dydd Iau, 30 Ionawr 1941.[51] Yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd y Cyngor Gwlad, roedd gan J.O. Jones yr hawl i'w bresenoli ei hun ym mhob pwyllgor o hynny ymlaen. Golygai hyn y byddai 'J.O.' yn gyfarwydd â phob penderfyniad a wneid ynddynt. Prif destunau'r trafodaethau cyntaf hynny oedd y bwriad i ailsefydlu Gŵyl Ddrama flynyddol yn y sir ynghyd â phenodi panel o gyfarwyddwyr i ymweld â'r amrywiol gwmnïau i'w helpu gyda dewis, castio a llwyfannu.

Yn ystod y pwyllgor cyntaf hwnnw, gosodwyd sylfeini Gŵyl Ddrama ym Môn ar ei newydd wedd. Yn y cyfarfod, trafodwyd a chytunwyd ar nifer o argymhellion a fyddai, gobeithio, yn sicrhau llwyddiant yr ŵyl:

1 Dewisiwyd y Parchedig John Pierce yn Gadeirydd.
2 Penderfynwyd gofyn i'r rhai canlynol i weithredu fel Cyfarwyddwyr y Cwmnïau Drama a'u bod i'w talu yn ôl £1.10.0 yr ymweliad:
   Mrs Dr. Alun Thomas, Bangor
   Gwynfor [52]
   Cynan
   G. Prys Jones, Caergybi
   John Pierce
   R. D. Parry, Gwalchmai.
3 Pasiwyd fod y cyfarwyddwyr i estyn y cynorthwy canlynol i'r cwmnïau:
   a. Cynorthwyo mewn dewis drama, castio ar ei chyfer a chyfarwyddo yn achlysurol.
   b. Bod hawl gan gwmni i wahodd un o'r cyfarwyddwyr i ymweld â hwy yn rhai o'r ymarferion olaf i'w cynorthwyo i gaboli y gwaith ar gyfer y llwyfan.
   c. Gellir trefnu hyd at dri ymweliad â phob cwmni a wnelo gais am y gwasanaeth hwn.
   d. Gellir benthyca copïau o ddramâu a llenni ar gyfer llwyfannu dramâu yn ôl amodau arbennig.
4 Penderfynwyd trefnu Gŵyl Ddrama yn ystod mis Ebrill, 1941 i'w chynnal yn Llangefni ac na fydd gwobr ariannol, ond trefnwn i ddwyn holl gostau y cwmnïau megis teithio a hawlfreintiau actio drama.

Ynglŷn â'r bwriad o gynnal yr ŵyl gyntaf yn Llangefni yn Ebrill 1941, gellid dadlau bod y pwyllgor wedi bod yn fyrbwyll yn ei benderfyniad. O gofio bod llawer o fechgyn ifanc y sir wedi eu galw i'r

rhyfel, go brin y byddai cynnal yr ŵyl yn Ebrill 1941, wedi bod yn llwyddiant. Byddai dewis a chastio drama wedi bod yn dasg anodd i nifer o'r cyfarwyddwyr lleol. O'r herwydd, buan y sylweddolwyd bod angen gohirio'r ŵyl am flwyddyn. Byddai hynny hefyd yn rhoi mwy o amser i'r panel o gyfarwyddwyr wneud ei waith.

Er mai sefydlu gŵyl ddrama sirol oedd prif fwriad y pwyllgor, yn ystod 1940-1 trefnwyd amrywiol weithgareddau dramayddol gan y Cyngor Gwlad gan gynnwys ymweliad gan Gwmni'r Old Vic â Llangefni. Y bwriad oedd annog y cymunedau gwledig i sefydlu cwmnïau a thrwy wneud hynny fanteisio ar y cyfarwyddyd dramayddol a gynigid gan y Cyngor Gwlad. Llwyddodd y Cyngor i gael llenni llwyfan at wasanaeth cwmnïau a chymdeithasau drama Môn yn ogystal â sicrhau benthyciad o dros gant a thrigain o gopïau drama at ddefnydd y cwmnïau.[53] Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Ysgolion Undydd yn Llangefni, Porthaethwy, Brynsiencyn ac Amlwch, a sicrhawyd gwasanaeth Cynan, Haydn Davies, Y Parchedig Oswald Rees Owen a Miss. Jennie Thomas fel darlithwyr. Oherwydd ei arbenigedd, ei wybodaeth a'i statws dramayddol ar lefel genedlaethol, manteisiodd Môn ar wasanaeth ac arweiniad Cynan yn ystod y cyfnod cyffrous yma. Yn ddi-os, rhoesai ei bresenoldeb urddas i'r mudiad drama yn y sir. Roedd gwarchod safonau yn sicr o fod yn uchel ar agenda'r Parchedig John Pierce a'i bwyllgor, ond gellid dadlau mai'r hyn oedd flaenaf ym meddwl y pwyllgor oedd cael cwmnïau lleol i gystadlu yn yr ŵyl. Gydag amser, gellid talu sylw i'r safonau.

Penderfynwyd cynnal yr ŵyl ddrama gyntaf yn Neuadd y Dref, Llangefni, ar 20 a 21 Mawrth 1942, a hynny yn unol â'r telerau gwreiddiol. Yn ystod y pwyllgor[54] a gynhaliwyd 11 Rhagfyr 1941, gwnaethpwyd yn glir fod y cwmnïau i ddefnyddio set focs a llenni'r neuadd, eu bod i ofalu am eu mân gelfi eu hunain, ond y byddai'r pwyllgor yn gofalu am y dodrefn trymaf. Gwahoddwyd Cynan a Haydn Davies i feirniadu, ond gwaharddwyd unrhyw gwmni a hyfforddwyd gan Cynan rhag cystadlu. Ynglŷn â'r cystadlu, fe'n hatgoffwyd gan Cynan mai

[S]efydliadau'r Merched biau'r clod am gychwyn yr antur o Ŵyl Sir tua 1937, ond buan y cydiwyd yn y syniad gan...J.O. Jones...ac estyn ohono gortynau'r babell i gynnwys Adran Ieuenctid ac Adran Agored yn ogystal a dramâu i ferched yn unig.[55]

Y pryd hynny, tref Llangefni oedd prif ganolfan y ddrama ym Môn. Yng ngolwg actorion a chwmnïau'r sir, roedd cael ymddangos ar lwyfan Neuadd y Dref yn anrhydedd ac, o'r herwydd, ni chafwyd gwrthwynebiadau ynglŷn â lleoliad yr ŵyl. Ond er bod ei llwyfan yn eang, cyntefig iawn oedd adnoddau Neuadd y Dref ar gyfer llwyfannu dramâu. Mae gan J.O. Jones atgofion melys am yr ŵyl gystadleuol gyntaf honno:

Digon di-lun oedd y ddarpariaeth yn y Neuadd y pryd hynny ar gyfer cyflwyno dramâu – yn wir, nid oedd yno ond namyn un neu ddau o fylbiau trydan ar gyfer goleuo'r llwyfan. Cofiaf i un o'r ddau fwlb ffaelu wrth baratoi at y perfformiad, ond digwyddai Ian Evans o Landegfan fod wrth law i ddringo ysgol uchel i osod bwlb newydd er mwyn mynd ymlaen â'r paratoi at yr Ŵyl gyntaf. Roedd yno ryw lun o set a ddefnyddid gan T. J. Jones ar gyfer rhaglenni ysgafn ac fe'i benthycwyd. Roedd meddwl am drefnu deg perfformiad o ddramâu un-act yn anturiaeth ryfygus i griw o rai digon dibrofiad. Serch hynny, rhaid oedd mentro a gobeithio'r gorau...

Rhoddwyd cryn bwysigrwydd i'r Ŵyl ac yr oedd Llywydd gwahanol i bob sesiwn. Roedd y gwahoddedigion i sesiwn nos Sadwrn yn enwog – neb llai na Wendy Hiller, yr actores a'i phriod Ronald Gow...Digwyddai'r ddau fod yn aros mewn bwthyn ym Modorgan ac yn gyfeillion i Emyr Jones, Wigoedd...

Ceisiwyd gosod y safonau gorau posib i'r Ŵyl a chafwyd dau feirniad Cenedlaethol yn Haydn Davies, Caerdydd...a'r Prifardd Cynan...

Traddodid sylwadau ar derfyn pob sesiwn a'r dyfarniad ar derfyn sesiwn nos Sadwrn. Erbyn hynny roedd cryn frwdfrydedd ymysg yr actorion, y cynhyrchwyr a'u cefnogwyr – yn wir creodd yr Ŵyl frwdfrydedd mawr ymysg y cynulleidfaoedd o'r naill flwyddyn i'r llall. Byddai ciw hir cyn wyth o'r gloch y bore yn disgwyl i siop R.R. Jones, y fferyllydd, agor i gael rhifo eu tocynnau ar gyfer yr Ŵyl...[56]

Gan fod canlyniadau'r ŵyl ddrama flynyddol i'w cael yn y papurau lleol, ni fanylir arnynt yma. Gosododd gŵyl 1942 y patrwm ar gyfer y dyfodol ac o'r deg drama un-act a berfformiwyd y flwyddyn honno, roedd saith ohonynt yn ddramâu Cymraeg.

Trefnwyd gŵyl 1943 ar gyfer 25-27 Mawrth, a gofynnwyd i Cynan feirniadu'r tair adran. O hyn ymlaen, cyflwynwyd tlysau arian ar gyfer Adrannau y Merched a'r Ieuenctid, ac ailymddangosodd Tlws y Ddraig ar gyfer y cwmni buddugol yn yr Adran Agored. Yn ogystal, dosbarthwyd tystysgrifau cain o waith yr arlunydd talentog lleol, Mr H.H. Williams,[57] Mynydd Mwyn Mawr, Llannerch-y-medd. Ar gyfer yr

ail ŵyl cynigiwyd gwobr o bum gini am gyfansoddi drama Gymraeg un-act a fyddai'n addas i'w llwyfannu yn ystod yr ŵyl. Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr fod yn byw ym Môn. O'r tair drama ar ddeg a berfformiwyd, roedd naw ohonynt yn Gymraeg.

Cynhaliwyd gŵyl 1944 yn Llangefni yn ystod yr wythnos 20-25 Mawrth. Erbyn hyn gwelwyd ffrwyth gwaith y panel o gyfarwyddwyr ac am y tro cyntaf fe gynhaliwyd gwyliau cylch yn Llannerch-y-medd, Caergybi, Biwmares ac Amlwch. O'r pedwar cwmni ar bymtheg a fu'n cystadlu, cyflwynwyd drama Gymraeg gan dri ar ddeg ohonynt ac ym marn y beirniad, Mrs Mary Lewis, roedd y safon yn bur uchel.

Bu gŵyl 1945 yr un mor llwyddiannus, gyda thri ar ddeg o'r ugain cwmni a fu'n cystadlu yn cyflwyno dramâu Cymraeg. Yn ei feirniadaeth,[58] dywedodd Cynan fod y safon yn uchel ymysg y goreuon, a rhoddodd glod arbennig i'r ieuenctid. Yn Adran y Merched, credai'r beirniad bod safon y perfformiad buddugol, sef Cwmni Cymdeithas Ddrama Llangefni yn cyflwyno *March Wedding*, gyda Mrs Margaret Fisher yn cyfarwyddo, gyfuwch o ran safon â dim a welwyd yng Nghymru gan gwmni amatur. Yn ôl J.O. Jones yr oedd yn ŵyl hynod lwyddiannus:

> Erbyn hyn [1945], gellir bod yn bur bendant fod ym Môn fudiad drama byw ac effeithiol...[59]

Ar gyfer gŵyl 1946 bu'n rhaid cynnal rhagbrofion yn Llannerch-y-medd a Chaergybi. O'r un cwmni ar hugain a fu'n cystadlu, penderfynodd y beirniaid, Miss Elsbeth Evans a John Ellis Williams, fod pedwar ar ddeg ohonynt yn teilyngu mynd ymlaen i'r prawf terfynol yn Llangefni, 18-23 Mawrth. Ar gyfer yr ŵyl ychwanegwyd adran i ddramâu hir Cymraeg. Gan fod Cwmni Drama Llangefni yn teithio'r wlad yn llwyddiannus gyda drama John Ellis Williams, *Pen y Daith*, yn ystod 1946 ni ellir llai nag amau fod yr adran newydd wedi ei chynnwys yn fwriadol yn rhaglen yr wythnos er mwyn sicrhau ymddangosiad y cwmni lleol yn yr ŵyl sirol. Er bod cwmni Brynsiencyn wedi llwyfannu *Dau Dylwyth* (Ieuan Griffiths) y nos Fawrth, cyflwynwyd Tlws y Ddraig i Langefni nos Sadwrn.

Er bod cynnydd sylweddol yn y nifer o gwmnïau a fu'n cystadlu, gellir edrych ar 1946 fel trobwynt ieithyddol yn hanes yr ŵyl ddrama

sirol. Ar gyfer y prawf terfynol, dewiswyd saith drama Gymraeg a saith Saesneg. O hynny ymlaen, gwelwyd gostyngiad cyson yn y nifer o berfformiadau Cymraeg yn yr ŵyl. Roedd hyn, mae'n debyg, yn adlewyrchiad o'r newid cymdeithasol ac ieithyddol a welid ym Môn y pryd hynny. Erbyn diwedd y pedwardegau gwelwyd estroniaid yn treiddio i mewn i'r cymunedau Cymraeg, yn arbennig felly ar hyd y glannau. Roedd y broblem sy'n wynebu ein cymunedau Cymraeg heddiw yn prysur godi ei phen.

Ni ellir amau llwyddiant yr ŵyl ddrama a phlesiwyd y Pwyllgor a'r Ysgrifennydd gan argraff gyffredinol John Ellis Williams:

> Yr argraff gryfaf a adawodd yr ŵyl hon arnaf yw'r cynnydd mawr sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diweddar yn y gelfyddyd o gynhyrchu drama – yn enwedig ym Môn...y mae'r cynnydd hwn bron iawn yn anghredadwy ac yn profi'n eglur iawn fod gwaith cyson a chaled yr arweinwyr yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed...[60]

Ond er gwaethaf hyn oll gwelwyd peth anniddigrwydd yn codi ei ben ynglŷn â'r sefyllfa. Fel y nodwyd eisoes, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y dechrau i'r syniad o gynnal yr ŵyl yn Llangefni, ond erbyn ail hanner y pedwardegau amlygodd tref Caergybi ei hunan fel canolfan ddramayddol y sir. O ganlyniad, gwelwyd nid yn unig gynnydd sylweddol yn y nifer o ddramâu Saesneg yn yr ŵyl, ond hefyd alw am symud y profion terfynol o Langefni i Gaergybi. Digwyddodd hyn ym Mawrth 1950.

Er sefydlu'r ŵyl gyntaf yn 1942, sicrhaodd y Cyngor Gwlad gefnogaeth frwdfrydig y cwmnïau, ac ymatebodd nifer cynyddol o gefnogwyr y ddrama yn y sir i'r alwad. Yn ei erthygl, fe gofir i J.O. Jones gyfeirio at y disgwyl a'r galw blynyddol am docynnau. Ond er bod y Cyngor yn gwario yn gyson ar lenni, offer goleuo a llyfrau, a'i fod yn ariannu nifer fawr o Ysgolion Undydd a darlithoedd, yn ogystal â chynnal panel o gyfarwyddwyr, ni welid dim o elw'r gwyliau drama yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r cwmnïau fel gwobrau. O ganlyniad, crëodd hyn beth anniddigrwydd a mynegwyd hynny yn y wasg:

CYNGOR GWLAD MON
(At y Golygydd)

Syr, - drwy gyfrwng yr uchod cafodd Sir Fôn wleddoedd mewn dramâu yn ddiweddar. Bu actio am nosweithiau yn Llannerch-y-medd, Caergybi a Llangefni, a chaed cynhulliadau mawr, yn enwedig yn Llangefni. Yno yr oedd yr holl seddau cadw (10s) wedi eu gwerthu am yr wythnos. Tarian, sydd yn mynd i oed, a gafodd un cwmni buddugol, a thystysgrifau a roddwyd i'r gweddill. Mewn gwyliau drama ardaloedd eraill ceir gwobrwyon ariannol, ond nid felly ym Môn. Buasai yn ddiddorol gwybod i ba amcan y mae elw ariannol gwych Gŵyl Ddrama Môn yn mynd. Y cyhoedd a gefnogodd y mudiad ardderchog. A fydd y sir ar ei mantais pan gyhoeddir y cyfrifon? – Yr eiddoch, etc.

MODLEN[61]

Bu 1947 yn arwyddocaol yn natblygiad celfyddyd y ddrama yn y sir. Yn dilyn trafodaethau rhwng y Pwyllgor Addysg a'r Cyngor Gwlad, penderfynwyd hysbysebu am Drefnydd Drama i Fôn. Cytunodd y Pwyllgor Addysg a Chronfa Carnegie, drwy'r Cyngor Gwlad, i gyfrannu'n gyfartal tuag at gyflog o £600 y flwyddyn. Cyfeiriwyd at yr apwyntiad yn Adroddiad y Cyngor Gwlad am 1946-7:

> Diau mai digwyddiad pwysicaf y flwyddyn i'r Mudiad Drama oedd penodi Mr. Dewi Llwyd Jones, B.A., yn drefnydd drama y sir. Llawenheir yn hyn a llongyferchir y Pwyllgor Addysg ar y cam hwn.[62]

Flwyddyn yn ddiweddarach, yn Ebrill 1948, ygrifennodd Cynan erthygl yn dwyn y teitl 'Hynt y Ddrama ym Môn'. Ynddi, pwysleisiodd le y ddrama fel celfyddyd a chyn cloi ei erthygl, cyfeiria at apwyntiad y trefnydd drama hwn ym Môn:

> ...Celfyddyd yw Drama, yn dibynnu ar synthesis o amryfal weithrediadau, ac yn hawlio prentisiaeth ymroddedig tan wŷr cyfarwydd a gostyngedig ddisgyblaeth i feistroli hyd yn oed elfennau'r grefft...
>
> Ystyriwn nad oes gennym eto ym Môn gymaint ag un neuadd gyhoeddus gyda llwyfan a thaclau llwyfan teilwng, dim un adeilad y gellid hyd yn oed yn ostyngedig ei alw yn theatr, dim un gweithdy na chanolfan na chlwb i garedigion y ddrama.
>
> Nid oes gennym eto Gwmni Sir, a'r aelodau'n barod i weithio ar ddrama heb fod yr elw ohoni'n myned at unrhyw achos ond achos y ddrama ei hun...
>
> Ond y mae gennym erbyn hyn Drefnydd Drama i'r Sir, a brofodd eisoes ei fod yn ddyn ifanc o weledigaeth ac ymroddiad neilltuol, a rydd ei holl amser i hyrwyddo'r mudiad drama yn ein plith.
>
> Wrth groesawy dyfodiad Mr Dewi Llwyd Jones atom, a llongyfarch Môn ar yr apwyntiad cyntaf o'r fath yng Nghymru ar sicrhau ohoni ŵr mor addas i'r swydd, a gawn ni gofio fod ganddo hawl i gyfrif ar gefnogaeth a chydweithrediad calonnog pawb ohonom i'w gynlluniau ac mai ar hynny y mae'n dibynnu a welir cymaint a chyflymed cynnydd Mudiad Drama Môn yn ystod y deng mlynedd nesaf yma ag a welwyd yn y deng mlynedd a aeth heibio.[63]

Gan mai ar 1 Mai 1947, y cychwynnodd Dewi Llwyd Jones fel trefnydd, go brin iddo gael cyfle i'w bresenoli ei hun yng ngŵyl ddrama y sir ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Hon oedd y chweched, ac ynddi llwyfannwyd deg drama Saesneg (56%) ac wyth drama Gymraeg (44%). Yn ieithyddol roedd y rhod wedi dechrau troi.

Am weddill 1947 a dechrau 1948 bu Dewi Llwyd Jones yn cynorthwyo'r gwahanol gwmnïau ar gyfer y seithfed ŵyl yn Llangefni, 15-20 Mawrth 1948. Ar ei chyfer, cynhaliwyd arbrofion a chynhwyswyd pump adran: Agored; Sefydliad y Merched; Ieuenctid (Cymraeg); Ieuenctid (Saesneg); a Drama Hir (Saesneg). Yn ei anerchiad ar noson olaf yr ŵyl, cyfeiriodd y trefnydd at y prinder o gwmnïau Cymraeg a fu'n cystadlu, ac yn ddoeth neu'n annoeth, mynegodd yn ddi-flewyn-ar-dafod mai bai y Cymry eu hunain oedd hynny.[64]

Yn Ebrill 1948, yn yr un rhifyn o *Môn* yr estynnwyd croeso iddo gan Cynan, ymddangosodd yr erthygl ganlynol gan Dewi Llwyd Jones:

Codi'r Muriau

Celfyddyd yw'r ddrama ac nid crefft undydd ei hymarfer hi. Yn araf y datblygir ei ffurf a gwaith oes yw chwilio ei chyfrinach. Ym Môn ym myd plant, ieuenctid ac oedolion, cafwyd ers amser y sail angenrheidiol, sef brwdfrydedd a llawenydd yn y gwaith. Heddiw, ac yfory, rhaid adeiladu muriau gwybodaeth ac ynddynt ffenestri disgyblaeth. Trwy hynny yn unig y ceir adeilad cain a saif.

Daeth yn amser i ymwrthod â meini bach yr ysgolion undydd i godi'r muriau, a bellach, y rhaid wrth gerrig praffach yr ysgolion arbennig a meini caboledig profiad o waith llwyfan addas. Dyna wendid ein gwybodaeth ni. Nid oes inni lwyfannau technegol cymwys ac oherwydd hynny ceir diffyg gwybodaeth a phrofiad, ac yna, codir muriau yr adeilad yn gam.

Glanhawyd rhyw gymaint ar chwareli y ffenestri. Cafwyd peth disgyblaeth drwy gydweithio mewn cwmnïau, a thro arall drwy weithio o dan gynhyrchydd a deimlai ofnadwyaeth ei swydd. Rhaid i ni yn awr sychedu am ddisgyblaeth lem gan wybod na ellir celfyddyd heb hynny. Buom yn gweithio a chawsom hwyl a diddanwch. Rhaid i ni bellach lafurio a phrofi loes a llawenydd. Ac ymarferol hyn oll, canys ni ellir celfyddyd, ni ellir drama, heb ffydd a gweledigaeth.

Cyffelyb yw'r ddrama i ferch â'n gwiriona'n llwyr. Sibryda wrthym gyfrinacha ei chalon, ac yna, chwardd am ein pennau. Rhydd i ni gil-brofiad o nefoedd ac uffern, ac yn aml trwm a fydd y pwysau ar ein ffyddlondeb ni. Ond yn nhreigl amser, rhydd i ni ei heddwch rhyfelgar a'i bendith aniddig, a hawdd fydd derbyn pob siom oherwydd yn ein ffyddlondeb, bythol ei phrydferthwch hi a thragwyddol ein ieuengoed ninnau. Materol yw'r byd sydd ohoni, a doeth iawn a dienaid, a phethau dros dro a adeiledir ynddo. Gan hynny, byddwn yn eiddgar i wallgofrwydd ac adeiladwn yr hyn a saif.

Llangefni D. Llwyd Jones

Ceir yn yr erthygl nid yn unig amlinelliad o weledigaeth ddramayddol Jones, ond hefyd gipolwg ar natur ei bersonoliaeth. Mae hi'n erthygl sy'n dangos ei allu i drin geiriau. Yn sicr, fe geir ynddi gyffyrddiadau rhamantus. Gellir dadlau bod peth o'r rhamant hwn, efallai, yn ffrwyth ei brofiadau personol. Yn ei osodiadau fe geisia gyfleu teimlad o gariad a siom, ac o lawenydd a thristwch; y cyfan mewn arddull sy'n gyfuniad o'r syml a'r cymhleth.

Mewn cyfnod pan oedd muriau cymdeithasol a diwylliannol y filltir sgwâr ym Môn yn dechrau dadfeilio, ceir yma weledigaeth ddramayddol meddyliwr pur arbennig. I ddramodwyr y sir, roedd her a gobaith yn ei eiriau. Roedd ei weledigaeth yn galw am newid ac arbrofi. Cydnebydd Jones arwyddocâd y gelfyddyd o gyflwyno drama, ac os oedd y ddrama ym Môn am ffynnu credai fod angen gosod sylfeini cadarn i'r gyfryw gelfyddyd. Gellir derbyn bod Cynan a F.G. Fisher, i raddau helaeth, yn rhannu'r un weledigaeth â Dewi Llwyd Jones ond beth, tybed, a feddyliai cyfarwyddwyr cwmnïau cefn gwlad Môn o'r weledigaeth honno?

Er bod nifer ohonynt fel John Huws, Edward Williams ac, i ryw raddau, Emyr Jones yn hoffi cystadlu, difyrru cynulleidfaoedd fu prif nod eu hymdrechion dros y blynyddoedd, a thraddodiadol fu eu dewis o ddramâu. Nid dramâu dwys eu themâu ac arbrofol eu harddull mohonynt. Cawsai'r cyfarwyddwyr hyn a'u cwmnïau bleser mawr o glywed cynulleidfa yn g'lana chwerthin un funud, a wylo'n hidl y funud nesaf. Rhoesai hyn wefr i'r actorion. A heb geisio dibrisio cyfraniad y cyfarwyddwyr hyn i'r mudiad drama ym Môn a thu hwnt i'r Fenai nac, ychwaith, sarhau dim ar eu deallusrwydd, gellid dadlau fod gweledigaeth Dewi Llwyd Jones y tu hwnt i'w dirnadaeth. Gellid dadlau, hefyd, wrth gwrs, nad oedd nifer ohonynt eisiau ei dirnad ychwaith.

Efallai y ceir adlewyrchiad o'r cefnu a fu ar y ddrama draddodiadol yn niwedd y pedwardegau o edrych ar iaith y dramâu a lleoliad daearyddol y cwmnïau o 1948 ymlaen. Fel y nodwyd eisoes, amlygodd tref Caergybi ei hunan fel canolfan ddramayddol y sir, a chymerodd cwmnïau Rhoscolyn, Bae Trearddur, Rhosneigr, Cemais a

Biwmares ran amlwg yng ngweithgareddau'r ŵyl ddrama. Sefydlwyd hefyd nifer o gwmnïau ieuenctid yng Nghaergybi. Ar un wedd, diau mai da o beth oedd hynny, ond gan mai cyflwyniadau Saesneg a geid ganddynt bron yn ddieithriad, go brin y byddai hynny'n unol â dyheadau gwreiddiol y Cyngor Gwlad. Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn y peidiodd Cwmni Drama Llangefni â bod, a buan y cefnodd Cwmni Llannerch-y-medd ar yr ŵyl gan ganolbwyntio, yn hytrach, ar gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a theithio'r wlad yn difyrru cynulleidfaoedd. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar gael yn tanlinellu pryderon y Pwyllgor Drama ynglŷn â'r sefyllfa hon:

> Mynegodd Cynan ei siomiant nad oedd Llannerch-y-medd na Llangefni yn cystadlu eleni [1948], ac y dylid ysgrifennu llythyr atynt yn mynegi hyn ac yn gofyn am eu cefnogaeth i'r dyfodol. [65]

Ar gyfer gŵyl 1949, cafwyd ymateb cadarnhaol o Lannerch-y-medd, ond nid o Langefni.

Yn ystod pwyllgor drama a gynhaliwyd 30 Ebrill 1948,[66] trafodwyd cynnwys cynllun arloesol a gyflwynwyd gan Dewi Llwyd Jones. Un o'i ddyheadau oedd dileu yr elfen gystadleuol o'r ŵyl yn gyfan gwbl ac, yn hytrach, raddoli'r perfformiadau. Ar ddiwedd y drafodaeth cytunwyd ei fod yn anfon memorandwm[67] at holl gwmnïau'r sir. Dyfynnir peth ohono yma:

> GWYL DDRAMA MÔN 1949
>
> Isod rhoddir patrwm o arbrawf ynglŷn â'r ŵyl ddrama y flwyddyn nesaf. Gan hynny, anfonir y patrwm hyn i chwi, a hoffem gael eich barn arno, a hynny mor fuan ag sydd bosibl.
>
> Sail y patrwm yw'r teimlad mai'r gelfyddyd sy'n bwysig ac nid y cystadlu. ... ac y byddai'n decach â'r cwmnïau a'r gelfyddyd pe gosodid y cwmnïau mewn dosbarth yn hytrach nac yn gyntaf, ail, a thrydydd.
>
> Yn fyr, awgrymir fod gwyliau cylch a gŵyl sir Môn yn 1949 yn wyliau digystadleuaeth. Gosodir y cwmnïau oll mewn dosbarthiadau – A, B, a C.
>
> Dyna'r patrwm a awgrymir, a byddem yn falch iawn o dderbyn eich sylwadau ar y mater, cyn Mai 29ain, 1948.
>
> Dewi Llwyd Jones

Yn nechrau Mehefin 1948,[68] trafodwyd y cynllun ymhellach a chytunwyd i dderbyn yr argymhellion. Yn dilyn y rhagbrofion, byddai'r holl gwmnïau a osodwyd yn nosbarthiadau A a B yn ymddangos yn y prawf terfynol yn Llangefni rhwng 29 Mawrth a 2 Ebrill 1949. Gyda D.

Haydn Davies yn beirniadu, gwahoddwyd y cwmnïau, Cymraeg a Saesneg, i ymddangos mewn un o chwech o adrannau: Drama Hir; Drama Un Act; Agored; Merched; Ieuenctid dan 15; ac Ieuenctid 15–21. Graddolwyd y perfformiadau yn unol â'r safonau canlynol:

Dosbarth A – Uwchlaw y safon a ddisgwylid.

Dosbarth B – I fyny â'r safon a ddisgwylid.

Dosbarth C – Heb gyrraedd y safon a ddisgwylid.

Rhoddwyd perfformiadau pedwar cwmni Saesneg o Gaergybi yn nosbarth A, a pherfformiad Llannerch-y-medd o *Abel Seimon* (J. Eddie Parry) yn nosbarth B. Roedd y dyfarniad a'r sylwadau yn sicr o fod yn siom iddynt:

> Cwmni profiadol, ond y chwarae'n anwastad, a'r dewis o ddrama'n anffodus.[69]

Dyma'r tro olaf i gwmni John Huws ymddangos yng Ngŵyl Ddrama Môn. Allan o'r tri chwmni ar ddeg a fu'n cystadlu, llwyfannwyd naw drama Saesneg, ac o'r naw perfformiwyd chwech ohonynt gan gwmnïau o Gaergybi. Yn y feirniadaeth, cafwyd sylwadau pur galonogol gan D. Haydn Davies:

> ...llongyfarchodd y pwyllgor ar eu gwaith yn gosod safon i ymgyrraedd ato yn nod yn hytrach na gwobr...o edrych yn ôl dywedodd fod arwyddion cynnydd yn yr actorion...Ynglŷn â chynhyrchu, yr oedd llawer iawn eto i'w wneud yn y sir, ac yr oedd gan Dewi Llwyd ei syniadau ei hunan ynglŷn â hynny. Yr oedd cyfarwyddo cynhyrchwyr yn waith anodd iawn, oherwydd dibynnai tri chwarter o lwyddiant pob cynhyrchydd ar yr hyn a oedd ynddo ef ei hun yn gynhenid, ac ni allai athro ar y gorau ond ychwanegu y chwarter arall. [70]

Gan ei fod yn hollol berthnasol o safbwynt yr ymdriniaeth hon, fe haedda un achlysur gael ei gofnodi yma. Trefnodd y Cyngor Gwlad arddangosfa yn Ysgol Fodern Llangefni ar gyfer 20-23 Ebrill 1949. Prif bwrpas yr arddangosfa oedd ceisio tynnu sylw'r trigolion at yr holl weithgareddau diwylliannol a gefnogid gan y Cyngor Gwlad ym Môn. Ymysg y gweithgareddau hynny roedd y ddrama, ac ar gyfer nos Fercher, 20 Ebrill gwahoddwyd y cyhoedd i berfformiad o *Ni Dderfydd Amser,* addasiad Dewi Llwyd Jones o ddrama David Monger, *The Whirligig of Time.* Gyda'r trefnydd drama ei hun yn cyfarwyddo, hwn fyddai'r perfformiad cyntaf erioed gan Gwmni Drama y Sir. Ymysg y cast gwelwyd enwau William Evans, a Gwyneth, gwraig gyntaf Dewi Llwyd Jones. Yn ôl yr ohebiaeth

...cafwyd perfformiad godidog... [yr] oedd y perfformiad drwyddo'n gampus a'r farn gyffredinol oedd na welwyd ei ragorach ar lwyfan ym Môn. Dyma'r tro cyntaf i'r ddrama gael ei chwarae yn Gymraeg ac y mae Mr. Dewi Llwyd Jones i'w longyfarch yn fawr am ei drosiad ohoni, ac hefyd ar y perfformiad rhagorol.[71]

Mewn llythyr at yr awdur yn Ionawr 2003, mynegodd William Evans, Llangefni, ei farn amdano fel cyfarwyddwr drama:

Cefais ef yn ŵr plaen ei siarad ac fe wyddem, fel cwmni, lle roedd pawb yn sefyll. Gwyddem, hefyd, lle roeddem i sefyll ar y llwyfan oherwydd roedd yr holl symudiadau wedi eu paratoi ar dudalennau oedd yn cyd-redeg â'r sgript. Ar yr un pryd, byddai'n fodlon gwrando, a byddai'n derbyn unrhyw welliannau os y teimlai bod y rheini'n fuddiol.

...Fe wyddai'n iawn beth oedd ganddo ei eisiau gan bob cymeriad, ond anaml iawn y byddai'n busnesu efo'r ffordd y byddai cymeriad yn dehongli ei ran, ond byddai'n fodlon trafod a'ch helpu pe bai angen.

Pregethai'n aml y dylai actorion fod yn broffesiynol eu hymddygiad rhwng y golygfeydd yn ogystal ag ar y llwyfan. Er enghraifft, doedd fiw ceisio gweld faint o gynulleidfa oedd yno, na phwy oedd yno. "Ych busnes chi ydi actio'ch part", meddai, "boed y lle'n llawn neu'n wag".

Yn fy nhyb i, roedd yn dueddol o fod yn fodern ei ddaliadau ym myd y ddrama yn ogystal ac mewn llenyddiaeth yn gyffredinol...

Ar gyfer gŵyl ddrama 1950, penderfynwyd cynnal y prawf terfynol yn Neuadd y Dref, Caergybi. Yng nghofnodion y pwyllgor drama cyfeirir at bwyllgor arbennig a gynhaliwyd yn Llangefni 18 Mai 1950, pryd y trafodwyd nifer o faterion pwysig yn ymwneud â dyfodol y mudiad drama ym Môn. Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr holl gwmnïau'r sir i'r pwyllgor, ond dim ond deugain a fanteisiodd ar y cyfle:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caergybi | 16 | Llangefni | 8 |
| Malltraeth | 3 | Llannerch-y-medd | 2 |
| Rhosneigr | 2 | Biwmares | 2 |
| Llangristiolus | 1 | Porthaethwy | 1 |
| Fali | 1 | Bodorgan | 1 |
| Bodedern | 1 | Llangwyllog | 1 |
| Caergeiliog | 1 | | |

O'r ystadegau, fe welir yn glir fod diffyg diddordeb yn bodoli ymysg cwmnïau'r ynys yn gyffredinol, ac yn arbennig felly ymysg y cwmnïau Cymraeg. O gofio mai un o'r prif faterion a drafodwyd oedd nifer siomedig y cwmnïau Cymraeg a ymddangosai yn yr ŵyl, roedd yr ymateb yn dorcalonnus. Oherwydd y brwdfrydedd a ddangoswyd gan

gynrychiolwyr cwmnïau drama Caergybi, nid rhyfedd i'r penderfyniad gael ei wneud i symud y prawf terfynol i'r dref honno.

Cynhaliwyd rhagbrofion gŵyl 1950 yn Llangefni gyda Miss Nan Davies, BBC Bangor yn beirniadu, a Cynan yn beirniadu'r prawf terfynol. Am yr eildro yn olynol bwriedid iddi fod yn ŵyl ddigystadleuol er bod peth anniddigrwydd wedi codi ynglŷn â hyn. O'r deuddeg cwmni a fu'n perfformio, llwyddodd saith i symud ymlaen i'r prawf terfynol, ac yn eu mysg roedd Cwmni Cymdeithas Ddrama Llangefni yn cyflwyno *Catrin,*[72] drama hanesyddol o waith y cyfarwyddwr Francis George Fisher. Gosodwyd perfformiad cwmni Llangefni yn Nosbarth A, a gellir tybio ei bod yn enghraifft o ddrama a apeliai at Dewi Llwyd Jones. Fodd bynnag, pur feirniadol oedd sylwadau Cynan:

> Cwmni Llangefni yn perfformio *Catrin* ... Sylwodd Cynan ... fod yma holl baraphernalia trasiedi ond ni chaed trasiedi yn y cyflwyniad. Nid oedd y dehongliad yn arwrol fel y dylai fod a delid y cynhyrchydd yn gyfrifol am na ddangosid ochr nobl yn y cyflwyniad.[73]

Er nad oes yma unrhyw ymgais i amau proffesiynoldeb na diffuantrwydd Cynan fel beirniad, ni ellir llai na theimlo bod y geiriau a ddewisodd yn ei feirniadaeth yn awgrymu rhyw ragfarn yn erbyn y ddrama a'r cwmni. Fodd bynnag, fe haedda F.G. Fisher a'i gwmni glod arbennig am y perfformiad fel arbrawf ac fel cyfraniad i'r ddrama hanesyddol Gymraeg. Yn sicr, roedd yn arwydd pendant o'r hyn oedd i ddigwydd yn Llangefni yn 1955.

O ganlyniad i'r tywydd anffafriol a gafwyd yn ystod gaeaf 1950-1, amharwyd ar weithgareddau dramayddol y sir a gohiriwyd yr ŵyl ddrama hyd fis Tachwedd 1951. Y ffaith fwyaf arwyddocaol ynglŷn â'r ŵyl oedd fod y pwyllgor drama, wedi dwy flynedd o arbrofi gyda sustem o raddoli, wedi dychwelyd at y drefn draddodiadol o gynnal gŵyl ddrama gystadleuol.

O safbwynt hanes y mudiad drama ym Môn, ystyrir 1952 fel blwyddyn bur arbennig. Am ba resymau bynnag y gwnaethpwyd hynny, penderfynodd y Pwyllgor Addysg roi'r gorau i gynnal swydd y Trefnydd Drama ym mis Mawrth. Ni ellir ond dyfalu ynglŷn â'r rhesymau am wneud hyn. Efallai bod gweledigaeth Dewi Llwyd Jones yn rhy fentrus

o safbwynt ardal wledig fel Môn. Yn sicr, roedd ei awydd i arbrofi wedi creu drwgdeimlad a pheth atgasedd tuag ato ymhlith rhai o garedigion y ddrama ym Môn; roedd nifer o gyfarwyddwyr blaenllaw yr ynys wedi troi cefn ar yr ŵyl ddrama oherwydd hyn. Efallai, wrth gwrs, bod awydd Dewi Llwyd Jones i wireddu ei weledigaeth wedi cymylu peth ar ei agwedd tuag at y traddodiad y ceisiai ei adfywio. Fodd bynnag, ni chollwyd ei wasanaeth a'i gyfraniad i'r mudiad drama yn y sir yn gyfan gwbl.

Yn ystod gŵyl 1952, perfformiwyd dwy ddrama hir a dwsin o ddramâu un act. Gyda Raymond Edwards, Caerdydd, yn beirniadu, dyfarnwyd drama Saesneg yn fuddugol yn y pedair adran. Cyflwynwyd y pedair drama gan gwmnïau o Ynys Cybi ac, or herwydd, cadarnhawyd yng ngolwg y cyhoedd mai Caergybi oedd prif ganolfan y sir o safbwynt y ddrama. Ar ddechrau'r pumdegau daeth Cwmni Rhoscolyn a thri chwmni o Gaergybi i'r amlwg, sef Chwaraeyddion Cybi, Chwaraeyddion Druid, a chwmni'r Ysgol Uwchradd. Yr oedd a wnelo llwyddiant cwmni'r ysgol ag ymroddiad a chyfarwyddyd un o'r athrawesau, Miss Leila Avril Hughes.[74] Bu'r wraig hon yn aelod o bwyllgor drama y Cyngor Gwlad o 1945 ymlaen, yn Gadeirydd y pwyllgor rhwng 1951 a 1960, yn is-gadeirydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor Gwlad o 1954 hyd 1966, ac yn Gadeirydd iddo o 1966 hyd 1975. Fe haedda ei chyfraniad le amlwg yn hanes y ddrama ym Môn.

Dychwelodd y profion terfynol i Langefni ar gyfer 23-28 Mawrth 1953, a chynhaliwyd gwyliau cylch yn Llangoed, Pentraeth, Caergybi, Cemais, Biwmares a Llanfairpwll. Dewisiwyd Elwyn Thomas, Bangor, i feirniadu'r dramâu hir ac Edwin Williams, Y Rhyl, i ddyfarnu'r perfformiadau un act. Yn y rhagbrofion, perfformiwyd saith drama hir a naw drama un act, ac o'r rhain aeth pedair drama hir a chwe drama fer ymlaen i'r prawf terfynol. Ymysg y buddugwyr ymddengys enwau cwmnïau o Amlwch yn Adran Sefydliad y Merched, ac o Langoed yn yr Adran Agored, a gellir dadlau bod y penderfyniad i symud y profion terfynol yn ôl i Langefni yn rhannol gyfrifol am y cynnydd mewn diddordeb a ddangoswyd gan gwmnïau'r sir. Efallai, mai penderfyniad y Pwyllgor Drama i fabwysiadu'r polisi canlynol oedd yn rhannol gyfrifol am hyn:

1 Sicrhau darpariaeth o gelfi, llenni, gwisgoedd a threfnu ysgolion undydd a min nos.
2 Trefnu cyrsiau arbennig mewn actio, cynhyrchu, gosod llwyfan, goleuadau, gwisgoedd ac ysgrifennu dramâu.
3 Trefnu ymweliadau â chwmnïau unigol a chefnogi perfformiadau arbennig gan gwmnïau'r Sir, a threfnu gwyliau Sir a Lleol.
4 Nawddogi a threfnu i gwmnïau teithiol, o dan nawdd Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr a Chyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru, ymweld â'r Sir.
5 Dwyn i sylw ysgolion a chyrsiau, a sefydlu ar gyfer myfyrwyr y Sir.
6 Ystyried darparu Theatr fechan yn y Sir a chynorthwyr i ddarparu nifer o lwyfannau mewn neuaddau wedi eu cymhwyso yn arbennig, a gweithdai drama ar gyfer cwmnïau unigol neu Gymdeithasau drama.[75]

Mae'n wir fod agweddau ar y polisi'n deillio o ddyheadau gwreiddiol y pwyllgor drama yn ôl yn nechrau'r pedwardegau, dyheadau a wireddwyd ym Mai 1950.[76] Dros y blynyddoedd casglodd y Cyngor Gwlad gyflenwad da o lenni a goleuadau yn ogystal â chasgliad teilwng o ddramâu, y cyfan at ddefnydd y cwmnïau lleol. Cyn apwyntiad y Trefnydd Drama roedd y Cyngor Gwlad eisoes wedi penodi panel o gyfarwyddwyr profiadol gyda'r bwriad o gynnig cymorth i'r cyfarwyddwyr lleol gyda dewis, castio a llwyfannu dramâu. Am bum mlynedd, o 1947 hyd 1952, ymgymerodd Dewi Llwyd Jones â'r dasg hon, ond wedi i'w swydd ddod i ben ym Mawrth 1952, ailsefydlwyd y panel o gyfarwyddwyr. Yn dilyn sefydlu'r ŵyl gyntaf yn 1942, trefnodd y Cyngor Gwlad nifer o ysgolion undydd ac amrywiol ddarlithoedd er mwyn hybu'r mudiad drama yn y sir. Ni ellir llai nag edmygu cefnogaeth frwd y Cyngor Gwlad i'r mudiad drama dros gyfnod maith.

Ymysg datganiadau polisi newydd y pwyllgor drama, rhoddwyd sylw dyladwy i actorion ieuanc Môn. Er dechrau'r pumdegau, chwaraeodd ieuenctid y sir ran flaenllaw yn llwyddiant yr ŵyl ddrama flynyddol. Roedd hyn yn arbennig o wir am dref ac ardal Caergybi. Ceir tystiolaeth o'u cyfraniad ym muddugoliaethau cyson cwmnïau'r Cwfaint, y Clwb Ieuenctid a'r Ysgol Uwchradd. Mewn sgyrsiau â J.O. Jones yn ystod 2002, caed ganddo ddisgrifiadau byw o berfformiadau gwefreiddiol a setiau trawiadol Cwmni'r Cwfaint, er enghraifft. Gwerthfawrogwyd bodolaeth y fath dalent a phenderfynwyd sefydlu ysgoloriaethau ar gyfer cefnogi ac annog actorion ifanc y sir pa iaith bynnag a siaradent.

Roedd nawddogaeth Cyngor y Celfyddydau, ynghyd â'r posibiliadau o sefydlu theatr fach yn y sir, yn arwyddion pendant o'r hyn oedd i ddigwydd ym Môn ym Medi 1954 ac ym Mai 1955.

Ar gyfer gŵyl ddrama sirol 1954, penderfynwyd symud y profion terfynol yn ôl i Gaergybi. Yn ystod y rhagbrofion llwyfannwyd deunaw drama un act a phedair drama hir. Yn y profion terfynol, drama Saesneg a ddaeth i'r brig ym mhob adran. O dan yr amgylchiadau, gellid dadlau fod y penderfyniad i adleoli'r ŵyl sirol yn rhywbeth hollol ymarferol ac nad rhyw fympwy ar ran y pwyllgor drama mohono.

Yn ystod 1953, derbyniodd y Cyngor Gwlad wahoddiad gan Gyngor y Celfyddydau i ymgymryd â chynnal Gŵyl Ddrama Genedlaethol ym Môn yn 1954. Mae'n amlwg fod llwyddiant yr ŵyl sirol, er gwaethaf y problemau ieithyddol a'i hwynebai, ynghyd â gweledigaeth a brwdfrydedd J.O. Jones a'r pwyllgor drama, wedi chwarae rhan amlwg ym mhenderfyniad Cyngor y Celfyddydau i ofyn i Fôn gynnal yr ŵyl yn 1954. Dewisiwyd tref Llangefni yn ganolfan i'r ŵyl newydd.

Ond nid yw hyn yn syndod. Yn ystod blynyddoedd cyntaf y pumdegau, daeth Cymdeithas Ddrama Llangefni i'r amlwg yn lleol ac yn genedlaethol. Roedd yna, hefyd, awydd i sefydlu theatr yn y dref. Er mwyn hyrwyddo'r dyhead hwn, sicrhawyd cefnogaeth Cyngor Dinesig Llangefni, ac agorwyd y Theatr Fach yn y dref 3 Mai 1955. Ond gan mai stori arall fydd honno, cyfyngir gweddill y bennod hon i drafod tranc yr ŵyl ddrama sirol ar y naill law, a datblygiad yr ŵyl ddrama genedlaethol ar y llaw arall.

Awgrymir fod tranc yr ŵyl ddrama sirol ar y gorwel o fwrw golwg ar adroddiadau blynyddol y Cyngor Gwlad a hefyd yr adroddiadau amdani yn y wasg leol. Nid yw'n cael yr un sylw ganddynt bellach. Ar gyfer gŵyl 1956 cafwyd arbrawf arall pryd y gwahoddwyd Mr John Gwilym Jones nid i feirniadu ond, yn hytrach, i adolygu'r perfformiadau a chynnig gwelliannau. Yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor Gwlad am 1955-6, rhoddwyd sylw dyladwy i'r ail ŵyl genedlaethol ac i weithgareddau'r Theatr Fach, ond prin y crybwyllwyd yr ŵyl sirol. Yn ymarferol, mae'n debyg na ellid disgwyl i'r Cyngor Gwlad wneud cyfiawnder â dwy ŵyl ddrama, ac yn raddol diflannodd yr ŵyl sirol oddi

ar galendr y Cyngor. Yn 1959, gwnaed ymdrech arall i'w hailgychwyn a hynny yn Neuadd Glannau Ffraw '...[a feddai ar] lwyfan a goleuadau y [gellid] yn hawdd eu cymhwyso i bwrpas unrhyw gwmni'. [77]

Gydag ymddangosiad tri chwmni yn unig, siomedig fu'r arbrawf. Ni chynhaliwyd gŵyl arall hyd Chwefror 1965, blwyddyn olaf J.O. Jones fel Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Môn.[78] Y flwyddyn honno cynhaliwyd yr ŵyl dros dair noson yn Neuadd yr Eglwys, Caergybi. Ar ei chyfer sefydlwyd Pwyllgor Lleol yng Nghaergybi a throsglwyddwyd holl gyfrifoldebau'r trefnu a'r gwerthu tocynnau o ddwylo'r Pwyllgor Drama canolig i'r pwyllgor lleol. Er gwaethaf llwyddiant y fenter, byr fu'r cyfnod o lawenhau. Flwyddyn yn ddiweddarach siomedig iawn fu'r ŵyl ac adroddwyd mai dim ond cant a hanner o gynulleidfa a gafwyd dros ddwy noson yng nghanol Chwefror 1966. O hynny ymlaen, er gwaethaf ymdrechion i newid ei lleoliad, siomedig fu'r gefnogaeth iddi. O ganlyniad i'r newid cymdeithasol a diwylliannol a'i hamlygodd ei hunan yn ystod y chwedegau, nid yw hyn yn syndod. Yn Ebrill 1968, er enghraifft, cynhaliwyd yr ŵyl yn Neuadd y Dref, Llangefni, am un noson yn unig, a gwnaethpwyd colled ariannol o ddeugain punt. Yn dilyn siomedigaeth arall yng Nghaergybi yn 1969, ni chynhaliwyd yr ŵyl ddrama nesaf hyd Ebrill 1973, yn Llangefni.

Ym Mai 1974, blwyddyn ad-drefnu Llywodraeth Leol, cynhaliwyd yr ŵyl yn Neuadd Glannau Ffraw, ac yn ôl pob tebyg bu'r fenter yn eithaf llwyddiannus. Ar sail y llwyddiant yma, mentrwyd cynnal gŵyl ddrama sirol olaf y Cyngor Gwlad yn Aberffraw am ddwy noson y flwyddyn ganlynol, sef nosweithiau Mawrth a Mercher, 29 a 30 Ebrill 1975. Y noson gyntaf, llwyfannwyd drama hir Saesneg gan Gwmni Rhosneigr, ac yn ystod yr ail noson cyflwynwyd drama un-act Saesneg gan Gwmni Ysgol Gyfun Llangefni ynghyd â pherfformiad o *Dialedd* (cyfieithiad Goronwy Prys Jones o ddrama W. Stuckes, *Shanghai*) gan Gwmni Mechell. Gyda hyn caewyd y drws yn glep ar yr ŵyl ddrama sirol.

Cloir y rhan yma o'r gwaith gyda dau ddyfyniad o Adroddiadau Blynyddol y Cyngor Gwlad ar ddechrau'r chwedegau:

> Er gwaethaf atyniadau sy'n peryglu'r unedau bychain mewn cymdeithas heddiw, dal ei dir y mae gweithgarwch drama ym Môn...Gwelwyd gwella mewn safonau cynhyrchu ac actio a dylai'r newydd-ddyfodiaid i'r gweithgarwch drama fanteisio ar bob cyfle i ymarfer eu doniau. Y mae pob darpariaeth posibl ar eu cyfer mewn cyrsiau ar gynhyrchu, actio, llwyfannu a choluro...[79]

> Y mae gweithgarwch drama'r Sir yn arwyddocau deffroad newydd, a gwelir ymgeisio am safonau uwch mewn actio a chynhyrchu – dwy agwedd sy'n haeddu pob cefnogaeth bosibl o fewn cylch gwasanaeth y Cyngor...[80]

Yn y ddau ddyfyniad cyfeirir yn hyderus at y cynnydd a welwyd yn safon y cynhyrchu a'r actio, ac at y deffroad newydd a brofwyd ym myd y ddrama yn y sir. Ond o gofio mai rhwng 1961 a 1963 yr ysgrifennwyd hwy, go brin mai at yr ŵyl ddrama sirol y cyfeirir. Haws credu mai cyfeirio y maent yn uniongyrchol at ddatblygiad yr ŵyl ddrama genedlaethol.

O 1953 ymlaen, cadwyd drws yr ŵyl ddrama sirol yn gilagored tra agorwyd drws newydd yr ŵyl ddrama genedlaethol led y pen. Er sefydlu'r ŵyl sirol yn 1942, prif amcanion y Cyngor Gwlad, drwy ei bwyllgor drama oedd, yn gyntaf, annog y cymunedau lleol i ffurfio eu cwmnïau drama eu hunain, ac wedyn anelu at godi safonau dramayddol y cwmnïau hynny. Yn y beirniadaethau a ymddangosai'n flynyddol yn y wasg, fe gyfeiria arbenigwyr fel Cynan, D. Haydn Davies, Mary Lewis, Elsbeth Evans, a John Ellis Williams at y cynnydd sylweddol a welwyd o safbwynt celfyddyd y ddrama o flwyddyn i flwyddyn ym Môn. Ond serch y ganmoliaeth, cyfyng iawn oedd y dewis o ddramâu safonol Cymraeg oedd ar gael i'r cwmnïau yn ystod y pedwardegau. Mae'n ddigon posibl mai'r diffyg yma oedd yn rhannol gyfrifol am lwyddiant cynyddol cwmnïau Saesneg y sir yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf ei Seisnigeiddio cynyddol, bu llwyddiant gŵyl ddrama Môn dros y blynyddoedd yn ddigon i argyhoeddi Cyngor y Celfyddydau y gellid anelu'n uwch na'r ŵyl sirol a sefydlu, ym Môn, ŵyl ddrama genedlaethol. Gyda hyn mewn golwg, gwnaed cais swyddogol yn niwedd Ebrill 1953, i Bwyllgor Drama Cyngor Gwlad Môn yn datgan dymuniad Cyngor y Celfyddydau:

Gŵyl Ddrama Arbennig

> Darllenwyd llythyr oddi wrth Miss Myra Owen, Cyfarwyddwr Cymru o Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr yn dymuno ar i'r Cyngor Gwlad ystyried trefnu Gŵyl Arbennig ym Môn yn ystod 1954.
>
> Pasiwyd i gytuno â'r cais...ac i drafod y mater ymhellach mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor.[81]

Mewn ychydig dros bythefnos, cyfarfu'r pwyllgor arbennig hwnnw. Ynghyd ag aelodau o'r pwyllgor drama, roedd Miss Myra Owen a Miss Nesta Howe yn bresennol ar ran Cyngor y Celfyddydau a

> [ch]aed gan Miss Myra Owen amlinelliad o'r syniad o'r Ŵyl uchod lle y gellir dwyn ynghyd gwmnïau o Fôn, Gogledd a De Cymru i berfformio dramâu Cymraeg neu gyfieithiadau o safon, gyda cynhyrchwyr profiadol. Pwysleisiai Miss Owen mai'r pennaf beth mewn golwg ddylai fod safonau. Amcan gŵyl o'r natur yma yw dangos y gorau a ellir ymysg cwmnïau amatur, gan nad oes yng Nghymru eto gwmnïau proffesynol.
>
> Yn dilyn caed trafodaeth ar ddewis drama addas, cynhyrchwyr, a chwmnïau. Ofnai Mr. F. G. Fisher inni gyflymu'n ormodol gyda threfniadau a gwneud cawl o bethau...
>
> Ar awgrymiad Miss Myra Owen cytunwyd i wahodd Yr Archdderwydd Cynan i gynhyrchu Cwmni Môn...Mr. Edwin Williams yn gynhyrchydd Cwmni y Gogledd, a Mr. Raymond Edwards yn gynhyrchydd Cwmni y De.[82] [Gweler Atodiad F]

Yn ystod y darpariaethau cynnar, cyfeirid ati yng nghofnodion y pwyllgor drama fel 'gŵyl arbennig', ond erbyn cyfnod y cyhoeddusrwydd rhoddwyd iddi ei theitl swyddogol cyntaf: Gŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni. Ar ei chyfer dewisiwyd Mr. William Jones, Clerc Cyngor Sir Môn yn Llywydd,[83] ac yn ystod cyfarfod o'r pwyllgor drama yn Ebrill, 1955,[84] penderfynwyd yn unfrydol i estyn gwahoddiad i William Jones i fod yn Llywydd Anrhydeddus yr ŵyl tra cynhelid hi ym Môn.

Er gwaethaf pryderon F.G. Fisher, derbyniwyd gwahoddiad Cyngor y Celfyddydau gyda breichiau agored ac aethpwyd ati ar unwaith â'r darpariaethau. Bron i ddeugain mlynedd wedi'r ŵyl gyntaf, ysgrifennodd J.O. Jones erthygl i bapur lleol yn dwyn i gof sefydlu'r ŵyl ddrama genedlaethol yn Llangefni ym Medi 1954, a phriodol fyddai mynd i lygad y ffynnon a dyfynnu ohoni. Ond ni wneir hynny. Yn hytrach, fe ddyfynnir o erthygl gyffelyb ganddo a ymddangosodd yn rhaglen swyddogol degfed pen-blwydd yr ŵyl ddrama ym Medi 1964. Yn yr erthygl cydnabuwyd y ddolen gyswllt a fodolai rhwng yr hen ŵyl sirol a'r ŵyl genedlaethol:

SYNIAD NEWYDD

> Y mae dros ddeuddeng mlynedd er pan alwodd Miss Myra Owen, Cyfarwyddwr Pwyllgor Cymreig Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru, gyda mi i drafod y syniad oedd ganddi o sefydlu Gŵyl Ddrama ar raddfa genedlaethol yn Llangefni. Pan gyflwynwyd y syniad i'r Pwyllgor Drama croesawyd ef gyda brwdfrydedd a chyn bo hir 'roeddym yng nghanol y cynllunio. Cymerodd yr Ŵyl fawr gyntaf, a gynhaliwyd yn 1954, bron i ddwy flynedd o amser i'w threfnu. Amcan ei sefydlu ydoedd creu canolfan i'r ddrama Gymraeg a cheisio cyflwyno dramâu gwreiddiol gan awduron o Gymry a chyfieithiadau o rai dramâu safonol, hen a newydd.
>
> 'Roedd ym Môn gryn ddiddordeb yn y ddrama gan i'r Cyngor Gwlad drefnu gwyliau yn ystod y ddeuddeng mlynedd blaenorol a chredai'r pwyllgor mai purion peth a fyddai cymryd y cam hwn i sefydlu'r Ŵyl Genedlaethol. Gwyddem fod yn ein mysg actorion, cynhyrchwyr a gwŷr llwyfan. Credem, hefyd, y byddai gennym gynulleidfa werthfawrogol yn barod i gefnogi menter o'r fath. 'Roedd penderfyniad y pwyllgor, felly, yn gwbl unol a chefndir gweithgarwch drama'r sir.
>
> Wrth lunio'r rhaglen penderfynwyd mai priodol fyddai cael cwmni o Fôn, cwmni o Ogledd Cymru a chwmni o'r De. A dyna, fwy neu lai, a fu patrwm yr Ŵyl byth er hynny.
>
> Ychwanegwyd at hyn raglenni nodwedd, ambell ddarlith gyhoeddus a seiat. Yn wir, caed aml i seiat swyddogol ac answyddogol lle bu dadlau brwd a chynllunio dyfodol y ddrama yng Nghymru. Cawsom gyfle, hefyd, i gyfarfod â chwmnïau a chefnogwyr y ddrama o bob cwr o Gymru ac y mae hynny ynddo ei hun o gryn werth...
>
> Priodol ar ein degfed penblwydd yw ein holi ein hunain â sylweddolwyd yr amcanion a oedd gennym mewn golwg ar y dechrau. Gallwn honni un peth, sef bod yr ŵyl wedi cyflwyno, am y tro cyntaf, rai dramâu newydd sydd bellach yn glasuron yr iaith Gymraeg...[85]

Os cyplysir y llinell olaf ym mharagraff cyntaf J.O. Jones ym Medi 1964, â'r hyn a ddatganwyd gan Miss Myra Owen ym Mai 1953, mai amcan yr ŵyl oedd

> ...dwyn ynghyd gwmnïau o Fôn, Gogledd a De Cymru i berfformio dramâu Cymraeg neu gyfieithiadau o safon, gyda cynhyrchwyr profiadol...

ac mai

> [a]mcan Gŵyl o'r natur yma yw dangos y gorau a ellir ymysg cwmnïau amatur, gan nad oes yng Nghymru eto gwmnïau proffesiynol...

ceir darlun clir o'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol gan Gyngor Gwlad Môn a Chyngor y Celfyddydau. Gyda'r argymhellion hyn mewn golwg, yn ogystal â sicrhau fod tri chwmni rhanbarthol yn cymryd rhan ynddi, aethpwyd ati gyda brwdfrydedd i ddarparu ar gyfer yr ŵyl ddrama genedlaethol gyntaf yn Medi 1954. Er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd digonol gwnaed nifer o awgrymiadau gwreiddiol. Gellid dadlau fod rhai

ohonynt, yng ngoleuni'r oes soffistigedig a thechnolegol sydd ohoni heddiw, yn ymddangos yn gyntefig ac anymarferol:

(i) Ceisio cydweithrediad Cyngor Dinesig Llangefni i osod baneri ar y stryd rhyw wythnos o flaen yr Ŵyl.
(ii) Sicrhau baneri yn dwyn y geiriau "Gŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni, Medi 23, 24, 25, 1954".
(iii) Gwneud ymholiadau a ellir gosod poster ger Tyrpaig Nant, Llangefni.
(iv) Cael cyflenwad o hysbysiadau i'w gosod ar foduron.
(v) Ymholi ynglŷn â chael hysbysiadau ar fysiau Crosville y tu allan i Fôn.
(vi) Ceisio trefnu hysbysiadau ar boteli llefrith.
(vii) Cyhoeddusrwydd ar y Radio a'r Wasg. Pamphledi a phosteri.[86]

Yn ddi-os bu'r ymdrech yn llwyddiant a gosodwyd sylfaen gadarn i un o wyliau drama mwyaf dylanwadol Cymru. Yn dilyn llwyddiant yr ŵyl gyntaf, buan y dyrchafwyd hi i binacl gwyliau drama'r genedl drwy gael ei chydnabod, o hynny ymlaen, fel Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, bu peth anniddigrwydd ynglŷn ag addasrwydd y teitl ar gyfer 1961. Penderfynwyd cynnal yr ŵyl[87] ym Medi y flwyddyn honno, ond am ba resymau bynnag penderfynodd y pwyllgor drama[88] ddileu'r gair 'genedlaethol' o'r teitl; hynny yw, hyd nes i'r Pwyllgor Gwaith wrthod y penderfyniad a mynnu i'r ŵyl ei theitl llawn.[89]

Serch hynny, rhaid cofio mai gŵyl ddrama amatur, yn hytrach nag amaturaidd, y bwriedid iddi fod, ac mai ei phrif amcan oedd codi safon y ddrama ymysg cyfansoddwyr, cynhyrchwyr ac actorion amatur Cymru. Cydnabuwyd hyn gan J.O. Jones mewn erthygl fer o'i eiddo a ymddangosodd yn y wasg yn niwedd Rhagfyr 1977. Ceir ynddi amlinelliad o gefndir y ddrama amatur yng Nghymru hyd y pumdegau, ynghyd â'i obeithion ynglŷn â'r ŵyl ddrama genedlaethol newydd:

> Gweithgarwch ysbeidiol yw gweithgarwch amatur o bob math gan ddibynnu ar frwdfrydedd nifer o unigolion a'r amgylchiadau ar y pryd. Pan ddaw to newydd o weithwyr, anodd yn aml yw trosglwyddo'r brwdfrydedd o'r naill i'r llall.
>
> Profwyd hyn yn gyson ym myd y ddrama amatur oni fo peiriant gweinyddol effeithiol wedi'i greu i ddiogelu'r gweithgarwch a llunio polisiau cyson i gyfarfod â'r amgylchiadau newydd a ddaw o dro i dro.
>
> Hap a damwain yw hanes y mudiad drama amatur wedi bod erioed yng Nghymru – awydd mewn pobl ifanc mewn eglwys, capel neu bentref i ffurfio cwmni drama – a dyna roi cychwyn i bethau. Er hynny, gall dechreuadau digon distadl yn aml arwain i bethau mwy a gwell nag a dybiwyd ar y cychwyn.
>
> ...Arferid cynnal dwy Ŵyl Ddrama tra arbennig yn y Gogledd yn y pumdegau, y naill yn Theatr Fach Garthewin a'r llall yn Neuadd y Dref, Llangefni. Ymgais oeddynt ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru i gasglu cwmnïau gyda'r actorion amatur gorau

> posibl o Gymru i gyflwyno dramâu arbennig a llawer ohonynt yn rhai a gomisiynwyd ac a berfformiwyd am y tro cyntaf. Gwyliau amatur oeddynt, ond ceisid anelu at safonau mor broffesiynol ag oedd yn bosibl ar y pryd...[90]

Yn y dyfyniadau uchod cyfeirir yn benodol at natur amatur y ddrama yng Nghymru; yn wir, yn ystod y pumdegau, dyna oedd y sefyllfa. Fel adloniant torfol roedd y teledu yn ei fabandod a hynny yn uniaith Saesneg. Dibynnai'r Gymru Gymraeg ar y radio am adloniant dramatig a chyflogwyd cnewyllyn bach o actorion rhan amser gan y BBC. Er enghraifft, am gyfnod o ryw dair blynedd yng nghanol y pumdegau, cafodd Owen Williams, cyn-gynhyrchydd Cwmni Drama Llangefni, ei gyflogi i chwarae rhan prif gymeriad *Teulu'r Siop*, y ddrama sebon wythnosol gyntaf yn Gymraeg, a daeth *SOS Galw Gari Tryfan* yn binacl adloniant wythnosol ieuenctid Cymru.

Yn y pedwardegau fe geisiodd Cyngor Gwlad Môn, fwy nag unwaith, greu ymwybyddiaeth ymysg dramodwyr y sir o'r safonau dramayddol a fodolai yn Lloegr. Er enghraifft, estynnwyd gwahoddiad i Gwmni'r Old Vic i berfformio yn Neuadd y Dref, Llangefni, a gwahoddwyd Wendy Hiller a'i gŵr, Ronald Gow, i lywyddu yn un o wyliau drama Môn.

Erbyn Rhagfyr 1977, pan ymddangosoddd erthygl J.O. Jones, dylid cydnabod bod cryn newid wedi digwydd o safbwynt natur a safon y ddrama yng Nghymru. Ym Môn, er bod dyddiau'r cwmnïau amatur teithiol wedi hen ddirwyn i ben, caed perfformiadau caboledig a phroffesiynol eu naws yn y Theatr Fach yn Llangefni, a thrwyddi, dros y blynyddoedd, mentrodd rhai actorion i'r byd actio proffesiynol ar lwyfan a theledu. Yn yr un erthygl, mae J.O. Jones yn cyfeirio'n arbennig at y cyfnod hwn:

> Aeth cryn amser heibio cyn gweld newid o bwys mewn ceisio gwella safonau a dod i gredu fod y gelfyddyd o ysgrifennu ac actio drama yn un o'r celfyddydau y bu inni eu hesgeuluso yn gwbl ddifeddwl yng Nghymru.
>
> Ond daeth tro ar fyd a chaed ymdrechion i geisio gwella'r sefyllfa drwy drefnu cyrsiau hyfforddi mewn actio, cynhyrchu, coluro, gwneud celfi a gosod llwyfan, a gadawodd y ddarpariaeth yma ei hôl ar y mudiad drama amatur ac, yn wir, ar y tyfiant proffesiynol a welir yng Nghymru heddiw, gan fod llawer o'n hactorion proffesiynol wedi dod drwy'r mudiad amatur.
>
> ...Bellach daeth yn amser i ddwyn yr amatur a'r proffesiynol yn nes at ei gilydd...

Gellir dadlau bod sefydlu'r ŵyl ddrama genedlaethol yn Llangefni yn 1954 wedi chwarae rhan allweddol o safbwynt pontio'r agendor a fodolai rhwng yr amatur a'r proffesiynol, a bod un dyddiad arbennig yn hanes Pwyllgor Drama Cyngor Gwlad Môn yn nodedig yn hyn o beth. Mewn pwyllgor drama, 30 Rhagfyr 1954,[91] cadarnhawyd bod y Parchedigion Islwyn Ffowc Elis[92] a Huw Pierce Jones, ynghyd â Mr Wilbert Lloyd Roberts,[93] wedi cytuno i weithredu ar y pwyllgor. Os dadansoddir cynnwys holl berfformiadau'r ŵyl genedlaethol er ei sefydlu yn 1954 hyd at ei therfyn yn 1975, fe sylweddolir gwir arwyddocâd y cyfetholiadau hyn. [Atodiad F]

Os edrychir ar y rhestr o gwmnïau a ymaddangosodd yn yr ŵyl, ynghyd â'r dramâu a lwyfannwyd ganddynt, fe welir bod syniad gwreiddiol Miss Myra Owen, ar ran Cyngor y Celfyddydau, o gael gŵyl '...lle y gellir dwyn ynghyd gwmnïau o Fôn, gogledd a de Cymru i berfformio dramâu Cymraeg neu gyfieithiadau o safon, gyda cynhyrchwyr profiadol...' yn sicr o fod wedi ei wireddu. Ac os edrychir ar y rhestr o gynhyrchwyr, fe gafodd y cymal olaf hefyd ei wireddu. O 1954 hyd 1964, er mai gŵyl amatur ydoedd roedd yr hyn a berfformiwyd ynddi yn gofyn am broffesiynoldeb ar ran actorion a chyfarwyddwyr. Er bod peth anghytuno ynglŷn â'i disgrifio fel gŵyl 'genedlaethol' wedi digwydd yn 1961, sicrhawyd y safonau uchaf posibl o flwyddyn i flwyddyn. Yn 1961, er enghraifft, estynnwyd gwahoddiad i Gwmni Drama Cymdeithas Cymry Llundain[94] i ymddangos yn yr ŵyl am y tro cyntaf. Gyda Reginald (Reg) Evans yn cynhyrchu, a thalentau ifanc fel Ryan Davies a Rhydderch T. Jones yn aelodau o'r cwmni, ni ellid amau safon y chwarae.

Yn rhaglen gŵyl ddrama genedlaethol 1964, cynhwyswyd erthygl gan Alun Llywelyn-Williams, Cyfarwyddwr Efrydiau Allanol y Brifysgol ym Mangor, i ddathlu pen-blwydd yr ŵyl yn ddeg oed. Yn yr erthygl, 'Y Gamp a Gyflawnwyd', ceir amlinelliad o sefyllfa'r ddrama Gymraeg yng nghanol y chwedegau.

Mae'n amlwg fod Llywelyn-Williams yn bryderus iawn ynglŷn â dyfodol y theatr fyw yng Nghymru, yn arbennig felly yng ngoleuni atyniad cynyddol y sgrin deledu y pryd hynny. Cydnebydd fod drysau nifer fawr o theatrau proffesiynol Lloegr, y tu allan i Lundain, yn cau, ac

yn ei dyb ef roedd y sefyllfa yng Nghymru yn sicr o fod yn fwy bregus o gofio nad oedd 'gennym ni draddodiad theatr broffesiynol o gwbl'. Yn ei farn ef, roedd

> Llai o gwmnïau drama amatur yng Nghymru wledig a llai o berfformio dramâu yn y pentrefi ac yn festrioedd y capeli. Y mae hynny'n anorfod am lawer rheswm, ond nid yw'n golygu fod llai o ddiddordeb yn y ddrama ymhlith y bobl. Gall olygu fod y gynulleidfa heddiw'n fwy beirniadol a'i bod yn disgwyl safon uwch ar lwyfan bellach.

Ond, yn sicr, nid anobaith hollol oedd byrdwn ei erthygl. Yn hytrach, gellir dadlau mai gosod sialens y mae Llywelyn-Williams i ddramodwyr a charedigion y ddrama yng Nghymru drwy ddweud mai '[e]in tasg a'n braint ni yw creu amodau proffesiynol i'n hamaturiaeth, a gosod safonau proffesiynol iddi'. Y broblem ym myd y ddrama Gymraeg, meddai, oedd darganfod sut i fynd ati i 'gymhwyso ... safonnau proffesiynol i'n hamgylchiadau ni' yng Nghymru.

I gyfarfod â'r sialens, cydnebydd y ffaith fod theatrau bychain eisoes wedi eu sefydlu gyda'r bwriad o osod 'y safon uchaf posibl yn nod i weithgarwch cyson'. Er bod twf y mudiad yn araf, roedd yn sicr o fod ar gynnydd. Yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith presennol, gellir dadlau fod agor y Theatr Fach yn Llangefni yn 1955 yn esiampl dda o'r hyn oedd ganddo dan sylw, yn ogystal â 'llwyddiant eithriadol' yr ŵyl ddrama genedlaethol a sefydlwyd gan Gyngor Gwlad Môn yn 1954. Ond er bod safon cyflwyniadau'r ŵyl yn ystod y deng mlynedd 'wedi amrywio peth', cydnebydd Llywelyn-Williams fod rhai o'r cwmnïau 'o ragoriaeth arbennig', ac fe haera fod Môn, yn 1964, yn cyfrif ym myd y ddrama, a bod y 'ddrama'n cyfrif ym mywyd Môn'. Roedd yn amlwg ddigon, meddai, 'fod gallu'r gynulleidfa i werthfawrogi dramâu wedi cynyddu'.

Ond os ydys am werthfawrogi'n llawn yr hyn ddywedodd Alun Llywelyn-Williams, rhaid troi'r cloc yn ôl i ŵyl ddrama genedlaethol 1959. Yn dilyn yr ŵyl honno, ysgrifennodd Dewi Llwyd Jones erthygl yn y wasg yn dwyn y teitl 'Gŵyl Ddrama Llangefni'.[95] Ymddangosodd yr erthygl dros gyfnod o dair wythnos, ac yn y rhan gyntaf, a ymddangosodd 1 Hydref, dyma beth ddywed:

> *ESTHER*
>
> Yr oedd noson gyntaf yr ŵyl yn un nodedig oherwydd cyflwyno am y tro cyntaf ddrama newydd gan Mr Saunders Lewis. Y mae cynulleidfa'r ŵyl yn hen gyfarwydd â dramau'r awdur gan iddynt, o fewn pum mlynedd, weld y perfformiad cyntaf o *Gym'rwch Chi Sigaret?*, a pherfformiad o *Brad*. Nid rhyfedd felly i'r awdur gyflwyno ei ddrama newydd *Esther* yn rhodd i Gwmni Môn (cynhyrchydd H. Pierce Jones).
>
> O'r Hen Destament ac o'r Apocryffa y cafwyd deunydd crai y ddrama sydd, o fewn cwmpas diwrnod, yn dangos sut y trechwyd *Haman* gan *Esther* a *Mordecai*...

Yr wythnos ddilynol, 8 Hydref, â ati i sôn mwy am yr achlysur hwn:

> Wrth sôn am y ddrama hon dywedodd Mr William Jones, llywydd yr Ŵyl, i Mr Saunders Lewis osod anrhydedd ar y cwmni drwy ei chyflwyno iddynt. Haeddodd y cwmni yr anrhydedd. Yr oedd yn amlwg eu bod oll yn ymwybodol o'r anrhydedd hefyd, a hynny, efallai, a achosodd nerfusrwydd yn yr act gyntaf. Cafwyd cryn dipyn mwy o hyder yn yr ail act, ac yr oedd y drydedd act yn dangos y cwmni ar ei orau, a'r setio, y llwyfan, y cynhyrchu a phopeth yn cydweithio i roddi i'r gynulleidfa beth o wefr y theatr...Llwyddodd y cwmni i gyfleu y stori ynghyd â'i harwyddocad...

Ymysg y cast yr oedd J.O. Roberts, Len Roberts, Lyn Pierce Jones, Owen Parry ac Emyr Jones. Yn sicr, fe werthfawrogid haelioni Saunders Lewis yn caniatáu i'r cwmni berfformio'i ddrama, ac yn ôl pob tebyg rhoddasai'r cwmni o'i orau a chafwyd perfformiad boddhaol. Ond yng ngoleuni cyfaddefiad Saunders Lewis ei hun mewn llythyr at Kate Roberts yng Ngorffennaf 1959, mae lle i amau a oedd mor haelionus â hynny tuag at gwmni'r ynys. Yn ddiarwybod i'r cynhyrchydd, yr actorion a Chyngor Gwlad Môn, mynegodd Saunders Lewis ei amheuon a'i betruster ynglŷn â chymhwyster Cwmni Môn i wneud cyfiawnder â'i ddrama newydd:

> Ac yn awr yr wyf yn melltithio fy hun am imi'n feddal roi drama (*Esther*) i gwmni Sir Fôn i'w rhoi ar lwyfan Llangefni. Mi wn o'r gorau mai gweud cawl ohoni a wna'n nhw. [96]

Yn ogystal â chyfeirio at gyflwyniad Cwmni Môn o *Esther*, cyfeiria Dewi Llwyd Jones at yr hyn a ddigwyddodd mewn dau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod gŵyl 1959. Yn un ohonynt, cafwyd darlith gan Aneurin Talfan Davies ar y testun 'Drama Gymraeg – Pam?', ac yn y llall trafodwyd hynt a helynt y ddrama yn gyffredinol. Yn y rhan gyntaf o'i erthygl, 1 Hydref 1959, fe ddywed fod

> ...llawer o wirionedd yn nadl Aneurin Talfan Davies fod cwmni proffesedig yn hanfodol i'r theatr Gymraeg...

ac yn y drydedd ran, 15 Hydref 1959, fe eglura fel y

> ...[c]afwyd cwestiynau lawer ar fater Theatr Genedlaethol, a oedd ei hangen, a ellid ei sefydlu ar hyn o bryd, a ddylai fod yn ddwyieithog, a sut ffurf a ddylai fod arni. Credai Wallis Evans ein bod yn tueddu i boeni gormod am theatr genedlaethol. Credai fod digon o ddiddordeb yn y ddrama i sefydlu cwmni proffesiynol teithiol...O'r llawr, sylwodd F.G. Fisher y gellid sicrhau cymorth [ariannol] heb ddibynnu ar y Llywodraeth. Pe rhoddai pob awdurdod lleol geiniog y bunt o'r dreth gellid sicrhau £100,000 y flwyddyn tuag at theatr genedlaethol.
>
> ...Gofynnwyd ymhellach a oedd yn well i gwmni chwarae cyfieithiad o ddrama dda yn hytrach na chwarae drama Gymraeg wreiddiol wael. Sylwodd Huw Lloyd Edwards na allem wneud heb gyfieithiadau ar hyn o bryd, ac oherwydd diddordeb aelodau'r cwmni a'r gynulleidfa y byddai'n well chwarae drama dda nag un wael, hyd yn oed pe byddai'r un orau yn gyfieithiad.
>
> Cytunai Elwyn Thomas ei bod yn bwysig fod y ddrama yn un dda...
>
> Yr oedd Wallis Evans o'r farn ei bod yn llawer haws chwarae drama dda na drama wael...

Yn ystod y cyfarfod olaf, trafodwyd prif amcanion yr ŵyl genedlaethol o'i dechreuad yn 1954, a gwyntyllwyd sawl sylw a wnaeth Alun Llywelyn-Williams yn ei erthygl yn 1964. Ond, pan ymddangosodd yr erthygl honno, cydnabyddir nad oedd gan Gymru ei theatr genedlaethol ei hun ac, o'r herwydd, doedd dim modd i Llywelyn-Williams fod wedi rhag-weld penderfyniad Wilbert Lloyd Roberts i ffurfio cnewyllyn o actorion Cymraeg yng Nghaerdydd yn 1965, na'i benderfyniad i adleoli'r cwmni hwnnw i Fangor yn 1968.

Yn 1965, gwahoddwyd Cwmni Theatr Cymru i ymddangos ar lwyfan yr ŵyl am y tro cyntaf, ac am weddill y chwedegau a dechrau'r saithdegau daeth cyflwyniad blynyddol Cwmni Theatr Cymru yn rhan anhepgorol o'r ŵyl genedlaethol ac yr un mor gyson ag ymddangosiad Cwmni Môn; daeth yr amatur a'r proffesiynol yn nes at ei gilydd.

Ond wrth edrych yn ôl, fe sylweddolir bod llwyddiant ac atyniad yr ŵyl ddrama genedlaethol ar drai.[97] Ni chynhaliwyd gŵyl ddrama yn 1971 gan i'r is-bwyllgorau cerdd, drama ac arlunio benderfynu cynnal Gŵyl y Celfyddydau yn nhymor yr Hydref yn hytrach na gŵyl ddrama. Ar ei chyfer, trefnwyd i arddangos gwaith enillwyr llwyddiannus yr arddangosfeydd sirol a gynhaliwyd yn ystod yr ugain mlynedd blaenorol. Cynhaliwyd yr ŵyl newydd mewn canolfannau yng Nghaergybi, Amlwch a Biwmares.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ym mis Hydref 1972, cynhaliwyd, am y tro cyntaf, ŵyl ddrama heb gynrychiolaeth cwmni o Fôn. Yn

Adroddiad Blynyddol y Cyngor Gwlad am 1972-3, gwnaed y sylwadau canlynol:

> Roedd y nifer o bobl a ddaeth i'r Ŵyl Genedlaethol eleni yn rhagori ar y blynyddoedd diwethaf, a gwelir gwell cefnogaeth i ymweliadau Cwmni Theatr Cymru i'r sir, ac i berfformiadau gan gwmnïoedd lleol, ond mae prinder o ddramâu addas yn Gymraeg yn peri anawsterau i gwmnïoedd nid yn unig ym Môn ond trwy Gymru gyfan. Mae'r Cyngor yn ystyried y posibilrwydd o drefnu cystadleuaeth cyfieithu ac ysgrifennu drama ac i gynnig gwobrau hael er ceisio denu ysgrifenwyr newydd.

Ni chynhaliwyd yr ŵyl ddrama genedlaethol yn 1973 nac yn 1974, a'r prif reswm a roddwyd oedd diffyg dramâu addas yn y Gymraeg. Yn unol â'i addewid, trefnodd y Cyngor Gwlad ddwy gystadleuaeth i geisio goresgyn y broblem hon:

> Mewn cydweithrediad ag Eisteddfod Gadeiriol Môn Amlwch [1974], cynigiwyd gwobr o £100 am gyfieithiad o unrhyw ddrama hir Ewropeaidd i'r Gymraeg. Yn ychwanegol, trefnwyd cystadleuaeth ysgrifennu drama wreiddiol hir gan gynnig gwobr o £300, a £150 i'r ail orau. Rhaid oedd cynnig gwobrau mor hael oherwydd yr atyniad gan y radio a'r teledu i gynnig arian sylweddol am waith tebyg. Hyderwn y bydd y cystadleuthau yn gyfrwng i gael nifer o ddramâu ar gyfer Gwyliau Drama 1974 hyd 1977. Gwaetha'r modd ni ddaeth dim un cais i law yn y gystadleuaeth cyfieithu, ond da oedd gweld saith (7) ymgais yn y gystadleuaeth am gyfansoddiad gwreiddiol. Y beirniaid fydd Mr. Raymond Edwards, Caerdydd, a'r Parch. Hugh Pierce Jones, Pwllheli.[98]

Cyhoeddwyd pwy oedd yr enillwyr yn Nhachwedd, 1974, ond bu'n rhaid galw ar Goronwy Prys Jones i weithredu fel canolwr. Gwobrwywyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| £150 i Urien Williams, Y Barri, | *Tedi Bêr* |
| £80 i Bob Roberts, Dyserth, | *Isabella* |
| £70 i J. R. Evans, Llanilar, | *Tân ar yr Aelwyd* |

Llwyfannwyd y dramâu yn Neuadd y Dref, Llangefni, 27-29 Tachwedd, 1975. Mewn llythyr yn y wasg, cafwyd adroddiad am yr ŵyl olaf hon gan Huw Conway, Cemlyn, Môn, llythyr sy'n cyfleu i'r dim y difaterwch a fodolai ar y pryd:

> Un peth oedd yn siomedig – siomedig iawn hefyd – sef yr ychydig nifer yn y gynulleidfa...[99]

Fis yn ddiweddarach daeth cyfnod Cyngor Gwlad Môn i ben a throsgwlyddwyd yr holl gyfrifoldebau i ofal Cyngor Gwlad Gwynedd.

Dros gyfnod o un mlynedd ar hugain, chwaraeodd yr ŵyl ddrama Genedlaethol ran flaenllaw yn natblygiad y ddrama Gymraeg, a chyda thristwch a siomiant y cofnodir ei thranc yn 1975. Ond, yn unol â

thynged llawer o weithgareddau diwylliannol cyffelyb, rhaid i ddifaterwch cymdeithasol y cyfnod ysgwyddo llawer o'r bai am hynny. Yn ogystal, bu atyniad y teledu yn rhannol gyfrifol am y dirywiad drwy gyflwyno adloniant parod i'r gymdeithas.

Trwy drefnu cystadlaethau a gwyliau drama yn ystod y saithdegau a dechrau'r wythdegau, rhaid cydnabod ymdrechion rhai o'r papurau bro i ail-gynnau'r brwdfrydedd dramayddol. Fodd bynnag, ni fu hyn yn llwyddiant ysgubol. Ym Môn, mae'n debyg mai Cwmni Mechell, dan gyfarwyddyd Mrs Audrey Williams, oedd y cwmni olaf i deithio gyda'i berfformiad o'r hen ffefryn, *Y Ferch o Gefn Ydfa* (J. Bonfyl Davies), yn nechrau'r saithdegau. Ac efallai mai ar yr 'hen' y dylid canolbwyntio wrth gloi.

Yn ei bennod, 'Hen Ddramâu, Hen Lwyfannau', haera Dafydd Glyn Jones mai yn 1958 y daeth oes aur 'yr hen ddrama' Gymraeg i ben, a gellir cymhwyso llawer o'i sylwadau at gynnwys y drafodaeth hon:

> Y rhai ohonom a oedd yn blant ym mlynyddoedd canol yr ugeinfed ganrif, fe welsom ni ddiwedd yr 'hen' ddramâu Cymraeg a'r 'hen' fudiad drama...
>
> ...Pan âi'r torfeydd i wylio drama Gymraeg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif ac am ychydig wedi'r hanner, mewn neuadd bentref, neuadd ysgol, festri capel neu institiwt gweithwyr, dyna'u cyflwyniad i'r digwydd yn llawer amlach na pheidio...[100]

Drwy ymroddiad nifer o unigolion a gweledigaeth arloesol Cyngor Gwlad Môn, gellir dadlau fod oes y ddrama Gymraeg yn y sir wedi ei hymestyn ryw ychydig y tu hwnt i glawdd terfyn 1958. Drwy gyfrwng yr ŵyl ddrama sirol a'r ŵyl ddrama genedlaethol, cafodd dramodwyr a chefnogwyr y ddrama ym Môn gyfle i fwynhau'r ddrama Gymraeg drwy ymddangosiadau cwmnïau amatur gorau Cymru hyd ddechrau'r saithdegau. Mae'n sicr fod llawer o'r dramâu yn 'newydd' o'u cymharu â'r 'hen' ddramâu y soniwyd amdanynt eisoes ond, serch hynny, drwy gydweithrediad y Cyngor Gwlad a Chyngor y Celfyddydau, ymestynnwyd oes y ddrama amatur yn y sir. Fe gofir mai gŵyl amatur y bwriedid iddi fod o'r cychwyn ond gyda threigliad amser daethpwyd â'r amatur a'r proffesiynol at ei gilydd. Yn y diwedd, mae'n debyg mai apêl y cyfryngau a'i lladdodd.

Er mwyn osgoi gorffen ar nodyn o anobaith llwyr, dylid crybwyll fod Eisteddfod Môn yn parhau i gynnal ei gŵyl ddrama, a hynny o

flwyddyn i flwyddyn ac o ardal i ardal. Yn aml, fel yn yr 'hen' ddyddiau, fe'i cynhelir mewn neuadd bentref. Am ryw ennyd fach felly'n flynyddol, ceir cyfle o hyd i flasu peth o'r 'hen'ddiwylliant dramayddol yn y sir.

---

1 *Llyfr y Ganrif,* Prif Olygydd: Gwyn Jenkins. (Cyh. Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Lolfa, Hydref 1999), 73.

2 *ibid.*, 75.

3 *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940.* (Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953), 214.
Ganwyd Ellis Humphrey Evans, mab hynaf Evan a Mary Evans yr Ysgwrn, Trawsfynydd, 13 Ionawr 1887. Fel bardd, enillodd y gyntaf o'i chwe cadair yn Y Bala yn 1907, a daeth ei awdl i *Ystrad Fflur* yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1916.
Cyn ymuno â'r fyddin yn nechrau 1917, roedd wedi dechrau cyfansoddi ei awdl *Yr Arwr*, ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Penbedw ym mis Medi, 1917. Fe'i gorffennodd tra oedd yn y gwersyll yn Litherland, a'i phostio o Ffrainc dan y ffugenw, *Fleur-de-lis*. Yn yr eisteddfod 6 Medi 1917, brin bum wythnos wedi ei farw, cyhoeddwyd mai *Fleur-de-lis* oedd enillydd y gadair.

4 Fe'n hatgoffir o'r colledion gan y llu o gofebion a godwyd ar hyd a lled y wlad, a chan mai cofebion 'cymunedol' ydynt, anenwadol yw'r enwau sydd arnynt. Ym mis Chwefror 2004, treuliodd yr awdur beth amser yn crwydro rhannau o ogledd orllewin Cymru yn edrych ar amrwyiol gofebion, trefol a gwledig, arfordirol a mewndirol. O ganlyniad, gwerthfawrogir effaith y colledion ar fywyd ac ar ddiwylliant y cymunedau hynny. Enghreifftiau yn unig yw'r ffigurau canlynol, ond yn eu mysg ceir cynrychiolaeth o ardaloedd amaethyddol yn ogystal ag ardaloedd y llechi. Beth bynnag fo gogwydd diwydiannol yr ardaloedd, yr un, yn sicr, oedd y golled ddiwylliannol:

| Lleoliad y gofeb | Y nifer o fechgyn a merched a gollwyd 1914-1918 | 1939-1945 |
|---|---|---|
| Trawsfynydd | 33 | 4 |
| Bethesda | 92 | 32 |
| Dolwyddelan | 13 | 6 |
| Llanberis | 63 | 14 |
| Penygroes | 33 | 19 |
| Y Felinheli | 46 | 19 |
| Amlwch | 61 | 40 |
| Biwmares | 45 | 20 |
| Caergybi | 289 | 140 |
| Cemais | 9 | 15 |
| Gaerwen | 13 | 8 |
| Llanfechell | 16 | 3 |
| Llangefni | 36 | 14 |
| Llannerch-y-medd | 29 | 13 |
| Pentraeth | 9 | 4 |
| Porthaethwy | 47 | 22 |
| Rhosneigr | 28 | 9 |

Ceir gwybodaeth ychwanegol ar gofebion Blaenau Ffestiniog a Llanfairpwll. Yn Blaenau Ffestiniog codwyd cofeb arbennig gan Gwmni Llechi'r Oakley i goffáu y pedwar gweithiwr ar hugain a gollwyd rhwng 1914 a 1919. Yn Llanfairpwll dynodir oed pob milwr gyferbyn â'i enw:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 33 | | 12 |
| Ystod oed: | 19-47 | Ystod oed: | 18-53 |
| Cyfartaledd oed: | 25.8 | Cyfartaledd oed: | 32.8 |

5 *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970*. (Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, Llundain 1997), 91-2.

Albert Evans-Jones (*Cynan*: g. 14 Ebrill 1895 m. 26 Ionawr 1970).

Fe'i ganwyd ym Mhwllheli yn fab i Richard Albert a Hannah Jane Jones

Ymunodd â'r RAMC yn 1916, a gwasanaethodd ym Macedonia ac yn Ffrainc fel aelod o'r *86th Field Ambulance*, ac yn ddiweddarach fel caplan. Fe'i hordeiniwyd yn 1920 ac yn yr un flwyddyn fe'i sefydlwyd yn weinidog eglwys Bresbyteraidd Penmaenmawr. Yn 1931, fe'i hapwyntiwyd yn diwtor yn Adran Allanol Coleg Prifygol Cymru, Bangor, ac yn diwtor staff yno o 1936 hyd ei ymddeoliad yn 1960. Ei bynciau oedd drama a llenyddiaeth Gymraeg. Fe'i cysylltir yn bennaf â'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn arbennig am ei waith yn diwygio'r Orsedd. Gan ei fod yn ŵr '... a chanddo lawer iawn o synnwyr drama a phasiant ...', aeth ati i roi trefn ac urddas i'r seremonïau. Enillodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith, a'r gadair unwaith. Ef oedd Archdderwydd Cymru o 1950 hyd 1954, ac o 1963 hyd 1966. Am flynyddoedd bu'n

feirniad cenedlaethol yn yr Adran Farddoniaeth ac yn yr Adran Drama. Bu ei gyfraniad i ddatblygiad y ddrama Gymraeg yn helaeth. Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931, enillodd ei ail goron yn ogystal â'r wobr gyntaf gyda'i ddrama, *Hywel Harris*. Cafodd gomisiwn i ysgrifennu *Absalom fy Mab* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1957, a chyfaddasodd ddwy ddrama o'r Saesneg, sef *Lili'r Grog* (John Masefield) a *Hen ŵr y mynydd* (Norman Nicholson).
Efallai mai '... ei gyfraniad mwyaf i'r ddrama yng Nghymru oedd yr hyn a wnaeth trwy ddarlithio ar y pwnc i ddosbarthiadau allanol ac mewn gwyliau drama, trwy gyfarwyddo cwmnïau ... a thrwy feirniadu ...'.
Ef oedd sensor y dramâu Cymraeg o 1931 hyd 1968.

6 Llyfr Cofnodion Undeb Neuaddau a Chymdeithasau Pentrefol Môn ym meddiant Swyddfa Medrwn Môn, Llangefni.

7 *ibid.*

8 Adroddiad cyntaf yr Undeb a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Blynyddol, 28 Ebrill 1921.

9 H.O. Hughes – gweler Atodiad A(10) .

10 Cofnodion Pwyllgor Gwaith yr Undeb, 13 Gorffennaf, 1920

11 Cyflwynwyd Tlws y Ddraig yn 1920-1 gan 'Undeb Neuaddau a Chymdeithasau Pentrefol Môn' ar gyfer 'Cystadleuaeth Chwarae Drama'. Roedd y tlws i'w ddal am flwyddyn. Fe'i cyflwynwyd am y tro olaf yn ystod Gŵyl Ddrama Eisteddfod Môn, Caergybi, Ebrill 1997, yn yr Adran Agored am berfformiad o ddrama 'un act na chymer fwy na 40 munud'. Erbyn hyn mae'n cael ei gadw yn Oriel Ynys Môn, Llangefni.

12 Y Parchedig Thomas Shankland, MA, Llyfrgellydd, Coleg Prifysgol Cymru Bangor, o 1904 hyd at 1926.
Mr. Samuel James Evans, MA, Prifathro Ysgol Sir Llangefni o 1897 hyd at 1935.

13 Yn y gystadleuaeth derfynol yn Llangefni, llwyfannwyd
*Ar y Groesffordd* (R.G. Berry) gan Gwmni Padrig, 28 Ionawr 1921
*Ar y Groesffordd* (R.G. Berry) gan Gwmni Tysilio, 11 Chwefror 1921
*Beddau'r Proffwydi* (W.J. Gruffydd) gan Gwmni Llangefni, 25 Chwefror 1921.

14 Adroddiad yr Undeb am 1922-3.

15 Yng nghofnodion y Pwyllgor Gwaith, 16 Tachwedd 1922, cyfeirir at y ddrama, *Coron y Bardd*, fel '... a new play now in the hands of the printer ...'.

16 Rhestr testunau Eisteddfod Môn Caergybi, Mai 1997, 15.

17 *Y Clorianydd*, 30 Mai 1928, 3 a 6 Mehefin 1928, 2.

18 Erbyn y degfed Adroddiad, a gyflwynwyd 25 Ebrill 1929, newidiwyd y teitl i 'Undeb Neuaddau Pentrefol a Chyngor Poblogaeth Wledig Môn'.

19 Llyfr Cofnodion yr Undeb/Adroddiad Blynyddol 1938-9.

20 Cofnodion Cyngor Gwlad Môn, Pwyllgor Gwaith, 26 Medi 1939.

21 Yng Nghofnodion y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 17 Rhagfyr 1946, fe nodir i J.O. Jones gael ei benodi yn Ysgrifennydd amser-llawn o 1 Chwefror 1947, ar gyflog o bum cant o bunnau y flwyddyn gyda chostau teithio yn ôl pedair ceiniog y filltir.
Yn ystod Pwyllgor Gwaith 29 Ionawr 1947, cytunwyd i benodi Miss Myfanwy Owen (Jarman wedyn) yn Glerc amser-llawn o 1 Chwefror 1947.

22 Cofnodion: Anglesey Union of Village Halls and Societies, Chwefror 1919.

23 Erthygl gan Cynan ar 'Hynt y Ddrama ym Môn', *Môn*, Cyf.1 Rhif 1 Gwanwyn 1948, 9-10.

24 Ceir y fersiwn Gymraeg o'r Cyfansoddiad ar dudalennau rhydd yng nghofnodion yr Anglesey Union of Village Halls and Societies and Rural Community Council, 1929-55.

25 *ibid.,* Y Cyfansoddiad: 2. Swyddogion y Cyngor.

26 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1940-1.

27 *The Times*, Saturday, June 18, 1949
Social and Cultural Life of the Countryside: A Revolution Since 1919 (From a Correspondent). Gweler Atodiad D.

28 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1940-1, 5.

29 Deed of Gift by David Hughes Esq, JP. Dyfyniad o'r copi gwreiddiol: '...for the benefit of the Inhabitants of Cemaes and surrounding District in the County of Anglesea'.

30 *Y Clorianydd*, 14 Ebrill, 1904, 6.

31 *ibid.*, 6 Gorffennaf 1905, 2.

32 *ibid.,* 24 Hydref 1923, 5.

33 *ibid.,* 31 Rhagfyr 1930, 3.

34 *ibid.,* 8 Hydref 1930, 8.

35 *ibid.,* 31 Rhagfyr 1930, 3.

36 *Yesterday's Britain*, The Reader's Digest Ass. Ltd., Llundain, 1998, 77.

37 *Llyfr y Ganrif*, Gwyn Jenkins, (gol.), Y Lolfa, 1999, 140.

38 *ibid.,* 141.

39 *Hanes M.C. Môn* 1880-1935 (gol. Hugh Owen) Cyhoeddwyd gan Gyfarfod Misol Môn 1937, 166.

40 *Y Clorianydd*, 23 Gorffennaf 1930, 8.

41 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1942-3.

42 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1957-8, 5-6.

43 *Anglesey: Towards Comprehensive Education*, 1926-53 (O.A. Williams). Traethawd Ymchwil M. Addysg, Prifysgol Cymru Bangor, 1985.

44 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1946-7, 9.

45 *Y Clorianydd*, 12 Chwefror 1958, 5.

46 Cyngor Gwlad Mon, Adroddiad 1947-8, 6.

47 *ibid.,* Adroddiad 1948-9, 7.

48 *ibid.,* Adroddiad 1952-3, 6.

49 *ibid.*, Adroddiad 1945-6, 8.

50 *ibid.,* Adroddiad 1960-1, 7.

51 Cyngor Gwlad Môn, Llyfr Cofnodion 1941-51.

52 'Gwynfor': Thomas Owen Jones, Caernarfon (g. 19 Ionawr 1875 m. 22 Awst, 1941). Ar garreg ei fedd ym mynwent Llanbeblig, ceir y geiriau
'Actor da, Cymro da, Cristion da'.

53 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1940-1, 6.

54 Cyngor Gwlad Môn, Llyfr Cofnodion 1941-51.

55 *Môn, op.cit.*, 9-10.

56 *Herald Môn*, 26 Mehefin, 1993, 16.
Erthygl gan J.O. Jones: '*Cofio hwyl yr hen wyliau drama*'.

57 Harry Hughes Williams (1892-1953), Mynydd Mwyn Mawr, Llannerch-y-medd. Athro arlunio a chelfyddyd yn Ysgol Sir Llangefni o 1938 hyd ei farw yn 1953.
Gweler erthyglau amdano yn *Y Clorianydd*, 16 Mai 1951, 3 ac yn *The Liverpool Daily Post*, 19 Rhagfyr 2003, 3.

58 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1944-5, 19-10.

59 *ibid.*

60 *Y Clorianydd*, 27 Mawrth 1946, 7.

61 *ibid.*, 10 Ebrill 1946, 5.

62 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad Blynyddol 1946-7, 8-9.
Gweler Atodiad A(11).

63 *Môn, op.cit.*, 9-10.

64 *Yr Herald Cymraeg*, 23 Mawrth 1948. Adroddiad am yr Ŵyl Ddrama 8.

65 Cyngor Gwlad Môn, Llyfr Cofnodion 1941-51: Pwyllgor Drama, Dydd Iau, 5 Chwefror 1948.

66 *ibid.*, Dydd Gwener, 30 Ebrill 1948.

67 Memorandwm: Gweler Atodiad E.

68 *ibid.*, Dydd Mercher, 2 Mehefin 1948.

69 *Yr Herald Cymraeg*, 5 Ebrill 1949, 8.

70 *ibid.*

71 *ibid.*, 26 Ebrill 1949, 8.

72 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau, 1949.*
Cyfansoddi drama hir Gymraeg. Dyfyniadau o feirniadaeth Mary Lewis, 221-7.

> 'Daeth 15 o ddramâu i'r gystadleuaeth. Nid oedd yr un ohonynt yn codi'n ddiamheuol i ben y rhestr, fel y llynedd; yn lle hynny, daeth pedair i fyny gyda'i gilydd [i Ddosbarth 1], a bum mewn cryn benbleth yn dewis yr orau. Nid oedd un orchestol yn eu mysg, ac yr oedd ym mhob un ddigon o wendidau imi ystyried yn ddwys a ddylwn atal y wobr. Ond ni wneuthum.

... Un rheswm am gyffredinedd y dramâu mewn cystadleuaeth fel hon yw bod gormod o aros gyda'r peth a gyfrifir yn realaeth. Dyma pam yr oedd yn ofid i mi na ddaeth yr un ddrama fydryddol i mewn eleni.

*CATRIN* gan 'Merwys' (F.G. Fisher)
'Drama seiliedig ar hanes Llewelyn ein Llyw Olaf . ... Ar wahan i gymeriad Catrin, cedwir at ffeithiau hanes yn byr ffyddlon ...
Y peth gorau yn y ddrama hon yw gallu'r awdur i drin a threfnu ffeithiau hanes yn ddiddorol a byw, heb orlwytho ei ddeialog nac atal symudiad cyflym y plot.
Y mae i'r ddrama wendidau mawr, ond y mae hefyd yn ymdrech i greu drama ar lefel uwch na'r cyffredin, ac yn fy marn i, llwydda'r ymdrech i raddau helaeth. Barnaf hi'n orau o'r pedair sydd ar y blaen, ac ni welaf bod gennyf hawl i atal y wobr.'

73 *Yr Herald Cymraeg*, 4 Ebrill 1950, 5.

74 Gweler Atodiad A(12).

75 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1952-3, 4-5.

76 Cyngor Gwlad Môn, Cofnodion y Pwyllgor Drama, 18 Mai, 1950. Gyda Dewi Llwyd Jones yn cadeirio yn absenoldeb Mrs. Lowri Gwynfryn Evans, rhoddwyd amlinelliad o dwf y mudiad drama ym Môn gan yr Ysgrifennydd:

'Dywedwyd mai sylfaen y mudiad oedd anogi a chreu diddordeb yn y ddrama fel celfyddyd. Y mae i Fôn ei thraddodiad drama, a'r hyn a wnaed oedd ceisio cynorthwyo trwy roddi arweiniad o'r newydd ...

Pwysleisiwyd y ffaith bod cwmni o Fôn wedi ymddangos ym mhrawf terfynol yr Eisteddfod Genedlaethol o 1943 hyd 1949 – fe gofir i Gwmni Llannerch-y-medd ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod. Genedlaethol Llanrwst, 1951, gyda'i berfformiad o ddrama Eic Davies, *Ewch Ati* – ac erbyn 1950.

... Y cwestiynau i'w gofyn, ac o bosibl eu hateb yw – a fu newid mewn safonnau actio a chynhyrchu, a wynebwyd y dasg o'r agwedd briodol, ac yn bennaf, ble'r eir oddi yma? A fu i'r Ŵyl Ddrama gyfrannu rhywbeth i'r mudiad ym Môn? a diamau ei bod, ag a oes lle iddi eto yn nhwf y ddrama fel celfyddyd? Os nad oes, ymaith â hi.'

77 Cyngor Gwlad Môn, Adroddiad 1958-9, 7-8.

78 Mewn Pwyllgor Gwaith, 22 Mehefin, 1965, derbyniwyd ymddiswyddiad J.O. Jones a '... [ph]enderfynwyd yn unfrydol ein bod yn cofnodi gwerthfawrogiad llwyraf o wasanaeth Mr.J.O. Jones i'r Cyngor Gwlad dros gyfnod o chwe–mlynedd–ar-hugain. Tyfodd y Cyngor Gwlad yn y cyfnod hwnnw i fod yn fudiad praff a changhennog a llawer o sefydliadau yn cysgodi dan ei gwmpas.

Cafodd pob un o'r mudiadau hynny nawdd a sylw mwyaf gofalus yr Ysgrifennydd drwy gydol y blynyddoedd. Eu rhif a'i ffyniant presennol yw'r dystiolaeth sicraf i lafur Mr.J.O. Jones'.

Yn niwedd mis Awst, gadawodd ei swydd yn Llangefni ac ymgymerodd â'i ddyletswyddau newydd fel Ysgrifennydd Cyngor y Celfyddydau, Gogledd Cymru.

Ar bnawn dydd Mawrth, 27 Gorffennaf 1965, cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gwaith yn Neuadd y Sir, Llangefni, a chyfwelwyd pump o bersonau ar gyfer y swydd. Apwyntiwyd Mr. John D. Williams, a dechreuodd ar ei ddyletswyddau ym mis Hydref 1965.

79 Cyngor Gwlad Mon, Adroddiad 1961-2, 5.

80 *ibid.,* Adroddiad 1962-3, 5.

81 *ibid.,* Cofnodion y Pwyllgor Drama, 27 Ebrill 1953.

82 *ibid.,* 14 Mai 1953.

83 *ibid.,* 29 Mehefin 1954.

84 *ibid.,* 19 Ebrill 1955.

85 Rhaglen Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru, Llangefni, Medi 1964. Erthygl gan J.O. Jones, 'Syniad Newydd'.

86 Cyngor Gwlad Môn: Cofnodion y Pwyllgor Drama (1951-1975) 21 Ebrill 1954.

87 Un o fwriadau gwreiddiol Cyngor y Celfyddydau ynglŷn â sefydlu gŵyl ddrama ym Môn oedd sicrhau natur 'genedlaethol' yr ŵyl, ac i'r perwyl yma fe awgrymwyd y dylid estyn gwahoddiad blynyddol i gwmni o'r Gogledd, un o'r De, ac un arall o Fôn i ymddangos ynddi. Ar gyfer gwyliau drama 1959 hyd 1962, er enghraifft, methwyd â chadw'n gaeth at y disgwyliadau rhanbarthol hynny. Yn raddol gwelwyd tueddiad i estyn gwahoddiad i gwmnïau lleol yn hytrach na chwmnïau rhanbarthol. Yng ngŵyl 1959, caed perfformiadau gan Gwmni Môn, Cwmni Glan-y-Môr, Pwllheli, a Chwmni y Cyngor Celfyddyd. Yn 1960, caed dau berfformiad gan Gwmni Môn ac un gan Gwmni y Cyngor Celfyddyd. Yn 1961, gwahoddwyd Cwmni Môn, Cwmni Glan-y-Môr, Pwllheli, a Chwmni Cymdeithas Cymry Llundain i'r ŵyl. Y flwyddyn ddilynol, 1962, caed tystiolaeth glir o leoli'r gwahoddiadau pan ofynnwyd i Gwmni Theatr Fach Llangefni, Cwmni Cymdeithas Ddrama Y Coleg Normal, Bangor, a Chwmni Ceredigion i ymddangos yn yr ŵyl.

Yn ddiamheuol, roedd i'r lleoli yma ei fanteision ymarferol, ond yn sicr nid oedd yn disgyn i fframwaith gwreiddiol Cyngor y Celfyddydau. Yng ngoleuni hyn gellir dadlau bod y duedd yma i leoli'r gwahoddiadau wedi arwain y pwyllgor drama i benderfynu mai priodol fyddai gwneud i ffwrdd â'r gair 'Genedlaethol' o deitl

yr ŵyl. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor Gwaith anghydfynd â'r penderfyniad hwnnw.

88 Cyngor Gwlad Môn: Cofnodion y Pwyllgor Drama, 8 Tachwedd 1960.

89 *ibid.*, 10 Ionawr 1961.

90 *North Wales Weekly News*, 30 Rhagfyr 1977, 11.
Erthygl gan J.O. Jones, 'Y ddrama amatur yng Nghymru'.

91 Cyngor Gwlad Môn: Cofnodion y Pwyllgor Drama (1951-1975).
Aelodaeth y Pwyllgor Drama, 30 Rhagfyr 1954.

92 *Braslun o Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Môn, 1935-1970*
Huw Llewelyn Williams, (gol.), (Cyh. Henaduriaeth Môn, 1977), 237

> '...Rhy fyr fu arhosiad y Parch. Islwyn Ffowc Elis, BA, BD, (1953-1956) yn ein plith, gŵr ifanc dawnus a hoffus a dynnai ato'r plant a'r ieuenctid... Bu W.H. Roberts yn gymorth ac ysbrydiaeth iddo yn ei waith, prifathro'r Ysgol Gynradd ac athro cwbl-ymroddedig yn Ysgol Sul y plant... Pa fodd bynnag, bregus iawn fu iechyd Mr Elis, a dymunodd am gael ei ollwng o'i swydd. Aeth o Niwbwrch ar ôl ymdrechu ei orau, a ffarweliodd â ni gyda dymuniadau da o'r ddeutu.'

Wrth gydnabod cyfraniad W.H. Roberts i'r achos yn Niwbwrch, ni ellir llai na chofio ei fod hefyd yn esiampl dda o un a bontiodd yr agendor ac a ddatblygodd i fod yn gyflwynydd, yn gynhyrchydd ac yn actor proffesiynol ar y radio, ar y teledu ac ar lwyfan.

93 Wilbert Lloyd Roberts, 1926-1996.
Fe'i ganwyd yn Llanberis. Yng ngwanwyn 1954 daeth Wilbert a'i wraig, Beti, i fyw i fflat ar lan y Fenai ym Mhorthaethwy. Yn nechrau'r chwedegau, fel Pennaeth Drama y BBC yng Nghaerdydd, bu'n cyfarwyddo dramâu Cymraeg y cwmni, ac yn dilyn creu cnewyllyn o actorion Cymraeg yn 1965, sefydlwyd Cwmni Theatr Cymru yn y brifddinas. Yn 1968, gadawodd Wilbert ei swydd gyda'r BBC a daeth yn gyfarwyddwr llawn-amser Cwmni Theatr Cymru a leolid, erbyn hynny, ym Mangor. Yno, ym Mangor, y ganwyd dwy ferch iddynt, Ann ac Elin. Gydag agoriad swyddogol Theatr Gwynedd yn 1975, yno yr ymgartrefodd Cwmni Theatr Cymru:

> 'Cwmni teithiol ydoedd Cwmni Theatr Cymru oedd yn credu mewn mynd a'r cynyrchiadau at y gynulleidfa i nifer o ganolfannau lleol bychain...'
> [Archifdy Caernarfon: Papurau Cwmni Theatr Cymru. Catalogwyd gan Sian Ll. Roberts, Marc catalog XD 68, 1989, 5]

Er hyrwyddo gwaith Cwmni Theatr Cymru a lledaenu'r wybodaeth amdano, sefydlwyd Cymdeithas Theatr Cymru gan Wilbert yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Y Bala yn 1967. Heddiw [2006], gyda Huw Roberts, Pwllheli, fel ei Llywydd Anrhydeddus am Oes,

cyhoeddir cylchgrawn misol *Galwad* gan y Gymdeithas ar gyfer ei haelodau. Hi yw'r unig gymdeithas genedlaethol o garedigion y ddrama Gymraeg.
Fe sylweddolir bod cysylltiad hir a chyson wedi bodoli rhwng Cwmni Theatr Cymru â'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol ym Môn.
Symudodd y teulu i fyw i'w cartref olaf, *Y Berllan*, Llangoed.
Bu farw Wilbert 5 Tachwedd 1996, a chynhaliwyd ei arwyl yng Nghapel Pendref, Bangor, ddydd Gwener, 8 Tachwedd, dan arweiniad y Gweinidog, Y Parchedig John Gwilym Jones.
Cyflwynwyd holl gynnwys rhifyn Rhagfyr 1996 o *Galwad* er coffadwriaeth amdano. Yn dilyn cyflwyniad byr gan Huw Roberts ceir ynddo deyrngedau gan Lyn T. Jones, Valmai Jones, Cefin Roberts, Bob Roberts, Grey Evans, Meic Povey a J.O. Jones.
Trefnwyd noson deyrnged i Wilbert yn Theatr Gwynedd 27 Gorffennaf 1997, pryd y dadorchuddiwyd plac iddo, yng nghyntedd y Theatr, gan ei wraig. Mae'r englyn, o waith Y Parchedig John Gwilym Jones, yn cyfleu cyfraniad gŵr pur arbennig i achos y ddrama Gymraeg:

Llenor tu hwnt i'r llenni; - fe roddodd
Wefr ei freuddwyd inni;
Llafn o wawl, a'n llwyfan ni
A lanwyd â'i oleuni.

Yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, Awst 1997, cyflwynwyd yr un deyrnged am yr eildro, yn ogystal â theyrnged gan Grey Evans (*Galwad*, Ebrill 1998) ar gyfer Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Theatr Cymru ar faes y brifwyl. Aethpwyd ati i sefydlu Ysgoloriaeth Goffa Wilbert Lloyd Roberts i'w chynnig yn flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn briodol, fe'i cyflwynwyd am y tro cyntaf ym mhafiliwn Prifwyl Môn, nos Fercher, 4 Awst, 1999, pryd y cynigiwyd

> '...£600 o Ysgoloriaeth Goffa W.Ll. Roberts i gystadleuwyr Unawd allan o unrhyw sioe gerdd [i rai dan 25 oed] a Gwobr Richard Burton [i rai rhwng 16 a 21 oed] i'r cystadleuydd mwyaf addawol er mwyn iddo/iddi ddatblygu gyrfa fel perfformiwr theatrig proffesiynol.'
> (Rhaglen Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn, 1999, 149)

Noder fel y rhoddid y pwyslais ar y 'mwyaf addawol' yn hytrach na'r 'gorau'.
Yn nheyrnged Cefin Roberts, ceir y disgrifiad hwn o'r gwrthrych:

> 'Roedd gan Wilbert dair gwinllan. Y winllan wen Gymreig; y winllan theatrig a dyfodd fel madarch dros nos dan ei ddwylo; a'r *Berllan,* y winllan werdd oedd o gwmpas ei gartref yn Llangoed...'

94 Bu'r awdur yn byw yn Llundain o Fedi 1961 hyd Orffennaf 1963, ac yn ystod y cyfnod hwn daeth yn aelod o Gwmni Drama Cymdeithas Cymry Llundain. Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 1962, enillwyd y wobr gyntaf gyda pherfformiad o'r ffars, *Modryb Siarli* a chafodd yr awdur y fraint o chwarae rhan Siarli

gyferbyn â'i 'fodryb', Ryan Davies. O brofiad, gall dystio am broffesiynoldeb y darpariaethau, ac am fanylder a gweledigaeth Reg Evans fel cynhyrchydd. Ar wahân i ryw ddau seibiant byr yn ystod yr ymarferion, disgwylid i'r holl actorion roi o'u gorau gydol yr amser. Doedd dim llaesu dwylo i fod. Anelai'r cynhyrchydd tuag at berffeithrwydd mewn gair, symudiad, ystum, grwpio a set.

95 Erthygl gan Dewi Llwyd Jones, 'Gŵyl Ddrama Llangefni', *Baner ac Amserau Cymru,* 1 Hydref 1959, 4; 8 Hydref 1959, 7; 15 Hydref 1959, 6.

96 *Annwyl Kate, Annwyl Saunders.* (Gol. Dafydd Ifans). Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1992. Llythyr a anfonwyd gan Saunders Lewis o'i gartref ym Mhenarth, 24 Gorffennaf 1959, 188-9.

97 Yn Neuadd y Dref, Llangefni, nos Fercher, 7 Hydref 1970, llwyfannwyd drama John Gwilym Jones, *Y Tad a'r Mab*, gan Gwmni Môn. Fe gofir mai prin bymtheg oedd yn y gynulleidfa, a chafwyd trafodaeth cyn dechrau ynglŷn â mynd ymlaen â'r perfformiad ai peidio.

98 Cyngor Gwlad Môn: Adroddiad Blynyddol 1973-4, 8.

99 *Herald Môn,* 9 Rhagfyr 1975, 4.

100 *Llwyfannau Lleol,* Hazel Walford Davies (gol.), (Gwasg Gomer 2000), 9-25.

# PENNOD 4
# CYMDEITHAS DDRAMA LLANGEFNI

Yr oedd mis Medi 1953[1] nid yn unig yn garreg filltir yn hanes addysg tref ac ardal Llangefni ond hefyd yn garreg filltir o safbwynt hanes y ddrama yn y dref a'r sir. Yr oedd agor drysau Ysgol Gyfun Llangefni am y tro cyntaf i wyth gant a deugain o blant[2] yn achlysur pur arbennig, ac roedd i'r agoriad hwnnw arwyddocâd dramayddol pellgyrhaeddol hefyd.

Ymysg y cannoedd a gerddodd i mewn drwy ddrysau'r ysgol newydd y bore cyntaf hwnnw roedd disgyblion Ysgol Sir y dref, dros dri chant ac ugain ohonynt. Gyda'r Prifathro, y diweddar E.D. Davies,[3] trosglwyddwyd yr holl staff, dwsin o raddedigion, i'r ysgol newydd. Yn eu mysg roedd y Parchedig John Pierce,[4] Llewelyn Jones,[5] a Francis George Fisher.[6] Ar amrantiad, daeth y dwsin yn rhan o staff mawr yr ysgol gyfun; un ar bymtheg ar hugain o athrawon.[7] Yn unol â pholisi addysgol y cyfnod - cynnig cyfle cyfartal i holl blant y dalgylch - cyflogwyd athrawon i ddysgu sbectrwm eang o bynciau academaidd ac ymarferol. Fodd bynnag, doedd y ddrama ddim yn un ohonynt. Y pryd hynny nid ystyrid y ddrama fel pwnc nac fel maes i'w arholi yn y gyfundrefn addysg uwchradd.

Yn y bennod sy'n gysylltiedig â gweithgarwch dramayddol Cyngor Gwlad Môn, dyfynnwyd yr hysbysiad canlynol a ymddangosodd yng nghofnodion y Pwyllgor Addysg Bellach, 19 Mehefin 1952. Gellir dadlau fod yr hysbyseb yn awgrymu y dylid rhoi lle dyladwy i'r ddrama yng nghwricwlwm yr ysgolion yn y dyfodol, ac y dylid hyfforddi athrawon cymwys ar gyfer hynny:

> 12. STANDING CONFERENCE OF DRAMA ASSOCIATIONS.
> That they have received a letter dated 8th April 1952, from the County Councils Association with regard to the training of tutors and teachers of drama.

Dechreuodd Tecwyn Jones[8] ar ei ddyletswyddau fel athro hanes a Saesneg ar 1 Mai 1954. Yr oedd hefyd yn ymddiddori mewn drama. Yng ngoleuni'r hysbysiad blaenorol gellir dweud bod apwyntiad Tecwyn

Jones yn allweddol i ddatblygiad y ddrama yn Ysgol Gyfun Llangefni yn ystod y blynyddoedd cynnar. Fe gyfarwyddodd nifer fawr o ddramâu yn yr ysgol, yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, ac mae'r ddyled yn fawr iddo.

O Fedi 1953 ymlaen, bu George Fisher yn recriwtio ymysg staff yr ysgol am weithwyr ifanc, brwydfrydig a fyddai, o fewn dwy flynedd, yn ei alluogi i wireddu ei freuddwyd o gael agor drysau eraill: drysau theatr fach rywle yn Llangefni. Ond, ar y pryd, doedd ganddo ddim lleoliad arbennig i'r theatr arfaethedig hon mewn golwg. Er na cheisir yma orglodfori ymroddiad athrawon i achos y ddrama yn y dref, ni ellir llai nag edmygu cyfraniad nifer ohonynt yn yr ymgyrch am theatr. Roedd George Fisher wedi gweld y potensial a oedd ar gael iddo. Yr oedd cysylltiad agos rhwng George Fisher a Llewelyn Jones er dyddiau'r hen Ysgol Sir, ond buan wedi agor yr ysgol newydd, ymunodd nifer o'r athrawon ifanc â Chymdeithas Ddrama Llangefni.[9]

Mewn trafodaeth fel hon, dibynnir llawer ar wybodaeth ac atgofion nifer fawr o bobl, a chydnabyddir bod eu sylwadau a'u cyfraniadau yn allweddol i werth y gwaith gorffenedig. Er sicrhau gwrthrychedd y ffeithiau, ceisir osgoi unrhyw sylwadau personol, ond, serch hynny, teimlir hi'n rheidrwydd ar ran yr awdur i nodi yma un achlysur yn ei hanes ef ei hun sydd, yn ei farn ef, yn hollol berthnasol i'r rhan hon o'r gwaith.

Wedi treulio tair blynedd yn yr hen Ysgol Sir, trosglwyddwyd yr awdur a'i gyfoedion i Ddosbarth 4 yn yr ysgol gyfun newydd, ac fe gofia am un o'r gwersi mathemateg cyntaf a gafodd y dosbarth gan George Fisher. Fe bery'r pictiwr yn glir yn y cof. Ar y bwrdd du roedd yr athro wedi tynnu llun cylch, ei ganolbwynt, a llinell syth yn ymestyn o'r canolbwynt i'r cylchedd. Lle cyfarfyddai'r llinell syth â'r cylchedd, roedd yr athro wedi gwneud llun anifail bach, a chyda'r geiriau 'Dyma fy ngafr fach i', aeth ymlaen i gyflwyno y nodweddion sylfaenol hynny a berthyn i gylch; canolbwynt, radiws, diamedr, arwynebedd a chylchedd. Yn ddramatig iawn, cyffelybodd y canolbwynt i bostyn yng nghanol cae, ac ar ben cortyn, a ymestynnwyd i'w eithaf o'r postyn, roedd gafr fach George Fisher yn crwydro o amgylch yn gwneud ei gorau glas i gyrraedd

porfa frasach. Wrth i'r athro ymestyn ychydig ar y cortyn, llwyddodd yr afr fach i wneud hynny.

Wrth edrych yn ôl ar y wers gyntaf honno, mae modd cyffelybu ei chynnwys i'r hyn y dymunai George Fisher ei gyflawni ym myd y ddrama yn Llangefni. Tra'n ceisio ymestyn ymwybyddiaeth a deallusrwydd mathemategol ei ddosbarthiadau yn ystod y dydd, ymdrechai, drwy gyfrwng Cymdeithas Ddrama Llangefni, i wneud yr un peth gyda'r ddrama y tu allan i oriau ysgol.

Yn dilyn agoriad y Theatr Fach 3 Mai 1955, gellir gwerthfawrogi arwyddocâd gafr fach George Fisher. Fe gynrychiolid y postyn gan y Theatr Fach ei hun, y cortyn gan ei chynyrchiadau, a'r afr gan ei chynulleidfa. Gyda'r theatr yn ganolbwynt i'r holl weithgareddau, bwriedid ymestyn cynnwys a safon y cynyrchiadau gyda'r gobaith y medrid arwain y gynulleidfa tuag at borfa ddramayddol ffres a newydd. Dyna'r weledigaeth: dyna'r nod. Ond fe sylweddolir, wrth gwrs, nad rhywbeth a ddigwyddodd ar amrantiad oedd agor drysau'r Theatr Fach yng nghanol y pumdegau. Os ydys am ddeall y stori gyflawn, rhaid troi'r cloc yn ôl bron chwarter canrif. A bod yn fanwl gywir, rhaid ei droi yn ôl i 5 Ionawr 1931, oherwydd y diwrnod hwnnw y dechreuodd Fisher ar ei waith. Dyma sut y cofnodwyd y digwyddiad:

> Mr Francis George Fisher, BSc(Wales), 9 Alfred Street, Bargoed, Cardiff, took up duties as Maths Master in place of Mr R.O. Williams, BA(Cantab)[10]

Y pryd hynny, Saesneg oedd iaith weinyddol a gweithredol ein hysgolion sir ac nid rhyfedd, felly, i'r prifathro, Mr S.J. Evans, gofnodi'r apwyntiad yn yr iaith fain. Yn wir, fe'n hatgoffir gan Llewelyn Jones mai '[i] bob pwrpas, Sais oedd y gŵr a ddaeth i Ysgol Sir Llangefni yn nechrau 1931, serch iddo gael ei eni yn y Bargod...'[11]

Yn ôl pob golwg, fe apwyntiwyd George Fisher i'w swydd, nid ar unrhyw sail ieithyddol na dramayddol ond, yn hytrach, oherwydd ei gymhwyster fel mathemategydd. Ac felly, mewn awyrgylch Seisnig, gallasai Fisher fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau fel athro mathemateg heb deimlo unrhyw euogrwydd ynglŷn â'i unieithrwydd. Ond nid felly y bu.

Yn Hydref 1950, ymddangosodd erthygl o'i eiddo mewn cylchgrawn sirol.[12] Ynddi ceir braslun o'r anawsterau a'i hwynebai tra oedd yn dysgu'r iaith Gymraeg yn ystod y tridegau a'r pedwardegau, ac o gofio yr hyn a gyflawnodd George Fisher yn ddramayddol ac yn llenyddol wedi hynny, teimlir hi'n ddyletswydd cyfeirio rhyw ychydig at ei ymdrech i feistroli'r iaith.

Yn eu cyflwyniad i erthygl George Fisher, dyma beth ddywed y golygyddion [E.O. Humphreys a Percy Ogwen Jones] amdano:

> Y mae Mr F.G. Fisher ... yn Sais, ond erbyn hyn y mae wedi meistroli y Gymraeg yn ddigon da i ysgrifennu barddoniaeth a dramâu sy'n cipio llawryf yr Eisteddfod Genedlaethol. Isod y mae'n sôn am anawsterau y llwybr unig a gerddodd.

Roedd yr hyn a gyflawnodd George Fisher yn gamp bur arbennig. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod fe noda, yn ei erthygl, mai anawsterau gyda'r treigliadau ac adeiladwaith y frawddeg Gymraeg a roes y trafferthion mwyaf iddo, a hynny mewn cyfnod pryd y rhoddid ychydig iawn o sylw i ddwyieithrwydd.

Ymysg y detholiad canlynol o'i sylwadau, fe welir fod ganddo arddull lenyddol arbennig ynghyd â meddwl treiddgar a threfnus:

> ... yr wyf yn siwr o un peth: i Sais mewn oed, nid ffordd fawr yw, ond llwybr cul, troellog, a gwrychodd uchel a thyllau mawrion ymhob man - maglau hyd yn oed.
>
> Y mae'r llwybr hwn yn unig ... nid oes ganddo [y Cymro] yn gyffredinol mo'r syniad lleiaf am y pethau sy'n achosi i gymaint o Saeson dorri eu calonnau wrth geisio dysgu Cymraeg...
>
> Ond nid ar y Cymro y mae'r bai am hyn, wrth gwrs, nac ar y Sais. Rhywbeth yn adeiladwaith y ddwy iaith yw, ac wedi i'r Sais groesi'r gamfa rhyngddynt nid oes angen gofyn am gymorth ...
>
> Ydyw, y mae'n hawdd - ond nid i Sais yn dechrau.
>
> Y mae'n dorcalonnus ... Ni cheir anawsterau tebyg mewn ieithoedd eraill ar y cyfandir, hyd y gwn i.
>
> Rhaid cofio eto fy mod yn sôn am Sais neu rywun mewn oed. Rhaid i ni sy wedi troi ein hugain oed ddeall PAM bob tro, nid fel plant sy'n ymgyfarwyddo â'r cystrawennau o'r dechrau... A pho fwyaf yr ystyriwn adeiladwaith y frawddeg Gymraeg, mwyaf yn y byd y sylweddolwn fod gwahaniaeth gwreiddiol rhwng etifeddiaeth ieithol y Cymro ac etifeddiaeth ieithol y Sais.

Dyma'r dyn a apwyntiwyd i'w swydd yn Ysgol Sir Llangefni ar ddechrau cyfnod pur chwyldroadol yn hanes y ddrama yng Nghymru. Fwy nag unwaith yn y gwaith presennol, fe gyfeirir at y dauddegau a'r tridegau fel cyfnod o ddeffroad ym myd y ddrama. Hyd ddiwedd y dauddegau edrychid ar y ddrama â chryn ddirmyg. O'r herwydd,

llesteiriwyd datblygiad y ddrama Gymraeg; defnyddid hi i hyrwyddo dirwest a moesoldeb. Ond buan y gwelwyd newid yn agwedd y gymdeithas yn arbennig felly ymysg yr ifanc. Roeddynt yn dyheu am rywbeth amgenach: dymunent gael eu rhyddhau o grafangau yr hen rwystredigaethau a chael ymestyn eu gorwelion. Drwy gyfrwng y ddrama, cawsant eu cyfle.

Chwaraeodd yr Eisteddfod Genedlaethol ran flaenllaw yn y deffroad dramayddol yma. O gofio'r rhagfarn a fodolai tuag at y ddrama ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, bu ymateb yr Eisteddfod Genedlaethol yn amserol iawn. Fel y dywed O. Llew Owain:

> Wedi blynyddoedd lawer o ddifaterwch ac o esgeuluso dyletswydd bwysig, daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i mewn i'r orymdaith i geisio adfer y ddrama'n ôl i fywyd y genedl, ac i fagwrfa'r celfau. Un yma ac acw a fu cystadleuon y dramâu yn yr Eisteddfod Genedlaethol hyd oddeutu 1920. Nid oedd y teimlad cyffredinol o'u plaid wedi ei feithrin yn ddigon trylwyr yn y wlad... Yn raddol cynhesodd y teimlad cyhoeddus o'i phlaid a sylweddolodd hyrwyddwyr y sefydliad mawr cenedlaethol bwysigrwydd hynny.
>
> Agorwyd y drws iddi i'r Eisteddfod Genedlaethol... cynhaeafwyd yn helaeth. Toreithiog fu'r ffrwyth. Rhoddwyd lle amlwg i'r ddrama o 1920 hyd 1930, ond o 1930 ymlaen rhoddwyd lle amlycach iddi. Bu'r cystadleuon dramâu lluosog, - mewn cyfansoddi ac actio, - yn gyfryngau i ddeffro llawer meddwl i fyd oedd yn farw iddo cyn hyn. Daeth byd y ddrama yn bopeth iddo.[13]

Er na fwriadodd O. Llew Owain gyplysu'r gosodiad olaf yn uniongyrchol â George Fisher, manteisir ar y cyfle i wneud hynny yn awr. Mae'n hollol berthnasol i ddatblygiad George Fisher fel dramodydd.

Os edrychir ar y rhestr o ddramâu a gyfansoddwyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol o 1916 ymlaen,[14] buan y sylweddolir y newid pwyslais a fu yng nghynnwys y testunau. Hyd ddechrau'r dauddegau rhoddwyd pwyslais ar gyfansoddi dramâu oedd yn seiliedig ar fywyd neu ar hanes Cymru. Y pryd hynny, chwaraeai dirwest ran flaenllaw ym mywyd y bobl ac, ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1921, gwahoddwyd yr ymgeiswyr i gyfansoddi "Drama ddirwestol Gymraeg". Hyd y gwyddys, dyma'r cyfeiriad olaf at ddirwest.

Roedd y rhod ddramayddol yn prysur droi, ac erbyn canol y dauddegau gwelwyd cryn newid yng ngofynion y testunau. Er i hanes Cymru barhau i hawlio ei le, fe welid cryn newid yng ngofynion

ieithyddol y cystadlaethau o flwyddyn i flwyddyn. Yn Yr Wyddgrug, 1923, ac ym Mhwllheli, 1925, gofynnwyd am 'Ddrama Saesneg seiliedig ar hanes Owen Glyndwr'. Rhyngddynt ym Mhontypŵl, 1924, gosodwyd testun pur wahanol, sef cyfansoddi 'Drama Gymraeg na fydd yn ymdrîn â bywyd Cymreig'. O dro i dro gofynnid am drosiadau o ddramâu Saesneg. Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931, er enghraifft, gyda T.H. Parry-Williams yn beirniadu, gosodwyd y testun 'Cyfieithu i'r Gymraeg, a chyfaddasu hefyd lle bo hynny'n fantais i bwrpas y llwyfan Gymreig, unrhyw ddrama wreiddiol o'r Saesneg neu rhyw iaith arall'. Roedd hyn yn sicr o fod yn adlewyrchiad cynnar o'r hyn oedd i ddigwydd ym Môn yn gysylltiedig â'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni rhwng 1954 a 1975 ac, yn hollol berthnasol i'r drafodaeth hon, sef cynyrchiadau Cymdeithas Ddrama Llangefni yn y Theatr Fach o 1955 ymlaen.

Wrth nesáu at ddiwedd y dauddegau fe sylweddolir fod newid pwyslais wedi digwydd o safbwynt y testunau a osodid o flwyddyn i flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ni ofynnid bellach am ddramâu'n ymwneud â dirwest a moesoldeb: gosodid mwy a mwy o destunau 'Agored'. Gellir cyplysu deffroad y tridegau yn uniongyrchol â'r rhyddid newydd yma o safbwynt natur y testunau a osodid yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r chwyldro ym myd y ddrama yn ysbrydoliaeth i ddramodwyr ifanc fel John Ellis Williams, John Gwilym Jones, J. Eddie Parry, R. Lloyd Jones a Francis George Fisher fynd ati i gyfansoddi eu gweithiau. Maes o law daeth eu dramâu yn rhan anhepgorol o gynyrchiadau cwmnïau bach a mawr ledled Cymru.

Yng nghanol 1930 sefydlwyd Cwmni Drama Moreia (MC), Llangefni, dan gyfarwyddyd Owen Williams. Fel mewn llawer llan arall ym Môn y pryd hynny, cwmni o bobl ifanc, brwdfrydig, ydoedd ac edrychid ymlaen yn eiddgar at berfformiad cyntaf y cwmni ar lwyfan Neuadd y Dref nos Iau, 11 Rhagfyr 1930. Penderfynwyd llwyfannu drama 'hen ffasiwn' y Parchedig Tywi Jones, *Jac Martin.*[15] Diddorol yw nodi mai union wythnos ynghynt, 4 Rhagfyr 1930, y cyfwelwyd F.G. Fisher gan S.J. Evans, prifathro yr Ysgol Sir.[16] Yn ystod ei ymweliad byr â'r dref, mae'n debyg nad oedd gan yr athro mathemateg ifanc

unrhyw amgyffred o arwyddocâd y perfformiad cyntaf hwnnw o safbwynt ei yrfa fel dramodydd. Gyda'r perfformiad yma gellir dadlau fod y tir wedi ei fraenaru ar gyfer y datblygiadau arloesol a oedd i ddigwydd ym myd y ddrama yn lleol, yn sirol ac yn genedlaethol.

Rhwng 1935 a 1939 prin fu'r gweithgareddau dramayddol yn y dref. Ond, ynglŷn â dylanwad y cyfnod hwn ar George Fisher, haera Llewelyn Jones

> [nad] oedd y ddrama na'r Gymraeg wedi cael gafael ynddo [George Fisher]. Ond yn raddol, tua diwedd y degawd, fe ddechreuodd ymddiddori yn y ddrama fel ffurf artistig; ac yng Ngorffennaf 1939 perfformiwyd ei ddrama fer, *The Disinherited*, yn Theatr Fach Abertawe ... 'Roedd y cynhyrchiad hwn ar fin agor yn Theatr y Mercury yn Llundain ym Medi 1939 pan gaewyd holl theatrau'r ddinas oherwydd y rhyfel.[17]

Fel llawer o'i gyfoedion, ymunodd â'r lluoedd arfog yn 1940 gan dreulio blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd yn gwasanaethu gyda'r llynges. Yn ôl Llewelyn Jones, dyma'r cyfnod pryd y troes George Fisher '... ei gefn ar lenydda yn Saesneg a mabwysiadu'r Gymraeg fel cyfrwng i fynegi ei ddyheadau artistig. ... Yr hyn sydd yn trawo dyn ... yw mor rhyfeddol o sydyn y datblygodd gafael George Fisher ar yr iaith.'[18]

Ceir tystiolaeth o hyn yn ystod hanner cyntaf y pedwardegau pryd y bu'n cyfansoddi dramâu un act ar gyfer Gŵyl Ddrama Môn, Eisteddfod Môn ac ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor, 1943. Yn yr eisteddfod hon, gosodwyd ei ddrama, *Y Gwragedd*, yn yr ail ddosbarth. Awgrymodd y beirniad, Elsbeth Evans, fod '... yn rhaid i *Colin*[19] [ei ffugenw] ailystyried llawer ar ei arddull Seisnigaidd cyn llwyfannu'r ddrama hon'.[20] Serch hynny, am y chwe drama a osodwyd yn yr ail ddosbarth, awgrymodd y beirniad '... y gellid llunio dramâu pur dda ohonynt'.

Wedi treulio pum mlynedd a thri mis yn y llynges, dychwelodd F.G. Fisher i'w swydd fel athro mathemateg yn yr Ysgol Sir 7 Medi 1945.[21] Yn ei absenoldeb sicrhawyd ffyniant y ddrama yn y dref gan Cwmni Drama Llangefni dan gyfarwyddyd Edward Williams ar y naill law, a chan y Gymdeithas Ddrama dan ofal Margaret Fisher[22] ar y llaw arall. Ac os mai digyfeiriad ac arwynebol braidd oedd trefniant[23] y Gymdeithas Ddrama y pryd hynny, fe lwyddodd i roi lle amlwg i

weithiau cynnar George Fisher. Roedd hynny ynddo'i hun yn ddigon i gyfiawnhau bodolaeth y Gymdeithas, a dylid cydnabod yma ymrwymiad ac ymdrechion Margaret Fisher a'i chyfeillion[24] i sicrhau datblygiad y ddrama yn y dref ac yn y sir.

Gyda dychweliad F.G. Fisher ym Medi 1945, cafwyd arweiniad pendant ac ysbrydoliaeth ddeinamig o safbwynt y ddrama. Ond er mor allweddol oedd ei arweiniad a'i weledigaeth, ni ellir gorbwysleisio mai aelod o dîm oedd Francis George Fisher, a heb gefnogaeth y tîm hwnnw ni fuasai wedi gallu gwireddu ei freuddwydion. Pan gyfeiria Llewelyn Jones at agoriad swyddogol y Theatr Fach yn nechrau Mai 1955, fel '... noson fawr i George Fisher a'i gydweithwyr ...',[25] cawn ein hatgoffa o bwysigrwydd y tîm yn yr holl ddatblygiadau. Roedd Llewelyn Jones ei hun yn un ohonynt. Yn sicr ni fedrai Fisher, ar ei ben ei hun, fod wedi cyflawni'r gamp. Dibynnai lawer ar ei gydweithwyr.

Mae'n debyg fod yr hyn a ddigwyddodd ar lwyfan Neuadd y Dref, Llangefni, nosweithiau Mercher ac Iau, 18 a 19 Rhagfyr 1946, yn arwyddocaol o'r datblygiadau dramayddol oedd i ddigwydd yn y dref yn ystod y naw mlynedd nesaf. Roedd, hefyd, yn adlewyrchiad o hyder ac egni George Fisher fel cyfarwyddwr a dramodydd. Ym mis Mai 1940, cyhoeddwyd drama newydd Saunders Lewis, *Amlyn ac Amig*, gan Wasg Aberystwyth. Drama radio ydoedd, a bwriedid ei darlledu yn 1939 ond, oherwydd y gwaharddiadau darlledu ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, gohiriwyd y darllediad. Yn 1946, neidiodd George Fisher ar ei gyfle. Serch y cysylltiadau clòs a fodolai rhwng Saunders Lewis a Theatr Fach Garthewin,[26] cysylltodd Fisher â'r awdur ac mae'n amlwg i'w gais fod yn llwyddiannus oherwydd fe'i

> ... perfformiwyd hi yr adeg honno yn Llangefni gan gwmni o blant yr Ysgol Sir. Y cwmni hwn, gyda chaniatâd Saunders Lewis, a gyflwynodd *Amlyn ac Amig* am y tro cyntaf ar lwyfan. Yr egnïol F.G. Fisher, aelod o staff yr ysgol, oedd y cyfarwyddwr a chyfansoddwyd peth o'r gerddoriaeth yn arbennig ar gyfer y cynhyrchiad gan G.I. Jones, aelod arall o'r staff ... Y noson [nosweithiau] honno yr oedd ymateb brwdfrydig cynulleidfa Llangefni yn brawf fod y ddrama radio yn gwbl effeithiol ar lwyfan.[27]

Fe gofia J.O. Roberts[28] yn dda am yr achlysur. Ac yntau ar y pryd yn ddisgybl pedair ar ddeg oed yn yr Ysgol Sir, anogwyd ef i chwarae rhan *Amig* yn y cynhyrchiad cyntaf hwnnw gyferbyn â'r diweddar John

Llewelyn Williams fel *Amlyn*. Mewn sgwrs â'r awdur cydnabu J.O. Roberts ei ddyled fawr i George Fisher am y cyfle a'r profiad a gyflwynwyd iddo yn gynnar yn ei yrfa fel actor. Mae ei atgofion am y cyfnod yn dweud llawer am George Fisher fel dramodydd a chyfarwyddwr:[29]

> Fe benderfynodd lwyfannu drama gyda ni blant toc wedi iddo ail afael yn ei swydd. *Amlyn ac Amig* o waith Saunders Lewis oedd ei ddewis, a John Llywelyn Williams, Llangristiolus yn *Amlyn*, Mair Francis Hughes, Llannerch-y-medd yn *Belisent*, a minnau yn *Amig*.
>
> Yn ystod yr ymarferion roedd ganddo ddull unigryw o gynhyrchu a hynny'n gymaint o gymorth i griw mor ddibrofiad. Mae'n debyg mai'r ffordd symlaf o esbonio'i ddull fyddai dweud mai mathamategydd o gynhyrchydd oedd o. Gweithiai drwy ddull triongl a phob grwp a symudiad cymeriad wedi ei baratoi ymlaen llaw ganddo. Roedd dull felly yn galluogi i'r cymeriadau symud a chreu grwpiau yn syth wedi'r darlleniad cyntaf. Byddai hefyd wedi rhannu'r ddrama yn adrannau a chreu amserlen fel nad oedd gormod o amser i bobl sefyll o gwmpas yn gwneud dim. Yn wir, ymhen blynyddoedd wedyn, buaswn wedi bod wrth fy modd pe bai llawer i gynhyrchydd wedi gwneud yr un peth.
>
> Yn ystod ymarfer *Amlyn ac Amig* cafodd John Llew, Mair a minnau fynd gydag o yn ei gar i Lanfairtalhaearn. Roedd wedi clywed fod Morris Jones yn bwriadu cynhyrchu yr un ddrama. Wn i ddim yn iawn beth oedd ei fwriad, hwyrach ei fod eisiau gwneud yn siwr mai plant Ysgol Llangefni fyddai'n rhoi'r perfformiad cyntaf o'r ddrama! Beth bynnag am hynny, cawsom gyfarfod â'r bonwr R.O.F. Wynne a chael gweld Theatr Garthewin.

Yn y wasg, cafwyd adroddiad clodwiw am y ddau berfformiad:

> Antur lleol fawr ar ran athrawon a disgyblion yr Ysgol Sir oedd cyflwyno'r ddrama hon o waith Saunders Lewis, eithr yr oedd Mr F.G. Fisher, un o'r athrawon, yn llawn eiddgarwch fel cynhyrchydd, a pharatowyd yn dda ar gyfer y perfformio am ddwy noson yn Neuadd y Dref ... gwnaethant eu rhan yn wych.[30]

Mewn hysbyseb am y perfformiadau a ymddangosodd yn *Y Clorianydd* yn nechrau Rhagfyr 1946, cyfeirir at 'Gymdeithas' Ysgol Ramadeg Llangefni yn hytrach nag at 'Gwmni'r' ysgol. Efallai bod hyn eto yn arwyddocaol. Tueddir i ystyried 'cwmni drama' fel grŵp cyfyngedig o bobl tra edrychir ar 'gymdeithas ddrama' fel rhywbeth llawer mwy eang ac agored. O gofio bod dros ddeg a thrigain o blant wedi ymddangos ar lwyfan Neuadd y Dref ar y ddwy noson gellir synhwyro bod Fisher, o ganol y pedwardegau, â'i fryd ar sefydlu cymdeithas ddrama yn hytrach na chwmni drama yn y dref. Mae'n amlwg fod yr athro mathemateg â'i fryd ar dynnu pawb i mewn i'r rhwyd dramayddol, gan ddechrau gyda'r plant. Gellir dadlau mai dyma pryd yr aethpwyd ati o ddifri i osod sylfaen Cymdeithas Ddrama Llangefni. Gan

fod y syniad o 'gymdeithas' yn awgrymu cydraddoldeb a chyfle teg i bawb, gellir cyplysu'r datblygiadau dramayddol â'r chwyldro addysgol oedd ar fin digwydd yn y sir dan arweiniad arloesol E.O. Humphreys, y Cyfarwyddwr Addysg. Byddai cysylltiadau clòs yn bodoli rhwng y Gymdeithas Ddrama a'r Pwyllgor Addysg yn y dyfodol.

Yn dilyn y perfformiad cyntaf o *Amlyn ac Amig* gan ddisgyblion Ysgol Ramadeg Llangefni yn niwedd 1946, perfformiwyd addasiad ohoni ar lwyfan Theatr Fach Garthewin nos Wener, 31 Ionawr a nos Sadwrn, 1 Chwefror 1947. Gyda Morris Jones yn cyfarwyddo, fe'i llwyfannwyd gan actorion dethol Cwmni Sir Ddinbych,[31] a threfnwyd bws o Langefni i weld un o'r perfformiadau. Y noson yn dilyn yr ail berfformiad o'r ddrama yn Garthewin, darlledwyd *Amlyn ac Amig* am y tro cyntaf ar y radio,

Efallai bod y ddau ymweliad hyn â Garthewin, sef ei ymweliad cyntaf gyda'i dri disgybl a'r ail gyda'r bws, wedi plannu yn George Fisher y syniad o sefydlu theatr fach gyffelyb yn Llangefni. Er gwaethaf diffygion cefn llwyfan Garthewin, mae'n debyg fod awyrgylch glòs ac agosatrwydd y lle wedi apelio ato, a sylweddolodd y byddai theatr gyffelyb yn Llangefni yn rhoi urddas a phwrpas i 'gymdeithas' ddrama yn y dref.

Yn yr un modd, efallai bod ymweliadau Fisher â Garthewin wedi rhoi ysbrydoliaeth iddo arbrofi, a thrwy hynny, ymestyn gorwelion cefnogwyr y ddrama yn ardal Llangefni ac ym Môn. Ar y pryd, roedd ym Môn nifer helaeth o gwmnïau drama ond ar y cyfan, cwmnïau teithiol ceidwadol eu golygon oeddynt a dramâu traddodiadol eu naws fyddai'n cael eu llwyfannu ganddynt. Wedi'r cwbl, dyma'r math o ddramâu a apeliai at gynulleidfaoedd y tridegau a'r pedwardegau yng Nghymru. Fodd bynnag, gwelodd George Fisher fod angen cynnig rhywbeth amgenach i ddilynwyr y ddrama yn y sir ac os ydys am gael darlun clir o'r hyn oedd gan Fisher mewn golwg yn Llangefni yng nghanol yr ugeinfed ganrif, efallai y dylid edrych yn ôl at hyn a helynt y ddrama yn Ewrop yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dyma'r cyfnod pryd y ceisiwyd adlewyrchu'r syniadau newydd ym maes bioleg ynglŷn â dylanwad etifeddeg ac amgylchedd ar dynged dyn

ar y ddaear. Dilyn syniadau Charles Darwin a wneid, ac yn aml yn y gweithiau hyn rhoddid pwyslais ar y modd y gallai cefndir biolegol unigolyn liwio natur ei fywyd. Yn aml, yn y dramâu hyn, ceisid tynnu sylw at fucheddau anfoesol tadau. Er enghraifft, mae Oswald yn *Dychweledigion* Ibsen yn dioddef gorffwylltra meddyliol oherwydd buchedd aflan ei dad, y Capten Alving. Cynnyrch gwallgofrwydd mam yw Miss Julie, Strindberg. Maent yn ddramâu cryfion o safbwynt eu themâu, ac yn y cyfnod ceidwadol hwn nid oeddynt at ddant pawb. O'r herwydd, cyfyngedig fu perfformiadau gweithiau o'r fath. Roedd gwir angen rhywun gyda dychymyg a gweledigaeth i ryddhau'r ddrama 'newydd' o grafangau'r hen oruchwyliaeth. Un a geisiodd wneud hyn oedd André Antoine yn Ffrainc.

Yn 1886, ymunodd Antoine â chwaraewyr amatur y Cercle Gaulois ym Mharis, a cheisio cyflwyno dramâu Émile Zola. Ond methiant fu'r fenter. Gyda chryn benderfyniad, llwyddodd Antoine i rentu'r Cercle Gaulois a'i galw'n Théâtre Libre, y Theatr Rydd, a fyddai'n rhoi rhyddid iddo gyflwyno'r dramâu dadleugar hyn.

Dyma fan cychwyn sefydlu yr hyn a adwaenir fel Mudiad y Theatrau Annibynnol. Bwriedid i'r theatrau hyn gael penrhyddid i gyflwyno dramâu ar sail eu gwerth artistig yn hytrach nag ar unrhyw lwyddiant masnachol. Er nad aeth The Little Theatre Guild of Great Britain ati'n fwriadol i godi gwrychyn cynulleidfaoedd, y bwriad oedd sicrhau rhyddid i gyflwyno dramâu o werth artistig yn hytrach na gweithiau traddodiadol a phoblogaidd. Gellir dadlau y gellid olrhain sefydlu Theatr Fach Llangefni fel cysyniad i'r hyn a ddigwyddodd yn Ffrainc yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Erbyn degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y ddrama 'newydd' wedi cyrraedd Prydain ac, yn seiliedig ar batrwm y Théâtre Libre ym Mharis, sefydlwyd yr Independent Theatre Society yn Llundain gan J.T. Grein yn 1891, a llwyfannwyd cynhyrchiad cyntaf y gymdeithas, *Ghosts* gan Ibsen, ar 13 Mawrth y flwyddyn honno.

Ond er sicrhau darlun cyflawn o hynt a helynt y ddrama ym Mhrydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ni ellir anwybyddu'r hyn oedd yn digwydd yn Iwerddon. Er yr ail ganrif ar bymtheg, roedd yr Ynys Werdd wedi chwarae rhan amlwg yn hanes y ddrama ym Mhrydain, ac o

safbwynt ei hamlygrwydd fel canolfan theatrig o bwys, ystyrid Dulyn yn ail da i Lundain. Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mawr mewn cenedlaetholdeb yn Iwerddon ynghyd ag apêl ei chefndir Celtaidd. O dipyn i beth, treiddiodd yr ysbryd hwnnw i'w dramâu ac i'w theatrau.

Yn 1899, sefydlwyd y Theatr Lenyddol Wyddelig gan William Butler Yeats a'r Fonesig Gregory. Gellid dadlau mai theatr ar gyfer lleiafrif ydoedd am fod Yeats yn credu mai pobl o gyffelyb fryd ag ef yn unig a allai ddeall ei ddyheadau artistig. Ond, oherwydd rhyw ffrwgwd fewnol, daeth yr arbrawf hwn i ben yn 1902. Yn ystod yr un degawd, sefydlwyd Cymdeithas Ddrama Ormond gan y brodyr W.G. Fay a F.J. Fay a theithient o gwmpas Dulyn gyda chasgliad amrywiol o sgetsus, dramâu byr a ffarsiau. Erbyn 1901 roedd y brodyr wedi ymgyfarwyddo â gwaith arloesol Antoine ym Mharis ac, o ganlyniad fe'i hysbrydolwyd i sefydlu'r Gymdeithas Ddrama Genedlaethol Wyddelig. Yn ystod 1902 a 1903, cyflwynodd y gymdeithas raglen o ddramâu Gwyddelig eu naws a chyda Yeats yn Llywydd y gymdeithas, cynhwyswyd ei waith yn y rhaglen. Yn 1904, agorwyd yr Abbey Theatre yn Nulyn fel cartref parhaol y gymdeithas, a thrwyddi sicrhawyd dyfodol y ddrama yn Iwerddon ar lefel genedlaethol.

Yn ystod degawdau cynnar yr ugeinfed ganrif, fe welir bod y ddrama Gymraeg ymhell ar ôl. Er yr ystyrid y dauddegau a'r tridegau fel cyfnod o ddeffroad yn natblygiad y ddrama yng Nghymru, ni ellir ystyried y deffroad hwnnw ar raddfa wir genedlaethol. Bu'n rhaid aros hyd ganol y chwedegau cyn i'r freuddwyd honno gael ei gwireddu.

Ac os edrychir ar ddatblygiad y ddrama yn Ewrop ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ym Mhrydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, buan y sylweddolir pa mor ddylanwadol fu gwaith a gweledigaeth arloesol André Antoine. Rhedodd ei feddylfryd fel llinyn arian drwy weithgareddau byd y ddrama yn Lloegr ac yn Iwerddon:

> Antoine exerted untold influence upon the theatre both in France and elsewhere ... Antoine's influence was exerted in three ways: through the "independent theatre" concept, through his production methods, and through the plays and authors that he introduced.[33]

Gyda sefydlu Cymdeithas Ddrama Llangefni yn 1949, gellir mentro dweud fod gweledigaeth Antoine wedi cyrraedd Môn hefyd.

Gellir yn hawdd amgyffred fod yr holl syniadau dramayddol yn troi a throi nos a dydd ym meddwl George Fisher yn ystod ail hanner y pedwardegau. O gydnabod yr holl egni ac ymdrech a roddai i ddatblygiad y ddrama yn y dref ac yn y sir, anodd yw dirnad sut y medrai ymdopi â bywyd mor llawn. Fodd bynnag, gyda llwyddiant y ddau berfformiad o *Amlyn ac Amig*, agorwyd y drws i ddyfodol cyffrous y ddrama yn y dref. O 1946 ymlaen gellid dadlau bod gan George Fisher bedwar bwriad dramayddol yn ei feddwl: cyfansoddi, cyfarwyddo, sefydlu Cymdeithas Ddrama a sefydlu canolfan bwrpasol i'r ddrama yn y dref. Yn sicr, Cymdeithas Ddrama yr Ysgol Sir fu'r man cychwyn.

Yn niwedd 1947 caed enghraifft arall o hyder ac o fenter George Fisher pan lwyfannwyd *Julius Caesar* gan y disgyblion yn Neuadd y Dref, nosweithiau Mercher ac Iau, 10 a 11 Rhagfyr. Gwerthfawrogid y perfformiad yn y wasg:

> Diau bod perfformio *Julius Caesar* gan yr Ysgol Sir wedi rhoi symbyliad sylweddol i'r ddrama ym Môn. Am y tro cyntaf erioed gwelsom ddrama bedair act, a'r saith golygfa ynddi yn cael eu newid mor rhwydd a chyflym ag mewn unrhyw theatr yn Llundain. Tri munud oedd yr amser hwyaf a gymerwyd i newid unrhyw olygfa ... dipyn o gamp ag ystyried mai gwaith plant ysgol ydoedd.
>
> Yr oedd y golygfeydd yn hollol addas i'r ddrama ac yn creu cefndir rhagorol i'r gwisgoedd, a oedd hefyd yn gymaint o gymorth i wneud digwyddiadau'r ddrama'n fyw o flaen ein llygaid ... ac yr oedd y cynhyrchiad drwyddo yn enghraifft ragorol o gydweithio.
>
> Yn y ddrama hon yr oedd 48 o blant yn actio ...
>
> Nid yw pobl bob amser yn sylweddoli gwerth addysgol drama o'r fath. Y mae'r actorion yn ennill profiad a erys gyda hwynt trwy gydol eu hoes ...[34]

Mae'n debyg y gwelir yn yr adroddiad uchod enghraifft gynnar o ymdrech George Fisher i gyflwyno i'r actorion ifanc, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, agweddau ar grefft llwyfannu drama. Yn ei farn ef, celfyddyd y ddrama oedd yn bwysig ac nid, o angenrheidrwydd, diddannu'r gynulleidfa. Fe'n hatgoffir o broffesiynoldeb George Fisher gan Glyndwr Thomas.[35] Mewn sgwrs ag ef ym Mehefin 2003, eglurodd fel y bu i George Fisher ddweud wrtho unwaith ei fod yn gwrthwynebu i'r ddrama gael ei defnyddio fel llawforwyn er gwneud elw ariannol at ryw achos arbennig. Yn ôl Glyndwr Thomas, credai Fisher y dylai drama sefyll ar ei thraed ei hun fel darn o gelfyddyd; ni chredai y dylid perfformio dramâu er mwyn codi arian at ryw elusen neu gymdeithas

arbennig. Dylid perfformio drama 'er mwyn y ddrama' fel y dywedai'n gyson wrth aelodau'r gymdeithas. Roedd y ffaith i ddisgyblion yr Ysgol Sir ymgymryd ag un o ddramâu mawr Shakespeare yn gamp ynddi ei hun, ond roedd y ddisgyblaeth a'r rhwyddineb a ddangoswyd wrth newid y golygfeydd yn nodweddiadol o amcanion George Fisher i'r dyfodol. Yn ogystal, sylwer fel y bu i'r adroddiad uchod gydnabod safon y cydweithio er sicrhau llwyddiant y perfformiadau.

Cadarnheir y frawddeg olaf a ddyfynnwyd o'r adroddiad yn y wasg gan eiriau J.O. Roberts:

> Sioc fawr i ni'r disgyblion, wedi llwyddiant y ddrama gyntaf [*Amlyn ac Amig*], oedd y cyhoeddiad mai un o ddramâu Shakespeare oedd dewis George y flwyddyn ganlynol!
> Sawl gwaith bu Gwilym Glanrhyd [Gwilym Owen, y darlledwr, o Lannerch-y-medd] a minnau - *Brutus a Cassius* - yn cael tiwtorials ar ôl yr ysgol gan George a hynny wedi cael te yn ei dŷ. Rwy'n cofio hyd heddiw am wastadedd Phillipi.
> Roedd ganddo'r ddawn i berswadio staff yr ysgol i greu tîm cynhyrchu.
> Mae'n anodd credu sawl sach wedi'i liwio dorrwyd yn wisg filwrol a llawer, llawer mwy.

Roedd y ffaith fod cynifer ag wyth a deugain o blant wedi cael cyfle i actio yn sicr o fod wrth fodd y Cyfarwyddwr Addysg. Ond, yn ei dyb ef, roedd y sefyllfa addysgol a fodolai ym Môn ar y pryd ymhell o fod yn gymwys i hybu datblygiad diwylliannol a diwydiannol y sir. Wedi'r cwbl, dim ond disgyblion breintiedig yr Ysgol Sir gafodd y cyfle i gymryd rhan yn y perfformiadau. Credai E.O. Humphreys y dylid cynnig yr un cyfle i ddisgyblion llai academaidd eu gallu. Gyda hyn mewn golwg, roedd newidiadau arloesol y byd addysg yn ogystal â byd y ddrama ar fin eu hamlygu eu hunain. O Fedi 1953 ymlaen, byddai egwyddorion addysgol E.O. Humphreys a breuddwydion dramayddol F.G. Fisher yn cael eu meithrin law yn llaw oddi mewn i furiau Ysgol Gyfun Llangefni.

Fe gofir bod Cymdeithas Ddrama o fath yn bodoli yn Llangefni ers dechrau'r pedwardegau, ond nid oedd iddi amcanion pendant, ac arwynebol braidd oedd ei gweithgaredd o'i gymharu â dyheadau George Fisher ynglŷn â natur theatr. Gyda dychweliad Geoge Fisher i'r dref ar ddiwedd y rhyfel gwelwyd cychwyn ar yr ymgyrch i sefydlu Cymdeithas Ddrama go-iawn. Ac fel y crybwyllwyd eisoes, datblygiad fyddai hwn

yn deillio o fodolaeth Cymdeithas Ddrama yr Ysgol Sir. Yn dilyn llwyddiant perfformiadau'r disgyblion yn 1946 a 1947, gwireddwyd un o freuddwydion George Fisher: cael y cyfle i gyfarwyddo am y tro cyntaf. Erbyn diwedd Medi 1949, fodd bynnag, byddai dwy freuddwyd arall wedi eu gwireddu.

Yn nhestunau Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau, 1949, gwahoddwyd yr awduron i gyfansoddi drama hir yn Gymraeg. Gyda Mary Lewis yn beirniadu, cynigiodd pymtheg am y wobr o ugain punt ynghyd â Thlws Drama yr Eisteddfod. Rhoddwyd tair drama yn y pedwerydd dosbarth, tair yn y trydydd, pump yn yr ail, ac yn y dosbarth cyntaf rhoddwyd pedair drama gan gynnwys ymgais *Merwys*. Ni fwriedir yma fanylu ar gynnwys y feirniadaeth.[36] Yn hytrach, dyfynnir yn fyr ohoni:

> Daeth 15 o ddramâu i'r gystadleuaeth. Nid oedd yr un ohonynt yn codi'n ddiamheuol i ben y rhestr, fel y llynedd; yn lle hynny, daeth pedair i fyny gyda'i gilydd, a bûm mewn cryn benbleth yn dewis yr orau. Nid oedd un orchestol yn eu mysg, ac yr oedd ym mhob un ddigon o wendidau i beri i mi ystyried yn ddwys a ddylem atal y wobr. Ond ni wneuthum.
>
> CATRIN gan *Merwys*
>
> Drama seiliedig ar hanes Llewelyn ein Llyw Olaf. Dychmygir bod yn ei lys Lydawes o'r enw Catrin, merch o feddwl treiddgar â chryn ddylanwad ganddi ar y tywysog ... Ar wahân i gymeriad Catrin, cedwir at ffeithiau hanes yn bur ffyddlon...
>
> Y peth gorau yn y ddrama hon yw gallu'r awdur i drin a threfnu ffeithiau hanes[37] yn ddiddorol a byw, heb orlwytho ei ddeialog nac atal symudiad cyflym y plot. Ond nid oes ganddo ddigon o ymddiried yn ei allu[38] ... Y mae ymgais dda i wneud Llewelyn yn gymeriad diddorol... Nid yw ef na Catrin yn codi i faintioli cymeriadau gwir drasiedi, ac nid yw iaith y ddrama'n ddigon coeth i gynnal urddas y testun ar lefel trasiedi...
>
> Y mae i'r ddrama wendidau mawr, ond y mae hefyd yn ymdrech i greu drama ar lefel uwch na'r cyffredin, ac yn fy marn i, llwydda'r ymdrech i raddau helaeth. Barnaf hi'n orau o'r bedair sydd ar y blaen, ac ni welaf bod gennyf hawl i atal y wobr.

Er nad oedd Mary Lewis yn or-hael ei chlod i ddrama *Merwys*, ni fedrai neb, o hynny ymlaen, wadu'r ffaith i George Fisher gyrraedd y pinacl cenedlaethol fel cyfansoddwr. Perfformiwyd *Catrin* am y tro cyntaf yn nechrau mis Mawrth 1950.

Yn dilyn ei lwyddiant fel cyfarwyddwr ac fel cyfansoddwr, gallai George Fisher fynd ati i sefydlu cymdeithas ddrama yn Llangefni. Gan nad oedd cymdeithas swyddogol yn bodoli ar y pryd, ac yng ngoleuni llwyddiant gweithgareddau dramayddol Cyngor Gwlad Môn,

manteisiodd Fisher ar ei gyfle. Trwy annog Ysgrifennydd y Cyngor Gwlad a'r Trefnydd Drama i wthio'r cwch i'r dŵr, bu George Fisher yn ddigon cyfrwys, ar ddechrau'r ymgyrch, i aros yn y cefndir ac i'w ddatgysylltu ei hun oddi wrth y gweithgareddau. Hysbyswyd y cyhoedd o'r bwriad i sefydlu cymdeithas ddrama yn y dref gyda'r gwahoddiad dwyieithog canlynol:

CYMDEITHAS DDRAMA LLANGEFNI

> Cynhelir cyfarfod yn Neuadd y Sir, nos Iau, Gorffennaf 14 1949, am 7 o'r gloch, i ystyried sefydlu cymdeithas ddrama yn Llangefni. Diau y gwyddoch chwi am rai â diddordeb yn y mater yma na wyddom ni ddim amdanynt. Byddwn yn falch os dywedwch wrth eich cyfeillion - bydd croeso cynnes i bawb.[39]
>
> J.O. Jones
> Dewi Llwyd Jones

Yn y cyfarfod cyffredinol cytunwyd i sefydlu Cymdeithas Ddrama a phenodwyd is-bwyllgor. Cyfarfu hwnnw nos Iau, 28 Gorffennaf 1949, gyda'r canlynol yn bresennol:

> Mr a Mrs J.O. Jones, Mrs Nell Hodgkins, Mrs Lowri Evans, Mr George Fisher, Mr Glasfryn Evans, Mr St John Williams a Mr Dewi Llwyd Jones.[40]

Ymysg y materion i'w trafod gan yr is-bwyllgor oedd amlder y cyfarfodydd[41] ynghyd â'r tâl aelodaeth,[42] ond yn fwy perthnasol i'r gwaith presennol oedd y mater o drefnu Rhaglen y Tymor. O gofio ei waith yn gysylltiedig â'r ddrama, gellir bod yr eithaf sicr fod Dewi Llwyd Jones wedi cyfrannu'n helaeth i'r drafodaeth, ond ni ellir llai na meddwl bod cynnwys y Rhaglen yn adlewyrchu syniadau George Fisher ynglŷn â natur drama, ac fe'n hatgoffir o'r hyn ddywedodd Glyndwr Thomas amdano: mai celfyddyd y theatr – 'drama er mwyn drama' – oedd yn bwysig iddo. Mae'r awgrymiadau a ganlyn ynglŷn â natur Rhaglen y Tymor yn tanlinellu hyn:

Rhaglen y Tymor

Awgrymwyd y syniadau a ganlyn -

| | |
|---|---|
| a | Taith i'r Iwerddon i ymweled â Theatr yr Abaty[43] |
| b | Darlith ymarferol - pwysigrwydd goslef, ysbaid etc. mewn drama |
| c | Darlith ymarferol - pwysigrwydd symudiadau |
| ch | Darlith ymarferol - pwysigrwydd llwyfannu |
| d | Darllen drama gyda'r bwriad o feirniadu'r ddrama |
| dd | Trafod drama o safbwynt cynhyrchu - ar wahan i lwyfannu. Drama adnabyddus |

| | |
|---|---|
| e | Noddi dramâu - cwmnïau teithiol etc |
| f | Taith i weld drama a'i thrafod wedi hynny |
| ff | Cynhyrchu drama - dim ond UN mewn tymor |
| g | Gwaith a swydd côr - adrodd mewn drama |
| ng | Ysgol Ddibreswyl - cynhyrchu drama |
| h | Noson o burlesque. |

Gan amlder y cyfarfodydd cynnar gellir teimlo'r bwrlwm a berthynai i'r ymgyrch i sefydlu Cymdeithas Ddrama yn Llangefni. Yn wir, ceir yr argraff fod brwdfrydedd ac egni George Fisher ei hun yn treiddio drwy'r holl weithgareddau. Yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, roedd popeth yn digwydd ar frys gwyllt.

Er mwyn trafod penderfyniadau'r is-bwyllgor, trefnwyd yr ail gyfarfod cyffredinol:

CYMDEITHAS DDRAMA LLANGEFNI

Annwyl Syr/Madam,

Cynhelir cyfarfod cyffredinol o'r gymdeithas uchod yn Neuadd y Sir, Llangefni, am 7 o'r gloch, Nos Iau, Medi 29 1949. Mawr hyderwn y gallwch fod yn bresennol. Bydd croeso i bawb sydd a diddordeb yn y mudiad.

Eich cywir,

Dewi Llwyd Jones[44]

AGENDA

1 Ystyried adroddiad yr is-bwyllgor a phenderfynu arno
2 Unrhyw fater arall.

Gyda phedwar ar bymtheg[45] yn bresennol, cynhaliwyd y cyfarfod cyffredinol 29 Medi 1949, ac etholwyd Mr D.M. Rowlands yn Gadeirydd, Mrs Lowri Evans yn Ysgrifennydd, Miss Gwyneth S. Jones yn Drysorydd, a Mr F.G. Fisher yn Ysgrifennydd Cyhoeddusrwydd. Gyda hyn, sefydlwyd Cymdeithas Ddrama Llangefni yn swyddogol. Ond, ynghyd â nifer o ddramodwyr blaenllaw eraill, nid oedd John Huws, Emyr Jones nac Edward Williams ymysg y pedwar ar bymtheg. Gellir dadlau bod eu habsenoldeb yn adlewyrchu peth o'r gwrthdaro a fodolai gyda sefydlu'r Gymdeithas Ddrama. Wedi'r cwbl, roedd cryn wahaniaeth rhwng meddylfryd dramayddol y tri hyn a dyheadau George Fisher. Efallai yr edrychent ar y datblygiadau hyn fel bygythiad i lwyddiant ac i ddyfodol y cwmnïau teithiol, ond gellid dadlau nad

chwalu'r hen gwmnïau drama oedd y bwriad wrth sefydlu'r gymdeithas newydd yn Llangefni. Mae un adroddiad arbennig yn y wasg yn cadarnhau hyn:

> ... nid amcenir ymyrryd yng ngwaith unrhyw gwmni drama yn yr ardal, bydded cwmni capel, ieuenctid neu sefydliad y merched. I'r gwrthwyneb, tir cyfarfod yw, lle bydd yn bosibl i bawb â diddordeb mewn drama ymgynnull i drafod eu hanawsterau a dysgu trwy wrando ar arbenigwyr o leoedd eraill, neu drwy ymarfer, neu drwy drafodaeth, neu wrth fynd gyda'i gilydd i Lerpwl ac i Ddulyn i weld gwaith proffesiynol.[46]

Mae'r adroddiad fel petai'n ymgais i hyrwyddo'r ewyllys da a fodolai rhwng y Gymdeithas a'r Cyngor Gwlad. Gan fod Gŵyl Ddrama'r Sir yn ei hanterth, a chefnogaeth cwmnïau Sefydliad y Merched ac ieuenctid y sir mor dyngedfennol i'w llwyddiant, rhaid oedd i'r Gymdeithas Ddrama fynegi ei chefnogaeth hithau i'r holl weithgarwch ynglŷn â'r ddrama ym Môn.

Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Fercher, 12 Hydref 1949 ymddiswyddodd Mrs Lowri Evans fel Ysgrifenyddes, a phenodwyd Miss Beryl Mitchell fel olynydd iddi. Yn wir, wedi dechrau mor addawol, daeth y Gymdeithas wyneb yn wyneb â nifer o broblemau gweinyddol ac ymarferol eraill yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Fe gofir mai mewn ystafell bwyllgor yn Neuadd y Sir y cynhelid yr holl gyfarfodydd hyd hynny. Ar gyfer pwyllgorau a gweithgareddau cyffelyb gellir tybio bod yr ystafell yn hwylus ac yn gyfforddus. Er enghraifft, mae'n debyg na chafwyd unrhyw drafferth i gynnal darlith Mr Morris Jones, Cyfarwyddwr Cwmni Garthewin, nos Fercher, 9 Tachwedd 1949. Er bod testun ei ddarlith, *Pwysigrwydd Symudiadau a Grwpio Mewn Cynhyrchu*, yn sicr o fod yn gofyn am dipyn o le, go brin y caed unrhyw drafferth gyda'r cyflwyniad. Rhaid cofio, hefyd, mai bychan oedd aelodaeth y Gymdeithas yn ei dyddiau cynnar. Yn yr un modd roedd yr ystafell yn hollol addas ar gyfer rhai o weithgareddau arfaethedig eraill y Gymdeithas, sef darllen a beirniadu dramâu, a chynnal trafodaethau yn ymwneud â chynhyrchu gan, o bosibl, eithrio'r llwyfannu. Fodd bynnag, roedd un broblem fawr yn wynebu'r Gymdeithas: doedd ganddi ddim cartref sefydlog ar gyfer gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â pherfformio a llwyfannu

dramâu. Mae'n wir fod Neuadd y Dref ar gael o dro i dro ar gyfer perfformio, ond ni ellid ei defnyddio fel canolfan barhaol i'r Gymdeithas Ddrama. Heb gartref, ni fyddai'n bosibl iddi ehangu ei gorwelion.

Er gwaethaf y rhwystrau ymarferol hyn, llwyddwyd i gyflwyno drama fuddugol George Fisher, *Catrin*, yn ystod 1950. Fe'i llwyfannwyd ddwywaith yn Neuadd y Dref yn ystod y gwanwyn, yng Ngŵyl Ddrama Môn yng Nghaergybi ac eto yn Theatr y Grand, Llandudno ym mis Tachwedd. Yng ngŵyl y sir, gyda Cynan yn beirniadu, gosodwyd y perfformiad yn y dosbarth uchaf ond, fel ym meirniadaeth Mary Lewis yn Nolgellau, ni fu'r beirniad yn or-hael ei ganmoliaeth iddi. Ond er gwaethaf cyndynrwydd y beirniad i ganmol y ddrama, cyhoeddodd Alun Llewelyn-Williams, ar ôl gweld y perfformiad yn Llangefni, ei bod yn ddrama uchelgeisiol a haeddai wir glod. Gwelodd Llywelyn-Williams rywbeth unigryw ynddi:

> Addysg Ddramodol yn Dwyn Ffrwyth
>
> Clywir llawer o gwyno am gyflwr y ddrama yng Nghymru heddiw, nid heb achos, mae'n siwr ... at ei gilydd, tenau yw'r cynnyrch: i Lundain neu i Ddulyn y mae'n rhaid cyrchu o hyd i fwynhau'r ddrama gyfoes a chlasurol o wir werth.
>
> Ond y mae arwyddion eisoes fod gweithgarwch diflino caredigion y ddrama [yng Nghymru] yn dechrau dwyn ffrwyth ... a bod ansawdd a chwaeth y gynulleidfa yn dangos gwelliant pendant...
>
> Rhyw feddyliau fel hyn a aeth trwy fy meddwl i pan gefais y fraint dro'n ôl i wylio'r perfformiad cyntaf o ddrama newydd Mr F.G. Fisher yn Llangefni. Arbraw yw'r ddrama *Catrin*, ac nid drama hawdd mohoni, gan mai mewn dull symbolaidd y dewisodd yr awdur gyfleu ei neges, a chan ei fod o'r herwydd wedi gorfod cymryd cryn hyfdra ar ffeithiau hanes... Dichon y gellid dal na bu'n arbraw cwbl lwyddiannus, ond ni all neb wadu dewrder yr ymgais. Y mae'n sicr yn ddrama sy'n hawlio gwrandawiad gofalus, ac yn ei haeddu...
>
> 'Rwyn credu bod y fath dderbyniad i ddrama newydd yn glod i'r ddrama ac i bobl Llangefni, ac ar yr un pryd yn arwydd dra chalonogol at y dyfodol.
>
> Dyma brawf ym Môn fod gwerth amhrisiadwy yn nisgyblaeth y Gwyliau Drama... Diolch i gyfarwyddyd dynion â chanddynt ddychymyg, y mae llu mawr o bobl yn dechrau cynefino â dramâu ac ag actio o safon. Y mae addysg feirniadol y bobl ar gynnydd, a'r tir yn aeddfedu i'r dramâu mawr y mae gennym bellach gynulleidfa deilwng i'w gwerthfawrogi.[47]

Er gwaethaf y brwdfrydedd ymddangosiadol yng nghofnodion cyfarfod o Gymdeithas Ddrama Llangefni a gynhaliwyd 14 Rhagfyr 1949, ceir cyfeiriad hefyd, hyd yn oed yn y cyfnod hwnnw, at ddiffyg cefnogaeth yr aelodau:

> Ni chynhaliwyd cyfarfod rheolaidd o'r gymdeithas oherwydd fod y nifer yn bresennol yn isel iawn.

Yn ei hadroddiad am dymor 1949-1950 yn nechrau mis Mai, cyfeiriodd yr Ysgrifenyddes ymhellach at y diffyg cefnogaeth:

> Gwelwyd bod deugain o aelodau newydd wedi ymuno â'r Gymdeithas... Felly, gwelwch fod y gymdeithas bellach wedi cael ei thraed oddi tani. Dyma'r unig gwyn - bu pawb yn barod i dalu eu cyfraniadau ariannol ond beth am y cyfraniad arall, sef mynychu'r cyfarfodydd. Ni fu'r nifer yn bresennol yn galonnog bob tro, a'r farn yw "Nid da lle gellir gwell".[48]

Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor, ac adroddiad olaf Beryl Mitchell fel Ysgrifenyddes. Ymgymerodd George Fisher â'r swydd. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd y rhaglen am y tymor canlynol, ac er gwaethaf y rhwystrau ymarferol a wynebai'r Gymdeithas penderfynwyd ceisio llwyfannu un ddrama un act bob chwe wythnos gyda chymorth dau gynhyrchydd. Drwy wneud hynny, gobeithid llwyfannu pum neu chwech o ddramâu yn ystod y tymor. Yn hyn o beth, fe sylweddolir bod y Gymdeithas yn bwriadu ymestyn ei gorwelion drwy fynd ati i wireddu amcanion pennaf byd y ddrama: cynhyrchu a llwyfannu.

Yn ystod yr un cyfarfod, awgrymodd George Fisher y byddai'n syniad da estyn gwahoddiad i gwmnïau'r sir '... i ymuno â ni yn yr ymdrech hon, a pherfformio tair drama un act yn y Neuadd Dre un noson ac wedyn mynd i'r ddwy dref arall [Amlwch a Chaergybi mae'n debyg] â'r un dramâu'. O gofio agwedd annibynnol a hunanol[49] y Gymdeithas, yn arbennig felly yn dilyn agoriad swyddogol y Theatr Fach ym Mai 1955, roedd yr hyn a awgrymwyd gan George Fisher yn y cyfarfod bum mlynedd ynghynt yn hollol i'r gwrthwyneb. Wedi sefydlu'r Theatr Fach, fe gofir mai cyndyn iawn fu'r Gymdeithas Ddrama i ymddangos ar lwyfannau dieithr a chyndyn, hefyd, i groesawu unrhyw gwmni dieithr i berfformio ar ei llwyfan hithau yn Llangefni.

Agorwyd tymor 1950-1951 gyda'r cyfarfod cyntaf yn Neuadd y Sir, 14 Medi 1950. Er bod chwech ar hugain o aelodau newydd, mae'n amlwg fod cyfartaledd presenoldeb y Gymdeithas yn isel iawn. O ganlyniad, penderfynwyd newid amlder y cyfarfodydd i bob yn ail fis o Fedi ymlaen. Er gwaethaf holl frwdfrydedd yr Ysgrifennydd a'i gyd-swyddogion, difater iawn oedd agwedd yr aelodau yn gyffredinol. Doedd pethau ddim yn hawdd o bell ffordd, ac i wneud pethau'n waeth

eglurodd yr Ysgrifennydd mai dim ond dau gwmni oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i wahoddiad y Gymdeithas i gynnal noson o ddramâu. Er gwaethaf ymdrechion y Gymdeithas, du iawn oedd y rhagolygon. Fodd bynnag, gellir edrych yn ôl ar dymor 1950-1951 fel cyfnod o ddeffroad ynglŷn â chwilio am gartref parhaol i'r Gymdeithas. Yn rhyfedd iawn, daeth hynny i fod pan dderbyniwyd llythyr pur negyddol ei eiriad, oddi wrth Mr Arthur J. Evans, Clerc y Cyngor Tref, yn hysbysu'r Gymdeithas na fyddai '... unrhyw stage equipment na llenni yn y cynllun newydd ynglŷn â gwella cyflwr y Neuadd Dref...'[50] Sylweddolwyd bod dod o hyd i gartref parhaol i'r ddrama yn y dref yn fater o reidrwydd er sicrhau dyfodol y Gymdeithas.

O safbwynt datblygiad y ddrama yn Llangefni, ni ellir anwybyddu'r newidiadau cymdeithasol oedd i ddigwydd yn y dref rhwng 1945 a 1955.

Ychydig cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, comisiynwyd Mr Clement Davies, A.S., i wneud arolwg o dai anaddas Cymru. Yn ystod yr arolwg ymwelodd â Llangefni, ac yn ôl Arthur J. Evans

> gwelodd, yn ei dyb ef, y tai gwaethaf yng Nghymru yn Chapel Street a chafodd ei feirniadaeth sylw arbennig yn y wasg genedlaethol.[51]

Dan arweiniad y Clerc, bu'r Cyngor Tref yn flaenllaw ac, i ryw raddau, yn fentrus iawn yn ei ymrwymiad i'r datblygiadau cymdeithasol yn y dref ac, ymhellach ymlaen, i'r datblygiadau diwydiannol yno hefyd. Adeiladwyd nifer o stadau ynghyd ag un stad o dai parod dros-dro. Roedd gwella Neuadd y Dref yn sicr o fod yn rhan o'r adfywiad cymdeithasol yma, ond mae'n amlwg na roddwyd llawer o sylw, yn y gwelliannau, i anghenion llwyfannu dramâu. Golygai'r holl ddatblygiadau gryn gost i'r Cyngor ac, yn ddigon naturiol, byddai'n rhaid i'r trethdalwyr ysgwyddo peth o'r baich.

Yn y cyfamser parhau yn ddigartref fu hanes y Gymdeithas Ddrama ac, o'r herwydd, cyfyngwyd ar ei gweithgareddau ymarferol. Ond, er gwaethaf y rhwystrau, penderfynwyd llwyfannu *Morwyn y Môr* ar gyfer cystadleuaeth actio unrhyw ddrama fer yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst ym mis Awst 1951. Mentrodd tri chwmni ar

ddeg i'r gystadleuaeth, ond ni fu perfformiad Cymdeithas Ddrama Llangefni yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn ei feirniadaeth cyfeiriodd D. Haydn Davies at yr union beth yr anelai George Fisher ato yn Llangefni, a daw arwyddocâd dramayddol y wers y cyfeiriwyd ati ynglŷn â'r afr fach yn gliriach:

> Rhinweddau
> (c) Haedda dewisiad dau o'r cwmnïau air o gymeradwyaeth, sef: *Morwyn y Môr*, ffantasi fydryddol, gan gwmni Llangefni, a *Preimin y Pytiau*, cyfieithiad o *Puppet Show* (Sydney Box), gan gwmni'r Wyddgrug. Eithr er mor llawen yw gennym groesawu ymgeiswyr fydd am droi tir newydd, nid digon hynny heb i'r perfformiad fel cyfanwaith gyrraedd safon deilwng mewn Actio, Cynhyrchu, a Chyflwyniad.[52]

Er bod sylwadau Haydn Davies wedi cynnig peth calondid i'r Gymdeithas Ddrama, diddorol fyddai cael gwybod beth fu ymateb y Gymdeithas i lwyddiant cwmni Llannerch-y-medd, yn yr un gystadleuaeth, gyda'i berfformiad o ddrama Eic Davies, *Ewch Ati*. Gan mai sicrhau'r safonau uchaf posibl mewn llwyfannu drama oedd prif nod y Gymdeithas Ddrama, diau bod llwyddiant John Huws yn Awst 1951 wedi cymell y pwyllgor i wneud y datganiad canlynol ym Medi 1952:

> (ch) Nid oedd y pwyllgor o'r farn bod cystadlaethau yn gyffredinol o les i'r Gymdeithas am fod
> (1) safbwynt y feirniadaeth yn wahanol i'n safbwynt ni sy'n ceisio hyrwyddo dramâu da a chwaeth yn hytrach nag actorion gwych.
> (2) hyd y rihyrsals yn ymladd yn erbyn gwaith newydd.[53]

Daeth peidio cystadlu yn rhan o bolisi'r Gymdeithas o hynny ymlaen.

Yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 13 Medi 1951, mynegodd yr Ysgrifennydd ei siom ynglŷn â'r sefyllfa:

> I would like to comment on the response of members to appeals for co-operation, and to appeal to them to try to realise that a body like a dramatic society demands far more of its members than, say, a society which attends only a series of lectures. ... the response to a request to read a part in a play ... is most disheartening... The refusal of actors to accept parts in plays has ... resulted in the cancellation of one play, the inclusion in the cast of a member of another society who agreed to join to help out, and a frantic search on the part of your secretary to find a company from another town to help fill the night's programme...
>
> Now this lack of eagerness for the society's work is partly due to the lack of a room of our own. We are hoping that eventually we may obtain one. But it is also due to inertia that springs from a lack of vital interest...[54]

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg yn bresennol yn y cyfarfod ac yn y cofnodion fe adroddir ei fod wedi tynnu sylw'r pwyllgor at y ffaith '... na ddylai'r gymdeithas ganolbwyntio ar ein hactwyr gorau yn gymaint â cheisio rhoi cyfle i bawb i wneud rhywbeth neu'i gilydd yn y gymdeithas...'[55] Yn ei farn ef, roedd cydraddoldeb fel egwyddor yn ddilys yn y byd actio yn ogystal ag yn y byd addysg. Mae'n amlwg i'r pwyllgor weithredu ar sylwadau'r Cyfarwyddwr oherwydd yn adroddiad y Gymdeithas am 1951-1952 fe wneir y datganiad canlynol:

> We are not using a cast of experienced players for these plays; there will be plenty of opportunity for the inexperienced and the triers too, with strong support of the initiated.[56]

Yn y rhan hon o'r drafodaeth, buddiol fyddai torri rhyw ychydig ar rediad y stori drwy gyfeirio at ddau ddatblygiad arbennig a fyddai, maes o law, yn allweddol o safbwynt hynt a helynt y Gymdeithas Ddrama. Er bod un yn benderfyniad sirol a'r llall yn benderfyniad trefol, roeddynt ill dau yn berthnasol i dref Llangefni. Dan gyfarwyddyd E.O. Humphreys, roedd y Pwyllgor Addysg lleol eisoes wedi penderfynu mai addysg gyfun[57] a fyddai'n cael ei chynnig yn ysgolion uwchradd y sir. Byddai pedair ysgol newydd ar yr ynys: Caergybi, Amlwch, Llangefni a Biwmares. Roedd ysgol Caergybi eisoes wedi ei sefydlu rhwng 1949 a 1950, ac yn 1951 dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Ysgol Gyfun Llangefni ar ddarn o dir ger yr Ysgol Sir. Agorwyd yr ysgol newydd ym Medi 1953, gan adael yr hen Ysgol Sir yn wag, ffaith o gryn bwys yn hanes y Gymdeithas Ddrama.

Ym mhen arall y dref, ac yn gynnar yn y pumdegau, rhoddwyd stad Pencraig ar werth a phenderfynodd y Cyngor Tref, dan arweiniad y Clerc, Arthur J. Evans, brynu'r safle gyda'r prif fwriad o adeiladu stad fawr o dai cyngor yno. Ond ni wnaed hynny heb gryn wrthwynebiad. Er mwyn ceisio cyfiawnhau'r pryniant, ymddangosodd yr eglurhad canlynol yn y wasg:

CYNGOR TREF LLANGEFNI

YSTAD PENCRAIG

> Cyflwynwyd yr adroddiad canlynol gan y Clerc, Mr Arthur J. Evans, a chadarnhawyd
>
> 1 Er mwyn clirio pob cam-argraff, ac yn wyneb beirniadaeth annheg rhai o'r trethdalwyr ar waith y Cyngor yn prynu ystad Pencraig, nid yw ond teg cyhoeddi'r ffeithiau fel y maent.
>
> 2 Y mae'r ystad yn cynnwys y plas, adeiladau amaethyddol, dau fwthyn, tir, gerddi a choed, gyda dros 82 acer o dir, wedi eu prynu am y cyfanswm o 10,700p.
>
> 12 Gwelir felly y fantais ariannol o sicrhau a datblygu ystad Pencraig i amcanion tai, a bod gwaith y Cyngor yn sicrhau'r ystad yn gynllun economaidd a diogel.[58]

Mae'r sylwadau hyn yn berthnasol o safbwynt dyfodol y Gymdeithas Ddrama. Mewn cyfrol a gyhoeddwyd yn 1983, union ddeng mlynedd ar hugain wedi ymddangosiad yr adroddiad yn y wasg, mae Arthur J. Evans yn dwyn i gof y penderfyniad hanesyddol hwn:

> ... dyma'r penderfyniad mwyaf tyngedfennol yn hanes Llangefni, yn wir yn hanes Môn. Dyna'r penderfyniad a roddodd Coleg Pencraig[59] i Fôn, y coleg amaethyddol cyntaf o'i fath yng Nghymru a Lloegr. Dyma'r penderfyniad a roddodd y weledigaeth a'r ysbrydoliaeth i'r athrylith hwnnw, y diweddar George Fisher, i sefydlu Theatr Fach yn yr hen ysgubor, theatr sy'n hysbys drwy Gymru a Lloegr ac sy'n perthyn i Gymdeithas Theatrau Bach Prydain.[60]

Gyda'r datblygiadau yma fel cefndir, dychwelir i ddechrau tymor 1951-1952. 'Roedd y Gymdeithas erbyn hyn wedi derbyn caniatâd y Pwyllgor Addysg, ynghyd â'r Prifathro, i ddefnyddio neuadd yr Ysgol Sir fel canolfan dros-dro i'r ddrama. Roedd yr achlysur yn sicr o fod yn gam mawr ymlaen yn hanes Cymdeithas Ddrama Llangefni er gwaethaf y cyfyngiadau a roddwyd arni o safbwynt perfformio o flaen y cyhoedd:

> At last, after an initial two years of struggling, the Committee can anounce a most important development in the Society's affairs. This is the acquiring the use of the Secondary Grammar School this season for the FULL PRODUCTION OF PLAYS TO MEMBERS ONLY. The General Public will not be allowed.
>
> It is most important ... to realize that not a single member of the General Public may be admitted to the performances, otherwise rules of the Education Committee and the Law of the Land will be broken ... The General Public will be catered for by other, occasional performances in the Town Hall.[61]

Yn unol ag amcanion gwreiddiol y Gymdeithas, agorwyd y tymor gydag ymweliad â Stratford-upon-Avon yng nghanol mis Medi:

> Dydd Sadwrn diwethaf [22 Medi 1951] bu rhai o aelodau Cymdeithas Ddrama Llangefni, ynghyd â disgyblion hynaf yr Ysgol Sir, ar daith i Stratford-upon-Avon. Yn y Theatr Goffa yno cafwyd perfformiad gwych o ddrama Shakespeare, *The Tempest*. Y mae diddordeb arbennig i aelodau Llangefni eleni yn y Theatr Goffa, gan mai Mr. Hugh Griffith yw un o'r prif actorion yn y cwmni. Gwelwyd ef y tro hwn yn chwarae rhan y bwystfil, Caliban ...[62]

Fe gofia Mr Gwilym Hawes yn dda am y cyfnod cyffrous yma yn nechrau'r pumdegau, yn arbennig felly pan ddechreuwyd llwyfannu dramâu un act yn neuadd yr Ysgol Sir:

> Rwyn cofio gweld dramâu un act yno, a gwrando ar ambell sgwrs. Digon ffwrdd â hi oedd y trefniadau yn naturiol - y setiau yn syml a braidd yn simsan. Bu bron i mi â dod â'r holl set i lawr wrth neidio drwy ffenest pan yn actio yn y ddrama *Dici Bach Dwl*![63]

Gellir yn hawdd ddychmygu yr hwyl a'r sbri a gafwyd wrth gyflwyno tair drama un act i'r aelodau yn ystod mis Hydref, 1951.[64] Cyfarwyddwyd y gyntaf ohonynt, *The Trick Cyclist*, gan Mrs May Morris. O'r diwedd, gwireddwyd un o brif amcanion y Gymdeithas, sef llwyfannu dramâu. Yn ystod y tymor llwyfannwyd tair drama un act arall[65] a threfnwyd teithiau i theatrau ym Mangor, Y Rhyl a Manceinion. Yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas, 18 Medi 1952, adroddwyd bod yna gant a thri deg o aelodau gan gynnwys dau ar bymtheg o aelodau newydd. Yn fwy calonogol fyth, adroddwyd bod tri deg ac wyth o'r aelodau wedi ymddangos ar y llwyfan yn ystod y tymor. Ond serch y gwelliannau, 'doedd y sefyllfa ddim yn ddelfrydol, ac yn ystod pwyllgor a gynhaliwyd 6 Ionawr 1953, cyfeiriwyd at yr '... anhawster o gadw brwdfrydedd yr actorion a'r gynulleidfa heb le o'n heiddo ein hunain'. Wedi'r cwbl, trefniant dros-dro yn unig oedd cael defnyddio neuadd yr Ysgol Sir.

Mewn cylchlythyr a anfonwyd at yr aelodau yn eu hysbysu am y bwriad i gynnal pwyllgor 22 Ebrill 1952, ceir tystiolaeth o hiwmor yr Ysgrifennydd. Cydnabyddir ei frwdfrydedd, ei egni a'i obeithion am ddyfodol y ddrama, ond fe dystia nifer o'r unigolion hynny sy'n ei gofio'n bersonol am ei ddiffyg amynedd, ei fyrbwylltra ac, ar adegau, ei dymer wyllt. Fel disgybl i George Fisher yn y chweched dosbarth yn ystod hanner olaf y pumdegau, gall yr awdur dystio i'r athro, pan gâi drafferth i ddatrys problem fathemategol ar y bwrdd du, ddefnyddio geirfa na

fyddai'r Deg Gorchymyn yn ei chymeradwyo. A dyma beth ddywed Miss Lyn Pierce Jones, un arall o'r actorion, amdano:

> Dyn cwrtais, dymunol oedd Fisher, ond gwahanol iawn pan yn cynhyrchu drama. Perffeithrwydd oedd y nod. Os nad oedd yr actorion yn cyrraedd y safon, gwylltio'n gacwn a'r iaith yn lliwgar iawn. Ond mae'n rhaid cyfaddef ei fod wedi llwyddo i dynnu'r gorau allan o'r actorion. Wedi'r ymarfer, braf oedd mynd yn griw i'r *Railway*, cael ymlacio a sgwrs, ac edrych ymlaen at yr ymarfer nesaf.[66]

Yn ôl cynnwys y cylchlythyr, a natur gellweirus F.G. Fisher, ni ellir llai na thybio ei fod yn dawelach ei feddwl ynglŷn â'r sefyllfa yn nechrau 1953. Cyfeiriodd at yr hyn oedd i ddigwydd ar derfyn y pwyllgor:

> There will be a very nice cup of tea and chocolate biscuits to relieve the tedium of a talk by the secretary of the Society on 'Aims and difficulties in amateur production with special reference to common faults in acting, their cause and cure'.
>
> The lecturer is well known for his cool, philosophical attitude towards actors during rehearsals and for his enormous patience. On this occasion it is hoped that he will take the opportunity of explaining why he thinks it worth while. Please make an effort to come and answer back.[67]

Yn y cyfamser, brynhawn a nos Sadwrn, 14 Mawrth 1953, cyflwynwyd drama Saunders Lewis, *Blodeuwedd*, yn Neuadd y Dref. Ymddangosodd yr hysbysiad canlynol yn y wasg ychydig dros wythnos ynghynt:

> Digwyddodd rhywbeth arbennig yn hanes llenyddiaeth pan lwyfannwyd *Blodeuwedd* am y tro cyntaf gan Chwaraedy Garthewin rhyw flwyddyn yn ôl. Rhoddwyd ar y llwyfan ddrama o'r safon uchaf ... rhoddwyd i'r byd gyfraniad mawr i'w lenyddiaeth.
>
> Gwn fod ar y geiriau hyn flas gormodiaeth. Er hynny, y mae'n wir, a mentraf fynd cyn belled a dweud nad oes yn llenyddiaeth Lloegr o ddyddiau Shakespeare ... ond rhyw chwech o ddramâu i'w cymharu â hi. Sais sy'n dweud hyn. Gwaetha'r modd, nid yw cyflwr y ddrama yng Nghymru ar hyn o bryd, na chwaeth yn gyffredinol, yn barod i dderbyn drama o'r fath hon, a diau na fydd cyfle i bobl Sir Fôn i'w gweld am flynyddoedd eto, os na ddônt i Neuadd y Dref, Llangefni, nos Sadwrn, Mawrth 14, pan fydd Cymdeithas Ddrama Llangefni yn ei llwyfannu.
>
> Y mae'r Gymdeithas mor siwr o hyn fel y maent yn llwyfannu *Blodeuwedd* yn y prynhawn ar gyfer plant ysgolion eilradd y Sir, fel y cânt y cyfle i'w gweld.
>
> Ni wn ar hyn o bryd pa mor llwyddiannus fydd y cynhyrchiad [gan F.G. Fisher], ond y mae'r cast a'r seiri'n selog dros ben. Bydd ei llwyddiant yn dibynnu ar y gynulleidfa. Dibynnant nid yn gymaint ar y rhai sy'n hoff o ddifyrrwch, ag ar ymatebiaeth y bobl i ddrama lenyddol Gymraeg sy'n sefyll ar ei phen ei hun.
>
> Cewch gredu neu peidio, ond, os credwch, tybed a wnewch chi ddweud wrth eich cyfeillion na welsant y nodyn hwn?[68]

Ymhen tridiau, ymddangosodd adroddiad byr yn y wasg i gydnabod yr ymdrech:

> Cafwyd perfformiad canmoladwy o'r ddrama odidog hon, a fwynhawyd yn fawr gan gynulliad lluosog. ... Pwrpas y Gymdeithas yw noddi'r ddrama trwy ddysgu cynhyrchu ac ymarfer, a gwneir y gwaith o dan nawdd Pwyllgor Addysg y Sir.[69]

Er na fu'r ganmoliaeth yn or-hael i'r cynhyrchiad hwn o un o'r clasuron theatraidd mwyaf nodedig yn y Gymraeg, ni ellir llai nag edmygu menter a hyder y Gymdeithas Ddrama yn llwyfannu *Blodeuwedd* o ystyried cyfyngiadau ei hadnoddau ymarfer. Gyda'i dewis o ddrama, ceir darlun clir o amcanion y Gymdeithas ynghyd ag enghraifft arall o George Fisher yn llacio dipyn ar dennyn ei afr fach. Efallai i'r ddau berfformiad fod yn destun trafodaeth yn dilyn sgwrs Fisher ar *'The Aims and difficulties in amateur production with special reference to common faults in acting, their cause and cure'* yn ystod cyfarfod o bwyllgor y gymdeithas ddrama 22 Ebrill 1953.

Mae'n amlwg i 1952-53 fod yn dymor pur lwyddiannus. Adroddwyd bod dros gant a deugain o aelodau, a llwyddwyd i lwyfannu chwe drama gan gynnwys *Blodeuwedd*. Yn ogystal â'r Ysgrifennydd, ymgymerodd pump aelod arall â'r dasg o gyfarwyddo yn ystod y tymor. Roedd y rhagolygon yn obeithiol iawn, ond roedd anawsterau ar y gorwel.

Hysbyswyd yr aelodau fod pwyllgor i'w gynnal 22 Medi 1953, ac fel rhan o'r agenda cynhwyswyd eitem ar '[D]dyfodol y gymdeithas os oes dyfodol'. Dosbarthwyd y nodiadau canlynol ymlaen llaw er mwyn i'r aelodau gael cyfle i fyfyrio arnynt:

> (a) Y mae Pwyllgor Addysg Môn wedi gwrthod ein cais i gael benthyg yr hen ysgol ramadeg fel theatr fach. Y mae gan y Pwyllgor Addysg gynlluniau '... ar gyfer defnyddio'r rhannau hynny o'r adeilad sy'n werth eu cadw' (tros.). Gan hynny, nid oes i ni le i gadw ein deunydd hyd yn oed, heb sôn am lwyfan, lle i baratoi golygfeydd a rihyrsio.
>
> (b) Dichon y bydd hyn yn golygu dirwyn y Gymdeithas fel y cyfryw i ben os nad oes adeilad arall yn y dref neu ryw obaith cryf o gael lle yn y dyfodol agos.
>
> (c) Os digwydd hyn efallai y bydd yn bosibl diddymu'r Gymdeithas gan ei hollti'n ddwy ran, sef, Cwmni o weithwyr selog a ffyddlon dan eu rheolau mewnol eu hunain (os oes lle bychan iddynt weithio ac ymarfer) ar yn naill law, ac ar y llaw arall 'Supporters' Society' neu 'Cymdeithas Cefnogwyr Drama' dan eu rheolau hwy eu hunain efo'r nôd o hel arian (neu gyfrannu arian) at yr achos. Y ffordd honno efallai y bydd yn bosibl hel

digon o arian at ei gilydd i adeiladu Theatr Fach i ni ein hunain yn y dyfodol a'r un pryd llwyfannu dramâu teilwng.

(d) Nid yw rhai ohonom yn barod i gario ymlaen heb le i ni ein hunain i weithio ac ymarfer ynddi: bydd yn rhaid hefyd eu sicrhau y bydd yna weithwyr yn ychwanegol at yr actorion.

Mewn sefyllfa o'r fath gellir yn hawdd ddychmygu i fyrbwylltra a thymer wyllt George Fisher eu hamlygu eu hunain fwy nag unwaith yn y cyfarfod. Go brin fod llawer o dda rhwng y Gymdeithas Ddrama a'r Pwyllgor Addysg, er bod y naill yn dibynnu gryn dipyn ar nawddogaeth y llall. O gofio bod nifer o athrawon ifanc yn aelodau ffyddlon o'r Gymdeithas Ddrama, gellir gwerthfawrogi eu pryder a'u hanfodlonrwydd ynglŷn â'r gwrthdaro a'r tyndra rhwng y ddau sefydliad.

Yn ystod y pwyllgor 22 Medi 1953, penderfynwyd peidio dilyn y syniad o ddatblygu rhan o'r hen ysgol sir fel theatr a mynd ati, yn hytrach, i sefydlu is-bwyllgor adeiladwaith[70] gyda'r bwriad o addasu ysgubor ym Mhencraig i'r pwrpas. Golygai hynny gryn fenter ar ran y Gymdeithas yn ogystal ag oriau lawer o waith gwirfoddol ar ran yr aelodau. Mae'n sicr i'r fath syniad greu amheuaeth yn eu mysg.

Yn dilyn y pwyllgor, anfonwyd llythyr at Glerc Cyngor Tref Llangefni '... yn gwneud cais am gael defnyddio rhan o'r adeiladau amaethyddol i'w cyfaddasu at bwrpas y gymdeithas...'[71] Fe'i trafodwyd yn y Pwyllgor Tai, 5 Hydref 1953, a phenderfynwyd '... gohirio ystyriaeth, a gofyn i'r Arolygydd gyfarfod Mr F.G. Fisher i drafod y mater yn y lle'.[72]

Yn ddigon naturiol, cyfyngwyd ar weithgareddau tymor 1953-54 gan y datblygiadau arfaethedig ym Mhencraig. Er nad oedd sicrwydd ynglŷn â llwyddiant y cais, roedd y rhagolygon yn obeithiol a chyffrous. Serch hynny, ni fu'r Gymdeithas yn segur. O safbwynt amrywiaeth profiad a chyfraniad, cafwyd tymor cyfoethog iawn. Daeth cynhyrchiad May Morris o *King of the River* yn gydradd gyntaf yng Ngŵyl Ddrama Môn, a rhoes y penderfyniad i sefydlu Gŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni ym mis Medi ddimensiwn newydd i weithgarwch y Gymdeithas Ddrama. Gwirfoddolodd y Gymdeithas i adeiladu set ar gyfer perfformiad Cwmni Môn o ddrama Cynan, *Hywel Harris*, gyda'r awdur ei hun yn cyfarwyddo. Rhoddai'r dasg gyfle i'r aelodau hynny nad

oeddynt yn actorion i gyfrannu yn ymarferol at weithgarwch y Gymdeithas Ddrama. Ond i goroni'r cyfan cyflwynwyd drama George Fisher, *Y Ferch a'r Dewin*, gan Gwmni'r Gogledd, dan gyfarwyddyd Edwin Williams, yn ystod yr ŵyl genedlaethol gyntaf honno. Dyma'r ddrama a gyfansoddwyd gan 'Melinydd', ffugenw Fisher, ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl ym mis Awst 1953. Rhoddwyd cryn statws i'r gystadleuaeth. Gwahoddwyd D.T. Davies, Saunders Lewis a John Ellis Williams i feirniadu'r gystadleuaeth a ddisgrifid yn y testunau fel 'Cystadleuaeth Arbennig'. Cynigiwyd gwobr anrhydeddus o ddau gant o bunnau i'r enillydd. Cyd-fuddugol fu ymgais George Fisher, a gorfu iddo rannu hanner y wobr â Gwynne D. Evans, Y Tymbl.

Yn y rhagymadrodd i'w feirniadaeth,[73] cyfeiriodd D.T. Davies at yr '[a]chwyn mawr sydd oherwydd prinder dramâu Cymraeg' ac mai'r 'anhawster yw cyhoeddi dramâu!' Bu'n rhaid i George Fisher aros hyd fis Gorffennaf 1958 cyn i'w ddrama gael ei chyhoeddi gan Wasg Aberystwyth. Fodd bynnag, derbyniodd Cymdeithas Ddrama Llangefni wahoddiad i lwyfannu *Y Ferch a'r Dewin* yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy ym mis Awst 1958.

Yn nechrau mis Tachwedd 1954, cyflwynwyd llythyr arall oddi wrth F.G. Fisher i Bwyllgor Tai Cyngor Tref Llangefni '... yn gwneud cais am gael defnyddio Ysgubor Pencraig fel 'Theatr-Weithdy', ac i drawsnewid yr adeilad yn unol â'r cynllun gyflwynwyd'.[74] Penderfynwyd rhoi sêl bendith ar y cais a rhoddwyd awdurdod i'r Clerc i gytuno â'r Gymdeithas Ddrama ynglŷn â'r telerau. Gwnaethpwyd hyn ar unwaith, ac ym Mhwyllgor Ariannol y Cyngor Tref, 13 Rhagfyr 1954,

> [a]droddodd y Clerc ei fod wedi cytuno ar y telerau canlynol gyda Mr F.G. Fisher ... sef rhent wythnosol o 5/- (ar wahan i'r trethi) am gyfnod o ddwy flynedd ac i adolygu y rhent ar ddiwedd y cyfnod yma, a'r Gymdeithas i gyflwyno i'r Cyngor adroddiad ar y sefyllfa ariannol. Hefyd, y Gymdeithas i ymgymeryd â'r holl waith o gyfaddasu y lle yn ôl y cynllun gyflwynwyd ar gost eu hunain.[75]

Wrth gwrs, byddai addasu'r hen ysgubor yn sicr o olygu cryn gost yn ogystal â'r angen am griw da o wirfoddolwyr brwdfrydig i ymgymryd â'r gwaith. Trafodwyd yr anghenion mewn cyfarfod cyffredinol arbennig a gynhaliwyd

9 Rhagfyr 1954. Gyda naw ar hugain o aelodau yn bresennol, ynghyd â thri o swyddogion y Gymdeithas, trafodwyd cais y Gymdeithas am grant tuag at y costau sylfaenol. Mae'n amlwg y byddai sefydlu theatr fach ym Mhencraig yn dibynnu llawer ar lwyddiant y gymdeithas yn sicrhau les hir ar yr adeilad ac, yn ôl y cofnodion, fe welir bod peth ansicrwydd yn parhau ynglŷn â dyfodol y gymdeithas ddrama ei hunan:

> The Welsh Church Acts Committee would not consider making a grant towards altering the Pencraig barn unless there was a long lease on it - but to seek such a lease at this juncture, before we were more certain of ourselves, would be unwise.[76]

Yn yr un cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith yn ddi-oed:

> ... provided that sufficient male members of the Society were prepared to promise individually to work on the conversion of the barn.
> The following members present promised to work on the conversion: Llew Jones, F.G. Fisher, Warren Morris, Gwilym Hawes, Glyndwr Thomas, Desmond Butler, O.E. Jones, Dafydd Davies, Dewi Roberts, Gwilym Humphreys, Glasfryn Evans, Gwynfryn Evans, Bobi Jones.

Yn y rhan hon o'r stori, gyda phrin bedwar mis i fynd hyd nes y gwireddid y freuddwyd o gael agor drws y Theatr Fach, dylid pwysleisio nad George Fisher yn unig a fu'n gyfrifol am sefydlu'r fenter. Gwir dweud mai ef yn sicr oedd yr ysbrydoliaeth, ond dylid dwyn i gof mai un ymhlith nifer ydoedd. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif orbrisio ei gyfraniad ar draul nifer fawr o wirfoddolwyr eraill.

Golygai misoedd cyntaf 1955 waith corfforol caled iawn i'r aelodau hynny a oedd wedi gwirfoddoli i ymgymryd â'r dasg o addasu ysgubor Pencraig yn theatr. Mewn nodiadau a ysgrifennwyd ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas, 10 Medi 1955, ceir crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

> And incidentally [we] built a theatre. In this work, some fifteen to twenty members turned up throughout the Winter and completed the conversion in the period from January 17th to April 30th, 3½ months.

Bu'r is-bwyllgor a benodwyd i oruchwylio'r gwaith yn brysur iawn hefyd: cyfarfu'r is-bwyllgor ym Mhencraig, 11, 18, 25 Chwefror, 4 Mawrth a 4 Ebrill. Yn y cyfamser, aeth y gwaith yn ei flaen ac aberthwyd oriau lawer o amser hamdden yr aelodau er lles y Gymdeithas Ddrama. Ond ar ddechrau'r flwyddyn, mae'n amlwg nad oedd y sefyllfa

mor ddelfrydol ag y gobeithid iddi fod. Ar agenda'r pwyllgor a gynhaliwyd 10 Ionawr 1955, ymddangosodd y newyddion syfrdanol bod:

> 3 [yr] ysgrifennydd yn ymddiswyddo ac yn gadael y Gymdeithas o achos prysurdeb gwaith arall. Ethol ysgrifennydd newydd.

Pe digwyddai hynny, byddai dyfodol y Gymdeithas yn ddu iawn. Er na all fod yn hollol sicr o'r dyddiad, fe gofia Glyndwr Thomas am un pwyllgor pryd y syfrdanwyd yr aelodau gan ddatganiad yr Ysgrifennydd, 'Rwy'n ymddiswyddo!' Mae lle i gredu mai pwyllgor 10 Ionawr 1955, oedd yr achlysur hwnnw. Hyd heddiw, fe gred Glyndwr Thomas mai bygythiad dramatig oedd y cyfan, wedi ei amseru'n berffaith. Fe'i gwêl fel math o *blackmail.* Beth bynnag oedd y bwriad, fe weithiodd y bygythiad a pharhaodd yr Ysgrifennydd yn ei swydd. Ond, fel y gwelir yn y cofnodion, nid heb i nifer o newidiadau gael eu gwneud yng ngweinyddiad y Gymdeithas Ddrama:

> 3 Ar ôl trafodaeth hir (i'w dileu) fe benderfynwyd apwyntio swyddogion i ysgafnhau gwaith yr ysgrifennydd fel a ganlyn:
> (a) Ysgrifennydd Cyfraniadau - i gael ei apwyntio yn y cyfarfod blynyddol
> (b) Trefnydd adeiladwaith y Theatr - Mr Warren Morris
> (c) Ysgrifennydd cynorthwyol i ddosbarthu hysbysiadau - Mr Glyndwr Thomas
> (d) Darllennydd Dramâu: Cymraeg - Mr Bobi Jones
> Saesneg - Mr Llew Jones
> (e) Trefnydd Gwibdeithiau - i'w apwyntio yn y cyfarfod blynyddol
> (f) Meistres y Dillad - yr Ysgrifennydd i ofyn i Mrs Tecwyn Jones ar delerau dros-dro
> (g) Cynlluniwr y llwyfan - Mr F.G. Fisher
> (h) Cynhyrchwyr y dramâu agoriadol yn y Theatr - Mrs May Morris a Mr Tecwyn Jones
> (i) Trydanwr - yr Ysgrifennydd i ofyn i Mr Frank Taylor.[77]

Er gwaethaf ei holl egni, ceir y teimlad bod cyfrifoldebau ei swydd fel Ysgrifennydd yn dechrau mynd yn drech nag ef. Ond nid yw hyn yn syndod. Er sefydlu'r Gymdeithas yn 1949, roedd brwdfrydedd George Fisher wedi ei arwain i ysgwyddo'r rhan fwyaf o waith y Gymdeithas. Roedd yn gyndyn i rannu'r baich gyda'i gyd-aelodau.

Yng ngoleuni penderfyniadau'r pwyllgor 10 Ionawr 1955, codwyd ysbryd a gobeithion y Gymdeithas Ddrama unwaith yn rhagor, ac aethpwyd ymlaen â'r dasg o addasu'r hen ysgubor. Gyda hyn mewn golwg, hysbyswyd aelodau'r is-bwyllgor perthnasol o'r cyfarfod nesaf:

There will be a meeting of the Theatr Conversion Committee on the site at Pencraig on Friday next, February 11th., at 6.30.

Please make an effort to attend.

Agenda

1 Terms of reference
2 The co-option of Mr Frank Taylor on this committee
3 Progress report
4 To examine schemes for:
 (a) Heating, including possible floor and ceiling
 (b) Further construction work to auditorium and stage
 (c) Stage lighting and dressing
 (d) Auditorium lighting and decoration
 (e) Seating [Prynwyd 63 o seddau *tip-up* am 7/6 yr un]
 (f) Lavatories
5 Co-ordination of work above
6 A.O.B.

Note The financial aspects of the programme can be discussed item by item or under 5, at the discretion of the meeting.

F.G. Fisher
Secretary, Llangefni Dramatic Society[78]

Mae'n rhaid cofio mai gwirfoddolwyr oedd y gweithwyr, a nifer ohonynt yn ifanc ac yn hollol ddibrofiad yn y maes adeiladu. Go brin y byddai rheolau iechyd a diogelwch yn caniatáu'r fath drefniant heddiw. Serch hynny, atgofion melys sydd gan Gwilym Hawes am y cyfnod:

> Yn fuan, aeth nifer ohonom ... dan reolaeth neu afreolaeth George Fisher, i fwrw waliau a lloriau i lawr ar y cychwyn heb dalu rhyw ormod o sylw i'n diogelwch ar y pryd mae arnaf ofn. Wedyn cafwyd mwy o gyfarwyddyd gan bobl proffesiynol.
> Rwy'n cofio gweithio hefo Mr Llew Jones (adeiladydd) yn torri lle i'r drws oedd yn arwain o'r cyntedd i'r awditorium, a chael siars ganddo ein bod yn gwneud pethau'n saff cyn gosod y lintel.
> Un dydd Llun Pasg (mi gredaf) bu Glyndwr [Thomas] a minnau yn casglu berfeidiau o gerrig o gwmpas y lle i wneud llawr a oedd i fod ar wahanol lefelau ar gyfer yr awditorium.
> Roedd George Fisher yng nghanol y miri drwy'r amser ac yn gweithio'n hynod o galed.[79]

Un o hanfodion pwysicaf unrhyw theatr yw ansawdd y goleuadau. Yn hyn o beth manteisiodd y Gymdeithas Ddrama ar arbenigedd trydanwr profiadol a oedd yn barod i wirfoddoli ei wasanaeth er lles y Theatr Fach. Ei enw oedd Frank Taylor (1926-1974), ac fe haedda ei gyfraniad gwerthfawr gydnabyddiaeth deilwng. Gyda'i deulu symudodd o'i swydd gyda Manweb yn Wrecsam i weithio i atomfa'r Wylfa yn gyntaf, ac wedyn i ffatri Cunnliffe's ar stâd ddiwydiannol Llangefni. Ymgartrefodd y teulu mewn tŷ cyngor yn y dref. Mae ei wraig, Jenny,

yn dal i fyw yn yr un tŷ, ac mewn sgwrs â hi yn niwedd 2003 cafwyd disgrifiad byw o brysurdeb y cyfnod hwnnw yn nechrau 1955.

Fe gofia fel y galwai George Fisher am ei gŵr bron bob nos am gyfnod o dri mis a hynny, yn aml, cyn i Frank Taylor gael amser i orffen ei ginio. I ffwrdd â'r ddau wedyn ar frys mawr yng nghar George Fisher i'r Theatr Fach i weithio am ryw dair awr. Ond, mewn ymgais i gadw'r ddysgl yn wastad, deuai â bocs bach o siocled i Mrs Taylor o dro i dro gan ddweud rhwybeth fel 'Put the kids in bed, put your feet up, and enjoy these, dear'.

Golygai'r gwaith addasu cyntaf hwn gryn gost i'r Gymdeithas, ac fe gofir i'r Ysgrifennydd hysbysu'r is-bwyllgor o'r bwriad i drafod y costau hynny yn ystod ei gyfarfod cyntaf ym Mhencraig, 11 Chwefror 1955. Yn ddi-os, dibynnai dyfodol y fenter ar lwyddiant y Gymdeithas Ddrama yn sicrhau grantiau sylweddol o'r amrywiol ffynonellau, ac mae'n sicr i frwdfrydedd a phenderfyniad ei haelodau i sefydlu theatr fach yn y dref argyhoeddi y Cyngor Celfyddydau, ynghyd â Phwyllgor Gronfa'r Degwm, o ddifrifoldeb y prosiect. Yn ystod misoedd y gweithgarwch mawr yn necharu 1955, derbyniwyd siec o ganpunt oddi wrth y Cyngor Celfyddydau, yn ogystal ag addewid o hanner y costau hyd at £385 oddi wrth Gronfa'r Degwm. Roedd hyn, ynghyd â chynnydd yn nifer yr aelodau, yn argoeli'n dda ar gyfer yr agoriad.

Mewn pwyllgor a gynhaliwyd 4 Ebrill 1955, dywedodd Margaret Fisher[80] y byddai ei drama *It's Autumn Now* gan Philip Johnson, yn barod erbyn yr wythnos gyntaf o Fai, a chadarnhaodd Tecwyn Jones y byddai addasiad Cynan o ddrama Pwshcin, *Rwsalca*, hefyd yn barod i'w llwyfannu yr un pryd. Yng nghofnodion y pwyllgor, nodwyd na welwyd yr un anhawster i rwystro'r Gymdeithas rhag agor y theatr yr wythnos gyntaf o Fai. Ac felly y bu:

> Nos Fawrth, 3 Mai 1955, agorwyd Theatr Fach Llangefni - noson fawr i George Fisher a'i gydweithwyr, noson fawr i'r dref hon ac i Ynys Môn - yn wir, mi awn cyn belled â dweud ei bod hi'n noson fawr i Gymru ... cyflwynwyd y dramâu am bedair noson hyd nos Wener, ac agorwyd y Theatr i ymwelwyr ar y pnawn Sadwrn. Wythnos i'w chofio, yn wir oedd yr wythnos honno.
> Bu'r agor yn llwyddiant mawr: cafwyd dymuniadau da i'r theatr newydd gan y gwahanol wŷr gwadd...[81]

Yn eu mysg roedd Wilbert Lloyd Roberts. Derbyniodd y gwahoddiad i annerch y gynulleidfa ar y noson agoriadol, a chaed crynodeb o'r hyn a ddywedodd yn y wasg yr wythnos ganlynol:

> Ar ffurf pregeth y traddodwyd anerchiad Mr Wilbert Lloyd Roberts ... Codwyd y testun o "Llyfr Hanes Llangefni", y flwyddyn 1955, a'r trydydd dydd o Fai: "A sefydlwyd yma Theatr Fach".
> Y gwirionedd a welir yn y geiriau yw hyn: bod yn Llangefni rhyw bobl gymwynasgar
> (1) â hwy eu hunain
> (2) â'r bobl o'u cwmpas
> (3) â'r genedl[82]

I gloi y rhan hon o'r drafodaeth, rhestrir isod enwau'r actorion hynny a gafodd y fraint o droedio byrddau'r Theatr Fach am y tro cyntaf yn swyddogol:

| *Rwsalca* | *It's Autumn Now* |
|---|---|
| Eleanor Webber | Glasfryn Evans |
| Leslie Hodgkins | Barbara Hughes |
| Owen E. Jones | Gwen Price Evans |
| Diana James | Bill Hughes |
| Beti Jones | Kitty Owen |
| Ann Owena Evans | Maureen Evans |
| Eirian Harris | |
| Edward Jones | |

---

1 Dathlodd Ysgol Gyfun Llangefni ei phen-blwydd yn hanner can mlwydd oed ym Medi 2003. Gweler *Y Glorian*, Papur Bro Cefni a'r Cylch Rhif 271, Medi 2003.

2 Minute Book: Llangefni County Secondary School Governors, 1947-1972, WA/19/57 (a), 121.

3 *ibid.*, 96.

4 Y Parchedig John Pierce (1889-1955), Bron Dinas, Marianglas. Llenor, beirniad adrodd a drama, a Chadeirydd cyntaf is-bwyllgor Drama Cyngor Gwlad Môn.
Wedi tair blynedd ar ddeg ar hugain o wasanaeth fel athro Cymraeg yn Llangefni, ymddeolodd 31 Awst 1954. Bu farw 19 Ionawr 1955. Ar ei garreg fedd ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llaneugrad, ceir y geiriau canlynol:

*Distaw yw'r tafod arian*
*Collwyd rhin ei hudol wên.*

Bu farw ei wraig, Margaret, yn gant oed 31 Ionawr 1994. Fe'i claddwyd gyda'i gŵr.
I ddilyn y Parchedig John Pierce fel athro Cymraeg, penodwyd Robert [Bobi] Maynard Jones, y bardd a'r beirniad llenyddol, i ddechrau ar ei ddyletswyddau 31 Awst 1954. Bu'n dysgu yn yr ysgol hyd 31 Awst 1956.

5 Llewelyn Jones (m. 2003): cyd-athro a chyfaill agos i F.G. Fisher. Dysgai Hanes a Daearyddiaeth yn Ysgol Sir Llangefni hyd cau yr ysgol ar ddiwedd tymor yr haf 1953. Ym Medi agorwyd yr Ysgol Gyfun a throsglwyddwyd yr athrawon a'r disgyblion i'r adeilad newydd. Penodwyd y ddau yn benaethiaid adrannau hanes a mathemateg. Yn ddiweddarach penodwyd Llewelyn Jones yn Bennaeth Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.
Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1983, cyflwynwyd darlith gan Llewelyn Jones ar
*Francis George Fisher: Bardd a Dramodwr.*
Fe'i cyhoeddwyd gan Bwyllgor Gwaith yr eisteddfod.

6 Francis George Fisher (g. 26 Ionawr 1909 m. 30 Ionawr 1970)
Yng ngoleuni'r cysylltiadau clòs a fodolai rhwng Llewelyn Jones a George Fisher dros gyfnod maith o amser, teimlir mai ffolineb hollol fyddai ceisio gwella ar gynnwys darlith Mr. Jones. O'r herwydd, cyflwynir y ddarlith fel proffil teilwng a chywir o'r gwrthrych ac anogir y darllenwr i'w darllen yn ei chrynswth.

7 *Y Glorian*, *op.cit.*, Medi 2003.
Darlun ac enwau staff Ysgol Gyfun Llangefni 1953-4,18.

8 Dechreuodd Miss Ceinwen Morris ar ei dyletswyddau fel athrawes Gwyddor Tŷ, 31 Awst 1954. Yn ystod ei horiau hamdden ymddiddorai mewn drama. Priododd â Tecwyn Jones, ac am flynyddoedd cyfrannodd y ddau yn helaeth i'r ddrama yn y Theatr Fach ac i'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol.

9 Mewn llun sydd ym meddiant yr awdur fe welir tîm o wirfoddolwyr yn gweithio yn y Theatr Fach rywdro yn niwedd 1954. Yn eu mysg mae Glasfryn Evans, Llewelyn Jones, Gwilym Hawes, Bobi Jones, Glyndwr Thomas, Griff Thomas, Harold Brindle Jones, Warren Morris a George Fisher.

10 Llyfr Log Ysgol Sir Llangefni, Ionawr 1931.

11 Jones, *op.cit.*, 8.

12 *Môn*: Cylchgrawn Sir, Hydref 1950, 13-14,
Erthygl gan F.G. Fisher: 'Sais a ddysgodd Gymraeg yn sôn am ei anawsterau'.

13 O. Llew Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru, 1850-1943.* (Cyhoeddwyd gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, 1948), 269.

14 *ibid.*, 270-9.

15 Gweler y bennod ar Gwmni Drama Llangefni.

16 Yn Rhagfyr 2003, mewn ymateb i holeb a anfonwyd ato beth amser ynghynt, derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig oddi wrth J.O. Roberts. Mae'r dyfyniad canlynol yn hollol berthnasol i'r hyn a ddigwyddodd ar ddechrau gyrfa George Fisher fel athro yn Llangefni:

> 'Rai blynyddoedd cyn y rhyfel [1931] cafodd ei apwyntio gan S.J. Evans, - y teyrn hwnnw – i'w swydd gyntaf fel athro mathemateg. Y noson gyntaf, tua hanner awr wedi naw, fe gerddodd i dafarn y *Railway* a hynny drwy ddrws y ffrynt, nid peth arferol i athrawon ei wneud yn y cyfnod cul hwnnw! Y bore wedyn, a rhywun wedi gweld yn dda i ddweud wrth y prifathro, cafodd orchymyn i fynd i swyddfa'r prif. Roedd gweddill yr athrawon yn sicr na feiddiai'r athro ifanc fynd am ei beint wedi hynny. Chafodd neb wybod i sicrwydd sut y bu hi wedi'r cyfarfod hir hwnnw, ond y syndod i bawb oedd i George wneud yr un peth y noson wedyn a pharhau â'r traddodiad dros y blynyddoedd canlynol. Mae'r hanesyn yn dangos y math o berson oedd o.'

17 Jones, *op.cit.*, 10.

18 *ibid.*, 10-11.

19 Y diweddar Colin Fisher, ail fab George a Margaret Fisher. Disgybl disglair ac amryddawn.

20 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943*, 184-9.

21 Llangefni County School Governors Minute Book. Meeting held 10 December 1945. Staffing, 242. Headmaster's Report, 244.

22 Roedd Margaret Haslam yn athrawes Saesneg yn Ysgol Sir Llangefni yn nechrau'r tridegau. Priodwyd y ddau yn 1933.

23 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni, 1949-50. Tudalen rydd yn cofnodi'r sefyllfa ariannol. Dim ond £12.10.9 oedd ym mhwrs y Gymdeithas pan sefydlwyd y Gymdeithas Ddrama swyddogol yn 1949.

24 Ymysg y cyfeillion hynny roedd Mrs Lowri Gwynfryn Evans (mam Hywel Gwynfryn) a Miss Gwyneth S. Jones.

25 Jones, *op.cit.*, 20.

26 Theatr Fach Garthewin. Gweler Atodiad FF.

27 Hazel Walford Davies, *Saunders Lewis a Theatr Garthewin*, (Gwasg Gomer, 1995), 93.

28 John Owen Roberts, Benllech, Môn.
Ar sail holeb a anfonwyd iddo rai misoedd ynghynt, cafwyd sgwrs â Mr Roberts yn nhŷ yr awdur 5 Rhagfyr 2003. Gwerthfarwogir ei hynawsedd a'i amser. Derbyniwyd nodiadau ysgrifenedig ganddo hefyd.
Fe'i hyfforddwyd yn Y Coleg Normal, Bangor, a maes o law dychwelodd yno fel darlithydd drama.
Wedi treulio ei brentisiaeth fel actor a chyfarwyddwr yn Theatr Fach Llangefni hyd ganol y saithdegau, daeth yn actor a chyflwynydd proffesiynol llawn-amser. Erbyn hyn mae ei lais, ei wyneb a'i dalent yn hysbys i'r genedl.
Yn ei eiriau ef ei hun, cydnabu ei ddyled i George Fisher:

> 'Afraid dweud fod fy nyled i yn enfawr i weledigaeth, ymroddiad a gallu'r gŵr a wnaeth y cyfan yn bosibl i mi. Perffeithydd fel cyfarwyddwr, a'i lwyfannu geometrig yn wers i bob cyw gynhyrchydd. Dyn o flaen ei oes, a byddai wedi bod yn "Impressario" penigamp!' (Rhagfyr 2003)

29 Nodiadau oddi wrth J.O. Roberts, Rhagfyr 2003. Ym meddiant yr awdur.

30 *Y Clorianydd*, 1 Ionawr 1947, 4.

31 Mabwysiadwyd teitl swyddogol y cwmni, Chwaraewyr Garthewin, 7 Mai 1947.

32 Gweler Atodiad G.

33 O.G. Brocket a R.R. Findlay, *Century of Innovation: A History of European and American Theatre and Drama Since 1870*. Pennod 4: *The Independent Theatre Movement*, 87. (Cyh. Prentice-Hall, UDA, 1973).

34 *Y Clorianydd*, 17 Rhagfyr 1947, 4.

35 Glyndwr Thomas, Cemais, Môn. Brodor o Langefni. Cyn-athro a phrifathro cynradd. Llenor, bardd, actor, cyn-aelod o Gymdeithas Ddrama Llangefni a chyfansoddwr dramâu. Anfonwyd holeb iddo yn niwedd Mai 2003, a chafwyd sgwrs hir ag o yn ei gartref yng nghanol Mehefin 2003.

36 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau 1949*, 221-227.

37 Gellir bod yn eithaf sicr bod George Fisher wedi ymgynghori â'i gyd-athro, Llewelyn Jones, ynglŷn â chefndir a chywirdeb hanesyddol y stori.

38 Wedi sgwrsio â nifer o unigolion sy'n cofio George Fisher yn bersonol, go brin bod sylw Mary Lewis ynglŷn â'i ymddiriedaeth yn ei allu ei hun yn gywir.

39 Ceir copi o'r hysbyseb yng Nghofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni, 1949-1955, (WDAI/90).

40 Ceir copi rhydd o Adroddiad yr is-Bwyllgor ymysg Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni, (WDAU/90).

41 *ibid.*, Amlder y cyfarfodydd
 a. Unwaith bob mis
 b Yr ail Nos Fercher/Nos Iau yn y mis
 c Dechrau am 7 o'r gloch.

42 *ibid.*, Tâl aelodaeth
Teimlid y gellid cael dau fath o aelod - aelodau cyffredinol ac aelodau anrhydeddus. Y tâl cyffredinol fyddai 3/6 (1/6 i aelodau di-gyflogedig), a'r tâl i aelodau anrhydeddus fyddai gini neu drosodd. Byddai'r tâl cyffredinol yn sicrhau mynediad yn rhad i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y gymdeithas, byddai'r tanysgrifiad arall yn sicrhau mynediad rhad i <u>holl</u> gyfarfodydd y gymdeithas. Teimlid hefyd y dylid hysbysu yn *Y Clorianydd* a chenhadu o dŷ i dŷ.

43 Phyllis Hartnoll a Peter Found: *Oxford Concise Companion to the Theatre*, (Oxford University Press, Ail argraffiad 1992), 1.

44 Y tro hwn dim ond enw'r Trefnydd Drama a welir ar ddiwedd y gwahoddiad. Yn dilyn ei gefnogaeth swyddogol ar ddechrau'r ymgyrch, ciliodd J.O.Jones o'r neilltu gan adael y Gymdeithas Ddrama i'w dyfeisiau ei hun. Ond nid oes amheuaeth i'r Gymdeithas elwa llawer o'i gefnogaeth dros y blynyddoedd.

45 Ceir rhestr o'r enwau yng Nghofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni
Adroddiad cyntaf.

46 *Y Clorianydd,* 5 Hydref 1949, 4.

47 *Môn,* Hydref 1950, 12 a 15. Erthygl gan Alun Llewelyn-Williams 'Addysg Ddramodol yn Dwyn Ffrwyth'.

48 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni, 4 Mai 1950.

49 *ibid.,* 4 Hydref 1950.
Chwe aelod yn unig oedd yn bresennol. Yng ngeiriau Miss Gwyneth S. Jones, ceir adlewyrchiad arall o annibyniaeth sylfaenol a hunaniaeth y Gymdeithas Ddrama. Wrth drafod y posibilrwydd o gystadlu yng Ngŵyl Ddrama Môn yn 1951, awgrymodd Miss Jones ' ... ein bod yn barod i lwyfannu unrhyw ddrama un act yn yr Ŵyl sydd wedi ei llwyfannu yn barod er mwyn ein lles ein hunain ...'

50 *ibid.*, 14 Medi 1950. Cyfeiriwyd at lythyr dyddiedig 12 Medi 1950, yn ystod y cyfarfod.

51 Arthur J. Evans, *Tu Hwnt i'r Llenni.* (Cyhoeddiad preifat gan yr awdur a'i ferch, Dilys, 1983), 48.

52 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, 1951,* 247.

53 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni. Cynhaliwyd pwyllgor o'r Gymdeithas 4 Medi 1952.

54 *ibid.,* Pwyllgor a gynhaliwyd 13 Medi 1951. Tudalen brintiedig, rydd.

55 *ibid.,* 13 Medi 1951.

56 *ibid.,* Adroddiad am y flwyddyn 1951-52. Tudalen brintiedig, rydd.

57 O.A. Williams, *Anglesey: Towards Comprehensive Education 1926-1953.* Traethawd ymchwil M.Addysg, Prifysgol Cymru Bangor, 1985.

58 *Y Clorianydd,* 18 Mawrth 1953, 4.

59 Bryner Jones, *Agor Cwys: Hanes Coleg Pencraig,* (Cyhoeddiad preifat gan yr awdur Awst 1999). Bu'r awdur yn ddarlithydd ac yn Ddirprwy Brifathro yn y coleg.

60 Evans, *op.cit.,* 131.

61 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni. Adroddiad am dymor 1951-52.
Tudalen brintiedig, rydd.

62 *Yr Herald*, 25 Medi 1951, 5.

63 Gwilym Hawes, Marian-glas, Môn. Actor a chyn-aelod o Gymdeithas Ddrama Llangefni. Athro a chyn-brifathro cynradd yn y sir.
Atebion i'r holeb a anfonwyd ato gan yr awdur. Fe'i derbyniwyd 25 Tachwedd 2003.

64 *Yr Herald* 16 Hydref 1951, 5. Perfformiad o'r *The Trick Cyclist*
23 Hydref 1951, 5. Perfformiad o *Harri Ddewr*
Ffars o waith George Fisher; y tro cyntaf iddo gyfansoddi drama ddigri.
30 Hydref 1951, 5. Perfformiad o *Pretty Toys* gan F. Sladon Smith.

65 *One Crowded Hour, Glöyn Byw, Cân Rhiannon.*

66 Rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Miss Lyn Pierce Jones, Treborth, 29 Rhagfyr 2003.

67 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni. Cylchlythyr yn hysbysebu dyddiad y pwyllgor nesaf, 22 Ebrill 1953.

68 *Y Clorianydd,* 4 Mawrth 1953, 4.

69 *Yr Herald,* 17 Mawrth 1953, 5.

70 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni. Pwyllgor 22 Medi 1953.
Aelodau'r is-bwyllgor adeiladwaith:
D.C. Davies; Warren Morris; Isaac Thomas; John Parry; W.A.H. Garland; R.H. Hughes, a'r Ysgrifennydd.
Yn eu mysg, roedd arbenigwyr mewn adeiladwaith a chynllunio.

71 Llyfr Cofnodion: Llangefni U.D.C., 1952-55, WBE1/10.
Pwyllgor Tai, 5 Hydref 1953.

72 *ibid.*

73 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl,* Awst 1953, 163-189 .

74 Llyfr Cofnodion: Llangefni UDC, 1952-55, WBE1/10. Pwyllgor Tai,
8 Tachwedd 1954.

75 *ibid.,* Pwyllgor Ariannol, 13 Rhagfyr 1954.

76 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni: Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, 9 Rhagfyr 1954.

77 *ibid.,* Pwyllgor 10 Ionawr 1955.

78 *ibid.,* Cyfarfod o'r is-bwyllgor ym Mhencraig, 11 Chwefror 1955.

79 Sylwadau ysgrifenedig gan Gwilym Hawes, ym meddiant yr awdur, Tachwedd 2003.

80 Bu peth newid yn y trefniadau gwreiddiol. Byddai May Morris yn cyfarwyddo ymhellach ymlaen yn y tymor.

81 Jones, *op.cit.*, 20. Gweler hefyd J.R. Williams, *Deugain Mlynedd o Droedio'r Byrddau.* (Cyh. preifat, Mai 1995), 12.

82 *Y Clorianydd,* 11 Mai 1955, 5.

# PENNOD 5

# THEATR FACH LLANGEFNI

Petai rhywun yn cyplysu dau ddatganiad a wnaethpwyd yn nechrau'r pumdegau, y naill yn ysgrifenedig a'r llall yn llafar, gellid amlinellu darlun pur gynhwysfawr o amcanion ac o obeithion Cymdeithas Ddrama Llangefni o'i sefydlu'n swyddogol yn 1949 a gydol ei bodolaeth ansicr a digartref[1] yn ystod hanner cyntaf y pumdegau. Heb gartref sefydlog roedd hi'n anodd iawn i'r Gymdeithas wireddu'r amcanion hyn yn ymarferol. Yn wir, ni lwyddodd i wneud hynny hyd nes i'r Theatr Fach agor ei drysau ym mis Mai 1955.

Cynhwyswyd y datganiad ysgrifenedig yn rhaglenni'r Gymdeithas ar gyfer ei hamrywiol berfformiadau yn ystod y pumdegau cynnar. Yn y rhaglen ar gyfer perfformiad o ddrama un act David Monger, *Cân Rhiannon*, nos Iau, 3 Ebrill 1952, er enghraifft, cydnabyddir cefnogaeth y Pwyllgor Addysg, ac eglurir mai

> [p]wrpas Cymdeithas Ddrama Llangefni yw noddi Drama drwy ddysgu, cynhyrchu ac ymarfer... Os daw arian i'r Gymdeithas o ganlyniad i'w gwaith, treulir y cwbl i'r perwyl hwn.

Gwnaed yr ail ddatganiad gan George Fisher ei hun mewn sgwrs gyda Glyndwr Thomas tua'r un pryd. Eglurodd Fisher mai ei fwriad oedd cyflwyno drama er mwyn drama, ac nid ei defnyddio fel llawforwyn i wneud elw ariannol i achosion eraill. Fel yr awgrymwyd fwy nag unwaith yng nghorff y gwaith hwn, gellid dadlau bod y bwriadau hyn wedi ymddangos, i rai o gyfarwyddwyr cwmnïau teithiol Môn, braidd yn elitaidd.

Mae'n debyg mai gallu George Fisher i wireddu'r amcanion hyn fu sail llwyddiant y Theatr Fach o 1955 ymlaen, ac mae'n eithaf posibl mai dyma beth symbylodd Dafydd Llewelyn, ym mharagraff cyntaf ei ysgrif ar hanes y Theatr Fach, 'Cysgodion Enciliedig: Theatr Fach, Llangefni', i egluro fel yr

> ... agorwyd y Theatr Fach ar stad Pencraig, Llangefni, gyda geiriau o ddrama *Macbeth*[2] yn arwyddair iddi: 'cysgodion ydym: fel cysgodion yr ymadawn'. Dros y blynyddoedd llwyddodd i gynnig addysg, hyfforddiant a phrofiad ym myd y ddrama i nifer o drigolion y sir, a chyplyswyd gwaith y Gymdeithas â safon a graen.[3]

Ond ar ôl cyfeirio at George Fisher fel y '[g]ŵr a fu'n angor i'r Gymdeithas [Ddrama] yn ystod y degawdau cynnar ...', cydnebydd Dafydd Llewelyn yr angen i

> [f]od yn ofalus wrth geisio croniclo hanes Theatr Fach Llangefni, oherwydd y mae perygl syrthio i'r fagl o ddiystyru cyfraniad y gweithgarwch a fodolai yn y cyfnod blaenorol. Y gwir amdani yw bod cryn weithgarwch a brwdfrydedd wedi bod ar yr ynys ym myd y ddrama drwy gydol yr ugeinfed ganrif.[4]

Yng ngoleuni'r datganiad uchod ynglŷn â'r gweithgarwch a fodolai ym myd y ddrama ym Môn cyn ac ar ôl agor y Theatr Fach yn Llangefni, gellid ystyried cynnwys y drafodaeth hon fel rhyw fath o ymdrech i ddisgrifio natur y gweithgarwch hwnnw, yn arbennig felly yn ystod y cyfnod rhwng 1930 a 1975.

Gan fod cyfrol Hazel Walford Davies wedi ei chyhoeddi cyn i'r gwaith hwn ddechrau gweld golau dydd, cydnabyddir bod gwaith ymchwil Dafydd Llewelyn wedi achub y blaen ac, i bob pwrpas, wedi defnyddio llawer o'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'r Theatr Fach. O'r herwydd, ceisir yma osgoi unrhyw ailadrodd dianghenraid ac anelir, yn hytrach, at lenwi ambell fwlch bach yma ac acw. Efallai y dylid edrych ar gynnwys y naill fel cydymaith i'r llall.

Cyn ymhelaethu ar weithgarwch a chyfraniad y Theatr Fach o 1955 ymlaen, efallai mai da o beth fyddai nodi rhai o nodweddion amlycaf y Gymdeithas Ddrama; y nodweddion hynny y gellid eu hystyried yn rhan o bolisi gweinyddol y Gymdeithas dros y blynyddoedd.

Yn ystod cyfnod cynnar ei bodolaeth yn nechrau'r pumdegau, gwnaeth y Gymdeithas Ddrama un o'i phenderfyniadau mwyaf pellgyrhaeddol: rhoi lle cyfartal i'r iaith Gymraeg ac i'r iaith Saesneg yn ei gweithgareddau. Yng ngheiriau Dafydd Llewelyn, 'yr oedd y Gymdeithas yn awyddus i beidio â thramgwyddo neb ar sail iaith na gwleidyddiaeth ...'[5] Roedd yn benderfyniad doeth ac amserol, ac yn hyn o beth, daw geiriau Fisher yn ôl i'r cof, 'Drama er mwyn drama', boed hi'n ddrama Gymraeg neu'n ddrama Saesneg. Yn ei farn ef celfyddyd y ddrama oedd yn bwysig, ac nid ei hiaith. Mentrir dweud ei fod wedi llwyddo i hyrwyddo'r egwyddor hon ymhlith gweddill y pwyllgor gwaith. Ceir cadarnhad o fwriad y Gymdeithas Ddrama

i weithredu'n ddwyieithog yng nghofnodion ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn niwedd Medi 1958:

> (ii) That the new Committee consider the formation of a Five Year Plan for production of at least one great European play annually, to be called 'Representative Plays', and that a similar plan be considered for great Welsh plays.[6]

Yn yr un cofnod awgrymir bod y Gymdeithas yn bwriadu ymestyn ei gorwelion y tu hwnt i'r ffiniau Prydeinig; ymestyn tennyn 'gafr fach' George Fisher fel petai, a chynnig iddi borfa ffres.

Hyd heddiw, fe ddeil y pwyllgor gwaith i weithredu'r polisi ieithyddol hwn; cynhelir y pwyllgorau yn ddwyieithog, dosberthir adroddiadau dwyieithog, a cheisir cyflwyno perfformiadau ar yn ail. Ond er gwaethaf yr ymdrech gyson i sicrhau dwyieithrwydd y Gymdeithas, dim ond un Sais a weithredai ar y pwyllgor gwaith yn 2004, sef y Trysorydd, John Bridle o Lanfairpwll. A serch y galw cyson am gyfarwyddwyr ac actorion Saesneg, siomedig iawn yw'r ymateb. Yn wir, dibynnir bron yn gyfan gwbl ar barodrwydd nifer fechan o Gymru Cymraeg i ymgymryd â'r dasg o lwyfannu dramâu yn Saesneg.

Gydag ychydig eithriadau,[7] cyflwynwyd dramâu un act yn unig cyn, ac am beth amser wedi agor drysau'r Theatr Fach. Roedd nifer o resymau dros wneud hyn. Mae'n rhaid cofio mai cymdeithas newydd oedd hi, gyda nifer helaeth o'i haelodau yn hollol ddibrofiad ym myd y ddrama. O'r herwydd, roedd angen anogaeth a pherswâd cyson ar y darpar actorion i ddysgu, i fentro ar lwyfan ac, wedi cyrraedd yno, i ddarlunio eu cymeriadau yn hyderus ac yn effeithiol. Yn ogystal, roedd angen eu hargyhoeddi y medrent ymateb yn gredadwy i'r actorion eraill o flaen cynulleidfa. Roedd cyfarwyddwyr yn brin a rhaid oedd annog cyfarwyddwyr newydd i ymgymryd â'r dasg. I'r perwyl hwn, byddai angen arweiniad pendant ar y darpar gyfarwyddwyr ynglŷn â chyflwyno drama: rheoli'r symudiadau a'r grwpio, creu set addas, a bod yn hollol ymwybodol o bopeth sydd ynghlwm wrth y grefft o lwyfannu drama yn llwyddiannus. Byddai angen cryn ddychymyg a dyfeisgarwch i wireddu'r gofynion hyn, ac er i unigolion fel Margaret Fisher, J.O. Roberts, Elen Roger Jones, May Morris, Hazel Eames, Tecwyn Jones, Richard T. Jones a Tony Jones ymysg eraill eu hamlygu eu

hunain fel actorion ac fel cyfarwyddwyr dylanwadol dros y blynyddoedd, ni ellir gwadu mai Fisher oedd y wir ysbrydoliaeth y tu ôl i'r gymdeithas er ei sefydlu yn 1949. Er na wyddys am unrhyw gyfeiriad at Fisher fel actor, casglwyd amrywiol argraffiadau ohono fel cyfarwyddwr,[8] ac ymddengys fod dwy ffaith yn gyffredin i'r holl argraffiadau: parch yr actorion tuag ato, a'u hedmygedd ohono.

Er ei sefydlu yn 1949, ni ellir llai na sylwi ar natur annibynnol y Gymdeithas Ddrama. Yn ystod y cyfnod pryd y defnyddid neuadd yr Ysgol Sir ar gyfer y perfformiadau, gellir deall y cyfyngiadau a roddid ar y Gymdeithas o safbwynt natur y gynulleidfa y gallai ei denu. Nid yn unig cyfyngid ar faint y gynulleidfa ond, oherwydd y telerau cyfreithiol a osodwyd gan Bwyllgor Addysg Môn, cyfyngid hefyd ar natur y gynulleidfa. Perfformiadau ar gyfer yr aelodau yn unig oeddynt ac, o'r herwydd, disgrifid y perfformiadau hynny fel rhai 'preifat'. Roedd holl weithgarwch y Theatr Fach i droi o gwmpas ei haelodaeth: yr actio, y cyfarwyddo, y gweithio, a'r gwylio. Yn wir, daeth hyn yn rhan o bolisi'r Gymdeithas yn dilyn ei phenderfyniad, ym Medi 1958, i ychwanegu rheol newydd at ei chyfansoddiad:

> Plays produced by the Society in the Theatre shall be presented exclusively to members except that the full committee shall have powers in special circumstances ... to offer a production to the General Public.[9]

Mae pob perfformiad erbyn heddiw yn berfformiad cyhoeddus, a'r unig fantais a geir o fod yn aelod o'r Gymdeithas Ddrama yw'r gostyngiad yn y pris mynediad. Ond i bawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw gyflwyniad neu berfformiad, mae rheolau caeth Iechyd a Diogelwch yn mynnu eu bod yn aelodau llawn neu'n aelodau o'r Theatr Ieuenctid. Go brin fod George Fisher a'i griw wedi rhoi ystyriaeth i'r fath rwystrau yn nechrau 1955.

Dros y blynyddoedd, cyndyn iawn fu'r Gymdeithas i estyn gwahoddiad i gwmnïau eraill i ymddangos ar lwyfan y Theatr Fach, ac anaml y gwelid cwmni'r theatr yn ymddangos ar lwyfannau dieithr.[10] Mae'n eithaf tebyg mai natur annibynnol y Gymdeithas Ddrama fu'n rhannol gyfrifol am ei phenderfyniad i beidio â chystadlu. Er bod cwmnïau'r Gymdeithas wedi ymddangos yng ngwyliau drama y sir yn ystod y pedwardegau hwyr a'r

pumdegau cynnar, rhoddwyd terfyn ar y cystadlu yn dilyn agor y Theatr Fach ym mis Mai 1955. Fe ddeil hyn yn bolisi hyd heddiw.

-----------

Yn ystod 1955, yr oedd holl egni ac ymroddiad aelodau'r Gymdeithas Ddrama wedi ei anelu tuag at sefydlu ac agor y Theatr Fach ym Mhencraig. Ar 3 Mai, gwireddwyd y freuddwyd honno. O hynny ymlaen, y dasg a wynebai'r pwyllgor oedd sicrhau tyfiant a llwyddiant y theatr nid yn unig ar lefel sirol, ond ar lefel genedlaethol yn ogystal. Roedd angen rhoi gwybod i bobl Môn a phobl Cymru am ei bodolaeth a'i hamcanion. Gyda hyn mewn golwg, daeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrwng hwylus ac effeithiol. Am gyfnod o dair blynedd - Aberdâr yn 1956, Llangefni yn 1957, a Glyn Ebwy yn 1958 - chwaraeodd y Theatr Fach ran amlwg yng ngweithgareddau dramayddol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar gyfer cystadleuaeth y goron yn Aberdâr, gwahoddwyd llenorion i gyfansoddi drama fydryddol ar destun agored, gyda thri chopi ohoni i fod yn llaw yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 2 Ebrill 1956.[11] Y tri beirniad oedd Thomas Parry, D. Tecwyn Lloyd a John Ellis Williams. Anfonodd George Fisher ei ddrama, *Merch yw Medwsa*, i'r gystadleuaeth. O gofio ei gefndir ieithyddol, gellid dadlau fod ei benderfyniad i gystadlu yn un mentrus. Yn eu beirniadaeth ar y cyd, dyma beth ddywed y beirniaid ynglŷn â natur y gystadleuaeth:

> Am ddrama y cynigir y Goron eleni. Ansoddair yn disgrifio sut ddrama a ddisgwylir yw'r gair 'mydryddol'. Gan hynny, o safbwynt cynhyrchydd drama y dylid beirniadu'r wyth cyfansoddiad a yrrwyd i'r gystadleuaeth...[12]

Yn ddiamheuol mae'r datganiad hwn yn awgrymu mai barn John Ellis Williams fyddai'n cario'r dydd o safbwynt y canlyniad terfynol. Wedi trin a thrafod hanfodion a gwendidau ymdrechion y saith ymgeisydd arall, dyma beth ddywedwyd am yr wythfed ymdrech:

> Erys un ddrama – 'Merch yw Medwsa', gan T.L.D.,[13] ac y mae hon mor bell ar y blaen i'r gweddill nes sefyll ohoni ar ei phen ei hun. ... Ond y mae iddi dri gwendid syflaenol – mewn iaith, mewn cymeriadaeth ac mewn techneg.

Yn y feirniadaeth, cyfeirid yn aml at wendidau'r iaith. Yn eu mysg, caed datganiadau fel:

> ... nid ydyw eto wedi dysgu dethol y geiriau gorau ... temtir ni ... i amau mai ail iaith yw'r Gymraeg iddo ... Y mae blas estron ar ormod o'i ansoddeiriau. Ceir rhai darnau y mae'n rhaid eu cyfieithu i'r Saesneg i weld eu hystyr.

Ac o safbwynt techneg, beirniadwyd ef am '[nad ydoedd] ychwaith wedi dysgu sut i newid cywair wrth fydryddu ...'

Wedi pwyso a mesur holl rinweddau a gwendidau T.L.D., gwnaethpwyd y penderfyniad canlynol:

> Y mae deunydd drama fydryddol dda yn 'Merch yw Medwsa', ond dylid ei hail bobi a'i hail ysgrifennu cyn ei chynhyrchu ar lwyfan. Rhinwedd fwyaf y gwaith yw'r addewid sydd ynddo am bethau gwell i ddod. [Mae yma ddrama] â chymaint o bosibilrwydd ynddi ... Nid yw'r ddrama hon, fel y mae'n awr, yn cyrraedd y safon o ran iaith nac o ran techneg ... ac oherwydd hynny y mae'n rhaid inni atal y wobr.

Methiant, felly, fu ymdrech George Fisher i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberdâr, ac o gofio y math o ŵr ydoedd, gellir dychmygu iddo gael ei siomi. Ac mae'n rhaid cofio ei fod wedi mynd ati i gyfansoddi ei ddrama fydryddol wreiddiol yn niwedd 1955 a dechrau 1956 a hynny, fe gofir, yn syth ar ôl yr ymdrech gorfforol enfawr i addasu ysgubor Pencraig yn Theatr Fach yn nechrau 1955. Yn ychwanegol at hyn, ym mis Ebrill 1956, aeth ati i gyfarwyddo *Marchogion y Môr*, cyfieithiad Jeremiah Jones o ddrama un act J.M. Synge, *Riders to the Sea*.

Ar 21 Mehefin 1956, cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Môn 1957 yn Llangefni. Noson y cyhoeddi, cyflwynwyd perfformiad o Ddrama-Basiant gan Ifan Gruffydd, *Ednyfed Fychan*. Fe'i perfformiwyd yn yr awyr agored ar gowt y Theatr Fach. Roedd hon yn fenter newydd, gyffrous a dieithr i gynulleidfaoedd Môn, ac yn enghraifft dda o'r hyn oedd i ddod. Yn ôl yr ychydig sy'n cofio'r noson, cafwyd perfformiad llwyddiannus gan gast mawr a hwnnw wedi ei wisgo'n lliwgar a thrawiadol. Rhoddwyd y gynulleidfa i eistedd mewn hanner cylch o gwmpas y llwyfan; i nifer o'r gwylwyr, roedd hyn, hefyd, yn brofiad newydd a gwahanol.

Yn ystod ail hanner 1956 a misoedd cyntaf 1957, aethpwyd ymlaen â'r amrywiol gynyrchiadau yn y Theatr Fach ac, yn unol â'r drefn a fabwysiadwyd, cyflwynwyd dramâu Cymraeg a Saesneg ar yn ail. Ar wahân

i gyflwyniadau mis Chwefror 1957, dramâu hir oeddynt i gyd. Ond ni welwyd enw'r ysgrifennydd fel cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn. Roedd rheswm da dros hynny. Ar gyfer wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn nechrau mis Awst, derbyniodd y Gymdeithas Ddrama wahoddiad i lwyfannu *Merch yw Medwsa,*[14] yn y Theatr Fach ar nosweithiau Awst 7, 8, 9 a 10, 1957. Dyma'r union ddrama a ddyfarnwyd yn annheilwng o dlws y goron yn Aberdâr flwyddyn ynghynt. Er i'r tri beirniad, gyda John Ellis Williams yn eu mysg, gydnabod bod '...deunydd drama fydryddol dda [ynddi]', ac y '... dylid ei hail bobi a'i hail ysgrifennu cyn ei chynhyrchu ar lwyfan', mae lle i amau faint, yn wir, o hynny a wnaed cyn ei chyflwyno ar lwyfan y Theatr Fach yn Awst 1957. Yn y rhaglen swyddogol ar gyfer y pedwar perfformiad, ymddangosodd y datganiad canlynol:

> Ysgrifennwyd y ddrama ar gyfer y *TeLeDu*, ond ni fu angen newid y dechneg i'w chyflwyno i gynulleidfa ddeallus.

Gellir dadlau bod y cymal olaf yn awgrymu bodolaeth y cythraul drama; ffaith a gadarnheir gan yr actor J.O. Roberts:

> [Roedd] John Ellis Williams [yn] un o ddynion mawr y ddrama yn y pedwar a'r pumdegau. Yn fyr, roedd George wedi cystadlu am y goron yn 1956... Roedd y ddau fardd oedd yn beirniadu yn fodlon coroni awdur *Merch yw Medwsa*, ond teimlai'r dramodydd ar y panel – John Ellis Williams – nad oedd modd ei llwyfannu; a'i farn ef a orfu. Y flwyddyn ganlynol roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni ar gaeau Pencraig, a thrwy'r wythnos fe berfformiwyd *Merch yw Medwsa* yn y Theatr Fach, drws nesa i'r cae. Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd â thocyn, i John Ellis Williams, ond ni fu'n bosibl iddo ddod![15]

Daeth *Merch yw Medwsa* â llwyddiant a chlod mawr i Gymdeithas Ddrama Llangefni, i'w chwmni drama, ac i'r cyfarwyddwr.

Yn sicr, bu llwyddiant y perfformiadau yn ystod yr wythnos yn gam mawr ymlaen o safbwynt gobeithion y Gymdeithas Ddrama i sicrhau dyfodol y Theatr Fach fel canolfan ddylanwadol yn natblygiad y ddrama yng Nghymru. Ond mae'n rhaid cofio, hefyd, mai dyma'r tro cyntaf i'r Theatr Fach agor ei drysau i ymwelwyr,[16] ehangu ei chynulleidfa, a thrwy wneud hynny lacio rhyw ychydig ar ei natur annibynnol. Bu'r penderfyniad yn un tyngedfennol a gwerthfawr. Un o'r ymwelwyr hynny oedd Mrs Elen Roger Jones, ac ym *Mhortread* Harri Parri ohoni, ceir disgrifiad clir o berthynas Elen Roger â'r Theatr Fach:

> Roedd Elen Roger Jones wedi syrthio mewn cariad â'r Theatr Fach ... cyn iddi adael Abersoch a dychwelyd i Fôn. Aeth yno am y waith gyntaf, nos Sadwrn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni, yn 1957, i wylio drama ... George Fisher, *Merch yw Medwsa*, ac yntau'n cynhyrchu: 'Yr oedd y tywydd yn erchyll, a chofiaf yn glir gamu ohono i groesi y *foyer* glyd cyn cael fy nhywys i sêt hynod o gyfforddus. Dotiais ar y llwyfannu graenus – gyda'r cynllun golau a sain mor broffesiynol. Synnais yn fawr gael, yng nghanol Môn, debygrwydd i Theatr yn Llundain. Ymunais fel aelod[17] y noson honno, gan deithio o Abersoch i weld pob perfformiad'.
>
> Wedi mudo'n ôl i Fôn, roedd y daith honno'n fyrach ac fe ddyfnhaodd ei chariad hithau at y lle ...[18]

Daeth Elen Roger i'r Theatr Fach am y tro cyntaf fel gwyliwr; bu'n actores benigamp ac yn gyfarwyddwraig lwyddiannus, ac yn ystod ei blynyddoedd olaf mynychai'r perfformiadau fel gwyliwr cyson a chefnogol. Bu farw 15 Ebrill 1999, yn naw deg mlwydd oed.

Ymysg y gynulleidfa yn ystod yr wythnos honno yn Awst 1957 roedd Bedwyr Lewis Jones, ac yn nechrau 1958 ymddangosodd erthygl ganddo yn *Yr Arloeswr* yn dwyn y teitl 'Llangefni a'r Ddrama'. Ynddi, llwyddodd i grisialu yr hyn a gyflawnodd y Theatr Fach hyd hynny. Mae hefyd yn datgan ei obeithion ynglŷn â'i dyfodol:

> Profiad amheuthun ... oedd mynd i'r Theatr Fach i weld perfformio *Merch yw Medwsa*. Saif ar ei ben ei hun ymhlith digwyddiadau amrywiol yr Ŵyl... A phe na byddai am ddim arall, bu'n werth dod â'r Eisteddfod i Langefni er mwyn rhoi cyfle i Gymru gyfan i wybod am y Theatr Fach.
>
> Yr oedd teimlo awyrgylch y Theatr ynddo'i hun yn brofiad cynhyrfus... A'r hyn a barai gyffro yn Llangefni oedd fod yr awyrgylch yno yn drwyadl Gymreig. Yr oedd dyn yn syth yn y cywair iawn i fwynhau drama... Yn ei hallanolion yr oedd y Theatr Fach yn rhoi i'r ddrama y parch a haedda.
>
> Y parch hwn tuag at ddrama a eglura hefyd lwyddiant y perfformiad a gyflwynwyd – y perfformiad gorau a welais i yn Gymraeg ... [roedd] graen proffesiynol [ar yr] actio yn *Merch yw Medwsa* ...[19]

Yn yr erthygl, cyfeirir at broffesiynoldeb y Theatr Fach. Edrychid ar y seiri, y trydanwyr, y paentwyr, y colurwyr a meistresi'r gwisgoedd fel aelodau anhepgorol o'r tîm er sicrhau llwyddiant pob perfformiad. Yng ngolwg y Gymdeithas Ddrama nid 'cymwynaswyr cefn-llwyfan yn unig' oeddynt, ond rhan annatod o'r hyn a ddigwyddai ar y llwyfan yn ystod y perfformiadau.

Ym marn Bedwyr Lewis Jones, '... hanfod nawdd [i ddramodwyr] bob amser yw beirniadaeth garedig ac anogaeth ddeallus'. Â ymlaen i nodi fod swyddogion Cymdeithas Ddrama Llangefni eisoes wedi annog, drwy'r wasg,

'... ddramodwyr anfuddugol cystadlaethau'r Eisteddfod i anfon eu gwaith iddynt

...' er

> [na] allant addo llwyfannu pob drama a dderbynid, ond rhoesant eu gair y cai pob un "ystyriaeth deg". I ddyfynnu diwedd y llythyr, "wedi'r cwbl yr ydym yn chwilio am ddramâu. Ni chredwn ein bod yn haerllug yn gwneud yr apêl, eithr symbylir ni gan yr argyhoddiad mai Theatr a Llwyfan biau'r dyfarniad terfynol ar unrhyw ddrama".

Efallai mai cyfeiriad sydd yma at dynged *Merch yw Medwsa* yn Aberdâr a'i llwyddiant, flwyddyn yn ddiweddarach, ar lwyfan y Theatr Fach yn Awst 1957.

Bu 1958 yn flwyddyn brysur yn y Theatr Fach, ond o'r saith drama a lwyfannwyd yn ystod y tymor *Siwan*, gan Saunders Lewis, oedd yr unig ddrama Gymraeg. Gyda Fisher yn cyfarwyddo, fe'i perfformiwyd am dair noson yn ystod mis Mawrth, ac awgrymir fod gan y Gymdeithas Ddrama reswm digonol dros gefnu, am un tymor yn unig, ar ei pholisi o gydraddoldeb ieithyddol. Mae'n debyg mai o ganlyniad i lwyddiant *Merch yw Medwsa* yn Awst 1957, y gwahoddwyd Cymdeithas Ddrama Llangefni i lwyfannu drama fel rhan o weithgareddau gyda'r nos Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy ym Mis Awst 1958. Ar gyfer yr achlysur, dewisiwyd *Y Ferch a'r Dewin*[20] gan George Fisher, gyda'r awdur ei hun yn cyfarwyddo. Hon oedd y ddrama gyd-fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl, 1953, ac fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf gan Gwmni'r Gogledd yng Ngŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni ym 1954, gydag Edwin Williams yn cyfarwyddo.

Er bod Fisher yn brysur gyda'i ddarpariaethau ar gyfer Glyn Ebwy, roedd y trefniadau eisoes wedi eu cwblhau i groesawu *The Unnamed Society*[21] i'r Theatr Fach i roi chwe pherfformiad o ddrama Peter Philp, *Zodiac*, a chwe pherfformiad o waith Gilbert Cesbron, *Lone Eminence*, yn ystod y cyfnod 18 – 30 Awst 1958. Erbyn hynny, wrth gwrs, byddai Fisher a'i gwmni wedi hen gwblhau eu dyletswyddau yng Nglyn Ebwy. O gofio natur annibynnol y Gymdeithas Ddrama, gellir edrych ar y gwahoddiad fel un pur arbennig.

Yn 1958, derbyniodd Francis George Fisher yr MBE am ei wasanaeth i'r ddrama yng Nghymru. Nid oes lle i amau'r teilyngdod, ond mae'n rhaid

cofio mai ymdrech tîm a ddaeth â'r holl lwyddiant i'r Gymdeithas Ddrama ac i'r Theatr Fach.

Ar y dechrau, llwm iawn oedd adeiladwaith a chynllun y theatr, ac amaturaidd braidd oedd ei chyfleusterau ar gyfer llwyfannu dramâu. Ond os oedd y freuddwyd i'w gwireddu, byddai angen rhywbeth amgenach na llafur cariad i wneud hynny: byddai angen arian. Os oedd y theatr am ei hyrwyddo ei hun fel canolfan ddrama ar lefel genedlaethol, byddai'n rhaid iddi sicrhau'r safonau uchaf bosibl yn ei dewis o ddramâu yn ogystal ag yn safon y cyfarwyddo, yr actio a'r coluro. Byddai angen, hefyd, wella'r adnoddau technegol ynghyd â chyfleusterau cyhoeddus y theatr. Golygai hyn, wrth gwrs, gostau ariannol cyson a chynyddol. Ar y dechrau, manteisiwyd ar haelioni a chefnogaeth Cyngor Tref Llangefni, ond os oedd y Gymdeithas Ddrama am ffynnu ni fyddai'n bosibl iddi ddibynnu ar dâl aelodaeth yn unig. Byddai'n rhaid cael nawdd Cyngor y Celfyddydau a Phwyllgor Deddfau Eglwysig Cymru. Ond i sicrhau hynny byddai angen iddi godi ei safonau artistig.

Penderfyniad Môn i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r sir yn Awst 1957, a sbardunodd y Gymdeithas Ddrama i ymgymryd â'r addasiadau sylweddol cyntaf er agoriad y theatr. Os oedd y Theatr Fach â'i bryd ar ddod yn un o ganolfannau dylanwadol y ddrama yng Nghymru, cynigiai'r Eisteddfod Genedlaethol lwyfan perffaith iddi. Gyda hyn mewn golwg, caewyd y theatr o fis Mai hyd ddechrau mis Awst, 1957. Yn ystod y tri mis, ehangwyd yr awditoriwm i sicrhau y gallai dros gant o bobl eistedd ynddi, ac adeiladwyd cyntedd newydd yn ogystal â thoiledau. Fe gofir fel y bu i Elen Roger Jones a Bedwyr Lewis Jones gyfeirio at y moethusrwydd a brofasant ynddi o ganlyniad i'r addasiadau hynny. Rhwng mis Mai a mis Hydref 1961, byddai'r Theatr Fach yn cael ei chau unwaith yn rhagor ar gyfer gwelliannau sylweddol eraill er hyrwyddo ei dyfodol.

Yn dilyn llwyddiant perfformiadau disgyblion yr Ysgol Sir yn niwedd y pedwardegau, prin iawn yw'r wybodaeth am gysylltiadau'r Gymdeithas Ddrama â'r bobl ifanc yn dilyn ei sefydlu yn 1949. Ond gydag E.D. Davies yn brifathro, a'r Ysgol Gyfun newydd yn agor ym Medi 1953, daeth tro ar fyd. Fel y crybwyllwyd eisoes, rhoddwyd hwb sylweddol i achos y ddrama

ymysg yr ifanc yn hanner cyntaf y pumdegau pan ddaeth y gyfundrefn addysg gyfun i fodolaeth dan gyfarwyddyd E.O. Humphreys.[22] Yn unol â'r gyfundrefn arloesol honno, bwriedid cynnig cyfle cyfartal i holl ddisgyblion uwchradd y sir. Yn Llangefni, safai E.D. Davies yn gadarn dros gyfle a thegwch, y rhinweddau addysgol hynny a werthfawrogid gan y Cyfarwyddwr Addysg. Yn dilyn ei apwyntiad yn nechrau mis Mai 1954, fe gofir i un o'r athrawon, Tecwyn Jones, ysgwyddo'r dasg o gyfarwyddo nifer o ddramâu'r ysgol, yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Yn y cefndir roedd George Fisher, a diau i'r tri, E.D. Davies, Tecwyn Jones a Fisher ar lawer achlysur, drin a thrafod hanfodion y ddrama yn gyffredinol ond, yn fwyaf arbennig, ei lle yn natblygiad diwylliannol y disgyblion. Efallai mai o ganlyniad i un o'r trafodaethau hynny yn ystod 1958 y mynegodd E.D. Davies ei ddymuniad i weld yr ysgol yn ymaelodi â'r Theatr Fach. Ar 10 Hydref 1958 anfonwyd llythyr oddi wrth ysgrifennydd y Gymdeithas Ddrama i'r prifathro yn ei hysbysu o'r penderfyniad. Wedi talu ffi o bum gini, byddai'r prifathro yn derbyn gwybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â'r holl berfformiadau, ac fe'i hysbyswyd o'r telerau canlynol:

> (ii) A maximum of 30 pupils from Form 4 upwards to attend any production (but these must all be on the same night) provided that (a) notice is given of not less than seven days before the opening night of the play (b) Admission fees for the performance at the rate of 2/6 per pupil are paid at the time of booking. This fee includes a cup of tea, a biscuit and a programme.

Ar ddiwedd y llythyr, derbyniwyd awgrymiad y prifathro y gellid defnyddio cyntedd yr ysgol fel lle addas i hysbysebu gweithgareddau'r Gymdeithas Ddrama.

Y pryd hynny, wrth gwrs, doedd drama ddim yn bwnc arholiad nac, felly, yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Yn hytrach, rhan o weithgaredd atodol yr ysgol ydoedd; roedd ar drugaredd a mympwy'r prifathro a pharodrwydd athrawon fel Tecwyn Jones i ymgymryd, yn wirfoddol, â chyfarwyddo perfformiadau theatraidd yn yr ysgol. Ond erbyn y chwedegau cynnar, roedd pethau'n dechrau newid, ac efallai bod y prifathro'n amau y byddai drama, fel pwnc, yn dod yn rhan swyddogol o'r cwricwlwm maes o law. Gwelir awgrym o hyn mewn llythyr a anfonwyd at y Gymdeithas Ddrama, 17 Mehefin 1959. Mae lle i gredu fod ei gynnwys yn cyfeirio at yr hyn a

fyddai'n digwydd yn yr ysgol o Fedi 1961 ymlaen, yn ogystal â thanlinellu cysylltiadau'r Theatr Fach â phlant a phobl ifanc i'r dyfodol:

THE COUNTY SECONDARY SCHOOL,
LLANGEFNI,
ANGLESEY.

HEADMASTER:
E. D. DAVIES, M.A.
TELEPHONE: 3112

17th June 1959

F.G. Fisher Esq.,
Secretary Theatr Fach Llangefni,
6 Corn Hir,
Llangefni.

Dear Sir,

I am anxious to include Drama in the Curriculum of the School, and I would very much welcome your Committee's views on a scheme I have had in mind for some time for closer co-operation between the Theatr Fach Llangefni and the School. Briefly it is as follows:

(a) As the School Hall and Stage are too big for immature players, my idea is to have lessons in Drama and to practise in classrooms or on the Stage as part of school work in school time, but perform the plays before parents, fellow-pupils and the public in the Theatr Fach during the idle week(s) between the Theatre's own productions. The number and time of school productions would have to fit in with the Theatre's programme for the year. Dog and tail would always be in the right relationship.
(b) Very few properties would be required and during the one or two afternoon rehearsals and the evening performances the school casts would be under the supervision of competent teachers.
(c) The school would not be ready to implement the scheme before September 1960.
(d) The school's Theatr Fach Productions would be separate and different from the annual Christmas Term School play which would continue to be performed in the School hall by Senior pupils all of whom in course of time would have had the benefit of having been trained in the more intimate atmosphere of the Theatr Fach.

I value the school's corporate membership of Theatr Fach Llangefni very highly, but I feel that a more intimate relationship of co-operation such as I have sketchily outlined would not only have obvious advantages for the school and, I hope, the future of Theatr Fach, but also would make an enormous cumulative contribution to the cultural and social life of the community.

I remain,
Yours faithfully,
E.D. Davies

Er bod y berthynas rhwng y Theatr Fach a'r Ysgol Gyfun yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol, nid oedd y Gymdeithas Ddrama, yn y cyfamser, am aros yn ei hunfan. Anelid yn gyson at godi safonau, a cheir cyfeiriad at hyn

yn adroddiad y Cadeirydd, Llewelyn Jones, i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas yn niwedd Medi 1959.[23] Wedi diolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth, cydnebydd y Cadeirydd y gwelliant welwyd yn safon y cynyrchiadau. Roedd enw da i'r theatr drwy Gymru gyfan. Ond, meddai, roedd bob amser le i wella. Ac os oeddid am sicrhau unrhyw welliant, rhaid cydnabod y byddai angen gwario swm sylweddol o arian ar yr adeilad ynghyd â gwella'r cyfarpar technegol.

Er mwyn sicrhau y gefnogaeth ariannol, roedd yn rhaid i'r Gymdeithas Ddrama gyfiawnhau ei hapêl mewn gair a gweithred. Roedd angen hefyd gyflwyno mantolenni ariannol manwl, ac amcangyfrifon ynglŷn â chost gwneud y gwelliannau angenrheidiol hyn. Byddai hynny yn cadarnhau dyhead y Gymdeithas i sicrhau'r safonau uchaf mewn llwyfannu a chyflwyno drama yn y dyfodol.[24] O ddechrau 1960 hyd fis Mai 1961, fe welir bod y rhaglen yn un lawn ac amrywiol; roedd popeth, ar un wedd, yn argoeli'n dda. Ond wrth edrych yn ôl, mae lle i amau bod rhai problemau yn wynebu'r cyfarwyddwyr ynglŷn â chastio dramâu. Anfonwyd llythyr, dyddiedig 14 Mehefin 1960, at holl actorion a gweithwyr y Theatr Fach yn eu hysbysu o Bwyllgor Arbennig a oedd i'w gynnal yn y theatr nos Lun, 27 Mehefin. Yn y llythyr, eglurodd yr Ysgrifennydd natur a phwrpas y cyfarfod:

> The purpose is to attempt to rationalise this dreadful business of casting for plays produced during the year. To this end the kind of information we would like to obtain from you is:-
> (i) At what periods of the year are you prepared to throw in your effort to get a good standard of performance?
> (ii) Would you be prepared to devote, say, a solid month to a production rather than to spread the production period over two months?
> (iii) In how many plays during the year would you like to act?
> There are other, personal, things we would like to get to know also ...
> We are concerned too with the shortage of YOUNG ACTORS AND ACTRESSES and WORKERS in the Society.
> This is not a general meeting for everyone, remember; it is a meeting of people who think that what we are doing is worth while supporting in an Active Way.

Er mwyn cael rhyw fath o ymateb, dosbarthwyd holeb bersonol i'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod arbennig hwn, a gellir cyplysu'r apêl am actorion ifanc â'r hyn oedd yn digwydd yn yr Ysgol Gyfun. Yno, yn dilyn ei apwyntiad fel athro hanes a Saesneg yn nechrau Mai 1954, bu cyfraniad Tecwyn Jones i ddatblygiad y ddrama yn yr ysgol yn aruthrol. Fe gofir mai

ymdrech wirfoddol hollol ar ei ran ydoedd, a bu nifer fawr o ddisgyblion, gan gynnwys yr awdur, yn elwa o'i gyfarwyddyd a'i ysbrydoliaeth. Ond, gwaetha'r modd, o safbwynt parhad y gweithgarwch, symudodd Tecwyn Jones, a'i wraig Ceinwen, i Fachynlleth yn niwedd Gorffennaf 1959.

Erbyn 1960, roedd y prifathro wedi penderfynu cynnwys drama fel rhan swyddogol o'r cwricwlwm, ac wedi braenaru'r tir ar gyfer hyn drwy fynegi ei ddymuniad ar i'r ysgol ymaelodi â'r Gymdeithas Ddrama. Aeth ati hefyd i apwyntio Robert Maldwyn Jones[25] fel aelod o'i staff yn nechrau Medi 1961. Gryfed oedd daliadau cymdeithasol E.D. Davies, mae lle i gredu mai swydd oedd hon a grëwyd yn arbennig ganddo ef ei hun, gyda chydweithrediad y Pwyllgor Addysg. Gydag apwyntiad Maldwyn Jones, sicrhawyd dolen gyswllt arall rhwng yr Ysgol Gyfun a'r Theatr Fach, ac agorwyd y drws i blant a phobl ifanc fanteisio ar y cyfle a gynigiwyd iddynt. Mewn llawer ystyr, roedd y datblygiadau diweddaraf hyn yn adlewyrchu llawer o'r hyn a ddigwyddodd i ddisgyblion hen Ysgol Sir Llangefni yn niwedd y pedwardegau. Yr adeg hynny, rhoddwyd cyfle i ddisgyblion ifanc yr ysgol ymddangos mewn dramâu o safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ymhlith y disgyblion a gafodd y cyfle hwn oedd John O. Roberts, Gwilym Owen, Mair Francis Hughes a John Llywelyn Williams.

Er bod y ddolen gyswllt hon rhwng theatr ac ysgol erbyn heddiw wedi ei thorri, fe ddeil y Theatr Fach, drwy fodolaeth ei Theatr Ieuenctid, i hybu diddordeb yr ifanc mewn gweithgareddau llwyfan.

Am dair noson yng nganol mis Mai 1961, cyfarwyddwyd drama D.T. Davies, *Castell Martin*, gan J.O. Roberts, ac yn syth ar ôl hynny caewyd y Theatr Fach hyd fis Hydref. Gyda'r rhan fwyaf o'r arian mewn llaw, aethpwyd ymlaen i ehangu ac i wella cyfleusterau'r theatr drwy adeiladu'r tŵr, gosod sustem oleuo newydd a moderneiddio'r sustem wresogi. Adeiladwyd ystafelloedd ar gyfer y gwisgoedd a chelfi llwyfan, yn ogystal â gweithdy. Ond er bod galw cynyddol am ystafell ymarfer, byddai'n rhaid aros hyd Hydref 1972 am honno.

Mae'n debyg bod nos Fercher, 29 Tachwedd 1961, yn noson y gellid ei chyffelybu ag agoriad swyddogol y Theatr Fach yn ôl ym mis Mai 1955. Ar gyfer yr ailagoriad, ac wedi misoedd o adeiladu ac addasu, cyfarwyddwyd

drama Arthur Miller, *All my Sons*, gan Margaret Fisher a fe'i perfformiwyd o flaen cynulleidfa wahoddedig. Yn eu mysg roedd Alun Llywelyn-Williams, Cadeirydd Pwyllgor Drama Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru. Yn sicr, roedd hon yn noson fawr yn hanes y Theatr Fach. Bellach, gallai'r Gymdeithas Ddrama ymfalchïo fod ganddi gyfleusterau llwyfannu a thechnegol o safon uchel. Nid syndod, felly, iddi gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Theatrau Bychain Prydain yn 1962.[26] Yn wir, y hi fyddai'r theatr gyntaf a lwyfannai ddramâu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, i gael ei derbyn yn aelod o'r gyfryw gymdeithas. Sicrhaodd ei lle yn natblygiad y ddrama yng Nghymru, ffaith a nodwyd gan Alun Llywelyn-Williams ym Medi 1964. Wrth gyfeirio'n gyffredinol at y cynnydd a welwyd yn nechrau'r chwedegau yn nifer y canolfannau 'lle gellir mwynhau perfformiadau cyson o ddramâu da', gwnaeth y sylw canlynol:

> Ni chafwyd gwell esiampl yn unman o'r mudiad hwn nag ym Môn. Yn wir, bu Theatr Fach Llangefni yn arloesi'r ffordd, ac y mae'r ddrama trwy Gymru benbaladr dan ddyled drom i George Fisher a'i gyfeillion.[27]

Roedd geiriau Alun Llywelyn-Williams eisoes wedi eu cadarnhau yn y wasg dair blynedd ynghynt mewn erthygl yn dwyn y teitl 'Ni raid i'r Theatr Fach ofni beiriniadaeth y safonau uchaf':

> Un o linynnau mesur diwylliant cymdeithas yw lle a safon y ddrama yn ei bywyd... Anghyflawn iawn y diwylliant a fo heb ddrama, ac y mae'n amheus iawn gennyf i a all radio a theledu byth fod yn gyfwerth â'r llwyfan...
>
> Nid heb reswm y gall rhai trefi pur fawr genfigennu wrth Fôn wledig oherwydd bod iddi ei Theatr Fach na raid i'w gwaith ddim ofni beirniadaeth... [28]

Aeth yr erthygl ymlaen i egluro mai:

> [g]welliannau er mwyn cynhyrchu gwell ac effeithiolach a wnaed [yn y Theatr Fach] er mwyn cyflwyno pob drama a ddewisir mor berffaith ag y mae modd, ac fel y gellir hefyd gael y gorau o ddawn pob actor...
>
> Ynyswr

Gellir dadlau bod 'Ynyswr' yn ymwybodol o'r sefyllfa gan fod ei eiriau yn crisialu holl amcanion y Theatr Fach y pryd hynny.

Ymysg y dramâu a lwyfannwyd yn y Theatr Fach yn ystod y chwedegau cynnar, ceir enghreifftiau o'r safonau ac o'r amrywiaeth yr anelid atynt. Roedd yr holl awyrgylch yn adlewyrchu naws o broffesiynoldeb ac, o'r herwydd, yn tueddu i guddio'r ffaith mai theatr amatur oedd hi wedi'r

cwbl. Yng ngoleuni hyn, ac o gofio'r clod a dderbyniai, ynghyd â'r anrhydeddau a gyflwynwyd eisoes i'r theatr, nid rhyfedd i'r BBC estyn gwahoddiad i gwmni'r Gymdeithas Ddrama i berfformio'n fyw ar y teledu yn nechrau 1962. Gyda George Fisher yn cyfarwyddo, darlledwyd comedi newydd un act Tom Richards, *Gan Hen Gyfaill*, yn hwyr nos Sadwrn, 17 Ionawr, o flaen cynulleidfa wahoddedig.

Fe gofia Vernon Jones[29] yn dda am yr amgylchiad, ac am eu pryderon fel cast ynglŷn â chofio'u llinellau. Wedi'r cwbl, roedd hwn yn ddarllediad byw, ac o gofio disgwyliadau uchel y cyfarwyddwr, hawdd yw dychmygu'r cyffro a'r tyndra a fodolai. Perffeithrwydd oedd y nod.

Bu'r perfformiad yn llwyddiannus, a phenderfynwyd dathlu'r amgylchiad drwy gyflwyno llythyr,[30] ar ffurf tystysgrif, i holl aelodau'r cast i gofio 'arbenigrwydd yr achlysur' ac i ddangos gwerthfawrogiad y Gymdeithas Ddrama 'o waith ffyddlon yr actorion a'r gweithwyr yn sicrhau cynhyrchiad o safon deilwng y noson nodedig honno'. Arwyddwyd y llythyr gan Llewelyn Jones, Cadeirydd, a George Fisher, Ysgrifennydd, a chyfeiriwyd at yr 'esiampl a roddwyd o'r posibiliadau ym myd Theatr Gymraeg y dyfodol'.

Wedi holl gynnwrf yr amgylchiad arloesol hwn, prin y disgwylid i eiriau 'Ynyswr' gael eu herio mor fuan. Ni raid, meddai hwnnw yn nechrau Rhagfyr 1961, i'r Theatr Fach ofni beirniadaeth. Ac eto, yn niwedd Ionawr 1962, ymddangosodd yr adroddiad canlynol yn y wasg:

> Doedd y Ddrama TV Hon Ddim yn Llwyddiant
>
> Siomedig oedd y ddrama, yr actio, a'r cynhyrchu. Roedd y ddrama'n siomedig am nad oedd yn ddrama. "Sketch" ystrydebol, arwynebol ydoedd wedi ei chwythu i fyny i lenwi hanner awr...
>
> Roedd y cynhyrchu'n siomedig am fod y cynhyrchydd yn anelu at ddau amcan hollol groes i'w gilydd. Wrth gynhyrchu drama lwyfan, amcan y cynhyrchydd yw cyrraedd y gynulleidfa [sy'n aros yn llonydd a di-symud drwy'r perfformiad]...
>
> Ond mewn drama delefisiwn, y mae'r gynulleidfa yn symud gyda'r camera. Tu mewn i'r camera y mae'r gynulleidfa...
>
> Gan hynny, y mae cynhyrchu drama TV yn grefft hollol wahanol ei thechneg i gynhyrchu drama lwyfan...
>
> Roedd yr actio yn siomedig am yr un rheswm...[31]

Os cydnabyddir y ffaith mai cyfrwng darlledu pur ifanc oedd y teledu yn dal i fod yn y chwedegau cynnar, gellir cydnabod bod peth gwirionedd yn yr hyn a ddywed y gohebydd. Ond, o gofio ei fod yn condemnio popeth

ynglŷn â'r darllediad, o'r ddrama ei hun i'r cyfarwyddo ac i'r actio, go brin y gellid credu bod George Fisher, yn ystod ei baratoadau, wedi anwybyddu pethau mor sylfaenol â'r rhain. Yn hytrach, gellir dweud â chryn sicrwydd, iddo roi ystyriaeth fanwl iddynt yn ei gynhyrchiad. Mae'n anodd credu, hefyd, y byddai'r BBC wedi rhoi lle mor amlwg i ddrama mor wael ar achlysur mor bwysig. Enw'r gohebydd oedd John Ellis Williams.

Yn nechrau 1961, derbyniodd Fisher wahoddiad i gyfarwyddo cwmni'r Theatr Fach yn yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni ym mis Hydref, ac yn y cyswllt yma fe gofir i Gwmni Môn dderbyn caniatâd Saunders Lewis i lwyfannu ei ddrama, *Esther*, yn 1959. Mae'n sicr i lwyddiant y cais hwnnw yn 1959 ddylanwadu ar benderfyniad George Fisher i ysgrifennu unwaith eto at Saunders Lewis ar gyfer gŵyl 1962. Mae'r llythyrau yn awgrymu fod ganddo safonau theatraidd hynod uchel:

> 6 Corn Hir,
> Llangefni, Sir Fôn.
>
> 19 Ionawr 1962
>
> Annwyl Mr Lewis,
>
> Yr wyf newydd dderbyn gwahoddiad i gynhyrchu drama efo cast o aelodau Theatr Fach Llangefni yng Ngŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni fis Hydref nesaf. Hoffwn ail-wneud *Blodeuwedd* – llwyfennais hi tua 1952 – ond nid oes gennyf ferch â'r ddawn a'r dyfnder a'r ysgafnder yn ei chyfansoddiad ar hyn o bryd – yr unig *Flodeuwedd* y gwn i amdani yw Ceinwen Jones sy'n byw ym Machynlleth y dyddiau yma. Oherwydd hyn, rhaid i mi droi at rywbeth arall, a'm dewis fyddai drama newydd gennych chwi – a chymryd yn ganiataol fod gennym actorion iawn. Tybed a oes gennych rywbeth naill ai wedi ei gorffen neu ar y gweill? Tybed hefyd a fyddech chwi'n barod i ganiatau i ni ei thrio? Byddwn yn ddiolchgar iawn.
>
> Cofion cynnes,
> F.G. Fisher

Gan mai cyfieithiad o'r Sbaeneg gan G.J. Evans o ddrama Conrado Nalé Roxlo, *Y Forforwyn*, a lwyfannwyd yn Llangefni nos Fercher, 10 Hydref 1962, mae'n amlwg mai aflwyddiannus fu'r cyfryw gais. Ond o gofio'r pryder a fynegwyd gan Saunders Lewis mewn llythyr at Kate Roberts 24 Gorffennaf 1959,[32] ynglŷn â rhoi ei ganiatâd i Gwmni Môn lwyfannu *Esther* y flwyddyn honno, efallai nad oedd yn syndod iddo wrthod cais Fisher

yn Ionawr 1962. Hyd y gwyddys, nid oes tystiolaeth ysgrifenedig ar gael i gadarnhau hyn.

Bu 1963 eto yn flwyddyn o gynyrchiadau llwyddiannus ac amrywiol, gan gynnwys cwrs drama wyth diwrnod dan gyfarwyddyd G. Mostyn Lewis ym mis Mehefin. Ond gellir dadlau mai cynhyrchiad George Fisher o ddrama Bertolt Brecht, *Mother Courage and her Children*, 24-28 Mai, oedd uchafbwynt y tymor. Cyfieithiad o'r Almaeneg gan Eric Bentley ydoedd. Ychydig ddiwrnodau cyn y perfformiad cyntaf, ymddangosodd yr hysbysiad canlynol yn y wasg:

> MENTER FWYAF Y THEATR FACH
>
> Mae'r gymdeithas am fentro llwyfannu *Mother Courage and her Children*. Dyma'r fenter fwyaf uchelgeisiol yn hanes y gymdeithas hyd yma i weithgarwch drama na chlywodd ac na phrofodd Cymru am ei debyg erioed...[33]

Aethpwyd ymlaen i egluro mai stori syml oedd y ddrama,[34] mewn dwsin o olygfeydd, yn adrodd hanes mam, yn ei hymgais i ennill bywoliaeth, yn trafeilio o un gwersyll milwrol i'r llall yn ystod deng mlynedd ar hugain o ryfela, ac mae'n bur sicr bod George Fisher wedi dibynnu llawer ar arweiniad Llewelyn Jones ynglŷn â chefndir hanesyddol y ddrama.

Roedd y cynhyrchiad yn arbrawf hanesyddol o safbwynt cyflwyniadau'r Theatr Fach. Gellir edrych ar yr amgylchiad fel enghraifft o ddymuniad Fisher i gyflwyno i aelodau'r Theatr Fach rai o weithiau dramodwyr amlycaf Ewrop. Drwy wneud hynny, gobeithiai eu harwain at borfa ddramayddol frasach yn ogystal â'u darbwyllo o'r hyn oedd yn bosibl i'w gyflawni ar lwyfan theatr. Mae'n amlwg i'r arbrawf hwn wneud argraff ddofn ar ddau o selogion y Theatr Fach.

Mae'r erthygl gan Bedwyr Lewis Jones, sy'n cydnabod llwyddiant diamheuol y cynhyrchiad, yn rhoi disgrifiad byr o gefndir y ddrama ynghyd â dadansoddiad o'i neges ganolog:

> Cronicl am y rhyfel deng mlynedd ar hugain [1618-1648] rhwng y Protestaniaid a'r Catholigion yw'r ddrama, a chondemniad didostur ar ryfel. Ond mae'n gondemniad ar ddyn hefyd – ar y mawrion sy'n torheulo yng ngwag ogoniant rhyfel tra bo'r rhelyw yn dioddef, ar y tlawd a'r cyffredin hwythau am fanteisio ar bob mân gyfle i sathru gyddfau ei gilydd wrth geisio cadw ei gyddfau hunanol hwy eu hunain yn saff a'u boliau yn llawn.[35]

Ymddangosodd yr ail erthygl yn y wasg 29 Mai 1963, a gellir bod yn eithaf sicr iddi gael ei hysgrifennu gan Emrys Hughes, is-gadeirydd Cymdeithas Ddrama Llangefni ar y pryd. Ynddi, mae'n cydnabod yr her a wynebai Fisher wrth ddewis drama o eiddo Bertolt Brecht. Yn ôl Emrys Hughes, roedd Fisher yn deall natur arloesol theatr y dramodydd hwn o'r Almaen, a llwyddodd i oresgyn yr her honno:

> Antur a thipyn o wefr yn perthyn iddi oedd y cyflwyniad yn Theatr Fach Llangefni yr wythnos hon o *Mother Courage and Her Children* gan Bertolt Brecht.
>
> Gwelsom arbrofi medrus fwy nag unwaith ar lwyfan Theatr Fach Llangefni, ond go brin y caed dim erioed yma i'w gymharu â cheinder gorffenedig y cyflwyniad hwn gan George Fisher. Profwyd y llwyfan newydd a'i holl gyfleusterau hyd yr eithaf; gelwyd am eithaf egni, dawn a dychymyg pob crefftwr ac actor; a gwelwyd y cynhyrchydd yn defnyddio'r cyfan yn feiddgar a hyderus fel artist hen gyfarwydd â'i gyfrwng ac â'i ddefnyddiau.
>
> Geilw'r ddrama ei hun am gryn swm o ddychymyg ar ran unrhyw gynhyrchydd ... Ein cymell i edrych ar gronicl o ddigwyddiadau drwy chwyddwydr ei ddawn arbennig ei hun a wna Brecht. Nid yw'n cynnig esbonio yr hyn a welwn, oblegid nad dyna'i swyddogaeth. Cyflwyno'r cronicl dethol i gynulleidfa ydyw'r angenrhaid a osodwyd arno ef fel awdur...[36]
>
> 27.5.63
>
> E.H.

Yng ngoleuni'r ddwy erthygl, fe welir bod George Fisher yn llacio tennyn ei afr fach, ac yn cynnig rhywbeth newydd, hollol wahanol, i'r gwylwyr. Yn ogystal â newydd-deb elfennau technegol y cyflwyniad, disgwylid i'r gwylwyr hwythau newid yn llwyr eu hagwedd tuag at y ddrama a oedd ger eu bron drwy edrych ar y sefyllfaoedd yn oeraidd wrthrychol, a'u hamddifadu eu hunain o unrhyw deimladau personol ynglŷn â'r hyn a ddigwyddai ar y llwyfan ac yn arbennig â'r cymeriadau. Sicrhau rhyw ddieithrwch rhwng y gynulleidfa a'r actorion oedd nod Brecht; galwai hyn yn 'Verfremdungseffekt'. Ei fwriad yn y pen draw oedd newid agweddau gwleidyddol y gynulleidfa, a'u troi'n Farxwyr. Yn anffodus, ni chafwyd adolygiad yn unman yn canolbwyntio'n llwyr ar yr elfen hon yng nghynhyrchiad Fisher. O'r herwydd, ac er gwaethaf y clod a estynnwyd i'r cynhyrchiad hwnnw gan Hughes, ni ellir cadarnhau a ddeallodd Fisher wir natur ac amcanion theatr 'epig' Brecht.

Yn ystod 1964, cadarnhawyd statws y Theatr Fach fel canolfan ddrama ddylanwadol pan estynnwyd gwahoddiad i Gymdeithas Ddrama Llangefni i

groesawu Cynhadledd Genedlaethol Urdd Theatrau Bychain Prydain Fawr i'r theatr ym mis Hydref.[37] Derbyniwyd y gwahoddiad ac, i ddathlu'r achlysur, penderfynwyd cyflwyno cyfieithiad John Willett o ddrama arall gan Brecht, *The Good Person of Szechwan.* Gyda George Fisher yn cyfarwyddo, fe'i llwyfannwyd yn ystod yr wythnos 12–17 Hydref 1964.

Yn y rhaglen a ddarparwyd ar gyfer cynhyrchiad George Fisher o ddrama Michael Redgrave, *The Aspern Papers*, 20–25 Medi 1965, ceir amlinelliad o stori'r Theatr Fach ynghyd â rhestr o'r dramâu a berfformiwyd yno hyd hynny, a hawdd, bellach, yw gwerthfawrogi cyfraniad y Theatr Fach i fyd y ddrama yng Nghymru a thu hwnt iddi yn ystod deng mlynedd cyntaf ei bodolaeth:

> Membership of the Society is now over 1,250, paying a minimum of 5/- annual subscription. The present production [*The Aspern Papers*] is the 51st since 1955, 5 being the original work of members and ten translations from English, French and Spanish.[38] Distinguished visitors have been Sir Edward Boyle and Sir Keith Joseph...[39]

Yn yr un rhaglen, ac fel rhan o'r un stori, caiff y darllenydd ei atgoffa o'r drwgdeimlad a fodolai o dan yr wyneb ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd i ddrama George Fisher, *Merch yw Medwsa*, yn Aberdâr yn Awst 1956, ac wedyn ar lwyfan y Theatr Fach flwyddyn yn ddiweddarach:

> In 1957, the auditorium was extended ... and a foyer added in time for a production of the Society of an "unstageable" play for the National Eisteddfod held that year in Llangefni.

Mae'n ddigon posibl fod y geiriau hyn yn adlewyrchu siomedigaeth Fisher ynglŷn â chanlyniad cystadleuaeth y Goron yn Aberdâr. Ac yn fwy penodol, gellid dadlau mai at John Ellis Williams, yn bennaf, yr anelid hwy.

Fel y crybwyllwyd eisoes, anelid at broffesiynoldeb yn y Theatr Fach, a hynny er gwaethaf y ffaith nad oedd gan Gymru gwmni drama cenedlaethol proffesiynol Cymraeg. Er bod darllediadau teledu proffesiynol Saesneg yn cyrraedd nifer cynyddol o aelwydydd Cymru erbyn canol y chwedegau, ymddengys bod llawer o wir yng ngeiriau Alun Llywelyn- Williams ym mis Medi 1964:

> [N]id oes gennym ni draddodiad theatr proffesiynol o gwbl. Methiant fu pob ymgais hyd yma i sefydlu theatr genedlaethol. Cyfarfu ymgais presennol Cyngor y Celfyddydau i godi cwmni cenedlaethol o actorion proffesiynol ag anawsterau mawr a blin. Hyd yn oed pe llwyddid i sefydlu theatr genedlaethol Gymreig, y mae'n amlwg y buasai'n rhaid i'w chartref parhaol fod yn y De lle ceir y boblogaeth fwyaf... Buasai'n

rhaid i'r Gogledd a'r Gorllewin ddibynnu o hyd am eu hymborth dramodol cyson ar y radio a'r teledu.[40]

Gellir dadlau mai Alun Llywelyn-Williams fyddai'r cyntaf i ymlawenhau yn yr hyn ddigwyddodd ym Mangor flwyddyn yn ddiweddarach:

> Dydd Gwener [3 Medi 1965] ym Mangor, cymerwyd cam pwysig ymlaen ym myd y ddrama yng Nghymru. Mewn cyfarfod yn Neuadd Penrhyn, lansiwyd y "Cwmni Amser Llawn", a sefydlwyd drwy gydweithrediad y BBC yng Nghymru a'r Cwmni Theatr Genedlaethol.
> Gweinyddwr y cwmni newydd ar ran y BBC a'r theatr, Mr Wilbert Lloyd Roberts, oedd yn annerch.
> Fel cnewyllyn y cwmni i ddechrau, cyflogwyd chwe actor:
>
> | | |
> |---|---|
> | Gaynor Morgan Rees | (Abercwmboi, Aberdâr) |
> | John Owen Hughes | (Treffynnon) |
> | Robin Hughes | (Y Felinheli) |
> | C.D. Price | (Porthmadog) |
> | Iona Hughes Banks | (Y Rhyl) |
> | Lisabeth Miles | (Waunfawr) |
>
> Bwriedid gwahodd atynt actorion profiadol o dro i dro.[41]

Gyda Wilbert Lloyd Roberts yn cyfarwyddo, cyflwyniad cyntaf y cwmni newydd fyddai drama R. Bryn Williams, *Cariad Creulon*, yng Ngŵyl Ddrama Genedlaethol Llangefni, 2 Hydref 1965. Yn dilyn y perfformiad cyntaf hwnnw, bwriedid teithio'r wlad gyda'r un ddrama hyd 21 Hydref. Hon fyddai taith gyntaf Cwmni Theatr Cymru. Yn ei anerchiad yn ystod y lansio, eglurodd Wilbert Lloyd Roberts y byddai'r cwmni yn darlledu yn gyson ar y teledu, yn teithio'r wlad, ac yn perfformio i ysgolion yn ogystal â chyflwyno rhaglenni nodwedd o bob math. Derbyniodd y cwmni gyfarchion oddi wrth nifer o Gymry blaenllaw y cyfnod, gan gynnwys Alun Llywelyn-Williams a George Fisher.

Er gwaethaf ei amheuon a'i bryderon flwyddyn ynghynt, dywedodd Llywelyn-Williams mai '[d]yma'r cam pwysicaf yn hanes y ddrama Gymraeg ers tro byd. Llongyfarchion a dymuniadau da i bawb sydd ynglŷn â'r fenter'. Yng nghyfarchiad Fisher, fodd bynnag, adlewyrchir llawer o'r angerdd a berthynai iddo fel llenor ac fel dramodydd:

> Credais ers tro fod rhaid i'r Theatr Genedlaethol dyfu fel hyn o bridd Cymru yn hytrach na chael ei gosod ar asphalt Caerdydd, ac mae'n llawenydd i mi weld y breuddwyd yn dechrau cael ei wireddu. Ar ran y Theatr Fach, Llangefni, anfonaf y dymuniadau gorau am lwyddiant y gwaith.

Bu 1966 yn flwyddyn brysur arall yn hanes y theatr a bu, hefyd, yn flwyddyn arwyddocaol o safbwynt ei gweinyddiaeth. Yng nghorff y drafodaeth hon cyfeiriwyd fwy nag unwaith at amharodrwydd Cymdeithas Ddrama Llangefni i ganiatáu i'w chwmni ymddangos ar lwyfannau dieithr, yn ogystal â'i chyndynrwydd i groesawu cwmnïau o'r tu allan i ymddangos ar lwyfan y Theatr Fach. Ond, yn ystod 1966, bu newid agwedd.

Ac eithrio rhyw ddau ymweliad gan yr Unnamed Society o Fanceinion, prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n cadarnhau i unrhyw gwmni dieithr arall ymddangos ar lwyfan y theatr. Fodd bynnag, am bedair noson yng nghanol mis Mawrth, croesawyd cwmni'r Gymdeithas Ddrama Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Bangor, i'r Theatr Fach i gyflwyno dwy ddrama, sef trosiad John Gwilym Jones o ddrama Harold Pinter, *Pwy Sy'n Iawn?*, a throsiad Ken Lloyd Jones o ddrama Eugène Ionesco, *Y Tenant Newydd*. Cyfarwyddwyd y ddrama gyntaf gan John Gwilym Jones, a'r ail ar y cyd gyda Ken Lloyd Jones. O safbwynt Cymdeithas Ddrama Llangefni, gellir edrych ar yr achlysur fel cyfle i sefydlu perthynas er mwyn denu'r myfyrwyr a dangos iddynt yr hyn oedd eisoes wedi ei gyflawni yn yr hen stablau ym Mhencraig yn ogystal â chadarnhau lle y Theatr Fach yn natblygiad y ddrama yng Nghymru.

Gydag ymddangosiad Cwmni Theatr Cymru ar lwyfan y Theatr Fach 22 Ebrill 1966, cafwyd cadarnhad o'r dymuniadau da a estynnwyd, ar ran Cymdeithas Ddrama Llangefni, pan lansiwyd y cwmni cenedlaethol newydd ym Medi 1965. Am un noson yn unig, llwyfannwyd gwaith Gwenlyn Parry, *Saer Doliau*, gyda Wilbert Lloyd Roberts yn cyfarwyddo. O gofio cynnwys ei anerchiad fel llywydd yn ystod wythnos agor y Theatr Fach yn nechrau mis Mai 1955, gellir yn hawdd ddychmygu balchder y cyfarwyddwr wrth ddychwelyd i'r theatr gyda'i gwmni o actorion proffesiynol. Roedd y rhod wedi troi i Wilbert Lloyd Roberts yn ogystal ag i Gymdeithas Ddrama Llangefni.

Ar wahân i ymddangosiad cwmni'r Theatr Fach fel cwmni gwadd yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy ym mis Awst 1958, ac eto ar lwyfan Neuadd y Dref, Llangefni, am un noson yn ystod Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru ym mis Hydref 1962, ni welwyd mohono ar unrhyw lwyfan arall y tu

allan i'r theatr; hynny yw, hyd nes i'r Gymdeithas Ddrama dderbyn gwahoddiad i lwyfannu gwaith Saunders Lewis, *Siwan*, yn Theatr Fach Garthewin nos Wener, 15 Gorffennaf 1966. O gofio amharodrwydd Cymdeithas Ddrama Llangefni i berfformio ar lwyfannau dieithr, mae'n eithaf sicr i'r pwyllgor roi ystyriaeth drylwyr i oblygiadau'r gwahoddiad gan sylweddoli, mae'n debyg, y byddai gwrthod y fath fraint yn anghwrtais. Ond, cyn mynd i Garthewin y nos Wener honno, rhoddwyd pedwar perfformiad o'r ddrama yn y Theatr Fach o nos Lun ymlaen.

Yn ystod 1967 a 1968 cyflwynwyd amrywiaeth o ddramâu a glynwyd wrth y polisi o lwyfannu dramâu Cymraeg a Saesneg ar yn ail. Fodd bynnag, mae lle i amau bod awyrgylch y Theatr Fach wedi dechrau Seisnigeiddio a bod hynny'n peri pryder i rai o gofio ei pholisi dwyieithog er ei sefydlu. Caed awgrym o hyn ym mis Mai 1968. Yng nghanol y mis, gydag Elen Roger Jones yn cyfarwyddo, llwyfannwyd *Adar Brithion*, o waith Guy Paxton ac Edward Hoile. Yn y rhaglen, gwnaed yr apêl ganlynol:

<u>YN EISIAU</u>

CYNHYRCHWYR CYMRAEG

Seiri Cymraeg
Gwniadwragedd Cymraeg
Peintwyr Cymraeg
Trydanwyr Cymraeg
(a hefyd actwyr Cymraeg a dramâu Cymraeg Newydd)
Tâl: DIM

Heddiw, yng nghanol degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, diddorol yw nodi bod polisi dwyieithog y Theatr Fach yn dal mewn grym ond bod y pwyllgor, bellach, yn wynebu problem ieithyddol bur wahanol i'r hon a fodolai yn niwedd y chwedegau. Erbyn hyn, anodd iawn yw denu cyfarwyddwyr Saesneg i'r theatr, a dibynnir bron yn gyfan gwbl ar Gymry Cymraeg i ymgymryd â'r gwaith. Mae'r un broblem yn bodoli ynglŷn ag actorion. Yn wir, yng Ngorffennaf 2004, dim ond un Sais weithredai ar y pwyllgor.

Gydag ymddiswyddiad Llewelyn Jones fel Cadeirydd Cymdeithas Ddrama Llangefni yn ystod haf 1968, collwyd un o hoelion wyth y gymdeithas ddrama. Yn dilyn ei apwyntiad yn brifathro Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, daeth ei yrfa fel athro yn Llangefni i ben 12 Gorffennaf,

gyrfa oedd yn ymestyn yn ôl i 1 Medi 1944. Yn ystod ei gyfnod o bedair blynedd ar hugain yn y dref, datblygodd perthynas glòs a chadarn rhyngddo ef a George Fisher, a gellir dadlau mai o'r berthynas hon yn anad dim arall, ac eithrio perthynas George â'i wraig Margaret, yr eginodd y syniad o sefydlu cymdeithas ddrama yn y dref yn y lle cyntaf.

Yn 1970, blwyddyn dathlu pen-blwydd Cymdeithas Ddrama Llangefni yn un ar hugain oed, wynebwyd colled fawr arall. Petai rhywun yn gorfod dewis y flwyddyn fwyaf dylanwadol yn hanes y gymdeithas ddrama, mae'n debyg y byddai 1970 yn chwarae rhan amlwg yn y dewis hwnnw. A phetai'n rhaid nodi dyddiad arbennig, dydd Gwener, 30 Ionawr 1970, a fyddai hwnnw.

Bu nos Iau, 29 Ionawr 1970 yn noson oer, aeafol, ac mae'n siwr i nifer o drigolion Llangefni gael trafferth i gychwyn eu ceir y bore Gwener canlynol. Un ohonynt oedd George Fisher. Digon tebyg iddo ystyried cerdded i'r ysgol, ond penderfynodd, yn hytrach, geisio gwthio'i gar er mwyn ei gychwyn. Wedi'r ymdrech, bu farw yn ystod y bore.

Yn ystod yr wythnosau yn dilyn ei farwolaeth, ymddangosodd nifer o deyrngedau teilwng iddo yn y wasg, ond credir bod y teyrngedau canlynol yn adlewyrchu cysylltiadau llawer mwy personol a'u bod, o'r herwydd, yn fwy perthnasol i'r drafodaeth hon. Mae'r tair teyrnged yn cyfleu teimladau ffrind, cydaelod, a chefnogwr brwd i'r Theatr Fach.

Cloir darlith Llewelyn Jones, *Francis George Fisher: Bardd a Dramodwr*, â'r geiriau hyn:

> [F]e gafodd y rhai a'i hadnabu'n glos, ffrind cywir, parod bob amser ei gymwynas ... gŵr hwyliog, ffraeth a huawdl ei dafod; ond ar ben popeth, fe gawsant gwmnïaeth ac ysbrydoliaeth gŵr o athrylith – gŵr a losgodd ei hun allan yng ngwasanaeth celfyddyd y ddrama.[42]

Roedd Vernon Jones yn aelod o gast cynhyrchiad olaf George Fisher, *Rhwng Dydd a Nos*, a dyma beth ddywed:

> Fe ddaethom i gyd i'r ymarfer y noson drist honno. Roeddem ni wedi'n llorio, ond roedd pawb yn unfarn fod yn rhaid mynd ymlaen hefo'r perfformiad petai dim ond er mwyn coffadwriaeth i George. Fe ysgrifennais gerdd syml am yr achlysur sy'n cynnwys enwau cymeriadau'r ddrama a'r teimladau dwys iawn a'n meddiannodd ni y noson honno.
>
> Ni fu'r Theatr Fach yn union yr un fath wedi colli'r sylfaenydd.[43]

Ar hyd y blynyddoedd bu Bedwyr Lewis Jones yn gefnogwr brwd i holl weithgareddau'r Theatr Fach, a gwnaeth marwolaeth George Fisher argraff ddofn arno:

> Gyda marw annhymig F.G. Fisher ... fel gollodd y ddrama yng Nghymru un o'i gweithwyr gorau ... yr oedd gan George Fisher weledigaeth eirias, glir ar le'r theatr yn y gymdeithas wledig, ddwyieithog yng Nghymru, ac i ganlyn hynny yr oedd ganddo'r grym personoliaeth a'r egni dihysbydd i wireddu ei freuddwyd yn Theatr Fach Llangefni.
>
> Bardd o ddramodydd ydoedd a'r cymeriadau a greai yn ymgorffori ofnau a greddfau dyrys y galon gudd, ac yn arbennig calon merch ...
>
> Yr oedd F.G. Fisher yn ŵr o awdurdod a thân yn ei galon a golau yn ei ben, ac mae'r ddrama yng Nghymru'n dlotach o'i golli.[44]

Yn ddi-os, roedd colli George Fisher yn golled fawr i fyd y ddrama ym Môn ac yng Nghymru, ond mae'n debyg mai Fisher ei hun fyddai'r cyntaf i annog y Gymdeithas Ddrama i symud ymlaen. Dyna, hefyd, ddymuniad y pwyllgor yn ogystal â'r gweithwyr a'r actorion. Wedi'r cwbl, ymdrech tîm fu'n gyfrifol am sefydlu'r Gymdeithas Ddrama ac am agor y Theatr Fach ac, er gwaethaf y golled, fe sylweddolwyd bod sicrhau'r dyfodol yn eithriadol bwysig.

Gan mor bwysig oedd dyfodol y Gymdeithas Ddrama a'r Theatr Fach, symud ymlaen fu'n rhaid ond, o safbwynt y drafodaeth hon efallai y dylid oedi am ychydig er mwyn cloriannu'n fyr yr hyn a gyflawnodd Fisher fel cyfarwyddwr ac fel dramodydd yn dilyn agor drysau'r theatr yn nechrau mis Mai 1955. Yn ystod y pymtheng mlynedd hynny, a wireddwyd ei freuddwydion?

Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddrama Llangefni, 26 Medi 1958, gwnaethpwyd y penderfyniad i fabwysiadu polisi dwyieithog ynglŷn â holl weithgareddau'r Gymdeithas, a dyfynnwyd eisoes y cofnod sy'n cadarnhau hynny. Fodd bynnag, gan mor berthnasol yw cynnwys y cofnod hwnnw i'r hyn sydd dan sylw yn awr, teimlir mai doeth fydd ei ddyfynnu unwaith yn rhagor:

> (ii) That the new Committee consider the formation of a Five Year Plan for production of at least one great European play annually, to be called 'Representative Plays', and that a similiar plan be considered for great Welsh plays.

Erbyn hyn, bron i hanner can mlynedd yn ddiweddarach, mae'r dystiolaeth ynglŷn â llwyddiant y ddau gynllun gwreiddiol i'w gael yng

nghynyrchiadau'r[45] Theatr Fach o 1958 hyd 1963, ac ymlaen wedyn hyd farwolaeth Fisher yn Ionawr 1970. Er mai ar gyfraniad George Fisher fel cyfarwyddwr y canolbwyntir yn bennaf, camarweiniol o safbwynt y drafodaeth hon fyddai anwybyddu cyfraniadau'r cyfarwyddwyr eraill gan gynnwys, yn arbennig, ei wraig Margaret.

Er gwaethaf camp Fisher yn meistroli'r Gymraeg, gellir bod yn eithaf sicr mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd yn 6 Corn Hir, ac ar sail hynny canolbwyntir yn gyntaf ar y dramâu Saesneg, gan gynnwys y trosiadau, a berfformiwyd yn y Theatr Fach rhwng 1958 a 1970. Yn ystod y cyfnod cyffrous hwnnw, ni ellir gwadu bod dylanwad a chyfraniad George a Margaret Fisher wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y theatr. Ond, a lwyddodd y dewis o ddramâu gyfarfod ag amcanion y cynllun a fabwysiadwyd gan y Gymdeithas Ddrama ym mis Medi 1958? A fu'r dramâu a lwyfannwyd yn gynrychiolaeth deg o'r hyn a gynigiwyd gan ddramodwyr amlycaf y cyfnod ym Mhrydain a thu hwnt?

Os edrychir, yn gyntaf, ar y cyfnod cynnar rhwng mis Mai 1955 a mis Tachwedd 1957, Cymraeg oedd iaith y cynyrchiadau. Ar wahân i gynyrchiadau Margaret Fisher a May Morris, prin iawn iawn oedd y dramâu Seisnig, ac mae rheswm da am hynny. Er sefydlu'r Gymdeithas Ddrama yn 1949, fe gofir fel y gweithiodd George Fisher yn ddiflino i recriwtio aelodau newydd, gan gynnwys nifer helaeth o athrawon ifanc Cymraeg. Ac fe gofir, hefyd, mai'r Gymraeg oedd iaith gyntaf canran uchel o boblogaeth y sir, gan gynnwys ardal Llangefni, ar ddiwedd y pumdegau. Er bod cryn Seisnigeiddio eisoes wedi digwydd ar hyd y glannau, ni chafwyd mewnlifiad o'r fath i ardal Llangefni hyd nes i'r stad ddiwydiannol gael ei sefydlu yn y dref yn ystod y chwedegau. Felly, yn ystod blynyddoedd ei phlentyndod, Cymry Cymraeg oedd asgwrn cefn y Gymdeithas Ddrama ac, o'r herwydd, mae'n debyg mai digon naturiol oedd i'r ddrama Gymraeg gael y flaenoriaeth. O 1955 hyd 1963, tanlinellir hyn gan y ffaith i Fisher ei hun roi ei sylw bron yn gyfan gwbl i lwyddiant y ddrama Gymraeg naill ai yn y Theatr Fach neu ar lwyfan yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol.

Er na welwyd Fisher ei hun yn cyfarwyddo yn ystod y tymor cyntaf, mae'n debyg mai cynhyrchiad Margaret Fisher o 'ddrama amser' J.B.

Priestley, *I Have Been Here Before*, oedd uchafbwynt y flwyddyn. Gyda'r syniad o ailymgnawdoliad yn ganolbwynt i'r ddrama, gellir tybio fod y cyflwyniad yn newydd i'r aelodau, a'i fod wedi rhoi cyfle iddynt flasu rhywbeth gwahanol. Er tynnu sylw arbennig at gynhyrchiad Margaret Fisher ni fwriedir, ar unrhyw gyfrif, ddibrisio'r cynyrchiadau eraill a lwyfannwyd yn ystod yr un cyfnod; roeddynt i gyd yn allweddol i ddatblygiad y Theatr Fach.

O 1958 ymlaen, symudodd y pendil ieithyddol yn araf tuag at y canol, ac er mai'r un cyfarwyddwyr fwy neu lai oedd wrth y llyw ar ddechrau'r chwedegau, gwelwyd cynnydd pendant yn nifer y cynyrchiadau Saesneg. Fel rhan o'r cynnnydd hwnnw, blaswyd nifer o gynyrchiadau safonol dan gyfarwyddyd Dan Jones, pennaeth yr Adran Saesneg yn Ysgol Gyfun Llangefni. Rhwng 1958 a 1964, cyfarwyddodd y gŵr hwnnw ddramâu o waith Eliot, Wilde a Shaw.

Erbyn canol y chwedegau, ac er bod cyfraniad Fisher i'r ddrama Gymraeg yn parhau'n sylweddol, ceisiodd ddatblygu ochr Saesneg y theatr drwy nid yn unig gyflwyno gweithiau dramodwyr fel Miller, Priestley a Shaw, ond hefyd drwy berfformio cyfieithiadau o weithiau dramodwyr Ewropeaidd fel Giraudoux, Brecht ac Ibsen i'r iaith honno. Pan fu farw Fisher yn Ionawr 1970, gellir dweud fod cydbwysedd ieithyddol cynyrchiadau'r Theatr Fach wedi ei ailsefydlu, a bod ystod eang o ddramâu safonol bellach yn cael eu cyflwyno o dymor i dymor i'r aelodau. Os edrychir ar gynnwys cynyrchiadau'r saithdegau cynnar, fe welir bod y safonau a osodwyd yn gynharach yn hollol ddiogel dan ofal unigolion fel Hazel Eames a J.O. Roberts.

O safbwynt ansawdd ac amrywiaeth y dramâu Saesneg a lwyfannwyd yn y Theatr Fach rhwng 1955 a marw Fisher yn 1970, mentrir awgrymu fod prif amcan y Gymdeithas Ddrama, sef sicrhau cynrychiolaeth deilwng o weithiau prif ddramodwyr Prydain ac Ewrop, wedi ei wireddu; hynny yw, wedi ei wireddu hyd nes y sylwir fod gweithiau dau o ddramodwyr amlycaf a thoreithiog Lloegr y cyfnod wedi ei hanwybyddu'n llwyr gan y Gymdeithas Ddrama. Cyfeirir at John Osborne a Harold Pinter.

Mewn cyfnod o newidiadau moesol a chymdeithasol pellgyrhaeddol, cynigiodd y ddau rywbeth newydd a gwahanol o safbwynt arddull a thechneg theatrig ac eto, am resymau annelwig, ni chafodd cynulleidfaoedd y Theatr Fach gyfle i'w blasu.

Daeth John Osborne i'r amlwg yn 1956 gyda'i ddrama *Look Back in Anger*, drama amserol yn cyfleu anniddigrwydd a phrotest y gellid eu cyplysu â'r anghydfod cymdeithasol a pholiticaidd yn Hwngari ar y pryd, ac yn Suez yn fuan wedyn. Fe'i dilynwyd yn 1957 gan *The Entertainer*, drama drwy'r hon y ceisiodd Osborne ddiffinio methiant a dirywiad personol yr unigolyn o ganlyniad i ddirywiad moesol y gymdeithas y perthynai iddi. Roedd neges *Yr Entertainer*, yn ogystal â neges nifer helaeth o'i weithiau yn ystod y chwedegau, yn gyfoes, yn ddadleuol, ac eto'n adlewyrchiad o beryglon newidiadau cymdeithasol y cyfnod. Ond ni chafodd cynulleidfaoedd y Theatr Fach gyfle i'w gweld.

Gyda chast bach o unigolion pur annelwig eu cymeriad a'u hamcanion, a chyda sefyllfaoedd cyffredin bob dydd yn ganolbwynt i nifer o'i ddramâu, ceisiodd Pinter gyflwyno arddull hollol newydd a gwahanol. Drwy ddefnyddio deialog syml yn grefftus, a'i britho'n gywrain gydag ysbeidiau o ddistawrwydd, gwelwyd y plot syml yn graddol gymhlethu gan adael i'r gwyliwr, yn y diwedd, wneud ei benderfyniadau personol ynglŷn â'r diweddglo penagored. I ddilynwyr y ddrama draddodiadol gyda'i chyflwyniad, ei chanol, a'i diweddglo, byddai arddull Pinter yn sicr o fod yn wahanol ac, o bosibl, yn rhy arbrofol. Ond, unwaith eto, cafodd cynulleidfaoedd y Theatr Fach eu hamddifadu o'r cyfle i'w gweld.

Crybwyllwyd eisoes fod cynyrchiadau cynnar Cymdeithas Ddrama Llangefni yn gogwyddo tuag at y ddrama Gymraeg, ac fel awdur a chyfarwyddwr, cyfrannodd George Fisher yn helaeth at hynny. Ac er mai ar gynyrchiadau'r Theatr Fach y canolbwyntia'r drafodaeth hon, ni ellir anwybyddu yr hyn a ddigwyddodd ar lwyfan yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol a gynhaliwyd yn flynyddol yn Llangefni o 1954 ymlaen. Dros y blynyddoedd, sefydlwyd perthynas agos rhwng yr ŵyl a'r theatr. Yn ystod blynyddoedd cynnar yr ŵyl, fe'i hamlygodd Fisher ei hun fel awdur cyflwyniadau Cwmni'r Gogledd ac, ymhellach ymlaen, fel cyfarwyddwr.

Yn fwy penodol i'r drafodaeth hon, cyflwynwyd cynhyrchiad cyntaf Fisher yng nghanol Ebrill 1956 pan lwyfannwyd *Marchogion y Môr*, trosiad Jeremiah Jones o drasedi J.M. Synge, *Riders to the Sea*. Fel drama fer, fe'i cydnabyddir yn un o glasuron y Theatr Wyddelig. Ynddi, portreadir gwraig yn dod wyneb yn wyneb â'i meidroldeb yng ngoleuni ei thrasiedi o golli ei theulu i gyd, gŵr a chwe mab. Gellir dychmygu fod cynhyrchiad cyntaf George Fisher wedi gwneud argraff ddofn ar feddyliau'r aelodau hynny a'i gwelodd. Ond, o fewn cwta ddeufis, roedd rhywbeth llawer mwy arloesol a chyffrous yn digwydd yn y theatr.

Ar yr 21 Mehefin 1956, noson cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Môn) 1957, gwelwyd cyflwyniad ar gowt y Theatr Fach na welwyd ei debyg na chynt nac wedyn yn Llangefni. Gyda'r eisteddleoedd yn amgylchynu'r llwyfan bron yn gyfan gwbl, cyflwynwyd drama basiant hanesyddol Ifan Gruffydd, *Ednyfed Fychan*, gyda'r awdur a George Fisher yn ei chyfarwyddo.

Yn ystod mis Mawrth 1958, eto dan gyfarwyddyd Fisher, llwyfannwyd *Siwan* yn y Theatr Fach, ac fe'i perfformiwyd yno eto ym mis Gorffennaf 1966 fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer ymddangosiad cwmni'r Gymdeithas Ddrama ar lwyfan Theatr Fach Garthewin ar y nos Wener, 15 Gorffennaf. Gwahoddwyd y Gymdeithas i Garthewin y noson honno fel rhan o'r deyrnged a drefnwyd i Saunders Lewis fel gwerthfawrogiad o'i gyfraniad aruthrol i achos y ddrama Gymraeg. O gofio natur annibynnol y Gymdeithas, a'i chyndynrwydd i ymddangos ar lwyfannau dieithr, roedd y ffaith iddi dderbyn y fath wahoddiad yn adlewyrchiad o edmygedd personol George Fisher o Saunders Lewis. Mae'n amlwg i'r cynhyrchiad fod yn hynod lwyddiannus, a gwelwyd y geiriau canlynol yn y wasg ychydig ddyddiau'n ddiweddarach:

> Heb un amheuaeth, pegwn disgleiriaf yr ŵyl oedd "Siwan" a gyflwynwyd gan Gwmni Theatr Fach Llangefni. Dyma gynhyrchiad campus ...[46]

Gyda'r cynhyrchiad hwnnw, sicrhaodd Fisher, fel ag yr oedd eisoes wedi ei wneud gydag *Amlyn ac Amig* yn 1957, a *Blodeuwedd* ym mis Mawrth 1964, fod cynulleidfaoedd Theatr Fach Llangefni yn cael y cyfle i wrthfawrogi gweithiau un o ddramodwyr mawr Cymru'r ugeinfed ganrif, os

nad y mwyaf. Rhwng 1955 a 1970, canolbwyntiodd Fisher ar gyfarwyddo dramâu mydryddol Saunders Lewis yn ogystal ag ar weithiau cyffelyb o'i eiddo ef ei hun. Mae'n amlwg fod mydryddiaeth mewn drama yn apelio ato fel awdur, fel llenor, ac fel cyfarwyddwr, ac fe welir hefyd fod cefndir hanesyddol y dramâu wedi chwarae rhan amlwg yn ei ddewisiadau. Ac eithrio *Amlyn ac Amig*, drama radio a gyhoeddwyd yn 1940, roedd cynyrchiadau Fisher ar lwyfan y Theatr Fach neu ar lwyfan yr Ŵyl Genedlaethol, yn ddramâu pur ddiweddar. Syndod, felly, oedd ei benderfyniad i gyfarwyddo drama ramantus, sentimental J. Bonfyl Davies, *Y Ferch o Gefn Ydfa* [1910], yn y Theatr Fach ym mis Rhagfyr 1959. Mae'n wir ei bod yn ddrama fydryddol, ond o ystyried ei bod erbyn hynny yn hen ddrama, anodd yw deall pam y penderfynodd Fisher ei chyfarwyddo. Efallai mai ymgais ydoedd i gynnig peth amrywiaeth i'r aelodau, a thrwy hynny gydymffurfio â'r amcanion hynny a gynhwyswyd yng nghynllun pum mlynedd y Gymdeithas Ddrama ym mis Medi 1958.

Tra bu Fisher yn canolbwyntio ar weithiau Saunders Lewis yn bennaf, gofalodd eraill am sicrhau rhaglen gynhwysfawr o gynyrchiadau Cymraeg yn ystod yr un cyfnod. O safbwynt llwyddiant y rhaglen honno, ni ellir llai na chydnabod cyfraniad ac ymroddiad arbennig Tecwyn Jones ac Elen Roger Jones, fel cyfarwyddwyr. Ond drwy wneud hyn, ni fwriedir dibrisio cyfraniadau nifer helaeth o'r aelodau eraill. Trwyddynt, diogelwyd safonau a statws y Theatr Fach, a chyflwynwyd i selogion y ddrama yn y theatr gynrychiolaeth eang o weithiau dramodwyr amlycaf Prydain ac Ewrop.

Roedd colli George Fisher yn ergyd drom i aelodau'r Gymdeithas Ddrama o safbwynt arweiniad ac egni, ond yn ffodus ymgymerodd Hazel Eames â'r dasg o orffen cyfarwyddo *Rhwng Dydd a Nos* a sicrhau y byddai drama olaf George Fisher yn cael ei llwyfannu yn nechrau mis Chwefror 1970. Ymgymerodd, hefyd, â swydd Cyfarwyddwr Artistig y Theatr Fach, swydd a ddaliodd am dair blynedd. Fe'i dilynwyd gan J.O. Roberts yng Ngorffennaf 1973. O safbwynt diogelu'r safonau a sicrhau amrywiaeth y cyflwyniadau, roeddynt yn apwyntiadau doeth a goleuedig.

Efallai mai dyma'r man i grybwyll tri datblygiad perthnasol arall oedd ar y gweill pan fu farw George Fisher. Gellir dadlau y byddai'r stori yn

anghyflawn hebddynt. Yn wir, maent yn cadarnhau geiriau Llewelyn Jones pan ddisgrifia Fisher fel '... gŵr a losgodd ei hun allan yng ngwasanaeth celfyddyd y ddrama'. A rhaid cofio, wrth gwrs, bod hyn i gyd yn ychwanegol at ei ddyletswyddau fel pennaeth adran fathemateg Ysgol Gyfun Llangefni.

Cyn marwolaeth Fisher, roedd Clwb Sadwrn wedi ei sefydlu yn y Theatr Fach. Roedd y clwb yn agored i'r holl aelodau gyda rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar eu cyfer. Fel rhan o'r rhaglen honno, anogid yr aelodau i gyfansoddi dramâu ar gyfer eu darllen a'u trafod, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt wylio dramâu ar ffilm. Rhan arall o'r gweithgareddau oedd trefnu teithiau i theatrau yn Lloegr. Wedi marwolaeth Fisher, gwyddys i'r Clwb Sadwrn ymweld â Stratford 17 Gorffennaf 1971, ac â'r Gateway Theatre, Caer, 11 Rhagfyr 1971.

Roedd y Gymdeithas Ddrama â'i bryd ar gysylltu â phobl ifanc ac yn awyddus i'w denu i'r Theatr Fach. Roedd cysylltiad wedi ei sefydlu yn lleol rhwng y theatr a'r Ysgol Gyfun, ond roedd y Gymdeithas Ddrama yn awyddus i ehangu ei gorwelion. Mewn ymgais i ddenu ieuenctid y sir i'r Theatr Fach, aethpwyd ati yn niwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau i sefydlu Theatr Ieuenctid Môn. Chwaraeodd George Fisher ran allweddol yn y datblygiadau. Yn briodol iawn, ymddangosodd yr hysbyseb ganlynol yn rhaglen *Rhwng Dydd a Nos* yn nechrau Chwefror 1970:

> Theatr Ieuenctid Môn
>
> Y mae'r Theatr yn cymryd rhan mewn arbrawf hynod o ddiddorol ar hyn o bryd sef, "theatr ieuenctid".
>
> Y mae arbenigwyr mewn gwahanol agweddau o'r gelf (symud, meimio, coluro a phynciau technegol, etc.) yn cynnal dosbarthiadau... i bobl ifanc sydd wedi dangos diddordeb yn y theatr.
>
> Os bydd yr arbrawf yn llwyddiant gobeithir cynnal dosbarthiadau drwy'r Gaeaf, o fis Medi 1970 tan fis Mawrth 1971. Bydd hyn yn dibynnu ar ymateb y to ifanc i ymdrechion pobl a'r eira yn eu gwallt.

Yng nghanol mis Mehefin 1970, llwyfannwyd drama o waith Henry Livings, *Eh!,* gyda Joan Darrock yn ei chyfarwyddo. Yn y rhaglen caed y nodyn canlynol:

> It is hoped that the Anglesey Youth Theatre, which our late Director, George Fisher, worked so hard to establish before his death, will put on their first production in Theatr Fach just before Christmas.

Apwyntiwyd Hazel Eames yn Gadeirydd y pwyllgor ieuenctid, ond mae'n amlwg bod rhywbeth wedi rhwystro'r trefnwyr rhag cadw'n gaeth at amseriad y perfformiad cyntaf. Yn hytrach, llwyfannwyd *Congrinero'r Gorllewin*, cyfieithiad Gruffydd Parry o ddrama J.M. Synge, *The Playboy of the Western World*, yn y Theatr Fach yn nechrau mis Ebrill 1971. Gyda Hulena Eryri Jones, Joan McCready a Tecwyn Jones yn cydgyfarwyddo, rhoddwyd pedwar perfformiad, un ohonynt yn arbennig i blant a phobl ifanc ar bnawn Sadwrn, 3 Ebrill.

Am bedair noson yng nghanol Rhagfyr 1971, cyflwynwyd *The Murder of Maria Marten of the Red Barn*, drama Fictoraidd wedi ei moderneiddio gan Brian J. Burton. Sam McCready oedd yn cyfarwyddo. Gwyddys, hefyd, i'r ieuenctid gyflwyno fersiwn llwyfan o nofel Laura M. Alcott, *Little Women*.

Yn yr agenda ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Ddrama, 15 Gorffennaf 1976,[47] ceir tystiolaeth bod yr ymdrech gyda'r ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus. Yn ogystal â nodi marwolaeth Emrys Hughes, un o sylfaenwyr y Gymdeithas, 15 Mawrth 1976, ceir nodyn i gadarnhau bod llawer o bobl ifanc wedi ymddiddori ac wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Theatr yn ystod y flwyddyn. Un o'r aelodau ifanc hynny oedd William R. Lewis, Llangefni, a llongyfarchwyd ef ar ennill Tlws y Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Dwyfor, Awst 1975.[48] Yr oedd eisoes wedi cyfansoddi a chyfarwyddo ei ddrama hir gyntaf, *Dan Flodau'r Gastanwydden*, ym mis Mawrth 1974.

Heddiw, yng nghanol degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, mae'r Theatr Ieuenctid yn parhau mewn bodolaeth ac yn parhau i gynnal nosweithiau amrywiol gan gynnwys dramâu a phantomeim.

Er yr holl welliannau, newidiadau ac estyniadau a wnaed dros y blynyddoedd, credai'r Pwyllgor fod angen ymgymryd ag un datblygiad helaeth arall, sef adeiladu ystafell ymarfer. Os edrychir yn fanwl ar y rhestr o berfformiadau, fe welir bod o leiaf fis o amser rhwng pob cynhyrchiad. Oherwydd diffyg lle i ymarfer, roedd yn rhaid i'r cyflwyniad blaenorol fod wedi gorffen cyn y gellid meddwl dechrau'r gwaith ar gyfer y perfformiad

nesaf. Yn fwy aml na pheidio, dibynnai hyd y cyfnod ymarfer ar natur y ddrama oedd i'w llwyfannu.

Ac edrych yn hollol wrthrychol ar y sefyllfa, gellir dadlau mai marwolaeth George Fisher fu'r ysbardun angenrheidiol i gychwyn pethau. Agorwyd Cronfa Goffa iddo, a chaed yr adroddiad canlynol yn rhaglen *Juno and the Paycock* yn niwedd mis Tachwedd a dechrau Rhagyfr 1971:

> The George Fisher Room
>
> Over £1000 has been donated to the George Fisher Memorial Fund by our members and friends...
> Substantial support for the project has also come from the Anglesey County Council, Llangefni UDC, and Cyngor Gwlad Môn ... [to] enable us to accept a tender for the new extension. Work on the George Fisher Room will therefore commence shortly.

Ym mis Chwefror 1971, llwyfannwyd drama W.S. Jones, *Gwalia Bach*, gyda Tecwyn Jones yn cyfarwyddo. Yn y rhaglen, gwnaethpwyd y datganiad canlynol. Ynddo, adleisir yr union beth yr anelai George Fisher ato, sef ymestyn ymhellach dennyn ei afr fach ac ehangu gorwelion aelodau'r Gymdeithas Ddrama:

> Mae Ystafell Goffa George Fisher yn codi'n gyflym tu ôl i'r theatr. Bydd yr adeilad yma [sy'n mesur 43′x 19′] yn rhoi ystafell ymarfer i ni, ac felly fe fydd yn bosibl ehangu rhaglen weithgareddau'r Theatr Fach. Cawn gyfle i lwyfannu rhagor o'n dramâu ni ein hunain a hefyd i groesawu cwmïau eraill o dro i dro.

Roedd y rhagolygon yn arbennig o addawol, er bod lle i amau geirwiredd y cymal olaf.

Agorwyd Ystafell Goffa George Fisher gan Syr Ben Bowen Thomas, nos Lun, 23 Hydref 1972, ac yn ystod y cyfarfod caed cyfarchiad gan William Jones, Is-Gadeirydd Cyngor Sir Môn. Yn y wasg, cafwyd crynodeb o anerchiad Syr Ben:

> Sir Ben said the room will be a permanent memorial to a remarkable man, possessing dynamic powers. A man who closely identified himself with the life of his area.
>
> His inspiring leadership had established in Anglesey a mini Glyndebourne, right in the heart of the island.
>
> George Fisher saw the possibility of spiritual splendour in drama. He was in no way passive, but put his ideals into practice.[49]

Yr un mor glodwiw oedd sylwadau William Jones yn y wasg Gymraeg:

I Gofio George Fisher

> "Gŵr a groesodd ffiniau", y galwyd George Fisher gan Mr William Jones, ..., wrth siarad yng nghyfarfod agor ystafell goffa George Fisher yn y Theatr Fach, Llangefni, Nos Lun [23 Hydref 1972].
>
> Gwyddonydd oedd a groesodd y ffin rhwng gwyddoniaeth a'r celfyddydau, athro mathamateg a dreuliodd ei fywyd dros y ddrama.
>
> Agorwyd yr ystafell yn swyddogol gan Syr Ben Bowen Thomas, a alwodd y Theatr Fach yn Glyndebourne y ddrama.[50]

Fel rhan o'r dathliad, llwyfannwyd dwy ddrama bob nos am weddill yr wythnos. Cyfarwyddwyd drama Tshechof, *The Anniversary*, gan Michael Haines, a gwaith Anouilh, *Antigone*, gan Hazel Eames.

Wedi ei amddifadu o ysbrydoliaeth Fisher yn Ionawr 1970, rhoed cryn bwysau ar y pwyllgor i wynebu'r dyfodol gydag egni a brwdfrydedd. I'r perwyl hwn, hefyd, roedd sicrhau'r safonau uchaf o bwys mawr i'r pwyllgor, ac felly, yn nechrau 1970, penodwyd Hazel Eames yn Gyfarwyddwr Artistig y Gymdeithas Ddrama i ddilyn Fisher.[51] Yn unol â'r amcanion, trefnwyd rhaglen lawn ac amrywiol yn 1971. Yn ogystal â dau gyflwyniad gan Theatr Ieuenctid Môn yn ystod y flwyddyn, llwyfannwyd tair drama Gymraeg, tair Saesneg, a chyflwyniad o waith Dylan Thomas yn nechrau mis Tachwedd.

Cafwyd tymor llewyrchus eto yn 1972, tymor mae'n debyg a gyrhaeddodd ei uchafbwynt gydag agor Ystafell George Fisher ym mis Hydref. O fewn blwyddyn, cyrhaeddwyd carreg filltir arall yn hanes y Theatr Fach. Am yr eildro o fewn naw mlynedd, cynhaliwyd Cynhadledd Theatrau Bychain Prydain Fawr yn Llangefni ddydd Sadwrn a dydd Sul, 27 a 28 Hydref 1973. Yn ystod yr wythnos, llwyfannwyd trosiad yn Saesneg gan Emyr Humphreys o ddrama Saunders Lewis, *Siwan*, gydag Hazel Eames yn cyfarwyddo. Y nos Sadwrn, rhoddwyd perfformiad arbennig ar gyfer y cynrychiolwyr. Dros y penwythnos, cynhaliwyd Noson Lawen dan ofal Miss Olwen Lewis, Caergybi, yn ogystal â chyflwyniadau detholedig allan o ddrama Huw Lloyd Edwards, *Pros Kairon*, ac o ddrama John Gwilym Jones, *Un Briodas*. Mewn ymgais i gyfleu ysgafnder a doniolwch bywyd cefn gwlad Cymru, cyflwynwyd i'r cynrychiolwyr rannau o ddrama Wil Sam, *Gwalia Bach*, wedi eu trosi i'r Saesneg gan Tecwyn Jones. Ac i gloi'r gynhadledd, cynhaliwyd seiat bnawn Sul dan gadeiryddiaeth Emyr Humphreys.

Gellir dadlau bod llwyddiant ac apêl y gynhadledd wedi chwarae rhan flaenllaw ym mhenodiad y Theatr Fach fel Theatr Gadeirydd Theatrau Bychain Prydain Fawr yn 1975.

Yn nechrau mis Chwefror 1974, cyfarwyddodd Hulena Eryri Jones ddrama o waith Richard Beynon, *The Shifting Heart*, ac ar y nos Lun ganlynol, 11 Chwefror, am un noson yn unig, gwahoddwyd Cwmni Theatr Fach Mull, Argyll, i lwyfannu tair drama fer, *A Village Wooing* (Shaw), *Chinamen* (Michael Frayne), a *The Pack Mule* (Tshechof). O gofio agwedd geidwadol y Gymdeithas Ddrama, roedd yr achlysur yn eithriad ond, eto, fel aelod blaenllaw o Gymdeithas Theatrau Bychain Prydain Fawr, roedd hefyd yn achlysur na ellid ei osgoi. Wedi'r cwbl, roedd dangos ewyllys da yn hanfodol i ddyfodol y Theatr Fach, ac yn arbennig felly ar gyfer ei blwyddyn fel Theatr Gadeirydd y gymdeithas genedlaethol yn 1975.

Yn ystod 1974 dilynwyd y drefn arferol o gyflwyno tri chynhyrchiad Cymraeg a thri yn Saesneg, ond yn ychwanegol gwelwyd cyhoeddi cylchlythyr tymhorol cyntaf gyda'r bwriad o '...[d]dod â newyddion am y Theatr a phobl y Theatr i olau dydd, a cheisio ennyn mwy o ddiddordeb ac o frwdfrydedd yng ngweithgareddau'r Gymdeithas'.[52]

Ym mis Mai 1975, roedd y Theatr Fach i ddathlu ei phen-blwydd yn ugain oed, a rhoddwyd dechrau priodol i'r dathliadau gan seremoni a gynhaliwyd yng nghyntedd y theatr yn niwedd Ionawr. Nos Wener, 31 Ionawr, bum mlynedd wedi ei farw, dadorchuddwyd penddelw efydd o George Fisher gan y cerflunydd, Jonah Jones. Ar gyfer yr achlysur arbennig hwn, ac o gofio ei gyfraniad aruthrol i ddatblygiad y ddrama ym Môn dros gyfnod hir, gwahoddwyd J.O. Jones i annerch y gynulleidfa. Heddiw, yn negawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, cyferchir pob ymwelydd â'r Theatr Fach gan Francis George Fisher.

Ar gyfer y dathlu, comisiynwyd Dr Bruce Griffiths a Miss Gwenllian Tudur o Borthmadog i gyfieithu, i'r Gymraeg, ddrama Molière, *Y Claf Di-Glefyd*. Fe'i perfformiwyd yn ystod yr wythnos 19–24 Mai. Ond, roedd llawer mwy i'r dathlu na llwyddiant y ddrama gomisiwn. Gyda J.O. Roberts yn cyfarwyddo, derbyniodd y Gymdeithas Ddrama wahoddiad i berfformio

yng Ngŵyl Ddrama Ryngwladol Dundalk yn niwedd Mai. Yn y wasg, caed yr adroddiad canlynol:

> Cymry mewn gŵyl ddrama
>
> Cafodd addasiad Saesneg Huw Lloyd Edwards o'i ddrama *Pros Kairon* dderbyniad nodedig, a chlod uchel ... yn yr Iwerddon.
>
> Rhai o aelodau Cymdeithas Ddrama y Theatr Fach, Llangefni, oedd yn cyflwyno'r ddrama. Hwy oedd yr unig gwmni drama o'r wlad hon, ac enillasant plac.
>
> ...[D]yfarnwyd Gwobr Ardoyne i gynhyrchydd gorau'r Ŵyl, Mr J.O. Roberts ...[53]

Yn dilyn y llwyddiant yma, gellir dweud bod tennyn gafr fach George Fisher wedi ei ymestyn gryn dipyn ers y dyddai cynnar hynny yn neuadd yr Ysgol Sir, a bod porfa frasach wedi ei chynnig i gynulleidfa lawer fwy eang na honno y breuddwydiai Fisher amdani. Yn wir, yng nghanol mis Mehefin, ymestynnwyd y tennyn ymhellach gydag ymddangosiad cwmni Cymdeithas Ddrama Llangefni ar lwyfan Gŵyl Ddrama Amatur Ryngwladol Detroit, UDA. Yn yr ŵyl honno, cynrychiolid dros ddeg gwlad ar hugain, a pherfformiwyd drama John Gwilym Jones, *One Wedding*, yn ogystal â *Pros Kairon*, Huw Lloyd Edwards, gan y pedwar aelod ar ddeg a gynrychiolai'r Theatr Fach. Gyda'r ymweliadau hyn, mae'n debyg i'r Theatr Fach gyrraedd pinacl ei henwogrwydd.

Ceisiwyd bod mor wrthrychol â phosibl wrth drafod hanes Theatr Fach Llangefni, ac mae'n debyg mai penderfyniad goddrychol yr awdur sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am ddod â'r llen i lawr ar hanes y theatr yn niwedd 1975. Ni wneir unrhyw ymddiheuriad am hyn, a phwysleisir y ffaith nad dyna ddiwedd y stori. Ar nos Wener, 27 Mai 2005, dathlodd y theatr ei phen-blwydd yn hanner cant oed ac, yng nghanol degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, mae'r Theatr Fach yn parhau i lwyfannu amrywiaeth o ddramâu yn ogystal â phantomeim a nosweithiau amrywiol eu naws. Fodd bynnag, teimlir bod rhai o ddigwyddiadau 1975 yn cloi cyfnod arbennig iawn yn hanes y Theatr Fach ac yn hanes y ddrama ym Môn. Cyfnod, ydoedd, na welir ei debyg eto ym myd y ddrama amatur ym Môn nac yng Nghymru.

1 Yn ystod y pumdegau cynnar fe gofir fod y Pwyllgor Addysg wedi rhoi caniatâd i'r Gymdeithas ddefnyddio neuadd yr Ysgol Sir ar gyfer ei gweithgarwch, gan gynnwys y perfformiadau. Ond perfformiadau ar gyfer yr aelodau yn unig oeddynt; ni chaniatawyd perfformiadau cyhoeddus. Er enghraifft, ar gyfer dau berfformiad o *Blodeuwedd*, ddydd Sadwrn, 14 Mawrth 1953, fe nodwyd yn y rhaglen fod lle i eistedd saith a phedwar ugain o bobl yn unig, ac os oedd y cyhoedd am weld y perfformiadau 'preifat' am iddynt ymaelodi â'r Gymdeithas ar unwaith.

Prin oedd yr achlysuron pan roddid perfformiadau cyhoeddus yn Neuadd y Dref. Un o'r achlysuron hynny oedd y rhagbrawf a gynhaliwyd nos Iau, 3 Ebrill 1952, ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Awst. Gydag Edwin Williams yn beirniadu, llwyfannwyd drama un act David Monger, *Cân Rhiannon*, ar gyfer y gystadleuaeth ynghyd â gwaith Conrad Carter, *One Crowded Hour*, i lenwi'r noson. Y cyfarwyddwyr oedd John Llewelyn Williams a May Morris. O safbwynt symud ymlaen i'r prawf terfynol, aflwyddiannus fu'r perfformiad, a daeth ymatal o gystadlu yn rhan o bolisi'r Gymdeithas Ddrama o hynny ymlaen.

2 William Shakespeare, *Macbeth*, Act 4, Golygfa 1.

3 Hazel Walford Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol* (Gwasg Gomer 2000), 163-192.

4 *ibid.*, 163.

5 *ibid.*, 167-8.

6 Cofnodion Cymdeithas Ddrama Llangefni. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 26 Medi 1958. Roedd y pum swyddog a naw ar hugain o aelodau yn bresennol.

7 Llwyfannwyd *Catrin* gan F.G. Fisher nos Lun, 20 Tachwedd 1950, a *Blodeuwedd* gan Saunders Lewis bnawn a nos Sadwrn, 14 Mawrth 1953.

8 Gweler Atodiad H.

9 *op.cit.* Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 26 Medi 1958.

10 Roedd rhai eithriadau:

Yn achlysurol, ymddangosodd cwmni'r Gymdeithas Ddrama ar lwyfan Neuadd y Dref, Llangefni. Yn ystod mis Tachwedd 1950, rhoddwyd perfformiad o ddrama George Fisher, *Catrin*, ar lwyfan Theatr y Grand, Llandudno. Dros nifer o flynyddoedd cefnogwyd Gŵyl Ddrama Môn yn ogystal â'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni. Fel rhan o Ŵyl Ddrama Theatr Fach Garthewin,

cyflwynwyd perfformiad o waith Saunders Lewis, *Siwan*, gan gwmni Cymdeithas Ddrama Llangefni, nos Wener, 15 Gorffennaf 1966. Dyma'r perfformiad olaf o waith yr awdur ar lwyfan Garthewin. Yn 1975, ymddangosodd cwmni'r Theatr Fach yng ngwyliau drama Dundalk a Detroit.

11 *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Aberdâr 1956*, 29 a 35.

12 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Aberdâr, 1956*, 51 – 62.

13 Rhaglen swyddogol perfformiadau'r Theatr Fach o *Merch yw Medwsa* yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni yn Awst 1957. Yn y rhaglen, eglurir bod y ddrama wedi ei hysgrifennu ar gyfer y teledu. Diolchir i Glyndwr Thomas am gael ei benthyg.

14 *Merch yw Medwsa*: Theatr Fach, Llangefni, 7-10 Awst 1957

Cymeriadau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hywel | - | | | |
| Hen ŵr | - | Tecwyn Jones | | |
| Pyrs | - | Morwr ifanc | - | Owen E. Jones |
| Rheinallt | - | Meddyg ifanc | - | Glyndwr Thomas |
| Mali | - | Merch ifanc | - | Catherine Jones |
| Elin | - | Gwraig | - | Jennie Lloyd Jones |
| Nerys | - | Merch ifanc | - | Eileen Graber |
| Sara | - | Merch ifanc | - | Ceinwen Jones |

15 Sylwadau gan J.O. Roberts yn ei ymateb i holeb a anfonwyd ato yn Rhagfyr 2001.

16 Erbyn hyn, roedd lle i eistedd 112 o bobl yn yr awditoriwm.

17 Yn yr Adroddiad ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Ddrama, 29 Medi 1959, cynhwyswyd manylion ynglŷn â'r aelodaeth:

| | |
|---|---|
| 1956-57 | 680 |
| 1957-58 | 688 |
| 1959-60 | 677 |
| | |
| 14 Ionawr 1960 | 644 |
| 13 Mehefin 1960 | 768 |
| 14 Gorffennaf 1960 | 800+ |

25 Chwefror 1964 Adroddiad yn y *Western Mail*
800 o Gymry + 400 o Saeson

18 Harri Parri, *Elen Roger – Portread* (Gwasg Pantycelyn 2000), 110.

19 *Yr Arloeswr,* R. Gerallt Jones a Bedwyr Lewis Jones (gol.), Rhif 2, Calan 1958, 45-47.

20 *Y Ferch a'r Dewin,* Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy, Awst 1958.

Yr Actorion

| | |
|---|---|
| Manleth | Tecwyn Jones |
| Llidydd | G. Prydderch Owen |
| Glythin | Hugh Pierce Jones |
| Swrth | Glyndwr Thomas |
| Trythyll | Ceinwen Jones |
| Gwanc | Kitty Owen |
| Rhinwen | Lyn Pierce Jones |
| Cenfigen | Wil Evans |
| Goleuadau | Frank Taylor |

Cyhoeddwyd gan Wasg Aberystwyth, Arg. Cyntaf Gorffennaf 1958. Mae copi gwreiddiol ym meddiant Glyndwr Thomas, Cemais.

21 Sefydlwyd cwmni *The Unnamed Society* yn ardal Manceinion yn 1915 ac, erbyn Awst 1958, roedd wedi llwyfannu 237 o ddramâu. Yn 1958, cyfarwddwr y cwmni oedd George Nutkins.

22 Bu farw Edward Owen Humphreys, 11 Mai 1959.

23 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 29 Medi 1959.

24 Rhwng 20 Mai a 28 Mai 1960, cynhaliwyd cwrs drama naw diwrnod yn y Theatr Fach. Fe'i trefnwyd ar y cyd gan Gymdeithas Ddrama Llangefni a Chyngor Gwlad Môn.

Mae'n debyg i lwyddiant y cwrs chwarae rhan allweddol yn apêl y Gymdeithas am gefnogaeth ariannol. Gwahoddwyd Miss Lyn Oxenford o Lundain i ddarlithio ar gyfarwyddo, actio a llefaru, a Mr G. Mostyn Lewis o Lincoln i arwain y gweithgareddau ymarferol fel gosod llwyfan, creu golygfeydd a goleuo.

Gellir dadlau bod menter o'r fath yn adlewyrchu dimensiwn arall o waith a chyfraniad y Theatr Fach i'r ddrama yng Nghymru. Yn sicr, bu llwyddiant y cwrs yn gaffaeliad i apêl y Gymdeithas Ddrama am arian.

WDAU/92, 1959-1960. Ffeil ar Gyngor Gwlad Môn.

25 Robert Maldwyn Jones: Yn enedigol o Bant Llwyd, Llan Ffestiniog. Ei brif byncianu yn Y Coleg Normal, Bangor, oedd Cymraeg a Drama. Ar ôl dysgu yn Lerpwl, Llanrhaeadr ym Mochnant, Caerffili ac Ystrad Mynach, bu'n athro yn Ysgol Gyfun Llangefni o 1 Medi 1961 hyd 31 Rhagfyr 1967. Wedi hynny bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, gan ganolbwyntio ar Gymraeg a Drama

Dymuniad Prifathro Ysgol Gyfun Llangefni oedd ceisio cysylltu'r ysgol â phentrefi bach y dalgylch er mwyn cynefino'r plant â'r ysgol fawr fel y byddent yn cartrefu'n haws ynddi maes o law. Apwyntiwyd Maldwyn Jones i swydd ddeublyg ei chyfrifoldebau:

(1) Maldwyn fu'n cynnal gwasanaethau Ysgol Sul yn yr ysgol bob dydd o'r wythnos. Trefnid gwasanaethau gyda thema wythnosol iddynt ar gyfer plant pentrefi fel Dwyran, Niwbwrch, Aberffraw a Gwalchmai. Roedd y plant yn cael eu tynnu o'u dosbarthiadau i baratoi ar eu cyfer. (2) Byddai Maldwyn yn ysgrifennu dramâu bach ar gyfer y plant, ac yn ymweld â'r pentrefi gyda'r nos. Cynhelid yr ymarferion yn yr ysgol ac yn y pentrefi, gan gynnal y perfformiadau yn y pentrefi ac yn y Theatr Fach. Rhan amlaf, byddai E.D. Davies yn mynd gyda Maldwyn i'r ymarferion.

Bu Maldwyn yn cyfarwyddo dramâu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol, yn ogystal â gwaith Gilbert a Sullivan gyda chymorth y diweddar Arwyn Jones, yr athro cerdd.

Yn 1962, priododd â Gwen Redvers Jones. Roedd Gwen yn un o ddau o blant y Parchedig a Mrs R. Redvers Jones. Cyn ei farw yn 1968, bu Mr Jones yn Flaenor ym Moreia (MC), a bu hefyd yn Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol i Bwyllgor Addysg Môn. Mae ei fab, Ieuan, yn byw ac yn gweithio fel cyfreithiwr yn Llangefni.

26 Mewn cyfarfod o'r 'Guild' a gynhaliwyd ym Manceinion, yr 17 Mawrth1962, derbyniwyd y Theatr Fach yn aelod llawn ohoni. Derbyniwyd y manylion drwy law Mrs Barbara Watson, ysgrifenyddes bresennol y Guild, Hydref 2005. Gweler Atodiad G.

27 Ymddangosodd erthygl gan Alun Llywelyn-Williams, 'Y Gamp a Gyflawnwyd', yn y rhaglen i ddathlu penblwydd Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru yn ddeg oed, 15-19 Medi 1964.

28 *Herald Môn*, 5 Rhagfyr 1961, 3.
Yn ogystal, caed adroddiadau yn *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Rhagfyr 1961, ac yn yr *Holyhead and Anglesey Mail*, 8 Rhagfyr 1961. Llyfr Lloffion y Theatr Fach 1955-1982, WDAU/1/118.

29 Bu Vernon Jones, Llangefni, yn aelod amlwg o'r Gymdeithas Ddrama yn dilyn ei ymddangosiad cyntaf ar lwyfan y Theatr Fach yng nghyfieithiad Glyndwr Thomas o ddrama Paul Vincent Carroll, *Ni Lefarodd y Doeth*, ym mis Gorffennaf 1959. Cyfarfu â chyfarwyddwr y ddrama, Huw Pierce Jones, tra oedd yn actio yn rhaglenni ysgolion y BBC ac Awr y Plant ym Mangor yn y pumdegau

Bu'n actio a chyfarwyddo yn y theatr hyd iddo dderbyn gwahoddiad i arwain Cantorion Bro Cefni yn 1975. Mewn ymateb ysgrifenedig i holeb a anfonwyd ato ym mis Mai 2004, fe ddywed iddo ymddangos mewn un ar bymtheg ar hugain o ddramâu, Cymraeg a Saesneg, dros gyfnod o ddeuddeng mlynedd.

Vernon Jones fu'n gyfrifol am ddechrau'r Llyfr Lloffion sydd yn awr ar gael i'r cyhoedd yn Archifdy Llangefni.

30 Mae copi o'r llythyr, dyddiedig 28 Ionawr 1962, ym meddiant yr awdur.

Aelodau'r cast

| | |
|---|---|
| Roland Davies | Y Golygydd |
| Vernon Jones | Y Prif Riporter |
| Evan John Jones | Y Cysodydd |
| John O. Roberts | Y Twrne, Stephen Lloyd |
| Gwilym Owen | Y Riporter Ifanc |
| Leslie Hodgkins | Yr Henadur D.G. Pugh |
| Geraint Evans | Cynllunydd y Llwyfan |

31 *Herald Môn*, 30 Ionawr 1962, 5. Adroddiad gan John Ellis Williams.

32 Dafydd Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1992), 188-9.

33 *Y Clorianydd*, 22 Mai 1963, 5.

34 Gweler Atodiad I.

35 *Herald Môn*, 28 Mai 1963, 10. Erthygl gan Bedwyr Lewis Jones, 'Camp y Theatr Fach a Kitty Owen'.

36 *Y Clorianydd*, 29 Mai 1963, 4. Erthygl gan Emrys Hughes, 'Llwyfannu Campwaith Brecht'.

37 Derbyniwyd gwahoddiad cyffelyb yn 1973.

38 Am ryw reswm, ni chyfeiriwyd at weithiau Brecht nac Ibsen.

39 *The Aspern Papers*, 20-25 Medi 1965. Mae copi o'r rhaglen ym meddiant yr awdur.

40 Rhaglen Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru, Llangefni; Medi 1964. Erthygl gan Alun Llywelyn-Williams, 'Y Gamp a Gyflawnwyd'.

41 *Y Clorianydd*, 7 Medi 1965, 1.

42 Darlith gan Llewelyn Jones, *Francis George Fisher: Bardd a Dramodwr*, a draddodwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ynys Môn, Awst 1983, 24.

43 Geiriau Vernon Jones, Llangefni, yn ei ymateb ysgrifenedig i holeb a gyflwynwyd iddo ym mis Mai 2004.
Aelodau cast *Rhwng Dydd a Nos* oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Gwenda Owen | Gwenda Goodall | |
| Glyn Williams | John Pierce Jones | |
| Vernon Jones | Hazel Eames | Ceinwen Jones |

44 Bedwyr Lewis Jones, 'F.G. Fisher, 1909-70', *Taliesin,* Cyfrol 20, Awst 1970, 123-125.

45 Gweler Atodiad J.

46 *Y Cymro*, 21 Gorffennaf 1966, 19.

47 Llyfr Lloffion 1955-1982, WDAU 1/1-118. Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 15 Gorffennaf 1976.

48 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975*, 139-143.

Er i'r beirniad, John Gwilym Jones, gydnabod bod drama 'Arawn', *Geraint Llywelyn*, '... yn ddrama gynhyrfus o feiddgar, a'i hiaith ... yn debyg o dramgwyddo', i'r ddrama hon, 'oherwydd praffter amgenach ei hiaith', y rhoddwyd y Tlws. Dyfarnwyd Michael Povey, Garndolbenmaen, yn ail da, a Bernard Evans, Caerdydd yn drydydd.

Ymddangosodd William R. Lewis ar lwyfan y Theatr Fach am y tro cyntaf fel actor ym mis Mawrth 1974, a chafodd gyfarwyddo ei ddrama gyntaf, *Dan Flodau'r Gastanwydden*, yng nghanol mis Mehefin.

49 *The North Wales Chronicle*, 26 Hydref 1972, 16.

50 *Herald Môn*, 31 Hydref 1972, 8.

51 Derbyniwyd ymddiswyddiad Hazel Eames fel Cyfarwyddwr yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Ddrama, 4 Gorffennaf 1973. Yn yr un cyfarfod, penodwyd J.O. Roberts i'w dilyn. WDAU Cofnodion 1968-1973.

52 Ymddangosodd Rhif 1 o'r Cylchlythyr yng ngwanwyn 1974. Fe'i golygwyd gan Vernon Jones.

53 *Herald Môn*, 10 Mehefin 1975, 4.

# ATODIADAU

# ATODIAD A

## UNIGOLION ALLWEDDOL

### (1) GRACE THOMAS (1870 – 1950)

Fe'i ganwyd yn Ty'n Llan, Llanddyfnan, 9 Mawrth 1870. Roedd yn un o saith o blant Joseph a Catherine Thomas:
Keziah (g. 11 Mawrth 1865), Eliza Jane (g. 2 Tachwedd 1866), Owen John (g. 3 Rhagfyr 1867), Grace, William Richard (g. 26 Mai 1872), Joseph (g. 11 Gorffennaf 1874), ac Robert Ernest (g. 11 Chwefror 1881).

Fel plant, cawsant fagwraeth bur gyfforddus ar aelwyd ddwyieithog, ac er mai gofalu am y cartref oedd prif ddyletswydd Grace, mae'n amlwg iddi dreulio llawer o'i hamser yn ysgrifennu a chyfansoddi. Ceir peth tystiolaeth o hyn yn *Y Gymraes* pryd y disgrifid Grace fel '...[m]erch brysur gyda gwaith y cartref, ... ac eto, y mae yn mynu amser i efrydu ac ysgrifennu, a gweithio o blaid achosion da mewn amrywiol ffyrdd'.[1]

Yn sicr roedd pregethu dirwest[2] yn un o'r 'achosion da' hyn.

Yn ystod degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif bu Grace Thomas yn cyfrannu'n gyson i'r misolyn *Y Gymraes*, sef 'Cyhoeddiad Misol Darluniadol at Wasanaeth Merched Cymru'. Yn Ionawr 1907, gydag ymddangosiad Cyfrol X1, Rhif 124, dathlodd *Y Gymraes* ei phen-blwydd yn ddeg oed. Ysgrifennodd Grace gyfres o erthyglau i'r misolyn ar *Enwogion Hanes* gan gynnwys Confucius, Socrates, Plato ac Epictetus.

Derbyniodd ei haddysg elfennol yn lleol cyn derbyn addysg bellach yn Great Yarmouth a Chaerdydd. Tra oedd yng Nghaerdydd, 1896-7, bu'n aelod o Eglwys Pembroke Terrace lle y gwasanaethai y Parchedig J. Morgan Jones.

Yn 1897, enillodd Fedal Efydd yr Arholiad Cyfundebol, ac yn 1899 enillodd y Fedal Aur. Ceir cofnod o'i llwyddiant, ynghyd â darlun ohoni, yn *Y Llusern*, Cylchgrawn Misol at Wasanaeth Eglwysi ac Ysgolion Sabbothol Methodistiaid Calfinaidd, Mehefin 1899. Yn dilyn ei llwyddiant

yn 1899 buddsoddodd ddeg punt gyda'r bwriad o wobrwyo ymgeiswyr buddugol Arholiad Sirol Môn i'r dyfodol.

Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn Ysgol Sul Pentraeth a Rhoscefnhir. Grace Thomas, yn anad neb, a fu'n gyfrifol am sefydlu Cymdeithas Lenyddol Penygarnedd yn 1906, a'r Cwmni Drama yn fuan wedi hynny.

Aeth ati i gyfansoddi a chyfarwyddo tair drama, sef *Cyfoeth ynte Cymeriad* (1910), *Streic Fawr y Dyffryn* (1911) a *Trech Gwlad nag Arglwydd* (1912). Yn ychwanegol, cyfansoddodd *Dramodau a Dadleuon* (1914) at wasanaeth y Band of Hope a Chymdeithasau Dirwestol.

Bu Grace fyw yn Nhy Fry, Rhoscefnhir, hyd 1920, pryd y symudodd gyda'i chwaer, Eliza Jane, i Fae Colwyn cyn symud eto at berthynas iddynt yn Y Rhyl. Dibriod fu'r ddwy chwaer.

Wedi symud i Fae Colwyn, gwahoddwyd hi fwy nag unwaith i feirniadu'r ysgrifau a'r traethodau yng nghyfarfodydd cystadleuol blynyddol Cymdeithas Lenyddol Penygarnedd.

Bu farw yn Y Rhyl 8 Chwefror 1950.

---

1 *Y Gymraes,* Cyf. XIV, Rhif 161, Chwefror 1910.

2 Gweler Atodiad B.

## (2) WALTER ROWLANDS (1885 – 1969)

Fe'i ganwyd ym Meddwgan, Rhoscefnhir, 13 Awst 1885, yn un o chwech o blant Richard (1847-1924) a Mary Rowlands (1843-1916):

William (1874-1933), Mary (1878-1962), Richard (1879-1972), Walter, Elizabeth (1887-1972) a Norman (1888-1959).

Bedyddiwyd Walter ym Mhenygarnedd 31 Awst 1885, gan Richard Owen y Diwygiwr, a'i dderbyn yn gyflawn aelod 21 Rhagfyr 1898. Fe'i

hetholwyd yn flaenor 15 Rhagfyr 1926, a gwasanaethodd fel ysgrifennydd Penygarnedd o 1941 hyd 1950.

Ar ddiwedd ei gyfnod yn Ysgol Fwrdd Pentraeth, aeth i weithio fel clerc i swyddfa William Roberts, Porthaethwy, ond yn 1907 fe'i tynnwyd oddi yno i weithio gartref ar y fferm.

Tua 1913, symudodd y teulu i fyw i Gefn Hir. Yn fuan wedyn, priododd Walter ag Annie Elizabeth (m. 29 Medi, 1916) a ganed iddynt un mab, Alun (m. 1997). Ailbriododd ag Anne, merch Trefor Blas, Llansadwrn, a chawsant un mab, Edwyn (m.1983), tad Eryl Wyn Rowlands, gynt o Langefni.

Yn ôl y dystiolaeth a geir yng nghyfrol Eryl Wyn Rowlands, *O Lwyfan i Lwyfan*[1], roedd Walter yn ŵr amryddawn ac yn adroddwr llwyddiannus. Bu'n aelod ac yn gyfarwyddwr Cwmni Drama Rhoscefnhir o 1927 hyd 1934.

Cyfrannodd yn helaeth i bwyllgorau Llaeth Gogledd Cymru ac i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac yn ôl ei ŵyr, Eryl Wyn Rowlands, roedd yn llawer gwell gan Walter wisgo siwt a thei i bwyllgora yn hytrach na ffermio. Ac eto, dyma beth ddywed J.J. ('Dyfnan') amdano yn y wasg:

> ...A chyda llaw, Mr. Gol., dymunwn ei longyfarch ar ennill ohono y cwpan ar "Gefnau Cain Tŷ Croes", y dydd o'r blaen, hefo'i aradr, gan drechu prif aradrwyr Sir Fôn, a champ go fawr oedd honno.[2]

Gyda'i wraig, Anne, symudodd i fyw i Amlwch yn 1951. Bu Walter farw yn Ysbyty Cefni, 6 Ionawr 1969, a bu Anne farw 11 Chwefror 1974.

---

1 Eryl Wyn Rowlands, *O Lwyfan i Lwyfan* (Caernarfon, 1999), 48.

2 *Yr Herald Gymraeg*, 4 Mawrth 1930, 7.

( 3 ) EMYR JONES (1915 - )

Ganwyd tad Emyr, John Jones ('Dyfnan', 1885-1963) yn Ty'n Lôn, Talwrn, a'i fam Sarah Jane (1891-1982) yn y Fardre ger Castell-nedd. Tua 1910, symudodd John Jones i'r De i weithio yn y pyllau glo a chafodd ei benodi'n Ysgrifennydd y Gymdeithas Gymraeg yn y cwm.

Ganwyd Emyr ym Mlaengarw, Pen-y-bont-ar-Ogwr, 15 Mai 1915, ac yno hefyd ganwyd ei chwiorydd Olwen (1916-1984) a Menna (1925 - ).

Yn 1926, yn ystod y Streic Genedlaethol, symudodd y teulu i Fôn i fferm Y Wigoedd, Rhoscefnhir, cartref ewythr John Jones. O hynny ymlaen adnabyddid Emyr fel Emyr Wigoedd.

Yn nechrau 1929, ar ôl treulio rhyw ddwy flynedd yn Ysgol Sir Llangefni, penderfynwyd y byddai Emyr yn aros gartref i helpu ei dad ar y fferm, ac yn ystod y tridegau a'r pedwardegau datblygodd fel adroddwr llwyddiannus. Cymerodd ran mewn nifer o gyngherddau 'mawreddog' ar hyd a lled y Gogledd, a buan y daeth yn hyfforddwr ac yn feirniad adrodd.

Yn 1930, ac yntau'n bymtheg oed, cafodd ei brofiad cyntaf o actio fel aelod o gwmni drama Rhoscefnhir. Dyma ddechrau ei ddiddordeb ym myd y ddrama. Yn ystod tymor drama 1933-4 aeth i'r Pafiliwn yng Nghaernarfon i weld Cwmni Drama Pontarddulais, dan gyfarwyddyd Dan Matthews, yn perfformio *Tan yr Hydref*, trosiad y cyfarwyddwr o waith T.C. Murray. Yno y sylweddolodd Emyr bod lefel uwch i anelu ati mewn llwyfannu ac actio.

Mae'n debyg mai ei ymweliadau â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth yn 1937 ac yng Nghaerdydd yn 1938 a'i hysbrydolodd fel dramodydd. Yn Awst 1937 aeth gyda'i fodryb i weld y Cwmni Cenedlaethol yn perfformio trosiad Eluned Bebb, *Treftadaeth*, a gwelodd, am y tro cyntaf, ddrama yn cael ei llwyfannu o flaen llenni yn hytrach na set. Flwyddyn yn ddiweddarach, yng Nghaerdydd gwelodd berfformiadau o *Macbeth* (trosiad T. Gwynn Jones) a *Land of my Fathers* (trosiad J. Kitchener Davies o waith Jack Jones). Gwnaeth cynyrchiadau D. Haydn

Davies argraff ddofn arno. Dyma'r perfformiadau y cyfeirir atynt gan O. Llew Owain yn ei gyfrol *Hanes y Ddrama yng Nghymru,* 1850–1943:

> Dyddiau i'w cofio yn hanes y ddrama yng Nghymru oedd y rhai y perfformiwyd *Macbeth* yn Eisteddfod Caerdydd yn 1938. Llanwyd Chwaraedy Tywysog Cymru, a ddeil ddeuddeg cant o bobl, hyd yr ymylon y ddwy noson, a channoedd lawer wedi methu myned i mewn.[1]

Yn fuan wedi sefydlu Cyngor Gwlad Môn yn 1939, gwahoddwyd Emyr i fod yn aelod o'r is-bwyllgor drama yn ogystal â bod yn aelod o'r tîm o gyfarwyddwyr a benodwyd i helpu'r cwmnïau lleol gyda'u cynyrchiadau. Fe gofia Emyr ymweld â chwmnïau Bryngwran, Llannerch-y-medd, Capel Coch, Biwmares, Llangristiolus, Llanfairpwll, Capel Mawr ac eraill. Rhan o'i ddyletswyddau oedd cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ar ddatblygiad pob cwmni.

Bu Emyr Jones yn gyfarwyddwr cwmni drama Rhoscefnhir gydol y pedwardegau, hyd 1952, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1943, bu'r cwmni yn fuddugol gyda'i berfformiad o'r gomedi un act *Y Cab,* trosiad Jeremiah Jones o waith John Taylor.

Ar lefel bersonol, bu'n teithio'r wlad yn ystod 1949 fel aelod o Gwmni'r Genhinen yn perfformio *Hen Ŵr y Mynydd* (Cynan) gyda'r awdur ei hun yn cyfarwyddo.

Oherwydd salwch ei fam symudodd i fyw i Gaernarfon yn 1969, ac o hynny hyd 1980, bu'n gweithio mewn swyddfa cyfrifydd ym Mangor.

Mewn cyngerdd yn Llanfairfechan yn 1947, cyfarfu ag Eirian, cyfeilydd Cerdd Dant Genedlaethol. Priodwyd y ddau yn 1980.

---

1 O. Llew Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru, 1850-1943* (Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, 1948), 185-6.

## (4) Y PARCHEDIG EVAN ROBERTS (1882–1937)

Brodor o'r Rowen, Dyffryn Conwy, oedd Evan Roberts, a chyn dod i Lannerch-y-medd, bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr ym Mhentrefoelas a'r Waunfawr. Fe'i sefydlwyd yn weinidog ar Gapel Ifan[1] a Hebron bnawn Gwener, 31 Hydref 1930.

Safai yn gadarn dros ddirwest a heddwch, ac roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn materion cymdeithasol; roedd plant a phobl ifanc yn hollbwysig ganddo. Ni ellid ei gydnabod yn bregethwr 'mawr', ond mae'n ymddangos bod ei bregethu yn feddylgar ac yn sylweddol.

Er ei fod yn Annibynnwr selog, ni fyddai hynny yn ei ddieithrio oddi wrth enwadau eraill. Cawsai ei barchu gan bawb, o bob enwad, a chaed tystiolaeth o hynny mewn teyrnged iddo yn y wasg:

> Yr oedd Mr. Roberts wedi myned yn ddwfn i serchiadau aelodau eglwysi ei ofal, ac yn neilltuol o boblogaidd gyda thrigolion y Llan a'r cylchoedd o bob dosbarth...Bu'n golofn gadarn ym mhlaid dirwest a heddwch, ac ni phetrusodd erioed sefyll yn eofn dros ei argyhoeddiadau...[2]

Gyda chefnogaeth ei wraig, ymroddodd yn ddiflino i hybu cwmni drama Capel Ifan.

Bu farw yn ei gartref, Bryn Hwfa,[3] nos Sadwrn, 10 Gorffennaf 1937, ac fe'i claddwyd ym mynwent Peniel, Llannerch-y-medd. Disgrifiwyd ei angladd fel '...Un o'r angladdau mwyaf yn y Llan.'[4]

---

1 Capel yr Annibynwyr a enwyd ar ôl y Parchedig Evan Davies ('Eta Delta', 1794–1855), gweinidog o 1834 hyd 1841 pryd y symudodd i Drelawnyd.

2 *Yr Herald Gymraeg,* 20 Gorffennaf 1937: *Marw Gweinidog – Arwyl y Parch. Evan Roberts, Llannerch-y-medd,* 11.

3 Bryn Hwfa: tŷ'r gweinidog. Fe'i hadeiladwyd pan ddaeth y Parchedig Rowland Williams ('Hwfa Môn', 1823–1905) i'r Llan, lle bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr o 1881 hyd nes iddo symud i Langollen yn 1888.

4 *op.cit.*, *Yr Herald Cymraeg*, 20 Gorffennaf 1937, 11.

## (5) WILLIAM PRITCHARD (1884–1955)

Fe'i ganwyd yn ardal Caernarfon. Cafodd fagwraeth grefyddol a diwylliannol, ac mae'n debyg iddo etifeddu nodweddion crefyddol a diwylliannol ei dad. Fe'i prentisiwyd fel saer coed a dilynodd ei alwedigaeth gyda graen. Daeth yn adroddwr effeithiol.

Sefydlwyd Cymdeithas Ddrama Tal-y-Sarn, Dyffryn Nantlle, yn 1928 ac ymaelododd William Pritchard â hi. Yno, datblygodd fel un o'i hactorion mwyaf blaenllaw ac actiodd 535 o weithiau gyda'r cwmni.[1]

Wedi bod yn fuddugol mewn pump o gystadlaethau pwysig, trodd y cwmni ei orwelion tuag at ddiddanu yn hytrach na chystadlu, a chydol y tridegau estynnwyd gwahoddiad rheolaidd i Dal-y-Sarn ymweld â Llannerch-y-medd. Nos Wener, 30 Rhagfyr 1938, gwyddys i'r cwmni berfformio *Niwloedd* (W.J. Davies) yn y Llan. Hwn oedd y degfed tro i'r cwmni ymddangos ar lwyfan y New Hall. Ar 24 Mawrth 1939, ymddangosodd y cwmni yno unwaith eto i gyflwyno *Yr Unben* (W.J. Davies), ac roedd rhagor o ymweliadau i ddilyn.

Roedd Miss Kitty Jones, 73 Lledwigan Terrace, yn gefnogwraig frwdfrydig i'r ddrama, ac yn sgil ymweliadau cwmni Tal-y-Sarn â'r Llan datblygodd y garwriaeth rhyngddi hi a William Pritchard. Yng nghanol y tridegau, priododd y ddau ac aethant i fyw i gartref Kitty.

Erbyn Rhagfyr 1940, roedd William Pritchard yn gyfarwyddwr cwmni drama anenwadol Llannerch-y-medd a pherfformiwyd y gomedi *Tywydd Mawr* (Gwynfor) yn nechrau 1941. Hwn oedd y cwmni cyntaf yn y sir i fanteisio ar nawdd a hyfforddiant Cyngor Gwlad Môn. Diddanu yn hytrach

na chystadlu oedd nod William Pritchard. Yn lleol, cyfeiriwyd ato fel 'Pritchard Drama', ond byr iawn fu ei gyfnod fel cyfarwyddwr, a chymerwyd drosodd ei fantell gan y Parchedig a Mrs. W.E. Jones yn 1942. Bu farw William Pritchard 3 Mawrth 1955, ac fe'i claddwyd ym mynwent Peniel, Llannerch-y-medd.

---

1 *Y Clorianydd,* 6 Ebrill 1955: *Teyrnged i Hen Actor* gan O. Llew Owain, 6.

## (6) Y PARCHEDIG WILLIAM EDWARD JONES ('AP GERALLT') A'I WRAIG MRS. M. JANET JONES ('SIONED PENLLYN')

Fe'i sefydlwyd yn weinidog ar yr Annibynwyr yn nechrau Rhagfyr 1942, ond roedd ei wraig, Janet, a'r efeilliaid wedi symud ato i Lannerch-y-medd ym mis Tachwedd. Bu'r ddau yn weithgar ym mhob agwedd o fywyd y gymdeithas gan gefnogi'r traddodiad dramayddol yn y Llan.

Yng Ngŵyl Ddrama Môn, 1944, gyda'r Parchedig John Pierce, Marian-glas, yn beirniadu, daeth 'Ap Gerallt' yn ail am gyfansoddi drama fer, *Llys Meddyg.*

Ond byr fu ei dymor yn y Llan, ac ym mis Hydref 1944, symudodd gyda'i deulu i Wrecsam i weithio fel Cenhadwr Llys.

Er mai ei gŵr oedd y gweinidog, Janet Jones fu gwir ysbrydoliaeth datblygiad y ddrama yng Nghapel Ifan ac yn y Llan. Am y ddwy flynedd y buont fyw yno, Janet fu'n cyfarwyddo y cwmni drama ifanc. Roedd hi'n llenor, yn gyfarwyddwr ac yn gyfansoddwr dramâu, ac yn ystod ei harhosiad yn y Llan, bu'n llwyddiannus mewn nifer o gystadlaethau llenyddol. Yn Eisteddfod Môn, 1943, enillodd y wobr gyntaf am ysgrif. Yng Ngŵyl Ddrama Môn 1944, daeth ei drama, *Gwewyr y Grog,* yn gyd-fuddugol â drama F.G. Fisher, *Y Blaidd Ddyn,* ac yn Eisteddfod Môn 1944,

enillodd y wobr gyntaf am ysgrifennu stori i blant. Yn yr un flwyddyn, bu'n fuddugol yn Llanuwchllyn gyda stori fer. Cyfansoddodd ail ddrama fer, *Wermod.*

(7) JOHN HUWS (JOHN STAMP)

Fe'i ganwyd yn Llannerch-y-medd yn 1913, yn un o ddau o blant William (1878–1955) ac Elizabeth Hughes (1878–1960). Ganwyd iddynt un ferch, Mari (1911–1988), a bu'r ddau yn byw gyda'i rhieni yn Y Stamp, Stryd Fawr, Llannerch-y-medd. Yn ystod bywyd John Huws, becws oedd Y Stamp.

Mynychodd yr Ysgol Sir yn Llangefni ar ddiwedd y dauddegau a dechrau'r tridegau, ac yn y wasg yn nechrau 1930 caed yr adroddiad canlynol amdano:

> EGIN CAPEL IFAN. – Pedwar o ddisgyblion yr Ysgol Sir, Llangefni, oedd yn annerch Cymdeithas Lenyddol Capel Ifan (A.), nos Fercher diwethaf, ar bedwar o brifion yr enwad Annibynnol. Dewisodd Mr. John Hughes, 'Old Stamp Office', Eifion Wyn,y bardd a'r telynegwr digyffelyb. Gŵyr pawb am John fel datganwr gyda'r tannau, ac am ei chwaer fel telynores...[1]

Wedi gadael yr ysgol, cafodd waith yn helpu Mr Price Owen yn y Fferyllfa yn y Llan. Arferai Mr Owen ddatblygu lluniau, ac yno y magwyd diddordeb John mewn ffotograffiaeth. Pan fu farw Mr Owen, ymgymerodd John â'r busnes ffotograffiaeth, a maes o law daeth ei fusnes fel ffotograffydd yn adnabyddus fel yr 'Express Photo Services'. Oherwydd iddo gael y dicâu pan oedd yn ifanc, ni chafodd fynd i'r fyddin. Yn hytrach, cafodd waith fel 'Billeting Officer' yn ogystal â helpu ei dad i ddosbarthu bara yn yr ardal.

Dechreuodd ymddiddori ym myd y ddrama tua 1930.

Yn ystod y tridegau a'r pedwardegau arferai ganu penillion mewn cyngherddau, gyda'i chwaer, 'Telynores y Llan', yn cyfeilio iddo. Bu'n fuddugol mewn nifer o eisteddfodau. Fel adroddwr daeth yn aelod o Barti Pencerddes Myrddin yng nghanol y pedwardegau, ond erbyn diwedd y

degawd roedd y ddrama wedi mynd â'i fryd. Daeth yn arferiad ganddo i gymryd ei wyliau yn ystod mis Hydref er mwyn chwilota am ddrama addas ar gyfer y tymor dilynol. Gyda hyn mewn golwg, byddai'n ymweld ag awduron drama fel Edna Bonnell a Huw Lloyd Edwards.

Mynychai John y gwasanaethau yng Nghapel Ifan yn gyson ond anaml iawn y cymerai ran yn gyhoeddus.

Erbyn diwedd y pumdegau daliai ddwy swydd, sef ffotograffydd a chofrestrydd, ac fe gofir am un ffaith ddiddorol amdano, sef ei hoffter o ddefnyddio pensil biws pan ysgrifennai.

Daeth yn un o gyfarwyddwyr drama mwyaf adnabyddus Cymru o ganlyniad i'w lwyddiant gyda chwmni drama Llannerch-y-medd er iddo, hefyd, gyfarwyddo cwmni drama Llanddeusant am gyfnod yn nechrau'r chwedegau. Doedd dim amheuaeth mai mewn comedïau a ffarsiau yr arbenigai.

O dro i dro fe'i clywid ar y radio.

Ddydd Mercher, 22 Tachwedd 1972, bu farw yn Ysbyty Abergele yn 59 mlwydd oed. Fe'i claddwyd gyda'i rieni ym mynwent Eglwys Llanfihangel Tre'r Beirdd. Yn 1988 claddwyd ei chwaer, Mari, yn yr un bedd. Roedd claddu pedwar mewn un bedd yn amgylchiad pur anghyffredin a bu'n rhaid adeiladu'r bedd yn uwch na'r gweddill.

Roedd ganddo bersonoliaeth hwyliog, ac mewn teyrnged iddo yn dwyn y teitl *Hebrwng John Hughes* caed y disgrifiad canlynol ohono gan T.D.H.:

'Gŵr distaw, a llawen ei natur, oedd John – caredig a pharod ei gymwynas.'[2]

---

1 *Yr Herald Cymraeg,* 28 Ionawr 1930, 5.

2 *Herald Môn,* 5 Rhagfyr 1972, 5.

## (8) OWEN WILLIAMS (1896–1972)

Fe'i ganwyd 22 Medi 1896, yn Aberffraw yn fab i William (1863-1922) a Margaret Williams (1864–1928). Roedd ganddo un chwaer, Priscilla (1883–1968).

Derbyniodd ei addysg elfennol yn ysgol y pentref a threuliodd ryw ddwy flynedd yn Ysgol Sir Caergybi ond, oherwydd tlodi, gorfodwyd ef i adael a mynd i weini ar ffermydd yn ardal Aberffraw. Yn ystod ei flynyddoedd cynnar daeth dan ddylanwad W. J. Griffith, Henllys Fawr, a buan y datblygodd yn adroddwr effeithiol ac adnabyddus.

Priododd â Margaret (1898–1977), merch Evan (1877–1951) a Margaret Jones (1877–1962) o Lanfaelog. Ganwyd iddynt ddau o blant, Eirlys (1922–1990) ac Elwyn (1931–1998).

Ar ddiwedd y dauddegau cafodd waith gyda Chwmni Yswiriant Prudential a symudodd y teulu i fyw i Langefni. Yno, yn ystod ail hanner 1929, ymaelododd y teulu â Chapel Moreia (MC). Erbyn 1931, roedd yn athro yn yr Ysgol Sul, yn aelod o Gymdeithas y Bobl Ieuanc ac yn gyfarwyddwr y cwmni drama. Yn Adroddiad Moreia 1933, fe nodir mai ef oedd yn gofalu am y Cyfarfod Darllen a gynhaliwyd bob nos Sul am hanner awr wedi wyth o'r gloch.

Yng nghanol 1934, symudodd gyda'i deulu i Amlwch i ddilyn ei yrfa gyda'r Prudential. Ymhen ychydig amser symudodd am y tro olaf i'w gynefin yn Llanfaelog a Bryndu.

Yng nghanol y pumdegau daeth ei lais yn gyfarwydd ar y radio drwy Gymru gyfan. Yn dilyn ei farwolaeth yn 1972, ymddangosodd y deyrnged ganlynol iddo yn y wasg:

> ...[D]aeth yn adnabyddus yn ei ddydd i gylch eang, ond daeth yn fwy adnabyddus mewn cyfnod diweddarach drwy'r rhaglenni radio y byddai'n cymryd rhan ynddynt. Cofir am y gyfres *Teulu'r Siop*[1] pan oedd ei lais yn seinio ym mhob aelwyd drwy'r wlad. Yn ogystal a bod yn adroddwr ei hun, hyfforddodd lawer o blant a rhai hŷn yn y gelfyddyd a daeth rhai o'i ddisgyblion yn enillwyr cenedlaethol...[2]

Daeth ebychiad ei gymeriad, Jacob Humphreys, "Wel Huw Jôs Ned", yn rhan naturiol o'n hiaith bob dydd dros gyfnod y gyfres.

Bu farw 20 Tachwedd 1972, ac fe'i claddwyd ym mynwent Bryndu. Bu farw ei wraig 25 Ionawr 1977, ac fe'i claddwyd gyda'i gŵr.

---

1 TEULU'R SIOP: Darlledwyd pennod gyntaf o'r gyfres wythnosol nos Fercher, 29 Medi 1954. Ysgrifennwyd y gyfres gan Idwal Jones, Islwyn Ffowc Elis a Gruffydd Parry. Fe'i cyfarwyddwyd gan Wilbert Lloyd Roberts. Yn y *Radio Times*, 24 Medi 1954, caed erthygl gan y cyfarwyddwr yn dwyn y teitl *An Invitation to Llanfwynach:*

Early in July, three writers, all well known to Welsh listeners, met in my office to discuss a new family serial. We talked at some length of settings and characters, atmosphere and content. Finally we decided that the setting should be a typical small Welsh village and that the serial should reflect life as it happens there week by week...

By the time of our next meeting, the village of Llanfwynach had been discovered.We found it...typical of a way of life still to be found in many Welsh villages today. It has one church, one chapel, one hotel and one shop. There are two rows of houses and around them several cottages, some of them half-hidden by the trees. Council houses have recently been built there, together with a few agricultural cottages. The main road is some three miles away. The nearest town is ten miles distant, and without a car you can only get there by a bus which runs twice a day...Snowdon is visible in the distance...Running clear and sparkling nearby is the River Mwynach...

How do people react when they first see Llanfwynach? Some find it old-fashioned in many ways. It has no electricity, although the new council houses are wired for it and it is on the way...The present village hall is a dilapidated old hut...the inhabitants are so happy in their life and work even without the amenities taken for granted in a more modern village.

...Somehow in our search for a family to reflect life in Llanfwynach we always come back to the village shop run by old Jacob Humphreys and his wife Hanna, where everything the busy housewife might want is on sale – grocery, drapery, ironmongery, newspapers. It is also the village post office.

...life in Llanfwynach revolves around *Siop y Bont*. It is a place of importance in the community...From behind the counter Jacob and Hanna view with kindly eyes the ever-changing pattern of life in Llanfwynach...

Why not drop in on *Teulu'r Siop* at 7 p.m. on Wednesday? I think that having met the family once and made the aquaintance of some of the villagers you will want to call again. I hope so; you will always be welcome at *Siop y Bont*.

Y Cymeriadau

| | |
|---|---|
| Jacob Humphreys | Owen Williams |
| Hanna, ei wraig | Emily Davies |
| Bet y Post | Nel Hodgkins |
| Tom Pugh | R. Llywelyn Thomas |
| Christine | Sheila Huw Jones |
| Gruffydd Ellis | Dick Hughes |
| Ann Ellis | Mair Parry |
| Glyn Ellis | Aled Owen |

Wrth ddarllen y rhan gyntaf o'r bennod bresennol caiff y darllenwr ei dywys yn ddigon naturiol i gymharu Llanfwynach â'r hyn a gaed ym mhentref dychmygol W.J. Griffith, Llanaraf. Gellir dychmygu Owen Williams yn ei ogoniant tu ôl i gownter *Siop y Bont* yn ail-fyw hynt a helynt Williams y Siop yn *Storïau'r Henllys Fawr,* storïau yr oedd ef ei hun mor gyfarwydd â hwy. Yn sicr roedd y rhod wedi troi.

Roedd Nel Hodgkins yn nain i'r actores adnabyddus Gwenno Hodgkins. Roedd hefyd yn aelod o gwmni drama Llangefni yn ystod ail hanner y pedwardegau ac yn aelod o barti adrodd Edward Williams yn ystod y pumdegau.

2 *Herald Môn*, 28 Tachwedd 1972, 7.

## (9) EDWARD WILLIAMS (1906–1992)

Fe'i ganwyd 24 Chwefror 1906, yn Aberffraw. Ganwyd ei chwaer, Margaret, yn Aberffraw, 13 Awst 1902, a bu farw yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, 18 Hydref 1984.

Oherwydd tlodi, treuliodd ran helaeth o'i blentyndod gyda'i daid a'i nain a derbyniodd ei addysg elfennol yn ysgol y pentref cyn ymadael yn dair ar ddeg a hanner mlwydd oed a mynd i weini ar ffermydd yn yr ardal. Fel ei ewythr, Owen Williams, daeth dan ddylanwad y capel ar y naill law a W. J. Griffith ar y llaw arall, a daeth yn ffrind agos i'r diweddar Barchedig William Llewelyn Lloyd.

Yn 1929 dilynodd ei ewythr i Langefni a threuliodd ddwy flynedd yn gofalu am stoc a thir Mr T. Smyrna Jones. Ymaelododd ym Moreia (M.C.) ac aeth i fyw at ei ewythr a'i deulu yn Angorfa, Ffordd Glanhwfa.

O 1931 hyd 1933 bu'n gweithio ar y ffordd, ac yng nghanol y tridegau cafodd waith fel gyrrwr lori cwmni Hugh Hughes a'i Feibion yn y dref, a daeth yn adnabyddus fel 'Ned Siop Gray'.

Yn 1930, sefydlwyd Cwmni Drama Moreia a phenodwyd Owen Williams yn gyfarwyddwr. Daeth Edward yn aelod o'r cwmni. Ym Moreia cyfarfu â Margaret Jane Williams, ac ar 27 Mawrth 1937, priodwyd y ddau yng Nghapel Bryntwrog lle y gweinidogaethai y Parchedig W. Llewelyn Lloyd. Aethant i fyw i London House, Llangefni, ac ymhellach ymlaen, i Tegid House. Ym Mawrth 1939, ganwyd mab iddynt.

Yn 1943, symudodd y teulu i fyw i Dŷ Capel Moreia fel gofalwyr, ac fel gŵr Tŷ Capel, treuliodd Edward y chwe blynedd nesaf yn ei addysgu ei hun yng nghwmni'r saint. Yn ystod yr un cyfnod, datblygodd fel arweinydd cyngherddau, nosweithiau llawen ac eisteddfodau, ac yn fuan daeth yn gyfarwyddwr drama. Rhwng 1944 a 1948 daeth cwmni'r dref yn ail bum gwaith yn olynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ym Mai 1949, symudodd y teulu i fyw i dŷ cyngor yn y dref, 21 Maes Hyfryd.

Penodwyd Edward yn rheolwr ar ran o fusnes Hugh Hughes a'i Feibion, ac yn nechrau'r chwedegau sefydlodd fusnes cyffelyb gyda phartner yn y Fali.

Yn nechrau'r pumdegau dechreuodd hyfforddi adroddwyr o bob oed, a thros y blynyddoedd blasodd lwyddiant cyson ar lefel leol a chenedlaethol.

Ymaelododd yng Nghapel Lôn-y-Felin yn y dref, ac yn dilyn corffori'r capel yng Ngorffennaf 1974, etholwyd ef yn un o flaenoriaid cyntaf yr eglwys o dan weinidogaeth y Parchedig J.M. Job.

Bu yn arweinydd, yn aelod o'r Pwyllgor Adrodd, ac yn feirniad cenedlaethol. Yn ogystal, bu'n aelod o Gyngor Tref Llangefni, ac yn Faer yn 1981-2.

Anrhydeddwyd ef â'r Wisg Werdd yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1963, ac â'r Wisg Wen yn Abertawe, 1982. Yn Eisteddfod Genedlaethol Rhyl, 1985, derbyniodd Fedal Goffa Syr T.H. Parry-Williams (Er Clod).

Yn Awst 1986, bu farw ei wraig Maggie, ac fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus y dref.

Yn 1991, derbyniodd Edward Williams Fedal Gee: anrhydedd yr oedd ganddo feddwl mawr ohoni.

Yn Ionawr 1992, bu farw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ac fe'i claddwyd gyda'i wraig.

Golygwyd cyfrol arno gan O. Arthur Williams: *Cofio'r Adnabyddiaeth: Edward Williams, Llangefni, 1906-1992* (Caernarfon 2001).

## (10) HUGH OWEN HUGHES (1856-1932)

Mab hynaf Richard (1823-1895) ac Anne Wynn Hughes (1825-1913), Cefn Mawr Isaf, Llangaffo, Môn. Ganwyd ail fab iddynt, Richard Lloyd, 28 Mawrth 1858, ond bu farw yn bedair oed ar 4 Gorffennaf 1862. Hefyd, ganwyd iddynt dair merch, Dora, Margaret a Jane Mary, ac un mab arall yr hwn a enwyd eto yn Richard Lloyd.

Dibriod fu Hugh Owen Hughes a'i chwiorydd gydol eu hoes.

Yn *Y Clorianydd*, 21 Rhagfyr 1932, caed teyrnged iddo yn dechrau â'r geiriau

> Collodd Môn un o'i gwŷr mawr ddydd Mercher diweddaf trwy farwolaeth...yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu ei daid, Hugh Hughes, yn codi glo yn y Morfa Mawr (Cors Ddyga) ger Taihirion. Adnabuwyd y lofa fel *Gwaith Hugh Hughes*. Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ei dad, Richard, oedd yn rhedeg busnes odynau calch Lledwigan, ac yno yn y swyddfa y gweithiai H.O. Hughes

dros gyfnod ei lencyndod. Ond wrth i'r gwaith calch ddirwyn i ben, fe'i hapwyntiwyd yn ysgrifennydd preifat i D.A. Thomas, Aelod Seneddol dros Ferthyr ac un o feistri gwaith mwya'r De. Yn rhinwedd ei swydd, symudodd H.O. i Lundain lle bu'n cyd-letya â David Lloyd George. Datblygodd fel llenor, ac yn ôl y deyrnged:

> ...Dechreuodd ymddiddori yn y ddrama, ac ysgrifennodd amryw o "sketches" Saesneg, y rhai a berfformiwyd ar rai o brif lwyfannau Llundain. Ond yr oedd ei gwrteisrwydd yn gyfryw fel na ddadlennodd eu hawduraeth.

Ysgrifennodd ddramodau byrion yn Gymraeg a chyhoeddwyd pump ohonynt, sef *Coron y Bardd, Y Lodger, Yr Unig Fab, Yr Hen Iaith* a'r *Melinydd.* Yn 1914, cyhoeddwyd y tair olaf mewn un gyfrol gan The Welsh Outlook Press, Caerdydd.

Rywbryd cyn y Rhyfel Mawr, dychwelodd i'w gartref, Cefn Mawr Isaf, lle y treuliodd weddill ei oes gyda'i chwiorydd.

Bu ei gyfraniad i'w ardal ac i'w sir yn eang a dylanwadol fel y tystia y ffeithiau canlynol:

Yn 1912, fe'i codwyd yn Ynad Heddwch a bu'n aelod o Bwyllgor yr Heddlu.

Fe'i penodwyd yn Llywodraethwr Ysgol Sir Llangefni.

Amlygodd ei hun yng ngwaith Cymdeithas Undeb Neuaddau y Sir.

Yr oedd yn aelod blaenllaw o Gymdeithas Hynafiaethwyr Môn, a chynrychiolodd Môn ar Gyngor yr Amgueddfa Genedlaethol.

Bu'n aelod o amrywiol bwyllgorau a chynghorau yn ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Er iddo gael ei ethol yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Niwbwrch yn 1910, gwrthododd yr anrhydedd ond, serch hynny, nodweddid ef gan grefyddoldeb dwfn a distaw, ac awyddfryd cryf bob amser i wneud yr hyn oedd yn iawn.

Yn Adran y Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi, 1927, cafodd y fraint o gyd-feirniadu â'r Athro J. Lloyd Williams a J.J. Williams.

Fe'i claddwyd ym medd dwbl y teulu yn Eglwys y Plwyf, Llangaffo, Môn.

## (11) DEWI LLWYD JONES (1912-1979)

Ganed Dewi Lloyd Jones 18 Tachwedd 1912, yn fab i'r Parchedig a Mrs. John Lloyd Jones. Gan mai gweinidog gyda'r Wesleaid oedd ei dad, crwydrol fu plentyndod Dewi. Yn unol â threfn y Wesleaid, symudwyd eu gweinidogion bob tair blynedd, ac yn ôl y drefn honno symudwyd y Parchedig J. Lloyd Jones a'i deulu.

Bu'n gweinidogaethu yn Ffestiniog hyd 1925, yng Nghaergybi (1925-28), Treffynnon (1928-31), Caergybi eto (1931-32), Merthyr (1932-34), Ffynnongroyw (1934-39), gan ymddeol o'r weinidogaeth ar ddiwedd ei gyfnod yn Llanfairfechan (1939-45).

Derbyniodd Dewi ei addysg uwchradd yn Ysgolion Sir Blaenau Ffestiniog, Caergybi a Threffynnon, a threuliodd bum mlynedd (1931-36) yng Ngholeg Prifysgol Cymru Bangor gan ennill gradd B.A. (Saesneg a Chymraeg) yn ogystal â Thystysgrif Athro.

Erbyn canol y pedwardegau dechreuodd amlygu ei hun ym myd y ddrama ac yn llenyddol ar lefel genedlaethol, a chan fod hanes ei fywyd yn prysur ddiflannu i niwl y gorffennol teimlir hi'n ddyletswydd i ymhelaethu rhyw ychydig ar ei lwyddiant cynnar.

Un o'r cystadlaethau a osodwyd yn yr Adran Drama ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Y Rhos yn 1945, oedd cyflwyno cyfaddasiad o ddrama un act. I'r ymgeisydd buddugol cynigiwyd gwobr o bumpunt ynghyd â'r hawlfraint. Yn ei feirniadaeth, eglurodd Eic Davies mai

> Cyfaddaswr yw'r dramaydd bob amser. Yn y gystadleuaeth hon cyfyngir ar ei dir...Fe ddylai fod yn greadigaeth lenyddol wreiddiol a eill ddiddanu a diddori'r sawl na ŵyr ddim am ffynhonnell y symbyliad.[1]

Wedi trafod arddull a chynnwys cynigion y naw cystadleuwr arall, cyflwynodd y beirniad ei sylwadau ar waith y degfed ymgeisydd:

> Dywed *Waeth Pwy* taw "drama wedi ei seilio ar gefn syniad gwreiddiol ar bwys stori'r Tri Llanc yn Llyfr Daniel" yw "Y Tri Llanc"... Defnyddir rhyw bymtheg o actorion unigol, côr adrodd a chôr canu (neu recordiau) – y mae'r gerddoriaeth yn rhan o dyfiant y ddrama. Drama simbolaidd yw hon. Dyma ymgais ganmoladwy i roi ar lwyfan ddarn o ysbryd cyfoes ein cenedl...Yn y theatr y mae barnu hon yn deg

– fel y mae barnu pob drama arall, o ran hynny...[mae] yn mynd yn rhy eiriog. Byddai'n gryfach mewn dwy olygfa'n unig...Mae'n ofalus drwodd, ac yn hawdd ei ddeall gan gynulleidfa ddrama. Dyma seiliau drama o bwys.

...y mae'n hen bryd trefnu rhoi'r tair neu'r bedair drama orau ar lwyfan cyn barnu'n derfynol – os bydd y safon yn galw am hynny. Ar hyn o bryd nid yw'r gystadleuaeth ond math ar ryw wasanaeth cudd rhwng y cystadleuydd a'r beirniad. Datblygu dramâu yw'r nod, nid darganfod enillwyr. Er nad oes yn y gystadleuaeth hon ddim sy'n anobeithiol, ni chredaf y cynhyrchwyd gwaith gorffenedig sy'n llawn deilwng o glod Eisteddfod Genedlaethol. Eithr rhaid cydnabod bod yma gynnig da. Gan hynny awgrymaf fod rhoi teirpunt o wobr i *Waeth Pwy,* a dwybunt i *Gadwgan,* er mwyn eu helpu i roi eu gwaith ar lwyfan a'i wella.

Dewi Llwyd Jones, 47 Park Road, Bargoed, oedd *Waeth Pwy,* a J. Christmas Williams, Porthmadog, oedd *Cadwgan.* Ar y cyfan roedd hi'n feirniadaeth adeiladol a gobeithiol. Yma ac acw yn ei sylwadau fe deimlir bod Eic Davies yn cyfeirio, efallai yn hollol ddiarwybod iddo'i hun, at rai agweddau ym mhersonoliaeth Dewi a oedd i amlygu eu hunain ymhellach ymlaen. Hyd y gwyddys, ni wnaed unrhyw ymdrech i wella nac i lwyfannu *Y Tri Llanc.*

Yn yr un eisteddfod, cynigiwyd gwobr o ddwy gini am ysgrif ar 'Calendr', 'Yr Oriau Mân' neu 'Yr Argraffiad Cyntaf', gyda J. Gwyn Griffiths yn beirniadu. Cynigiodd dau ar bymtheg a daeth pedwar i'r Dosbarth Cyntaf – *Dafydd Ddu, Hilary, Ifan Sion* a *Waeth Pwy.* Er mai *Dafydd Ddu* (D. Eurwyn Morgan, Pontyberem) a gipiodd y wobr, cydnabu'r beirniad:

[Bod] gwaith ymgeiswyr fel *Hilary* a *Waeth Pwy* yn llawn dwyster a difrifoldeb gerwin. Ysgrifau gwych ydynt er hynny, a rhin personoliaeth yn amlwg ynddynt...

*Waeth Pwy* ['Yr Oriau Mân'] yw athronydd y gystadleuaeth, a chanddo ef y cefais yr ysgrif wreiddiolaf...[2]

Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar y flwyddyn ddilynol, ymgymerodd Dewi â thasg bur wahanol a thra ymestynnol. Gofynnwyd am Draethawd Beirniadol ar Gyfrol Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Y Rhos, 1945, a phenodwyd Iorwerth C. Peate a D. Tecwyn Lloyd[3] i feirniadu. O'i chymharu â gwerth y wobr o ddecpunt, fe sylweddolir maint y dasg.

Wedi condemnio disgwyliadau Cyngor yr Eisteddfod ynglŷn â'r beirniadu, cydnabu Iorwerth Peate bod '...testun y gystadleuaeth hon yn un diddorol a'r gystadleuaeth ei hun ar y cyfan yn llwyddiant'. Trafodwyd gwaith y chwe ymgeisydd arall a daethpwyd at yr olaf:

> Erys traethawd *Bys Bach,* neu i roddi iddo ei enw llawn
> *Bys Bach, druan ŵr,*
> *Dynnodd y lleill drwy'r dŵr.*
>
> Dengys y traethawd hwn fod ei awdur yn gwybod beth yw hanfodion beirniadaeth lenyddol. Y mae'n draethawd cytbwys, clir. Nid yw'r iaith bob amser yn ddifai...Yn ddiddadl dyma draethawd gorau'r gystadleuaeth: nid oes amheuaeth am hynny. Ac y mae'n llawn deilyngu'r wobr. Gobeithiaf yn fawr y cyhoeddir ef...yng Nghyfrol Eisteddfod 1946[4]...*Bys Bach* biau'r wobr.

Trosglwyddwyd y saith traethawd i sylw D. Tecwyn Lloyd, a diddorol yw nodi gwirder a doniolwch ei sylwadau yntau ar ddechrau ei feirniadaeth:[5]

> Sefyllfa hynod iawn sydd gan feirniaid y gystadleuaeth hon: y maent yn beirniadu beirniadaeth ar feirniadaethau (gan mwyaf). Hynotach fyth, os parheir y gystadleuaeth hon o flwyddyn i flwyddyn, fydd sefyllfa ein holynwyr ni yn y gwaith hwn, canys yng nghyfrol Aberpennar fe gynhwysir y feirniadaeth hon a hefyd, ni obeithiwn, y traethawd a wobrwyir gennym. Y flwyddyn nesaf[6] felly, byddir, ymhlith pethau eraill, yn beirniadu beirniadaeth o feirniadaeth ar feirniadaethau.

Ar ôl trin a thrafod yn fanwl waith y chwe ymgeisydd arall, daeth D. Tecwyn Lloyd at ymgais

> *Bys Bach.* Gan obeithio y cyhoeddir hwn, nid âf i fanylu ar ei gynnwys...dywedaf imi gael gan *Bys Bach* yr union beth â ddymunwn, sef trafodaeth gymesur, gytbwys, o'r gyfrol: awgrymiadau defnyddiol, arddull ddethol i'r gwaith a gweledigad clir o'r gyfrol fel undod ynddi ei hun ac fel gwaith mewn cyfres...Yma a thraw...y mae nifer o wallau teipio. Ymhob paragraff beirniadol ceir synnwyr cyffredin cryf...
>
> Mae hwn yn fwy na beirniadaeth ar gyfrol un flwyddyn, er nad yw'n camu y tu allan i'r gyfrol honno. Gwaith anodd iawn, yn fy marn i, oedd gwaith y gystadleuaeth hon: llwyddodd *Bys Bach* i'w wneud yn dda. Rhoddir y wobr gyflawn iddo gyda chlod mawr.

Er na ddatgelir enw yr ymgeisydd buddugol yng nghynnwys Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Aberpennar, fe nodir yn Adroddiad 1946[7] mai Dewi Lloyd Jones oedd *Bys Bach.* Yn y cyswllt hwn, diddorol yw sylwi fel y cyfeirir ato fel Dewi Llwyd yn 1945 ac fel Dewi Lloyd yn 1946.

Ond i drigolion Môn o 1947 ymlaen, fe'i hadwaenir fel Dewi Llwyd, ac i'w ffrindiau fel Llwyd.

Yn ei ddewis o ffugenwau, *Waeth Pwy* yn 1945 a *Bys Bach* yn 1946, gellir synhwyro bod ochr gellweirus yn perthyn iddo. Yn sicr, roedd ganddo ddaliadau pendant, a mynegai hwynt yn eofn ac yn hyderus. Ceir enghraifft dda o hyn ar derfyn ei Draethawd Beirniadol yn Aberpennar:

> ...daeth yn bryd i'r Eisteddfod ddatblygu yn rhywbeth amgenach na siou mis Awst, ac yn bryd i'r ymgeiswyr ymgeisio i gyrraedd safon yn hytrach nag ennill gwobr. Wrth ddatblygu yn gyfundrefn â rydd bwys ar werth cynhenid yn hytrach na gwerth cymharol, byddai'r Eisteddfod yn rym yn natblygiad beirniadaeth lenyddol yng Nghymru, ac hefyd yn nawdd teilwng i lenyddiaeth. Ar hyn o bryd nid oes gennym gorff cyhoeddus yng Nghymru a all anrhydeddu ein llenorion....Gallai'r Eisteddfod drwy ei beirniaid arloesi'r ffordd i sefydlu, ymhen amser, gorff cyhoeddus yng Nghymru, a fyddai'r cyflawni'r swydd a wna yr *Academie Francaise* yn Ffrainc. Gellid yn hawdd ddefnyddio'r arian a roddir yn awr mewn gwobrau i gyhoeddi gwaith teilwng. Prysured y dydd pan wêl Cyngor yr Eisteddfod nad yw gwobrau yn anrhydedd, ond mai trwy gyhoeddi llenyddiaeth a thrwy chwarae dramâu a cherddoriaeth y gellir rhoddi gwir glod i gelfyddyd.[8]

Dilynwyd ei lwyddiant llenyddol yn Eisteddfod Genedlaethol Y Rhos, 1945, ac Aberpennar, 1946, gyda buddugoliaeth arall yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1947. Gyda J. J. Williams, D. Haydn Davies a J. Ellis Williams yn beirniadu, dyfarnwyd ymdrech Dewi Llwyd yn gydradd gyntaf â Thomas Salisbury Jones, Penmaenmawr, am gyflwyno '*Llawlyfr yn Gymraeg,* heb fod tan 20,000 o eiriau ar y dull gorau o gynhyrchu a llwyfannu drama gan ystyried yn neilltuol anawsterau cwmnïau mewn ardaloedd gwledig'.[9]

O gofio ei fod wedi dechrau fel Trefnydd Drama Môn yn nechrau Mai, roedd ei lwyddiant eisteddfodol yn Awst yn berthnasol iawn i ofynion dramayddol ei swydd newydd. Er mai dim ond dau lawlyfr a gyflwynwyd ar gyfer y gystadleuaeth, mae'n amlwg i'r beirniaid gael eu plesio. Dyfynnir o feirniadaethau'r ddau:

> Derbyniais ddau lawlyfr a chefais flas ar ddarllen y ddau fel ei gilydd...Bydd apêl un at y rhai â gymer ddiddordeb cyffredinol ond goleuedig yn y ddrama, - at fynychwyr cyson chwaraedai. Bydd apêl y llall at y rhai a gymer ran ymarferol naill ai mewn actio neu yntau mewn cynhyrchu dramâu...

> Y mae i'r ddau lyfr eu rhagoriaethau, ond eu bod yn ragoriaethau gwahanol, ac ni fedraf ddewis rhyngddynt. Cytunaf felly a'm cyd-feirniaid fod y ddau yn gyfartal ac na fedrwn wneud yn well na rhannu'r wobr rhyngddynt.
>
> J. J. Williams[10]

> ...gallaf dystio'n bendant fod y ddau ohonynt yn dda, yn dda iawn, ac yn werth llawer iawn mwy na'r wobr a gynigir...
>
> ...ni fedraf wneud yn well na diolch bod dau lyfr mor dda wedi dod i'r gystadleuaeth, ac awgrymu i'm cyd-feirniaid ein bod yn rhannu'r wobr rhwng y ddau...
>
> J. Ellis Williams[11]

Yn 1946, gweithiai Dewi fel athro Saesneg yn Ysgol Sir y Bechgyn, Bargoed, ond yn nechrau 1947 fe'i hapwyntiwyd yn Drefnydd Drama Môn a symudodd i'r ynys gyda'i wraig, Gwyneth, i ddechrau ar ei swydd newydd 1 Mai, 1947. Aethant i fyw i dŷ o'r enw *Werneth* ym mhlwyf Llanfair Mathafarn Eithaf lle buont fyw hyd 1951. Does dim amheuaeth fod ei gymwysterau llenyddol a'i brofiad ym myd y drama[12] wedi ateb gofynion y swydd; hynny yw, y gofynion a hysbysebwyd gan Bwyllgor Addysg Môn yn *Y Cymro, Y Faner,* y *Western Mail, The Liverpool Daily Post, The Stage* a *The Times Educational Supplement.* Boed hynny'n fwriadol neu beidio, fe anwybyddwyd un cymhwyster. Doedd Dewi ddim yn berchen car ac ni fedrai yrru car. Fe gofir amdano yn cerdded neu'n teithio ar fws. Mewn sir wledig fel Môn, ac yn arbennig felly yn ystod y pedwardegau a'r pumdegau, byddai ymweld â chanolfannau cymdeithasol ac ysgolion anghysbell yn dasg bur anodd heb gar. Byddai gwneud hynny gyda'r nos yn anos fyth.

Gweithredodd fel Trefnydd Drama am bum mlynedd hyd nes i'r swydd ddod i ben ym mis Mawrth, 1952. Hyd y gwyddys does dim tystiolaeth swyddogol ar gael i egluro pam yn union y daeth ei swydd fel Trefnydd Drama Môn i ben mor ddisymwth. O'r herwydd, ni ellir yma ond damcanu ynglŷn â'r rhesymau.

Gan fod E.O. Humphreys a Dewi Llwyd Jones yn meddu ar bersonoliaethau a gwelediaethau pur eithafol mewn llawer ystyr, awgrymir efallai bod gwrthdaro cyson wedi digwydd rhwng y ddau yn ystod y pum mlynedd. Wedi dweud hyn, mae'n debyg y gellid dadlau na ddylai sefyllfa o'r fath fod wedi datblygu rhwng dau ŵr proffesiynol, ond...

Yn ystod 1948-9, apwyntiwyd Mr Henley James yn Drefnydd Cerdd y Sir a hynny am bron yr un cyflog â'r Trefnydd Drama. Felly, os mai problemau ariannol oedd yn bodoli yn 1952, anodd yw dirnad pam y dilewyd un swydd ac y diogelwyd y llall. Fodd bynnag, fe gofir nad oedd Dewi yn berchen car ac mai ar fws y teithiai rhan amlaf o gwmpas y sir. Yng nghofnodion y Pwyllgor Addysg Bellach a gynhaliwyd yn niwedd Rhagfyr, 1951,[13] fe sylwir bod costau teithio y Trefnydd Drama am 1950-1 yn £213, a chostau'r Trefnydd Cerdd yn £99. O gofio bod cyflog y naill yn £600 y flwyddyn a chyflog y llall yn £579, fe sylweddolir fod costau teithio y ddau drefnydd, fel canran o'u cyflogau yn 35.5% a 17.1%.

Os mai ystyriaethau ariannol fel hyn oedd y prif reswm dros ddileu swydd Dewi Llwyd Jones, ni ellir anwybyddu arwyddocâd y datganiad canlynol a wnaed yn yr un cofnodion:

Drama Service in the County

It was decided to defer consideration of the following matters until a further meeting of this Committee be called before 31 March, next [1952]:

(a) to devise some other means to continue drama education work in the County
(b) Disposal of the following material now held on charge by the County Drama Adviser:
    (i) Books in the County Drama Library
    (ii) Drama equipment [14]

Gellir dadlau bod (a) uchod yn hollol berthnasol i dynged Dewi. Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r uchod, ymddangosodd yr wybodaeth ganlynol yng nghofnodion y Pwyllgor Addysg Bellach, 19 Mehefin, 1952:

12 STANDING CONFERENCE OF DRAMA ASSOCIATIONS .- That they have received a letter, dated 8th April 1952, from the County Councils Association with regard to the training of tutors and teachers of drama.[15]

Erbyn Medi 1953, roedd pedair ysgol gyfun wedi eu sefydlu ym Môn. Fel rhan o'r cwricwlwm, roedd cerddoriaeth yn bwnc arholadwy a chyflogwyd arbenigwyr i'w ddysgu. O'r herwydd, gwerthfawrogwyd bod angen cyflogi Trefnydd Cerdd er sicrhau cysondeb yn y dysgu, i gynnig cymorth ac arweiniad i'r athrawon cerdd, ond yn bennaf oll i drefnu ac arolygu cerddorfa'r sir, ymweliadau, a gofalu am gyflenwad digonol o

offerynnau. Yn yr ysgolion cynradd, hyd yn oed, rhoddwyd lle blaenllaw i ganu a cherddoriaeth ond ychydig iawn o sylw a roddwyd i ddrama. Ar sail hyn, efallai y teimlid nad oedd angen Trefnydd Drama. Trwy ddileu y swydd a phenodi athrawon a chanddynt ddiddordeb mewn cyflwyno drama fel rhywbeth atodol, gwelodd y Pwyllgor Addysg ei gyfle i arbed arian yn ogystal â hybu diddordeb yr ysgolion mewn drama. O fewn tair blynedd o golli ei swydd fel Trefnydd Drama, cafodd Dewi ei benodi yn athro Saesneg yng Nghaergybi ar y ddealltwriaeth y byddai, hefyd, yn ymgymryd â dramâu'r ysgol.

Gan ei fod yn gyflogedig gan y Pwyllgor Addysg, a chyn iddo fynd i Gaergybi, fe'i trosglwyddwyd yn athro i Ysgol Eilradd Fodern Amlwch hyd Awst, 1952,[16] ac fel athro Saesneg yn Ysgol Gyfun Syr Thomas Jones, Amlwch, hyd ddiwedd tymor y gwanwyn, 1955. Yn Rhagfyr, 1954, gwnaethpwyd y penderfyniad canlynol ynglŷn â phenodiad athro Saesneg yn Ysgol Gyfun Caergybi:

> That Mr D.Ll. Jones, BA, be appointed English Teacher ... as from the beginning of the summer term, 1955. (Mr Jones gave an undertaking to be responsible for drama activities throughout the school and that he would produce either an English or Welsh play annually).[17]

Yng Nghaergybi, bu'n athro Cymraeg a Saesneg hyd ei ymddeoliad yn 1974. Ym mis Hydref 1965,[18] apwyntiwyd E. Gwynn Jones yn Ddirprwy Brifathro'r ysgol o ddechrau Ionawr, 1966, ac allan o'r chwe ymgeisydd am y swydd cyfwelwyd Dewi yn un o dri. Yn ystod y chwedegau bu'n Bennaeth yr Adran Gymraeg, swydd a ddaliodd hyd ei ymddiswyddiad 31 Rhagfyr, 1970:[19]

O 1956 hyd 1966, Dewi oedd golygydd cylchgrawn yr ysgol, *Yr Ynys*. Fe'i dilynwyd fel golygydd gan Miss Menna Lloyd Williams.

Yn ystod yr ymchwil casglwyd rhestr gynhwysfawr o ddisgrifiadau ohono gan ei gyfoedion:

> galluog/clyfar/disglair
> dyn arbennig
> 'flamboyant' ac 'over-the-top' fel cyfarwyddwr drama
> carismatig
> gwahanol
> 'Roedd 'na rywbeth amdano fo ...
> llenyddol
> gwybodaeth anhygoel

diog
'anti-establishment' a 'controversial'

Ond mae un disgrifiad ohono yn cwmpasu'r oll o'r uchod, sef ei fod yn 'greadur cymhleth iawn'.

O gofio mai disgrifiadau ei gyfoedion, ei gyd-athrawon a'i gyd-ddramodwyr ohono yw'r rhestr uchod, gellir dadlau ynghylch gwir ddilysrwydd ei chynnwys. Wedi'r cwbl, efallai mai barn y disgyblion yw gwir fesur unrhyw athro neu athrawes. O 1946 hyd ddiwedd 1964, Trevor Lovett oedd Prifathro Ysgol Uwchradd Caergybi. Fe gofir amdano fel disgyblwr, gweinyddwr ac arloeswr. Yn ystod y pumdegau, un o fanteision bod yn ddisgybl yn y Chweched Dosbarth oedd cael ymlacio a hamddena yn ystod y gwersi rhydd. Penderfynodd y prifathro ddileu y fath wastraff amser a phenodwyd Dewi Llwyd Jones i arwain cyfnodau o *Civic Studies*. Gellir dychmygu yr atgasedd a'r anfodlonrwydd a fodolai ymysg disgyblion y Chweched Dosbarth. Un o'r disgyblion hynny oedd Dilys, gwraig y Parchedig Evan J. Jones. Yn ei sylwadau ysgrifenedig, dyma beth ddywed am y cyfnod:

> Bu'n [Dewi] athro ar fy ngwraig, Dilys, pan oedd hi'n y Chweched Dosbarth, ac mae hi'n tystio ei fod yn gymeriad unigryw gyda gallu rhyfeddol i wneud pob peth yn ddiddorol. Roedd yn eu cymryd mewn gwersi ychwanegol a elwid yn "Civic Studies", ac er na fyddai byth yn ymddangos ei fod yn paratoi (fyddai ganddo byth nodiadau) byddai'n siarad ar wahanol bynciau ac yn dangos gwybodaeth ryfeddol. Un waith, ar ôl genedigaeth ei ferch, Ffion, cerddodd i mewn i'r dosbarth a dweud un gair – "NAMES" – a thraethodd yn ddifyr am wers gyfan ar wahanol enwau a roddid ar bobl. Er ei fod yn gyfeillgar, roedd yn cadw pawb o hyd braich, a feiddiai neb ei groesi. Er hyn, yr oedd bob amser yn caniatau trafodaethau...[20]

Yn ôl pob tystiolaeth llwyddodd ei ddisgyblaeth a'i ddawn fel athro i ennyn parch, edmygedd a diddordeb ei ddisgyblion. Ond yr un mor amlwg yw'r ffaith nad oedd yr un ddisgyblaeth bob amser yn effeithiol yn ei rôl fel cyfarwyddwr drama. Fel y cydnabu un o'i gyd-ddramodwyr:

> Fel cynhyrchydd – disgyblaeth gref – braidd yn galed ar adegau – araf i ganmol ond parod iawn i feirniadu! Tuedd i ddefnyddio agwedd broffesiynol efo amaturiaid (dipyn "over-the-top"!!). [21]

Yn dilyn ei apwyntiad fel Trefnydd Drama y Sir yn 1947, chwaraeodd Dewi ran amlwg, os weithiau'n ddadleuol, ym myd y ddrama ym Môn yn

ystod y pumdegau a dechrau'r chwedegau. Oni bai am yr ychydig adroddiadau a chofnodion ysgrifenedig sydd ar gael, prin iawn fyddai'r atgofion amdano, ac mae'n syndod fel mae treiglad amser wedi pylu cof rhai o'i gyfoedion.

Wedi'r holl amlygrwydd, llithrodd ei yrfa, ei gyfraniad i'r ddrama a'i fywyd personol o ddiwedd y chwedegau hyd at ei farwolaeth yn saith a thrigain mlwydd oed yn Ysbyty Stanley, Caergybi, 16 Mai 1979. Yn dilyn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Cybi, 21 Mai 1979, cludwyd ei weddillion i Amlosgfa Bangor.

Erbyn hyn mae Ffion yn byw yn Toronto, Ontario, Canada.

Ar derfyn cyfnod hir o holi a chwilota am wybodaeth, a hynny'n aml yn aflwyddiannus, ceisiwyd yma gyflwyno darlun pur gynhwysfawr o Dewi Llwyd Jones. Ac eto, teimlir nad yw'r darlun yn gyflawn o bell ffordd ac fe erys llawer o gwestiynau heb eu hateb. Mae cryn ddirgelwch yn parhau.

---

1 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Y Rhos, 1945.* Drama-Un-Act (Cyfaddasiad), Beirniadaeth Eic Davies, 141-4.

2 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Y Rhos, 1945.* Beirniadaeth J. Gwyn Griffiths,118-121.

3 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar, 1946*, 105-112.

4 *ibid.*, 113-191.

5 *ibid* ., 107-112.

6 Efallai mai sylwadau D.T. Lloyd yn 1946 a arweiniodd Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1947, i ddileu'r gystadleuaeth.

7 Cyngor Yr Eisteddfod Genedlaethol: Adroddiad 1946 Adran Rhyddiaith: Rhif 23, 19. Copi ym meddiant yr awdur.

8 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar, 1946.* Y Traethawd Beirniadol: Atodiad CH – AWGRYMIADAU, 191.

9 *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1947*, 230.

10 *ibid.*, 230-1.

11 *ibid.*, 234.

12 Pwyllgor Addysg Môn, Cyf. 6, 1946-7. Adroddiad y Pwyllgor Addysg Bellach, 9 Ionawr 1947, 81-7. Apwyntiad Trefnydd Drama Sirol. Ffurflen gais Dewi Llwyd Jones: ei gymwysterau.

13 Anglesey Education Committee Minutes Vol.5, 1951-2. Minutes of Further Education Committee held on 27 December 1951, 29.

14 *ibid.*

15 Anglesey Education Committee Minutes 1952-3. Minutes of Further Education Committee held 19 June 1952, 49.

16 Yng Nghapel Disgwylfa (MC), Caergybi, 12 Awst 1952, gyda'i dad yn gwasanaethu, priododd Dewi am yr ail waith, y tro yma gyda merch o'r dref, Joan Louise Murphy (g. 30 Mai 1925). *Holyhead & Anglesey Mail*, dydd Gwener, 15 Awst 1952. Ganwyd eu hunig ferch, Ffion, 6 Mehefin 1956. Bu Joan farw yn ddeunaw ar hugain mlwydd oed 31 Hydref 1963. O hynny ymlaen, syrthiodd holl gyfrifoldebau y cartref a'r fagwraeth ar ysgwyddau Dewi.

17 Cofnodion Ysgol Uwchradd Caergybi, 1945-1960. Adroddiad Staffio, 7 Rhagfyr 1954.

18 Cofnodion Ysgol Uwchradd Caergybi 1960-1981. Adroddiad Staffio 4 Hydref 1965.

19 *ibid.*, Adroddiad Staffio, 24 Tachwedd 1970.

20 Sylwadau personol [Hydref 2002] sydd yn awr ym meddiant yr awdur.

21 Sylwadau personol un o'i gyfoedion [Hydref 2002] yn awr ym meddiant yr awdur.

(12) LEILA AVRIL HUGHES (1915 – 1996)

Fe'i ganwyd yng Nghaergybi 5 Ebrill 1915, yn unig ferch i Mr a Mrs William Evans Hughes. Wedi colli ei thad ar y môr tra oedd hi yn eneth ifanc iawn, derbyniodd Avril ei haddysg gynradd ac eilradd yn ysgolion y dref. Yng nghanol y tridegau aeth i Goleg Prifysgol Cymru Bangor lle graddiodd gyda B.A. mewn Saesneg.

Wedi cyfnod byr yn dysgu yng nghyffiniau Caerloyw, dychwelodd i Fôn a threuliodd ei gyrfa fel athrawes yn hen Ysgol Ganol Sant Cybi[1] cyn symud, gyda'r ad-drefnu yn 1949-50, i Ysgol Gyfun Caergybi dan brifathrawiaeth y diweddar Trevor Lovett. Yno, ymhen amser, fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Ysgol Isaf. Mewn teyrnged iddi, dyma beth ddywed un o'i chyd-athrawon, y Parchedig Evan J. Jones, amdani:

> Roedd yn arweinydd wrth reddf, yn llawn ynni, ac yn mynnu gwneud popeth gyda gofal eithriadol...Roedd ganddi bersonoliaeth gref a chredai mewn disgyblaeth lem ar adegau yn ystod ei gyrfa fel athrawes; ond roedd hefyd yn hynod o garedig, ac yn cynorthwyo yn y dirgel amryw o blant a phobl mewn angen.[2]

Ar ddydd ei hangladd, cyfeiriodd yr un cyfaill ati fel '...a lady who had fire in her soul, her strong personality and forthright manner being part of her make-up...'[3]

Cyn manylu ar ei chyfraniad i achos y ddrama, cyflwynir ychydig o ffeithiau am ei chyfraniad i dref ac ardal Caergybi.

Er mai drama oedd ei phriod faes, cawsai lawer o bleser yn chwarae golff a chyfrannu tuag at lwyddiant Clwb Golff Caergybi. Avril oedd Capten y Merched yn 1962, gan dreulio 1982-3 yn gweithredu fel Llywydd y Merched yno. Ymddengys ei henw ar waliau Ystafell y Merched fel enillydd sawl tlws a chwpan dros y blynyddoedd. Atgofion hapus iawn sydd gan un o'i chyd-athrawon, Len Roberts,[4] am ei chyfraniad i'r Clwb Golff:

> ...O 1951 bum yn cyd-weithio ag Avril mewn dramâu am flynyddoedd – hyd yn oed ar ôl iddi ymddeol (nosweithiau llawen yng Nghlwb Golff Caergybi a'r "Annual Review" – llwyth o lol ond pawb yn mwynhau!).

Bu ei chyfraniad i fywyd tref Caergybi yn sylweddol ac amrywiol. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd plant a phobl ifanc y dref, a hynny yn

ychwanegol i'w dyletswyddau fel athrawes. Dechreuodd fel *Brown Owl* gyda'r *Brownies,* gan gynnig ei doniau wedyn er hybu gweithgareddau'r *Girl Guides* a'r *Y.W.C.A.*. Gydol yr amser, bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Ebenezer, Kingsland, ac yn athrawes yn yr Ysgol Sul. Fel aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol am flynyddoedd bu'n weithgar iawn gyda Chymdeithas Cymru Fydd yn y dref, ac fe'i hanrhydeddwyd â Llywyddiaeth y Gymdeithas. Avril oedd un o sylfaenwyr Gŵyl Gelfyddydau Caergybi a gofalai am drefnu a gweinyddu'r lluniaeth yn ystod y gwyliau hynny. Am flynyddoedd bu'n aelod o Gymdeithas Hynafiaethwyr Môn yn ogystal ag yn aelod o fudiad Sefydliad y Merched.

Wrth edrych yn wrthrychol ar fywyd a chyfraniad Avril, fe sylweddolir gwirder y dywediad 'Os oes angen gwirfoddolwr, gofynnwch i rywun prysur'.

Yn 1963, a hithau yn wyth a deugain oed, priododd â gŵr gweddw, Clifford Ellis Jones (1909-1988), tad i dri o fechgyn ac un ferch. Ymgymerodd Avril â'i dyletswyddau fel llysfam gydag urddas, ymroddiad a gofal.

Ond mae'n debyg mai ym myd y ddrama y daeth Avril i amlygrwydd, a hynny ar lwyfannau trefol, sirol a chenedlaethol. O ganlyniad i'w hymwneud â'r ddrama yn Ebenezer a chyda thrigolion a phlant y dref yn ystod y pedwardegau, ymddangosodd ei henw am y tro cyntaf fel aelod o Bwyllgor Drama Cyngor Gwlad Môn yn 1945.[5] Yn ystod blwyddyn 1951-2, dilynodd Dr. Hywel Jones fel Cadeirydd y pwyllgor drama, swydd a ddaliodd hyd 1960-1 pryd y'i holynwyd gan Emrys Hughes, Llangefni. Yn 1954 daeth yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor Gwlad gan esgyn, ym Medi 1966, i Gadeiryddiaeth y Cyngor. Daliodd y swydd ymhell i'r saithdegau. Ar yr ochr weinyddol, bu ei chyfraniad yn werthfawr ac yn ddylanwadol. Yn ystod 1954, dewisiwyd Avril, ynghyd â J.O. Jones, i gynrychioli Cyngor Gwlad Môn ar Gyngor Drama Cymru.

Yn ymarferol, cyfrannodd yn helaeth fel actores ac fel cyfarwyddwr. Yn ystod yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol a gynhaliwyd yn Llangefni, 23-25 Medi 1954, perfformiwyd *Hywel Harris* gan Gwmni Môn, drama a

gyfansoddwyd ac a gyfarwyddwyd gan Cynan. Yn ogystal â phortreadu *Nansi* yn y ddrama, gweithredai Avril fel meistres y gwisgoedd. Flwyddyn yn ddiweddarach, yn ystod yr ail Ŵyl Genedlaethol, cyflwynwyd trosiad o waith Gogol, *Yr Inspector,* gan Gwmni Môn gyda Cynan eto yn cyfarwyddo. Y tro yma, gweithredai Avril fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn ogystal ag fel meistres y gwisgoedd.

Yng nghanol y pumdegau, blasodd lwyddiant cyson fel cyfarwyddwr Cwmni Ysgol Uwchradd Caergybi, ac enillwyd Tlws y Ddraig fwy nag unwaith yng Ngŵyl Ddrama Môn. Yn ogystal, amlygodd Avril ei hunan fel cyfarwyddwr Cwmni Môn yn yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol a gynhaliwyd yn flynyddol yn Llangefni o Fedi 1954 ymlaen. Yn 1956, er enghraifft, cyflwynodd y cwmni gyfieithiad Dewi Llwyd Jones o ddrama David Monger, *Heloise.* Hefyd, yn 1956, dewisiwyd Avril i gyfarwyddo cwmni Cymraeg o Fôn a oedd i ymddangos yng Ngŵyl Ddrama Y Drenewydd, 26-28 Ebrill. Fodd bynnag, oherwydd gwaeledd un o'r cast, methwyd â mynd. Roedd y cwmni i gyflwyno trosiad Dewi Llwyd Jones o ddrama un act T. B. Morris, *Before you roast your beef.*

Ynglŷn â chyfraniad Avril i'r ddrama yn gyffredinol, cyfeiria Len Roberts ati fel 'merch amryddawn'. Fel cyd-athro a chyd-actor, roedd Len Roberts yn ei hadnabod yn dda ac yn ei sylwadau gwerthfawr fe ymhelaetha drwy ddweud mai

> O'i holl ddoniau ym myd y ddrama, credaf mai fel rheolwr llwyfan a meistres y gwisgoedd y bu ei chyfraniad cryfaf a mwyaf arwyddocaol. Unwaith y dewisiwyd y ddrama, byddai yn cychwyn ar y paratoadau – ymchwilio'n drwyadl i gefndir y ddrama a'r cyfnod- talu sylw anhygoel i'r manylion lleiaf. Erbyn y perfformiad roedd Avril wedi gosod y cyfan yn eu lle – yn gysur mawr i'r actorion![6]

Pan fu farw, 5 Ionawr 1996, roedd Avril yn byw yn *Taranaki,* Tywyn Capel. Yn dilyn y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghapel Noddfa, 20 Ionawr, 1996, fe'i claddwyd gyda'i gŵr, Clifford, ym Mynwent Y Santes Fair, Caergybi.

1 *Y Rhwyd,* Papur Bro Cylch Cybi, Rhagfyr 1995/Ionawr 1996, Rhif 194, 20. Llun athrawon Ysgol Eilradd Fodern St. Cybi, Caergybi, 1948.

2 *ibid.*, Mawrth 1996, Rhif 196, 15.
Teyrnged y Parchedig Evan J. Jones, Porthaethwy.

3 Teyrnged angladdol gan y Parchedig Evan J. Jones, 5 Ionawr 1996. Copi ym meddiant yr awdur.

4 Len Roberts, cyn-bennaeth Adran Addysg Gorfforol Ysgol Gyfun Caergybi ac, yn ddiweddarach, yn Ddirprwy Brifathro'r ysgol. Actor dawnus a llwyddiannus a ymddangosodd ar lwyfannau lleol, sirol a theledu. Derbyniwyd ei sylwadau ar Avril Tachwedd 2002.

5 Adroddiadau blynyddol Cyngor Gwlad Môn, 1940–1 ymlaen.

6 Argraffiadau personol Len Roberts am Avril sydd yn awr ym meddiant yr awdur.

# ATODIAD B

## DIRWEST

Yng nghyd-destun y gwaith presennol, cyfeirir fwy nag unwaith at y deffroad dramayddol a ddigwyddodd yn ystod dauddegau a thridegau yr ugeinfed ganrif. Ond yn niwedd y ddeunawfed ganrif gwelwyd deffroad pur wahanol, sef cyfnod o ddeffroad dirwestol a welodd olau dydd am y tro cyntaf yn UDA yn 1789. Yn ôl y Parchedig D.D. Williams, '... [s]efydlwyd nifer fawr o Gymdeithasau Cymedroldeb ...'[1] yn y wlad honno rhwng 1826 a 1833, ond buan y sylweddolwyd bod angen rhywbeth llawer mwy pendant ac, i'r perwyl hwnnw, '... ffurfiwyd y Gymdeithas Lwyrymataliol gyntaf yn America ...'[2] yn 1833.

Yn ei gyfrol, fe awgryma Williams mai

> [l]led debyg fu hanes y Mudiad Dirwestol ym Mhrydain i'r hyn a fu yn yr America. Yr oedd yr ymadrodd 'Prydain Feddw' yn ddisgrifiad llythrennol o'r wlad hon yn ystod y deng mlynedd ar hugain cyntaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ...[3]

Mae'n debyg mai yn Iwerddon a'r Alban yr ymddangosodd yr ymgyrch dirwestol cyntaf ym Mhrydain, ac yn dilyn sefydlu Cymdeithas Cymedroldeb yn Bradford yn 1830, ffurfiwyd cymdeithasau cyffelyb yng nghanolfannau diwydiannol Warrington, Preston, Manceinion, Lerpwl, Leeds a Llundain yn fuan wedyn. Fodd bynnag, cymedroldeb yn hytrach na llwyrymataliaeth oedd sail y cymdeithasau cyntaf ac, yn ôl Williams, '... ni bu cynnydd y Mudiad Dirwestol mor gyflym yn Lloegr ag mewn rhannau eraill o Brydain...'[4] Gellir dadlau bod hyn yn awgrymu fod ardaloedd gwledig Cymru, ynghyd â rhai Iwerddon a'r Alban, yn llawer parotach i groesawu'r diwygiad dirwestol. Ceir cadarnhad o hyn yn llyfryn Eryl Wyn Rowlands:

> Pwnc a ddechreuodd gorddi cymdeithas yn yr 1830au oedd Dirwest. Mudiad Americanaidd ydoedd ... a groesodd yr Iwerydd, a thrwy gymunedau Cymreig mewn dinasoedd fel Lerpwl, ledu ei ddylanwad i Gymru. Cyrhaeddodd Sir Fôn erbyn 1834. Do, fe ledodd y syniad fel tân gwyllt ac amcangyfrifwyd fod dros 3,500 [3,390 yn ôl D.D. Williams] yn y sir yn pledio cymedroldeb erbyn 1835. **Cymedroldeb** sylwch ... [o]nd yn fuan fe ddatblygodd Dirwest i olygu **Llwyrymwrthodiad** ...[5]

Erbyn 1840, fodd bynnag, tawelodd y brwdfrydedd dirwestol a

> [gwelid] y newid hwn ... ym Môn. Yn y cychwyn ni bu ran o Ogledd Cymru a ymatebodd yn fwy calonnog i apêl Dirwest na'r sir hon ... ond erbyn y flwyddyn 1840 yr oedd hithau, i raddau, wedi ymadael â'i chariad cyntaf.[6]

Yn yr un flwyddyn cynhaliwyd Cymdeithasfa flynyddol Môn yn Llannerch-y-medd, a gwahoddwyd neb llai na'r Parchedig John Elias (1774?-1841) i annerch y gynulleidfa gyda'r bwriad o ailgynnau'r diwygiad dirwestol yn y sir. Gyda hyn mewn golwg, bu John Elias yn eithaf llym ar ffermwyr y sir:

> Ar y cychwyn talodd anogaeth i amaethwyr Môn, cyfeiriodd atynt fel pobl barchus, "asgwrn cefn" rhinwedd a moesoldeb. "Ond," meddai, "y maent yn dweyd i mi mai chwi wedi'r cwbl yw 'asgwrn cefn' meddwdod Ynys Môn. Ai gwir hyn, *farmers*?"[7]

Yn ei gyfrol, y mae D.D. Williams yn cyfeirio at y cysylltiad agos a fodolai rhwng y diwygiadau crefyddol a'r diwygiadau dirwestol a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru, ond heb ymhelaethu ar hyn daw'r hanes â ni at sefydlu Undeb Dirwestol [Anenwadol] Merched Gogledd Cymru yn ystod Cynhadledd y merched yn Ffestiniog yn 1892. A hithau y pryd hynny yn ferch ifanc ddwy ar hugain oed gellir dychmygu gobeithion Grace Thomas ynglŷn â chyfraniad merched Môn i'r mudiad dirwestol o hynny ymlaen, ac o gofio ei chyfraniadau cyson i'r misolyn, *Y Gymraes*, fe welir bod geiriau D.D. Williams yn hollol berthnasol o safbwynt ymdrechion Grace Thomas a'i thebyg i hyrwyddo dirwest ym Môn yn y cyfnod hwnnw:

> Yn ystod yr un mlynedd ar hugain diweddaf [1900-1921] bu'r *Gymraes*, cyhoeddiad swyddogol yr Undeb, yn gynorthwy dirfawr i'r Achos Dirwestol.[8]

Er na wyddys pam y symudodd Grace a'i chwaer, Eliza Jane, i fyw i Fae Colwyn yn 1920, gellir dadlau bod y gymdeithas yn Rhoscefnhir yn newid a'i bod hithau, Grace, wedi synhwyro na fedrai ddygymod â'r newidiadau cymdeithasol hynny ac mai encilio o'r neilltu fyddai'r peth doethaf iddi ei wneud.

Wrth edrych yn ôl, gellid dadlau fod y culni crefyddol, moesol a dirwestol a fodolai ar y pryd wedi llesteirio cryn dipyn ar ddatblygiad y ddrama yng Nghymru yn ystod dau ddegawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, ac o gofio bod nifer fawr o ddramâu'r cyfnod wedi eu cyfansoddi gan weinidogion, nid rhyfedd hyn. Ond erbyn diwedd y Rhyfel Mawr, newidiodd agwedd y gymdeithas wledig. Erbyn hyn, roedd cenhedlaeth newydd o bobl ifanc yn codi, cenhedlaeth oedd â'i bryd ar newid ac ar ryddid cymdeithasol. Er ei fod ef ei hun yn weinidog, cydnabu y Parchedig D.D. Williams fod angen i'r dirwestwyr hefyd newid eu hagwedd:

> Dywedir ar bob llaw ein bod yn wynebu cyfnod newydd ... [a bod] yn rhaid inni wrth weledigaeth newydd, golwg ehangach ar ein cenhadaeth fel Dirwestwyr ...[9]

Ac aeth ymlaen i ddyfynnu geiriau J. Glyn Davies a ymddangosodd yn Adroddiad Blynyddol Gymanfa Ddirwestol Gwynedd yn 1918:

> "Y mae yn dda gennyf fod syniad Dirwestwyr am Ddirwest yn ymagor ac yn ymeangu. Negyddol iawn a fu ein syniad. Peidio ymwneud â diodydd meddwol – peidio eu gwneud, peidio eu gwerthu, peidio eu hyfed, peidio eu rhoi – peidio, peidio – dyna fu Dirwest. ... Y mae yn dda gennyf weled fod Dirwestiaeth newydd yn codi. Dirwestiaeth sydd yn cydnabod fod a wnelo Dirwest â phob peth sydd yn gwneud bywyd yn iachach, yn burach, yn siriolach, yn fwy ffrwythlawn a defnyddiol..."[10]

---

1 Y Parchedig D.D. Williams, MA, Lerpwl, *Hanes Dirwest yng Ngwynedd* (Cyh. Cymanfa Ddirwestol Gwynedd 1921), 20.

2 *ibid.*, 21.

3 *ibid.*, 21.

4 *ibid.*, 23.

5 Eryl Wyn Rowlands, *Mirain Foreia* (Llangefni 1997), 8.

6 *op.cit.*, Williams, 38.

7 *ibid.*, 38-9.

8 *ibid.*, 94.

9 *ibid.*, 113.

19 *ibid.*, 113.

# ATODIAD C

Dadansoddiad galwedigaethol o gynulleidfa'r seddau cadw ar gyfer perfformiad o gomedi Islwyn Ffowc Elis, *Y Golofn Danllyd,* yn y New Hall, Llannerch-y-medd, Nadolig 1959.

Cedwid y rhesi cefn yn seddau rhydd.

Mae'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y perfformiad ym meddiant Mrs Olwen Owen, Einion Cottage, a diolchir iddi hi ac i Mr a Mrs Albert Owen am yr wybodaeth ddiddorol ynglŷn â'r dadansoddiad.

Gyda threiglad amser, mae'n anochel bod peth gwybodaeth wedi mynd yn angof.

| Rhes | Rhif | Cyfenw | Cyfeiriad | Galwedigaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| A | 1-5 | Dim gwybodaeth | | |
| | 6/7 | Sturtwaggon | Wern | Gwraig tŷ wedi priodi Almaenwr |
| | 8/9 | Williams | Maes Ceidio (tai Cyngor) | Mr Williams yn gweithio ar y rheilffordd |
| | 10-14 | Jones | | Mr Jones yn yrrwr lori |
| | 15/16 | Roberts | Bryn Awel | Mr Roberts yn of |
| | 17/18 | Owen 'Llew Llwydiarth' | Arhosfa, Carmel | Ffermwr |
| | 19 | Roberts | Llys Einion | Ffermwraig |
| | | | | |
| B | 1-4 | Dim gwybodaeth | | |
| | 5/6 | Jones | Pen Cefn Mawr | Ffermwr |
| | 7/8 | Roberts | Becws | Pobydd |
| | 9 | Davies | | Gwraig tŷ |
| | 10/11 | Jones | | |
| | 12/13 | Hughes | Stamp (Becws) | Pobydd |
| | 14/15 | | Gorphwysfa | |
| | 16 | Hughes (Miss) | Cilgwyn Street | Glanhau i Mr McKillop yn y siop |
| | 17 | Hughes | Druid | 'Checker' yn y stesion |
| | 18 | Hughes | Regent House | Gwraig weddw gynt yn cadw siop |
| | 19 | Williams | Maes Ceidio | Mr Williams yn gweithio ar y rheilffordd |
| | 20/21 | Parry | Tai Newydd Peniel | Mr Parry yn was ym Mhlas Medd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| C | 1-3 | Dim gwybodaeth | | |
| | 4-6 | Jones | Pen Cefn Mawr | Ffermwr |
| | 7 | Jones | Chemist House | Gwraig tŷ- nid fferyllfa |
| | 8/9 | Jones | Berwyn | Athrawes yn yr ysgol leol |
| | 10 | Jones | | |
| | 11/12 | Seddau cadw i'r Llywydd a'i wraig | | |
| | 13/14 | Jones | Tirionfa | Mr Jones yn yrrwr lori Oswald Thomas |
| | 15/16 | Jones | Bwthyn Einion | Mrs Jones yn wraig tŷ – y ferch yn athrawes |
| | 17-21 | Cefnogwyr o Gapel Coch | | Amrywiol – gwaith tŷ, ffermwyr, llafurwyr |
| | | | | |
| D | 1/2 | Dim gwybodaeth | | |
| | 3/4 | Hughes (Miss) | Bryncelyn | Prifathrawes Ysol y Babanod |
| | 5/6 | Evans | 71 High Street | Mr Evans yn labrwr |
| | 7/8 | Williams | London House | Siop groser |
| | 9/10 | Jones | Ty'n Ffynnon | Ffermwr |
| | 11-14 | Thomas | Chwaen Goch | Ffermwr 'amlwg' |
| | 15/16 | Gittings | Ty'n Ffynnon | Siop esgidiau |
| | 17-21 | Cefnogwyr o Gapel Coch | | Amrywiol – gwaith tŷ, ffermwyr, llafurwyr |
| | | | | |
| E | 1-3 | Dim gwybodaeth | | |
| | 4 | Pritchard | Berthwen | Gwraig tŷ |
| | 5 | Hughes | Bridge Street | Gwraig tŷ |
| | 6/7 | Jones | Printing Office | Argraffwyr |
| | 8-10 | Jones | Arosfa | Mr Jones yn adeiladwr |
| | 11-14 | Jones | Tyddyn Herbert | Ffermwr |
| | 15 | McKillop | | Siop ddillad |
| | 16/17 | Owen | Angorfa | Trydanwr |
| | 18 | Williams | Windsor | Gwraig tŷ |
| | 19/20 | Owen | 79 High Street | 'Watchmaker' |
| | 21 | Williams | Wenllys | Gwraig tŷ |
| | | | | |
| F | 1/2 | Dim gwybodaeth | | |
| | 3 | Jones (Miss) | Berwyn | Morwyn |
| | 4 | Jones | Eithinog | Gwraig tŷ |
| | 5/6 | Jones | Clorach | Ffermwr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 7-9 | Jones | Tŷ Croes, Parc | Ffermwr |
| | 10 | Williams (Miss) | Dinorben House | Gwraig tŷ |
| | 11/12 | Jones | Clorach | Ffermwr |
| | 13-16 | M. Owen | | |
| | 17 | M. Edwards | | |
| | 18-21 | Evans | | |
| | | | | |
| G | 1/2 | Dim gwybodaeth | | |
| | 3/4 | Evans | Swyddfa'r Post | |
| | 5-9 | Owen | Ty'n Berth | Ffermwr |
| | 10/11 | Jones | Bryngollen | Ffermwr |
| | 12 | Williams | Tŷ Hen | Ffermwr |
| | 13/14 | Jones | Bron Rhiw | Perchennog garej |
| | 15 | Hughes | Monfa | Ffermwr |
| | 16/17 | Jones | Afallon | Adeiladwr |
| | 18 | Roberts | Pengraig | Gwraig tŷ |
| | 19 | Thomas | Menai | Gwraig tŷ |
| | 20/21 | Edwards | Treiolfa | Mr Edwards yn gweithio ar y rheilffordd |
| | | | | |
| H | 1/2 | Dim gwybodaeth | | |
| | 3 | Jones | Highgate | Ffermwr |
| | 4/5 | Jones | Ysgoldy | Ffermwr |
| | 6 | Schofield | Wellington Street | Gwraig tŷ |
| | 7 | Roberts | Pendref | Ffermwr |
| | 8 | Jones | Wylfa Villa | Saer maen |
| | 9 | Jones | Brynkir | Athro mewn Ysgol Uwchradd |
| | 10/11 | Owen | Laundry | Gweithiwr ffordd |
| | 12/13 | Hughes | Pandy | Ffermwr |
| | 14-17 | Thomas | Manceinion | Ffermwr 'amlwg' |
| | 18/19 | Prydderch | Pwllgynnau | Ffermwr |
| | 20 | Rowlands | Fferyllfa | Fferyllydd |
| | | | | |
| I | 1-4 | Dim gwybodaeth | | |
| | 5-8 | Evans | Llwyndrain | Milfeddyg |
| | 9/10 | Owen | Bryngarth | Ffermwr |
| | 11/12 | Roberts | Ty'r Ysgol | Y prifathro lleol |
| | 13-18 | Jones | Bron Rhiw | Perchennog garej |
| | 19-21 | Cefnogwyr o Gapel Coch | | Amrywiol – gwaith tŷ, ffermwyr, llafurwyr |

# ATODIAD CH

Am chwech o'r gloch y bore, 24 Mai 1941, suddwyd HMS Hood i'r de o Gulfor Denmarc, rhwng Gwlad yr Iâ a Greenland. Fe suddodd o fewn saith munud o gael ei tharo gan ergyd o'r Bismarck. O'r criw o 1341, achubwyd tri.

Dyma gopi o lythyr olaf Roland (Roy) Williams at Edward (Ned) Williams. Er nad oes dyddiad arno, oherwydd diogelwch mae'n debyg, gellir tybio iddo gael ei ysgrifennu yn gynnar yn 1940 oherwydd fe wyddys bod yr Hood wedi angori yn Scapa Flow (Ynysoedd yr Orkney), yn disgwyl am y Bismarck a'r Prinz Eugen, yn Awst 1940.

Er hwylustod, addaswyd rhyw ychydig ar faint y llythyr gwreiddiol.

Writer R.M.Williams,
8.A.A. Mess,
R.N. Barracks,
Dydd Mercher. Portsmouth.

Annwyl Ned,

Diolch am dy lythyr beth amser yn ol. Nid oeddwn yn bwriadu sgwenu i ti heno, achos oeddwn wedi meddwl am gael dy weld cyn diwedd yr wythnos, ond mae petha wedi drysu. 'Rwyf yn ymuno a criw yr H.M.S. HOOD ond rwyf yn meddwl y caf leave ymhen rhyw wythnos ar ol bod ar y bwrdd. Mae yn debyg mae hwn yw y llythyr Cymraeg olaf nes y byddaf yn ol ar y lan, achos mae pob llythyr o'r llonga yn cael eu darllen gan y Censor. Fel mae yn debyg dy fod yn gwybod mae yr HOOD yw y llong ryfel fwyaf yn y byd. Lookout am Muso rwan ta.

Wythost ti beth Ned? Mi fydd yn dda iawn gennyf gael mynd o Portsmouth, mae yn gan gwaith mwy peryg yma nac ar y mor, mae yma le diawledig Ned, nid wyf wedi bod yn fy hammock ers yn agos i bythefnos, ac 'rwyf wedi cysgu nosweithia yn yr awyr agored mewn ffos ar ben gallt fel gallt Penymynydd tua 5milltir o Pompey. 'roedd canoedd yno yn longwrs swldiwrs civilians, gwragedd a phlant bach, y petha wyf wedi weld, mae yn anawdd gennyf goelio llygid fy hun, a phan ddeuaf adref bydd gennyf hannesion ofnadwy i ddweyd wrthyt, a rwyf yn gwybod y bydd yn anawdd genyt fy nghoelio. Cafodd fy mate i ei ladd dair wythnos yn ol mewn air raid, gwelais ei gorph a buom yn yr angladd, mae llawer yn cael eu lladd yma pob nos bron.

Buom yn y pictures hefo Moi Parry Electrician neithiwr, mae yn gweithio yn y dockyard yma ers amser bellach. Pa hwyl sydd ar Hughie Jones rwan? Ni chefais byth air oddiwrtho nac oddiwrth Elwy Caerwyn, cofia fi atynt yr un fath. Oeddyt ti yn adnabod Bob Jones, Trafeiliwr, Thomas Goode? Mae dau frawd iddo yma a byddaf hefo nhw yn aml, hen hogia iawn o Portmadog. Gwelais hefyd hen drafeiliwr Isaac Nash & Sons, mae newydd ymuno a'r llynges, yn y Supply branch y mae.

Cofia fi at y wraig, a gobeithio fod y bychan yn iawn, a hwyl fawr i titha.

Cofia fi at Owen Tymawr.
rwyf yn meddwl sgwenu iddo o hyd.

Roy.

## ATODIAD D

REPRINTED FROM

THE TIMES

Saturday June 18 1949

# SOCIAL AND CULTURAL LIFE OF THE COUNTRYSIDE

## A REVOLUTION SINCE 1919

**From A Correspondent**

Thirty years ago the Ministry of Reconstruction that emerged from the first world war presented a report on adult education. Of the period just before that war it said:—" Organized activity of a vigorous kind was not a prominent feature of rural life. . . . Rural life is defective in that organization which is so marked a feature of town life." Within less than a quarter of a century the picture changed completely. It was possible to say in the Scott report's study of rural conditions, which appeared in 1942:— " There are innumerable social organizations in the countryside, some national, others regional, and others parochial, and all striving to make life for the rural inhabitants more pleasant and valuable." What had happened in the interval and what is its significance ?

No simple answer is possible. On the contrary the many separate successful efforts are themselves evidence of need, due to the impact of modern conditions on a decaying pattern of village life, creating new desires and destroying old satisfactions. Even before the Ministry of Reconstruction had issued its report experiments in Kent and Oxfordshire had led to the building up of Rural Community Councils, in the latter case closely linked with the beginning of county libraries. The Rural Community Council, now to be found in most counties, provides a centre for marshalling all organized endeavour for the improvement of village life and for promoting experiments. The National Council of Social Service has acted as a headquarters for the community council movement, and with its help significant work has been done to preserve and extend rural industries (now assisted by the Rural Industries Bureau and the Rural Industries Loan Fund), to pioneer in rural health service and to stimulate the great activity in music and drama in the countryside.

### RURAL ORGANIZATIONS

The problems and the aftermath of the 1914-18 war were responsible for the creation of the two great voluntary societies of the villages—the Women's Institutes and the British Legion. The former, adapted from a Canadian scheme to meet emergency conditions, quickly proved their permanent value, and are now probably the most influential of rural organizations. With a strong national and county organization, the institutes have developed a wide range of activities that are essentially practical and yet add much to the richness of country life. The legion, of course, is not a peculiarly rural organization but a great deal of its strength lies in its village clubs. The National Playing Fields Association, too, has done excellent work in the countryside.

Between the wars these organizations developed rapidly, with an increasing social and cultural emphasis. They were joined by others, notably the Young Farmers' Clubs, the Land Settlement Association, and, later, the Village Produce Societies.

Such a reawakening of village life created many problems, not least the need for premises. This wider and ampler social life needed places of assembly more suitable than the schoolroom, the private drawing room, or the room at the inn with which many villages had hitherto been content. The answer was to build village halls. Help in doing so was secured by the combined efforts of H.M. Development Commission, the Carnegie Trust, the National Council of Social Service, the Rural Community Councils, and—by no means least—of the village folk themselves, even to the extent of building with their own hands.

### VILLAGE HALLS

The thirty-fifth annual report of the Carnegie United Kingdom Trust, published to-day, and noted on another page, gives pride of place to a summary account of the trustees' experimental work in the provision of village halls during a period of nearly 20 years. The earliest records contain frequent references to individual requests for grants to village halls; but ultimately a national scheme of financial assistance was devised.

Its essential idea was that the village hall should exist to serve the whole village community and not any sectional interest. It was to be the focus in the village, or group of settlements, of all the activities

which the Rural Community Council sought to foster throughout the country.

Village halls first became eligible for financial help from national sources in 1926, when the Development Commissioners provided the National Council of Social Service with a fund of £5,000 to enable interest-free loans to be made towards the cost of erecting new halls or improving existing ones. This was a limited experiment, confined to counties with Rural Community Councils and intended to secure experience in the planning, ownership, management, and upkeep of village halls. Its results were encouraging, and, in 1930, the scheme was enlarged in two ways; first, it was extended to cover all counties in Great Britain, the loan fund being increased accordingly, and, secondly, the Carnegie Trustees provided an additional fund to enable outright grants to be made, either supplemented by loans or not, as the circumstances required. Two fundamental conditions which formed part of the first experimental scheme have survived throughout—plans must be submitted to the Village Halls Committee of the National Council of Social Service (or its counterpart in Scotland or Northern Ireland), which has the help of a panel of architects appointed by the Royal Institute of British Architects; and every village hall must be vested in trustees, its management being put into the hands of a committee representative of all the different interests in the village.

## INEXPENSIVE SCHEME

The number of villages which took advantage of this scheme between the wars was 578, of which 433 received grants for new halls and 145 were helped to improve existing ones. Total expenditure by way of grants was a little under £82,000, and, in spite of all the difficulties caused by the war, it was possible to record in 1944 that there was not a single instance of default on the repayment of a loan. The whole scheme was remarkably inexpensive, for the average grant for a new hall amounted to no more than £175; but the administration of even so modest a sum placed in the hands of the Village Halls Committee a power of control which proved to be a most effective deterrent against the erection of unsuitable or unsightly buildings and a whole crop of potential difficulties with management and maintenance.

In the meantime other developments were begun, destined probably to extend this experimental work at a much more rapid pace. The formation and encouragement of rural community councils was only one aspect of the National Council's policy. The other, implicit in the constitution of the Rural Community Council, was the stimulation of that cooperation between statutory and voluntary bodies which has played so important a part in the evolution of the modern pattern of life. Emphasis fell first on the revival of parish councils, and 13 years of pioneering effort reached a period when, some two years ago, the National Association of Parish Councils was formed. The parish council does not possess extensive statutory powers—although they are wider than is sometimes thought—but a strong and vigorous council has great opportunities for leadership within the village and for urging the local point of view outside it. The success of the general revival may be estimated by the suggestions made—one by the Local Government Boundary Commission itself—that the small unit of local government is equally necessary in urban areas; and by the influences exerted upon, and generally willingly accepted by, the larger units of rural local government.

## STATUTORY SERVICES

The point has now been reached when the voluntary organizations, though becoming more rather than less active, are nevertheless being partially replaced by the statutory services. Under the Education Act of 1944 and the Physical Training and Recreation Act of 1937 both the Ministry of Education and the local authorities have wide duties to provide amenity and cultural facilities, including village halls. Rural housing, electricity, water, and sewerage are part of the day-to-day business of government. The Local Government Act of 1948 gives additional powers which, though common to local authorities in town and country, are of greater importance in the counties. And small villages even have a special concession on entertainment tax on films!

Thus during the period bounded by the two quotations at the beginning of this article, a social revolution of profound importance has taken place in the countryside. It has accompanied, and in fact made possible, an economic and industrial revolution of first magnitude. Without both many things which happened during the last war would have been at least more difficult. In their effects on country life it can be claimed that together they are comparable in magnitude to the Industrial Revolution itself. And the end is not yet.

If many of the worst of possible dislocations have been avoided, and prosperity and increased amenities have been achieved, it has been due in part to the wise guidance of the organizations mentioned here. They have enabled countryfolk to work and think for themselves, they have provided stimulus, organizational framework, and money. Pre-eminent among them has been the Carnegie Trust. Most of the others have depended on its funds at one time or another to make their work possible. For their wise guidance through a quarter of a century, their willingness to experiment, and their powerful, if indirect, social influence the Carnegie Trustees have deserved well of the countryside, indeed of their country.

Printed by THE TIMES PUBLISHING COMPANY, Limited, Printing House Square, Lor

## ATODIAD E

## GŴYL DDRAMA MÔN, 1949

Isod rhoddir patrwm o arbrawf ynglŷn â'r ŵyl ddrama y flwyddyn nesaf. Cafwyd peth trafodaeth ar y mater yn y pwyllgor diwethaf o Bwyllgor Drama Cyngor Gwlad Môn, ond, oherwydd diffyg amser bu'n rhaid gohirio'r mater hyd y pwyllgor nesaf. Yn y cyfamser, teimlwyd y dylid ceisio cael barn y cwmnïau ar y mater. Gan hynny, anfonir y patrwm hyn i chwi, a hoffem gael eich barn arno, a hynny mor fuan ag sydd bosibl.

Sail y patrwm yw'r teimlad mai'r gelfyddyd sy'n bwysig ac nid y cystadlu. Teimlir hefyd na all beirniadaeth wahaniaethu rhwng dau waith gwych ar dir beirniadaeth yn unig, ac y byddai'n decach â'r cwmnïau a'r gelfyddyd pe gosodid y cwmnïau mewn dosbarth yn hytrach nac yn gyntaf, ail, a thrydydd. Mantais fawr cyfundrefn felly yw dyfarniad yn seiliedig ar safonau celfyddyd ac nid ar safonau gŵyl arbennig mewn lle arbennig ar adeg arbennig.

Yn fyr, awgrymir fod gwyliau cylch a gŵyl sir Môn yn 1949 yn wyliau digystadleuaeth. Ceir beirniaid a thraddodir beirniadaeth ar bob cwmni fel o'r blaen, ond ni fydd dewis y cyntaf. Gosodir y cwmnïau oll mewn dosbarthiadau – A, B, a C. Felly, allan o 20 o gwmnïau, gallai 2 fod yn A, 8 yn B, a'r gweddill yn C, neu heb eu rhestru o gwbl.

Sut y gweithredid polisi felly? Awgrymir fod y gwyliau cylch yn hollol annibynnol yn cynnal eu gwyliau eu hunain. Gallai'r pwyllgor lleol ddewis beirniaid etc. Byddai tri amod ynglŷn â hyn – byddai'n rhaid i'r ŵyl fod yn ŵyl ddi-gystadleuaeth fel yr esboniwyd uchod, byddai'n rhaid i'r dewis o'r beirniaid dderbyn bendith y Pwyllgor Canol, a byddai'n rhaid cynnal y gwyliau cylch cyn diwedd Ionawr.

Wedi'r gwyliau cylch byddai'r Pwyllgor Canol yn cyfarfod i drefnu'r ŵyl sir i'w rhedeg ar yr un llinellau. Sut y dewisid y cwmnïau i'r ŵyl sir? Gwaith anodd dros ben a fyddai llunio rheolau i gyfarfod a phob amgylchiad. Er enghraifft, bwriader fod

rheol fel hyn – "Gwahoddir pob cwmni a restri'r yn nosbarth A i'r ŵyl y sir". Y mae'n bosibl na restrid neb yn A, yna, ni byddai gŵyl sir. Neu eto, "Gwahoddir pob cwmni a restrir yn A neu B i'r ŵyl sir". Yna, gallai hyn ddigwydd. Yn eisiau i'r ŵyl 20 o gwmnïau – rhestrwyd yn A – 5, yn B – 16 – hynny yw un yn ormod. Beth wedyn? Gan hynny yr unig ddull ymarferol yw peidio a gwneud rheolau o gwbl nes i'r pwyllgor weld ac ystyried rhestrau y gwyliau cylch. Bydd y pwyllgor wedyn yn gwahodd cwmniau gan gofio y safon a gafwyd yn y gwyliau cylch, a'r priodoldeb o sicrhau amrywiaeth yn yr ŵyl. Er enghraifft, pe byddai tri chwmni yn B a dim ond angen 2 i'r ŵyl, gallai'r pwyllgor benderfynnu peidio a gwahodd X, am fod cwmni Y eisoes yn gwneud yr un ddrama ac wedi eu gosod yn nosbarth A. Hynny yw, ni fyddai rhestr arbennig yn yr ŵyl gylch yn warant o ddim. Dyna, mi gredwn, yw'r unig ffordd ymarferol o weithredu. Gellid cadw'r gwahanol adranau yn union fel y maent, drama hir, agored, merched, ieuenctid etc. Efallai y gellid dwy ŵyl – gŵyl ddrama un act, a gŵyl dramâu hir, ond, y pwyllgor canol a fyddai'n penderfynnu hynny wedi cynnal y gwyliau cylch.

Dyna'r patrwm a awgrymir a byddem yn falch iawn o dderbyn eich sylwadau ar y mater, cyn Mai 29ain 1948.

Dewi Llwyd Jones

## ATODIAD F

## CYNYRCHIADAU GŴYL DDRAMA GENEDLAETHOL, CYMRU LLANGEFNI 1954-1975

1954 *Ewyrth Ifan* (Chekhov) cyf. T Hudson Williams
Chwaryddion Y Cyngor Celfyddyd Cynhyrchydd: Raymond Edwards

*Y Ferch a'r Dewin* (F.G. Fisher)
Cwmni'r Gogledd Cynhyrchydd: Edwin Williams

*Hywel Harris* (Cynan)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Cynan

1955 *Noa* (André Obey) cyf. F.G. Fisher
Cwmni'r Gogledd Cynhyrchydd: Edwin Williams

*Gymerwch Chi Sigaret?* (Saunders Lewis)
Chwaryddion y Cyngor Celfyddyd Cynhyrchydd: Herbert Davies

*Yr Inspector* (Gogol) cyf. T. Hudson Williams
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Cynan

1956 *Heloise* (David Monger) cyf. Dewi Llwyd Jones
Cwmni Môn Cynhyrchydd: L. Avril Hughes

*Porth Ewyn* (J. Ellis Williams)
Cwmni'r Gogledd Cynhyrchydd: J. Ellis Williams

*Antigone* (Jean Anouilh) cyf. Mary Lewis
Cwmni Ceredigion Cynhyrchydd: Mary Lewis

1957 Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni, ni chynhaliwyd yr Ŵyl y flwyddyn hon.

1958 *Cyfyng Gyngor* (Huw Lloyd Edwards)
Cwmni'r Gogledd Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*Pobun* (Hofmannsthal) cyf. T. Gwynn Jones
Cwmni Rhosllannerchrugog Cynhyrchydd: Olwen Mears

*Brad* (Saunders Lewis)
Chwaryddion y Cyngor Celfyddyd Cynhyrchydd: Herbert Davies

1959 *Esther* (Saunders Lewis)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: H. Pierce Jones

*Dyn ag Arfau* (Shaw) cyf. Gruffydd Parry
Cwmni Glan-y-Môr, Pwllheli Cynhyrchydd: Hugh Roberts

*Y Cymro Cyffredin* (Tom Richards)
Chwaryddion y Cyngor Celfyddyd Cynhyrchydd: W. Emlyn James

1960 *Y Gell Olaf* (Gwilym R Jones)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Dewi Llwyd Jones

*Agor Plygion* – Cyflwyniad dramatig o ryddiaith, barddoniaeth a chymeriadau W.J. Gruffydd a T. Rowland Hughes
Cwmni Cenedlaethol Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*Eisteddfa Gwatwarwyr* (Tom Richards)
Chwaryddion y Cyngor Celfyddyd Cynhyrchydd: W. Emlyn James

1961 *I Bob Sychedig Un* (Tom Richards)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: L. Avril Hughes

*Congrinero'r Gorllewin* (J.M. Synge) cyf. Gruffydd Parry
Cwmni Glan-y-Môr, Pwllheli Cynhyrchydd: Hugh Roberts

*Perthyn* - Rhaglen o farddoniaeth a rhyddiaith wedi ei ddethol a'i gynhyrchu gan Cassie Davies

*A Oes Heddwch?* (Marghanita Laski) cyf. Rhydderch T. Jones
Cwmni Cymdeithas Cymry Llundain Cynhyrchydd: Reginald Evans

1962 *Y Fôrforwyn* (Conradon Nalê Roxlo) cyf. o'r Sbaeneg *La Cola de la Sirena* gan G.J. Evans
Cwmni Theatr Fach, Llangefni Cynhyrchydd: F.G. Fisher

*Owain Glyn Dŵr* (Edwards Rees)
Cwmni Cymdeithas Ddrama Y Coleg Normal, Bangor
Cynhyrchydd: Edwin Williams

*Dedwydd Briodas* (J.B. Priestley) cyf. Mary Lewis o *When We Are Married*
Cwmni Ceredigion Cynhyrchydd: Ithel W. Jones

*'Ran Hwyl* - Rhaglen Nodwedd
Cyflwyniad o ryddiaith a barddoniaeth ysgafn wedi ei ddethol a'i gynhyrchu gan W.H. Roberts

1963 *Ar Ddu a Gwyn* (Huw Lloyd Edwards)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: R.T.D. Williams

*Pethau Brau* cyf. Emyr Edwards o *Glas Menagerie* (Tennessee Williams)
Cwmni Coleg y Brifysgol, Caerdydd Cynhyrchydd: Emyr Edwards

*Tartuffe* cyf. D.J. Thomas o *Tartuffe* (Molière)
Cwmni Ceredigion Cynhyrchydd: Ithel W. Jones

*Tynnu Coes* - Rhaglen Nodwedd
Rhaglen wreiddiol o ryddiaith, barddoniaeth a cherddoriaeth wedi ei llunio a'i chynhyrchu gan Dewi M. Lloyd

1964 *Luther* (John Osborne) cyf. Glyndwr Thomas
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Tecwyn Jones

*Pwy Fasa'n Meddwl* - Rhaglen wreiddiol o ryddiaith, barddoniaeth a cherddoriaeth wedi ei llunio a'i chynhyrchu gan Goronwy Prys Jones

*Y Gofalwr* (Harold Pinter) cyf. Elis Gwyn Jones *The Caretaker*
Cwmni Eifionydd, Theatr Fach, Cricieth Cynhyrchydd: Ellis Gwyn Jones

*Pobl yr Ymylon* (Idwal Jones)
Cwmni Dyserth Cynhyrchydd: Richard A. Roberts

1965 *Y Cythreuliaid* (John Whiting) cyf. D. Tecwyn Lloyd *The Devils*
Cwmni Abertawe Cynhyrchydd: Emyr Jones

*Cariad Creulon* (R. Bryn Williams)
Cwmni Theatr Cymru Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*Fersiwn Browning* (Terence Rattigan) cyf. John Gwilym Jones *The Browning Version*
Cwmni Theatr Eryri Cynhyrchydd: John Gwilym Jones

*Ychydig Wridog Win* - Detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith wedi ei ddewis gan Bedwyr Lewis Jones

1966 *Gwybed* (Tom Parry Jones)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: W.H. Roberts

*Y Môr o Wydr* - Darlleniad dramatig gan Cynan o stori fer Tom Parry Jones o'i gyfrol *Teisennau Berffro*

*Rhwng Difri a Chwarae* - Rhaglen Nodwedd. Detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith wedi ei roi wrth ei gilydd gan Gwyn Thomas a Derwyn M. Jones
Cynhyrchydd: Meirion Edwards

*Y Dyn Dieithr* (Agatha Christie) cyf. Hafina Clwyd *The Unexpected Guest*
Cwmni Cymdeithas Cymry Llundain Cynhyrchydd: Reginald Evans

*Priodas y Tincar* (J.M. Synge) cyf. Gruffydd Parry *The Tinker's Wedding*
Cwmni'r Gegin, Cricieth Cynhyrchydd: Elis Gwyn Jones

*Blanco Posnet* (Bernard Shaw) cyf. Elis Gwyn Jones *The Shewing up of Blanco Posnet*
Cwmni'r Gegin, Cricieth Cynhyrchydd: Elis Gwyn Jones

1967 *Johnnie Myfanwy* (Elmer Harris) cyf. D. Jacob Davies
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Tecwyn Jones

*Môn, Môn i Mi* - Detholiad o ffarddoniaeth a rhyddiaith wedi ei roi wrth ei gilydd gan Bedwyr Lewis Jones Cynhyrchwyr: Myra Jones
W.H. Roberts

*Cymru Fydd* (Saunders Lewis)
Cwmni Theatr Cymu Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

1968 *Gweilch ym Mharadwys* (Kathleen Parry)
Cwmni Drama Meirion Cynhyrchydd: Gwenfron Hughes

*Tŷ Dol* (Ibsen) cyf. Syr Ifor Williams
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Tecwyn Jones

*Tŷ ar y Tywod* (Gwenlyn Parry)
Cwmni Theatr Cymru Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

1969 *Y Ffordd* (T. Rowland Hughes)
Cwmni Theatr Cymru Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*Y Gŵr Llonydd* (John Gwilym Jones)
Cwmni Môn Cynhyrchwyr: Elen Roger Jones
Charles Williams
J.O. Roberts

*Taith y Pererin* (John Bunyan) cyf. Y Parchedig Gwilym Morris
Theatr Bypedau Caerdydd Cynhyrchydd: Jane Phillips

1970 *Y Gofalwr* (Harold Pinter) cyf. Elis Gwyn Jones
Cwmni Theatr Cymru Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*Y Tad a'r Mab* (John Gwilym Jones)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Wenna Williams

*Cloch y Llan* (Tom Richards)
Cwmni Abertawe Cynhyrchydd: Elwyn Williams

1971 Ni chynhaliwyd yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol. Yn hytrach, trefnwyd Gŵyl y Celfyddydau. Daethpwyd â chynnyrch y Pwyllgorau Cerdd, Drama ac Arlunio at ei gilydd am gyfnod o fis. Cynhaliwyd yr Arddangosfeydd yn Amlwch, Caergybi a Biwmares.

1972 *Anterliwt Twm o'r Nant*
Cwmni Theatr Cymru Cynhyrchydd: Wilbert Lloyd Roberts

*I Ba Le yr Af?* (J.R. Evans)
Cwmni Ceredigion Cynhyrchydd: Ithel W. Jones

*Ifan Gruffydd, Y Gŵr o Baradwys* - Rhaglen Nodwedd wedi ei chynllunio gan Bedwyr Lewis Jones a Derec Llwyd Morgan
Cynhyrchydd: W.H. Roberts

1973 Ni chynhaliwyd yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol. Y rheswm a roddwyd oedd y prinder o ddramâu addas (Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwlad Môn, 1973-4 8)

1974 Ni chynhaliwyd yr Wŷl Ddrama Genedlaethol

1975 *Tedi Bêr* (Urien Williams)
Cwmni Pwllheli Cynhyrchydd: H. Pierce Jones

*Tân ar yr Aelwyd* (J.R. Evans)
Cwmni Môn Cynhyrchydd: Audrey Williams

# ATODIAD FF

# GARTHEWIN

Plas ar gyrion Llanfair Talhaearn, Dyffryn Elwy, yw Garthewin, ac fe'i cysylltir yn bennaf â theulu'r Wynniaid. Croniclir hanes Theatr Fach Garthewin gan Hazel Walford Davies yn ei chyfrol *Saunders Lewis a Theatr Garthewin*[1] a chydnabyddir y gyfrol am y wybodaeth a ddefnyddir yma.

Tua Medi 1937 penderfynodd Robert Oliver Francis Wynne addasu ysgubor Garthewin a'i throi yn theatr fach gyda'r bwriad o'i gwneud '... yn gartref i'r ddrama Gymraeg ...'[2] Fe'i hysbrydolwyd i wneud hynny gan Saunders Lewis. Agorwyd ei drysau am y tro cyntaf nos Nadolig, 1937, nid ar gyfer llwyfannu drama ond, yn hytrach, i gynnal offeren i'r teulu a'r gwesteion.

Yn ystod Ionawr, 1938,[3] gwahoddwyd Cwmni'r Chwaraedy Cenedlaethol - cwmni a sefydlwyd yn Llangollen gan yr Arglwydd de Walden yn 1933 ac ar Gyngor yr hwn y gweithredai Saunders Lewis - i lwyfannu'r dramâu cyntaf yn Theatr Fach Garthewin, sef *The Story of Bethlehem*, trosiad T. Gwynn Jones o ddrama Angela Hubbard a Joyce Russell, a drama un act T. Gwynn Jones ei hun, *Y Gainc Olaf.* O gofio ymrwymiad y teulu i'r Eglwys Babyddol doedd dim syndod mai dramâu crefyddol eu naws oeddynt.

Ond byr iawn fu ei chyfnod cyntaf fel theatr. Oherwydd y gwaharddiadau oedd mewn grym rhwng 1939 a 1945, fe'i caewyd, a bu'n rhaid aros hyd ddiwedd yr Ail Ryfel Byd cyn yr ailsefydlwyd Garthewin fel theatr. Am bron i chwarter canrif chwaraeodd Theatr Fach Garthewin ran flaenllaw yn natblygiad y ddrama yng Nghymru. Sefydlwyd Gŵyl Ddrama flynyddol yno ac mae'n bur debyg mai methiant ariannol yr ŵyl honno yn 1968 fu'n gyfrifol, yn y pen draw, am ei chau yn fuan wedyn. Rhan o'r methiant hwnnw oedd y ffaith mai dim ond lle i gynulleidfa fach oedd ynddi, sefyllfa a ystyrid ar y dechrau i fod yn un o'i rhinweddau amlycaf fel theatr.

Er i deulu'r Wynniaid benderfynu rhoi'r plas ar werth yn 1970, diogelwyd y theatr fel adeilad oherwydd:

> ... fod yr ysgubor, yn gyfreithiol, yn rhan o fferm y plas, a oedd erbyn hyn yn eiddo i Menna MacBain. Nid oedd hi am werthu'r ysgubor, gan fod yr adeilad yn dra defnyddiol fel ystordy ar gyfer storio gwellt a harnais ceffylau ...[4]

Yn wir nis gwerthwyd hyd canol y nawdegau, chwarter canrif yn ddiweddarach. Fe'n hatgoffir o'r datblygiadau gan Hazel Walford Davies:

> Er y saif y theatr heddiw [1995] yn union fel y'i cynlluniwyd gan Taig, go brin y bydd y pethau yr un fath am yn hir eto gan fod Garthewin ar werth, a theulu'r Wynniaid yn gorfod gwerthu eu treftadaeth...[5]
>
> Wedi haf 1995 nid oes un sicrwydd y bydd y llwyfan lle y perfformiwyd pedair o ddramâu Saunders Lewis [gyda Morris Jones yn cyfarwyddo] am y tro cyntaf yn dal ar gael, ac nid oes unrhyw sicrwydd chwaith y caiff ymwelwyr gyfle i weld yn adeilad lle y bu un o ddramodwyr pwysig yr ugeinfed ganrif yn ymarfer ei grefft.[6]

Yn fuan wedyn prynwyd y lle gan Mr Michael Grime ac erbyn heddiw, Awst 2006, mae'r perchennog newydd eisoes wedi gorffen atgyweirio rhan helaeth o'r plas ac wedi mynd ati i atgyweirio rhai o'r adeiladau allanol. Yn ystod Awst 2003 ymwelodd yr awdur a'i wraig â Garthewin ddwywaith a chydnabyddir y croeso a estynwyd iddynt gan Mr Grime. Manteisiwyd ar y cyfle i weld yr hen theatr, i dynnu lluniau ac i ddotio at y ddwy stôf wreiddiol. Ond yn bwysicach fyth, cafwyd y fraint o droedio'r llwyfan ac o ddrachtio dipyn o awyrgylch y lle. Diolchir, hefyd, i Mr Grime am ein tywys o gwmpas llawr isaf y plas.

Yn ystod y sgyrsiau, synhwyrwyd fod y perchennog yn hollol ymwybodol o hanes y theatr ac o'i lle blaenllaw yn natblygiad y ddrama a'r diwylliant Cymraeg. Eglurodd fod ganddo gynlluniau positif ynglŷn â'r dyfodol ac efallai, wedi'r cwbl, y caiff ymwelwyr gyfle i weld yr adeilad lle y bu un o ddramodwyr pwysig yr ugeinfed ganrif yn ymarfer ei grefft.

Gan mai hanes Theatr Fach Llangefni yw prif destun y bennod, ni fwriedir ymhelaethu rhyw lawer ar Theatr Fach Garthewin. Ond, oherwydd cyfraniadau dramayddol y ddwy theatr, teimlir y dylid cymharu'r ddau sefydliad.

O ran eu hadeiladwaith a'u defnydd ymarferol o safbwynt ffermio, roeddynt yn debyg iawn. Cyn eu haddasu'n theatrau, ysgubor yng Ngarthewin oedd y naill a stablau ym Mhencraig, Llangefni, oedd y llall. Yn dilyn yr addasiadau, cyfyng oedd y ddau awditoriwm, ond gellir dadlau mai dyna brif rinwedd dramayddol y ddwy theatr yng ngolwg Thomas Taig, cynlluniwr Theatr Fach Garthewin, yn ogystal â Francis George Fisher. Yn ôl Hazel Walford Davies,

> ... [ceisiodd y ddau greu] agosatrwydd rhwng yr actorion a'r gynulleidfa ... [eu bwriad] oedd cynllunio theatr lle y gellid meithrin cynulleidfa arbennig a fyddai, yn ei thro, yn anogaeth i ddramodwyr i berffeithio eu crefft ac i arbrofi.[7]

Gwireddu breuddwydion oedd sefydlu'r ddwy theatr; breuddwydion Robert Wynne a Saunders Lewis yng Ngarthewin, a breuddwyd Francis George Fisher yn Llangefni. Golygai'r ddwy fenter lawer o waith, o ymroddiad a chryn gost. Yng Ngarthewin cyflogwyd Thomas Roberts, adeiladwr o Landdulas, ynghyd â'i labrwr, Dafydd Davies, i ymgymryd â'r gwaith. Yn Llangefni, fodd bynnag, dibynnwyd ar frwdfrydedd a llafur cariad tîm o wirfoddolwyr, tîm a fu'n gweithio yn ystod eu horiau hamdden am wythnosau lawer yn nechrau'r pumdegau. Yn ffodus, yr oedd yn eu mysg ambell arbenigwr, a manteisiwyd yn helaeth ar eu harbenigedd. Daw enw Frank Taylor, trydanwr o ran galwedigaeth, i'r amlwg.

Fel ag y cysylltir enw F.G. Fisher â'r Theatr Fach yn Llangefni, fe hawlia Morris Jones (1906-1986) ei le yn hanes Theatr Fach Garthewin. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd defnyddiwyd Theatr Garthewin unwaith eto fel stordy fferm a buan y diflannodd ei hawyrgylch ddramayddol. Ond, yn 1946, penderfynwyd ei hadfer fel theatr a gwahoddwyd Morris Jones, Hen Golwyn, a oedd ar y pryd yn gyfarwyddwr Cwmni Drama Aelwyd Betws-yn-Rhos.

> ... i ymgymeryd â'r gwaith o adfywio'r theatr drwy drefnu perfformiadau misol gan gwmnïau a fedrai ddenu cynulleidfa leol ... sylweddolodd Morris Jones ei fod wedi cael cyfle o'r diwedd i ddylanwadu ar y ddrama yng Nghymru, gan fod ganddo yng Ngarthewin lwyfan a fedrai ysgogi actorion, cynhyrchwyr ac ysgrifennwyr i dorri tir newydd ...[8]

Yn hyn o beth, gellir cyffelybu gweledigaethau dramayddol Morris Jones yng Ngarthewin a Francis George Fisher yn Llangefni. Roedd y ddau â'u bryd ar dorri tir newydd yn natblygiad y ddrama Gymraeg, ond ymddengys fod cryn wahaniaeth yn eu dulliau o fynd ati i gyflawni hynny.

Yng Ngarthewin, er enghraifft, estynnid gwahoddiad i gwmnïau o'r tu allan i berfformio yno o dro i dro, ond yn Llangefni cyndyn iawn oedd y Gymdeithas Ddrama i estyn croeso i gwmnïau allanol. Yn hytrach, cyfyngwyd holl weithgareddau dramayddol y Gymdeithas Ddrama i'w haelodau.

Ym marn Hazel Walford Davies, mae sylwadau Morris Jones ei hun yn 1965 yn

> ... adlewyrchu [ei geidwadaeth] o ran ei ddewis o ddramâu ar gyfer Chwaraewyr Garthewin ac ar gyfer y cwmni arall y bu'n ei gyfarwyddo am saith mlynedd ar hugain, sef Cwmni Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Llandudno ...[9]

Ac eto, oherwydd amharodrwydd Cymdeithas Ddrama Llangefni i groesawu cwmnïau allanol i ymddangos ar ei llwyfan, gellir dadlau bod hynny, ynddo'i hun, yn adlewyrchu cryn geidwadaeth a chulni ar ran F.G. Fisher a'i bwyllgor. Ond parod iawn fu'r Gymdeithas i dderbyn gwahoddiad i ymddangos yng Ngŵyl Saunders Lewis yng Ngarthewin, nos Wener, 15 Gorffennaf 1966. Gyda F.G. Fisher yn cyfarwyddo, perfformiad Theatr Fach Llangefni o *Siwan* oedd y cyflwyniad olaf o ddrama gan Saunders Lewis yng Ngarthewin. Hyd y gwyddys, does dim tystiolaeth ar gael sy'n cofnodi unrhyw berfformiad gan Chwaraewyr Garthewin ar lwyfan Theatr Fach Llangefni. Yn y cyswllt yma, diddorol yw nodi i F.G. Fisher wrthod derbyn gwahoddiad i ysgrifennu drama ar gyfer Gŵyl Ddrama Garthewin yn 1958. Gyda Theatr Fach Llangefni yn dathlu ei phen-blwydd yn dair oed y flwyddyn honno, efallai bod ei ymateb negyddol i'r gwahoddiad yn adlewyrchu ei natur annibynnol.

O ganlyniad i sefyllfa ariannol Theatr Fach Garthewin yn niwedd y chwedegau, penderfynwyd ffarwelio â'r lle yng ngwanwyn 1969 a symud i Fae Colwyn. Yno, yn eu cartref newydd a chyda Morris Jones yn parhau wrth y llyw hyd ei farwolaeth 6 Mawrth 1986, bu'r '... cyfnod o 1970 ... yn gyfnod prysur a chynhyrchiol iawn yn hanes Chwaraewyr Garthewin ...'[10]

Bu'r cefnu at Theatr Garthewin yn 1969 yn gryn loes i lawer er gwaethaf anaddasrwydd yr adeilad o ran cyfleusterau cefn llwyfan. Fodd bynnag, fe gafodd llwyfan Garthewin y fraint o gynnal yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol flynyddol o Awst 1950 hyd 1968,[11] braint nas cafwyd gan Theatr Fach Llangefni. Ym Môn fe gofir i'r Ŵyl Ddrama Genedlaethol gael

ei sefydlu yn 1954 a'i chynnal yn flynyddol yn Neuadd y Dref hyd 1975. Er i Theatr Fach Llangefni gael ei hagor yn 1955, ni chafodd gyfle, fel Garthewin, i gynnal ei gŵyl ei hun. Serch hynny, ymddangosodd cwmni Cymdeithas Ddrama Llangefni ar lwyfan yr ŵyl genedlaethol fwy nag unwaith.

Yng nghyswllt y gwyliau drama hyn, diddorol yw nodi'r ffaith i'r ddwy ŵyl genedlaethol ddirwyn i ben o fewn blwyddyn i'w gilydd yng nghanol y saithdegau. Gellir dadlau bod hyn yn adlewyrchiad o'r dirywiad mawr a welwyd yn apêl y ddrama fyw yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dyna, felly, rhyw fraslun o gefndir a chyfraniad Theatr Fach Garthewin, a chan fod ei chyfnod euraidd yn ystod y pumdegau a'r chwedegau cynnar yn cydoesi â chyfnod cyffrous y Theatr Fach yn Llangefni, teg yw ceisio cymharu'r ddwy theatr. Efallai mai geiriau Hazel Walford Davies sy'n crisialu'r cyfan:

> Tra oedd John Gwilym Jones ac F.G. Fisher yn llwyfannu gweithiau arbrofol gan Brecht, Pinter a Miller ym Mangor a Llangefni, pur gonfensiynol, ar y cyfan, oedd y dramâu a gâi eu llwyfannu gan Morris Jones.[12]

---

1 Hazel Walford Davies, *Saunders Lewis a Theatr Garthewin* (Gomer 1995).

2 *ibid.*, 28.

3 *ibid.*, 47.

4 *ibid.*, 256.

5 *ibid.*, 41-2.

6 *ibid.*, 42.

7 *ibid.*, 41.

8 *ibid.*, 79.

9 *ibid.*, 238.

10 *ibid.*, 254.

11 Rhwng 1970 a 1974, cynhaliwyd yr ŵyl flynyddol yn Theatr Tywysog Cymru, Bae Colwyn.

12 Davies, *op.cit.*, 238.

# ATODIAD G

Pamffledyn a gyhoeddwyd gan y *Guild* yn 1951.

*an introduction to*




Extract from the Rules of the Guild

"The objects . . . are to promote closer co-operation between the Little Theatres constituting the membership, to act as a co-ordinating and representative body on behalf of the Little Theatres, and generally to maintain and further the highest standards in the art of the theatre as practised by the Little Theatres and to assist in and encourage the establishment of other Litttle Theatres."

## DIRECTORY OF MEMBERS OF THE LITTLE THEATRE GUILD OF GREAT BRITAIN

BOLTON LITTLE THEATRE
Hanover Street, Bolton, Lancs. (Bolton 4469.)
Hon. Secretary: L. W. Crowther.

THE BRADFORD CIVIC PLAYHOUSE
Chapel Street, Leeds Road, Bradford, Yorks. (Bradford 20329.)
Hon. Secretary: W. S. Ormes

THE CRESCENT THEATRE
The Crescent, Birmingham, 1. (MIDland 5858.)
Hon. Director: Norman Leaker, M.B.E.

THE CROMPTON STAGE SOCIETY
The Playhouse, Gordon Street, Shaw, Lancs. (Shaw 7281.)
Hon. Secretary: D. Gwilliam.

THE GREAT HUCKLOW VILLAGE PLAYERS
The Playhouse, Great Hucklow, Derbyshire.
Hon. Director: Dr. L. du Garde Peach, "Foolow," Eyam, via Sheffield. (Tideswell 258.)

HALIFAX THESPIANS
The Playhouse, King Cross Street, Halifax, Yorks. (Halifax 5998 )
Hon. Secretary: Leslie F. T. Hull.

HIGHBURY LITTLE THEATRE
Sheffield Road, Sutton Coldfield, Warwickshire. (ERDington 2761.)
Arts Director: John English.

LEAMINGTON and WARWICK DRAMATIC STUDY CLUB
The Loft Theatre, Victoria Colonnade, Leamington Spa.
Hon. Secretary: L. G. T. Farmer.

LEICESTER DRAMA SOCIETY
The Little Theatre, Dover Street, Leicester. (Leicester 21945.)
Theatre Manager: Fred Julian.

THE MADDERMARKET THEATRE
Norwich (Norwich 26560.)
Director: W. Nugent Monck, O.B.E.

NEWPORT PLAYGOERS SOCIETY
The Little Theatre, Dock Street, Newport, Mon.
Hon. Secretary: V. Cranog Jenkins. (Newport 6120.)

THE PEOPLE'S THEATRE
Rye Hill, Newcastle upon Tyne, 4. (Newcastle 330411.)
Theatre Manager:

THE QUESTORS
The Questors Theatre, Mattock Lane, Ealing, W.5. (EALing 5184.)
Hon. Director: Alfred Emmet.

STOCKPORT GARRICK SOCIETY
Garrick Hall, Wellington Road South, Stockport, Cheshire.
Hon. Secretary: T. Reginald Ellis. (Wilmslow 4204.)

THE UNNAMED SOCIETY
The Whitworth Theatre, Whitworth Art Gallery, Oxford Road, Manchester, 15.
Director: Frank Sladen-Smith, M.A. (Rusholme 1417.)

THE WIGAN LITTLE THEATRE
Crompton Street, Wigan, Lancs. (Wigan 44841.)
Hon. Secretary: Miss F. Price.

Intending visitors should note that in many cases the theatres are not open during the day except by appointment.

MEMBER THEATRES OF THE GUILD are all "independent, self-governing, play-producing organizations, non-commercial in character, which control an established theatre for the presentation of a regular programme of stage plays."

They are in fact amateur theatre groups whose work has developed to the point where to control their own theatre building became an artistic necessity. To want their own theatre—to want it badly enough—was to get it—and each Little Theatre has its own story of "how we got our own theatre." In most cases the present theatre building started its career with quite a different function. Several are converted from chapels. others from warehouses, a cinema, even a lead mine. One or two only were built expressly for use as theatres. In some cases the theatres are owned by the operating group; in other cases they are held on a long lease.

Basically, all these theatres are amateur. In some cases they are under professional or semi-professional direction; sometimes there are paid secretaries, or carpenters, or scene painters, but many have no paid staff at all other than caretakers and cleaners. In all cases the players are non-professional, and usually the workshops, paint-shops, wardrobes, offices, front-of-house and stage teams are substantially manned by volunteer theatre-lovers.

Most of the groups have been working for over 20 years, though their theatres may not have been established as long as that. The "father" of the Guild is The Stockport Garrick Society, which celebrates its fiftieth birthday in this Festival of Britain year. The most recently opened theatre is that of The Halifax Thespians, now in its second year. The size of theatre varies from The Highbury Little Theatre's 108 to Newport's 440; the length of run from one week to three or even longer. Some theatres content themselves with a programme of three or four productions a year; others put on a new show every month.

Each theatre has its own individuality; its own ideas about how a theatre should be run; its own policy. In addition to this, however, membership of the Guild implies that it has in common with its fellow members a serious interest in the theatre and genuine regard for artistic standards.

Member-theatres of the Guild will welcome visitors, from home or overseas, during the Festival period. A note of their programmes will be found overleaf.

THE LITTLE THEATRE GUILD OF GREAT BRITAIN was inaugurated on 18th May, 1946. One of its major functions is the exchange of ideas, information and experiences between member-theatres. Three or four week-end Conferences a year are held at one or other of the member-theatres. Conferences planned during the Festival period are:

On 19th/20th May at The Questors Theatre, Ealing.

On 29th/30th September at The Halifax Thespians Playhouse.

Further information about the Guild may be obtained from The Secretary, The Questors Theatre, Mattock Lane, Ealing, London, W.5. (EALing 5184.)

## Productions during the Festival of Britain by Guild Members

| | | |
|---|---|---|
| **THE BOLTON LITTLE THEATRE** | | |
| The Marvellous History of St. Bernard | Ghéon | May 21st—26th |
| A Midsummer Night's Dream (To be presented in Moss Park) | Shakespeare | June 11th—16th |
| **THE BRADFORD CIVIC PLAYHOUSE** | | |
| The Importance of Being Earnest | Wilde | May 23rd—June 2nd |
| Ever Since Paradise | Priestley | June 13th—23rd |
| The Cocktail Party (if released) | Eliot | July 4th—14th |
| **THE CRESCENT THEATRE, Birmingham** | | |
| Alma Terrace | Leaker | April 11th—May 5th |
| Major Barbara | Shaw | May 26th—June 9th |
| **THE CROMPTON STAGE SOCIETY, Shaw** | | |
| The Circle | Maugham | July 3rd—14th |
| Tess of the D'Urbervilles | Gow | Sept. 18th—29th |
| **THE GREAT HUCKLOW VILLAGE PLAYERS** | | |
| The Town That Would Have a Pageant | Peach | April 23rd—May 12th |
| **THE HALIFAX THESPIANS** | | |
| Lady Audley's Secret | Braddon | May 23rd—June 2nd |
| Play to be decided | | Sept. 20th—30th |
| **THE HIGHBURY LITTLE THEATRE, Sutton Coldfield** | | |
| Home Is Tomorrow | Priestley | April 24th—May 11th |
| Ralph Roister Doister | Udall | June 20th—30th |
| The Play of the Wether | Heywood | June 20th—30th |
| The Lady's Not For Burning | Fry | Sept. 5th—22nd |
| **THE LOFT THEATRE, Leamington Spa** | | |
| Granite | Dane | May 3rd—26th (Thursdays and Saturdays) |
| **Loft Theatre Festival to be presented in Jephson Park** | | |
| THE TALISMAN THEATRE in Prunella | Housman & Barker | Aug. 14th—18th |
| THE HIGHBURY LITTLE THEATRE in The Lady's Not For Burning | Fry | Aug. 28th—Sept. 1st |
| THE CRESCENT THEATRE in Home and Beauty | Maugham | Sept. 11th—15th |
| THE LOFT THEATRE in The Winslow Boy | Rattigan | Sept. 25th—29th |
| **THE LITTLE THEATRE, Leicester** | | |
| The Indifferent Shepherd | Ustinov | May 21st—26th |
| The Apple Cart | Shaw | June 25th—30th |
| Youth At The Helm | Vulpius | July 23rd—28th |
| **THE MADDERMARKET THEATRE, Norwich** | | |
| The Circle | Maugham | May 7th—12th |
| Pericles, Prince of Tyre | Shakespeare | June 18th—30th (alternate nights) |
| The Taming of the Shrew | Shakespeare | June 18th—30th (alternate nights) |
| Captain Carvallo | Cannan | July 23rd—30th |
| **THE LITTLE THEATRE, Newport** | | |
| The Lady's Not For Burning | Fry | June 5th—8th |
| **THE PEOPLE'S THEATRE, Newcastle upon Tyne** | | |
| Vacant Possession | Macken | May 19th—25th |
| Saint Joan | Shaw | June 9th—16th |
| Summer Day's Dream | Priestley | July 7th—14th |
| **THE QUESTORS THEATRE, Ealing** | | |
| Poor Man's Miracle | Hemar | May 5th—19th |
| The Philanderer | Shaw | June 16th—26th |
| The Women Have Their Way | Quintero Bros. | July 14th—24th |
| **STOCKPORT GARRICK SOCIETY** | | |
| No Performances will be given during the Festival period. | | |
| **THE UNNAMED SOCIETY, Manchester** | | |
| The Way of the World | Congreve | June 11th—19th |
| **THE WIGAN LITTLE THEATRE** | | |
| The Old Man of the Mountains | Nicholson | May 16th—26th |
| Candida | Shaw | June 20th—30th |

# ATODIAD H

Casgliad o argraffiadau o Francis George Fisher fel cyfarwyddwr drama.

Dyn cymhleth. Dyn penderfynol iawn a'r theatr yn ei waed. Roedd o wrth ei fodd yn cynllunio ar gyfer perfformiad o'r nodiadau cyntaf am y set, y gwisgoedd, a dewis ei actorion. Roedd o'n mynnu cael ei bobl ei hun, a doedd neb yn gwrthod George!

Yn ystod sesiynau ymarfer, roedd o'n medru bod yn garedig a hwyliog, ond mewn eiliad – os nad oedd yr actorion yn canolbwyntio cant y cant – fe fedrai ffrwydro nes y byddai'r awyr yn goch-las!

Athro mathemateg oedd George Fisher, ond dyn y theatr hyd flaenau ei fysedd. Hyd y cofiaf, doedd ganddo ddim diddordebau eraill; roedd o'n gwbwl unllygeidiog, a'i feddwl yn gyfan gwbl ar fyd y ddrama.

Nid wyf yn gymwys i son am ei gyfraniad fel dramodydd, dim ond awgrymu mai dyn y llygaid, yr olygfa, yn hytrach na dyn y gair oedd George.

Vernon Jones, Llangefni Mai 2004

Dyn cwrtais, dymunol oedd Fisher, ond gwahanol iawn pan yn cynhyrchu drama – llawn brwdfrydedd. Perffeithrwydd oedd y nod, ac os nad oedd yr actorion yn cyrraedd y safon, byddai'n gwylltio'n gacwn, a'r iaith yn lliwgar iawn. Ond mae'n rhaid cyfaddef ei fod yn llwyddo i dynnu'r gorau allan o'r actorion.

Miss Lyn Pierce Jones, Treborth Rhagfyr 2003

Yn ystod yr ymarferion, roedd ganddo ddull unigryw o gynhyrchu ... Mae'n debyg mai'r ffordd symlaf o esbonio'i ddull fyddai dweud mai mathemategydd o gynhyrchydd oedd o. Gweithiai drwy ddull triongl a phob grŵp a symuniad cymeriad wedi ei baratoi ymlaen llaw ganddo. Roedd dull felly yn galluogi i'r cymeriadau symud a chreu grwpiau yn syth wedi'r darlleniad cyntaf. Byddai, hefyd, wedi rhannu'r ddrama yn adrannau a chreu amserlen fel nad oedd gormod o amser i bobl sefyll o gwmpas yn gwneud dim. Yn wir, ymhen blynyddoedd wedyn, byddwn wedi bod wrth fy modd pe bai llawer i gynhyrchydd wedi gwneud yr un peth.

J.O. Roberts, Benllech Rhagfyr 2003

Roedd ganddo weledigaeth lachar. Credaf ei fod yn athrylith, ond mi fedrai fod yn ddeddfol. Cefais y teimlad bod rhai o'r aelodau yn dechrau gwrthdaro ag o.

Fel cyfarwyddwr, roedd yn cynllunio pob symudiad, ond doedd o ddim yn hollol gaeth i'w symudiadau ei hun. Ambell dro, fe wrandawai ar farn eraill o'r cast.

Glyndwr Thomas, Cemais Mehefin 2003

Dyn hoffus iawn. Digon o hiwmor. Roedd yn frwdfrydig dros y ddrama. Rhoddod ei holl amser a'i ynni i'r gwaith, a disgwyliai i bawb arall rannu ei frwdfrydedd bob amser.

Roedd yn medru bod yn wyllt ar adegau, ond cafodd lawer o lwyddiant yn enwedig hefo'i ddramâu ei hun. Cyfathrebwr da. Roedd ei frwdfrydedd yn heintus.

Gwilym Hawes, Marian Glas Tachwedd 2003

# ATODIAD I

Copi o'r tocyn a ddarparwyd ar gyfer perfformiadau o *Mother Courage and Her Children*, ynghyd a chopi o'r nodiadau eglurhaol a ymddangosodd yn y rhaglen.

**CYMDEITHAS DDRAMA LLANGEFNI**
(With the support of the Arts Council of Great Britain)
*Presents the Play*

**"MOTHER COURAGE AND HER CHILDREN"**
by Bertolt Brecht
(Produced by F. G. FISHER)

**in THEATR FACH LLANGEFNI at 7 p.m. on**
**Friday, Saturday, Monday, Tuesday, May 24th—28th, 1963**

THERE WILL BE NO SPEECH. PLAY WILL BEGIN AT 7 PROMPT
NO LATE ADMISSIONS UNTIL END OF FIRST SCENE

There are some dozen songs in this play. We are also trying out cinema projection for the first time. There are no colours in the lights, and a piano plays off-stage before pianos were invented. The play was written in 1939 and gave birth to all the others—"Waiting for Godot", "The Caretaker" etc., but there are forty speaking parts in this one. They are played by Kitty Owen, Modwena Myatt, Vernon Jones, Griffith Jones, Howard Slade, Gwilym Owen, Mair Davies, Dave Williams, Roland Davies, Ewart Goodwin Eric Aldred, David Forcer Evans, Danny Hughes, May Morris, Gwen Bunton, Joan Darrock.

Members may reserve their seats, as usual, by buying a programme at Siop Dicks, High Street, Llangefni, for 2/6. Telephone bookings cannot be accepted. Rules for visitors—see Membership Card.

Bertolt Brecht was born in 1898 at Augsburg, and died in 1956. He wrote five novels, many essays and political pamphlets, a dozen volumes of poetry, and forty-four plays. Of the plays, the best known in this country are "The Caucasian Chalk Circle", "The Good Person of Setzuan", "Saint Joan of the Stockyards", "Galileo" and "Mother Courage and her Children".

It is too soon after Brecht's death to assess the significance of this strange genius, the father of the modern theatre, but a producer may safely say what "Mother Courage" means to him.

Firstly, then, the title itself is ironic. The word "Courage" needs examining.

Secondly, the play is about little people caught up in a steam-rolling conflict between Principalities and Powers sustained only by convenient ideologies and codes of conduct invented for the purpose. We are the little people, scurrying out of the way of the machine, saving ourselves, ensuring our survival as best we can, succeeding sometimes, failing at others, but never a bit courageous even if we do sometimes try to defend our own. Our primitive instinct compels us to do this, not bravery.

And lastly, the play has been written starkly, in black and white; no colours are to be in the lights, the scenes are to be make-shift, gimmicks must be obvious, cinema projection and music should be used. All this in order that the audience may not be bemused by make-believe, but will remain aware that he, Brecht, is talking about them themselves. And telling the honest truth as he sees it. The play was written in 1939, first performed in 1941 in Zurich, and played by the Berliner Ensemble in London, with his wife as Mother Courage, a fortnight after he died.

## ATODIAD J

Rhaglen o'r holl berfformiadau a welwyd ar lwyfan Theatr Fach Llangefni o 3 Mai 1955 hyd fis Rhagfyr 1975. Cynhaliwyd Gŵyl Drama Genedlaethol Cymru yn Llangefni o 1954 hyd 1975. Gan amlaf, fe'i cynhelid yn flynyddol ar lwyfan Neuadd y Dref rhwng diwedd mis Medi a chanol mis Hydref, a thros y blynyddoedd cymerwyd rhan flaenllaw yn yr Ŵyl gan aelodau Cymdeithas Ddrama Llangefni naill ai fel actorion, cyfarwyddwyr neu weithwyr llwyfan. O'r herwydd, os ymddengys ambell fwlch yn y rhaglen yn ystod y misoedd hynny, gellir cymryd yn ganiataol bod holl egni'r Gymdeithas Ddrama wedi ei anelu tuag at lwyddiant yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol.

| Blwyddyn | Mis | Manylion | Cyfarwyddwr |
|---|---|---|---|
| 1955 | Mai 3-6 | Dathlu agor y Theatr<br>*Rwsalca* (tros. Cynan o ddrama Pushkin)<br>*It's Autumn Now* (Philip Johnson) | <br>Tecwyn Jones<br>Margaret Fisher |
| | Gorffennaf 11,13,15,16 | *Michael* (tros. Leslie Harris o waith Miles Malleson)<br>*The Right Person* (Philip Mackie) | Dafydd Davies<br>May Morris |
| | Medi | Yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol yn Llangefni. Cwmni'r Gogledd yn perfformio *Noa* (cyfieithiad F.G. Fisher o waith André Obey) | Edwin Williams |
| | Tachwedd 14-19 | *I Have Been Here Before* (J.B. Priestley) | Margaret Fisher |
| 1956 | Chwefror 6-11 | *Ednyfed Fychan* (Ifan Gruffydd) | Ifan Gruffydd |
| | Mawrth 13-16 | *Dwy Frân Ddu* (tros. J.E. Williams o waith E. Eynon Evans *Wishing Well*) | Edward Williams |
| | Ebrill 17-20 | *Marchogion y Môr* (tros. Jeremiah Jones o waith J.M. Synge, *Riders to the Sea*)<br>*Two Gentlemen of Soho* (A.P. Herbert) | F.G. Fisher<br>May Morris |
| | Mehefin 21 | Noson Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1957 (awyr agored)<br>*Ednyfed Fychan* (drama basiant Ifan Gruffydd) (lle i 900 o bobl – hysbyseb *Clorianydd*, 6 Mehefin 1956) (4 act) | Ifan Gruffydd a F.G. Fisher |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Medi 25-28 | *Y Sêr yn eu Graddau* (Cynan)<br>*Heaven on Earth* (Philip Johnson) | Tecwyn Jones<br>Leslie Hodgkins |
| | Hydref | Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru | |
| | Tachwedd 27-30 | *The Noble Spaniard* (addasiad W. Somerset Maugham o waith y Ffrancwr, Grenet-Dancourt) | May Morris |
| 1957 | Ionawr 22-25 | *Amlyn ac Amig* (Saunders Lewis) | F.G. Fisher |
| | Chwefror 25-28 | *Cabin in the Rockies* (K.G. Giddins)<br>*Divided Councils* (P.S. Preston) | Frank Taylor<br>John Richards |
| | Mai 7-10 | *Capten Harriet* (J.H. Griffiths) | Leslie Hodgkins |
| | Awst 7-10 | *Merch yw Medwsa* (F.G. Fisher) | F.G. Fisher |
| | Hydref 15,16,18 | *The Whole Truth* (Philip Mackie) | Margaret Fisher |
| | Tachwedd 19,20,22 | *Dewis Anorfod* (tros. Magdalen Morgan o *Hobson's Choice*, Harold Brighouse) | Tecwyn Jones |
| 1958 | Ionawr 21,22,24 | *Out of the Frying Pan* (G.I. Roberts)<br>*Tea for Three* (Margery Vasper) | G.I. Roberts<br>Llewelyn Jones |
| | Mawrth 4,6,7 | *Siwan* (Saunders Lewis) | F.G. Fisher |
| | Ebrill 22,23,25 | *The Confidential Clerk* (T.S. Eliot) | Dan Jones |
| | Awst 2,4,5 | 'Dress Rehearsals' *Y Ferch a'r Dewin* (F.G. Fisher) ar gyfer mynd i Glyn Ebwy | F.G. Fisher |
| | Awst 18-30 | The Unnamed Society yn cyflwyno<br>*Zodiac* (Peter Philp)<br>*Lone Eminence* (Gilbert Cestron) | George Nutkins<br>George Nutkins |
| | Tachwedd 25-27 | *Summertime* (tros. Henry Reed o waith yr Eidalwr Ugo Betti) | Margaret Fisher |
| 1959 | Ionawr 13,15,16 | *Y Ddrama Fawr* (Gwilym T. Hughes)<br>*Heledd* (Ken Etheridge) | Glasfryn Evans<br>F.G. Fisher |
| | Mawrth 10-12 | *Y Treble Chance* (Meirion Powell) | Leslie Hodgkins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mai 5,6,8 | *The Shadow of Doubt* (Norman King) | May Morris |
| | Gorffennaf 14-16 | *Ni Lefarodd y Doeth* (tros. Glyndwr Thomas o waith Paul Vincent Carroll) | Hugh Pierce Jones |
| | Hydref 27-29 | *Anyone at Home?* (Caswell Garth) | Gwilym Ll. Roberts |
| | Rhagfyr 7,8,10 | *Y Ferch o Gefn Ydfa* (Bonfyl Davies) | F.G. Fisher |
| 1960 | Chwefror 23-25 | *The Telescope* (R.C. Sherriff) | Margaret Fisher |
| | Ebrill 5,6,8 | *Cwch Heb Bysgotwr* (tros. G.J. Evans o ddrama Alejandro Casona) | Dewi Lloyd |
| | Gorffennaf 5,7,8 | *The Mad Woman of Chaillot* (Jean Giraudoux) | Act 1: F.G. Fisher Act 2: Lyn Oxenford (Llundain) |
| | Wythnos olaf ym Medi | Yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol | |
| | Hydref 11-13 | *The Pohutukawa Tree* (Bruce Mason) | F.G. Fisher |
| | Rhagfyr 14-16 | *John Gabriel Borkman* (tros. Glyndwr Thomas o waith Henrik Ibsen) | Emyr Jones |
| 1961 | Chwefror 7-9 | *The Importance of Being Earnest* (Oscar Wilde) | Dan Jones |
| | Mawrth 21,22,24 | *Ha' Bach* (tros. R.T.D. Williams o *Autumn Fire* gan T.C. Murray) | Ifan Gruffydd |
| | Mai 16-18 | *Castell Martin* (D.T. Davies) | J.O. Roberts |
| | Tachwedd 30 – Rhagfyr 1,2 | *All my Sons* (Arthur Miller) [Ar gyfer ail-agor y Theatr Fach] | Margaret Fisher |
| 1962 | Ionawr 17 | *Gan Hen Gyfaill* (Tom Richards) (darllediad ar y teledu) | F.G. Fisher |
| | Chwefror 14-16 | *Boneddiges y Wawr* (tros. G.J. Evans o ddrama Alejandro Casona) | Rol Davies |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ebrill 4-7 | *Rope* (Patrick Hamilton) | Howard Slade |
| | Mehefin 5-7 | *Wncl Ben* (J.H. Griffiths) | Dewi Lloyd |
| | Hydref 10 | Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru, Llangefni *Y Forforwyn* (tros. o'r Sbaeneg gan G.J. Evans o ddrama Conrado Nalé Roxlo) | F.G. Fisher |
| | Rhagfyr 15,17-19 | *One More River* (Beverley Cross) | J.O. Roberts |
| 1963 | Chwefror 13-16 | *Quality Street* (J.M. Barrie) | Margaret Fisher |
| | Ebrill 29,30 – Mai 1,2 | *Gwyliwch y Paent* (tros. T. Rowland Hughes) | Elen Roger Jones |
| | Mai 24,25,27,28 | *Mother Courage and her Children* (tros. Eric Bentley o ddrama Brecht) | F.G. Fisher |
| | Mehefin (Pedwar penwythnos) | Cwrs Drama ar Gynhyrchu ac Actio – G. Mostyn Lewis o Swydd Lincoln + llwyfannu *The Danger Zone* (Muriel Spark) | |
| | Hydref 7-12 | Cwmni Môn yn perfformio *Ar Ddu a Gwyn* (Huw Ll. Edwards) (Gŵyl Ddrama Genedlaethol, Llangefni) | R.T.D. Williams |
| | Tachwedd 13-16 | *The Remarkable Mr. Pennypacker* (Liam O'Brien) | Joan Darrock |
| | Rhagfyr 10-13 | *Y Gŵr Drwg* (Huw Ll. Edwards) | Vernon Jones |
| 1964 | Chwefror 11-15 | *Candida* (George Bernard Shaw) | Dan Jones |
| | Mawrth 17-21 | *Blodeuwedd* (Saunders Lewis) | F.G. Fisher |
| | Mai 21-23,25,26 | *Little Eyolf* (tros. Una Ellis-Fermor o waith Henrik Ibsen | Joan Darrock |
| | Mehefin 23-26 | *Dau Dylwyth* (Ieuan Griffiths) | Ifan Gruffydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hydref 12-17 | *The Good Person of Szechwan* (Brecht) (tros. John Willett) Ar gyfer Cynhadledd Theatrau Bychain Prydain Fawr (Y noson olaf ar gyfer y cynrychiolwyr yn unig) | F.G. Fisher |
| | Rhagfyr 1-4 | *Dwyn i'r Lan* (tros. o *Haul for the Shore* gan Jean McConnell) | R.T.D. Williams |
| 1965 | Ionawr 26-28, 30 | *Island of the Winds* (Alan Cullen) | Dorothy Simpson |
| | Mawrth 24-27 | *Awel Gref* (cyfaddasiad J.E.Williams o ddrama Emlyn Williams, *The Wind of Heaven*) | Elen Roger Jones |
| | Mai 31 – Mehefin 5 | *The Flashing Stream* (Charles Morgan) | F.G. Fisher |
| | Medi 20-25 | *The Aspern Papers* (Michael Redgrave) | F.G. Fisher |
| | Hydref | Gŵyl Ddrama Genedlaethol *Ychydig Wridog Win* yn y Theatr Fach – detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith – am dair noson – y detholiad wedi ei ddewis gan Bedwyr Lewis Jones – ei ddarllen gan J.O. Roberts, W.H.Roberts, J.L. Williams, Olwen Lewis | |
| | Rhagfyr 8-11 | *Petalau yn y Gwynt* (Rhydderch Jones) | Vernon Jones |
| 1966 | Chwefror 1-5 | *The Rape of the Belt* (Ben W. Levy) | May Morris |
| | Mawrth 14-16,18 | Perfformiadau gan Y Gymdeithas Ddrama Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Bangor:<br>*Pwy Sy'n Iawn?* (tros. J.G. Jones o ddrama Harold Pinter)<br>*Y Tenant Newydd* (tros. Ken Lloyd Jones o waith Ionesco) | <br><br>J.G. Jones<br><br>J.G. Jones/K.Ll.J |
| | Mawrth 30,31 - Ebrill 1,2 | *Gwreiddiau* (tros. Huw Davies o'r ddrama *Roots*) | Tecwyn Jones |
| | Ebrill 22 | Ymweliad Cwmni Theatr Cymru â'r Theatr Fach:<br>*Saer Doliau* (Gwenlyn Parry) | <br><br>W. Lloyd Roberts |
| | Mai 24-28 | *The Magistrate* (Arthur Pinero) | Joan Darrock |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gorffennaf 11-14 | *Siwan* (Saunders Lewis) (cyn mynd i Garthewin ar nos Wener, Gorffennaf 15) | F.G. Fisher |
| | Medi 27 – Hydref 1 | *A Letter from the General* (Maurice McLoughlin) | May Morris |
| | Tachwedd 29 – Rhagfyr 2 | *Twyllo Modryb Angelina* (Meirion Powell)<br>(Cwmni L. Hodgkins o Dwyran) | Leslie Hodgkins |
| 1967 | Chwefror 27 (am wythnos) | *A Penny for a Song* (John Whiting) | F.G. Fisher |
| | Ebrill 18-21 | *Pryd o Ddail* (J.D. Miller) | Elen Roger Jones |
| | Medi 1,2 | The Unnamed Society yn cyflwyno *The Dragon's Mouth* (J.B. Priestley a Jacquetta Hawkes) | George Nutkins |
| | Medi 30 | (1) Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru (noson agoriadol yr Ŵyl) yn yr Ysgol Gyfun:<br>*Johnny Myfanwy* (tros. Jacob Davies o'r ddrama *Johnny Belinda* gan Elmer Harris)<br>(2) Rhaglen Nodwedd gan Bedwyr Lewis Jones yn y Theatr Fach | Tecwyn Jones |
| | Tachwedd 13 (am wythnos) | *A View from the Bridge* (Arthur Miller) | F.G. Fisher |
| 1968 | Chwefror 14-17 | *Tros y Ffordd* (Gruffydd Parry) | Tecwyn Jones |
| | Ebrill 1-6 | *Hotel Paradiso* (gan Georges Feydean a Maurice Desvallieres) | May Morris |
| | Mai 22-25 | *Adar Brithion* (Guy Paxton ac Edward Hoile) | Elen Roger Jones |
| | Gorffennaf 9-13 | *The Wrong side of the Park* (John Mortimer) | Joan Darrock |
| | Hydref 5,7-10,12 | Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru. Yn y Theatr Fach, perfformiwyd *Tŷ Dol* (cyf. Syr Ifor Williams o ddrama Ibsen) gan Gwmni Môn | Tecwyn Jones |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Tachwedd 18-23 | *The Summer of the Seventeenth Doll* (Ray Lawler) | Gwenda Goodall |
| 1969 | Chwefror 11-15 | *Tywydd Mawr* (Gwynfor) | Albert Owen |
| | Mawrth 25-29 | *Trial and Error* (Kenneth Horne) | Joan Darrock |
| | Mai 19-24 | *Y Claf Diglefyd* (J.B. Moliere) (tros. Bruce Griffiths a Gwenllian Tudur) | Hazel Eames |
| | Gorffennaf | *The Queen and the Welshman* | May Morris |
| | Hydref | Gŵyl Ddrama Genedlaethol Cymru – cyfraniad y Theatr Fach *Y Gŵr Llonydd* (John Gwilym Jones) | Elen Roger Jones |
| | Hydref 30 – Tachwedd 1 | *Y Fangre Lle'r Ydym* (lleisiau o orffennol Cymru wedi eu hel ynghyd gan Enid Morgan) | Enid Morgan |
| | Tachwedd | *Dangerous Corner* (J.B. Priestley) | Gwenda Goodall |
| 1970 | Chwefror 3-7 | *Rhwng Dydd a Nos* (F.G. Fisher) | F.G. Fisher, ond Hazel Eames wedi cymryd drosodd |
| | Ebrill 20-25 | *Arms and the Man* (G.B. Shaw) | May Morris |
| | Mehefin 16-20 | *Eh!* (Henry Livings) | Joan Darrock |
| | Hydref 12-17 | Dwy ddrama fer<br>*The Dock Brief* (John Mortimer)<br>*Black Comedy* (Peter Shaffer) | <br>Hazel Eames<br>Hazel Eames |
| | Rhagfyr 8-12 | *Y Corn* (J.E. Williams) | Albert Owen |
| | Rhagfyr 19-22 | *Little Women* (Theatr Ieuenctid Môn) | |
| 1971 | Chwefror 9-13 | *The Planets* (Frank Taylor) | Frank Taylor |
| | Mawrth 22-27 | *Gwylan* (Anton Checkov) (tros. W. Gareth Jones) | W. Gareth Jones |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ebrill 3,5,6 | Theatr Ieuenctid Môn (Cadeirydd Hazel Eames)<br>*Congrinero'r Gorllewin* (J.M. Synge tros. Gruffydd Parry o *The Playboy of the Western World)* | Hulena Eryri Jones<br>Joan Macready<br>Tecwyn Jones |
| | Mai 17-22 | *Gaslight* (Patrick Hamilton) | May Morris |
| | Mehefin 29 – Gorffennaf 3 | *Cyfyng Gyngor* (Huw Lloyd Edwards) | Gwyn Jones |
| | Hydref 7-9 | *Ychydig Wridog Win* – detholiad o Farddoniaeth a Rhyddiaith gan Bedwyr Lewis Jones<br>+ Rhan 1 *Yr Arth* (Chekhov) | Vernon Jones<br><br>Hulena Eryri Jones |
| | Tachwedd 6 | Cyflwyniad o waith Dylan Thomas gan ei ferch Arronwy Thomas ac Howard Gregory | |
| | Tachwedd 29 – Rhagfyr 4 | *Juno and the Paycock* (Sean O'Casey) | Eric Roberts |
| | Rhagfyr 17,18,20,21 | Theatr Ieuenctid Môn<br>*Maria Marten* (wedi ei moderneiddio gan Brian J. Burton) | Sam McCready |
| 1972 | Chwefror 8-12 | *Gwalia Bach* (W.S. Jones) | Tecwyn Jones |
| | Mawrth 13-18 | *The Fire Raisers* (tros. gan Michael Bullock o ddrama Max Frisch) | Kathleen Morgan |
| | Mai 8-12 | *Yr Anfarwol Ifan Harris* (Idwal Jones) | Elen Roger Jones |
| | Mehefin 19-24 | *Look After Lulu* (addasiad Noel Coward o ddrama G. Feydeau) | May Morris |
| | Hydref | *Antigone* (addasiad Jean Anouilh o drasiedi Roegaidd)<br>*The Anniversary* (ffars Checkhov)<br>Dathlu agor Ystafell George Fisher | Hazel Eames<br><br>Michael Haines |
| | Rhagfyr 5-9 | *Y Treble Chance* (ffars gan Meirion Powell) | Albert Owen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1973 | Chwefror 5-10 | *The Servant of Two Masters* (Carlo Goldoni) (tros. gan Edward J. Dent) | Gillian Whitehouse |
| | Mawrth 20-24 | *Montserrat*<br>(Drama Sbaeneg gan Emmanuel Robles wedi ei haddasu i'r Gymraeg gan Meredith Edwards) | Hazel Eames (gyda chymorth Meredith Edwards) |
| | Mai 7-12 | *The Chalk Garden* (Enid Bagnold) | Margaret Fisher |
| | Mehefin 12-16 | *Pros Kairon* (Huw Lloyd Edwards) | J.O. Roberts |
| | Hydref 22-27 | *Siwan*<br>(tros. i'r Saesneg gan Emyr Humphreys) | Hazel Eames |
| | Rhagfyr 4-8 | *Gwanwyn a Gwin*<br>(tros. T. Ceiriog Williams o *Spring and Port Wine* gan Bill Naughton) | David Parry |
| 1974 | Chwefror 4-9 | *The Shifting Heart* (Richard Beynon) | Hulena Eryri Jones |
| | Mawrth | Yma ac Acw Hefo Wil Sam<br>Rhan Gyntaf: *Y Fainc* (drama 1 act)<br>Ail Ran: *Straeon* (esiamplau o'i storïau byr)<br>Trydydd Ran: *Y Wraig* (drama 1 act) | Tecwyn Jones |
| | Mai 6-11 | *The Noble Spaniard* (Somerset Maugham) | May Morris |
| | Mehefin 18-22 | *Dan Flodau'r Gastanwydden* (W.R. Lewis) | W.R. Lewis |
| | Hydref | Agor Tymor 1974/75 gyda thair drama fer gan Edgar Jones: *Dry Rot*<br>*Rhad Fel Baw*<br>*Llwch i'r Llwch* | Audrey Williams |
| | Rhagfyr | *The Visit*<br>(Friedrich Dürrenmatt – o'r Swisdir) | J.O. Roberts |
| 1975 | Chwefror 11-15 | *Dedwydd Briodas*<br>(tros. Mary Lewis o gomedi J.B. Priestley, *When we are Married*) | Glyn Williams |
| | Mawrth 17-22 | *Passing of the Third Floor Back*<br>(Jerome K. Jerome) | Len Morgan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mai 6-10 | *Y Ddau Bren*<br>(gwaith y Prifardd Tom Parry Jones) | Elen Roger Jones |
| | Mehefin 16-21 | *How the Other Half Loves*<br>(Alan Ayckbourn) | Beryl Fogg |
| | Hydref 20-25 | *You Never Can Tell* (G.B. Shaw) | Margaret Fisher |
| | Rhagfyr 2-6 | *Mi Fynnaf Gael Fy Nyn* (tros. Trefor Williams o ddrama ffars Philip King) | Albert Owen |

# LLYFRYDDIAETH

(a) *Ffynhonellau llawysgrifol*

Archifdy Rhanbarthol Llangefni

Papurau Cyngor Gwlad Môn (WDAAN)
Papurau Theatr Fach Llangefni (WDAU)
Cofnodion Cyngor Dosbarth Dinesig Llangefni (WBE)
Cofrestrau Plwyfi (WPE)
Cofnodion Pwyllgor Addysg Môn (WA)

Medrwn Môn, Llangefni

Llyfrau Cofnodion Undeb Neuaddau Pentrefol a Chymdeithasol Môn
Llyfrau Cofnodion Cyngor Gwlad Môn

(b) *Papurau Newydd a Chyfnodolion*

*Y Clorianydd*
*Y Cymro*
*Yr Herald Cymraeg a'r Genedl / Herald Môn*
*The Caernarvon and Denbigh Herald*
*The Holyhead and Anglesey Mail*
*The Liverpool Daily Post*
*The Liverpool Echo*
*The North Wales Chronicle*
*The North Wales Weekly News*
*The Times*
Papurau Bro Môn: *Y Rhwyd; Papur Menai; Y Glorian; Yr Arwydd*
*Y Drysorfa*
*Y Gwyliedydd*
*Y Gymraes*
*Y Llusern*
*Y Tyst*
*Y Rhedegydd*
*Baner ac Amserau Cymru*
*The Welsh Outlook*

(c) *Llyfrau*

Kirsten Shepherd-Barr, *Ibsen and Early Modernist Theatre, 1890-1900* (Westport, CT., 1997).

Harold Bloom (ed.), *Modern Critical Views: Henrik Ibsen* (Philadelphia, 1999).

Geraint Bowen (gol.), *Atlas Meirionnydd* (Y Bala, 1975).

Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul, 1970).

Pwyllgor Addysg Ceredigion, *Dramâu Cymraeg Un Act* (Aberystwyth, 1955).

Pwyllgor Addysg Ceredigion, *Dramâu Cymraeg Hir* (Aberystwyth, 1957).

Hazel Walford Davies, *Saunders Lewis a Theatr Garthewin* (Llandysul, 1995)

Hazel Walford Davies, (gol.), *Llwyfannau Lleol* (Llandysul, 2000).

Syr J E Lloyd, R.T. Jenkins, Syr W. Ll. Davies (gol.), *Y Bywgraffiadur Cymraeg Hyd 1940* (Llundain, 1953).

T.M. Bassett, B.L. Davies (gol.), *Atlas Sir Gaernarfon* (Dinbych, 1977).

Thomas H. Dickinson, *The Contemporary Drama of England* (London, 1920).

Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen* (Llandysul, 1998).

Arthur J. Evans, *Tu Hwnt i'r Llenni* (Llangefni, 1983).

Elsbeth Evans, *Y Ddrama yng Nghymru* (Lerpwl, 1947).

Phyllis Hartnoll, Peter Found (ed.), *Oxford Concise Companion to the Theatre* (Oxford, 1996).

O.G. Brockett, R.R. Findlay, *Century of Innovation* (New Jersey, 1973).

W.J. Griffith, *Storïau'r Henllys Fawr* (Aberystwyth, 1954).

Bernard Grun, *The Timetables of History* (London, 1975).

R.R. Hughes, *John Williams, Brynsiencyn* (Caernarfon, 1929)

T.A. Hughes, *"Tamaid i'w brofi" o "lwch mân Llan'achmedd"* (Llangefni, 2002).

T. Rowland Hughes, *Cân neu Ddwy* (Dinbych, 1959).

D.T. Lloyd, G.R. Hughes (gol.), *Saunders Lewis* (Abertawe, 1975).

Rodney Hughes, *Cymeriadau Gogledd Cymru* (Llangefni, 1995).

Dafydd Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* (Aberystwyth, 1992).

Christopher Innes, *Modern British Drama 1890-1990* (Cambridge, 1992).
Gwyn Jenkins (gol.), *Llyfr y Ganrif* (Talybont, 1999).

Brian Johnston, *Text and Supertext in Ibsen's Drama* (London, 1989).

Llewelyn Jones, *Francis George Fisher: Bardd a Dramodwr* (Caernarfon, 1983).

Bryner Jones, *Agor Cwys: Hanes Coleg Pencraig* (Llangefni, 1999).

Sally Ledger, *Henrik Ibsen* (Plymouth, 1999).

W.G. Lewis (gol.), *Bro a Bywyd T. Rowland Hughes 1903-1949* (Caernarfon, 1990).

W.R. Lewis, *John Gwilym Jones* (Cardiff, 1994).

J.H. Martin (ed.), *Ministers and Probationers of the Methodist Church* (London, 1957).

K.M. May, *Ibsen and Shaw* (London, 1985).

Jan McDonald, *The 'New Drama' 1900-1914* (London, 1986).

James McFarlane, *Henrik Ibsen* (Harmondsworth, 1970).

T. Parry, M. Morgan (gol), *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1976)

N. Jacobs, Prudence Ohlsen, *Bertolt Brecht in Britain* (London, 1977).

O.Ll. Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1943* (Lerpwl, 1948).

William Owen, *Y Llanc Nad Yw Mwy* (Llanrwst, 1991).

William Owen (gol.), *Llew Llwydiarth* (Llanrwst, 1997)

Hugh Owen (gol.), *Braslun o Hanes M.C. Môn 1880-1935* (Lerpwl, 1937).

Harri Parri, William Owen (gol.), *Sôn Dynion Amdanynt* (Dinbych, 1975).

John Owen, *Cofiant Daniel Owen* (Wrecsam, 1899).

*Hanes yr Achos ym Mhenygarnedd 1782-1976* ( Preifat, Llangefni, 1976).

Harri Parri, *Elen Roger: Portread* (Caernarfon, 2000).

Thomas, Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1945).

E.D. Jones, B.F. Roberts, *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970* (Llundain, 1997).

Melville Richards (gol.), *Atlas Môn* (Dinbych, 1972).

Glyn Jones, John Rowlands, *Profiles* (Llandysul, 1980).

Eryl Wyn Rowlands, *O Lwyfan i Lwyfan* (Caernarfon, 1999).

Eryl Wyn Rowlands, *Y Llew oedd ar y Llwyfan* (Caernarfon, 2001).

Eryl Wyn Rowlands, *Mirain Foreia* (Preifat, Llangefni, 1997).

Dilys W. Shaw, *Theatr Fach Llangefni* (Preifat, Llangefni, 1983).

Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997).

Dylan Thomas, *Under Milk Wood* (London, 1957).

A.R. Jones, Gwyn Thomas, (ed.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1983).

John Willett, *The Theatre of Bertolt Brecht* (London, 1959).

O.A. Williams, *Helynt a Heulwen: Hanes Cwmni Drama Llangefni 1929-1949* (Caernarfon, 2000).

H. Llewelyn Williams (gol.), *Braslun o Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Môn 1935-1970* (Dinbych, 1977).

J. Ellis Williams, *Tri Dramaydd Cyfoes* (Dinbych, 1961).

D.D. Williams, *Hanes Dirwest yng Ngwynedd* (Lerpwl, 1921).

J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXI* (Dinbych, 1996).

J.R. Williams, *Deugain Mlynedd o Droedio'r Byrddau* (Preifat, Llangefni, 1995).

T.J. Williams, *Hanes y Ddrama Gymreig* (Bangor, 1915).

J.L. Wisenthal (ed.), *Shaw and Ibsen* (Toronto, 1979).

(ch) *Erthyglau*

Bedwyr Lewis Jones, 'Llangefni a'r Ddrama', *Yr Arloeswr*, Rhif 2, Calan 1958, 45-47.

Cynan, 'Atgyfodi Twm o'r Nant', *Llwyfan 1*, Haf 1968, 31-33.

D. Tecwyn Lloyd, 'Gwir gychwyn y busnes drama 'ma ...', *Llwyfan 8*, Gwanwyn/Haf 1973, 5-8.

Dafydd Glyn Jones, 'Saunders Lewis a thraddodiad y ddrama Gymraeg', *Llwyfan 9*, Gaeaf 1973, 1-12.

Dyfnallt, 'Mudiad y Ddrama yng Nghymru', *Y Llwyfan*, Cyf. 1, Rhif 3, Ebrill/Mai 1928, 29-31.

Dolbadarn, 'Dyfodol y Ddrama yng Nghymru', *Cymru*, Cyf. LXIV, Ebrill 1923, 139-140.

Beriah Gwynfe Evans, 'Welsh National Drama', *Wales*, Vol. VI, March/August 1914, 97-101.

J.O. Francis, 'The New Welsh Drama', *Wales*, Vol. V , Nov. 1913-Feb. 1914, 6-8.

Bedwyr Lewis Jones, 'F.G. Fisher, 1909-70', *Taliesin*, Cyf. 20, Awst 1970, 123-125.

Dafydd Glyn Jones, 'Dwy Bennod o Hanes y Ddrama', *Taliesin*, Cyf. 114, Gwanwyn 2002, 126-132.

L.J. Roberts, 'My Impressions of the Caernarvon Eisteddfod', *The Welsh Outlook,* Vol. VIII, 1921, 227-229.

F.G. Fisher, 'Sais a Ddysgodd Gymraeg', *Môn*, Cyf. 1, Rhif 4, Hydref 1950, 13-14.

Alun Llewelyn Williams, 'Addysg Ddramodol yn Dwyn Ffrwyth', *Môn*, Cyf. 1, Rhif 4, Hydref 1950, 12.

E.O. Humphreys, 'Chwyldro yn Addysg Môn', *Môn*, Cyf. 11, Rhif 1, Awst 1957, 5-6.

Percy Ogwen Jones, 'Teyrnged i E.O. Humphreys', *Môn*, Cyf. 11, Rhif 4, Haf 1960, 7-8.

(d) *Traethodau ymchwil*

O. Arthur Williams, 'Anglesey: Towards Comprehensive Education 1926-1953' (Traethawd M.Add., Prifysgol Cymru [Bangor], 1985).

(e) *Tystiolaeth lafar (Cyfweliadau)*

| | |
|---|---|
| Emyr Jones, Caernarfon | Hydref 2001<br>Tachwedd 2001<br>Ionawr 2002. |
| Miss Mair Jones (Mair Mathafarn), Brynteg | Tachwedd 2001. |
| Glyn ac Olwen Owen, Llannerch-y-medd | Ionawr 2002 (3)<br>Chwefror 2002. |
| Mr a Mrs Albert Owen, Llannerch-y-medd | Ionawr 2002 (2)<br>Mawrth 2002. |
| Owen Parry, Llangefni | Ionawr 2002<br>Mawrth 2002. |
| J.O. Jones, Porthaethwy | Ionawr 2002. |
| Tony ac Audrey Jones, Llangefni | Mawrth 2002. |
| J.O. Roberts, Benllech | Rhagfyr 2003. |
| Glyndwr Thomas, Cemais | Mehefin 2003. |
| Gwilym Hawes, Marian-glas | Hydref 2003. |
| Vernon Jones, Llangefni | Mai 2004. |

| | |
|---|---|
| Michael Grime, Garthewin | Dau ymweliad Haf 2003. |
| Miss Lynn Pierce Jones, Treborth | Tachwedd 2003. |
| Mr a Mrs Eric Aldred, Llangefni<br>Mrs Ann Davies, Llangefni<br>Mrs Lesley Honnor, Biwmares | Tachwedd 2004. |
| Allan Williams, Caergybi | Medi 2004. |
| Mrs Myrrah Stanford Smith, Trefor, Môn | Awst 2004. |
| Mr a Mrs Roger Handy, Biwmares | Medi 2004. |

(f) *Ymatebion ysgrifenedig i amrywiol holiaduron a llythyrau*

Mr a Mrs Roger Handy, Biwmares
Gwilym Hawes, Marian-glas
William Evans, Llangefni
Dafydd Islwyn Hughes, Bargoed
Mrs Myfanwy Jarman, Caerdydd
Emyr Jones, Caernarfon
Mr a Mrs Tony Jones, Llangefni
Vernon Jones, Llangefni
Miss Lynn Pierce Jones, Treborth
Parch. a Mrs Evan J. Jones, Llandudno
Miss Mair Jones (Mair Mathafarn), Brynteg
Mrs Megan Lloyd, Mynydd Llwydiarth
Mr a Mrs Albert Owen, Llannerch-y-medd
Mr a Mrs Glyn Owen, Llannerch-y-medd
Owen Parry, Llangefni
Len Roberts, Bae Treaddur
J.O. Roberts, Benllech
Eryl Wyn Rowlands, Caerdydd